HOLL

DDLED-SWYDD DYN,

Gwedi ei gosod ar lawr
Mewn ffordd hynod ag Eglur Defnyddiol i bawb, ond yn Enwedig i'r Darllennydd mwyaf Annyscedig.
Gwedi ei Dosparthu i XVII. o Bennodau;
Y rhai, trwy ddarllen ûn o honynt bob Dydd yr Arglwydd, a ddarllennir i gyd trostynt deir-gwaith yn y Flwyddyn.

Angenrheidiol i bob Teuluoedd.

Ynghyd a
DWYWOLDER NEILLDUOL ar amryw ACHOSION.

A Gyfiaithwyd yn Gymro-aeg gan *Jo. Langford*, A M.

Yr ail Agraffiad ar ôl manwl Chwiliad a deleâd Beiau'r Cyntaf.

Hyd yn hyn yr hen Iaith.

Argraffwyd yn *Llundain*, gan Edm. Powell, yn *Black Fryers*, yn agos i *Ludgate*. M.DCCXI.

238. Welsh Prayer-Book. Holl Ddled-Swydd Dyns yn Cymro-aeg gan Langford; Dwywolder Neilldiol ar amyw Achasion, yn gystal Cyffredinol ag Anghyffredinol 2 vols. in 1. 8vo. calf rare. 15s 1711

BRITISH MUSEUM

Mr. GARTHWAIT,

NI buaſei raid i chwi wrth Gyfryngiaid yn y byd i oſod y gwaith hwn arna'i yr hwn a ddygodd ei Wahoddiad a'i wobr gyda'g ef. Mi a ddarllennais yn ewyllyſgar iawn yr holl Bappyrau droſtynt, yn gyſtal y *Traethawd*, a'r *Deſoſiwnau* a gyſſylltwyd wrtho, ag a welaf achos mawr i fendithio Duw am bòb ûn o'r ddau, gan nad ŵyf yn canfod dim yn ddiffygiol mewn un rhan o honynt i'w gwneuthur trwy fendith a nawdd Duw yn gwbl-ddigonol a chymwys i'r diben mawr yr amcanwyd hwynt, ſef, i fod yn gymmorth yſprydol, ag yn fanteifiol i bawb a'i harfero hwynt. Y Peth a grynhóir ynddynt yw yn wîr (fal y mae'r Titl yn hyſpyſu) *Holl Ddled-ſwydd Dyn*, gwedi ei goſod ar lawr yn ei holl Rannau, a'r cyfryw gyfaddaſrwydd o grynodeb a Doſparthiadau, i wahodd, i hyfforddi, ag i annog y Darllenydd, ag a'r cyfryw Reſymmau pwyſfawr Yſprydol, lle y bydd yn ddâ gan y rhai mwyaf dyſcedig gael ei cynnorthwyo, a'i fód ef i'm tŷb i gwedi ei gyfaddaſu yn gymmhedrol at bób math o Ddarllenydd, a chwennycho yn ddifrifol iddo'i hûn leſhâad preſennol neu i ddyfod. Nid yw 'r rhan *Ddeſoſionawl* yn y cynghlo ddim yn fyrr i'r llall, yr hwn ſydd yn gymmorth cymwys i wendid pôb rhyw ddyn, ag yn cyrrhaedd yn neillduol at ein holl achoſion arbennig ni; y mae'r *Dygiad i mewn* yn gwaſanaethu yn lle *Rhag-ymadrodd* yr hwn yr ydych chwi yn chwennych ei gael o'm llaw i; ag heb adael mo'r

llè i mi i adroddi dim ychwaneg na'm Gweddiau at Dduw, *Na bò i'r Awdwr, yr hwn a gymmerodd boen i ddwyn Eluſen mor hael i'r* Corban mor ddirgel, *fethu cael ei obrwyo yn* amlwg, *yng allu a bùdd gweledig y Gwaith hwn ar gàlonnau yr holl Genhedlaeth hon, yr hon ni bu arni eriod fwy o eiſieu'r cyfryw gynnorthwyau ag a oſodir ymma ar lawr nag yr awrhon.* Ar fod i'w gwbl-ddigonol Râs ef fendithio'r hâd a hauwyd, a rhoddi cynnydd helaeth, yw ufudd erfyniad.

Mawrth 7. 1657. *Eich Car-wr di-ffuant,*

H. HAMMOND.

Y RHAG-

Y RHAG-YMADRODD

I'r Traethawd ſy'n canlyn; yn dangos mor angenrheidiol yw gofalu am yr Enaid.

1. UNIG ſwriad y *Traethawd* ſy 'n canlyn yw, i ſod yn *Gyfarwyddiad* byrr ag *Eglur* i'r *Darllennudd gwaelaf*, pa ſodd i w ymddwyn ei hûn felly yn y bŷd hwn, fal y byddo ddedwydd yn dragywydd yn y bŷd a ddaw. Ond oblegid mai ofer yw dywedyd i ddynion ei Dled-ſwydd nes ei dwyn hwynt ar ddeall mor angenrheidiol yw ei chwplhau hi, cyn i mi ſyned ymlaen at y Pethau *Neilduol* a oſynnir gan bôb rhyw Griſtion, mi a wnâf fy ngoreu er ei hannog nhw i ymarfer un *Ddled-ſwydd* gyffredinol *rhag-barattôus* i'r lleill oll, ſef, i ddyfal-yſtyried ag i *ofalu* am ei *Heneidiau*, heb ba ûn ni thybiant ſod y llall yn perthyn fawr iddynt.

2. *Dŷn*, ni a wyddom, a wnaethpwyd o ddwy Ran, *CORPH* ag *ENAID*: y Corph nid yw ond cibyn neu fliſgyn yr Enaid, dernyn o gnawd, daroſtyngedig i amryw ddoluriau a phoenau yn y bŷd hwn, ag o'r diwedd i *Angeu*; ag yna mae ef cymmhelled o fôd yn haeddu Parch, nad ellir mo'i oddef uwch daiar, eithr fe 'i dodir i bydru yn y Pridd. Etto am y rhan waelaf ymma o honom yr ydym ni yn gofalu ſwyaf; ein hôll lafur a'n lludded ni yw i gynnal hwnnw i ſynu. Ond y rhan oreu, ſef yr *Enaid*, ni feddylir ag ni ofelir fawr am dani hi yn y cyfamſer, eithr fal ped fae yn beth ni pherthynei i ni, hi a eſgeuluſir yn hollawl gennym.

3. Y

3. Y *Diofalwch* ymma am yr *Enaid* yw gwreiddyn pob pechod yr ŷm ni yn euog o hono, ag am hynny pwy bynnag ſy'n bwriadu ymoſod ar ſuchedd Griſtianogawl, rhaid iddo yn gyntaf ddiwygio hynny, i wneuthur yr hyn beth nid rhaid wrth ddyſgeidiaeth ddofn, mae gan y gwirionaf o ddŷn (oddigaeth ei fôd ef yn *ffol anianol*) wybodaeth ddigon i hynny, os gwnâ ond yn ôl yr unrhyw *Reolau* o *Reſwm* cyffredinol, ag yr arfera yn ei negeſeuau bydol. Mi a oſodaf gan hynny yr awrhon ar fyr i lawr rai o'r *Annogaethau* hynny, y rhai ſydd arferol o gyffrôi ein gofal ni mewn pethau oddi-allan, ag yna mi a'i cyſaddaſaf nhw at yr Enaid.

4. *PEDWAR* peth yn enwedig ſydd arferol o gyffrhôi ein gofal ni; yn *gyntaf*, *gwerthfawrogrwydd* y Peth y bôm yn gofalu am dano; yn *ail*, y Cyfleuſdra o hono i ni, pan allom ymadel ag ef heb niwed neu golled ddirfawr; yn *drydydd*, y *Perigl* mawr o hono; ag yn *Bedwerydd*, y *Cyffelybrwydd* na ſydd ein gofal yn oſer, ond y ceidw ef y peth y bôm yn gofalu am dano.

Pris yr Enaid. 5. Am y Cyntaf, ni a wyddom fod ein gofal ni am ryw beth bydol yn gyſtrebol i'w *Bris* ef; y peth ſydd fwyaf gwerthfawr, yr ydym ni yn fwyaf gofalus i'w gadw, yn fwyaf ofnus o'i golli; nid oes neb yn clôi i fynu domm yn ei gîſt, ond ei arian, new ryw bêth y bô yn ei gyfrif yn werthfawr. Yn awrhon, yn yr yſtyriaeth ymma, fe haedda'r Enaid fwy o ofal am dani, na'r holl bethau yn y bŷd heb law hynny, oblegid ei bôd hi yn fwy gwerthfawr o anfeidrol. Yn gyntaf, o herwydd ei bôd wedi ei gwneuthur ar ôl Delw Dduw. *Duw a anadlodd i ddŷn yr anadl âywyd* hwn, *Gen.* 2. 7. Yr awrhon, gan fod Duw o fwyaf godidowgrwydd, pe tebyccaf y bô rhyw beth iddo ef, gwerthfawrocca-gwbl ydyw. Ond yn ddiammeu, nid oes un Creadur ar y ddaiar yn debyg i *Dduw*, ond *Enaid* dŷn; ag am hynny nid oes dim a haedda gymmaint o'n gofal ni. Yn *ail*, ni bydd yr *Enaid* marw byth. Yr ŷm ni arferol o roi brî ar bethau yn ol ei

parhâad:

Parhâad; y peth mwyaf parhâus ſydd fwyaf gwerthfawr: Yn awr, y mae'r Enaid yn beth a bery bŷth; pan ſo Golud, Tegwch, cryſder, iê, a'n cyrph ei hunain yn pallu, y mae'r Enaid etto yn parhau. Gan hynny oblegid hyn hefyd y mae'r Enaid yn fwyaf gwerthfawr; ag yna pa ryw gynddaredd ryfeddol yw i ni ei heſgeuluſo fal yr ydym? Ni a fedrwn dreulio Dyddiau, ag Wythnoſau, a Miſoedd, a Blynyddoedd, iê, ein holl fywyd yn cynllwyn ychydig olud bydol yr hwn ni phery ddim, ag yn y cyfamſer yn gadael i'r *Cythrael* ddwyn ymmaith y tryſſor mawr parhaus hwn, ſef, ein *Heneidiau*, oddi arnom.

Y gresyndod o golli'r Enaid.

6. Yr *ail* peth a *annog* ein gofal ni am ryw beth yw, ei Leſhdad ef i ni, neu'r niwed mawr a ddigwydd i ni trwy ei golli; y mae Rheſwm naturiol yn dyſgu i ni hyn mewn pethau o'r bywyd hwn: os ſyrth ein *Gwâllt* nid ydym yn priſio cymmaint, oblegid y gallwn yn hawdd fod hebddynt hwy: Ond os byddwn ni mewn perigl o golli ein *llygaid* neu ein *haelodau*, bychan gennym ein holl ofal i rag-achub hynny, oblegid y gwyddom mai trueni mawr a fydd y cyfryw golled. Ond yn ddiammeu, nid oes neb-rhyw drueni yn gyfattebol i'r trueni hwnnw o golli'r Enaid. Gwir yw, nis gallwn golli mo'n Heneidiau mewn ûn yſtyriaeth, hynny yw, fal na bônt; ond ni a allwn ei colli hwynt mewn môdd arall, yn gymmaint ag y chwennychem ei colli hwynt hefyd yn hollawl: Hynny yw, ni a allwn golli'r cyfiwr dedwydd hwnnw i ba ûn y creuwyd hwynt, a'i ſuddo mewn trueni tra-echryſlon. Ar fyrr, ni a allwn ei colli hwynt yn *Uffern*, o ba lê nid oes dim dychwelaid yn ôl, ag felly y maent yn golledig yn dragywydd. Iê, y mae ein hanwyl *Gyrph* hefyd, tros ba rai yr ŷm ni fwyaf yn gofalu, yn gyfrannogion o'r golled ymma: canys fe'i had gyfodir hwynt yn ddiammeu gwedi angeu, ag a'i cyſſylltir hwynt drachefn a'r Enaid, i gymmeryd cytran gyda bi ym mha gyfiwr bynnag y byddo; os bydd gan hynny i'n gofal

ni

ni am ein *Cyrph* gymmeryd i fynu ein holl amſer a'n meddyliau, heb adael i ni ddim i'w dreulio ar yr Enaid truan, fe ſydd yr Enaid yn ddiau, o eiſieu'r gofal hwnnw, yn druenus yn dragywydd; ond y mae mor ddiammau y bydd raid i'r *Corph* fod felly hefyd. Ag am hynny, os oes gennych ddim gwir garedigrwydd i'ch *Cyrph*, dangoſwch ef trwy ofalu am eich *Heneidiau*. Meddyliwch wrthych eich hunain pa fodd y gellwch chwi ddioddef *lloſcfeydd tragywyddol*; os yw gwreichionyn bychan o dân, pan ſyrthio ar y rhan leiaf o'r Corph mor anhawdd ei oddef, beth a ſydd gael taflu'r cyfan i'r fflammau poethaf? a hynny nid am ychydig oriau neu ddyddiau, ond yn dragywydd? Yn gymmaint a chwedi i chwi fod lawer *Miloedd* o flynyddoedd yn y penyd anrhaethadwy hwnnw, na byddwch ddim nes i ddyfod allan o honaw, nag yr oeddech chwi'r dydd cyntaf yr aethoch i mewn iddo: coſiwch hyn, meddaf, a meddyliwch hyn ymma hefyd, mai hyn yn ddiammeu a ſydd y diben o eſgeuluſo'r *Enaid*, ag am hynny gofelwch beth am dani pe bâe ond o doſturi i'r *Corph*, yr hwn ſydd raid iddo ddwyn rhan o'i thrueni hi.

Perigl yr Enaid.

7. Y *Trydydd* Peth a annog ein gofal ni am ryw beth yw, ei fod mewn *PERIGL*; yr awrhon, ſe ddichon peth fod mewn perigl ddwy ffordd; yn gyntaf, trwy *Elynion* oddi-allan; Dyna gyflwr y *Defaid*, y rhai ſydd yn waſtad mewn enbydrwydd o gael ei difa gan *fleiddiaid*, ag ni a wyddom mai hynny ſy'n gwneuthur i'w bugail fod yn fwy gwiliadwrus droſtynt. Felly y mae gyda'r *Enaid*, yr hon ſydd mewn perigl dirfawr oblegid ei *Gelynion*: y rhai hynny, ni a wyddom, yw'r *Byd*, y *Cnawd*, a'r *Cythraul*; y rhai òll ydynt yn elynion mor hynod iddi, ag mai'r weithred gyntaf yr ydym ni yn ei wneuthur ym mhaid ein *Heneidiau* yw, addunedu Rhyſel ddi-baid i'w herbyn hwynt. Hyn yr ydym ni óll yn ei wneuthur yn ein *Bedydd*; ag y mae pwy bynnag ſy'n gwneuthur cyngr-air ag un o honynt, yn ffals nid yn unig i'w Enaid,

Enaid, ond i'w *Addoned* hefyd, trwy ſod yn greadur anndonaidd: Yſtyriaeth a haeddai yn ddâ ei goſod at ein calonnau. Ond er mwyn i ni Ddeall yn well pa berigl y mae'r Enaid yntho, yſtyriwn ychydig *gynneddfau* 'r gelynion hyn.

8. Chwi a wyddoch ſod amryw bethau mewn rhyfel a wnâ elyn yn arſwydus: y cyntaf yw, *cyfrwyſder* a *dichell*, trwy ba ûn yn unig yr ennyllwyd amryw ſuddugoliaethau; ag o herwydd hyn y mae'r *Cythraul* yn elyn perygluſ; fe roes brawf hynod o'i gyfrwyſder er yſtalm, trwy dwyllo ein Rhieni cyntaf, y rhai oeddynt yn ddoethach o lawer na nyni, ag am hynny nid rhyfedd os ſomma nyni. Yn *ail*, y mae *gwiliadwriaeth* a *diwydrwydd gelyn* yn ei wneuthur ef yn ſwy ofnadwy; ag yn hyn y mae'r *Cythraul* yn myned tu hwynt i bawb; ei neges a'i farſiandiaeth ef yw ein llwyr-ddiniſtrio ni, ag nid yw ef yn ſegura, y mae ſo yn *myned i fyny ag i waered gan geiſio y neb a allo ei draſlyngcu*, 1 *Pet.* 5. 8. y mae yn gwilio am bôb odfa o fantes i'n herbyn ni, a'r cyfryw ddiwydrwydd, na eſgeuluſa ſo ûn amſer yn y bŷd. Yn *Drydydd*, mae *Gelyn* ger *llaw* yn fwy i'w arſwydo nag un o *hirbell*, oblegid os bydd efe pell oddiwrthym, ni a allwn gael amſer i'n harfogi a'n paratoi ein hunain i'w erbyn; ond os bydd efe yn agos, fe all ddyſod ar ein gwartha yn ddi-ſymwth. A'r cyfryw ûn yw'r *Cnawd*, yr hwn ſydd elyn wrth ein dryſſau (a ddyweda'i?) iê, yn ein monweſau; y mae ſo yn waſtad yn agos attom, i gyumeryd odfa i wneuthur i ni niwed. Yn *Bedwerydd*, pe gwaelaſ a *ffalſaf* y bô *Gelyn*, mwyaf perygluſ yw; yr hwn a guddia ei falis tan gochl caredigrwydd a ddichon wneuthur mwyaf niwed i ni. A'r cyfryw ûn drachefn yw'r *Cnawd*, yr hwn fel *Joab* wrth *Abner*, 2 *Sam.* 3. 27. a gymmer arno ſiarad yn *dangnbeddyfus* a ni, ond yr ûn amſer a'n *harcholla i farwolaeth*; y mae yn barod iawn i baratôi Pleſerau a diſyrrwch i ni, ag felly yn ymddangos yn fwyn iawn, ond mae gantho *fâch* tan yr *abwyd* hwnnw, ag os nyni ai cip-

piwn ef, ſe ddarfu am danom. Yn *Bummed*, y mae *rhifedi Gelynion* yn ei gwneuthur hwynt i'w hariwydo yn ſwy; ag mae'r *Bŷd* yn llû dirſawr i'm herbyn: Nid oes neb-rhyw gyſlwr, ie, na phrin un creadur ynddo, nad yw ryw amſer neu 'i gilydd yn ymladd yn erbyn yn *Enaid*: y mae *Anrhydedd* bydol yn ceiſio ein hardholli ni trwy *falchder*; *Golud*, trwy *Gybydd-dod*; *hawddfyd* yn ein llithio i *anghofio Duw*; *Adfyd* i *rwgnach* yn erbyn ef. Y mae hyd yn oed ein *Bŵrdd* yn fagl i ni, yr mae'n *bwyd* yn ein denu, ni i *lwſtineb*; ein *Diod*, i *feddwdod*; ein cymdeithion, ié, ein caredigion neſſaf yn fynych yn pleidio yn y Rhyfel ymma i'n herbyn, tra i byddont naill a'i trwy ei ſiampl neu 'i hannogaethau yn ein llithio ni i bechu.

9. Yſtyriwch hyn i gŷd, ag yna dywedwch i mi, a oes i Enaid ſydd fal hyn gwedi ei amgylchu, ennyd i *gyſcu*: ſe tedrei *Dalila* ddywedyd wrth *Shimſon* ei bod hi yn amſer i *ddeffro* pan oedd y *Philiſtiaid* arno ef. Ag y mae *Criſt* yn dywedyd i ni, pe *gwybaſei gwr y tŷ ym mha awr y daethe 'r lleidr, fe a wiliaſei, ag ni adawſei i'w dŷ gael ei dorri trwodd*, Mat. 24. 43. Ond yr ydym ni yn byw ynghanol lladron, ag am hynny rhaid i ni ddiſgwyl am danynt bôb awr, ag etto pwy yn ein mŷſg ſydd gantho y gofal cyffredin hwnnw am y rhan werthfawr ymma o honaw, ei Enaid, a'r ſydd gantho am ei dŷ, neu yn wir, am y peth gwaelaf ar ei elw? Y mae arna'i ofn y geill ein Heneidiau ddywedyd wrthym ni, mégis ag y dywedodd Criſt wrth ei Ddiſcyblon, Mat. 26. 40. *Pa beth? oni allech chwi wilied gydâ mi ûn awr?* Oblegid yr ŵyf fi yn meddwl na ŵyr llawer o honom ni pa bryd y treuliaſom ûn awr arnynt, er i ni wybod ei bod nhw yn waſtad gwedi ei hamgylchu a gelynion traſnbydus. Ag yna, och! beth debygwch chwi a ſydd cyffwr yr Eneidiau truan hyn, pan yw ei caſeion mor ddiwyd a gofalus iw deſtrywio hwynt, a ninnau heb ofalu dim am ei cadw? yn ddiau yr ûn modd ag y digwydd i dréf warchaedig, llé ni chedwir yr ûn wiliadwriaeth nag amddiffynfa,

ffynſa, yr hon yn ddiammeu a ſyrth yn yſglyfaeth i'r gelyn. *Yſtyriwch hyn yr rhai ſy'n anghofio Duw* (neu yn hytrach y rhai ydych yn eich angofio eich hunain) *rhag iddo eich difetha chwi, ag na bo gwaredudd*, Pſal. 50. 22.

10. Modd arall i beth fod mewn enbydrwydd yw, oddiwrth ryw afreol neu *anhymmer* oddi-mewn. Hyn yn fynych yw Cyflwr ein *Cyrph* ni; nid ydyn nhw yn unig mewn perigl o drais oddi-allan, ond y maent hefyd oddi-fewn yn glâf ag yn ddolurus. Ag yna ni a fedrwn fod yn ddigon teimladwy ei bod nhw mewn enbydrwydd, ag nid rhaid ein rhybuddio i geiſio moddion i'w hiachau hwynt. Ond hyn yw Cyflwr yr *Enaid* hefyd; yr ydym ni yn cyfrif y rhannau hynny o'r Corph yn *glwyfus* y rhai nid ydynt yn iawn gwplhau ei *Swyddau*; yr ŷm ni yn cyfrif hwnnw yn *enau clwyfus* yr hwn ni *archwaetha* yn iawn; *cylla glwyfus*, yr hon ni *threulia*'r bwyd. Ag felly y mae gyda'r *Enaid*, pan fo ei hamryw rannau hi heb gwplhau ei *Swyddau* yn iawn.

11. Rhannau yr Enaid yw'r trî hyn yn enwedig: y mae yn rhŷ hawdd profi fod y rhain ôll allan o dreſn; edryched dŷn ond yn ddifrifol at ei galon ei hun, ag yſtyried deied y mae fo yn ei wybod o bethau yſprydol, ag yna dyweded i mi onid yw ei Ddeall ef yn dywyll? Pa faint parottach yw efe i *ewyllyſio drwg* na *dâ*, ag yna dyweded i mi onid yw ei *Ewyllys* ef yn *wŷr-gam*? A pha ryw *Ddeſyfiadau* haerllug fydd gantho ar ol pleſerau pechadurus, a pha rai di-wres egwan tu ag at Dduw a daioni, ag yna dyweded i mi onid yw ei *Anwydau* ef yn *afreolus* ag yn wrthryfelgar, ie, yn erbyn lleſi ei Reſwm naturiol ei hun. Yr awrhon, megis mewn cleſydau Corphorol, y grâdd gyntaf tu ag at y feddiginiaeth yw gwybod achos y cleſyd, felly ymma y mae yn dra-angenrheidiol i ni wybod pa fôdd y dyrthiodd yr *Enaid* gyntaf i'r *Cyflwr clwyfus hwn*, a hynny a ddywedaf i chwi yr awrhon ar fyr o eiriau.

Y cyfammod cyntaf.

12. Fe Greawdd *Duw* y Dŷn cyntaf *Adda* yn *ddi-bechod*, ag a gymnyſgaeddodd ei *Enaid* ef a *gwybodaeth* gyflawn o'i Dled-ſwydd, ag a chyfryw rym ag y gallei ef, os mynne, gwplhau'r hyn óll a oſynnid gantho. Gwedi ei grèu ef fal hyn, fe a wnaeth *Gyfammod* neu gyttundeb ag ef i'r pwrpas hwn; os efe a *barhâe* mewn *Ufudd-dod* i *Dduw* heb bechu, yna yn gyntaf fe gâe *grym* hwnnw'r *Enaid* barhau gydag ef yn waſtad yr hwn oedd gantho y pryd hynny; ag yn *ail*, na bydde fo byth marw, ond cael ei gymmeryd i fynu i'r *Neſoedd*, yno i fod yn ddedwydd yn dragywydd. Ond o'r tu arall, os pechen fo ag anufuddhau Duw, yna y câe fo a'i holl heppil ar ei ól golli'r *gwybodaeth* a'r *grym perffaith* hwnnw, yr hwn oedd yn ei wneuthur ef yn abl i gwplhau yr hyn oll yr oedd Duw yn ei ofyn gantho: ag yn *ail*, y bydde fo yn ddaroſtyngedig i farwolaeth, ag nid hynny yn unig, ond i ddamnedigaeth dragywyddol yn uffern.

13. Dymma'r *Cyttundeb* a wnaethpwyd ag *Adda*, ag a holl ddynol ryw yntho ef (yr hyn a alwn ni yn gyfredinol y *CYFAMMOD CYNTAF.*) Ar hyn fe roddes Duw i *Adda Orchymyn* neillduol, yr hwn nid oedd amgen na hyn, ſef, na fwytâe fo o ûn *pren* yn unig o'r *Andda* llê y gofodwyd ef yntho. Ond trwy hudoliaeth Diafol fe fwytâodd ef o'r pren hwnnw, ag felly fe anufuddhâodd Dduw, ag a ddygodd y felldith honno arno'i hûn, a'i holl heppil. A thrwy'r ûn *pechod* hwnnw fe gollodd yn gyſtal y cyflawn *wybodaeth* o'i Ddled-ſwydd, a'r *Gallu* i'w *chwplhau*. A ninnau gan ein bôd wedi ein geni ar ól ei Ddelw ef, a wnaethom felly hefyd, a thrwy hynny a ddaethom i fôd yn *anneallus* i ddirnad y peth a ddylem ei wneuthur, ag yn egwan ag heb allu i'w wneuthr, trwy fod gennym anniueddi bôb *daioni*, a thueddiad a pharodrwydd i bôb drwg; fal *cylla* glwyfus, yn hon fy'n ffieiddio pôb ymborth iachus, ag yn hiraethu am y cyfryw bethau gwael ag a faetha'r dolur.

14. Ag yr awrhon, chwi a welwch pa lê y cawſom ni'r *cleſyd Enaid* ymma, a'i ſód ef hefyd yn debyg i ſod yn farwol; ag am hynny yn ŵyf yn meddwl nad rhaid i mi draethu dim ychwaneg er mwyn eich Sicrhau chwi o ſod eich heneidiau ni mewn enbydrwydd. Cyffelyppach yw, wrth y peth a draethwyd, y tybiwch chwi ei bod hwy tu hwynt i bôb gobaith. Ond rhag i chwi gymmeryd eſgus oddiwrth y cyfryw feddyliau i'w heſgeuluſo hwynt, mi a bryſſuraf i ddangos i chwi y gwrthwyneb, trwy adrodd y *Pedwerydd* Annogaeth o'n gofal ni.

Ni bydd ein gofal ni'n ofer.

15. Y *Pedwarydd* peth i'n hannog ni i ofalu am yn Enaid yw, y *Cyffelybrwydd* na ſydd ein GOFAL ni ddim yn OFER, onid yn hytrach yn fôdd i gadw'r Enaid; lle y mae hyn yn ddiffygiol, ſe lwfrbá ein gofal ni. Y mae'r *Pryſgwr* yn ymadel a'r dŷn clâf pan welo ef yn *ddi obaith*, gan wybod nad yw ond ofer rhoi iddo ddim y prŷd hynny; ond o'r tu arall, pan ganyddo fod gobaith o well-hâad, y mae yn rhoi iddo feddiginiaethau. Yr awrhon, mae i ni achos mawr o herwydd hyn ymma i ofalu am ein Heneidiau, ſef, o herwydd nad ydynt gwedi myned cymmhelled nad ellir ei hail-oreſgyn, ie, yn ddiammeu ſe gymmhatia ein gofal ni hwynt, os gwnawn ni ein rhan tu ag at hynny.

16. Oblegid, er bod holl ddynol ryw trwy bechod cyntaf *Adda* tan farn damnedigaeth dragywyddol; etto ſe welodd Duw yn ddâ dofturio cymmhelled wrth ein trueni ni, a rhoddi i ni ei Fâb, a gwneuthur Cyfammod newydd a nyni yntho ef gwedi i ni dorri'r cyntaf.

17. Yr *AIL CYFAMMOD* hwnw a wnaethpwyd ag *Adda*, ag yntho ef a ninnau, yn ebrwydd ar ôl ei gwymp, ag a gymmhwyſir ar fyrr yn y geiriau hynny (*Gen.* 3. 15.) lle y mae Duw yn dywedyd mai *HAD Y WRAIG A YSSIGEI BEN Y SARPH*; a hwn a wnaethpwyd i fynu, megis y cyntaf, o rai *trugareddau* i'w rhoddi gan *Dduw*, ag o rai *Dledſwyddau* i'w cwplhau gennym ninneu. *Yr ail Cyfammod.*

18. Duw

18. Duw yno a addawodd anſon ei unig *fáb* i'r bŷd (yr hwn ſydd Dduw gŵ-gyfuwch ag ef ei hun) i'w wneuthur yn ddŷn cyffelyb i ni ymmhôb peth, ond pechod yn unig, ag i wneuthur troſtom ni'r amryw bethau hyn.

19. Yn *gyntaf*, i *hyſpyſu* i ni hôll *Ewyllys* ei *Dâd*, trwy gwplhau pa ûn ni a fyddwn ſicer o'fod yn gymmeradwy ag o gael ein gwobrwyo gantho ef. A dymma ûn rhan ſawr o'r peth a gwplhâodd efe yn yr amryw Bregethau ag athrawiaethau hynny a oſodir ar lawr yn yr *Efengyl*. Ag yn hyn y mae ef yn *BROPHWYD* i ni, gan mai gwaith Prophwyd gynt oedd nid yn unig *rhag-ddywedyd* ond *Dyſgu* hefyd. Ein dyled-ſwydd ni o ran hynny yw, gwrando yn ddiwyd arno ef, bod yn barod, ag yn ewyllyſgar iawn i ddyſgu Ewyllys Duw, yr hyn y daeth ef o'r Nefoedd i'w ddadcuddio i ni.

20. Yr *ail* peth yr oedd ef i'w wneuthur troſom ni, oedd *bodloni Duw* am ein *Pechodau* ni; nid Pechod *Adda* yn unig, ond Pechodau holl ddynol ryw a wir edifarhâe, ag a welhâe ei buchedd; a thrwy'r moddion hyn caffo ei ni faddeuant Pechodau, a ffafr Duw, ag felly eim gwaredu ni oddiwrth *Uffern*, a'r ddamnedigaeth dragwyddol yr hyn oedd y goſpedigaeth ddyledus am ein Pechodau ni. Hyn oll a wnaeth efe troſom ni trwy ei farwolaeth. Efe a'i *hoffrymmodd* ei hûn yn *aberth* tros *pechodau* pawb a ymofidia yn ddifrifol o'i plegid, ag a ymadawo â hwynt. Ag yn hyn y mae efe yn *OFFEIRIAD* i ni, gan mai ſwydd *Offeiriad* yw, *offrymu aberth am bechodau y bobl*. Ein dyled ni o ran hyn yw, yn gyntaf, *edifarhau* yn ddifrifol, ag ymadel a'n Pechodau, heb yr hyn ni faddeuir byth monynt i ni, er darfod i Grift farw. Yn *ail*, *Credu* yn ddiogel, os gwnawn ni hynny, y cawn ni y bûdd o'i *Aberth* ef, y maddeuir i ni ein holl bechodau, er maint ag amled fyddont, ag y cedwir ni oddiwrth y Goſpedigaethau tragwyddol hynny y rhai oedd ddyledus i ni am danynt. Rhan arall o *Swydd* yr *OFFEIRIAD* oedd, *Bendithio* a *Gweddio* tros y bobl; a hyn hefyd a wnaeth Criſt i ni: y Gennadwri enwedigol a dderbyniodd ef gan ei Dâd oedd, ein *Bendithio* ni,

fal

fal y dywed S. *Petr*, *Act.* 3. 26. *Duw a anfonodd ei Fab ſeſu i'ch bendithio chwi*; ag y mae'r geiriau ſy'n canlyn yno yn dangos ymmha beth y mae'n ſendith honno yn gynwyſedig, ſef, yn *troi pôb un o honoch oddiwrth ei anwireddau*; o'i holl ſendithion eraill, rhaid yw cyſnifio y moddion hynny a arferodd ef i'n troi ni oddiwrth ein Pechodau yn fwyaf: ag am y rhan arall, ſef, honno o *Weddio* o ſowa gwplhaodd ef hynny nid yn unig ar y ddaiar, ond y mae yn parhau i wneuthur hynny yn awſtadol yn yr Net; *Ymae ef yn eiſtedd ar ddeheulaw Duw, ac yn eiriol troſom ni*, Rhuf. 8. 34. Ein dylêd ni ymlyn yw, gwilio ed gwrthwynebu'r cyfryw ſendith anrhaethadwy, ond bôd yn fodlon i gael fal hyn ein bendithio, trwy'n *troi* oddiwrth ein *Pechodau*, ag nid gwneuthur ei holl *Weddiau* a'i *Gyfryngiad* ef troſom yn ofer ag yn ddi-ddim, y rhai ni thycciant ddim er ein lles ni, tra byddom yn parhau yn ein pechodau.

Yr Trydydd peth yr oedd Crift i'w wneuthur troſom oedd, rhoddi i ni *allu* i wneuthur yr hyn y mae Duw yn ei ofyn gennym. Hyn y mae fo yn ei wneuthur, yn *gyntaf*, trwy yſgafnhau trymder y gyfraith a roddwyd i *Adda*, yr hon oedd yn gorchymyn na pechain ni byth: y pechod lleiaf tan boen damnedigaeth, ag yn gofyn yn unig gennym *ymeguiad oneſt ddawyd* i wneuthur yr hyn a allom, a lle y bôm yn ddiffygiol, yn derbyn *Edifeirwch ddiffuant*. Yn *ail*, trwy *ddanfon ei Yſpryd glân i'n calonnau*, i'n rheoli ag i'n llywodraethu, i roddi i ni allu i wrthladd pob rhyw brofedigaethau i bechod, ag i wneuthur yr hyn oll y mae ef yr awrhon tan yr Efengyl yn ei ofyn gennym. Ag yn hyn y mae fo yn *FRENI* ni, gan mai ſwydd *Brenin* yw rheoli, a llywodraethu, a gorchfygu gelynion. Ein dylêd ni yn hyn yw, ein rhoddi ein hunain i fynu yn ddeiliaid ufudd iddo ef, i'n rheoli a'n llywodraethu ganmo, a ufuddhau ei holl Gyfreithiau ef, nid cymmeryd plaid ûn gwerthryfelwr, hynny yw, nid llochi un rhyw bechod; ond gweddio yn ddiwyd am ei *Râs* ef i'n cynnorthwyo i orchfygu pôb

pechod

pechod, ag yna gwneuthur defnydd o hono yn ofalus i'r perwyl hwnnw.

22. Yn *Ddiweddaf*, fe a bwrcasodd, i'r rhai a *ufuddhâont* yn *ffyddlon* iddo, etifeddiaeth *dragywyddol ogoneddus*, ſef, *Teyrnas Nêf*, lle y mae efe gwedi myned o'r blaen i gymmeryd meddiant trosom ni. Ein dylêd ni yn hyn yw, bod yn ofalus iawn na chollom mo'n cyfran ynthi hi; yr hyn yn ddiammeu a wnawn, os yparhâwn ni mewn neb-rhyw bechod yn ddi edifeiriol. Yn *ail*, bod heb ſefydlu ein Meddyl fwyd ar y bŷd hwn, ond derchafu ein meddyliau ymôl gorchymyn yr Apoſtol, Col. 3. 2 *Rhodiwch eich brŷd ar bethau ſydduchod, ag nid ar bethau ſydd ar y ddaiar*; gan hiraethu yn oeſtadol am ddyfod i feddiant yr Etifeddiaeth ſendigedig honno, mewn cyſtudiad i ba ûn mi a ddylem dybied yn wael ag yn ddiyſtyrus o bób perthau ilod ymma.

23. Hyn yw ſylwedd yr *AIL CYFAMMOD* hwnnw yr ydym ni yr awrhon tano, lle y gwelwch beth a wnaeth *Criſt*, pa fodd y mae fo yn cwplhau y *Tair Swydd* ddinfawr hynny o *FRENIN, OFFEIRIAD* a *PHROPHWYD*, ag hefyd pa beth a ofynnir gennym ni: heb ein Cwplhâad ffyddlon ni, ni wnâ yr hyn ôll a wnaeth efe ddim lleſhâd i ni; oblegid ni bydd ef fŷth yn *Offeiriad i achub* neb ond y rhai a'i cymmero ef yn *Brophwyd* i'w dyſcu hwynt yn gyſtal ag yn *Frenin* i'w rheoli; iê, os nyni a eſgeuluſwn ein rhan ni o'r *Cyfammod hwn*, fe fydd ein Cyfiwr yn waeth na phe buaſeu erioed heb ei wneuthur; oblegid yna fe fydd rhaid i ni atteb nid am droſſeddiad Cyfraith yn unig, megis yn y Cyntaf, ond am wneuthur cam a thrugaredd, yr hyn ſydd bechod a annoga Dduw yn ddirfawr i ddigoſaint. O'r tu arall, os nyni a gwplhawn hynny yn ffyddlon, hynny yw, a ymoſodwn ein hunain yn ddiſtrifol i ufuddhau pôb gorchymyn Criſt, heb fyned ymlaen yn fyrbwyll mewn rhyw bechod, ond edifarhau ag ymadel a pha beth bynnag y buom yn euog o hono o'r blaen, yna yn ddiammeu y mae'r holl rag-ddywededig roddion Criſt yn perthyn i ni.

24.

24. Ag yr awrhon, chwi a welwch leied o achos ſydd i chwi i Eſgeuluſo *Gofalu* am yr *Enaid* gan dybied ei bod mewn cyflwr di-obaith, gan fod yn eglur nad ydiw; iê, yn ddiammeu mae hi yn y cyflwr hwnnw, yr hwn yn anad dim arall a'i cymmhwyſa hi fwyaf i'n gofal ni. Oni bae ddarfod i Grift ei *Gwaredu*, yna hi a fuaſeu mor ddi-obaith, ag y buaſei ein holl ofal yn ofer; o'r tu arall, os buaſei ei brynedigaeth ef yn gyfryw ag y cawſei *pawb* ei gwaredu wrthi er iddynt fyw fal y mynnont, ni a dybiaſem yn afraid gofalu am dani, oblegid ei bod hi yn ddiogel heb hynny. Ond fe welodd *Duw* yn ddâ drefnu'r peth felly, ag mai ein gofal ni ſydd raid bod y môdd trwy ba un y bydd raid iddi dderbyn y bûdd o'r holl bethau a wnaeth Crift drofti.

25. Ag yr awrhon, os nyni, gwedi'r cwbl a wnaeth Duw er mwyn achub ein Heneidiau hyn, ni wnawn cymmaint a *Gofalu* ychydig droſtynt ein hunain, ni a haeddwn yn ddâ iawn fod yn golledig. Os cymmereu *Pyſygwr* arno iachau ûn a fo mewn clefyd greſynol, a'i ddwyn ef trwy ei gelfyddyd cymmhelled allan o hono, ag y bydde yn ſicor o atgryfhau, os gwnâe fo ond gofalu troſto'i hûn, a dilyn y *rheolau* hynny a oſodei 'r Pyſygwr iddo, oni thybiech chwi fod hwnnw yn flin o'i hoedl a *wrthodei wneuthur hynny*? felly yn ddiammeu y mae'r dyn hwnnw yn flin o'i *Enaid*, ag yn ei thaflu hi ymmaith o'i wir-fodd, yr hwn ni chydſynia a'r ammodau hawdd hynny er mwyn ei chadw.

26. Chwi a welwch faint o *garedigrwydd* ſydd gan Dduw tu ag at ein Heneidiau hyn; fe wnaeth yr holl *Drindod*, y *Tâd*, y *Mâb*, a'r *Yſpryd glan* ei rhan droſtynt. Fe roddodd y Tâd ei unig Fâb; fe roddes y Mâb ef ei hûn, fe ymadawodd a'i ogoniant, ag a ddioddefodd angeu chwerw, dôſt y *groes*, er mwyn cadw ein Heneidiau ni rhag colli. Y mae'r *Yſpryd glân* megys yn waſanaethydd i ni, i weini i ni trwy gynnyg yn waſtad ei râs i'n gwneuthur yn abl i gwplhau'r cyfryw bethau ag a'i ceidw hwynt; iê, y mae fo yn ewyllyſio cymmaint

i ni gymmeryd yn ddi-lyſiant ei gynhygion eſ, ag y dywedir ei ſod et yn *triſthau* pan wrthodom ni hwynt, *Eph.* 4. 30. Yr awrhon, pa ryw Sarhâad neu ammharch ſwy a allwn ni ei roddi ar Dduw na dirmygu'r peth y mae ſo ſal hyn yn ei briſio, pan ſom ni yn tybied na thâl ein Heneidiau i ni ofalu ychydig am danynt, y rhai a dybiodd Criſt yn deilwng o bôb Deſnyn o'i waed? Yr ydym ni yn arferu mewn pethau bydol o'i priſio hwynt yn ôl tŷb yrhai cyfarwyddaf ynddynt; yn awr, Duw yn ddiammeu yr hwn a wnaeth ein Heneidiau ni a ŵyr oreu ei *prîs* hwynt, a chan ei ſod ef yn gwneuthur cymmaint cyfrif o honynt, bydded cywilydd gennym ni (ped fae ond o barch iddo ef) ei heſgeuluſo hwynt: yn enwedig gan ei bôd nhw yr awrhon mewn cyſtwr mor obeithiol na ddichon dim ond ein diofalwch ni ei diniſtrio hwynt.

27. Mi a draethais bellach ar ſyrr am y *Pedwar annogaeth* o ofal, y rhai ŷnt bôb un o honynt yn gyfryw ag a gyffrŷ yn ddiammeu ein gofal ni tu ag at bethau'r Eŷd hwn; ag mi a ddangoſais i chwi heſyd faint mwy rheſymol, ie, angenrheidiol yw iddynt wneuthur yr unrhyw tros yr Enaid. Ag yn awr, beth ſydd i mi i'w ddywedyd ychwaneg, ond dibennu a geiriau *Eſay.* 46. 8. *Coſiwch hyn, ag ymddangoſwch yn wŷr.* Hynny yw, gwnewch a'ch heneidiau fal y mae eich *Rheſwm* yn dyſgu i chwi wneuthur a phôb peth arall ar ſydd yn perthyn i chwi; ag yn ddiammeu, y mae Cyfiawnder cyffredin yn eich rhwymo chwi i hyn ymma; oblegid oddiwrth yr Enaid y mae'r *Rheſwm* hwnnw yn tarddu, yr hwn yr ydych yn ei arferu yn eich holl negeſeuau bydol; ag ai ni chaiff yr Enaid ei hûn dderbyn dim Budd oddiwrth y *Rheſwm* hwnnw y mae hi yn ei roddi i chwi? Y mae hyn fal ped fae *pennaeth-tŷ*, yr hwn ſydd yn rhagddarparu ymborth i'w weiſion, yn cael ganddynt hwy ei gadw rhag bwyta dim ei hun, ag felly bôd yr unig ûn newynllyd yn ei dŷ.

28. Ag

28. Ag ſal y mae *Cyſiawnder*, ſelly hefyd y mae *Trugaredd* yn eich rhwymo chwi i hyn o beth; chwi a wyddoch y ſyrth yr Enaid truan i drueni tragwyddol ag annhraethadwy, os parhewch chwi i'w heſgeuluſo, ag yna rhy hwyr i chwi ſeddwl am dani. Y noddfa diwaethafu ellwch chwi ei ddiſgwyl yw, *Trugaredd Dduw*, ond ſe ddarfu i chwi ddirmygu a cham-arferu honno yn barod. A pha ſodd y gellwch chwi ſod mor ddi-gywilydd ag erſyn yn eich angen mwyaf ei drugaredd *ef* i'ch *Heneidiau*, pan na ddangoſech ddim trugaredd iddynt eich *hunain*? iè, na'r Cariad cyffredin hwnnw ychwaith o ſeddwl am danynt, na threulio ychydig o'r *Oriau* ſegur hynny arnynt hwy, na wyddech chwi ond prin pa ſodd i'w bwrw heibio.

29. Goſodwch hyn at eich calonnau, ag ſal yr ydych yn gobeithio cael *trugaredd Dduw* pan ſo arnoch fwyaf ei eiſieu ef, byddwch ſicr o *doſtnrio* wrthych eich hunain mewn prŷd, trwy gymmeryd y *Gofal* dledus hwnnw am eich *Heneidiau Gwerthfawr* ar ſydd yn perthyn iddynt.

50. Os darfu i hyn a adroddwyd eich hannog chwi i'r *Ddyled-ſwydd* hon ſy mor *angenrheidiol*, ſy ngorchwyl neſſaf a ſydd dangos i chwi pa ſodd i iawn-drefnu'r gofal hwn, a hynny, mewn gair, a grynhôir, yn gwneuthur yr holl bethau hynny a wnâ'r Enaid yn ddedwydd, yr hyn yw diben ein *Gofal* ni; a pheth yw'r pethau hynny yr ŵyf yr awrhon yn dyfod i ddangos i chwi.

TABL o'r pethau a grynhoir yn yr Amryw *Bennodau* neu *Ddoſparthiadau* yn y lyfr hwn: y rhai, yn ôl y Cyfranniad hwn, trwy ddarllen ûn o'r *Pennodau* hyn bôb *Dydd yr Arglwydd*, a ddarllennir i gŷd troſtynt *deir-gwaith* yn y *Flwyddyn*.

Sul I.

AM Ddled-ſwydd dŷn *trwy oleuni Natur, trwy oleuni y Scrythur: y tair cainge fawr o ddled-ſwydd Dyn, i Dduw, iddo ei hunan, iw gymydog: ein Dled-ſwydd, Dduw; am* Ffydd, *yr Addewidion, Gobaith, Cariad i Ofn, a Hyder.* Dalen 1.

Sul II.

Am Oſtyngeiddrwydd, Ymddaroſtyngiad i Ewyllys Duw trwy Ufydd dodd; Am Ammynedd ymmhôb màth ar Ddioddefiadau, ag am Anrhydedd dlêdus i Dduw mewn amryw ffŷrdd, yn ei Dŷ, ei Feddiannau, ei Ddŷdd, ei Air, a'i Sacramentau, &c. Dal. 32

Sul III.

Am y Sacrament o Swpper yr Arglwydd, Am Rag-ymbaratôad, megys

megys prawf o'r Hedifeirwch, Eſydd, Uſyddiad, am Ddledſwyddau i'w gwneuthur wrth Gymmuno, a chwedi, &c. Dal. 63

SUL IV.

Anrhydedd ddledus i Enw Duw; Pechodau yn erbyn hynny; Tyngu; am Lŵon Haerig, Addewidiol, Anghyfreithlon; am Anudonedd, Llŵon eſer, a'i Pechod hwynt, &c. Dal. 91

SUL V.

Am Addoliant dledus i Enw Duw. Am Weddi, a'i hamryw Rannau. Am Weddiau cyhoedd yn yr Eglwys, yn y Teulu. Am Weddi neilldual. Am Edifeirwch, &c. Am Ympyd. Dal. 102

SUL VI.

Ddledſwydd i ni ein Hunain; am Sobrwydd; Goſtyngeiddrwydd; y Pechod mawr o Falchder; am wâg-Ogoniant, a'i Berigl, a'i Ffoledd; y moddion i'w ochelyd: am Addſwyndcr, &c. Dal. 128

SUL VII.

Am Fodlonrhwydd, a'r pethau Gwrthwyneb i hynny; Grwgnach, Traha, Cybydd-dod, Ceuſigen: Cymmorth i Fodlonrhwydd; am Ddledſwyddau a berthyn i'n Cyrph; am Ddiweirdeb, &c. Cymmorth i hynny; am Gymmedrolder. Dal. 150

SUL VIII.

Am Gymmedrolder yn Yfed, Gau Ddibennion o Yfed, ſef, Cymdeithas dda, hwrw ymmaith Ofalon, &c. Dal. 169

SUL IX.

Cymmedrolder yn Cyſgu: y Rheol o hynny, &c. Drwg Syrthni;

Syrthni; am Atgyweiriadau, Gorheliadau iw hyſtyried yn hynny; am Wiſg, &c. Dal. 188

SULL X.

Am ein Dled-ſwydd tu ag at ein Cymydogion. Am Gyfiawnder, o Ommedd, ag o weithrediad. Am y pechod o Lofruddiaeth, ei Faint ef, y Coſpedigaethau am dano, a'i ryfeddol Ddatcuddiadau ef. Am Archolli, &c. Dal. 197

SULL XI.

Am Gyfiawnder ynghylch Meddiannau ein Cymydog, yn erbyn gwneuthur Cam ag ef ynghylch ei wrag, ei olud. Am Orthrymder, Lledrad. Am dalu Dyledion, &c. Dal. 216

SULL XII.

Am Ledrad; am Dwyll mewn ymddiried, mewn marſiandiaeth; am Atgyweiriad, &c. Dal. 229

SULL XIII.

Am Ddrwg-Abſen, Cam-dyſtiolaeth, Enllib, Huſtyng; gwawdio, Pechodau, &c. *Am Gyfiawnder gweithredol, am Wirionedd, Celwydd,* &c. *Am Genfigen ag Anair. Am Ddiolchgarwch,* &c. Dal. 242

SULL XIV.

Am Ddledſwydd tu ag at Lywiawd wyr, Bugeiliaid. Am Ddledſwydd Rhieni tu ag at ei Plant, &c. *Plant tu ag at ei Rhieni,* &c. Dal. 268

SULL XV.

Am Ddledſwyd tu ag at ein Brodyr a'n Cyfneſeifiaid, Gŵr, Gwraig, Ceraint, meiſtred, Gweiſion. Dal. 295

SUL

Sul XVI.

Dosparthiadau eraill o'n Dledsŵydd yn ag at ein Cymydog. Am Gariad i Eneldiau dynion, Cyngh, i'w Golud, a'i Henwau-dâ hwynt. Dal. 318

Sul XVII.

Am Gariad, Elusen, &c. *Am Gariad a berthyn i Enwdâ ein Cymydog*, &c. *Am wneuthur Tangnheddyf: Am fyned i'r Gyfraith*: am *Gariad i'n Gelynon*, &c. Dal. 347



TABL

O'R

DEFOSIONAU NEILLDUOL.

CYfarwyddiad am y Boreu.
Gweddiau Boreuol.
Gweddiau Prydnhawnol.
Colectau am amryw Raſau.
Eſponiad O Weddi'r Arglwydd.
Ocheneidiau Sanctaidd wedi ei cymmeryd allan O Lyfr y Pſalmau.
Pyngciau byrrion i ni i ymholi ein hunain, &c.
Gweddiau o flaen derbyn y Cymmun.
Ocheneidiau wrth fwrdd yr Arglwydd.
Diolwch ar ol derbyn y Cymmun.
Cyfarwyddiad am amſer Cleſyd.
Gweddi tros ddyn claf.
Ocheneidiau byrrion.
Gweddiau mewn Trallodau Cyffredin, &c.
Gweddi tros yr Eglwys hon.
Gweddi am heddwch yr Eglwys.
Gweddi tros Fawrhydi'r Frenhines.

SUL I.

Am ddled-ſwydd *DYN trwy oleuni Natur, trwy oleuni y Scrythyr: y tair caingc fawr o ddled-ſwydd Dyn, i Dduw, iddo ei hunain, i w gymydog: ein Dled-ſwydd i Dduw; am* Ffŷdd, *yr Addewidion, Gobaith, Cariad, Ofn, a Hyder.*



Mae'r *Rhagor-freintiau* a bwrcafodd *Criſt* i ni yn gyfri w ag a wna yr Enaid yn ddiammau yn *wynfydedig*; oblegid Gwynfŷd tragwyddol yw ûn o honynt: ond o herwydd nad yw'r *Rhagor-freintiau* hyn yn perthyn i ni nes i ni gyflawni yr *ammod* dledus arnom ni; rhaid i bwy bynnag a chwenny cho happ ſrwydd ei enaid, ymôſod ei hun i gyflawni yr *Ammod* hwnnw. Mi adroddais yn bar d yn *Gyffredinol* beth iw'r *Ammod hwn*, ſef, *ymegnî d diwyd, di-ragrith i ufyddhau i holl ewyllus Duw.* Ond gan tod amryw neilldnol bethau yn gynhwyſedig tan *ewyllus Duw*, y mae'n ar genrheidiol i ni wybod beth ydiw rheini; ſef, beth yw'r *amryw bethau* y mae Duw yr awrhon yn i ofŷn ar ein dwylo ni, Cyflawniad pa rai a'n dŵg ni i ddedwyddwch tragwyddol, a'i heſceuluſdra i druenì annherſynol.

Sul I. *Am oleuni Natur.*

2. O'r rhain y mae Duw gwedi argraffu rhai ar ein heneidiau ni, yn gymaint ac y gwyddom hwynt trwy *Natur*; hynny yw, ni a wyddaſen ei bôd nhw yn ddledus arnom pe buaſeu'r ſcrythur erioed heb ein haddyſcu. Ni a allwn weled fôd hyn felly, trwy'r *Cenhedloedd*, y rhai ni chlwyſent erioed ſôn am yr *hên Deſtament* na'r *Newydd*, ag etto ſydd yn Cydnabod ei bod yn rhwym i gyflawni rhai *Dled-ſwyddau Cyffredonol*, megis *addoli Duw*, bod yn *gyfiawn*, *anrhydeddu* ei *Rhieni*, a'r cyffelyb; ac y mae St. *Paul* yn dywedyd, *Rhuf.* 2. 15. *Fod ei Cydwybodau nhw yn y pethau hynny, yn ei Cyhuddo, neu yn ei heſcuſodi*; ſef, yn dywedyd iddynt pa ûn a wnaethont yr hyn a ddyleſynt yn y pethau hynny, ai na ddo.

3. Yr awrhon, er darfod i *Griſt* ddwyn goleuni mwy i'r bŷd, etto ni feddyliodd ef erioed trwy hwnnw ddiffodd dim o'r Goleuni *Naturiol* yr hwn a oſododd Duw yn ein Heneidiau ni: Gadewch i mi gan hynny yn awr eich rhybuddio na rodioch yngwrthwyneb i'r Goleuni lleiaf hwn, hynny yw, na anturioch ar yr ûn o'r gweithredoedd hynnu, y rhai y mae *Cydwybod Naturiol* yn dywedyd ei bôd yn bechodau.

4. Y mae yn achos Cyfiawn o driſtwch i galon pob rhyw Griſtion weled rhai yn y dyddiau hyn yn proffeſſu llawer o *Grefydd*, ac etto yn byw yn y fath bechodau ac y Ffieiddiau angrhedadun fyw ynddynt, dynion yn gwneuthur lliw o uwch graddau o *oleuni* a Sancteiddrwydd na'i Brodyr, etto yn ymarferu yngwrthwyneb i bôb rheol Goneſtrwydd cyffredinol, ac yn gwneuthur yn rhan o'i rhydd-did Griſtianogawl i wneuthur felly; oddiwrth hudoliaeth pa rai y perthyn i bôb rhai a garo ei *heneidiau*, ymogelyd: ac i'r perwyl hwnnw, goſoder hyn yn ſylfaen, ſef,

Na

Na all y Grefydd, neu'r Opiniwn honno, yr hon ſydd yn Cynwys dynion mewn neb rhyw anwiredd, fod o Dduw. Sul I.

5. Ond er na ddylem ni ddiffodd y Goleuni hwn a oſododd Duw yn ein Heneidiau ni, etto nid hon yw 'r unig ffordd trwy ba ûn y datcuddiodd Duw ei ewyllus, ag am hynny ni ddylem ni Orphywys-ymma; ond myned ymlaen i wybodaeth o'r pethau eraill hynny, y rhai y darſu i Dduw trwy foddion eraill ei datcuddio.

6. Ymôdd i ni i ddyfod iw gwybod hwynt yw, trwy 'r *Scrythyrau*, y'mha rai y goſodir ar lawr yr amrhyw orchymynion hynny y rhai a roddes Duw i fod yn rheol o'n *dled-ſwydd* ni *Goleuni y Scrythyrau.*

7. Rhai o'r rheini a roddwyd cyn dyfod Criſt i'r bŷd, ſef, y Gorchymmynion hynny, y rhai ſydd waſcaredig drwy'r *hên Deſtament*, ond yn enwedig y rhai a gynnhwyſir yn y *Deg-gorchymmun*, a'r Llyfr rhagorol hwnnw *Deuteronomium*; eraill a roddwyd gan *Grîſt*, yr hwn a adchwanegodd lawer at y Gyfraith yr hon a wreiddied ynom ni trwy *Natûr*, ag at *Gyfraith* yt *hên Deſtament*, a'r rhai hyn a ellwch ei gweled yn y *Teſtament newydd* mewn amryw orchymynion a roddwyd gantho ef, a'i Apoſtolion, ond yn enwedig yn y bregeth ragorol honno ar y Mynûdd, yr hon a oſodwyd i lawr yn y bummed, chweched, a'r ſeithfed bennodau ô Efengyl St. *Mathew*.

8. Mi a ddylwn draethu yn neillduol ar bôb ûn o'r rhai hyn, ond ô herwydd y gwnai hynny y gwaith yn rhy-hîr, ac fellu yn llai cymmwys i'r râdd waelaf o ddynion, i gyfarwyddiad pa rai yn unig y bwriadwyd ef, mi a ddewiſais yn hytrach fyned ymlaen mewn modd arall; trwy gydſylltu hyn ôll, ag fellu goſod i lawr cyn eglûred ag y medraf beth ydiw Dled-ſwydd pôb Criſtion.

Sul I.

Tair caingc fawr ô ddlêd Dyn.

9. Hyn ſydd ar ſyrr yn gynhwyſedig yngeiriau'r Apoſtl, *Tit.* 2. 21. *Bod i ni fyw yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd ſydd yr awrhon*; ymmha fan y mae'r gair [yn ſobr] yn Cynnwys ynddo ein dlêd-ſwydd tu ag *attom ein hunain*; [yn gyfiawn] Ein Dled ſwydd tu ag at *ein Cymydogion*; ag [yn Dduwiol] ein dlêd-ſwydd tu ag *at Dduw*. Hyn gan hynny a ſydd prif byngciau ſy ymadrodd, ein *dlêd* i Dduw, ein Hunain, ag i'n Cymydogion. Mi ddechreuaf a'n Dlêd i Dduw, gan fod honno yn ſylfaen oreu i ni i adeiladu y ddwy eraill arni.

Dlêl-ſwydd i Dduw.

10. Y Mae amryw rannau o'n dlêd-ſwydd i *Dduw*; y ddwy bennaf yw y rhai hyn, yn gyntaf, ei Gydnabod ef i fôd yn *Dduw*; yn ail, na fytho gennym yr ûn arall. Tan y rhain y Cynnhwyſir yr holl bethau neillduol hynny, y rhai a wnâ i fynu ein *Holl Ddled ſwydd* i Dduw, yr hyn a ddangoſir yn ei Trefn.

Cydnabod i fod ef yn Dduw.

11. Cydnabod ei fôd ef yn Dduw, ydiw credu ei fôd ef yn *yſpryd gogoneddus anherfynedig*, yr hwn oedd oDragwyddoldeb heb ddechreuad, ag a fydd hyd Dragwyddoldeb heb ddiwedd. Ei fod ef yn *Greawdr, Waredwr, a Sanctteiddiwr, y Tâd, y Mâb, a'r Yſpryd-glân, ûn Duw bendigedig yn oes oeſoedd.* Nad yw boſſibl iddo ef mewn ûn modd Newidio, ond i fod ef yn *anghyfnewidiol*; nad ydiw ef ſylwedd Gorphorol y cyfriw ag a eill ein Llygaid ni ei amgyffred, eithr Yſprydol ac anweledig; yr hwn ni welodd ûn *Dyn erioed, ac nis dichon neb ei weled*, 1 Tim. 3. 16. Ei fod ef yn anherfynol mewn Mawredd a Godidowgrwydd, uwch law y cwbl oll a all ein Synwyr ni a'n meddwl i fwriadu; na dderbyniodd ef ei ſylwedd gan neb, ag ei fôd ef yn rhoddi ſylwedd a dechreuad i bôb peth.

12. Hyn

12. Hyn oll a ddylem ni gredu am dano Sul I.
ef o herwydd ei ſylwedd, a'i hanfod: ond heb law hyn, y mae'r *Scrythur* yn ei oſod ef allan i ni trwy ei amriw *ardderchowgrwydd*, ſef, gan i fôd ef ô *anherfynol ddaioni*, a *thrugaredd*, a *gwirionedd*, a *chyfiawnder*, a *doethineb*, a *gallu*, ag *oll alluowgrwydd* a *mawrhydi*; i fod ef yn treſnu ag yn Llywiaw pôb peth trwy ei *Raglaniaeth*: ei fod ef yn gwybod pôb peth, ac yn breſennol ym mhôb manno yr hyn y mae Difinyddion yn ei galw *Priodoliaethau Duw*, a'r holl bethau hyn ſydd raid i ni yn ddiſigl ei Cydnabod, ſef, Credu yn ddiogel fod yr holl ddwywawl ardderchowgrwydd hyn yn Nuw, ac hynny yn y râdd berffeithiaf, fal nad allant na byddont ynddo ef, nid eill ef na bo'yn *annherfynol ddaionus* trugarog graſlawn, *&c.*

13. Ond mae ei gydnabod êf i fod yn Dduw i ni yn arwyddoccau ettto chwaneg na hyn; ſef, y dylem ni gyflawni iddo ef yr holl ddlêdſwyddau hynny a berthynant oddiwrth *Greadur* i'w *Dduw*: mi a ddangoſaf i chwi yr awrhon pa beth yw y rhai hynny.

14. Y Cyntaf yw *Ffŷdd*, neu *grediniaeth*, nid *Ffŷdd.*
yn unig iw rag-ddywededig *Hanfod* a'i *briodoliaethau*, ond iw Air, ſef Credu yn ddiffuant fôd pôb peth a ddywed ef yn gwbl wîr. Mae hyn yn angenrheidiol yn tarddu allan o'i Briodoliaeth honno, ſef ei *Wirionedd*, gan fod yn naturiol i ni gredu beth bynnag a ddywedir gan ûn, ô wirionedd r' hwn yr ydym yn ddiogel. Yn awr, gan fôd y *Scrythyrau Sanctaidd* yn Air Duw, rhaid i ni gredu yn ddiſigl fôd pôb peth a gynnhwyſir ynthynt hwy yn gwbl wîr.

15. Mae'r Pethau a gynnhwyſir ynthynt hwy *Traethiadau.*
o'r pedwar rhywogaeth hyn: yn gyntaf, *Traethiadau*, y cyfriw ydyw holl Hiſtoriau 'r Bibl, pan ddywedir y peth a'r peth a ddigwyddodd fal hyn

ac

Sul. I. ac ſal hyn; *Criſt* a anwyd ô Forwyn, a ddodwyd mewn Preſeb, *&c.* A'r cyffelyb helyd yw amryw byngciau ô *Athrawiaeth*, megys ſôd trî Pherſon yn y *Duwdod*, ſod *Criſt* yn *fâb Duw*, &c. Mae'n rhaid i ni gredu ſôd pôb peth o'r fath hyn a oſodir i lawr yn y Scrythur yn gwbl wîr. Ag nid fellu yn ûnig, ond ô herwydd ei bod nhw oll gwedi ei ſcrifennu er ein haddyſg ni, rhaid i ni ei yſtyried nhw i'r perwyl hwn, ſef, trwy y rhai hyn i oſod âr lawr ſylfaen gwybodaeth Griſtianogawl, ar ba ûn y gallwn adeiladu buchedd Griſtianogol.

Gorchymynion. 16. Yr ail mâth âr bethau a gynnhwyſir yn y Scrythur yw *Gorchymynion*, ſef, amryw bethau a orchymynnodd Duw ini ei Cyflawni: rhaid ini gredu ddyſod o'r rhain oddiwrtho ef, ai bôd nhw yn drachyſiawn, ag yn gymmwys iddo ef i'w gorchymyn: Ond y mae'n angenrhaid yn y cyfamſer i'r Grediniaeth hon ddwyn allan *Ufyddddod*, ſal y gwnelom yn ddiwyd y peth yr ydym yn ei gredu ſod yn gymmwys i ni i wneuthur; onid ê, ni rhâl i'n Crediniaeth ni ddyſod o honynt oddiwrtho ef ddim ond i'n gwneuthur ni yn twy aneſcuſodol.

Bygythion. 17. Yn *drydydd*, y mae'r Scrythur yn cynnwys ynddi Fygythion; y mae amryw leoedd yn bygwth i'r rhai a ânt ymlaen yn ei pechodau *ddigofaint* Duw, trwy ba ûn yr arwyddocceir holl *Goſpedigaethau* a *thrueni* y bŷd hwn, yn gyſtal *yſprydol* ag *Amſerol*, a deſtryw Tragwyddol yn y bŷd a ddaw. Mae'n rhaid i ni yn awr yn dra-ddiogel gredu mai Bygythion Duw iw'r rhai hyn, ag y cânt hwy yn ſicrr ei cyflawni ar bôb anedifeirſol bechadur. Ond yn y cyfamſer, y Defnydd ſydd raid i ni ei wneuthur o'r Grediniaeth hon yw ymgadw oddiwrth y pechodau hynny i ba rai y bygythir y Deſtryw hwn; onid-ê,

ni

ni wna'n Crediniaeth ni ond adchwanegu ein enogrwydd, y rhai ydym yn ſyrbwyll yn myned ymlaen, er yr holl ſygythion hynny. Sul I.

18. Yn bedwerydd, y mae'r *Scrythur* yn cynnwys *Addewidion* yn gyſtal i'n Cyrph ag i'n Heneidiau; i'n Cyrph y mae amryw Addewidion y rhagddarpara Duw iddynt y peth a welo êf yn angenrheidiol; ni henwai ond ûn, *Mat.* 6. 33. *Yn gyntaf ceiſiwch Deyrnas Dduw ai gyfiawnder, âr holl bethau hyn*, hynny yw, pôb angenrheidiau oddiallan, *a roddir i chwi yn chwaneg.* Ond yma yſtyriwn mai rhaid i ni *yn gyntaf, geiſio Teyrnas Dduw ai Gyfiawnder*, ſef, dodi ein gofal cyntaf a mwyaf iw waſanaethu ag iw Uſyddhau êf, cyn i'r addewid hwn, ie o bethau dâ Amſerol, berthyn i ni. I'r *Enaid* y mae llawer o Addewidion mawrion, megis yn gyntaf, ô Eſmwythaâd, a Gorphywyſfa breſennol fal y gwelwu ni *Mat.* 11. 29. *Cymmerwch fy iau arnoch a dyſcwch gennif, a chwi a gewch Eſmwythdra i'ch Eneidiau*: Ond yma y mae 'n hyſpus, fod yn rhaid i ni, cyn i'r Eſmwythdra hwn berthyn i ni *gymmeryd Jau Criſt arnom*, a'n gwneuthur ein hunain yn Weiſion ag yn Ddiſcyblion iddo êf. Yn ddiweddaf, y mae i'r *Enaid* Addewidion ô holl Ragor-freintiau *Criſt*; ond etto i'r rhai hynny yn ûnig a gyflawnant y Cyſammod erſynnedig; ſef, maddeuant Pechodau i'r rhai a edifarhao, Cynnhyddiad grâs i'r ſawl a wnâ Ddefnydd yn ddiwyd o'r Grafau ſydd ganthynt eiſoes, ag a weddiant yn oftyngedig am ychwaneg; ag Iechydwriaeth Tragwyddol i'r rhai a barhânt hyd ddiwedd ei Bywyd mewn Uſydd-dod diragrith iw Orchymynion êf. *Addewidion.*

19. Rhaid gan hynny i'r Grediniaeth hon o'r Addewidion ein Cynnhyrfu ni i gyflawni'r Cyſammod cyn y gallom mewn rheſwm ddiſgwyl dim

Sul I. dim daioni trwyddynt: ag i ni ddiſgwyl bûdd oddiwrthynt ar ammodau eraill ydyw'r unrhyw ryſyg Ffôl a phe goſynnei gwâs wobr gan ei feiſtr am eſcluſo gwneuthur ei wâith êf, i'r hyn yn unig yr addowſyd y gwobr; chwi ellwch yn hawdd wybod pa atteb a roddyd i'r cyfriw Wâs; a'r unrhyw a ddiſgwyliwn ninnau ganDduw yn y Cyfiwr hwn. Ie ymmhellach, ſiccr yw na roddodd Duw moi Addewidion hyn i ddiben arall namyn i'n gwahodd ni i Sancteiddrwydd buchedd; ie, ſe a roddodd ei Fâb, ymha ûn y cyflawnir ei holl Addewidion êf, i'r perwyl hwn. Yr ydym arferol ô edrych yn gymmaint ar ddyſodiad *Criſt* i dalu iawn troſom ni, ag yr anghofiwn y rhan arall yma o'i neges êf. Ond nid oes dim ſiccrach nag mai'r diben mwyaf o ddyſodiad *Criſt* i'r bŷd oedd i blannu buchedd ddâ ymmŷſg dynion.

20. Y mae hyn gwedi ei adroddi yn y *Scrythur* cyn fynyched, fal nad all neb, a yſtyria ac a gretto y peth y mae yn ei ddarllen, mo'i ammeu. Mae *Criſt* ei hun yn dywedyd i ni *Matth.* 9. 13. *I daeth ef i alw pechaduriaid i edifeirwch.* Ac y mae St. *Petr*, Act. 3. 26. yn dywedyd, *Ddanfon o Dduw ei Fâb IESU i'n bendithio ni, gan droi pôb ûn o honom oddiwrth ein drygioni*, wrth hynny, *ein Troead ni oddiwrth ein drygioni*, oedd y ſendith fwyaf hynodol ar a oedd Duw yn i ſwriadu i ni ynghriſt.

21. Ie, ni a'n dyſcir gan St. *Paul* mai hyn hefyd oedd diben ei farwolaeth ef, *Tit.* 2. 14. *Yr hwn ai rhoddes ei hûn troſom fel yn pryne ni yn rhŷdd oddiwrth bôb anwiredd, ac yglanhae ni yn bobl briod iddo ei hûn, yn awyddus i weithredoedd da.* A thracheſn *Gal.* 1. 4. *Yr hwn ai rhoddes ei hûn dros ein pechodau, er ein gwared oddiwrth y bŷd drwg preſennol*, hynny iw, oddiwrth bechodau ag arferau drwg y bŷd.

Y

Y Mae amryw leoedd eraill i'r pwrpas hwn, o'r Sul I.
yr wyf yn meddwl fod hyn yn ddigon i ſicr-
hau pôb dyn am y gwirionedd mawr hwn, fod
Cymmaint ac a wnaêth *Crîſt* troſom yn tueddu i'r
diben hwn; ſef, i'n dwyn ni i fyw yn Griſtian-
ogawl, neu yngeiriau St. *Paul, i'n dyſcu ni i wâdu*
annuwioldeb a chwantau bydol, a bod i ni fyw yn ſobr,
ac yn gyfiawn ac yn dduwiol yn y bŷd ſydd yr awr hon.
Tit. 2. 12.

22. Ni a wyddom mae *Criſt* yw ſylfaen yr
holl addewidion; *holl addewidion Duw ynddo ef*
ydynt iê ac Amen. 2 Cor. 1. 20. Ac am hynny os
rhoddes Duw *Griſt* i'r pwrpas hwn, eglur yw fod
yr Addewidion i'r ûnrhyw hefyd. Ac yna, pa
gam-arfer o'r Addewidion ydyw gwneuthur idd-
ynt wafanaethu i berwyl gwrthwyneb i'r peth
yr amcanwyd hwynt? ſef, i'n Cyſſuro ni mewn
Pechodau, yr hyn beth a wnânt hwy yn ſicr,
os nyni a fyddwn hygoel i gredu ei bôd nhw yn
perthyn i ni, er annuwioled y byddwn fyw. Y
mae 'r Apoſtl yn dyſcu i ni Ddefnydd arall ô ho-
nynt, 2 *Cor.* 7. 1. *Am hynny gan fod i ni'r Adde-*
widion hyn, ymlanhawn oddiwrth bob halogrwydd
cnawd ag Yſpryd, gan berffeithio Sanctteiddrwydd yn
ofn Duw. Pan wnelom fal hyn; ni allwn yn
gyfiawn gymmhwyſo 'r Addewidion i ni ein
hunain, a diſgwil yn gyſſurus ein rhan ynddynt
hwy. Ond tan hynny, er bôd yr Addewidion
hyn ô wirionedd diſigl, etto nis gallwn ni ddiſ-
gwil bûdd oddiwrthynt, o herwydd nad ydym
yn gyfriw i ba rai y gwnaethpwyd hwynt, hyn-
ny yw, nid ydym yn Cyflawni y cyſammod fydd
i roddi i ni iawn ynddynt.

23. Hon yw'r Ffŷdd neu'r Grediniaeth a ddiſ-
gwylir gennym ni tu-ag at y pethau a ddadcu-
ddiodd Duw i ni yn y Scrythur, ſef, y cyfryw
ac a eill atteb y Diben, am ba ûn y dadcudd-

Sul I. wyd hwynt ſelly; hynny yw, ein dygiad ni i ſucheddau dâ; heb hyn, nid ydyw credu yn unig i'w Gwirionedd hwynt ddim mwy nag y mae'r Cythreliaid yn ei wneuthur, ſal y dywed St. *Jago*, *Pen* 2. 19. Yn Unig, nad ydynt hwy mor anreſymmol ac y mae rhai o honom ni, canys nhw a *grynnant* gan wybod yn ddâ na wna'r Ffŷdd hon iddynt fyth ddaioni. Ond mae llawer ô honom ni yn myned ymlaen yn ſyrbwyll, heb ammau nad yw'n Ffŷdd ni yn gwbl-ddigonol, er nad oes gennym y ffrwyth lleiaſ ô Ufydd-dod i brofi'r Ffŷdd hon wrtho; gwrandawed y cyfryw rai farn St. *Jago* yn hyn o beth, *Pen* 2. 26. *Megys y mae'r Corph heb yr yſpryd yn farw, felly Ffŷdd heb weithredoedd marw yw.*

Gobaith. 24. Yr ail Ddlêd-ſwydd i Dduw yw **Gobaith**, hynny yw, diſgwyliad Cyſſurus am y pethau dâ hynuy a addawodd ef. Ond rhaid i hwn (ſal y rhag-ddywêdais am Ffŷdd) fôd gwedi ei gymmhwyſo i natur yr Addewidion, y rhai gan ei bôd nhw yn gyfryw ac ſydd yn diſgwil Cyſammod o'n tû ni, nis gallwn ni Obeithio ddim pellach nag y gwnawn ni'r Ammod yn ddâ; neu os gwnawn ni amgen, yr ydym cymhelled oddiwrth gyflawni'r Ddlêd-ſwydd hon ô *Obaith*, ac ein bod ni yn gwneuthur y pechod mawr hwnnw ô **Rhyfyg**, yr hwn nid ydyw ddim amgen namyn gobeithio lle ni roes Duw ddim achles i Obeithio: hyn y mae pôb Dyn yn ei wneuthur ar ſydd yn Gobeithio cael maddeuant Pechodau a bywyd Tragwyddol heb yr Ediſeirwch a'r Uſydd-dod hynny, i ba rai yn unig yr addawyd hwynt; y gwir Obaith yw'r hwn a'n pûra ni, 1 *Joan* 3. 3. *Pôb ûn ſydd ganddo y Gobaith hyn ynddo, a'i pûra ei hûn, megys y mae yntef yn Bûr*; hynny yw, ſe a wnâ iddo ymadel a'i Bechodau, ag ymegnîo yn ddiwyd i fôd yn Sanctaidd, megis

gis y mae *Criſt*; a'r hwn nid ydyw felly, er mor hyderus y byddo, ſe ellir yn hawdd wybod nad yw ê ond *Gobaith* y *Rhagrithiwr*, yr hwn y mae *Job* yn ei ſiccrhau i ni a ddiflanna. Sul I.

25. Ond mae ffordd arall i droſeddu y *Ddlêd ſwydd* hon heb law honno ô *Ryfyg*, ac honno yw trwy *Anobaith*, wrth ba ûn nid wyfi yn meddwl yr hon â elwir felly yn gyffredinol, ſef, Anobeithio am Drûgaredd tra byddom yn parhau yn ein Pechodau, canys nid yw ond cyfiawn i ni wneuthur felly: Ond yr ŵyfi'n meddwl y fâth *Anobaith* ac a bair i ni adael heibio ymegnîo, hynny yw, pan fô dŷn yn barnu na ddigwydd iddo ef fyth fôd yn gyfryw ûn ac y perthyn yr Addewidion iddo, oblegid ei fôd yn gweled nad yw êf yn y Cyfamſer y Cyfryw ûn, ac am hynny mae fo'n yn Eſceuluſo pôb Dlêd-ſwydd, ac yn myned ymlaen yn ei Bechodau. Hwn yn wir yw'r *Anobaith Pechadurus*, yr hwn os parheir ynddo, a ddibenna mewn Deſtryw. *Anobaith.*

26. Gwaith *Gobaith* gan hynny ydyw Rhagflaenu hwn, trwy oſod o'n blaen *Gyffredinoldeb yr Addewidion*, ſef, i bôd nhw yn perthyn i bawb a gyflawna'r cyfammod. Ag am hynny er na ddarfu i ddŷn hyd yn hyn ei gyflawni ef, ag am hynnu nid oes iddo hyd yn hyn ddim cyfran ynddynt, ond etto ſe ddywed *Gobaith* iddo, y geill ef etto ei ennill os efe'r awrhon a ymrû'n ddiwyd i chwilio am dano. Ffolineb rhyfeddol ydyw gan hynny ĩ ddŷn, er Annuwioled fytho, i roddi ei hûn i fynnu am golledig, pan all (os ſe a adnewydda ei Fûchedd) fôd cyn ſiccred ó gyfrannu o'r *Addewidion* o drugaredd, a phe buaſei erioed heb fyned rhagddo yn y Pechodau hynny o'r blaen.

27. Hyn y mae *Criſt* yn i ddangos i ni trwy ddammeg y *Mâb afradlon*, Luc 15. lle y gwelwn

Sul I. y Mâb hwnnw, yr hwn â redaſei ymmaith oddiwrth ei Dâd, ag a ddifrodaſei y gyfran a roddwyd iddo mewn buchedd afradlon, etto ar ei droead a'i Edifeirwch, yn cael ei groeſawu gan ei Dâd a'r fâth Laryeidd-dra, a phe na throſeddaſai erioed. Unig ſwriad y Ddammeg hon ydyw i ddangos i ni mor raſlawn y derbyn ein *Tâd nefol* nyni, er maint oedd ein Pechodau ni o'r blaen, os ni a ddychwelwn atto êf a gŵir ofid am a aeth heibio, ac Uſydd dod diragrith am yr amſer ſydd i ddyfod; Ie, mae dychweliad pechadur oddiwrth ei ffordd gyfeiliornus, mor gymmeradwy gan Dduw, *â bôd mâth ô orfoledd yn y Nêf am hynny, y mae llawenydd yng-ŵydd Angelion Duw, am ûn pechadur a edifarhao*, Luc 15. 10. Pwy gan hynny na ddewiſai yn hyttrach ddwyn Llawenydd i'r nêf, ſef, i Dduw, ac i'w Angelion Sanctaidd trwy Edifeirwch mewn prŷd, na boddhau Satan a'i Yſprydion melldigedig trwy anobaith ſarrug; yn enwedig gan ein bôd ni yn ennill trwy'r naill happuſrwydd tragwyddol i ni ein hunain, a thrwy'r llall Boenau annherfynol?

Cariad. 28. Y dydydd Ddled-ſwydd i Dduw, ydyw *Cariad*; y mae dau Annogaeth gyffredinol i *gariad* ymŷſg Dynion. Un yw, daioni, a godidowgrwydd y Perſon; a'r llall yw, ei ſwyneidd-dra neillduol a'i gariad êf tû ag attom ni; mae pób ûn o'r rhain yn Nuw mewn Grâdd berffeithlawn gwbl.

Godidowgrwydd Duw. 29. Yn gyntaf, mae êf o ddaioni a godidowgrwydd annherfynol yntho ei hûn; hyn a ddyſgwyd i chwi gredu am dano êf o'r blaen, ac nid all neb ammau hyn yr hwn a yſtyria 'r un peth ymma, ſef, nad oes dim dâ yn y bŷd, ond a dderbyniodd ei holl Ddaioni gan Dduw; y mae ei Ddaioni êf fal y môr; a daioni yr holl Greaduriaid ond megis Afonydd bychain yn tarddu

ddu allan o'r Môr; yr awrhon chwi a debygech yn ddi-ammeu i fôd êf yn ddŷn gwallgofus, yr hwn a ddywedai nad yw'r Môr yn fwy na rhyw Afon fechan; a diammau nid yw ddim llai ffolineb dybied nad ydyw Daioni *Duw* yn rhagori cymmaint (iè anfeidrol ŷchwaneg) ar holl ddaioni y Creaduriaid. Heb law hyn, y mae *Daioni* y *Creaduriaid* yn amherffaith ag yn gymmyſcedig a llawer ô ddrŵg; ond y mae ei Ddaioni ef yn *bûr* ag yn *gyfan-gwbl*, heb ddim o'r fath Gymmyſcedd. Y mae ef yn gyflawn *Sanctaidd*, ag nid ellir mo'i argyoeddi o'r ammhuredd lleiaf, ag ni ddichon êf ychwaith fod yn Awdwr o hynny i ni; canys er ei fôd êf yn achos o bôb daioni ynom ni, nid yw êf yn achos o'r un o'n pechodau ni. Hyn y mae St. *Jaco* yn i draethu yn eglur, *Pen.* 1. 13. *Na ddyweded nêb pan demptier êf, ei demptio gan Dduw, canys ni ellir temptio Duw â drŵg, ac nid yw ef yn Temptio nêb.* Sul I.

30. Ond yn ail, nid ydyw Duw yn ûnig fal hyn yn ddâ ynddo ei hûn, ond y mae ef heſyd yn ddâ rhyſeddol, ſef *Tirion* a *Thrugarog* i ni; yr ydym ni wedi ein gwneuthur i fynu ô ddwy ran, *Enaid* a *Chorph*, ac i bôb ûn o'r rhai hyn yr eglurodd Duw ei Anfeidrol Drugaredd a'i Diriondeb. Yn ûnig yſtyriwch beth a ddywedwyd i chwi o'r blaen am yr **Ail Cyfammod**, a'r Trugareddau a gynnygwyd ynddo, ſef *Criſt* ei hûn a'i holl Ragor-freintiau, ac i fôd êf heſyd yn ei cynnyg hwynt mor *Galonnog* a *diragrith*, fal nad eill neb fethu ei mwynhau hwynt, ond trwy ei fai ei hûn. Canys y mae ef yn chwennych yn dra-ddirfawr i ni ei Cofleidio nhw a bŷw; fal y mae 'n amlwg trwy'r Llŵ cyhoedd hwnnw, *Ezek.* 33. 11. *Fel mai byw fi medd'r Arglwydd Dduw nid ymhoffaf ym Marwolaeth yr Annuwiol, onid ar droi o'r Annuwiol oddiwrth ei ffordd* *Ei Diriondeb ef i ni.*

Sul I. *ffordd a byw*; ag yn ebrwydd y mae yn dra-doſturus yn adrodd, *Dychwelwch, Dychwelwch, oddiwrth eich Effyrdd drygionus, canys pa ham y byddwch feirw?* chwi ellwch ddarllen i'r unrhyw ddiben, *Ezek.* 18. Yſtyriwch hyn meddaf, ag yna diammau yw nad ellwch lai na dywedyd fod gantho êl ewyllus-da mawr i'n heneidiau ni. Ie, cofied pob dŷn yn ddifrifol ond yr amryw wahoddiadau a gafodd ef i edifeirwch a gwellhâad; weithiau oddiallan, trwy 'r Gair, weithiau oddifewn, trwy ymſiſial cyfrinachol Yſpryd Duw yn ei galon, y rhai ydoedd yn ûnig iw daer-ymbil, ai eiriol êl i ochelyd Trueni tragwyddol, ac i dderbyn dedwyddwch anherfynol; cofied meddaf hyn, ynghŷd a llaweroedd eraill o foddion â arferodd Duw tu ag atto êf i'r ûnrhyw ddiben, ac ſe fydd iddo êf achos i gyfaddef Ewyllus-dâ Duw, nid yn ûnig i *Eneidian dynion* yn gyffredinol, ond i'w *Enaid* ei hûn yn neillduol.

31. Ni bû Duw ychwaith yn ddiffygiol i'n Cyrph ni, oblegid ei ddoniau ef yn unig ydyw 'r holl bethau dâ y maent hwy yn ei mwynhau; megys Iechyd, Nerth, Lluniaeth, Dillad, a'r Cyffelyb bethau ag ſydd yn perthyn iddynt hwy; yn gymmaint ag yn wir nad yw boſſibl i ni fod heb wybod ei Drugareddau êl tu ag attynt hwy, gan fod yr holl ddiddanwch *oddiallan* a'r eſmwythdra 'r ydym ni beunydd yn ei mwynhau, yn Effeithiau parhaus, ac yn dyſtion o hynny: ac er bòd rhai yn mwynhau ychwaneg o'r pethau hyn nag eraill, etto nid oes nêb, nad yw yn mwynhau mewn rhyw fódd neu i gilydd cymmaint ac â ddengys yn amlwg drugaredd a Thiriondeb Duw tu ag at ei *Gorph* ef.

32. Nid yw gan hynny ond rheſymmol 'i ni ei Garu ef, 'r hwn ſydd fal hyn ymhôb yſtyriaeth yn hawddgar: ie, mae hon yn ddledſw-

ydd

ydd mor gyffredinol, fal pe gofynnech chwi i ûn-dŷn a ydyw ef yn Caru Duw, ai nad ydyw, fe debygai eich bôd chwi yn gwnenthur iddo gam mawr wrth *Amman* hynny; etto er hyn i gŷd y mae yn rhŷ eglur, nad oes ond ychydig yn ei wîr garu ef, a hyn a brofir yn eglur trwy ymholi ychydig, beth yw *Effeithiau Cyffredinol Cariad* yr hwn ſydd gennym ni tu ag at ddynion fal ni'n hunain, ac yno Profi a allwn ni ddangos y Cyfryw *Ffrwythau* o'n *Cariad* i *Dduw*. Sul I.

33. Y mae amrhyw o'r fâth hyn, ond i fôd yn ſyrr, ni henwa'i ond Dau. Y cyntaf iw, *Chwant bodloni*, yr ail iw, *Chwant mwynhau*. Y rhai hyn yn waſtadol iw *Ffrwythau Cariad*. Am y cyntaf, fe ŵyr pawb fôd y nêb a garo ryw ûn yn chwennych i wneuthur ei hûn yn gymmeradwy iddo ef, gan wneuthur beth bynnag a debygo a'i bodlona êf; ac mae 'r *Chwant* hwn yn fwy neu lai yn ôl meſur y *Cariad*; lle 'r ydym yn Caru yn ddifrifol, yr ydym yn dra-ddiwyd a gofalus i *fodloni*. Os oes gennym ni gan hynny y gwîr *Gariad* hwnnw i *Dduw* ac yr ydym yn Gymmeryd arnom fôd, fe a ddŵg y ffrwyth hwn, ſef, ni a ſyddwn ofalus i'w fodloni ef ymhôb peth. O herwydd pa ham fal y bernwch chwi am y *Pren* wrth ei Ffrwythau, felly y gellwch farnu am eich Cariad i Dduw trwy'r *Ffrwyth* hwn o honaw; yn wîr, hon yw'r ffordd o brofiad yr hon a draddododd *Criſt* ei hûn i ni, *Joan* 14. 15. *Os cerwch fi, cedwch fyngorchymynion*; ac y mae St. *Joan* yn dywedyd i ni 1 Ep. 5. 3. *Mai hyn yw Cariad Duw, bôd i ni rodio yn ôl ei Orchymynion ef*; a lle bo'r Profiad hwn yn ûnig yn ddiffygiol, amhoſſibl yw Tyſtiolaethu am ein Cariad i Dduw. *Ffrwyth Cariad. Chwant Bodloni.*

34. Ond rhaid ydyw yſtyried ymhellach na waſanaetha i'r *Cariad* hwn o *Dduw* fod mewn grâdd iſel wann; Oblegid heb law fod y Cynhyrfiadau

Sul I. hyrſiadau i hyn, ſef, ei *Odidowgrwydd* a'i *Dirion-deb* ef yn y râdd uchaf, y mae'r unrhyw Orchymyn yr hwn ſydd yn erchi i ni garu Duw, yn erchu i ni hefyd *ei garu ef a'n holl Galon, ag a'n holl nerth*, hynny yw, cymhelled ac yw boſſibl i ni, ac uwch-law pob peth arall. Ac am hynny er mwyn cyflawni 'r *Gorchymyn* hwn, anghenrhaid yw i ni ei *Garu* êf yn y râdd honno. Ac os gwnawn felly, ni bydd gennym ni yn unig ryw ſwriad gwael a Llêſg i'w todloni êf, ond y cyfryw ac a ſydd mwyaf diwyd a difrifol, ſêf y fâth ac a'n geſyd ni ar Ddled-ſwyddau tra-helbulus a gwerthfawr, gan ein gwneuthur ni yn ewyllyſgar i ymadel a'n Llonyddwch, a'n Dâ, ac a'n Ceraint ein hunain, iê a'n Bywyd hefyd pan nad allwn ei cadw hwynt heb anufyddhau Duw.

35. Yn awr, prawf di dy hûn wrth hyn; a oes gennyt ti y Ffrwyth ymma o *Gariad* iw ddangos? a wyt ti'n gwneuthur hynny yn waſtadol dy ofal mwyaf, ſêf, i gadw *Gorchymynion Duw*? i ufyddhau iddo ef ymhob peth? gan chwennych yn ddifrifol ei todloni êf, hyd eithaf dy allu, cymhelled ac i ymadel a'r peth ſydd annwyla gennit yn y bŷd hwn? Os felly, ti a elli yn wîr ddywedyd dy fod yn *Caru Duw*. Ond o'r tu arall, os wyti'n parhau yn ſyrbwyll mewn troſeddiad llawer, ie, rhyw ûn o'i Orchymynion êf, na thwylla mo honot dy hûn, nid yw *Cariad Duw* yn preſſwylio ynot. Hyn y amlygir itti os yſtyri pa beth y mae'r *Scrythur* yn ei ddywedyd am y Cyfryw; ſef, *ei bôd nhw yn Elynion i Dduw trwy ei gweithredoedd drwg*. Col. 1. 21. fod *y meddwl cnawdol* (a'r cyfryw yw pôb ûn ac a barhao yn fyrbwyll mewn pechod) yn elyniaeth i Dduw. *Rhuf.* 8. 7. Fód y ſawl a becha yn fyrbwyll, yn ſathru mâb Duw tan draed, ac yn difenwi yſprŷd y Grâs

y Grâs. *Heb.* 10. 29. a llawer o'r cyffelyb. Ag am hynny na chredwch eich bód yn Caru Duw, tra'i bythoch yn myned ymlaen mewn rhyw Anufydd-dod bynbwyll iddo êf, oddigaeth i chwi dybied fód Gelyniaeth a fathriad, a difenwad yn ffrwythau *Gariad*. Sul I.

36. Yr ail *Ffrwyth ô Gariad*, fal y dywedais i chwi, yw, *Chwant mwynhau*. Hyn a welwn yn waftadol yn ein cariad y naill i'r llall. Os bydd gennych gyfaill yr hwn yr ydych yn ei garu yn ddirfawr, chwi a chwennychwch ei gyfeillach ef, a bód yn waftad yn ei gymdeithas ef; ac felly y bŷdd hefyd yn ein Cariad i Dduw, os bydd et Cymmaint ag mor ddi-ragrith a hwn. *Chwant mwynhau.*

37. Y mae dau fath o *Fwyniant ô Dduw*, ûn yn *Amherffaith* yn y bŷd hwn, y llall yn *Berffeithiach*, ac yn gyflawnach, yn y bŷd y ddaw: yr hwn fydd yn y bŷd hwn yw yr ymgyfeillach (fal y dywedwn) fydd gennym a Duw yn ei Ordinhadau, trwy *Weddio*, *Myfyrio*, *Gwrando ei Air*, *Derbyn* y *Cymmun*, yr hyn oll a fwriedir i'r pwrpas hwn, fef, i'n dŵyn ni i Gymdeithas a chynnefindra a Duw trwy *fiarad* ag êf, a'i glywed yntef yn Siarad a ninnau.

38. Yn awr, os ydym yn gwir garu Duw, ni a brifiwn ac a chwennychwn yn ddirfawr y moddion hyn ò ymgyfeillachu ac ef, gan fòd hyn yn gwbl oll a allwn ei gaffael yn y bŷd hwn, fe a'n gwnâ ni gyda *Dafydd* i brifio ûn Diwrnod yngh̃ynteddau *Duw* yn fwy na Mîl. *Pfal.* 84. 10. fe fydd hyfryd gennym gael yr Odfau hyn i neshau atto êf cyn fynyched ac y bŷddo posfibl, ac ni a fyddwn ofalus i w harferu nhw yn ddiwyd i'r perwyl hwn, fef, i'n ûno ni yn fwy ac êf; ie, ni a ddeuwn mor hoyw i'r ymarferion yfprydol hyn, ac a deuem at ein cydymmaith annwylaf. Ac os gwnawn

Sul I. yn wîr ſal hyn, y mae'n Arwydd ddâ o'n *Cariad.*

39. Ond yr ŵyf yn oſni nad oes fawr a eill ddangos hyn am dano, fal y mae yn amlwg trwy Annhuedd gyffredinol ac anewyllyſgarwch dynion i ddyſod i'r rhai hyn; a'i helgeuluſdra, a'i diſraw-wch pan ddelont; ac a allwn ni dybied y cydnebydd Duw ni yn garwŷr iddo êf tra bo gennym y fath anfoddgarwch iw gymdeithas êf ac na ddeuwn ûn amſer iddo ond pan i'n lluſcir trwy *Gwilidd* neu Oſn dynion, neu ryw gyffelyb annogaeth Bydol? Yn ddiammau, ni thybiech 'wi fòd y Dyn hwnnw yn eich *Caru* chwi yr hwn a welwch yn gochel eich cymdeithas. Ag am hynny na ſyddwch mor anrheſymmol a dywedyd *eich bôd yn caru Duw* a chwi etto yn ymgadw oddiwrtho êf cymmhelled ac y galloch.

40. Ond heb law hyn y mae *Mwynhâd* arall ô Dduw, yr hwn ſydd yn ſwy *Perffaith* a chyſtawn, ſef, ein *Mwynhâd Tragywyddol* ô honaw êf yn y nêf, llè y cawn ein cyſſylltu yn ûn ag êf yn dragywydd, a'i fwynhau êf nid weithiau yn unig tros amſer byrr, fal yma, ond yn waſtadol heb ddim Rhwyſtr na Gwahaniaeth. Ag os oes gennym y meſur hwnnw ô *Gariad* i Dduw ac a ddyle fòd, nid allwn lai na chwennych hyn yn ddirfawr, yn gymmaint ag na thybiwn Lafur yn y bŷd yn ormod i'w fwynhau ef. Y ſaith mlhynedd hynny y gwaſanaethodd *Jacob* am *Rachel*, (Gen. 29. 20.) *oeddynt yn ei olwg ef ond ychydig ddyddiau, am fôd yn hòff ganddo ef hi*: ac yn wîr, os oes gennym ni *Gariad* i Dduw, ni thybiwn fôd gwaſanaeth ein hòll fywyd yn ormod prîs am y *mwynhâd perffaith* hwn ô honaw êf, iè, ni thybiwn holl fwyniant y bŷd yn talu dim iw cyſtadlu a hwn.

41.

41. Os gallwn ein ſiccrhau 'n hunain ein bôd ni fal hyn yn hiraethu am ſwynhâd ò Dduw, ni a allwn gredu ein bòd yn ei garu ef. Ond yr ŵyf yn ofni drachefn nad oes fawr a all fal hyn ddatcan ei *Cariad*. Canys os edrychwn ar fucheddau Dynion, ni a gawn weled nad ydyw yn gyffredinol mor hòff ganthynt y *Mwyniant* hwn ac y cymerant ddim poen i'w bwrcaſu. Ac nid hynny yn unig, ond y mae yn gyffelybus fòd Llawer y rhai, pe caent ei dewis naill ai byw yma yn waſtad i ſwynhau Bûdd a diddanwch y Bŷd hwn neu fyned i'r nèf i *ſwynhau Duw*, a oſodent yn hyttrach ei gorphwyſla, fal meibion *Gad* a *Ruben*, y tŷ yma i'r *Jorddonen*, *Num.* 32. heb ſyth chwennych y neſol *Ganaan*; mor gaeth y mae ei hanwydau nhw gwedi ei goſod ar bethau oddi-iſod, yr hyn ſydd yn arwyddoccau yn eglur na wnaethont Dduw yn *dryſſor* iddynt, canys yna ar ôl rheol *Criſt* (*Mat.* 6. 21.) ſe ſydde ei calon gyda ag ef. Ie ymmhellach etto; y mae yn rhŷ eglur fòd Llawer o honom ni yn priſio cyn lleied o *ſwynhau* Duw, a'n bòd ni yn Priſio mwy o'n Pechodau *gwaelaf* a *diyſtyraf*, nag o hono ef, ag yn dewys ei mwynhau hwynt, er ein bòd ni trwy hynny yn llŵyr golli ein cyfran ynddò êf, yr hwn yw cyfiwr pob dŷn ar ſydd yu parhau yn fyrbwyll yn y pechodau hynny. Sul I.

42. Ag yma'r wyf yn ofni y gellir gweled fòd llawer, yn ôl y Rheolau hyn ò *Broſiad*, y rhai ſydd yn proffeſſu caru Duw, heb wneuthur felly; mi a ddibennaf y cwbl a geiriau St. *Joan* I Epiſt. 3. 18. yr hyn a berthyn yn gymmwys i'r *Cariad* hwn o Dduw, er y dywedir yno am *Gariad* i'n *Brodyr*, *na charwn ar Air*, *nac ar Dafod yn unig*, *eithr mewn gweithred a Gwirionedd*.

Sul I. *Ofn.*

43. Y Pedwerydd Dled-ſwydd i Dduw ydyw Ofn; yr hwn a ddeillia oddiwrth yſtyriaeth o'i *Gyfiawnder* a'i *Allu* ef; oblegid fòd ei *Gyfiawnder* ef yn gyſnyw, ac na ryddha ef mo'r *Drygionus*, a'i *Allu* yn gyſnyw a'i fod ef yn abl i ddodi y Poenedigaethau trymmaf arnynt hwy; ac y mae *Criſt* ei hùn yn dywedyd i ni, fòd hyn yn achos cymmwys ò *Ofn* Mat. 10 28. *Ofnwch yr hwn a ddichon ddeſtrywio yr Enaid gydà 'r Corph yn Uffern.* Y mae amryw ſannau eraill o'r Scrythur yn gorchymyn y Ddled-ſwydd hon i ni, megys *Pſal.* 2. 11. *Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn Ofn. Pſal.* 34. 9. *Ofnwch yr Arglwydd ei Sainct ef.* Dihareb. 9.10. *Dechreuad Doethineb yw Ofn yr Arglwydd*, a'r cyffelyb; ac yn wîr, nid ydyw 'r holl Fygythion ò lîd yn erbyn pechaduriaid a gyſarſyddwn ni yn y Scrythur, ddim ond i'r diben hwn, ſef, i weithredu yr *Ofn* hwn yn ein calonnau ni.

44. Nid ydyw'r *Ofn* hwn ddim ond y ſath Briſiad parchedig ô Dduw ac a'n ceidw ni rhag ei anfoddhau ef: hyn a ddywed y gŵr doeth. *Dih.* 16. 17. *Ofn yr Arglwydd yw dychwelyd oddiwrth ddrŵg*: yn gymmaint nad oes neb yn gwîr ofni Duw, nad yw trwy hynny yn ymgadw oddiwrth Bechod; ac nid ydyw hyn ond cyfattebol i'r *Ofn* Cyffredinol ſydd gennymni tu ag at Ddynion; ni a ochelwn gyffròi y nêb a dybiom a eill wneuthur niwed i ni; ac am hynny oni byddwn ni mor Ofalus, rhag *Anfoddhau* Duw, hyſpus yw ein bod ni yn ofni Dynion yn ſwy nag èf.

Ffolineb o ofni dynion uwchlaw Duw.

45. Fe ymddengys pa ynfydrwydd yw i ni fal hyn ofni Dynion uwch-law Duw, os cyffellybwn bêth a all dŷn i wneuthur i ni, a pha beth a all Duw. Yn gyntaf, ſicc'r yw, nad ydyw yn ngallu Dŷn (iè, na Chythreuliaid chwaith) wneuthur

wneuthuf i ni ddim niwed, oddieithr i Dduw Sul I.
ganniattau iddynt gennad i hynny; fal os cadwn
ei o'n tŷ, ni a allwn ddywedyd gyda *Dafydd, yn*
Arglwydd ſydd gyd à mi, nid ofnaf beth a wnêl dîn
i mi. Canys er maint y ſô ei cenfigen, fe ddi-
chon êf i hattal nhw, a'i cadw nhw rhag
gwneuthur niwed i ni; iè, ſe ddichon êf newid ei
meddyliau nhw tu ag attom, ni, megis y dywed y
Gŵr-doeth *Dihar.* 16. 7. *Pan ſydd ffyrdd gŵr yn*
rhyngu bôdd i'r Arglwydd, efe a bàr i'w Elynion fod
yn heddychol ag êf. Y mae i ni eſampl nodidog o
hyn yn *Jacob, Gen.* 32. yr hwn pan oedd ei frâwd
Eſau yn dyfod yn ei erbyn megis Gelyn, ſe
drôdd Duw ei galon ef yn rhyfeddol, fal y cy-
farfu ag ef a Charedigrwydd brawdol, fal y
gellwch ddarllen yn y bennod neſſaf.

46. Ond yn *ail*, bwriwch fod Dynion wedi i
gadael i'w rhydd-did ei hunain, i wneuthur itti
yr holl Ddrŵg â allant; òch, nid yw ei gallu
nhw yn cyrredd ond ychydig ffordd; ond odid
nhw allant ddwyn oddiarnat dy *Ddà*, ſe allai y
gallant ddwyn ymmaith dy Rydd-dyd, neu dy
Enw da, neu yſgatfŷdd dy hoedl hefyd, ond ti
a wŷddoſt mai dena'r eithaf. Ond ſe all Duw
wneuthur hyn oll pan fynno, ac aneirif ych-
waneg, y mae Dial Duw yn cyrredd tu hwnt i
farwolaeth, ſef, i drueni tragywyddol *Corph* ac
Enaid, yn *Uffern*; trwy gyffelybiaeth i ba ûn y
mae marwolaeth yn beth mor wael a ſalw, na
ddylem edrych arni ag Arſwyd yn y bŷd. *Nag*
ofnwch y rhai ſydd yn Llâdd y Corph, ac wedi
hynny nid oes ganddynt ddim a wnelant mwy, medd
Criſt, Luc. 12. 4. ac yn ebrwydd y mae yn can-
lyn, *Rhagddangoſaf i chwi pwy a ofnwch, ofnwch*
ef, yr hwn, pan ddarffo iddo lâdd, ſydd ac awdurdod
gantho i fwrw i Uffern: yn ddiau meddaf i chwi
ofnwch hwnnw. Ymmha eiriau y mae cyffelybiaeth

wedi

Sul I. wedi ei gofod ar lawr rhwng y drŵg mwyaf a allwn ni ei ddioddef gan Ddynion, ſef, colled hoedl, a'r drygau toſtaf hynny a eill Duw roddi arnom; ac ſe welir mai 'rhain yw'r unig bethau ofnadwy, am hynny Duw yn unig ſydd raid ei ofni.

47. Ond y mae etto ûn peth ymhellach iw yſtyried yn hyn, ſêf, fôd yn boſſibl i ni droſeddu yn erbyn Dynion, a hwythau heb wybod hynny: mi allaf yſgatfŷdd *ledratta dâ fy ngbymydog*, neu *odinebu a'i Wraig* êf, a chadw hyn mor ddirgel fal na ammeu êf mono 'i, ac felly fyth fy nŵyn i goſpedigaeth am hynny; ond nid allwn wneuthur felly a Duw, êf a wyr bôb peth, iê meddyliau dirgelaf ein Calonnau ni; ac am hynny, er i ni bechu yn dra-chyfrinachol, Efe'n ddiammeu a'n gorddiwes, ag ſe fydd ſicer, os nyni ni edifarhawn mewn amſer, i'n coſpi ni yn dragywyddol am hynny.

48. Ac yn awr, nid allwn lai na chyffeſſu fôd yn ſwy diangol anfodloni dynion na Duw; etto 'ſowaeth y mae ein bucheddau ni yn gyſtryw a phe byddem yn credu yn union i'r gwrthwyneb, gan nad oes dim yn ſwy cyffredin gyda ni, na rhuthro ar Lidiawgrwydd Duw er mwyn gochelyd rhyw enbydrwydd preſennol yr ydym yn ei ofni oddiwrth ddynion. Ac fal hyn y mae, pan wnelom ryw bechod, naill ai i gadw ein Dâ, neu ein henwau da, neu ein bywyd; canys eglur yw trwy hyn ein bôd ni yn dewis yn hytrach ddigio Duw, na Dŷn.

49. Ond ſe ŵyr Duw mai nid trwy *Ofn dynion* yn unig yr ydym ni yn beiddio ei anfodloni êf; oblegid yr ydym yn gwneuthur Llawer ô Bechodau, i ba rai nid oes gennym mo'r hudoliaeth hon, nag yr ûn arall chwaith, megys *Llŵon Cyffredinol*, i ba rai nid oes na phleſer na budd

i'n

i'n hannog ni. Iê lawer gwaith, nyni, y rhai Sul. I.
ydym yn gymmaint yn ofni drygau a eill rhai
craill ei gwneuthur i ni, a'n Bôd ni yn barod
iw prynnu nhw ymmaith a'r Pechodau mwyaf,
ydym yn dwyn yr holl ddrygau hynny arnom
ein hunain trwy bechodau gwir-fôdd. Fal hyn
y mae 'r Afradlon diofal yn i yfpeilio ei hûn
o'i *Ddâ*; y Dŷn twyllodrus anoneſt, neu yr
hwn fydd yn byw mewn pechod ffiaidd hynod,
yn ei ddifeddiannu ei hûn o'i Enw da; y medd-
wyn a'r Glŵth yn dwyn clefydau arnynt ei
hunain i fyrrhau ei hoes. Ac a allwn ni dybied
ein bôd ni yn gwir ofni Duw, pan yw'r Ofn
hwnnw yn gweithio cyn lleied arnom, ac er
bôd amryw *ddrygau* preſennol, y rhai fydd yn
dilyn pechod, i'n hattal ni, etto ni attelir mo-
nom ni oddiwrthynt? Diammau ydyw fôd y
cyfryw ddynion cymmhelled oddiwrth ofni
Duw, ac y gellid tybied yn hyttrach ei bôd nhw
yn ei ddibrifio ef, ac yn ymroi iw ddigio ef
beth bynnag a goſtia iddynt yn y bŷd hwn
neu yn y bŷd a ddaw. Etto y mae mor hoff
gennym ni ein fiommi ein hunain, a bôd y cy-
fryw rai a 'rhain yn cymmeryd arnynt fôd gandd-
ynt yr ofn hwn: chwi a ellwch holi lluoedd
o bechaduriaid hynod farhàus, cyn cyfarfod ac
ûn a gydnebydd ei fod heb ofni Duw. Rhyfedd-
ol yw fod boſſibl i Ddynion fal hyn ei fiommi
ei hunain; ond pa ûn bynag, diammau yw nad
allwn ni dwyllo Duw, ni fyn ef mo'i *Wamwyo*, ac
am hynny, oni ofnwn êf yr awrhon yn gym-
maint ac i ochelyd *pechod*, ni a gawn ryw Ddŷdd
i ofni êf, pan fytho rhŷ hwyr, i ochelyd *eoſpedi-
gaeth*.

50. Y Pummed Dlêd-ſwydd i Dduw ydyw, *Hyder.*
ymmddîried ynddo; hynny yw, rhoddi ein go-
glud a'n hyder arno; ac hynny, yn *gyntaf*,

ymmhòb

Sul I. ymmhòb *peryglon*; yn *ail*, ymmhòb *Diffygion*. Ni a ddylem hyderu arno êf yn ein holl beryglon, yn gyſtal *Yſprydol* a *Phreſennol*. O'r ſath gyntaf, yw, yr holl *Brofedigaethau* hynny, trwy ba rai yr ydym mewn perigl o gael ein llithio i bechod. Ac ó herwydd hyn yr addawodd ef ini *os nyni a wrthwynebwn Ddiafol, efe a gilia oddiwrthym, Jaco.* 4. 7. Am hynny ein Ddlêd ſwydd ni ydyw yn gyntaf, *weddio* yn daer am *Râs* Duw i'n nerthu ni i orchfygu y *brofedigaeth*; ac yn *ail*, ymroi yn ſerol i ymladd ac ef, heb gilio yn ôl neu gydſynnio ac êf mewn modd yn y bŷd; a thra' i gwnelom fal hyn, ni allwn yn *dra-hyderus* ymddiried yn Nuw, y bydd ei *Râs* ef yn ddigonol ini, ac naill ai y tynn êf ymmhaith y *Brofedigaeth*, neu y *rhòiff i ni allu* i'w gwrthwynebu.

Ymmhob Peryglon Yſprydol.

A Phreſennol.

51. Yn *ail*, ni a ddylem *Hyderu* arno êf ymmhob *Peryglon Preſennol* oddi allan, gan wybod i fod ef yn abl i'n gwaredu ni, ac y gwnâ ef felly os gwêl ef fod hynny yn orau i ni, ac os ydym ni yn gyſtyryw i ba rai yr addawodd ef ei nodded, ſef, yn gyſnyw ac ſydd yn ei wîr ofni êf. I'r diben hwn y mae amryw Addewidion yn y *Scrythur*, Pſ. 34. 7. *Angel yr Arglwydd a gaſtella o amgylch y rhai ai hofnant ef ac ai gwared hwynt*, felly Pſal. 34. 22. *Yr Arglwydd a wareda Eneidiau ei weiſion: a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ef nid anrheithir hwynt*: ac amryw o'r cyffelyb. Ac y mae i ni heſyd lawer o eſamplau, megis am y tri llangc yn y Fſwrn: *Dan.* 3. Am *Ddaniel yn ffau 'r llewod, Dan.* 6. A llawer eraill; y rhai oll a waſanaetha i ddyſgu i ni yr ûn wers hon, os nyni a barhawn i wneuthur ein Ddlêd ſwydd yn gydwybodus, ni bydd raid i ni ddigalonni am ddim a all ddigwydd i ni, canys y Duw yr hwn yr ydym ni yn ei waſanaethu ſydd *abl* i'n gwared ni.

52. Am

52. Am hynny ymmhob *Peryglon* ni a ddylem yn gyntaf, *Weddio* yn oſtyngedig am ei nodded eſ, ac yna hyderu arno eſ yn llawen, gan ein ſicrhau ein hunain y rhydd eſ i ni y ſâth Ddibendod ac a ſo goreu er ein lles. Ond uwchlaw pob peth, rhaid i ni fôd yn ofalus i oſôd ein ymddiried yn gwbl arno êf, heb hyderu ar y Creaduriaid am gymmorth, llai ô lawer y dylem geiſio ein gwaredu ein hunain trwy neb rhyw foddion *anghyfreithlon*, megys trwy wneuthur rhyw bechod. Canys tebyg yw hynny i *Saul*, 1 Sam. 28. 7. *yn myned at y ddewines*, hynny yw, y Cythrel am gynnorthwy: y mae y cyfryw foddion gan mwyaf yn twyllo ein Gobaith ni yn y Cyfamſer, ac yn lle ein gwaredu ni allan o'n cyfyngderau, yn ein hymdrobaeddu ni mewn rhai mwy ô lawer, a mwy anghyſſurûs, canys trwy hyn y mae arnom eiſiau yr hyn beth yw'r unig gynhaliad, ſef *ffafor* a chymmorth Duw, yr hyn yr ydym ni yn ddiammau yn ei colli pan fôm fal hyn yn ceiſio ein hachub ein hunain trwy foddion pechadurus. Ond bwriwch allu ô honom trwy y cyfryw fôdd, ein rhyddhau ein hunain oddiwrth *Berigl Preſennol*; etto yr ydym ymmhell oddiwrth ennill Diogelwch i ni ein hunain trwy hynny; ni ddarfu i ni ond ſymmud y perigl oddiwrth yr hyn beth ydoedd lai yſtyriol, a'i ddwyn ef ar y rhan werthfawroccaf o honom, ſef, ein *Heneidiau*; fal *Meddyg anghelfyddgar*, yr hwn er mwyn Symmud ymmaith ddolur ô ben *Bŷs*, ai teri êf i'r *galon*; yr ydym ni gan hynny yn camgymmeryd yn anfeidrol, trwy dybied ein bôd yn *gynnil-dda* wrth gadw ein Rhydd-dyd, neu'n dâ, neu'n Hoedl, trwy bechod; ni ddarfu i ni mo'i cadw nhw, ond yn wyllt-ffôl ei prynu nhw yn rhy ddrûd, gan dalu ein *Heneidiau* am danynt: Ac y mae

Sul I.

Sul I. *Criſt* yn dywedyd i ni beth a ennillwn' i wrth y fâth Farchnadoedd, *Mat.* 16. 26. *Pa lleſa'd i Ddŷn, er ennill yr holl fŷd, a cholli ei Enaid ei hûn?* Gadewch i ni gan hynny ymroi na phriſiom cymmaint ddim a feddom yn y bŷd hwn ac y cadwom ef ar brîs y pechod lleiaf, ond pa brŷd bynnag y digwydd i bethau ddyfod i'r cyfryw ddiben, ac y bŷdd rhaid i ni naill ai ymadel a pheth, neu yſgatſydd ein holl *Ddê* bydol, iê ein hoedl, neu wneuthur Pechod, cofiwn mai dyma 'r odfa i ni i gyflawni y Ddled-ſwydd fawr ragorol honno, o *Gymmeryd y Groes*, yr hyn beth nid allwn ûn amſer ei wneuthur mor gyfleus ac yn y cyflwr hwn; canys nid yw goddef y peth nid allwn mewn ûn môdd ei ochelyd, o'r eithaf ddim ychwaneg na *dwyn y Groes*, ond yr amſer hynny yn unig y gellir dywedyd ein bôd ni yn ei *chymmeryd hi i fynu*, pan ddewiſom yn hyttrach ddioddef y *Groes* na gwneuthur *Pechod*, pan ſo gennym fôdd iw gochelyd hi trwy bechod; canys yr amſer hynny ni oſodir moni'hi arnom trwy ryw anghenrhaid anocheladwy, ond yr ydym ni o'n gwirfodd yn ei *dewis* hi; ac y mae hyn yn gymmeradwy jawn gan Dduw, iê, ſe erchir hyn mor gaeth ganddo êf, fal na'n cyfrifir monom yn ddilynwyr i *Grîſt* os diffygiwn ni o gyflawni hyn pan brofir ni, canys felly y mae êf yn dywedyd yn Eglur, *Mat.* 16. 24. *Os myn nêb ddyfod ar fy ôl i, gwaded ef ei hûn, a chymmered ei Groes, a dilyned fi*; a thrachefn *Mar.* 8. 34. Doethineb yſprydol gan hynny a ſydde i ni weithiau trwy arferu ein gwadu ein hunain mewn pethau gwael, ein cymmhwyſo ein hunain i'r Ddled-ſwydd fawr hon, pan i'n gelwir i hynny; ni a wyddom fôd y nêb ſydd yn amcanu rhedeg *gyrfa* yn ſynych yn ei arferu ei hûn i hynny ymlaen llaw, rhag iddo ddiffygio

gio pan ddêl i redeg am y *ſuddugoliaeth*; yn yr ûn môdd y dylem ninnau weithiau naccàu i ni ein hunain ein Pleſer *cyfreithlon*, neu n' Eſmwythdra, neu'n bŷdd, er mwyn meiſtroli ein hunain cymmaint ac i allu ymadel a'r cwbl, pan ſo ein huſydd dod i Dduw yn goſyn hynny. Sul I.

53. Ac fal y dylem hyderu yn *Nuw* am *Ymwared* oddiwrth beryglon, felly y dylem heſyd am *Ddiwalliad* ein *heiſiau*, yn gyſtal *Yſprydol* a *Phreſennol*: Ein *heiſiau Yſprydol* yw o'i *Râs* ef i'n ablhau ni i'w waſanaethu èf, heb yr hwn nid allwn ni wneuthur dim; ac ni a ddylem gwblhyderu arno ef am hyn, os nyni ni eſgeuluſwn y moddion, y rhai yw *Gweddi* ac *Arferu yn ddiwyd* yr hyn a roddodd ef i ni yn barod: canys yna y mae gennym ei *Addewid* am dano, *y rhŷdd efe yr Yſpryd glân i'r rhai a ofynno ganddo*, Luc. 11. 13. *Ac i'r nèb y byddo ganddo y rhoddir*, Mat. 25. 29. hynny yw, *fe rŷdd Duw ychwaneg i'r nèb a arfera yn dda'r Grâs ſydd ganddo yn barod.* Ni ddylem ni gan hynny mo'n dychrynnu ein hunain ag anhawſder y pethau hynuy y mae Duw yn ei goſyn ar ein dwylo ni, eithr cofio nad yw ef yn gorchymyn dim ond y peth yr ablheiff ef nyni i'w gyflawni, oni byddwn yn ddiffygiol i ni ein hunain. Am hynny gwnawn ni ein rhann yn ddiffuant, a ſiccrhâwn ein hunain yn dra-hyderus ná phalla Duw o'i rann yntau. *Ymbob eiſiau Yſprydol.*

54. Ond mae arnom heſyd eiſiau *Preſennol* a *Chorphorol*, am *gyflawniad* pa rai y dylem ni heſyd gwbl hyderu arno êf. Ac nid oes arnom eiſiau *Addewidion* am hyn heſyd, os bwriwn ein bôd ô-niſer y cyfryw i ba rai y gwnaethpwyd hwynt, hynny yw, ffyddlawn Waſanaeth-wŷr Duw: *nid oes eiſiau ar y rhai ai hofnant êf*, Pſal. 34. 9. *a'r* 10. wers, *Yſawl a geiſiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt aiſiau dim Daioni.* A thrachcſn, *A phreſennol.*

Sul I. *Pſal.* 33. 18, 19. *Wele lygad yr Arglwydd ar y rhai ai hofnant ef*: ſef, ar y rhai y ymddiriedant yn ei drugaredd êf, er mwyn gwaredu ei heneidiau rhag angeu: ac i'w cadw yn fyw yn amſer newyn. Y mae i ni ſiamplau hefyd o hyn ynghyflwr *Eliſha*, a'r Weddw dlawd 1 *Bren.* 17. a llawer eraill.

55. Rhaid i ni gan hynny edrych i fynu atto êf am ragddarpariad pôb pethau anghenrheidiol i ni, yn ôl geiriau y *Pſalmydd*, *Llygaid pawb a ddiſgwyliant wrthit, ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddyut yn ei brŷd.* Ac fe ddyſgodd ein Jachawdwr i ni *weddio* am ein *bara beunyddiol*; wrth hyn yn ein dyſgu ni y dylem ni fyw mewn *goglud ddi-baid* ar Dduw am dano. Etto nid wyf yn meddwl wrth hyn, y dylem ni ſelly ei ddiſgwyl ef gan *Dduw*, ac y gallwn ymroi ein hunain i *ſeguryd*, a disgwyl cael ein porthi trwy Ryfeddodau. Nagé ddim, ein dieſceulus *ddiwydrwydd* a'n llafur yw'r moddion trwy ba rai y mae Duw yn *gyffredinol* yn rhoddi i ni y pethau *angenrheidiol* i'r bywyd hwn; ac am hynny ni ddylen'i er dim eſgeuluſo hynny. *Os bydd néb ni weithia, na fwyttaed ychwaith* medd yr Apoſtl, 2 *Theſ.* 3. 10. Ac ni a allwn gredu y Traetha Duw yr unrhyw *farn*, ac y gedi ſo ar y Dŷn diog eiſiau *ymborth anghenrheidiol.* Ond pan ddarffo i ni arferu yn ffyddlon ein *hegni* ein hunain, ni a ddylem hefyd edrych i fynu at Dduw am ei fendith ef arno, heb ba ûn, nid all byth ffynnu i ni. Ac wedi hyn ni allwn yn drâ-chyſſurus hyderu ar ei *Ragluniaeth* ef am y cyfryw feſur o'r pethau yma oddiallan ac a wêl ef gymmhwyſaf i ni.

56. Ond os ein cyflwr ni a fydd cyfryw ac nad allwn lafurio, ac heb fôd gennym foddion eraill i ddwyn i mewn ein hymborth *anghenrheidiol*,

diol, etto ni a ddylem y prŷd hynny hyderu yn *Nuw* yn gyſſurus, gan gredu mai yr hwn ſydd yn porthi y *Cigfrain* a ddarpara i ni ein *hangenrheidiau* tra byddom yn y bŷd hwn trwy ryw foddion neu' i gilydd, er na wyddom ni pa fôdd; ag am hynny na phenydiwn fôdd yn y bŷd ein hunain a meddyliau *trym-driſt anobeithgar*, eithr gyda 'r Apoſtl, 1 *Pet.* 5. 7. *Bwriwch gwbl o'ch gofal arno êf, canys y mae êf yn gofalu troſoch.* Sul I.

57. Hyn y mae ein *Jachawdwr* yn ei annog yn ddirifol. *Mat.* 6. lle y mae ef yn dangos yn helaeth ffolineb *Anhyder*. Y mae yn llè rhagorol, am hynny mi a'i goſodaſ êf i lawr ô hŷd; Adnodd. 25, &c. *Am hynny meddaf i chwi na ofelwch am eich bywyd pa beth a fwytaoch, neu pa beth a yfoch: nag am eich Cyrph pa beth a wiſcoch: onid yw 'r bywyd yn fwy nâ'r bwyd? a'r Corph yn fwy nâ 'r dillad? Edrychwch ar Adar y nefoedd, oblegid nid ydynt nag yn medi, nag yn cywain i'r yſguboriau, ag y mae eich Tâd nefol yn ei porthi hwynt; onid ydych chwi yn rhagori arnynt hwy? A phwy o honoch gan ofalu a ddichon chwanegu ûn Cufydd at ei faint? A pha ham yr ydych chwi yn gofalu am ddillad? dyſgwch pa wedd y mae Lili 'r maes yn tyfu: nid ydynt yn llafurio, nag yn nyddu, eithr ye wyf yn dywedyd i chwi na bu* Solomon *yn ei holl Ogoniant mor drwſiadus agûn o'r rhai hyn. Am hynny os dillada Duw Lyſieun y maes, yr hwn ſydd heddyw, ac y foru a fwrir i'r ffwrn, oni ddillada ef chwi yn fwy o lawer, O rai ô ychydig ffŷdd? Am hynny na ofelwch, gan ddywedyd beth a fwytawn? neu beth a yfwn? neu â pha beth yr ymddilladwn? Canys am y pethau hyn oll yr ymofyn y Cenhedloedd, oblegid eich Tad nefol a wŷr fôd arnôch eiſiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceiſiwch Deyrnas Ddurw, a'i Gyfiawnder; a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn chwaneg. Na ofelwch gan hynny dros drannoeth, canys trannoeth*

Sul I. *â ofala troſto ei hunun, digon i'r diwrnod ei* ddrŵg *ei hûn.* Mi allwn roddi a'r lawr amryw loedd yn ychwaneg i'r pwrpas hwn, ond y mae hyn mor gyflawn, ag eglur, fal na bydde ond afraid roddi ychwaneg.

Y bûdd o hyderu yn Nuw.

58. Cymmaint oll ac a draetha 'i yn ychwaneg am y Ddled-ſwydd hon, a fydd i'ch Coffau chwi o'r *Breintiau* o honi; megys yn *gyntaf*, trwy hyderu fal hyn yn Nuw yr ydych yn ei rwymo ef i ofalu troſoch: Chwi wyddoch fôd Dynion yn gofalu yn ddiwyd na ſiommont hwy mòr rhai ſydd yn ymddried, ac yn hyderu arnynt; a diammau, fod Duw yn fwy o lawer felly. Ac yn *Ail*, y mae llawer o Eſmwythdra a Llonyddwch yn ymarfer y Ddlêd-ſwydd hon; y mae yn ein gwared ni oddiwrth y gofalon *Trymdriſt anghymmedrol* hynny y rhai Sydd yn aflonyddu ein Meddyliau, yn torri ein Cŵſg, iè ag yn yſſu ein Calonnau. Yr wŷf yn meddwl na bydd rhaid dywedyd i'r nèb a'i teimlodd hwynt, ei bôd nhw yn aneſmwyth. Ond mi debygwn gan hynny y dyleu yr Aneſmwythdra hwn ein gwneuthur ni yn chwannog i gofleidio y moddion i'w ſymmudo hwynt; felly y gwelwn yn fynych mewn Pethau *anghyfreithlon*; fe a *dwylla* Dynion, nhw a ledrattant, nhw a *ddywedant gelwydd*, iè a wnânt bob peth er mwyn gwared ei hunain rhag *Ofn* Eiſiau. Ond och! nid yw y rhain yn gyffredinol yn priſio ond rhwymedi twyllodros; y maent yn dwyn melldith Dduw arnom, ag felly y maent yn fwy cyffelybus i'n traddodi ni i eiſiau, nag i'n cadw ni ni rhag eiſiau. Ond os ydych yn ewyllyſio meddiginiaeth ſiccr a diball rhag *gofalon*; Cymmerwch hwn o hyderu ar Dduw.

59. Canys pa achos i'r dŷn hwnnw ofni angen, yr hwn ſydd yn gwybod fôd gantho ûn i ofalu

ofalu troſto, yr hwn ſydd *gwbl-ddigonol*, ac ni âd fôd arno ef eiſiau y peth a fydd cymmwys iddo? ſe fydde yn gyſſur mawr i *ŵr Tlawd* pe gwnai ŵr *goludog addewid ffyddlon* iddo na adawei ſo fyth eiſiau arno; ac ni thybia y cyfryw ûn y prŷd hynny fôd yn gymwys iddo fod mor dra-ofalus ac o'r blaen; ac etto ſe all addewid Dŷn ballu, canys ſe all naill ai myned yn *dlawd* ac heb allu, neu ſe all briſio yn *dwyllodrus*, ac felly yn anfodlon i gywiro ei Air. Ond ni a wyddom nad all Duw fôd nag yn dlawd, nag yn ddichellgar. Pa ammarch atgas gan hynny yr ydym yn ei wneuthur i Dduw pan na feiddiwn hyderu cymmaint ar ei *Addewid* ef ag a wnaem ar *Ddyn*? Iè pa ddrŵg mawr yr ydym yn ei wneuthur i ni ein hunain trwy lwytho ein meddyliau a blinderau lawer, a gofalon trafferthus, pan alloni mor ddiogel fwrw ein baich ar Dduw? Mi a ddibeunat hyn a geiriau'r Apoſtl. *Phil* 4. 6. *Na ofelwch am ddim, eithr ym mhôb dim dangoſer eich dymuniad i Dduw mewn Gweddi a deiſyfiad gyd â diolch.*

Sul I.

SUL

Sul II.

SUL II.

Am Oſtyngeiddrwyd, am Ymddaroſtyngiad i Ewyllys Duw trwy Ufydd-dod; Am Ammynedd ymmhôb mâth ar ddioddefiadau, ag am Anrhydedd dledus i Dduw mewn amryw ffyrdd, yn ei Dŷ, ei Feddiannau, ei Ddydd, ei Air, a'i **Sacramentau**, &c.

Goſtyngeiddrwydd.

1. Y Cbwecheb Ddled-ſwydd i Dduw ydyw **Goſtyngeiddrwydd**, hynny yw, y fath deimlad o'n *gwaeledd* ein hunain a'i *Odidowgrwydd* ef, ac a weithreda ynom ni *Ymddaroſtyngiad* iſel a difrifol iddo ef: y mae'r Ymddaroſtyngiad hwn ô ddau fâth; yn *gyntaf*, i'w *Ewyllys* ef; yn *Ail*, i'w Ddoethineb ef.

Ufydd dod.

2. Y mae'r *Ymddaroſtyngiad* i'w *Ewyllys* ef hefyd o ddau fâth, ſef *Ymddaroſtyngiad* naill ai o Ufydd-dod, neu o **Ammynedd**; y cyntaf yw, ein Parodrwydd ni i'n traddodi ein hunain i ſynu i *wneuthur* ei *Ewyllys* ef, yn gymmaint ac iw wneuthur yn *bryſſur*, ac yn *rhadlon*, pan ddadcuddia Duw i ni trwy ei Orchymyn beth ydyw ei *Ewyllys*. Y mae *goſtyngeiddrwydd* yn dra-angenrheidiol i'n cymmhwyſo ni i hyn; canys nid oes neb *anghymwyſach* i ufyddhau na'r *Dŷn balch*, ac ni a welwn, nad yw Dynion ûn amſer yn talu Ufydd-dod ond lle y cydnabyddant fôd y gwr ſydd yn gorchymyn mewn rhyw fôdd uwch ei llaw hwynt. Ac felly y mae ymma, ni thalwn'i fyth mo'n hufydd-dod ddlêdas oni ddygir ni ar ddeall fod Duw yn anfeidrol uwch ein llaw ni, a'n bôd ni yn *waeledd*, iê, yn ddim trwy ymgyſtadlu ag ef.

3. Am

3. Am hynny os ydych yn amcanu ufyddhau yn ddifrifol (fal y bydd rhaid i chwi os mynnwch fôd yn gadwedig) perchennogwch eich Calonnau a theimlad o'r mawr a'r anrhaethadwy *Ragoriaeth* ſydd rhwng Duw a chwi. Yſtyriwch êf megys y mae yn Dduw ò *anfeidrol fawredd* a gogoniant, a ninnau yn bryfed gwael o'r ddaiar; efe yn *anfeidrol* mewn *gallu*, yn dichon gwneuthur pôb peth, a ninnau heb allu gwneuthur *dim*; iê, heb ddichon *gwneuthur ûn blewyn yn wyn neu'n ddû*, fal y dywed ein Jachawdwr *Mat.* 5. 36. Efe o anrhaethadwy *burdeb* a *ſancteiddrwydd*, a ninnau yn *halogedig*, a *llygredig*, yn ymdrobaeddu mewn pôb màth o *Bechodau* ag *Aflendid*; efe yn *anghyfnewidiol* ag yn *ddianwadal*, a ninnau yn barod i fod yn gyfnewidiol ag yn anwadal bob munùdun o'n bywyd. Efe yn *dragywyddol* ag yn *anfarwol*, a ninnau yn farwolion druain, yn gymmaint *a phan gymmero êf ymmaith ein hanadl ni*, y trengwn, ag y dychwelwn i'n llŵch, *Pſal.* 104. 29. Yſtyriwch meddaf hyn ôll, ac nid ellwch lai na chydnabod fôd *Rhagoriaeth* fawr rhwng Duw a Dŷn, ag am hynny chwi a ellwch leſain gyd â *Jôb* pan neſſaodd efe mor agos att Dduw, ag i ganfod ychydig o'i *Odidowgrwydd* ef, *Job* 42. 5, 6. *Yn awr ſy llygad a'th welodd di, am hynny y bydd ffiaidd genniſ fy hûn, ag yr ydwyf yn edifarhau mewn llŵch a lludw.* Sul II. *Rhagoriaeth rhwng Duw a nyni.*

4. Nid rhaid i ni daflu ymmaith y Goſtyngeiddrwydd hwn gwedi iddo ein dwyn ni i Ufydd-dod, megis pe bydde i ni ddim mwy Defnydd o honaw; canys y mae etto Ddefnydd mawr ac angen ô honaw, i'n cadw ni rhag meddyliau uchel o'n gweithredoedd ein hunain, yr hyn beth os Cynnhwyſwn ni unwaith, ſe anrheithia y rhai goreu o honynt, ac a'i gwnânt *Annheylyngdod ein gweithredoedd goreu.*

Sul II. yn gwbl anghymmeradwy gan Dduw; fal Sarrugrwydd y *Phariſæad*, yr hyn pan ymffroſtiodd êf unwaith o honaw, ſe gyfrifwyd y *Publican* yn well nag ef, *Luc.* 18. Y mae ein Gweithredoedd goreu ni mor llawn ô wendid ac o ammhuredd fal os Cyſtadlwn hwynt i'r purdeb hwnnw a'r Perffeithrwydd ſydd yn Nuw, ni a allwn ddywedyd gyda'r *Prophwyd*, *megys brattiau budron yw ein holl gyfiawnder ni*, *Eſ.* 64. 6. Ag am hynny yr ûnrhyw ynſydrwydd yw i ni ymſalchîo o honynt, ac a ſydde i Gardottyn ymffroſtio o'i ddillad, y rhai nid ydynt ond *Brattiau* gwael a *Charpiau*. Rhaid i ni yn hyn ô beth goſio yn waſtad Orchymyn ein Hiachawdr, *Luc.* 17. 10. *Gwedi i chwi wneuthur y cwbl ôll ar â orchymynwyd i chwi, dywedwch gweiſion anfuddiol ydym*; os gwedi i ni wneuthur y cwbl oll, nid allwn roddi dim gwell clôd i ni ein hunain, pa beth a ddylem ni ei gyfrif o honom ein hunain pan ſôm cymmhelled oddiwrth wneuthur y rhan leiaf o'r peth a Orchymynwyd i ni? Nid oes reſwm i ni i dybied fôd y Titl hwnnw o *wâs drwg a diog*, *Mat.* 25. 26. yn rhŷ ddrwg i ni.

Ammynedd. 5. Yr *ail* fath ô *Ymddaroſtyngiad* i'w *Ewyllys* ef, yw trwy *Ammynedd*; y mae hyn yn ſefyll a'r *ddioddef* ei *Ewyllys* êf (megis y mae Uſydd-dod yn *gwneuthur* ei *Ewyllys* ef) ac nid yw ddim amgen ond ymrôad *ddiddig* ac *ewyllyſgar* i ba gyſtuddiau bynnag a welo Duw yd dda ei rhoddi arnom; ſe wnâ y rhagddywededig *Oſtyngeiddrwydd* hyn yn hawdd i ni, canys pan fô ein Calonnau ni gwedi ei cwbl perchennogi a'r fâth barchedig briſiad o Dduw, ſe ſydd amhoſſibl i ni ffrommi neu rwgnach am ba beth bynnag a wnelo êf. Ni a welwn Siampl o hyn yn hên *Eli* 1 *Sam.* 3. Yr hwn pan glywodd ſygythion

echryſlon

echryſlon Duw yn ei erbyn, am ddiniſtr ei Deulu, colled yr *Offeiriadaeth*, torriad ymmaith ei ddau *Fâb* yn yr ûn Dŷdd, y rhai oeddynt i gìd yn Gyſtuddiau tra-echryſlon, etto yr yſtyriaeth hon yn unig, ſêſ, *mai'r Arglwydd ydoedd êf*, a'i nerthodd êf i ddaroſtwng iddynt hwy yn ddiſtaw ac yn heddychol; gan ddywedyd, *gwnaed a fyddo dâ yn ei Olwg*. Adnodd 18. ſal hyn y digwyddodd i Ddafydd hefyd yn ei *orthrymder*, *Pſ.* 39. 9. *Aethum yn fud, ac nid agorais fyngenau canys ti a wnaethoſt hyn*; Gwneuthur o Dduw hyn a ddiſtawodd bôb grwgnach a chythryfwl ynddo êf. Ac felly y dylem ninnau os chwennychwn ddangos ein goſtyngeiddrwydd i Dduw. Sul II.

6. Canys chwi a wŷddoch nad oes gan y *bachgen* hwnnw Oſtyngeiddrwydd dlêdus i'w *Rieni*, neu'r *Gwâs* i'w *Feiſtr*, y rhai pan ei ceryddir, a gyfodant yn erbyn ei *Rhieni*, neu ei Meiſtred. Ond ſal hyn yr ydym ni yn gwneuthur pan ffrommom a grwgnach am y peth a eſyd Duw arnom. Ond heb law diffyg *Goſtyngeiddrywdd* wrth wneuthur felly, y mae hefyd ddiffyg Cyfiawnder yn hynny; canys y mae i Dduw hawl ynom ni fal yr ydym yn Greaduriaid iddo ef, i wneuthr a ni y peth a fynno, ag am hynny yr Anghyfiawnder mwyaf ar a all fôd ydyw i ni wrth-ſefyll ei *hawl* ef; iê ymhellach, *ynfydrwydd* mwyaf yn y bŷd yw hynny, canys nid yw Duw yn bwriadu ond Daioni i ni wrth ein cyſtuddio; nid yw ein Tâd nefol ni fal y rhai Daiarol, y rhai a geryddant ei Plant weithiau er mwyn bodloni ei gwyniau digllon yn ûnig, yn fwy nag i wneuthur Daioni iddynt hwy. Ond nid all ef ſyrthio i'r fâth wendid, *Nid bi fôdd y bilna efe, nag y Cyſtuddia eſe blant Dynion*, *Gular.* 3. 33. Ein pechodau ni

Sul II. yw y rhai nid yn ûnig ſydd yn rhoi iddo êf achos cyfiawn, ond yn ei gynnhyrfu a'i annog êf yn *anghenrheidiol* i'n ceryddu ni. Y mae gantho ef ymyſcaroedd ac affeithiau y Tâd anwylaf tu ag atcom ni: a phan welo Tâd ei blentyn yn *gyndyn* ag yn wrthryfelgaa, ag yn rhedeg ymlaen mewn ffordd yr hon yn ddiammau a'i difetha ef, pa weithred mwy ô Garedigrwydd Tâdol a all ef i wneuthur na 'i goſpi, a'i geryddu êf, i edrych a wellhâ ef trwy 'r moddion hynny? iê yn wîr, nid ellir dywedyd ei fod ef yn ei wîr garu êf, oni wnâ ſelly. Ac fal hyn y mae Duw pan wêl ef nyni yn rhedeg ymlaen i bechod, rhaid iddo naill ai peidio a'n Carû ni, ag ſelly yn gadel ni i ni ein hunain, i gymmeryd ein ffordd ein hunain, (a hynny yw'r ſelldith drymmaf a all ddigwydd i ddŷn) neu os parhâ ef i'n *Caru* ni, rhaid iddo ein *ceryddu*, a'n *coſpi* ni er mwyn ein dwyn ni i wellhaâd. Am hynny pan darawo ef ni, nid yw ond Rheſymmol i ni, nid yn ûnig ddioddef ei wialen êf yn *Ymmyneddgar*, ond ei chuſanu hi hefyd; hynny yw, bôd yn dra-diolchgar iddo ef am fod yn wiw gantho *ein hattal ni oddiwrth Drachwantau ein Calonnau ein hunain*, *Pſal.* 18. 12. a pharhau ei Ofal trofom trwy ddanfon *Cyſtuddiau*, megis cynnifer o gennadon i'n dwyn ni adref atto ei hûn. Chwi a welwch gan hynny pa *Ynfydrwydd* anfeidrol ydyw grwgnach am y cernodiau hynny y rhai ſydd a luyriad mor raſlawn; cyffelyb yw hynny i'r *Cláſ truſâus*, yr hwn a wradwyddo ac a ddirmyga y *Pyſygwr* yr hwn ſydd yn dyfod i'w iachau êf, ac os gadewir y cyfryw ûn i farw o'i Glefyd, fe ŵyn pawb i bwy y mae iddo ddiolch.

Bod yn ddiolchgar am Geryddon Duw.

7. Ond nid yn unig Ammynedd, iê, na Diolchgarwch chwaith tan *Gyſtuddiau*, yw'r cwbl o'n Dledſwydd ni yn y peth hyn; rhaid bod gennym ni hefyd *Ffrwythlondeb*, neu ni thâl y cwbl ddim; hynny yw, dygiad allan y peth hynny, er mwyn gweithredu pa ûn yr anſonwyd Cyſtuddiau arnom ni; ſef, *Gwellhadd Buchedd*. Am hynny tra-angenrheidiol yw i ni yn amſer *Gorthrymdor*, ymholi a ni ein hunain, a phrofi ein Calonnau a'n Bucheddau, a dyfal chwilio pa *Bechodau* ſydd ynom yn annog Duw i'n ceryddu ni fal hyn; a pha bethau bynnag a wyddom ni ein bôd yn euog o honynt, ei Cyfaddef yn oſtyngedig o flaen Duw, ag yn ebrwydd ymwrthod a hwynt y rhan arall o'n hamſer. Sul II. *Ffrwythlondeb, tan Gyſtuddiau.*

8. Y cwbl a draetha i yn ychwaneg am y Ddled-ſwydd hon, yw, ein bôd ni yn rhwym i fod yn *ddioddefgar* yn gyſtal yn y naill fâth o *Gyſtuddiau* a'r llall, pa ûn bynnag ai oddiwrth law *Duw* yn ûnig, megys *Clefyd*, neu'r cyffelyb, ymha rai nid oes i ûn Creadur yn y bŷd ddim a wnêl; neu yntau y cyfryw ymha rai y mae *Dynion* yn Offerau o'n cyſtuddiad ni. Canys diammau yw, pan wnêl rhyw Ddŷn niwed i ni, na allei êf wneuthur hynny heb gennad Duw, ac fe all Duw yn gyſtal ei gwneuthur hwynt yn Offerau i'n cyſtuddio ni, ag y gall êf wneuthur hynny a'i Law ei hûn, ag nid yw ond rhîth *Ammynedd* pan ſyddom yn cymmeryd arnom ymddaroſtwng i Dduw, heb allu cŷdddwyn dim a Dynion; ni a welwn, na wnaeth *Jôb* ddywiol (yr hwn a oſodir allan megys yn *bortreiad* ô wîr *Ammynedd*) dimm o'r ſâth wahaniaeth yn ei Gyſtuddiau: ſe a gymmerodd y golled o'i *Anifeiliaid*, y rhai a ddygaſei y *Caldeaid* a'r *Sabêaid* oddiarno a'r un-rhyw Addfwynder, ac y cymmerodd ef y golled trwy *Dân o'r Néf*. *Ymmhôb mâth ô Gyſtuddiau.*

Pan

Sul II. Pan ddioddefom gan hynny ryw beth gan ddynion, rhaid i ni gydnabod, er mor anghyfiawn a fo'r peth o'i rhan nhw, ei fôd ef yn digwydd yn gyfiawn oddiwrth Dduw; ag am hynny yn lle edrych arnynt a llygad *cynddaredd*, a *dial* (fal y mae arfer gyffredinol y Byd) ni a ddylem godi ein golwg at Dduw, a chydnabod ei Gyfiawnder ef yn y *Cyfiudd*, gan ddeifyf yn daer faddeuant am y pechodau hynny, y rhai a annogafant Dduw i'w ddanfon, a'i ddŵyn yn Amyneddgar ac yn ddiolchgar; hyd pan welo. Ef yn gymmwys iw dynnu ymmaith, gan ddywedyd yn wastad gyda *Fôb*, *Bendigedig fytho enw'r Arglwydd.*

Ymddarofiyngiad i Ddoethineb Duw.

9. Ond mi a ddywedais fod *Ufydd-dod* yn cynnwys Ymddarofiyngiad, nid yn unig iw *Ewyllys* ef, ond hefyd i'w *Ddoethineb*; hynny yw, cydnabod i fôd ef yn ddoeth annherfynol, ac am hynny fod beth bynnag a wnêl ef yn orau ac yn gymmhwyfaf i'w wneuthur. A hyn fydd raid i ni gyffeifio yn gyftal pan fo ef yn *Gorchymyn* a phan fytho yn *Ordeinio* ag yn trefnu pethau: yn gyntaf, pa beth bynnag a *Orchymynno* ef i ni ei gredu, neu ei wneuthur, rhaid i ni ymddarofiwng i'w *Ddoethineb* ef ymhôb ûn o'r ddau, *Credu* pa beth bynnag a baro ef i ni *gredu*, er i'r peth ymddangos yn ammhoffibl i'n Dealltwriaeth gwan ni, a gwneuthur pa beth bynnag a Orchymynno ef i ni wneuthur, er mor wrthwynebus a fo'r peth i'n *Rheſwm* cnawdol ni; ac ym-hôb ûn, feddwl fod ei Orchmynion ef yn gymmhwyfaf ac yn fwyaf *Rheſymmol* pa fôdd bynnag yr ymddangofant i ni.

Yn ei Orchymynion.

Yn ei Ordinhâad.

10. Yn *nil*, rhaid ini ymddarofiwng i'w *Ddoethineb* ef, pan fô yn *Ordeinio* ac yn trefnu pethau; fef, cydnabod ei fôd ef yn Trefnu pôb peth yn dra-ddoeth, a hynny nid yn unig mewn

pethau

pethau a berthynant i'r Bŷd yn gyffredinol, ond Sul. II.
hefyd mewn pethau á berthyn i bôb ûn o honom ni yn neillduol; yn gymmaint ag y dylem ein ſiccrhau ein hunain ymhâ gyflwr bynnag y gofodo êf nyni, fôd hynny yn oreu i ni, gan ei fôd ef yn *dewis* hynny i ni yr hwn nid all gamgymmeryd. Am hynny, ni ddyle fôd gennym ni ddymuniad hiraethol am ddim yn y bŷd yma, ond gadael i Dduw ein cymmhwyſo ni yn y fâth fywoliaeth a chyflwr ag a welo ef yn oreu i ni, a gorphywys ar hynny yn fodlon ag yn ddi-rwgnach; iê, er digwydd iddo fôd y cyflwr mwyaf gwrthwynebus i ni. Ag nid all hyn na ymmddengys yn rheſymmol i'r ſawl a fò gantho *Oſtyngeiddrwydd*; canys gwedi ei addyſcu êf, fôd Duw yn *Ddoeth anfeidrol*, ag yntau ei hûn yn *llawn Ffolineb*, ni ammau êf, nad gwell iddo o lawer fod Duw yn *dewis* troſto, nag ef troſto ei hun: megys y mae yn well i'r plentyn fôd ei Rieni yn dewis troſto na'i adael i'r *dewis* ffôl a wnai êf iddo ei hûn: Canys mor ſynych y torrei, y lloſcei, ag y gwnaî ef ddrŵg iddo ei hûn, os cai ef bôb peth a ddymunai? A'r cyfryw blant ydym ni; yr ydym lawer gwaith yn dymuno y pethau hynny yn daer y rhai a'n diniſtriei ni pe caem ni hwynt. Fal hyn yr ydym lawer gwaith yn chwennych, *Golud*, *Anrhydedd*, *a Phrydferthwch*, a'r cyffelyb, y rhai, pe caem hwynt, a fyddent yn *Rhwydau* i ni trwy ein harwain ni i bechu. A hyn y mae Duw, yr hwn a ŵyr bôb peth, yn ei weled, er nad ydym ni; ag am hynny y mae ef yn naccau rhoddi i ni lawer gwaith y pethau hynny, y rhai y mae ef yn ei weled fôd yn cyfeirio i'n diniſtr ni; a'i anfeidrol Drugaredd ef ydyw i fôd êf yn gwneuthur felly. Am hynny pan ddeuwn ni ûn amſer yn fyrr o'n hamcanion, a'n dymuniadau, gadewch

i

Sul II. i ni ymddaroſtwng i hynny, nid yn unig yn *Amyneddgar*, ond yn *llawen* hefyd, gan wybod yn ddiammau ſôd hynny yn oreu i ni, yr hyn a ddewiſwyd gan anghyfeiliornus Ddoethineb ein Tâd nefol.

Anrhydedd. 11. Y ſeithfed Ddlêd-fwydd tuag at Dduw ydyw **Anrhydedd**, hynny yw, talu iddo ef y fâth *Barch* ag *Urdduniant* ag a berthynei i'r fâth anfeidrol *Fawrhydi*. Ag mae hyn naill ai *oddifewn neu oddiallan*. Y Barch *oddifewn* yw, ei *Ddyrchafu* ef yn ein *Colonnau* trwy ſod gennym y debygoliaeth a'r brî uchaf a godidoccaf ô hono êf. Y Barch *oddiallan* yw, amlygu ac egluro y barch oddifewn; a hynny ydyw 'r peth cyntaf *cyffredinol* yn holl gwrs ein bywyd ni, ſef, byw fal Dynion y rhai ſydd ganddynt yn ddiſtrifol y fath *debygoliaeth* uchel o Dduw. Chwi a wyddoch os bydd gennym ni ryw barch neillduol ond i *Ddŷn*, ni a fyddwn ofalus na wnelom ûn weithred front a ffiaidd yn ei ŵydd êf; felly yr ûn ffunyd, os ydem yn gwir anrhydeddu Duw ni a ffieiddiem wneuthur ûn weithred *anheilwng* yn ei ŵydd êf. Ond y mae Duw yn gweled pôb peth, ag am hynny os gwnawn ni 'r peth, nid oes fôdd na wnelom yn ei ŵydd ef; Os ydym ni gan hynny ſal hyn yn ei *Berchu* ef, gwiliwn wneuthur ûn amſer weithred *bechadurus*.

Amryw ſoddion ô anrhydeddu Duw. 12. Ond heb law 'r modd *gyffredinol* hon o *Anrhydeddu* Duw, y mae llawer o *Weithredoedd neillduol* trwy ba rai y gallwn ei Anrhydeddu ef; ag mae 'r Gweithredoedd hynny yn amryw, yn ôl yr amryw bethau neillduol ynghylch ba rai yr ymarferir hwynt. Canys rhaid i ni dalu yr anrhydedd hwn nid yn unig yn *Ddi-gyffwng* iddo ei *Hûn*; ond hefyd trwy roddi priſiad ddyladwy ar yr holl bethau hynny y rhai ſydd neſſat yn perthyn iddo ef. Y rhai hynny yn enwedigol

enwedigol ydynt *Chwêch*; yn gyntaf, ei Dŷ; Sul II.
yn ail, ei *Deyrnged*, neu *ei ardreth*; (fal y dywedwn ni) yn drydydd, *ei Ddŷdd*; yn bedwerydd, *ei Air*; yn bummed, ei *Sacramentau*; ag yn chweched, *ei Enw*; ag y mae pob ûn o'r rhain i gael rhyw faint o barch ag Anrhydedd oddiwrthym ni.

13. Yn *Gyntaf*, ei Dŷ, ſef, yr *Eglwys*, yr hwn yw'r lle neillduol i'w waſanaeth cyffredinol êf: rhaid i ni edrych ar y lle hwn megys *ſanctaidd*, nid o hono ei hûn, ond o herwydd yr arſer i ba ûn yr ordeinwyd eſ, ag am hynny gwiliwn halogi y llè hwn, trwy ei arferu ef i'n hachoſion ein hunain. Hyn a ddyſgodd *Criſt* i ni *Mat.* 21. 12. trwy daflu y pryn-wŷr a'r gwerth-wyr allan o'r Deml, gan ddywedyd, *Tŷ gweddi y gelwir fŷ nhŷ i*: a rhrachſn, *Joan* 2. 16. *Na wnewch dŷ fy nhâd i yn dŷ Marchnad.* Trwy hyn y mae yn eglur y dylid arferu Eglwyſau yn unig i waſanaeth Duw, ag ni a ddylem wneuthur hynny yn unig ddiben o'n dyſodiad yno, ag nid dyſod i'r *Eglwys* megis i *Farchnad*, i wneuthur *Bargenion*, neu i ddibennu negeſau a'n Cymydogion, fel y mae yn rhŷ gyffredinol ymŷſg llaweroedd. Ond pan elech di i mewn i'r Eglwys, cofia mai *Tŷ Dduw* ydyw, lle y mae ef mewn modd enwedigol yn breſennol, am hynny cymmer Gyngor y gŵr Doeth, *Preg.* 5. 1. *A Gwilia a'r dy droed pan fyddech yn myned i Dŷ Dduw*; hynny yw, ymddwyn dy hûn a'r fath ofn ac Anrhydedd duwiol ag a berthynei i'r fath *Fawrhydi* yr wyt o'i flaen. Cofia mai dy neges di yno ydyw ymddidan a Duw, ag am hynny bwrw allan bôb meddyliau Bydol, iê, o'th negeſau mwyaf Cyfreithlon, y rhai er ei bôd yn addas amſer arall, ydynt ymma yn bechadurus. Pa euogrwydd echryſlon gan hynny, ydyw croeſawu y *Yn ei Dŷ.*

Sul II. ſâth feddyliau, ag ydynt ynddynt ei hunain yn ddrŵg? mae hyn yn ail i Fradwriaeth *Judas*, yr hwn a gymmerodd arno yn wîr ddyſod i guſanu ei *Feiſtr*, ond a ddygodd gyda ag êf *fyddin ô Filwŷr* i'w ddal ef. *Math.* 26. yr ydym ni trwy ddyſod i'r Eglwys'yn gwneuthur rhith o waſanaethu ac addoli Duw, ond yr ydym yn dwyn gyda ni *Fyddin* o i Elynion efi'w gyffroi ag i'w ddirmygu ef. Y mae hyn yn ddrygioni a all ſyned tu hwynt i halogrwydd y dyddiau hynny, pan oeddid yn troi *Eglwyſydd* yn *Dai anifeiliaid*; canys meddyliau pechadurus halogedig ydynt y ſâth waethaf o aniſeiliaid.

Eu Feddiannau. 14. Yr ail peth i ba ûn y perthyn parch, yw ei *Deyrnged* a'i *olud*; hynny yw, pa beth bynnag ydyw ei feddiannau neillduol ef, gwedi ei neilldûo er cynhaliaeth y rhai ſydd yn trîn ei *waſanaeth* êf; y rhai hynny oedd yr *Offeiriadau*, yn amſer y *Gyffraith*; ag yr awrhon, *Gweinidogion* yr Eſeneyl: Ag mae yn rhaid i ni edrych a'r ſâth barch ar y peth a neillduwyd fal hyn, fal na ryſygom mo'i droi ef i ûn diben arall. O'r ſath hyn, rhai yw *Offrwm gŵir-fodd* Dynion, y rhai ryw amſer a roeſant o'i gŵir-fodd beth o'i *Golud* neu ei *Tiroedd* i'r diben *ſanctaidd* hwn; a pha beth bynnag a roddir fal hyn, nid all na'r gŵr ai rhoddodd, na neb arall ei ddwyn ef ymmaith, heb fôd yn euog o'r Pechod mawr hwnnw ô *Gyſſegr-yſpeiliad.*

15. Ond heb law y rhai hyn, yr oedd ymŷſg yr *Iddewon* a holl *Genhedlaethau Criſtianogol* yn oeſtadol ryw beth gwedi ei drefnu wrth *Gyffraith* y Genedl er ymborth a chynhaliaeth y rhai oedd yn trîn *Gwaſanaeth* Duw. Ag nid ydyw ond cyfiawn ag angenrheidiol i hynny fôd, ſef, i'r rhai trwygymmeryd arnynt yr *Alwedigaeth* honno nid oes ganddynt fôdd i ennill ei bywoliaeth yn

yn y bŷd, gael ei Cynhaliaeth gan y rheini tros Eneidiau pa rai y maent yn Olyg-wyr gwiliadŵrus. Ag am hynny uniawn a chymmwys yw 'r peth y mae 'r *Apoſtl* yn ei adrodd yn y peth hyn; 1 *Cor.* 9. 11. *Os hauaſom i chwi bethau Yſprydol a i mawr yw, os nyni a fedwn eich pethau Cnawdol?* Hynny yw, y mae yn anreſymmol iawn i Ddynion rwgnach rhoddi ychydig bethau Cnawdol, ſef, angenrheidiau oddiallan yn y bŷd hwn, i'r rheini gan ba rai y maent yn derbyn pethau yſprydol, ſef, Athrawiaeth a chymmorth tu ag at gaffaeliad bywyd tragywyddol. Sul II.

16. Pa beth bynnag gan hynny a drefnwyd i'r diben hwn, nid ellir mewn mòdd yn y bŷd mo'i arferu i ddiben arall. Ag am hynny nid ellir cadw yn ôl y *Degymmau* y rhai a ordeinwyd yma trwy *Gyfraith* er cynhaliaeth y *Gwenidogion*, ac ni ddylid mewn mòdd yn y bŷd arferu twyll, neu ddichellion er gochelyd ei Talu hwynt yn hollawl, neu mewn rhan. Canys yn gyntaf, diammau yw fod hynny yn lledrad cyn ſiccred ac y gall ûn Yſpeil arall fôd. O herwydd fôd gan wenidogion hawl i'w *Degymmau*, trwy 'r un Gyfraith, ag ſydd yn rhoddi i ûn-gŵr arall hawl i'w Feddiannau. Ond yn *ail*, mae hyn yn amgenach mâth ar Ledrad nag yr ydym ni yn ei feddwl, y mae yn *yſpeilio Duw*, i gynnal *gwaſanaeth* pa ûn y rhoddwyd hwynt; a rhag i chwi ammau y gwirionedd o hyn, nid yw ddim ychwaneg nag a ddywed Duw ei hûn, *Mat.* 3. 8. A yſpeilia Dyn Dduw? Etto chwi a'm hyſpeiliaſoch i: a chwi a ddywedwch, ym-mha beth i'th yſpeiliaſom? yn y Degwm a'r Offrwm. Yma y mae 'n eglur fod yn nhebygoliaeth Duw y nêb a attalio *Ddegymmau* yn ei yſpeilio êf. Ag os mynnwch, chwi a ellwch weled yn y *wers* neſſaf fûdd y Lledrad hwn, *Melldigedic ydych drwy felldith.* *Cyſſegr-yſpeiliad.*

Sul II. Melldith yw 'r cwbl a ennillir drwy hynny; ag y mae ymarfer gyffredinol yn dangos i ni fôd dîal *Duw* mewn môdd hynodol yn cynllwyn y pechod hwn o *Gyſſegr-yſpeiliad*, pa ûn bynnag ai attal *Degymmau*, ai ynteu gorddiwes ar y meddiannau hynny a gyſſegrwyd o wir fodd i Dduw. Y mae Dynion wrth hyn yn meddwl ei cyfoethogi ei hunain, ond y rhan fynychaf y mae yn digwydd i'r gwrthwyneb; y mae 'r elw anghyfreithlon hwn yn priſio i fôd yn gyfryw *Rŵd* yn ei golud hwynt ag ſydd lawer gwaith yn diſa 'r peth yr oedd ganddynt hawl gyfiawn iddo. Ag am hynny os ydych yn caru (nid wyf yn dywedyd eich Eneidiau, ond) eich golud, cedwch hwynt rhag y perigl hwnnw, trwy ofal mawr nag ymyroch ûn amſer a'r perthau a neillduwyd i Dduw.

Amſerau i'w Waſanaeth êf.

17. Y Trydydd peth trwy ba ûn y dylem ddangos ein Hanrhydedd i Dduw, ydyw, *ſancteiddio 'r Amſerau a neillduwyd i'w waſanaeth ef.* Efe, yr hwn a roddes i ni ein hòll amſer, ſydd yn gofyn genym dalu yn ôl rywran o hono megys *Teyrnged* neu *Ardreth* o'r cwbl. Fal hyn yr *oedd yr Iddewon* yn cadw y *ſeithfed dŷdd* yn Sanctaidd; a ninnau *Griſtianogion* y *Dŷdd Sûl* neu *Ddŷdd* yr *Arglwydd*; yr oedd yr *Iddewon* ar ei *ſabbath* yn coffo yn bennaf *Greadigaeth* y Bŷd; a ninnau ar ein *ſabbothau Adgyfodiad Criſt*, trwy ba ûn y gwnaethpwyd i ni ffordd i'r Bŷd gwell hwnnw, yr hwn yr ydymni yn ei ddiſgwyl ar ôl hyn. Y mae 'n rhaid arfer y dŷdd hwn fal hyn gwedi ei neillduo, yng waſanaeth ag addoliant Duw; a hynny yn *gyntaſ*, yn fwy cyffredinol a chyhoeddus yn y *Gynnulleidfa*, o ba fan ni ddyle neb fôd yn abſennol heb achos cyfiawn: ag yn *ail*, yn neillduol Gartref, trwy gyd weddio, ag Athrawiaethu ein *Teuluodd*; neu etto yn fwy neillduol

Dŷdd yr Arglwydd.

yn

yn Nlêd-ſwyddau 'r ſtafell, megys *Gweddïau pershynaſol, darllen, myfyrio*, a'r Cyffelyb. Sul II.

Ag er mwyn cael o honom gyfleuſdra i hyn, ſe Orchymynnir *Gorphwyſfa* oddiwrth bôb negefau bydol; na thybied neb gan hynny mai Gorphwyſfa yn unig oddiwrth Lafur yw'r cwbl a ofynnir gantho ar Ddŷdd yr *Arglwydd*, ond y mae yn rhaid iddo hefyd dreulio 'r amſer yr hwn a ynnill ef oddiar weithredoedd ei alwedigaeth, ar Ddledſwyddau ysprydol. Canys ni ordeinwyd Dŷdd yr Arglwydd i roddi i ni eſgus o ſeguryd, ond yn unig i gyfnewid ein Trafferthion Bydol am rai Neſol; llai o lawer yr ordeniwyd ef, fal trwy ein Gorphwyſfa oddiwrth ein Galwedigaethau, y gallom gael mwy o amſer iw dreulio ar ein pechodau, megys y mae gormod yn gwneuthur, y rhai ydynt yn fanylach ar y Dŷdd hwnnw yn y Tafarn-dŷ nag yn yr Eglwys. Ond fe orchymynnwyd y Gorphwyſfa hwn yn *gyntaf*, i Arwyddoccau i ni y Gorphwyſfa hwnnw oddiwrth *bechod*, i ba ûn yr ydym yn rhwym holl Ddyddiau ein Bywyd: ag yn *ail*, i'n tynnu ni ymmaith oddiwrth ein Trafferthion bydol, ac i roddi i ni amſer i ymorol yn ddiwyd ar ôl Gwaſanaeth Duw ag angen ein Heneidiau.

18. Ag yn wir, os iawn yſtyriwn, y mae yn dra-Buddiol i ni fôd y ſáth amſer goſodedig fal hyn yn dychwelyd bob wythnos i'r perwyl hwn. Yr ydym ni yn rhŷ Dueddus a Thrafferthus ar y Bŷd hwn, ag oni baê fôd ryw faint o amſer gwedi ei Oſod at ein Dwylaw ni, rhŷ gyffelybol iw na oſodem ni amſer yn y byd i'r peth: Ac yna ymmha gyflwr rheibus y byddei raid i'n Heneidiau ni fôd, i'r rhai ni chyfrennir ûn prŷd? Pan y mae 'r awrhon gynhaliaeth oeſtadol gwedi ei arllwyo iddynt; ſe all pôb Sûl, os nyni a'i harferwn yn gydwybodus, fôd

yn

Sul II. yn uchel-wyl iddynt, a dwyn i fewn iddynt y cyfriw Luniaeth Yſprydol ac a'i meithrin hwynt i fywyd Tragwyddol. Ni ddylem ni edrych ar y Dŷdd hwn trwy rwgnach, fel y Bôbl hynny yn *Amos* 8. 5. Y rhai a ddywedent, *pa brŷd yr aiff y Sabboth heibio, fel y dygom allan y Gwenith?* fal pe byddei 'r Amſer hwnnw, yr hwn a gymmerit oddiwrth ein Trafferthion bydol, gwedi ei gwbl-golli. Ond rhaid i ni yſtyried hwn megys y Dŷdd llawenaf a mwyaf byddiol o'r holl wythnos, Dydd Cynhaiaf, ymmha ûn y mae 'n rhaid i ni dryſſori tros yr holl wythnos, iê, tros ein holl fywyd.

Gwyliau'r Eglwys. 19. Ond heb law *Dŷdd yr Aglwydd bôb wythnos*, y mae Amferoedd eraill, y rhai a neillduodd 'r Eglwys, er mwyn Coffáu rhyw *hynodol Drugareddau Duw*, megys *Genedigaeth*, ag *Adgyfodiad Criſt*, *Deſcyniad yr Yſpryd glân*, a'r cyffelyb; a'r Dyddiau hyn ſydd raid i ni ei cadw yn y modd yr Ordeiniodd yr Eglwys, ſef, mewn *Cyhoeddus Addoliant* Duw, ag mewn neillduol Ddiolchgarwch am y fendith briodol yr ydym ni y prŷd hyunu yn ei choffau. Ag yn wir, pwy bynnag ſydd yn gwbl-ddiolchgar am yr anfeidrol Drugareddau hynny, nid all ef dybied yn ormod neillduo ychydig Ddyddiau yn y Flwyddyn i'r diben hwnnw.

Ond rhaid i ni Edrych am ſod ein *Gwyliau* ni yn wîr Yſprydol, trwy arferu 'r Dŷdd yn Sanctaidd, ag nid ei wneuthur ef yn achlyſur o *Anghymmedrolder* ag *Afreoledigaeth*, fal llaweroedd, y rhai nid ydynt yn Yſtyried dim arall ond y Bwydydd da, a'r llawendydd yn nyddiau *Natalic*, a dyddiau dà eraill. Canys *dirmygu* yn llè *Anrhydeddu* Criſt yw hynny, yr hwn a ddaeth i ddwyn *Purdeb*, a Sobrwydd i'r Bŷd; ag am hynny

hynny ni fynn ef goffau ei ddyfediad ef mewn modd arall. Sul II.

20. Y mae dyddiau eraill gwedi ei neillduo, er mwyn coffau 'r Apoſtolion a Seintiau eraill, ar ba rai y dylem ddiolch i Dduw am ei Raſau ynddynt hwy; yn bendifaddef, am iddo ei gwneuthur hwynt yn *Offerau* o *Ddadcuddio* i ni *Jeſu Griſt*, a ffordd Iechydwriaeth, ſal y gwyddoch ddarfod i'r *Apoſtolion* yn ei Pregethiad trwy'r hôll fŷd. Ag ymmhellach, ni a ddylem ſyfyrio ar y *Siamplau* hynny o ſuchedd ſanctaidd a roeſant hwy i ni, a'n cyffroi ein hunain i ddilyn ei hôl hwynt. A phwy bynnag a ymrŷdd yn ddifrifol i wneuthur y *Defnyddiau* hynny o'r amryw *Ddyddiau gwylion* hyn, fe fydd iddo ef achos, oblegid y llês a dderbyn ef oddiwrthynt, i ddiolch, ag nid i feio'r Eglwys, am ei trefnu hwynt.

21. Y mae math arall ar *Ddyddiau* ſydd raid ei cadw, ſef *Dyddiau Ymprŷd* a *Goſtyngeiddrwydd*; a pha Amſerau bynnag o'r cyffelyb a Orchymynno 'r *Eglwys*, pa ûn bynnag ai yn oeſtadol ar Amſerau goſoſedig o'r *Flwyddyn*, neu ar ryw Achoſion neillduol a diſymmwth, rhaid i ni ei Cadw hwynt yn y modd y mae hi yn ein cyfarwyddo ni; hynny yw, nid yn unig trwy ymgadw oddiwrth *fwyd*, yr hwn yw Cofpedigaeth y Corph yn unig; ond trwy orthrymmu ein Heneidiau, gan ei goſtwng hwynt yn iſel o flaen Duw, a chyffeſſu o ddyfnder ein Calonnau, a galaru yn chwerwdoſt am ein pechodau ein hunain, ag eraill; a thrwy weddiò yn ddifrifol am *Ollyngdod* a *Maddeuant Duw*, ar iddo ef ymchwelyd y *Batuedigaethau* hynny, y rhai yr oedd y Pechodau hynny yn galw am danynt: ond yn bendifaddef, ar iddo ef ein *hymchwelyd ni oddiwrth ein Pechodau, gan ddattod Clymmau* *Dyddiau Ymprŷd.*

Anwiredd

Sul II. *Anwiredd*, ſal y dywed *Eſay*, *Pen.* 18. 6. ag i ni ymarferu ein hunain yngweithredoedd Trugaredd, ſef, *Torri ein bara i'r newynog*, a'r Cyffelyb, ſal y mae yno yn canlyn.

Gair Duw. 22. Yn bedwerydd, rhaid i ni ddangos ein bôd yn *Anrhydeddu* Duw, trwy berchi ei *Air* ef; a hyn ſydd angenrheidiol i ni i wneuthur, os ydym yn ei wîr Anrhydeddu ef, oblegid nid oes dim yn Arwydd mwy hynod o'n bod ni yn diyſtyru rhyw ûn, na phan ſôm yn dirmygu yr hyn a ddywed ef wrthym; megys i'r gwrthwyneb, os ydym yn perchi gŵr, y mae pob peth a ddywed ef yn Gû ac yn werthſawr gennym. Y mae'r *Gair Duw* ymma yn gynnhwyſedig yn hynodol yn y *Scrythur-lân*, ſef yr *Hên Deſtament* a'r *Newydd*; lle y mae ef yn llefaru wrthym i ddangos i ni ei *Ewyllys* ef, a'n Dled-ſwydd ninnau. Am hynny rhaid yw bod gennym barch rhyſeddol i'r *Gair* hwn, edrych arno megys y Rheol wrth ba ûn y mae yn rhaid i ni gyfeirio holl *weithredoedd* ein *bywyd*; ag i'r diben hwn, rhaid i ni roi ein meddyliau arno, a'i ddarllen cyn ſynyched ag y gallom, a gwilied gadael (os bydd boſſibl) ûn Dŷdd fyned heibio heb *ddarllen*, neu glywed Darllen rhyw ran o hono.

Y Scrythr-lân.

23. Ond nid hyn yw'r cwbl: rhaid i ni nid yn unig *ddarllen* ond *dal Sulw* ar y peth a ddarllennom, ag yſtyried yn ddiwyd pa *Ddled-ſwyddau* y mae Duw yn Gorchymyn i ni ei cwplhau, pa *Gamweddau* y mae Duw yn gwahardd i ni ei gwneuthur, a'r *Gwobrau* a *addewir* i'r naill, a'r Coſpedigaethau a ſygyrhir i'r llall. Gwedi i ni ſal hyn ddal Sulw, rhaid i ni heſyd ei Coffau hwynt; ie a'i plannu hwynt yn ein Coffadwriaeth, trwy Feddwl a myſyrio yn fynych arnynt, fal y byddont parod i ni i wneuthur-

thur Defnydd o honynt. Y Defnydd hwn yw cyfarwyddiad ein bywyd ni, am hynny pa brŷd bynnag i'n Temptir ni i wnenthur rhyw ddrŵg, ni a ddylem yr amſer hynny goffhâu mai dymma'r peth a waherddir gan Dduw yn y cyfriw *Scrythur*, a'i holl Ddialeddau hynny y rhai a fygythir yn ei erbyn; ag felly yr ûn ffunyd, dygwn ar Gôf, pan gynnygir i ni ryw odfa i wneuthur Daioni, mai hon yw'r Ddledfwydd a gynghorwyd i mi yn y cyfryw *Scrythr*, a'r fâth *Wobrau* gogoneddus a addawyd i'r rhai a wnánt hynny; a thrwy 'r Yſtyriaethau hyn ſeſydlwn ein hunain i wrthwynebu 'r drŵg, ag i wneuthur y Dá. Sul II.

24. Ond heb law 'r Gair *Scrifennedig*, ſe ryngodd bôdd i Dduw ddarparu ymmhellach er mwyn ein hathrawiaeth ni trwy ei *Wenidogion*, ſŵydd pa rai yw dyſcu i ni *Ewyllys* Duw, nid trwy ddywedyd dim yngwrthwyneb i'r *Gair Scrifennedig* (canys pa beth bynnag ſydd felly nid all fod yn *Ewyllus* Duw) ond trwy ei eglurhau ef, a'i wneuthur yn ſwy hynaws i'n Deall-twriaeth ni, ag yna ei gyfaddaſu ef at ein hamryw achoſion, a'n cynghori, a'n cynnhyrfu ein hunain i wneuthur yn ôl hynnu; yr hyn ôll yw'r diben at ba ûn y mae ei hathrawiaeth hwynt trwy *Egwyddorion* a'i *Pregethau* yn cyfeirio. Ag y mae yn rhaid heſyd bôd gennym barch ddyladwy i hyn, nid yn unig wrth fôd yn brcſennol yn yr *Eglwys*, ag naill ai cyſgu yr amſer allan, neu feddwl am ryw beth arall, ond dal Sulw yn ddifrifol ar y peth a ddywedir wrthym. Ag yn ddiammau pe iawn-yſtyriem gymmaint y mae hyn yn perthyn i ni, ni a gyfaddefen fôd hyn yn dra rheſymmol i ni iw wneuthur.

Sul II. *Egwyddorion.*

25. Canys yn gyntaf, Athrawiaeth trwy *Egwyddorion* neu Gatteceiſiò ydyw goſodiad y Sylfaen a'r ba ûn y bydd rhaid adailadu holl ymarferiad *Griſtianogawl*; canys trwy hyn yr addyſcir i ni ein Dlêd ſwydd, heb yr hyn bêth nid allwn mo'i chyflawni. Ag er fôd yn wîr, mae 'r *Scrythyrau* yw'r *Ffynnhonnau* ô ba rai y mae Gwybodaeth o'n Dled-ſwydd ni yn Tarddu, etto mae llawer y rhai ni ſedrânt mo'i Dynnu ef allan o'r *Ffynnon* yma ei hunain, ag am hynny y mae'n *angenrheidiol* i ddwyn êf attynt gan eraill.

26. Fe edrychir yn gyffredinol, ar yr Athrawiaeth hon drwy *Egwyddorion*, yn beth a berthyn yn unig i Ieſenctid; ag ſelly yn wîr y dylei, nid o herwydd nad rhaid i'r rhai hynaſ ddyſcu os ydynt yn anghyfarwydd, ond o herwydd y dylei bôb plant fôd gwedi ei haddyſcu ſelly, fal na byddo boſſibl iddynt fôd mewn anwybodaeth pan ddelont i oedran. Ag y mae'n Ddled ſwydd ar bôb Rhieni, y rhai a chwennychant ei rhyddhau ei hunain oddiwrth euogrwydd *Diniſtr* Tragwyddol ei plant, fôd yn ofalus i weled ei hathrawiaethu hwynt ymmhôb pethau angenrheidiol; ag i'r diben hwn ſe ſydd cymmwys ddyſgu iddynt mewn prŷd rhyw *Gatechiſm* byrr, a'r cymhwyſaf ydyw *Catechiſm* yr Eglwys; etto nid digon iddynt hwy Orphwys ar ei hegni a'i Diwydrwydd ei hunain; ond deiſyf hefyd gymmorth yr *Offeiriad*, modd y gallo ef ei hadeiladu hwynt ymmhellach mewn gwybodaeth *Griſtianogawl*.

27. Ond y mae yn rhŷ hynod ſowaeth fôd *Rhieni* yn Egeuluſo yn ddirfawr y *Ddled-ſwydd* hon, a dyna'r achos fôd y fâth Lîoedd o wŷr ag o wragedd, y rhai a elwir yn *Griſtiannogion*, heb wybod dim am *Grîſt*, nag am bethau a berthyn

berthyn i'w Heneidiau, mwy na *Phaganiaid* Sul II.
angrhedadwy.

28. Ond er mai bai ei Rhieni ydoedd na addyſcwyd hwynt yn ei Hiefenctid, etto ei Bai nhw ei hunain ydyw yr awthon, os parhaánt i fwy mewn Anwybodaeth; a diammau yw os ânt hwy ymlaen felly yn ſyrbwyll, mai ei Diniſtr a'i Trueni hwynt ei hunain a fydd hynny. Am hynny pwy bynnag ydyw, o ba oedran, neu râdd bynnag y bytho, yr hwn ſydd yn y Cyflwr anwybodol hwn, neu yn y cyfryw feſur o hono a bôd arno eiſiau faint yn y bŷd o wybodaeth angentheidiol i Jechydwriaeth, megys y mae yn Caru ei Enaid, ag fel y chwennych ef ddiangc oddiwrth ddamnedigaeth dragywyddol, chwilied yn fanwl am *Athrawiaeth*, ag na rwyſtred Ofn Cywilydd neb rhag hynny: Canys yn *gyntaf*, diammau yw fôd cywilydd yn perthyn yn unig i'r rhai ſydd yn parhâu o wir-fodd mewn Anwybodaeth, i ba ûn y mae chwennychiad cael Dŷſc ag Athrawiaeth yn dra-gwrthwynebol; ag am hynny y mae cyn belled oddiwrth fôd yn *gywilyddus*, a'i fôd yn beth *tra-chanmoladwy*, ag a gyfrifiir felly gan bob gŵr dâ a ſynnhwyrol. Ond yn *ail*, bwriwch fôd rhyw Bobl ffôl a halogedig yn gwatwor hynny, etto nid ydyw ond rheſwm cyd-ddwyn a hynny yn llawen, yn hytrach nag anturio ar y cywilydd a'r gwradwydd wyneb, yr hwn a ddigwydd yn Nŷdd y Farn i'r rhai a aethant ymlaen, er mwyn gochelyd rhyw rîth o Gywilydd ymŷſg Dynion, mewn Anwybodaeth gwir-fodd o'i Dlèd-ſwydd, yr hon Anwybodaeth a fŷdd cymmhelled oddiwrth eſguſodi ûn o'i pechcdau hwynt, a'i bôd yn chwanegu ûn pechod mawr echryſlon at y lleill, ſ. f, dirmygu y Wybodaeth hon a gynnygir

Sul II. iddynt. Chwi a ellwch ddarllen mor echryſion yw'r Pechod hwn yn *Diharebion* 1. 29. lle y dywedir mai *caſhau gwybodaeth* yw'r peth ſydd yn dwyn i lawr y dialeddau creulon hynny a draethwyd o'r blaen, ſef, ymwrthod o Dduw a Dynion, a chwerthin am ben ei Dialeddau hwynt yn lle ei cynnorthwyo: yr hyn yw'r cyflwr mwyaf greſynol yn y byd, a diammau yw ei bod hwynt yn dra ſyrbwyll y rhai o'i gwirfodd a redant iddo.

29. Am y rhai ſydd ganddynt y *ſylfaen* hon yn barod wedi ei goſod trwy wybodaeth o *Seiliau Creſydd* Griſtianogawl y mae iddynt gynnorthwy ymmhellach drwy *Bregethiad.* Ag nid *Pregethiad.* yw hynny ddim mwy nag ſydd angenrheidiol, canys ſe wyr Duw fod y rhai ſydd yn deall ei *Dled-ſwydd* yn dda iawn, yn rhy barod i'w hanghofio; ie, weithian trwy *angerdd* ei *Trachwantau* i Droſeddu pan fyddont yn coff-hau ei *Dled-ſwydd*, ag am hynny y mae yn dra-ddefnyddiol i ni gael ein mynych rybuddio, er mwyn rhagflaenu ein gwan-goffadwriaeth, a chael hefyd ein mynych gynghori a'n cynnorthwyo, er mwyn gwrthladd y Trachwantau hynny y rhai ſydd yn ein denu ni i'r Troſeddiadau hynny. Ac i'r diben hwn y mae *Pregethiad* yn tueddu, ſef, yn *gyntaf*, i'n rhybuddio ni i fod yn wiliadwrus yn erbyn ein Gelyn Yſprydol, ag yna i ddarparu i ni Arfau i ryfel: hynny yw, y moddion, a'r Cymmorth goreu i'n ablhau ni i guro ymmaith *Brofedigaethau*, ag i gael y fuddugoliaeth arnynt hwy.

30. O ran mai hyn gan hynny yw diben *Pregethiad*, na thybiwn ddarfod i ni gwbl-wneuthur ein Dled-ſwydd gwedi i ni wrando *Pregeth*, er mor yſtyriol; ond rhaid i ni oſod i fynu yr *Athrawiaethau*, a'r *Cyngorion* a dderbyniom yno yn

ein

ein Calonnau a'i harferu hwynt yn ffyddlon i'r diben hwnnw o orchfygu ein Pechodau. Am hynny pa bryd bynnag y delech di at *Byſygwr* dy *Enaid*, gwnâ yr ûn môdd ag y gwneit a *Phyſygwr* dy *Gorph*: nid wyti yn dyfod atto ef yn unig i wrando arno ef yn chwedleua, ac yn dywedyd itti pa beth a'th iachâ, ond hefyd i wneuthur yn ôl ei hyfforddiad ef; ag onid wyti yn gwneuthur felly ymma, yr ŵyt mor ofer ag ûn ſydd yn diſgwyl cael ei iachau trwy gyfarwyddiad ei *Byſygwr*, er na wnelo Ddetnydd yn y byd ô hono. Iê, yr wyt ti yn oferach ag yn ynfyttach ô lawer, canys hynny, er na wnâ ddim Daioni, ni wnâ ddim drŵg ychr waith, oblegid ni bŷdd neb ddim gwaeth er dyfcu Meddyginiaeth, er na wnelo ddefnydd yn y bŷd o hynnu. Ond nid felly y mae *Meddyginiaethau Yſprydol*, oddigaeth i mi wneuthur defnydd o honynt hwy er ein llês, nhw a wnânt i ni lawer o ddrŵg; nhw a gyfodant i fynu yn y Farn i'n herbyn, ag a wnânt ein Damnedigaeth ni yn drymmach o lawer. Gwilia gan hynny rhag dwyn y perigl hwn arnat dy hûn; ond gwedi iti wrando *Pregeth* Yſtyria wrthit dy hûn pa *gyfarwyddiad* oedd ynthi i'th hyfforddi di i ymadel a'r drŵg, neu i wneuthur y da. Ag os oedd dim a berthynei yn enwedigol i'th anwyl-bechod dy hûn, gofod hynny yn ddwys at dy Galon, a bydded hynny yn Sail dy Fyfyrdod yr holl wythnos ſydd yn canlyn; os bŷdd dy Amſer yn brin, meddwl ar hynny tra byddoch di ar dy waith; ac nid meddwl yn unig, ond ymoſod dy hûn i'w arferu a gwneuthnr y peth a gynghorwyd iti, er mwyn gorchfygu pechodau, a bywhau grâs ynot. Yn *ddiweddaf*, bydd ofalus i wneuthur defnydd o gyngor yr *Apoſtol*, *Jac.* 1. 22. *Byddwch wneuthur-wyr y gair* Sul II.

ag

Sul II. *ag nid gwrandawyr yn unig gan eich Twyllo eich hunain.* Nid yw gobeithio Cael Daioni oddiwrth y *Gair* heb ei wneuthur ddim angen na'n twyllo ein hunain: Na feſurwn gan hynny mo'n Duwioldeb wrth nifer y *Pregethau* a glywom, fal pe byddei gwrandawiad llawer yn arwydd hynod o wîr *Griſtion*, ond trwy amlder y ffrwythau a ddygom ni trwyddynt, heb ba ûn ni wnâ'n holl wrandawiad ni ond chwanegu nifer y *gwialennodiau*. y rhai a berthynant i'r nèb *a wŷr ewyllus ei Arglwydd, ag ni wna yn ôl hynny*, *Luc.* 12. 47. Ond nid rhaid talu yr anrhydedd yma yr hwn ſydd ddledus i *Bregethiad* i bob ûn ar a elwir ſelly yn yr amſeroedd ymma, oblegid fe wŷr *Duw* fyned o *gau Brophwydi lawer* allan i'r bŷd fal y dywed yr Apoſtol, 1 *Jo.* 4. 1. Ag os bû erioed, yr awrhon y mae ei gyngor èſ yn anghenreidiol, i *brofi yr Yſprydion ai o Dduw y maent.* Ond y peth a ddywedais i o'r blaen yr wyſi 'n meddwl am *Bregethiad* y rhai hynny, y rhai, yn *gyntaf*, a gafodd *alwedigaeth gyfreithlon* i'w ſwydd; ag yn *ail*, y rhai ſydd yn ffurfio ei hathrawiaeth yn ôl y wîr Reol, ſef, *Gair* ſcrifennedig Duw. Ond os dywed ûn, nad ydyw ef abl i farnu pa ûn a wná 'r Athrawiaeth ai bôd yn ôl y *Gair* ai nad yw; profed hi o'r lleiaſ wrth y Rheolau cyffredinol ô *Ddlêd-ſwyddau*, y rhai y mae ef yn ei ddeall; ag os gwêl ef fod yr Athrawiaeth yn rhoddi Rhydd-dyd i Ddynion i wneuthur y pethau hynny, y rhai a gydnabyddir gan bawb ei bôd yn *bechodau*, megys *Gwrthryſelgarwch*, *Angbyſiawnder*, *Anrhugarogrwydd*, *Aſlendyd*, neu'r cyffelyb, gwybydded fôd hynny yn gwbl wrthwynebus i *Dduw*, ag i'w *Air*; ag yna *dirmygiad*, ag nid *Anrhydedd* a berthyn iddi.

31.

31. Yn *bummed*, rhaid i ni hyſpyſu ein *hanrydedd* i Dduw trwy herchi ei *Sacramentau* ef: y rhai hynny ydyw dau; *Bedydd*, a *ſwpper yr Arglwydd*. A hyn ſydd raid i ni wneuthur, yn gyntaf, trwy ein Tebygoliaeth uchel o honynt; yn *ail*, trwy ei harſeru hwynt yn barchedig; rhaid i ni yn gyntaf, ei prifio nhw yn uchel, gan edrych arnynt megis yr *Offerau* y rhai ſydd yn ein dwyn ni at y Bendithion mwyaf ar a allwn ei derbyn. Y *Cyntaf* o honynt, *Bedydd*, ſydd yn ein harwain ni i gyfammod a Duw, yn ein gwneuthur ni yn aelodau o *Grîſt*, ag yn rhoddi i ni hawl yn yr holl *Ragor-freintiau* gwerthfawr hynny y rhai ſydd yn tarddu o hono ef, megis *maddeuant pechodau*, *Graſau Sanctaidd*, a'r *Nef* hefyd, tan ammod i ni gwplhau ein rhannau ni o'r cyfammod. Ag am *ſwpper yr Arglwydd*, nid arwydd yn unig, a *chofſadwriaeth* ydyw o *Grîſt* a'i *farwolaeth*; ond y mae 'n rhoddi *Criſt*, a holl *ffrwythau* ei *Farwolaeth* ef i bôb derbynniwr teilwng; ag am hynny y mae priſiad a brî trauchel yn ddyledûs i bôb ûn o honynt. Sul. II. *Sacramentau.*

32. Ag nid felly yn unig, ond yn *ail*, mae yn rhaid i ni ddangos ein parch yn ei harſeru hwynt, a hynny yn *gyntaf*, *eyn*; yn *ail*, *wrth*; yn *drydydd*, *gwedi* ei *derbyn* hwynt. Gwir yw, gan ein bod ni yn derbyn y Sacrament o Fedydd yn Blant, na ddiſgwylir i ni wneuthur dim êin *hunain* na *chyn*, nâg *wrth* ei dderbyn ef, y pethau hynny a oſynnwyd gan y rhai a Fedyddwyd yn *oedrannûs*. Ond am danom ni, digon yw rhoddi i ni yr hawl hwn i Fedydd, a chael ein *geni* o fewn *cyffiniau* r' *Eglwys*, hynny yw, o rieni *Criſtianogawl*; a'r cwbl a ddiſgwylir y pryd hynny yw, y peth a allwn ei cyflawni trwy eraill, trwy ei bod nhw yn addo troſom ni y cwplhawn ni ein Rhannau ni or *Cyfammod* pan ddelom i oedran. *Bedydd.*

Ond

Sul II. Ond gan nad allwn y pryd hynny wneuthur dim, yr ydym yn ſwy rhwymedig i gwplhau y *Dledſwyddau* a oſynnir ar ein dwylo ni gwedi hynny, trwy ba rai y mae i ni gyflawni diffyg y pethau cŷntaf.

Adduned Bedydd. 33. Ag os mynnwch wybod pa-rai yw 'r *Dledſwyddau* hynny, edrychwch ar yr addewidion hynny a wnaeth eich *Tadau-Bedydd*, a'ch *Mammau-bedydd* yn eich enw chwi, ag yna chwi a'i dyſcwch hwynt. Nid alla 'i mo 'i hadrodd nhw mewn ffurf well nag y maent gwedi ei goſod ar lawr yn *Nghatechiſm* yr *Eglwys*, lle y dywedir ddarfod i'n *Tadau-Bedydd*, *a'n Mammau-bedydd addaw ac addunedu trî pheth yn ein heuwau ni*; yn gyntaf, *ymwrthod o honom a Diafol, ag a'i holl weithredoedd a'i rodres, gorwagedd y byd anwir, a phechadurus chwantau y cnawd*, lle wrth *Ddiafol* y deellir, yn gyntaf, *addoliad* pob *gau dduwiau*, yr hyn nid yw yn wir ond *addoli Diafol*: Pechod yw hwn, yr hwn ar ddyfodiad Criſt i'r bŷd oedd yn dra-chyffredinol, gan ſod y rhan fwyaf o *ddynol-ryw* y pryd hynny yn byw mewn *Delw-addoliaeth*. Ag am hynny pan ordeinwyd *Bedydd* yn gyntaf, angenrheidiol ydoedd gwneuthur ymwrthod a'r Gau-dduwiau hynny yn rhan bennaf o'r adduned. Ag er bôd y *Delw-addoliaethau* hynny yr awrhon yn anghynneſinach o lawer, etto fe ellir oſni fôd ùn rhan arbennig o honynt etro yn rhŷ gyffredinol yn ein myſg ni, hynny yw, pob màth a'r *aflendid*, ag er nad ydym ni yn gwneuthur *Ceremoniau* o'n *Creſydd* megys y *Cenhedloedd* gynt, etto y mae *gwneuthur aflendid* yn bechod dirfawr yngolwg Duw, y cyfryw ac a'i hannogodd ef i ddiniſtrio Dinaſoedd cyfan a *thân a brimſtan*, fel y darllennir, *Gen.* 19. ie, yr *hòll fŷd a dwfr*, *Gen.* 6. ag yn ddiammeu a ddwg i lawr farnedigaethau trymion a rhy-

rhyfeddol ar y neb a barheiff yntho, ag am hyn- Sul II.
ny fe ddylid edrych ar *ymwrthod* a hwynt megis rhan hynodol o'r *addewid* hwn. Heblaw hyn, fe *addunedir* ymma yn erbyn pob ymgyfeillach a *Diafol*, pa un bynnag ai trwy *arfern Dewiniaeth ein* hunain, ai ymorol a'r ſawl ſydd yn gwneuthur felly, ar ba achos bynnag, megys *ail-gaffaeliad* ein *hiechyd*, ein *dà*, neu'r cyfryw; canys y mae hwn yn râdd o'r *pechod* arall, y mae yn *ymwrthod* a'r Arglwydd, ag yn goſod i fynu'r *Cythrel* yn *Ddaw* i ni, tra i byddom yn myned atto ef am gymmorth yn ein hangenrheidiau.

34. Yr ydym hefyd yn *ymwrthod* a holl *weithredoedd* y *Cythrel*: a'r rhai hyn ydynt naill ai yn gyffredinol, yr holl bechodau y mae ef yn ein *hûdo* ni iddynt, neu yntau y pechodau neillduol hynny y rhai ſydd ſwyaf a'i *Ddelw* ef arnynt; ſef, y rhai y mae ef yn ei arferu ſwyaf, megys *Balchder*, (yr hwn âi dygodd ef o fod yn *Angel goleuni* i'r cyflwr melldigedig y mae ef yr awrhon yntho) a *Chelwydd*, y mae ef fal y dywed ein Iachawdr, *Joan* 8. 44. *yn gelwyddòg ag yn Dâd iddo hefyd*; a'r cyfelyb hefyd yw *yſgelerder* a *Chenfigen*, yn enwedig 'llâdd a Difetha eraill, canys *llofrudd oedd efe o'r dechreuad*; Joh. 8. 44. ond uwchlaw'r cwbl, nid oes dim yn ein gwneuthur ni yn debyccach iddo, na *Themptio* a denu eraill i bechod, yr hyn yw ei holl fwriad a'i *gelfyddyd* ef, ag os gwnawn ninnau felly, yr ydym yn debyg *i'r llew rhuadwy hwnnw, yr hwn ſydd yn rhodio oddiamgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu.* 1 Pet. 5. 8.

35. Yr *ail* peth yr ydym yn *addunedn ymwrthod*, yw *rhodres a gorwagedd y byd anwir*; trwy rodres a gorwagedd y deallir amryw bethau; rhai o honynt yw 'r cyfryw ag a arferwyd gan y *Cenheloedd* mewn rhyw *chwareuon anghyfreithlon*,

Sul II. y rhai nid ydynt yn perthyn cymmaint i ni yr awrhon, gan nad ydynt arferedig yn ein mŷſg ni; ond heb law hynny, ſe ddealliſ wrthynt hwy hôb gormodedd, naill ai mewn lluniaeth, neu *bleſerau*, neu *ddillad*, pan ſôm yn myned tu hwnt i'r cymmedroldeb hynny i ba un yr ydym yn rhwym, naill *ai trwy* 'r *Rheol* gyffredinol o ſobrwydd, neu trwy 'r amgylcheddau neilldnol o'n cynneddfau a'n galwedigaethau. Yn neſſaf, trwy 'r *byd anwir*, deallwn, yn gyntaf, *olud*, a *mawredd* y bŷd, y rhai er nad ydym yn hollawl yn *ymwrthod a* hwynt megys pe byddei yn anghyfreithlon i Griſtion fôd yn oludog, neu yn fawr, etto yr ydym yn addaw *ymwrthod* a hwynt cymmelled ag na bô i ni oſod ein calonau arnynt, nag ychwaith ei ceiſio na'i cadw hwynt trwy ſoddion anghyfreithlon yn y bŷd. Yn ail, ni a allwn ddeall wrth y bŷd anwir, gyfeillach ag arferion y bŷd, y rhai cymmhelled ag y maent yn ddrygionus; yr ydym ymma yn ymwrthod a hwynt, hynny yw, yr ydym yn *addaw* na ddenir ni ſŷth gan gyſeillion i ûn pechod, eithr yn hytrach ymogelyd y cyfeillion anwylaf na dioddef ein twyllo ganddynt; nag ychwaith gan arfer, eithr yn hytrach anturio dwyn cywilydd trwy dybied o ddynion ein bod yn neilldnol ag ynfyd-ffôl, yn rhodio megys mewn llwybr ar ein pennau ein hunain, na'n goſod ein hunain ar y *ffordd ebang bonno ſydd yn denu i ddiſtryw*, trwy ein rhoi ein hunain i ſynu i nêb rhyw *arfer bechadurus*, êr mor gyffredinol y bo hi yn y bŷd. Pe yſtyriem ni yn ddifrifol y rhan yma o'n *hadduned*, ſe a'n harfogai ni gan mwyaf yn erbyn holl *brofedigaethau* y bŷd, gan mai *cyfeilliach*, ag *arfer*, yw 'r *offerau* pennaf trwy ba rai y mae ef yn gweithio arnom.

36. Y

36. Y *Trydydd* peth yr ydym yn *ymwrthod* ag ef, yw holl *bechaduruſ chwantau'r cnawd*; lle y cymmerir y *cnawd* (ſal y mae 'r Scrythr yn ſynych yn ei arferu) am ffynnon pob anwydau afreolus. Canys er y deallir wrth hyn y trachwantau amhûr hynny, y rhai a elwir yn gyffredinol *chwantau'r cnawd*, etto nid hynny yn *unig* a gynnhwyſir ymma, gan fod amryw bethau eraill y rhai y mae 'r Scrythr yn ei galw yn *weithredoedd* y cnawd; ni fedraſ ei hadrodd yn well nag y mae S. *Paul* yn ei roddi nhw ar lawr, *Gal.* 5. 19, 20, 21. *Amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai ŷnt, torri Priodas, godineb, afflendid, digywilydd-dra, Addoliad eulynnod, ſwyngyfaredd. caſineb, llîd, gelynaeth, digofaint, ymryſonau, terfyſcau, hereſiau, cenſigenau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a'r cyffelyb.* Hyn ynghŷd a'r adroddiadau eraill ſydd yn waſcaredig mewn amryw fannau o'r *Scrythur* a ddengys i ni ſôd llawer o bethau eraill yn gynnhwyſedig tan y rhan ymma o'n hadduned ni, ſef, *ymwrthod* a holl *bechaduruſ chwantau 'r cnawd.* Sul II.

37. Yr *ail* peth a addawodd ein *Tadau-bedydd*, a'n *Mammau-bedydd* troſtom, oedd y *credem ni holl Byngcian y ffydd Griſtianogawl.* Y rhai hyn a gynnhwyſir ar fyr yn yr hwn a elwir *Credo 'r Apoſtolion*, yr hyn gan ein bôd ni yn addaw ei credu, fe a rag-debygir ein bod ni hefyd yn addaw ei dyſcu hwynt, a hynny nid yn unig y *geiriau*, ond ei *hyſtyriaeth* eglur hwynt hefyd; canys pwy a a ddichon gredu'r peth ni chlywſon nhw erioed ſôn am dano, neur peth ni fedrant mo'i ddeall? Trwy *gredu* y deallir, nid yn unig, cydſynniad a'i *gwirionedd* hwynt, ond hefyd, bôd i ni fyw yn debyg i rai a fo'n credu: megys, os *credwn* mai *Duw* a'n *creuodd* ni; fe ddyle hynny wneuthur i ni fyw yn y cyfryw *ddaroſtyngeiddrwydd ag ufydd-*

Sul II. *dod* ag a weddai i *Greaduriaid* tu ag at ei *Creawdr*; *credu* hefyd ddarfod i *Grift* ein *prynu* ni a ddyle wneuthur i ni ein rhoddi ein hunain i ſynu iddo ef megys ei *bwrcas*, i'n llywodraethu yn hollawl ganddo ef, ag i'n *trafferthu* ein hunain yn unig yn ei *waſanaeth* ef. *Credu barn* i ddyfod a ddyle ein gwneuthur ni yn ofalus pa fôdd y rhodiom, fel na'n bernir ni'n euog y prŷd hynny. A *chredu* o honom y *bywyd tragwyddol* a ddyle ein gwneuthur ni yn ddiwyd i dreulio ein munudŷn *byrr* o amſer ymma, fal y bô ein *bywyd tragwyddol* ni yn fywyd *o lawenydd*, ag nid *o drueni* i ni. Yn y môdd hyn y dylem allan o holl *Byngciau* ein *ffŷdd* dynnu *Cynnhyrfiadau* i'n *cadarnhau* ni mewn pob *arfer Griſtianogawl*, i ba ddiben yn unig yr ydym yn ei *dyſcu* ag yn ei *credu* hwynt, ag am hynny heb hyn yr ydym ymmhell iawn oddiwrth gwplhau y rhan yma o'n hadduned, ſef, *Credu holl Byngciau ffŷdd Griſtianogawl.*

38. Y Rhan ddiweddaf o'n *hadduned* yw, fôd i ni *gadw ſanctaidd ewyllys Duw, a'i orchymynion*, a *rhodio ynddynt holl ddyddiau ein bywyd.* Lle, wrth *gadw* o honom *ſanctaidd ewyllys Duw* a'i orchymynion y deallir, gadw o honom yr holl berthau hynny, y rhai a eglurhàodd ef i ni fod ei ewyllys ef ar i ni ei cwplhau; er mwyn hyn ſe'a roddodd i ni ei *Air ſanctaidd* i'n *haddyſcu*, ag i *hyſpyſu* i ni pa beth y mae ef yn ei oſyn ar ein dwylo ni; ag y mae ef yr awrhon yn *diſgwyl* i ni wneuthur hynny yn ffyddlon heb ein heiriach ein hunain mewn troſeddiad ûn o'i orchymynion ef. Ag mae'n rhaid i ni *rodio* yn yr ufydd-dod gyflawn ymma *holl ddyddiau ein bywyd*: hynny yw, rhaid i ni fyned ymlaen mewn rheol barhaus o ufydd-dod i Dduw; nid yn unig rhoi ychydig gamrau yn ei ffŷrdd ef, ond *rhodio* ynddynt, a hynny nid tros ran fechan o'n hamſer,

ſer, ond *holl ddyddiau ein bywyd*, heb droi ùn amſer allan o honynt; ond myned ymlaen ynddynt yn barhaus, tra i' byddom byw yn y bŷd hwn. Sul II.

39. Gan ddarfod i ni yr awrhon eglurhau ar ſyrr i chwi yr *Adduned* ymma a wnaethoch wrth eich BEDYDDIO, ni ddyweda'i ddim ychwaneg ynghylch hyn, ond yn unig eich coffhau chwi mor agos y mae 'n perthyn i chwi ei chadw hi: a hynny yn gyntaf, o herwydd *cyfiawnder*; yn *ail*, o herwydd bûdd á lleſháad. Eich bôd chŵi mewn *cyfiawnder* yn rhwymedig i hyn ſydd eglur, oblegid ei fôd yn *addewid*, ag mae cyhawnder yn goſyn ar law pôb dŷn gadw ei Addewid. Ond mae hwn yn rhwymo yn gaethach na neb rhyw addewidion eraill, canys y mae yn *adduned*, hynny yw, *addewid* a wnaethpwyd i Dduw, ag am hynny pan dorrom ùn rhan o hwn, nid ydym yn umig yn *angbyſiawn* ond yn *anudonol* *Rhwymedigaeth ſawr yr Adduned hon.*

40. Ond yn *ail*, y mae hyn yn perthyn ini yn ddirfawr o herwydd ein *bûdd* ein hunain. Mi a rag-ddywedais i chwi ſôd *Bedydd* yn ein dwyn ni i *Gyfammod* a *Duw*; ag y mae mewn pôb *Cyfammod* ddwy ran, hynny yw, rhyw beth a addewir gan y naill blaid, a rhyw beth gan y llall, yr hon ſydd yn gwneuthur y *Cyfammod*. Ag os tyrr ùn ei ran o'r *Cyfammod*, hynny yw, peidio a chyflawni 'r péth a gyttûnodd iddo, nid all ef mewn rheſwm ddiſgwyl i'r llall gwplhau ei ran yntau. Ag felly y mae ymma, y mae Duw yn ſiccr yn addaw yr holl gymwynaſau rhagddywededig, a hynny yw ei ran ef o'r Cyfammod. Ond yr ydym ninnau heſyd yn cymmeryd arnom gwplhau yr amryw bethau a gynnhwyſir yn yr *Adduned* ymma o *Fedydd*, a dyna 'n *rhan* ninnau o honi, ag oddigaeth i ni yn ffyddlon ei

cyflawni

Sul II. cyflawni hwynt, nid yw Duw yn rhwymedig i gwplhau ei ran yntau, ag felly yr ydym yn colli 'r holl fûdd a'r rhagor-rreintiau gwerthfawr hynny, fe a'n gadewir hefyd yn ein cyflwr *anianol* a *thruenus*, ſef, yn *blánt digofaint*, *yn elynion i Dduw*, *ag yn etifeddion damnedigaeth dragywyddol*. A pha hytrydwch a all fôd yn ein holl bechodau ni i dalu i ni'r jawn lleiaf am y cyfryw golled, ſef, colled o ffafr a grâs Duw ymma, a cholled o'n Heneidiau ein hunain ar ôl hyn? Canys (fel y dywed ein Jachawdr, Marc. 8. 36.) *pa leſáad i ddŷn ennill yr holl fŷd, a cholli ei enaid ei hún?* Etto dymma'r farſiandiaeth ynfyd-ffol yr ydym ni yn ei gwneuthur pan fyddom yn torri ûn rhan o'n *haddunedd* hon o *Fedydd*. Fe berthyn i ni gan hynny Yſtyried hyn yn ddifrifol, a choff hau fôd pób pechod a wnelom yn droſeddiad hynod o'r *Adduned* hon, ag am hynny pan 'ith demtir i'ryw bechod, er gwaeled yr ymddengys iti, na ddywed am dano fal y dywedodd *Lot* am *Zoar*, Gen. 19. 20. Onid ûn bychan ydyw? ond Yſtyria, pa beth bynnag ydyw, ddarfod i ti yn dy *Fedydd addunedu* yn ei erbyn, ag yna er *lleied* a fytho, y mae yn denu ûn *mawr* ar ei ôl, nid amgen nâr pechod o *Anudonedd*, yr hwn pwy bynnag a'i gwnelo, fe ddywedodd Duw yn eglur yn y *trydydd gorchymyn*, *na fydd di-euog o'i flaen ef*. Ag er mwyn cadw o honom yr *adduned* yma yn well, *tra-fuddiol* a fydde i ni argofio yn fynych yr amryw *Ddoſparthiadau* o honi, fal y bytho yn waſtad yn barod yn ein meddyliau i wrthwynebu pób *profedigaethau*; ag yn ddiammeu y mae hwn yn *arf* mor drr-rhagorol, mai oddigaeth i ni ei *daflu* ymmaith, neu ei arferu yn *ddiofal*, fe a'n gwná ni yn abl, trwy gymmorth Duw, i yrru ein gelyn *Yſprydol* i ffô. A dymma'r *parch* a'r *anrhydedd* fydd raid i ni ei dalu i'r *Saçrament* cyntaf yma, ſef, *Bedydd*.

SUL III.

Sul III.

SUL III.

Am y Sacrament o Swper yr Arglwydd, Am Rag-ymbaratôad, megys prawf o'n Hedifeirwch, Ffydd, Ufydd-dod, am Ddled-fwyddau i'w gwneuthur wrth Gymmuno, a chwedi, &c.

1. YR awrhon y canlyn y *Parch* dledus i'r *Sacrament o ſwper yr Arglwydd*; ag yn hyn y mae 'n rhaid i mi ganlyn fy Noſparthiad cyntaf, a goſod ar lawr, yn gyntaf, pa beth ſydd i'w wneuthur *Cyn*; yn ail, *Ar*; yn drydydd, *Gwedi* Cymmuno; oblegid yn y Sacrament hwn nid ellir mo'n heſcuſodi ni oddiwrth yr ûn o'r rhain, er y gellir yn y llall. *Swper yr Arglwydd.*

2. Ag yn gyntaf, am y peth ſydd i'w wneuthur *Cyn*, y mae St. *Paul* yn dywedyd mai ein hôli ein hunain ydyw, 1 *Cor.* 11. 28. *Eithr holed Dyn ef ei hûn, ag felly bwytded o'r Bara. ag yſed o'r Cwpan.* Ond cyn i mi fyned ymlaen i bôb *neilldnol* ran o'r *Holiad* yma, rhaid i mi ddywedyd i chwi yn *gyffredinol* mai 'r hyſpyſol bêth ſydd i ni i'w wneuthur yn y *Sacrament* hwn, yw *Ail-adrodd*, ag adnewyddu 'r *Cyfammod* hwnnw a wnaethom a Duw yn ein *Bedydd*, yr hwn a ddarfu i ni amryw ffyrdd yn orthrwm ei *droſeddu*; y mae 'n rhyngu bôdd i Dduw o'i fawr *Drugaredd* adael i ni ddyſod i'w adnewyddu ef yn y *Sacrament* hwn, yr hyn os gwnawn mewn Symlrwydd Calon, eſe a addawodd ein derbyn ni, a rhoddi i ni yr holl Gymwynaſáu hynny yn *hwn*, y rhai yr oedd ef yn barod i'w canniadhau *Beth a wneir cyn Cymmuno.* *Holiad.*

Sul III. niadhau i ni yn y *Sacrament* arall, pe ni buaſei ni trwy ein bai ein hunain ei colli nhw. O herwydd pa ham, gan mai *Adnewyddu* ein *Cyfammod* i'w ein neges ni y prŷd hyn, ſe ganlyn fod y tri pheth hyn yn angenrheidiol tu ag at hynny: yn *gyntaf*, fôd i ni ddeall pa beth yw'r *Cyfammod* hwnnw; Yn *ail*, fod i ni yſtyried beth ydyw ein *Troſſeddiadau* ni o honaw; ag yn *drydydd*, bôd i ni lawn-ſwriadu ei gadw yn gryno y rhan arall o'n bywyd. A'n ymholi ein hunain ymmhôb ûn o'r rhain yw'r *Profiad* hynny a ofynnir gennym ni cyn i ni ddyfod i'r *Sacrament* hwn.

3. Ag yn gynaaf, rhaid i ni ymhôli a ydym ni yn deall pa beth yw'r *Cyfammod* hwn; y mae hyn yn dra-angenrheidiol, gan fôd hyn yn Sylfaen y ddau arall. Oblegid heb hyn nid yw boſſibl i ni na dadcuddio ein Pechodau a aeth heibio, na llawn-ſwriadu yn ei herbyn nhw rhag llaw. Yn y man cyntaf gan hynny, *profweh* a ydych chwi yn jawn ddeall pa beth yw'r *Cyfammod* hwnnw yr hwn a wnaethoch yn eich *Bedydd*, beth yw'r *Trugarcddau* a addawyd ar ran Duw, a'r *Dled-ſwyddau* ar eich rhan chwithau. Ag oblegid nad yw'r *Cyfammod* yr hwn a wnaethpwyd a phôb ûn o honom ym *Medydd* namyn cyfaddaſu attom-yn neillduol y *Cyfammod* a wnaethpwyd gan Dduw ynghriſt a holl ddynol ryw yn gyffredinol, rhaid i chwi yſtyried a ydych chwi yn *deall* hwnnw; onid ydych, rhaid i chwi yn ebrwydd geiſio Athrawiaeth yn hynny. Ag hyd oni chaffoch foddion i gael gwell, edrychwch yn ôl ar y peth a ddywedpwyd ar fyrr yn nechreu'r Traethawd hwn, am yr *Ail* Cyfammod, yr hwn yw Sylwedd y Cyfammod hwnnw yr hwn a wnaeth Duw a ni yn ein *Bedydd*. Ag oblegid y cewch

chwi

chwi weled yno, mai Uſydd-dod i holl Orchy- Sul II.
mynion Duw yw'r Ammod a ofynnir ar ein Dwylo ni, ag yw heſyd y peth yr ydym ni yn eglur yn ei addúnedu yn ein *Beddyd*, angenrheidiol heſyd yw i chwi wybod beth yw y *Gorchymynion* Duw hynny. Am hynny, os gwelwch eich bôd yn anwybodus o honynt, na Orphwyſwch nes i chwi gael eich haddyſcu ynddynr, ag ennill o honoch y cyfryw feſur o wybodaeth ag a'ch cyfarwydda chwi i gwplhau 'r *Holl Ddled-ſwydd Dyn* hynny y mae Duw yn i oſyn ar eich llaw. A rhoddi iti 'r Athrawiaeth hon yw unig fwriad y *llyfr hwn*, yr hwn, pe mwyaf anneallus ydwyt, mi a erſyniaf arnat ei ddarllen ef o hynnu yn fwy diwyd. Ag os dydi o'r blaen a tuoſt gyfrannog o'r *Sacrament Sanctaiddiol hwn* mewn llwyr anwybodaeth o'r pethau angenrheidiol hyn, galara am dy bechod hynny, ond na ryſyga ddyfod trachefn, nes iti trwy gael y wybodaeth angenrheidiol hon dy gymmhwyſo dy hun iddo, yr hyn ſydd raid iti bryſſuro i'w wneuthur. Canys er na ddyle nêb yn y cyfryw anwybodaeth ddyfod i'r *Sacrament*, etto os efe yn Ewyllyſgar a beru yntho, ni bydd hynny yn *eſcus* iddo ef i ymgadw oddiwrth y bwrdd Sanctaidd hwn.

4. Yr *ail* rhan o'n *Proſiad* ni yw, yughylch ein *Troſeddiadau* o'r *Cyfammod* hwn; ag yma y cei di weled y Defnydd o'r wybodaeth honno y Traethais i am dani. Canys nid oes ûn modd i Ddadcuddio ein *Pechodau*, ond trwy brofi ein Gweithredoedd trwy *Gyfraith* Dduw, yr hon a ddyle fod yn Rheol iddynt. Pan ymoſodi gan hynny at a rhan yma o *Broſiad*, cofia yr amryw Ddoſparthiadau o'th Ddled-ſwydd, ag yna ymofyn a'th Calon dy hûn yn neillduol pa fôdd y *cwlphéaiſt* hi. Ag na fodlona dy hûn i wybod

Sul II. yn *gyffredinol* ddarfod iti droſeddu *Cyfraith* Dduw, ond gwnâ dy orau i ddadcuddio ymmha berthau *neillduol* y gwnaethoſt felly. Galw yn ol yn oreu ag y medrych holl neillduol weithredoedd dy fywyd, ag ymmhôb ûn o honynt Yſtyria pa ran o'th Ddled-ſwydd y troſſeddaiſt ynthi. A hynny nid yn unig mewn Gweithred gyhoedd, ond hefyd mewn *Gair*, je ymhellach, yn dy *feddyliau* dirgelâf. Canys er nad yw *Cyfraith* Dŷn yn cyrrhaedd attynt hwy, etto y mae 'r eiddo Duw; yn gymmaint a pha beth bynnag y mae ef yn ei wahardd yn y weithred, y mae ef hefyd yn gwahardd yn y *meddyliau* a'r Deiſyfiadau, ag mae ef yn ei gweled hwynt mor amlwg a'n Gweithredoedd mwyaf cyhoeddus. Y dyfal chwiliad neillduol ymma ſydd dra-angenrheidiol; canys nid oes addewid o faddeuant i ûn pechod ond i'r neb a'i haddefo ag a ymadawo ac ef. I bôb ûn o'r rhain y mae 'n angenrheidiol fod gennym ni union a neillduol wybodaeth o'n Pechodau. Canys pa fodd y gall ef gyffeſſu ei bechod, yr hwn ni wyr ei fôd yn euóg o hono? Neu pa fodd y gall ef lawnſwriadu ymadel ag ef, yr hwn nid yw yn dirnad ddarfod iddo o'r blaen lynu wrtho? Am hynny ni a allwn yn ddiammau gyfrif fod y *Proſiad* hwn nid yn unig yn Ddefnyddiol, ond yn angenrheidiol i gyflawn a pherffaith Ediſeirwch; canys yr hwn nid ydyw yn cymmeryd y Golygiad neillduol ymma o'i bechodau, fydd debyg i edifarhau ond ar yr hanner, yr hyn ni thâl iddo ddim tu ag at gael ei faddeuant; gan nad oes dim ond ymadawiad hollawl a *phôb ffordd ddrwg* yn ddigonol i hynny. Ond yn ddiammau yn anad amſer yn y bŷd fe berthyn i ni, pan ſyddom yn dyfod i'r *Sacrament*, fôd ein hedifeirwch yn berffaith a chy-

flawn;

flawn; ag am hynny y mae'r dyfal-chwiliad Sul II.
ymma o'n Calonnau (y prŷd hynny yn enwedig) yn angenrheidiol. Ag er mai gŵir yw, nad yw boſſibl i ni a'n holl ddiwydrwydd ddadcuddio neu goffau pôb rhyw neilldu ol bechod o'n bywyd: ag er mai gwir yw hefyd, y gellir cael maddeuant am y peth ſydd mor anochel adwy yn guddiedig oddiwrthym heb ddim mwy cyffes neilldu ol nag a wnaeth *Dafydd*, *Pſal.* 19. 12. *Glanhâ fi oddiwrth fy meiau cuddiedig*; etto ni bydd hyn yn ddadl i ni os nhw a ddeuant i fôd yn *guddiedig* yn unig o herwydd ein bôd ni yn eſgeulus am ei chwilio nhw allan. Am hynny gwilia dy Siommi dy hûn yn y peth Defnyddfawr ymma, ond chwilia dy Enaid hyd y gwaelod, heb yr hyn beth nid yw boſſibl iw Briwiau byth gael yn hollawl ei hiachau.

5. Ag megys y mae'n rhaid i chwi fal hyn ymorol yn fanwl ynghylch yr amryw *Rywogaethau* o Bechodau, felly hefyd y bydd rhaid i chwi ynghylch y *Graddau* o honynt, canys y mae amryw bethau yn adchwanegu, ag yn mwyhau'r Pechod. Y mae llawer o'r fâth ymma; megys yn *gyntaf*, pan bechom yn erbyn *gwybodaeth*, hynny yw, pan fyddom yn *gwybod* yn ſicer fod y cyfryw beth yn *bechod*, etto er mwyn y Pleſer neu'r Bûdd preſennol (neu ryw annogaeth arall) ni â auturiwn arno. Hyn a fernir gan *Griſt* ei hûn i fod yn *chwanegiad* mawr o'r *pechod*. *Yr hwn a wŷr Ewyllys ei Arglwydd, ag heb ei wneuthur a gurir a llawer o ffonnodiau*, *Luc.* 12. 47. Yn *ail*, pan bechom trwy *Ragfyfyrdod*, hynny yw, pan fyddom heb Syrthio iddo yn ddiſymmwth, heb allu ei ymogelyd, ond pan gaffom amſer i Yſtyried am hynny, dymma radd arall o'r Pechod. Ond yn *drydydd*, Gradd uwch etto yw, pan wnelom ef yn erbyn

Sul II. *Gwrthymegniad* ag *Argyoeddiad* ein *Cydwybod* ein hunain, pan fô honno y prŷd hynny yn dywedyd i ni, ni ddylit wneuthur y peth ymma: iê, ag yn gofod o'n blaen ni 'r *perigl* yn gyſtal a'r *Pechod* o' i wneuthur, etto yr ydym yn myned ymlaen i wneuthur y pechod o anfodd Rhybuddiau y Gydwybod; y mae hyn yn adchwanegiad mawr o'r pechod, yn gyfryw ag a dderchafa'r pechod lleiaf i gyffrôad tramawr; Canys eglur yw fôd y pechod a wneir felly yn ûn byrbwll, ag yna er *gwaeled* a fo 'r Defnydd o honaw, y mae yn dra-echryſlon yngolwg Duw. Iê, mae hwn yn beth o'r fâth rym, ag y geill wneuthur gweithred *ddi-duedd*, (yr hon nid ydyw ynthi ei hûn yn bechod) yn bechod. Canys er i'm *Cydwybod* i gyfeiliorni yn dywedyd i mi fôd y peth a'r peth yn *angbyfreithlon*, etto tra byddwyf i yn coelio ei fod, fe fydde yn bechod i mi wneuthur y peth; oblegid yn hynny y mae fy Ewyllys i yn cydſynnio i wneuthur y peth yr hyn yr wyf'n i gredu ſydd yn anfodd hau Duw, ag mae Duw (yr hwn ſydd yn ein barnu ni wrth ein *Hewyllys*, nid ein *Deall*) yn cyfrif hynny i ni yn bechod yn gyſtal a phe buaſe 'r peth o hono' i hûn yn *angbyfreithlon*; ag am hynny yn ddiammau ni a allwn ddywedyd yn bendant, fôd pa beth bŷnnag ſydd o hono' i hûn yu bechadurus, yn fwy o lawer felly, trwy fôd yn ei wneuthur ef yn erbyn argyoeddiad *Cydwybod*. Y *Pedwerydd* môdd o helaethu ar bechod yw, pan fyddo gwedi ei fynych ailgyrchu; canys yna nid oes yn unig euogrwydd cynnifer ychwaneg o *Weithredoedd*, ond y mae pôb Gweithred hefyd yn myned (o hynny) gwaeth, ag yn fwy aneſcuſodol. Yr ydym yn waſtad yn barnu fal hyn am feiau a wneir yn ein herbyn ein hunain,

nain, ni a fedrwn faddeu ûn camwedd yn haw- Sul. II.
ſach na'r unrhyw gwedi ei ailgyrchu, a phe mynychaſ y gwneir ef yr ydym yn ei gyfrif yn fwy anfad. Ag felly yn ſiccr y mae am feiau yn erbyn Duw hefyd. Yn *bummed*, y Pechodau a wnaethpwyd ar ôl *Addunedau* a llawn ſwriadau o wellhâad, ydynt etto yn fwy echryſlon; canys y mae hynny yn cynnwys hefyd droſeddiad yr *Addewidion* hynny. Y mae peth o hyn ymmhôb pechod *rhyfygus*. Canys y mae pôb cyfryw bechod yn droſeddiad yr *Adduned* honno a wnaethom yn ein *Bedydd*. Ond heb law hynny, fe ddarfu i ni yn ôl hyn ein rhwymo'n hunain trwy *Addunedau* newyddion; oni wnaethom amſer arall, etto yn ddiammau ar ein dyfodiad i *Swper yr Arglwydd*, gan fôd hwnnw (fal y dywedwyd o'r blaen) yn bwrpaſol i adnewyddu 'r *Adduned* a wnaethom yn ein Bedydd. A phe mwyaf o'r addunedau hyn a wnaethom, mwy fwy yw ein heuogrwydd ni os nyni a Syrrhiwn yn ôl i ryw bechod a ymwrthodaſom ac ef y pryd hynny. Y mae hyn yn beth a dâl yn ddâ ei yſtyried, ag am hynny ymhola dy hûn yn neillduol wrth ddyneſſau at y *Sacrament*, ynghylch dy droſeddiadau o'r *Addunedau* a wnaethoſt o'r blaen wrth y *Bwrdd ſanctaidd*. Ag os gwnaethoſt ûn amſer ar ryw achoſion eraill, megys Clefyd, cythryfwl meddwl, neu 'r cyffelyb, ryw Adduned arall, galw dy hûn i gyfrif twys pa fodd y cwplheaiſt hwynt hefyd, a choſia fôd pob pechod a wnaethoſt yn erbyn y cyfryw *Addunedau*, heb law ei euogrwydd naturiol ei hûn, yn *Anudonedd* hefyd. Yn *chweched*, Grâdd uwch etto yw, pan fô Pechod gwedi ei wneuthur cyn ſynyched a'n bôd ni gwedi dyfod i *arfer* a *Chynneſindra* o honaw, a hynny yn wir ſydd yn râdd uchel.

6,

Sul III. 6. Etto o'r *Arferion* yma y mae rhai yn waeth na'r lleill; megys yn *gyntaf*, os bydd ef gwedi ei gadarnhau cyn belled a'n bôd ni gwedi dyfod i galedrwydd Calon, heb fôd gennym ddim teimlad o'r pechod: Neu yn *ail*, os awn ni ymlaen yntho yngwrthwyneb i ryw foddion rhagorol a arfera Duw i'n had-gyweirio ni, megys *Clefyd*, neu ryw orthrymder arall yr hwn fydd megis gwedi ei ddanfon yn bwrpafol i'n troi ni. Neu yn *drydydd*, os ni bydd holl Argyoeddion, a chynghorion Gwenidogion neu geraint neillduol yn gweithio dim arnom, ond naill ai ein gwneuthur ni yn ddigllon wrth ein hargyoedd-wŷr, neu ein gofod ni ar amddiffyn y pechod. Neu yn *ddiweddaf*, os bydd yr Arfer bechadurus hon mor gref ynom ni, a gwneuthur i ni, nid yn unig, garu'r Pecod ynom ein hunain, ond mewn rhai eraill; os, fal y dywed yr Apoftol *Rhuf.* 1. 32. *Nid ydym yn unig yn gwneuthur y pethau hyn, eithr hefyd yn Cydfynnio a'r rhai fy yn ei gwneuthur hwynt*, ag am hynny yn llithio ag yn denu cynnifer ag a allom i'r unrhyw Bechodau gydá ni: mae hyn yn dderchafiad i'r *Grîs* uchaf o ddrygioni, ag i'w edtych arno megys y Rhàdd eithaf o *bechod* ag *enbydrwydd*. Fal hyn y gwelŵch pa fodd y mae i chwi eich Profi eich hunain ynghylch eich Pechodau, ymmôb ûn o ba rai y mae'n rhaid i chwi yftyried pa faint y fû o'r amgylchiadau mawr hyn, modd y galloch jawn fefur ei *bechryfonrwydd* hwynt.

Goftyngeiddrwydd. 7. Yr awrhon, diben yr *Ymholiad* ymma yw, i'ch dŵyn chwi i'r fâth Olygiad o'ch Pechodau, ag a'ch gwná chwi yn wir *Oftyngedig*, ag 'yn deimladwy o'ch perigl, y rhai a annogafoch i ddigofaint y fáth fawrhydi goruchel, yr hwn a ddichon ymddial ei hûn mor echryfion arnoch. A diammau yr ymddengys hyn yn achos rhefymol

ſymol o driſtwch i'r Galon mwyaſ cnawdol, Sul. III.
Ond nid hynny yw 'r ewbl; y mae yn rhaid i hyn hefyd eich dwyn chwi i fôd yn deimladwy, ag i ffieiddio eich bryntni a 'ch anniolchgarwch, y rhai ſal hyn a bechaſoch yn erbyn Duw mor Ddaiontûs a graſol, ac ſydd mewn môdd mor annheilwng yn talu 'r echwyn i 'w drugareddau anſeidrol et. A rhaid i'r yſtyriaeth ymma yn enwedig dôddi eich Calonnau chwi i ddwys ofid a chyſtudd, grâdd pa ûn ſydd raid bod mewn rhyw feſur yn gyfattebol i faentioli eich pechodau. A phe mwyaf y byddo (trwy na byddo yn gyfryw ag a gauiff allan obaith o Drugaredd Dduw) mwyaf cymmeradwy ôlla ſydd ef i Dduw, yr hwn a addawodd *na ddirmygei galon ddrylliog gyſtuddiedig, Pſal.* 51. 17. A chyffelyppaſ ôll hefyd a ſydd hyn i 'n dwyn ni i wellhâad: Canys os nyni unwaith a ſyddwn yn deimladwy o angerdd Yſprŷd cyſtuddiedig, ni ſyddwn ni fyth mor ewyllyſgar i anturio ar bechod trachefn.

8. Canys pan i 'n temptir ag ûn o bleſerau byrrion pechod, ni a allwn y prŷd hynny o 'n cyfarwyddyd ein hunain oſod yn ei herbyn hwynt ofidiau tôſt, ag arſwydau *Cydwybod euog*, yn hyn yn anſeidrol a ragbwyſa 'r lleill i bwy bynnag a ſu deimladwy o honynt. Ymegniwch gan hynny i ddwyn eich Heneidiau i 'r tymmeruſtwydd tyner hwn, i'r twys a diffuant ofid hwn, ag hynny nid yn unig am y perigl a ddygaſoch arnoch eich hunain; canys er bôd hynny yn Yſtyriaeth a ddylei weithredu Triſtwch ynom, etto lle y mae hynny yn unig yn achos o'n Triſtwch, nid dyna 'r Triſtwch yr hwn a wnâ lês i ni er maddeuant; ag y mae y theſwm am hyn yn eglur, canys y mae 'r Triſtwch hwnnw

Sul III. hwnnw yn unig yn tarddu allan o gariad i ni ein hunain; yr ydym yn driſt, oblegid ein bôd yn debyg i ddioddef. Ond mae n rhaid i driſtwch y gwîr ediſeiriol fod heſyd gwedi ei gyſſylltu a chariad Duw, a hynny a wna i ni ymofidio am droſſeddu yn ei erbyn ef er na ddigwyddei dim coſpedigaeth i ni ein hunain. Y môdd gan hynny i cyffroi 'r Triſtwch hwn ynom ni, yw, yn *gyntaf*, gyffroi ein Cariad i Dduw trwy ail-adrodd rhyngom a 'n hunain yr amryw weithrediadau graſuſol o 'i Drugaredd ef tu ag attom, yn enwedig, y drugaredd honno o 'n harbed ni, heb ein torri ymmaith yn ein pechodau. Yſtyria wrthit dy hûn gynnifer a chymmaint o annogaethau i ddigoſaint a roddaiſt iddo ef, yſgatfydd mewn trefn barháus o anuſydd-dod gwrthnyſig tros lawer o flynyddoedd, am ba rai y galleſit, yn dra-chyſiawn gael dy ergydio yn ſyw i ûffern: iè, ond odid y mae gennit o'th flaen lawer o Eſamplau o bechaduriaid llai na thi dy hûn y rhai a gippiwyd ymmaith yn ddiſymmwth ynghanol ei pechodau, a pha achos a elli di ei roddi, pa ham y diengaiſt ti cyhyd, ond yn unig oblegid darfod i'w lygad ef dy arbed? a pha achos o'r arbediad hynny, ond ei dyner *ymyſcaroedd* ef tu ag attat ti, a'i anewyllyſgarwch ef i ti fôd yn golledig? Nid all yr yſtyriaeth ymma lai, os bydd hi gwedi ei gwaſcu hyd adref ar dy Enaid (oddigaeth bôd dy galon yn galettach na'r *maen melin*) na chyffrhoi peth Cariad ynot tu ag at y Duw graſlawn hir-ymarhous hwn, a'r Cariad hwnnw yn ddiammau a ddengys iti mai *peth drûg a chwerw ydyw, wrthod o honot yr Arglwydd*, Jer. 2. 19. ddarfod iti cyn-ddrwg dalu yn ôl iddo êf am y cyfryw drugaredd; fe wnâ hyn iti gywilyddio a digio wrthit

Cyſtudd calon.

wrthic dy hûn, dy fôd di yn gyfryw greadur anniolchgar. Ond os yw yſtyriaeth yr ûn máth ymma o drugaredd yn unig, ſef, *Dioddefgarwch* Duw, yn fâth rwymedigaeth a chynnorthwy i'r triſtwch duwiol hwn, beth gan hynny a fydd yr aneiriſ o'r *trugareddau* eraill hynny, y rhai a fedr pôb dŷn ei cyfriſ iddo 'i hûn? Ag am hynny bydded pôb dŷn mor *neilldual* yn hyn ag y medr, ag adgoffhàed cymmaint o honynt ag a allo, modd y gallo gyrrhaeddud meſur o hynnu mwy o wîr driſtwch Calon. Sul III.

9. Ag heb law yr holl egni hyn, mae 'n rhaid adroddi *Gweddiau diſriſol* at Dduw ar fôd iddo ef trwy ei Yſpryd glân ddangos i chwi eich Pechodau, a meddalhau eich Calonnau, modd y gallech yn hollawl ymofidio a galaru am danynt.

10. At hyn y mae'n rhaid cyffylltu *goſtyngedig Cyffes* o'n pechodau ger bron Duw, a hynny nid yn unig yn *gyffredinol*, eithr heſyd yn *neilldual*, cymmhelled ac y cyrrhaedd eich Coffadwriaeth o honynt, a hynny ynghyd a'i holl amgylchiadau drygionus, y rhai a ddarfu i chwi trwy'r rhag-ddywededig *Ymholiad* ei dadcuddio. Jè, y mae 'n rhaid cydnabod yn gyffredinol y pechodau dirgel a ollyngwyd yn angôf, oblegid diammeu yw fod aneiriſ o'r cyfryw; yn gymmaint a bôd yn angenrheidiol i bôb ûn o honom ddywedyd gyda *Dafydd*, *Pſal.* 19. 12. *Pwy a ddeall ei Gamweddau? Glanhâ fi oddiwrth fy meiau cuddiedig.* Gwedi i chwi fal hyn gyffeſſu eich pechodau trwy alar twys, a diragrithiol gaſineb o honynt, chwi a ellwch y pryd hynny (ag nid dim Cynt) eich Sicrhau eich hunain eich bôd chwi mor deimladwy o'ch Cleſyd, a'i bôd hi yn amſer i chwi i gyfladdaſu'r meddiginiaeth. Cyffes.

11. Yn y man neſſaf gan hynny rhaid yw i chwi edrych arno ef yr *hwn a oſodes Duw i fôd yn* Ffydd

Sul III. *jawn am ein pechodau*, Rhuf. 3. 25. *ſef, Jeſu Griſt, Oên Duw, yr hwn ſydd yn dileu pechodau'r Byd*, Jo. 1. 29. Ag erſyn yn ddiſrifol ar Dduw, fôd i'ch Pechodau chwi gael ei golchi ymmaith trwy ei *werthfawroccaf waed* ef; ag i Dduw er ei fwyn ef gymmodi a chwi. A hyn ſydd raid i chwi gredu a fydd yn ddiatmmeu, os chwi am y rhan arall o'ch amſer a ymadewch a'ch Pechodau, ag a ymrôwch yn ddiragrithiol i *Ufyadhau Duw* yn ei holl *Orchymynion*. Ond heb hyn, ofer yw diſgwil dim lleſhâad oddiwrth *Grîſt*, na'i ddioddefaint. Ag am hynny y rhan neſſaf o'ch Paratôad chwi a fydd ſefydlu y *llawn-fwriadau* hynny ô *Ufydd-dod*, yr hyn a ddywedais i chwi oedd y *trydydd* peth i ymholi eich hunain am dano, cyn neſſau at ſwper yr Arglwydd.

Llawn-fwriadau ô Ufydddod. 12. Ynghylch y rhannau neilldnol o'r *Llawn-fwriad* hwn, nid rhaid i mi draethu dim ychwaneg, ond bôd yn rhaid iddo atteb pôb rhan a chaingc o'n Dlêd-ſwydd; hynny yw, rhaid i ni nid yn unig *lawn fwriadu* yn *gyffredinol* cadw *Gorchymynion* Duw, ond pôb Gorchymyn ar ei ben eu hûn; ag yn enwedig lle y gwelſom ein hunain ſwyaf yn diffygio o'r blaen, yna yn bendifaddeu adnewyddu ein hamcanion. Ag yma ſe berthyn i ni edrych yn fanwl ar fod yr amcanion hyn yn *ddiragrithiol* a *diffuant*, ag nid y cyfryw rai oer eſgeulus ag a fydd rhai arferol o gymmeryd i ſynu wrth ddyfod i'r Sacrament, y rhai ni feddyliant fŷth ei cadw gwedi hynny; canys y mae hyn yn wirionedd ſicer, fôd, pwy bynnag a ddelo i'r Bwrdd Sanctaidd hwn heb gâs hollawl i bôd pechod, ei fôd ef yn dyfod yn annheylwng; ag y mae cyn ſiccred, fôd i'r neb a gaſhao yn hollawl bôb pechod, fôd iddo heſyd lawn-fwriadu ymadel ag ef; canys chwi a wyddoch fôd *ymadawiad* yn naturiol yn dilyn *eaſineb*, nid

nid oes nêb o'i wirfodd yn aros gyda 'r peth y mae yn ei *gaſhau*. Ag am hynny y ſawl nid ydyw yn bwriadu felly, fal y gallo Duw, yr hwn yw chwiliwr y galon, weled ei ſôd yn ddiragrithiol, nid ellir tybied ei fôd ef yn caſhau pechod, ag felly nid all ſôd yn dderbyniwr teilwng o'r Sacrament Sanctaiddiol hwnnw. Am hynny profwch eich bwriadau yn hollawl, rhag i chwi eich twyllo eich hunain ynddynt; eich perigl mawr eich bûn yw, os gwnewch hynny; canys diammeu yw, nad ellwch chwi dwyllo Duw, na gwneuthur dim yn gymmeradwy ganddo ef nad yw yn wîr berffaith a diffûant. Sul III.

13. Yr awrhon, fal y mae 'n ſefyll arnoch lawn fwriadu ar yr *Ufydd-dod newydd* hwn, felly hefyd y bŷdd raid i chwi lawn-fwriadu ar y *Moddion* y rhai a'ch cynnhorthwya chwi i gwplhau hyn. Ag am hynny yſtyriwch ymmhób Dlêd-ſwydd, beth yw'r *Moddion* i'ch cynnorthwyo chwi ynthi, a bwriedwch eu harferu hwynt er anhawſed ſyddont i'ch Cnawd chwi; felly o'r tu arall, yſtyriwch pa bethau ſydd debyg i'ch arwain i Bechod, a llawn-fwriedwch ei gochelyd a ffô oddiwrthynt: hyn ſydd raid i chwi i wneuthur yn erbyn pôb rhyw bechod, ond yn enwedig y rhai hynny y bûoch euog o honynt o'r blaen. Canys yna ni bydd anhawdd i chwi wybod trwy ba raddau i'ch twyſwyd iddynt, pa gyfeillach, a pha achos a'ch maglodd, ag hefyd i ba fâth o *Brofedigaethau* yr ydych barottaf i dueddu. Ag am hynny rhaid i chwi yn neillduol eich arfogi eich hûn yn erbyn y Pechod, trwy ochelyd yr *Achoſion* o honaw. *Am y moddion.*

14. Ond nid digon yw i chwi ameanu gwneuthur hyn oll *ar ól hyn*, ond rhaid i chwi ymoſod ar hyn yn *ebrwydd*, a dechreu 'r dreſn hon trwy

Sul III. wneuthur ar yr amſer preſennol pa beth bynnag y mae gennych odfa i'w wneuthur. Ag y mae amryw bethau y rhai a ellwch, iê, ſydd *raid* i chwi ei gwneuthur cyn dyfod o honoch i'r Sacrament.

Ymadawiad ebrwydd a phechod.

15. Megys yn gyntaf, rhaid i chwi daflu ymmaith bôb pechod, heb ddwyn gyda chwi i'r *Bŵrdd* hwnnw ûn drachwant heb ei marwhau; canys nid digon yw amcanu eu bwrw hwynt ymmaith yn *ól hyn*, ond rhaid i chwi oſod ar wneuthur hynny y *prŷd hynny*, trwy dynnu ymmaith bôb *gradd* o *Gariad* a *Thueddiad* oddiwrthynt; rhaid i chwi y prŷd hynny roddi llythr-yſgar i'ch holl hén Bechodau anwylaf, ag onid é, nid ydych mewn ffordd gymwys i gael eich ptiodi a *Chriſt*. Y mae y rheſwm am hyn yn eglur; canys y Sacrament hwn yw ein hymborth Yſprydol ni; yn awr, cyn i ni dderbyn ymborth Yſprydol, rhaid yw bôd gennym *fywyd Yſprydol* (canys ni rŷdd néb ymborth i ddŷn marw.) Ond pwy bynnag ſydd yn parhau, nid yn unig yn y *weithred*, ond mewn *Cariad* o un pechod trwy wybod, nid oes ganddo ef fywyd Yſprydol, ag nid yw ef yngolwg Duw ddim gwell na Scerbwd marw, ag am hynny ni ddichon ef dderbyn yr ymborth Yſprydol hwnnw. Gwir yw, fe a ddichon *fwyta'r Bara*, ag yſed y Gwîn, ond nid yw ef yn derbyn *Criſt*, eithr yn ei lê ef, yr hyn ſydd yn dra-echryſlon; fe ddywed yr Apoſtol i chwi pa beth, 1 *Cor.* 11. 29. *Y mae ef yn bwyta ac yn yſed ei ddamnedigaeth ei hûn.* Chwi a welwch gan hynny pa angenrhaid mawr ſydd arnoch i daflu ymmaith bôb rhyw bechod yn ebrwydd, cyn dyfod i'r *Bŵrdd* hwn.

Dilyn rhinwedd ddâ.

16. Ag y mae 'r *Ail* peth ſydd yw gyflawni y prŷd hyn mor angenrheidiol a'r cyntaf i chwi, ſef, goſod eich henaid mewn tymmer neſol a Chriſtia-

Chriſtianogawl; trwy ei chynnhyſgaeddu a'r holl *Reſcu* hynny, y rhai a'i gwnâ hi yn gymmeradwy ger bron Duw. Canys gwedi i chwi droi allan Satan, gyda 'i lû melldigedig, gwiliwch adael eich henaid yn wâg; os gwnewch, ſe ddywed *Criſt* i chwi, *Luc.* 11. 26. *Y dychwel ef yn ebrwydd yn ei ôl, ag y bŷdd eich cyflwr diweddaf yn waeth na'r cyntaf.* Ond rhaid i chwi trwy *Weddi* ddifrifol wahodd yr *Yſpryd glân* gyda 'i holl *Raſau* i'ch henaid, neu, os ydynt mewn rhyw ſeſur yno yn barod, rhaid i chwi Weddio ar fôd iddo ef gymmeryd mwy cyflawn feddiant o honi, a rhaid i chwi ei deffro a'i cynnhyrfu nhw i fynu. Sul III.

17. Megys er *eſampl*, rhaid i chwi gynnhyrfu eich *goſtyngeiddrwydd*, trwy Yſtyried rif a maentioli eich pechodau; eich *ffŷdd*, trwy fyfyrio ar Addewidion Duw i bôb pechadur edifeiriol; eich *Cariad* i Dduw, trwy yſtyried eu drugareddau ef, yn enwedig y rhai a goffheir yn y *Sacrament*, iddo roddi *Criſt* i farw troſom; a'ch *Cariad* i'ch *cymydogion*, ié, i'ch gelynion, trwy yſtyried yr *Eſampl* ddirfawr honno o'i ddioddefaint ef troſom ni y rhai oeddem Elynion iddo ef. Ag ſe ddiſgwylir gennim ni yn fwy neillduol pan ddelom i'r *Bwrdd* hwn goppîo allan ei *eſampl* ef yn hyn, trwy faddeu yn hollawl i bawb a wnaethant i'n herbyn, ag nid *maddeu* yn unig eithr dangos hefyd *addfwyndra* tu ag attynt mewn pôb ſwydd o Gariad a chymmwynaſgarwch. *Cynnhyrfu Graſau.*

18. Ag os darfu i chwi gynt felly lwyr anghofio ei *Eſampl* fendigedig et, a gwneuthur yn union yn y gwrthwyneb; os gwnaethoch annhirionedeb neu gam i nèb, yna mae'n rhaid i chwi geiſio maddeuant ganddo: Ag i'r diben hwn, yn *gyntaf*, Cydnabod eich bai, ag yn *ail*, talu yn ôl iddo ef hyd yn eithaf o'ch gallu, beth bynnag *Cariad.*

Sul III. bynnag a ddygaſoch oddiarno, pa ûn bynnag ai yn ei Ddâ, neu 'i Air-da. Y *Cymmod* hwn a 'n Brodyr ſydd yn gwbl-angenrheidiol er mwyn gwneuthur bôb rhan o 'n gwaſanaeth ni yn gymmeradwy gan Duw, fal y mae 'n eglur yn y *Gorchymyn* hwnnw o eiddo *Criſt*, Mat. 5. 23, 24. *Os dygi dy rôdd at yr Allor, ag yno dyfod i'th gôf fôd gan dy frawd ddim yn dy erbyn; Gâd yno dy Offrwm ger bron yr Allor a dos ymmaith: yn gyntaf, cymmoder di a 'th Frawd, ag yno tyret ag offrwm dy rôdd;* lle y gwelwch, er bôd y rhôdd yn barodd wrth yr *Allor*, rhaid yw ei gadael hi yno heb ei hoffrwm, yn hyttrach na 'i hoffrwm hi gan ddŷn nad yw mewn perffaith dangnheddyf a 'i Gymydog. Ag os yw 'r *Cariad* hwn mor angenrheidiol yn ein holl waſanaeth ni, mwy o lawer yn hwn, lle trwy gyd-gyfrannu o 'r ûnrhyw ddirgeledigaethau Sanctaidd, yr ydym ni yn arwyddoccau ein bôd gwedi ein ûno a 'n cyſylltu, nid yn unig a *Chriſt* ein pen, ond heſyd a 'n gilydd, megys cyd-aelodau. Os nyni gan hynny a ddeuwn a malais yn y bŷd yn ein Calonnau, yr ydym yn gwneuthur y weithred fwyaf o *Ragrith* ar a all fod, trwy wneuthur yn y *Sacrament* hwn gyſaddefiad gyhoedd o *addfwyndra* a *Chariad brawdol* o ba rai y mae 'n Calonnau yn hollawl yn wâg.

Dwywolder. 19. Grâs tra-angenrheidiol arall ar yr amſer yma yw *Dwywolder*, er mwyn cael pa ûn rhaid i ni roddi i ni ein hunain beth amſer i ymneillduo oddiwrth ein negeſeuau bydol, a 'n goſod ein hunain yn hollawl ar y gwaith hwn o baratôad; o ba baratôad ûn rhan tra-arbennig yw, derchafu ein heneidiau i dymmer ddefoſionawl a nefawl. Ag er mwyn hyn y mae 'n dra-angenrheidiol i ni fwrw ymmaith bôb meddyliau bydol, canys fe ſydd y rhai hynny yn diammeu megys cynniſer

fer o lyffetheiriau i rwyſtro i'n heneidiau dder- Sul III.
chafu tu a'r neſoedd. Un ymarfer arbennig o'r *Dwyrwolder* hwn yw *Gweddi*, yr hon ſydd raid i ni ei harferu yn fynych ag yn ddiwyd ar ein dyfediad i'r *Sacrament*, gan fod hyn yn ûn offer mawr trwy ba ûn y mae i ni gael yr hôll *Raſau* eraill hynny anghenrheidiol yn ein paratóad. Am hynny byddwch yn ſicer na eſgeuluſoch Weddi, canys er cymmaint a ymegnioch ffordd arall, a gadael heibio hon, yr ydych yn myned i weithio yn eich grym eich hûn, heb edrych am gymmorth Duw, ag yna ammhoſſibl yw i chwi lwyddo: *Canys nid ydym ni yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim megys o honom ein hunain, eithr ein digonedd ni ſydd o Dduw.* 2 Cor. 3. 5. Byddwch daer gan hynny ar fod iddo ef felly eich cymmorth chwi a'i Râs, modd y gallôch ddyfod i'r *Bwrdd* hwn gwedi eich cymmhwyſo felly, fal y byddoch gyfrannogion o'r Rhagorfreintiau a gynhygir yno i bôb derbyn-wyr teylwng.

20. A'r rhain, ag a phób *Graſau* yſprydol eraill y bydd raid i'n heneidiau ni fôd gwedi ei harwiſco pan ddelom i'r *wlêdd* hon, canys y rhai hyn yw'r *wiſc briodas*, heb ba ûn pwy bynnag a ddelo, a ſydd tebyg o gael yr ûn croeſaw ac a gafodd y Dŷn hwnnw yn y *ddammeg*, yr hwn a ddaeth i'r Briodas *heb wîsg briodas* Mat. 22. 13. *Yr hwn a daſlwyd allan i'r tywyllwch eithaf, lle y mae wylofain, a rhincian dannedd.* Canys er yſgatfydd yr eiſtedd ef allan yn y cyfamſer heb ei gippio oddiar y *Bwrdd*, etto y mae St. *Paul* yn ei ſicerhau ef, ei fôd ef yn yfed *damnedigaeth iddo ei hûn*, a pha cyn gynted y fyrth hi arno fydd anhyſpys: Ond diammeu yw, y fyrth hi oddigaeth i ediſeirwch ei rhag-attal; a chyn ſiccred yw, pan ddelo, y bŷdd hi yn *dra-*

Angenrheidioldeb y Graſau hyn.

echryſlon;

Sul III. *echryſlon; canys pwy o honom a breſſwylia gyda lloſcfeudd Tragwyddol?* Eſa. 33. 14.

Y Bûdd o Gyfarwyddwr Yſprydol.

21. Ni adroddaſ ond ûn peth ychwaneg am y pethau ſydd raid eu gwneuthur cyn y *Sacrament*, a hynny yw, *Cyngor* na bò i neb hyderu yn hollawl ar ei ſynwyr eu hûn, os, gwedi iddo ei fanwl chwilio ei hûn, na ſedr eſ ſodloni eu Enaid eî hûn am ei *uniondeb* a 'i *Ddiragrithrwydd*, ag ſelly anmeu a eill eſ ddyſod i 'r *Sacrament*: Canys os bydd eſ yn wir *edifeiriol*, y mae 'n debyg y barna eſ yn rhŷ galed o hono 'i hûn; os ni bydd, y mae 'n debyg jawn y traetha eſ yn y man farn rhŷ gû a thueddol arno ei hûn os gadewir iddo wneuthur bodlonrhwydd iw ammheuon eu hûn. Neu pa ûn bynnag a fytho ai 'r naill ai 'r llall, os daw eſ i'r *Sacrament* yn yr ammheuaeth hwnnw, y mae fo 'n ddiammeu yn ei ſûddo ei hûn i ychwaneg o *ammheuon* a *phetruſder*, onid ydyw i *bechod*; o'r tu arall, os oblegid hyn yr ymgeidw eſ rhag dyſod, os digwydd i'r arlwyd hwn tod *heb achos*; yna y mae efe yn ei ymabſennu eu hûn oddiwrth yr Ordinhâad Sanctaidd honno yn *ddiachos*, ag ſelly yn difeddiannu eu Enaid o bôb lleſhâad oddiwrthi. Am hynny ynghanol yr holl *beryglon* ſydd yn amgylchu 'r neb a'i camgymmero ei hûn, mi chwennychwn, ſal y dywedais i o'r blaen, eu gynghori eſ na ymddiriedo i'w farn eu hûn, ond gwneuthur eu gyſlwr yn gydnabyddus i ryw *Wenidog pwyllog Duwiol*, ag yn hytrach cymmeryd eu gyſarwyddo ganddo eſ; yr hwn mewn cyffelybrwydd (os bydd y Cyſlwr wedi ei oſod yn eglur ar lawr ag yn ddiffuant) a ddichon un well farnu o hono nag eſ o hono ei hûn. Dymma 'r Cyngor y mae 'r Eglwys yn ei roddi yn yr Annogiad o flaen y *Cymmun*, lle y rhybuddir, os bydd neb

trwy

trwy *foddion eraill*, a rag-draethwyd yno, *heb fedru heddychu eu gydwybod ei hûn, ond yn chwennych Cyngor a chyſſur ymmhellach, yna àed at ryw Wenidog Gair Duw a fyddo pwyllus a dyſgedig, a dadcuddied ei ddolur, er mwyn cael y cyfryw gyngor ag addyſc yſpprydol tu ag at lonyddu ei gydwybod*, &c. Y mae hwn yn wîr yn gyngor na ddylid mo' i eſgeuluſo, nag ar yr amſer o ddyſodiad i'r *Sacrament*, nag ûn amſer arall pan ſôm tan neb ryw ofn neu achos o *ammheuaeth* ynghylch Cyflwr ein Heneidiau. Ag o ddiffyg hyn, y rhedodd llawer i anghyfleuſdra dirfawr, trwy adael i'r Petruſder fraenu cyhyd, nes iddo naill ai ei ſuddo hwynt î ddirfawr *Gyfyngder Cydwybod*, neu beth fydd waeth, nes iddynt er mwyn dyhuddo 'r anfodlonrhwydd hwnnw o'u mewn ymroi i bób *pleſerau pechadurus*, ag felly yn llwyr ymwrthod a phób gofalon am ei Heneidiau. Sul III.

22. Ond at hyn i gyd yſgatfydd fe ddywedir, nad ellir gwneuthur hyn heb ddadcuddio noethni a brychau 'r *Enaid*, ag mae cywilydd yn hynny, ag am hynny mae dynion yn anfodlon i wneuthur hynny. Ond mi a attebaf i hyn, mai tra-anrheſymmol yw bôd hynny yn rhwyſtr. Oblegid yn *gyntaf*, yr wyf yn meddwl na ddewiſwch chwi ond y cyfryw ûn ag a geidw yn ffyddlon pa gyfrinach bynnag a ddywedoch wrtho, ag felly nid rhaid i chwi ofni dim *cywilydd cyhoeddus*. Ag os bydd hynny o herwydd y dyn hwnnw yn *neillduol*, nid rhaid i chwi ofni hynny ychwaith; canys bwriwch ei fod ef yn ŵr duwiol, ni thybiá yn waeth ond yn well o honoch, eich bod chwi mor ewyllyſgar i Uniawni pób péth rhwng Duw a'ch Henaid. Ond pe byddei [yn wîr] gywilydd yn y peth, etto tra y dichon hyn fôd yn fôdd i iachau eich cythrwblaeth a'ch pechod hefyd (megys diammeu y gall

Dim Cywilidd o ddatcnddio'n hunain i'r Cyfryw.

Sul III. cyngor *duwiol* a *ffyddlon* dueddu lawer tu ag at bob ûn o'r ddau) ſe ddylid diyſtyru 'r cywilydd hwnnw ; a diammeu y gwneid ſelîy, pe caren ni ein heneidiau cyſtal a'n cyrph : canys mewn dolurian 'r Corph, er mor *ffiaidd* a *chywilyddus* ſyddont, ni a'i tybiwn ef yn ynſyd yr hwn yn hytrach na'i dadcuddio hwynt a gyll y feddiginiaeth ; ag ymma rhaid yw i hynny fôd yn fwy ynſydrwydd, o gymmaint ag y mae 'r Enaid yn werthfawroccach na'r Corph.

Hyu yn angenrheidiol i'r hyderus gyſtal ag i'r ammheus.

23. Ond ſe ŵyr Duw, mai nid yn unig i ddynion *ammheus* y gall y *Cynghor* hwn ſod yn fuddiol, y mae rhai o fâth arall, *tra-hyder* pa rai yw ei Clefyd, y rhai héb achos a ryſygant ar ddaioni eu Cyſlwr. Ag am y rheini nhw a fyddent tra-dedwydd, pe gellid ei dwyn nhw i wrando rhai barnau uniawnach na'i heiddo 'i hûn mewn peth mor bwyſfawr a hyn. Y gwirionedd yw, yr ydym yn gyffredinol mor chwannog i'n ffafrio ein hunain, ac y gallei fôd yn fuddiol iawn i'r rhan ſwyaf, yn enwedig y rhai mwyaf diwybod, ymgynghori weithiau a *Chyfarwyddwr Yſprydol*, er mwyn eu haddyſcu hwynt i farnu yn uniawnach o honynt eu hunain ; ag nid hynny yn unig, ond derbyn heſyd gyfarwyddiad, pa fôdd i *orchfygu* a *marwhau* 'r pechodau hynny, at ba rai y maent ſwyaf yn tueddu, yr hwn ſydd yn beth mor anhawdd, nad oes reſwm i ni ddirmygu moddion yn y bŷd a'n cynnorthwya ni yntho.

Ar Amſer Derbyn. Myſyrdod o'th annheyſyng-cod.

24. Mi a dreiddiais bellach trwy yr amryw rannau hynny o *Ddled-ſwydd* ſydd raid i ni eu cwplhau *Cyn* Derbyn. Mi a draethaf i chwi yn y man neſſaf, beth ſydd raid ini wneuthur *Ar amſer Derbyn.* Pan fôch di wrth y *Bŵrdd Sanctaidd*, yn *gyntaf*, ymddaroſtwng dy hûn gan gydnabod dy ddirfawr *annheylyngdod* i gael dy gynnwys

gynnwys yno; ag i'r diben hwn adgoffâ rhwng Duw a'th Enaid dy hûn rai o'th Bechodau mwyaf a ffieiddiaf, dy droſſeddïadau o'r *Addunedau* a wnaethoſt or blaen wrth y Bŵrdd hwnnw, yn enwedig er pan *Gymmunaiſt* ddiwaethaf. Yna myſyria ar *Ddioddefiadau chwerwdôſt Criſt* y rhai a oſodir allan i ni yn y *Sacrament*: pan ganſyddoch di'r *Bara wedi ei dorri*, cofia pa fôdd y drylliwyd ei *Gorph bendigedig êf* a hoelion ar y Groes; pan weloch di'r *Gwîn* gwedi ei *dywallt allan*, cofia pa fôdd y tywalltwyd yno ei *werthfawr waed* ef; ag yna yſtyria, mai di Bechodau di oedd yr achos o bôb ûn. Ag yma meddwl, pa anfadwr annheilwng wyti gan ddarſod iti wneuthur y peth a barodd y cyfryw arteithiau iddo ef: iê, pa faint gwaeth wyt na'i *Groeſhoelwyr* ef? Hwynthwy a'i croeſhoeliaſant ef unwaith, ond ſe ddarfu iti, hyd yr oedd ynot, ei Groeſhoelio ef beunydd. Hwynthwy a'i croeſhoeliaſant ef oblegid nad adwaenent ef; ond dydi a adwaenoſt yn gyſtal beth ydyw yntho ei hûn, ſef, *Arglwydd y Gogoniant*, a pheth ydyw i ti, ſef, *Jachawdwr* tra-graſlawn a thrugarog, ag er hynny ſe ddarfu iti yn ddibaid barhau fal hyn i'w groſhoelio ef o newydd. Yſtyria hyn, a gâd iddo weithio ynot yn gyntaf, driſtwch dirfawr am dy bechodau a aeth heibio, ag yna caſined mawr, a llawn fwriad twys yn ei herbyn hwynt rhag llaw. Sul III. *Dioddefiadau Criſt.*

25. Gwedi iti fal hyn tros amſer feddwl am *Ddioddefiadau Criſt*, er mwyn adchwanegu dy Oſtyngeiddrwydd a'th gyſtudd calon; yna yn y man neſſaf, meddwl am danynt dracheſn, er mwyn cynnhyrfu dy *Ffŷdd*; edrych arno ef megys yr *Áberth* a offrymwyd i fynu tros dy Bechodau di, er dyhuddo digoſaint Duw, ag adgyweirio ei ffafr a'i Drugareddau ef tu ag attati: *Y Cymmod a wnaed ganddynt.*

Sul III. Ag am hynny yn oſtyngedig erfyn ar Dduw trwy *ffŷdd* dderbyn y *bodlondeb* a wnaed gan ei anwyl Fâb ef yr hwn nid adnabu bechod, ag er eu deylyngdod ef faddeu i ti yr hyn oll a aeth heibio, ag yn hollawl gymmodi a thydi.

Pa ddiolchgarwch Sydd ddledus am 'dannynt.

26. Yn *drydydd*, Yſtyria hwynt dracheſn er mwyn annog dy *Ddiolchgarwch*. Meddwl pa faint o gywilydd a gofid a ddioddefodd ef yno, ond yn enwedig y dirfawr *ing Enaid* hynny yr hwn a dynnodd oddiwrtho ef y waedd chwerw-dôſt honno, *fy Nuw, fy Nuw, paham i'm gwrthodaiſt? Mat.* 27. 54. Yn awr, hyn ôll a ddioddefodd ef yn unig er mwyn dy gadw di rhag bôd yn golledig. Am hynny Yſtyria pa Ddiolchgarwch anrhaethadwy ſydd yn ddledus arnati iddo ef; ac ymegnia i dderchafu dy Enaid i wir a difrifol ddiolchgarwch: canys moli a mawrygu y drugaredd honno, yr hon a'n gwaredodd ni a phrîs mor ddrûd, yw rhan arbennig o'n Dlêd ni y prŷd hyn. Fe weddai i ti yma yn ddâ gan hynny ddywedyd gyda *Dafydd, Phiol Iechydwriaeth a gymmeraf, ag ar Enw'r Arglwydd y galwaf.*

Cariad anfeidrol Criſt yn ddynt.

27. Yn *bedwaredd*, edrych ar *Ddioddefiadau* Criſt i annog y *Cariad* hwn, a diammeu na ddichon ſod moddion mwy effeithiawl i wneuthur hyn; canys yma y mae *Cariad* Criſt tu ag attati yn fwyaf hynod, fal y dywed yr *Apaſtol*, 1 *Jo.* 3. 16. *Yn hyn yr adnabùom gariad Duw tu ag attom, gan iddo ef roddi ei einioes droſom ni.* Ag hyn yw y râdd uchaf o *Gariad*, canys fel y dywed ef ei hûn, *Jo.* 15. 13. *Cariad mwy na hyn nid oes gan nêb, na rhoi o ûn ei einioes tros ei gyfeillion.* Etto yr oedd ei Gariad ef yn fwy na hynny; canys Efe nid yn unig a fu farw, ond a fu farw'r *Farwolaeth* fwyaf *penydiol* a *dirmygus*, a hynny nid tros ei Gyfeillion, ond ei Elynion

pennaf. Os gan hynny gwedi 'r holl Gariad hyn o'i ran ef, ni thalwn ninnau ddim Cariad yn ôl iddo yntau, yr ydym yn waeth na'r fâth waethaf o ddynion, canys y mae'r *Pwblicanod yn caru 'r neb a'i caro nhwythau, Mat.* 5. 46. Yma gan hynny cerydda a gwradwydda dy hûn am fôd dy *Gariad* tu ag atto ef mor *llêſg* ag *oer* pan oedd ei eiddo ef tu ag attati mor helaeth ag *awyddus.* Ag ymegnia i gynneu 'r fflamm Sanctaidd hon yn dy Enaid, ſef, ei garn ef yn y fâth feſur, ag y gellych di fôd yn barod i ddilyn ei *Eſampl* ef, i ymado a'r cwbl, iê, a'th ſywyd pa brŷd bynnag y galwo ef am dani, hynny yw, pan fo dy *Ufydd dod* i neb-rhyw o'i Orchymynion ef yn dy alw di i'r Dioddefiadau hynny. Ond yn y cyfamſer, llawn fwriada na wnei di gyngrair a'i Elynion êf mwyach, na chroeſawu, na lletteua ûn pechod yn dy fonwes. Ond os arhoſodd yr ûn o'r cyfryw hyd yn hyn gyda thi, cymmer yr odfa hon i'w Ladd, a'i groeſhoelio; offrymma ef i fynu y munydyn hwn, yn Aberth iddo ef yr hwn a offrymwyd troſoti, ag yn bedifaddeu i'r diben hwnnw, modd y gallei ef dy *waredu di oddiwrth pob angbyfiawnder.* Llawn-fwriada gan hynny y prŷd hyn yn gyhoeddus i ymadel a phôb rhyw bechod, yn enwedig, y rhai y buoſt arſer fynychaf o Syrthio iddynt. Ag er mwyn gallu o honot wîr-gwplhau 'r amcanion hynny, taerymbilia ar yr Iachawdr croeſhoeliedig hwn, ar fôd iddo ef, trwy Rym ei farwolaeth, farwolaethu a llâdd dy holl Lygredigaethau. Sul III.

28. Pan fo'ch di yn barod i dderbyn *y bara a'r Gwîr cyſſegredig*, cofia fôd Duw y pryd hyn yn cynnyg ſelio i ti y **Cyfammod Newydd** hwnnw a wnaethpwyd a dynol ryw yn ei *Fâb.* Canys gan ei fod ef yn rhoddi ci *Fâb* hwnnw yn *Bûdd y Cyfammod Newydd gwedi ei ſelio yn y Sacrament.*

Sul III. yn y *Sacrament*, y mae gydâg ef yn rhoddi yr holl leſhâad o'r *Cyfammod* hwnnw, ſef *Maddeuant Pechodau*, *Grâs Sanctteiddiol*, a Hawl i etifeddiaeth dragywyddol. Ag yma ſynna yn ddirfawr oblegid anſeidrol Ddaioni Duw, yr hwn ſy'n cynnyg i ti dryſſor mor werthfawr. Ond yna cofia heſyd, nad yw hyn i gŷd ond tan Ammod i ti gyflawni dy ran o'r *Cyfammod*. Seſydla gan hynny yn dra-ddifrifol yn dy Enaid lawn-frŷd o Ufydd-dod, ag yna cyd-ſynnia mor ddefoſionawl ac y bô poſſibl gyda 'r *Gwenidog* yn y weddi ſer ragorawl honno, a arfeir wrth roddi 'r *Sacrament*, ſef, *Corph ein Harglwydd*, &c.

Ar ôl Cymmuno dôd Ddiolch.

29. Yn ebrwydd gwedi i ti dderbyn, offrymma i fynu *foliant* tra-defoſionawl am y drugaredd fawr honno, ynghŷd a'th *Weddiau* difrifol am y cyfnewidiad gynnorthwŷ 'r Yſpryd glân ag a'th hyffordda di i gwplhau'r *Adduned* a wnaethoſti 'r awrhon. Yna gan gofio fod *Criſt yn iawn nid am ein pechodau ni yn unig, ond hefyd am bechodau 'r holl fŷd*, cyrrhaedded dy *Gariad* ti cymmhelled a'r eiddo ynteu, a gweddia tros holl ddynol Ryw, ar fôd i bawb dderbyn y lleſhâad o'i Aberth hwn; gorchymyn heſyd i Dduw gyflwr yr *Eglwys*, honno yn enwedig o ba ûn yr wyti yn Aelod. Ag na anghofia Weddio ttos bawb y mae 'n ddledns arnati *Ufydd-dod* iddynt, yn gyſtal yn yr *Eglwys* a'r *Deyrnas*; ag felly dôs ymlaen i Weddio tros y cyfnewid rai yn neillduol ac y bô naill ai'th *Gyfneſeifiaid*, neu 'i hangenrheidiau hwynt, yn êi gorchymyn i'th weddi. Os bydd *Caſcl* i'r *Flawd* (fal y dylei fôd yn waſtad ar yr amſer ymma) dôd yn rhwydd yn ôl dy allu; neu os trwy fai rhai eraill ni bydd y cyfnewid *Gaſcl*, etto goſod ti heibio ryw beth tu ag at gymmorth i'th frodyr tlodion;

Gweddia.

tlodion; a bydd Sicer o'i roddi yr odfa gyfleus neſſaf ar a geffych. Hyn oll ſydd raid i ti ragluniaethu ei wneuthur yn yr amſer y bô rhai eraill yn *Cymmuno*, modd y gellych di, pan ddechreuo 'r *Gweddiau* cyffredinol ar ôl y *Wenidogaeth*, fod yn barod i gyd-ſynnio ynddynt, yr hyn ſydd raid i ti hefyd gymmeryd gofal i'w wneuthur yn dra-defoſionawl: a hyn am dy ymddygiad *wrth dderbyn y Cymmun.*

30. Yr awrhon y mae 'n canlyn y *Trydydd* peth a 'r diweddaf, hynny yw, berh ſydd iti yw wneuthur *Ar ôl Derbyn.* Y peth ſydd raid i ti allan o law ei wneuthur, yw, cyn gynted ag yr *ymnaillduì* oddiwrth y Gynnulleidfa, offrwm i fynu dracheſn i Dduw dy Aberth o Foliant am yr holl drugareddau gwerthfawr hynny a droſglwyddwyd i ti yn y *Sacrament* Sanctaiddiol hwn, ag erfyn hefyd yn oſtyngedig barhaus gymmorth ei Râs ef i 'th gynnorthwyo di i wneuthur yn dda yr holl *Fwriadau* hynny o Uſydd-dod a wnaethoſti 'r awrhon. Ag ymmha beth bynnag y gwyddoſt dy fôd dy hûn fwyaf mewn *perigl*, naill ai oblegid rhyw *arfer* gynt, neu *dueddiad naturiol*, yna yn enwedig deiſyfia ag erfyn yn daer eu gymmorth ef.

Ar ôl y Cymmun.

Gweddi a Mawl o'r neill du.

31. Gwedi i ti wneuthur fal hyn, na ollwng mo honot dy hûn yn ebrwydd yn rhŷdd i 'th ofalon a negeſeuau bydol. Ond treulia 'r holl *Ddiwrnod* hwnnw, naill ai yn myſyrio, yn Gweddio, yn darllain, mewn ymddiddanion dâ, neu 'r cyffelyb; fal y bo goreu i gynnal y flamm Sanctaidd honno a gynneuwyd yn dy Galon. Gwedi hyn, pan fo dy alwedigaeth yn erchi i ti ddychwelyd at dy negeſeuau arferol, gwnâ hynny, ond etto cofia yn waſtad fôd yn Seſyll arnati orchwyl mwy na hwnnw, ſef, *Cwplhau* 'r holl *Addewidion* hyuny a wnaethoſt mor ddi-

Peidio a chymeryd gofalon bydol yn ebrwydd mewn llaw.

weddar

Sul III. weddar i Dduw: Ag am hynny (beth bynnag a fo dy drafferthion oddiallan) bydded dy Galon gwedi eu goſod ar *hynny*, coſia holl rannau neillcuol dy ſwriadau, a pha brŷd bynnag i 'th demptir i neb-rhyw o 'th *hên bechodau*, yna Yſtyria mai dymma 'r peth a addunedaiſt mor gyhoeddus yn ei erbyn, ag heſyd coſia pa euogrwydd echryſlon a ſydd arnati, os dydi 'r awrhon a wnei o 'th wir-ſodd ddim yngwrthwyneb i 'r Adduned honno; ié, a pha ddrŵg echryſlon heſyd a ſydd hynny i ti dy hûn. Canys wrth dderbyn y *Cymmun*, ſe ddarfu i Dduw a thithau ymwneuthur mewn Cyſammod, a Chyngr-air o Garedigrwydd ag addfwynder. A chyhyd ag yr ymgedwi yn y caredigrwydd hwn a Duw, yr wyt yn ddiogel, nid all holl Falais dynion neu Gythreuliaid wneuthur i ti mo 'r niwed: Canys fal y dywed yr Apoſtol, Rhuf. 8. 31. *Os bydd Duw gydâ ni, pwy a all fôd i 'n herbyn?* Ond os dydi a dorti 'r *Cyſammod* hwn (megys yr wyti yn ddiammeu yn gwneuthur, os tydi o 'th wirſodd a ymrôi i ûn pechod) yna y mae Duw a thydi yn Elynion, ag yna pe bydde 'r holl Fŷd gyda thi ni thycciei 'r cwbl ddim.

Coſia ſŷth dy Fwriadau.

A'r perigl o 'i torri.

Gwnenthr Duw yn Elyn i ti.

32. Jê, tydi a gei elyn o fewn dy fynwes dy hûn, dy *Gydwybod* yn dy gyhuddo ag yn dy wradwyddo; a phan ſó Duw a 'th gydwybod dy hûn fal hyn yn dy erbyn, nid eill na byddi yn druan reſynol, iê, yn y bŷd hwn, heb law'r aruthrol ddiſgwyliad digoſaint yn y bŷd a ddaw. Coſia hyn pan i 'th gynllwynir gan ryw *brofedigaeth*, ag yna diammeu nad elli ond edrych ar y Broſedigaeth honno megys *twyll*, yr hon ſydd yn dyfod i 'th Yſpeilio di o 'th *Dangnheddyf*, o 'th *Dduw*, ié, a 'th *Enaid* heſyd. Ag yna yn ddiamneu ſe ymddengys mor anghymmwys

A'th Gydwybod dy hŷn.

mwys ei groeſawu ef ag y tebygit o locheſu ûn yn dy Dŷ yr hwn a wyddoſt a ddaeth i'th Yſpeilio o'r peth ſydd *anwylaf* gennit. Sul III.

33. Ag na âd i neb-rhyw Broſiad o drugaredd Dduw yn maddeu i ti o'r blaen dy gyſſuro i annog Duw trachefn i ddigoſaint; canys heb law fód hyn yn rádd uchaf o anwiredd ag anniolchgarwch, ſef, gwneuthur *ei Ddaioni ef yr hwn a ddylei ein tywys i edifeirwch*, yn annogiad i bechod: Heb law hyn, meddaf, pe mynychaf y maddeuwyd i ti, llai o reſwm ſydd iti i ddiſgwyl hynny trachefn, oblegid fod dy bechod o hynny yn *fwy*, gan i ti bechu yn erbyn cymmaint trugaredd. Os maddeuodd *Brenin* amryw weithiau i droſſeddwr, etto os eſe abery i ddychwelyd i'r unrhyw fai, ſe annog hynny y Brenin o'r diwedd (os bydd gantho ddim Cariad i Gyfiawnder) i'w gospi ef am dano. Felly y mae yma, y mae Duw yn gyfiawn gyſtal a thrugarog, ag yn ddiammeu ſe ddiala ei *Gyfiawnder* ef o'r diwedd yn drwm gamarſeriad o'i *Drugaredd*; ag nid all fód mwy ammarch o'i Drugaredd ef na phechu mewn *gobaith* o'r un-rhyw: Ni wnei gan hynny ond dy Siommi dy hûn yn ddirfawr wrth fal hyn Ryfygu ar eu Drugaredd ef. *Maddeuant Duw o'r blaen heb gynnwys pechod.*

34. Yr awrhon, nid digon yw i'r gofal hwn o gwplhau dy *Adduned* barhau gydà thi tros ychydig ddyddiau yn unig, ag yna ei gollwng yn angof, ond rhaid iddo barhau gydâ thi hôll ddyddiau dy fywyd. Canys os tydi a dorri dy *Adduned*, ni waeth pa ûn ai yn *fuan*, ynteu yn *hwŷr* y gwnêi hynnu. Je, Yſgatſydd mewn rhyw fódd, ſe all yr euogrwydd fód yn fwy os yn *hwŷr* y bydd; canys os aethoſt ymmlaen tros hîr o amſer i'w chadw, y mae hynny yn dangos fód y péth yn *boſſibl* i ti; ag felly nid yw *Mae'r rhwymedigaeth o'r Adduned ymma'n parhau byth.*

Sul III. dy Droſſeddiadau ar hól hynny o *wendid*, oblegid nad ellit ei gochelyd hwynt; ond o *gyndynrwydd*, oblegid na ſynnit ei cadw hwynt: heb law hyn, rhaid yw i ymarfer buchedd *Chriſtianogawl* ei gwneuthur hi yn eſmwythach iti. Oblegid yn wir yr holl anhawſder o hynny ſydd yn unig oddiwrth ymarfer o'r gwrthwyneb: Ag am hynny, os, gwedi peth cydnabyddiaeth a hi, gwedi gorchfygu peth o'r anhawſder, y rhói di 'r ſwydd i fynu, ſe ſydd hynny yn gwbl aneſcuſodol. Bŷdd ofalus gan hynny holl Ddyddiau dy ſywyd i gadw 'r cyſtryw wiliadwriaeth arnat dy hûn, a gochelyd pòb achoſion o brofedigaethau, modd y gellych ymgadw oddiwrth bob Troſſeddiadau byrbwyll o 'r *Adduned* hon.

Etto i 'w hadnewyddu yn fynych.

35. Ond er bód rhwymedigaeth pób cyſtryw neillduoll Adduned yn cyrrhaeddud hyd y Dŷdd diweddaf o 'th heinioes, etto rhaid i ni yn ſynych dderbyn y *Sacrament Sanctaidd*, gan mai hynny yw 'r môdd i droſglwyddo i ni y fáth leſhâad annrhaethadwy; a chan fòd hyn yn Orchymyn Criſt, ar fôd i ni *wneuthur hyn er coffa am dano ef*, ein rheſymmol ddléd ni yw, na eſgeuluſom ûn odfa gymmwys o gyfrannu o 'r Cymmun Sanctaidd hwnnw. Mi a ddangoſais i chwi 'r awrhon béth yw 'r *Anrhydedd* ddledus arnom i Dduw yn y Sacrament hwn.

SUL

SUL IV.

Anrhydedd ddledus i Enw Duw; Pechodau yn erbyn hynny; Cabledd; Tyngu; am Lŵon Haerig, Addewidiol, Anghyfreithlon: am Anudonedd, Llŵon ofer, a'i Pethod hwynt, &c.

1. YPeth diweddaf trwy ba ûn y mae i ni egluro ein *Hanrhydedd* iddo ef yw, *Anrhydeddu ei Enw.* Ni a ddeallwn yn well beth yw 'r Anrhydeddiad ymma o 'i Enw ef, os yſtyriwn beth ydyw 'r pethau hynny trwy ba rai y di-anrhydeddir ef, ymogelyd pa rai yw 'r mòdd i 'w anrhydeddu ef. *Anrhydedd ddledus i enw Duw.*

Y *Cyntaf* yw, pôb *Cabledd*, neu ddywedyd dim drŵg am Dduw, y râdd uchaf o ba ûn yw ei felldithio ef, neu os ni thraethwn hynny a'n geneuau etto os gwnawn hynny yn ein *Calonnau*, trwy feddwl dim annheilwng o hono ef; y mae Duw, yr hwn ſydd yn canfod y galon, yn edrych ar hynny megys yr ammarch diyſtyraf. Ond mae heſyd *Gabledd* y gweithredoedd, hynny yw, pan fô dynion, y rhai ſydd yn ei proffeſſu eu hunain yn waſanaethyddion i Dduw, yn byw mor annuwiol a dwyn drwg-abſen arno ef, yr hwn y maent yn ei gydnabod yn *feiſtr* ag yn Arglwydd iddynt. Y Cabledd hwn y mae 'r Apoſtol yn dal Sulw arno, *Rhuf.* 2. 24. lle y dywed ef wrth y rhai ſy 'n proffeſſu cadw 'r *Ddeddf, y ceblir Enw Duw ymŷſg y Cenhedloedd oblegid eu drŵg weithredoedd hwynt.* Y *Cenhedloedd* hynny a annogwyd i feddwl yn *Pechodau yn erbyn hynny.* *Cabledd.*

Sul IV. ddrŵg o Dduw, megys dadleuwr dros *bechod*, pan welſant y rhai oedd yn ei galw ei hunain yn waſanaeth-ŵyr iddo ef, yn pechu.

Tyrgu. Ail módd o Ddi-anrhydeddu Enw Duw, yw, trwy *Dyngu*, ag y mae hynny o ddau fâth, naill a'i trwy *Lŵon celwyddog*, neu yntau trwy rai byrbwyll a gwagſaw: ſe all *llŵ Celwyddog* hefyd ſód o ddau fath, megys yn *gyntaf*, yr hwn trwy ba ûn y byddaf yn haeru rhyw beth, neu yn *ail*, yr hwn trwy ba ûn yr addawaf ryw beth. Y *Gyntaf* yw, pan ddywedwyf ddarfod gwneuthur y cyfryw beth fal hyn neu fal hyn, a chadarnhau fyngeiriau hynny trwy *Lŵ*: os gwn i y prŷd hynny nad yw gwbl-wîr y peth yr ŵyf yn ei draethu, y mae hyn yn *Anudonedd* eglur: jê, os tyngaf i Wirionedd y péth, o'r hwn yr ŵyf yn unig yn *ammheus*, er digwydd i'r peth ſód yn wîr, etto y mae hyn yn dwyn arnaſi Euogrwydd Anudonedd; oblegid yr wyſi'n tyngu ar Ddamwain, ac ſe allaſei 'r peth, am a wyddwn i, ſód yn gyſtal yn gelwydd ag yn wîr, lle na ddylwn i ûn amſer dyngu i ûn peth ond a wypwyf yn ſiccr ei ſod yn wîr.

Llŵon haerig.

Llŵon addewidiol. 2. Ond heb law'r fath ymma o *Lŵon* trwy ba ûn y byddaf yn *haeru*, y mae mâth arall, trwy ba ûn yr *addawyf* ryw beth. A'r addewid hwnnw a all fod naill ai i *Dduw*, neu i *Ddyn*; pan wneir ef i Dduw, ſe 'i gelwir *Addúned*, am ba ûn y traethais yn barod tan bwngc y *Sacramentau*, mi a draethaf yr awrhon yn unig am yr hwn a wneir i Ddynion; a hwn a âll ddigwydd i ſód yn llŵ celwyddog, naill ai *wrth*, neu *gwedi* ei gymmeryd. Ar amſer ei gymmeryd ef, y mae 'n gelwyddog, os naill ai nid oes gennſi y prŷd hynny fwriad difrifol i'w gwplhau, neu pan gymmerwyf ef mewn fyniad amgenach nag y gwn ei ſód *ef* i ba ûn yr ŵyf yn gwneuthur

yr

yr Addewid, yn ei ddeall ; canys gan mai Def- Sul IV.
nydd *llŵon yw* iw ſiccrhau nhw i ba rai y gwne-
ir hwynt, rhaid yw ei cymmeryd yn ei ſynniad
nhw. Ond er mor ddi-ragrith iyddwyſ wrth
gymmeryd y llŵ, os myſi gwedi hynny ni
chwplhâf eſ, yr wyſi 'n ddiammeu gwedi tyngu
anudon.

3. Gan fôd Natur llŵ gan hynny fal hyn yn *Llŵon*
rhwymo, ſe weddai'n dda i ni edrych ar fod *anghy-*
Deſnydd ein llŵou ni yn gyfreithlawn, onidè, 'r *freithlon*.
ydym yn ein taflu ein hunain i fagl reſynol ;
megys er Eſampl, bwriwch i mi dyngu y lladda
'i ŵr, os cyflawnaf fy llŵ, yr wyſ yn euog o
lofruddiaeth, os torraſ eſ, o *anudonedd* ; Ag felly
'mae'n rhaid i mi bechu'r naill ffordd neu'r llall :
ond nid oes dim a'n dŵg ni i uwch râdd o'r an-
genrhaid annedwydd hwn, na phan dyngom
ddau lŵ, y naill yn union yn groes ag yngwrth-
wyneb i'r llall. Canys os tynga 'i y rhoddaſ i
ddŷn fy holl olud, ag ar ôl hynny tyngu y
rhoddaſ y cwbl, neu ran, o'r Golud hwnnw i ûn
arall, rhaid i mi yn ddiammeu dorri fy llŵ i ûn
o honynt, oblegid ammhoſſibl yw cwplhau a
phôb ûn, ag felly mae'n rhaid i mi dyngu *anudon*.
Ag y mae pôb dŷn yn ei ddwyn ei hûn i'r cy-
fyngdra dyrys hwn, yr hwn a gymmer ûn llŵ
ſydd yn croeſu ûn arall a gymmerodd eſ o'r bla-
en ; yr hyn a ddylei wneuthr i bawb ar ſydd yn
caru Duw neu' i Heneidiau ei hunain lawn-
fwriadu na rwydan nhw byth mo honynt ei hu-
nain felly trwy gymmeryd ûn llŵ i groeſu a
gwrthwyneb 'r llall. Ond yſgatſŷdd te oſynir
ymma, *beth* a wnâ 'r hwn a'i dygodd ei hûn yn
barod i'r cyflwr ymma ? mi attebaf, rhaid iddo
yn *gyntaf*, yn ddifrifol *edifarhau* am y pechod
mawr hwnnw o gymmeryd y llŵ *anghyfreithlon*,
a chwedi hynny ſefyll yn unig wrth yr ûn *Cy-*
freith-

Sul IV. *freithlon*, yr hyn yw'r cwbl yn ei allu ef i adgyweirio ei ſai, ag i'w gymmhwyſo 'i hûn i ſaddeuant Duw am hynny.

Duw yn cael ei ddianrhydeddu'n fawr trwy Anudonedd

4. Gwedi i ni draethu hyn ynghylch y Rhywogaethau o'r Pechod hwn o *Anudonedd*, mi a adroddaſ yn unig ychydig eiriau i ddangos i chwi faint y *di-anrhydeddir Enw Duw* trwy hyn. Ymmhôb llŵon, chwi a wŷddoch, fôd yn galw Duw yn gyhoeddus i dyſtiolaethu gwirionedd y peth a draethiſ; yn awr, os celwyddog a fydd y pêth, nid all fôd fwy o wradwydd ag ammharch i Dduw. Canys mewn rheſwm y mae 'n arwyddocca'u ûn o'r ddau bêth hyn, naill ai'n bôd ni yn credu na ŵyr ef pa ûn a'i gwir a'i peidio yr ydym yn ei ddywedyd (a hynny yw ei wneuthur ef i beidio â bôd yn Dduw, ſef, tybied ei fôd ef mor hawdd ei dwyllo a'i ſiommi ag ûn o'n Cymydogion anneallus) neu ynteu, i fôd ef yn fodlon i gynnwys ein *celwyddau* ni; y mae 'r *cyntaf* yn ei yſpeilio ef o'r *Rhafor-fraint* rhagorol honno, ſef, *ei fod ef yn gwybod pôb pêth*, yr hyn ſydd yn ddiammeu yn ammarch ddirfawr o hono ef, gan fôd *Dynion* yn cyfrif hynny yn fwyaf ammarch, gael ei cyfrif yn gymmwys i'w ſiommi; etto felly 'r ydym yn gwneuthur a Duw, os nyni a ryfygwn dyngu *anudon* tan obaith nad yw Duw yn dirnad hynny. Ond mae 'r llall etto yn waeth, oblegid tybied ei fôd ef yn cynnwys ein *Celwyddau* ni yw ei wneuthur ef yn gyfrannog o honynt; ag nid yw yn unig yn ei ddadwneuthur ef yn *Dduw* (gan mai ammhoſſibl yw i Dduw ddywedyd celwydd ei hûn, nag ychwaith bodloni iddo mewn ûn arall) ond y mae hynny yn ei wneuthur ef yn debyg i'r *Cythrael*: Canys efe ſydd yn *gelwyddog*, ag yn *Dâd* iddo, *Jo.* 8. 44. Ag yn ddiammeu nid rhaid i mi

ddywedyd

ddywedyd ychwanneg i brofi mai hwn yw 'r rådd uchaf o *Ddianrhydeddu Enw Duw.* Sul III.

5. Ond os oes neb etto yn ammeu echryſlonrwydd y pechod hwn, yſtyried ond y peth a ddywed Duw ei hûn am dano yn y *Trydydd Gorchymyn*, lle y mae ef yn traethu yn gyhoeddus, *nad gwirion gantho ef yr hwn a gymmero ei Enw ef yn ofer*; a diammeu fod adchwanegu hyn at y *Gorchymyn hwn* heb wneuthr hynny at yr ûn o'r lleill, yn nôdi hyn allan am yr Euogrwydd echryſlonaf. Ag os edrychwch yn *Zac.* 5. chwi a gewch weled yno, fôd y *Goſpedigaeth* yn gyfattebol, ie, i *lwyr ddiniſtr*, nid y *dŷn* yn unig, ond ei Dŷ heſyd. Fe berthyn gan hynny i bôb dŷn, fal y maent yn caru ei Dedwyddwch *amſerol* neu *dragywyddol*, ei cadw ei hunain yn ddiwyd oddiwrth y pechod hwn. *T Gôſp am Anudonedd.*

Ond heb-law hwn o *Anudonedd*, mi a ddywedais i chwi ſôd màth arall o *lŵon*, trwy ba rai yr ammherchir Enw Duw; y rhai hynny yw *llŵon ofer* yſgoewan, y cyfryw ag ſydd mor arferol yn ein haraith gyffredinol, ag a waherddir yn amlwg gan *Griſt*, *Matth.* 5. 34. *Ond yr wyſin dywedyd i chwi, na thwng ddim, nag i'r nêf, canys gorſeddfa Duw yw; nag i'r Ddaiar; canys maingc ei droed ef ydyw*: lle y gwelwch nad ydys yn rhoddi cennad i ni i dyngu myn hŷd yn oed y Creaduriaid, oblegid y *Perthynas* ſydd rhyngddynt a Duw. Pa anraſlondeb dirfawr gan hynny yw halogi ei Enw Sanctaidd ef trwy fyrbwyll ag *Ofer lŵon?* Y mae hwn yn bechod yr hwn (ni wn i trwy ba *Swyn-gyfaredd Satan*) a dyfodd yn Arfer yn ein mŷſg ni; ag yr awrhon gan ei bôd hi felly, y mae hïn denu beunydd fwy o ddynion atti: Ond cofiwn, pan ymddangoſom ger bron *gorſedd-faingc* Duw i atteb am *Halogi* felly ei Enw ef, na bŷdd ond *Llŵon ofer.*

eſcus

Sul IV. eſcus gwael i ni ddywedyd, mai 'r *Arfer* oedd gwneuthur felly: yn hytrarch ſe adchwanega hynnu at ein *Euogrwydd*, ddarfod i ni trwy ein *ymarfer* ein hunain gadarnhau 'r arfer ddiffaith honno, yr hon a ddyleſym ni ei chûro i lawr a'i gwrthſefyll.

Y Pechod o bonynt. 6. A diammcu bêth bynnag y mae yr *Oes* halogedig hon yn ei dybied, y mae hyn yn bechod aruthrol. Canys heb law fôd hynny yn droſſeddiad eglur *Gorchymyn Criſt*, y mae yn dangos yn *gyntaf*, debygoliaeth wael ag iſel iawn o Dduw: mae pôb llŵ a dyngom yn appeliad at Dduw i farnu gwirionedd y peth yr ydym yn ei draethu, a chan ei fôd ef o gymmaint mawrhydi, ſe ddyle 'r achos, ynghylch pa ûn yr appeliom fal hyn atto ef, fôd yn bêth pwyſiawr; ſef, rhyw beth a berthyn naill a'i i'w *Ogoniant* ei hûn, neu ryw ddaioni hynod i ddŷn. Ond pan *dyngom* yn ein haraith gyffredinol, y mae hynny yn amgenach o lawer; ſe a waſanaetha 'r peth gwaelaf, a diyſtyraf i fôd yn ddefnydd o Lŵ; iê, gan mwyaf ſe fydd Dynion yn *tyngu* i'r cyfryw bethau ofer ag ynfŷd, ag y byddei gywilydd gan ŵr pwyllog, yn unig ei draethu. Ag onid yw 'n ddirmygiad dirfawr o Dduw, ei alw ef yn gyhoeddus i farnu mewn pethau mor wael a babanaidd? Duw yw *Brenin* mawr y Bŷd; yn awr er y gellir cynniweirio at *Frenin* ynghylch pethau *pwyſfawr*, etto yn ddiammeu ſe debygei ei fôd yn cael ei ddiyſtyru yn ddirfawr os gelwid arno i farnu rhwng *Plant* yn ei chwaryddion bachgenuaidd: ag ſe ŵyr Duw fôd llawer o'r pethau y byddwn ni'n fynych yn tyngu iddynt, yn gwbl cyn *waeled*, ag maent gan hynny yn arwydd nad ydym ni yn iawn yſtyried o Dduw.

7. Yn

7. Yn *ail*, y mae 'r llŵon cyffredinol ymma yn bechod ſy'n denu yn union i'r llall o *anudonedd*; canys yr hwn trwy ymarfer o dyngu a wnaeth Lŵon yn gynnefin iddo, a fydd tebyg i gymmeryd y llŵ gerwinaf yn ddiarwybod. Canys pa fodd y dichon ef yr hwn ſydd yn *tyngu* bôb awr, edrych yn barchedig ar Lŵ? a'r neb nid yw felly, y mae 'n rhaid diolch i ddamwain yn fwy na'i ofal ef, os efe a ymgeidw oddiwrth *Anudonedd*. Iê ymmhellach, y neb ſydd arferol o dyngu, nid ydyw ef yn unig yn barod i *dyngu anudon* pan gynnygeir iddo Lŵ cyhoeddus, ond y mae mewn pôb cyffelybrwydd yn ſynych yn *tyngu* anudon yn ei *Lŵon Diſymmwth* hynny: canys bwriwch ei bôdi hwynt yn dyfod oddiwrth ddyn yn ſyrbwyll (yr hyn yw 'r peth goreu a ellir i ddywedyd am danynt) pa ſiccrwydd ſydd gan ûn Dyn a dynga yn ſyrbwyll, na ddywed ef heſyd gelwydd felly? Ag os gwnâ fo 'r Ddau hyn ar unwaith, y mae fe 'n ddiammeu gwedi *Tyngu anudon*. Ond y ſawl a ddeil ſulw ar y rhai a fyddant *arferol* o *dyngu*, ni ammheuaf nad ydynhw 'n ſynych gwedi *tyngu anudon* euſoes. Canys y maent yn arferol o dyngu 'n ddi-ragor i wîr neu gelwydd, i bethau *ammheus* neu *byſpus*. Ag yn ddiammeu, pe ymholai, y rhai ſydd yn euog o'r pechod hwn ei hymarferion eu hunain yn ddi dueddol, fe fyddei eu Calonnau nhw yn ûn-fryd a minneu yn yr yſtyriaeth hen. Sul IV. *Y maent yn denu i Anudonedd.*

8. Yn *drydydd*, mae hwn yn bechod nad oes dim Temptaſiwn iddo, nid oes dim pleſer na Lleſhâad i'w gael oddiwrtho; y mae 'rhan fwyaf o bechodau eraill yn cynnyg i ni bêth o'r naill, neu 'r llall, ond nid oes yn hwn ddim o'r ûn o'r ddau. Yn gymmaint nad yw'r *Cythrael* yn y pechod hwn yn chwareu 'r *marſiandwr* am ein *Heneidiau* ni, megys y mae mewn pechodau eraill; *Dim Temptaſiwn yndynt.*

Sul IV. nid ydyw eſ cymmaint a'i bargennio nhw, ond yr ydym ni yn ei rhoddi nhw i'w ddwylo eſ yn rhad, heb ddim mewn *cyfnewid* am danynt. Nid ydyw boſſibl i ddynion ddiſgwyl ennill ond ûn peth trwyddo, a hynny yw, cael ei coelio yn y pèth y bônt yn ei draethu, gan ei bod ſal hyn yn ei rwymo a Llŵ. Ond maent yn waſtad yn dyfod yn fyrr o hyn; canys nid oes nèb a goelir lai na'r rhai a fo 'n *Tyngu* yn gyffredinol. A Rheſwm dâ, oblegid y nêb nid yw ſal hyn yn gwneuthur cydwybod o *halogi Enw Duw*, pa ham y credâ nêb y gwnâ eſ gydwybod o ddywedyd Celwydd? Ie, y mae 'n hyttrach ei parodrwydd nhw i gadarnhau pob bêth gwaeiaſ trwy Lŵ, yn rhoi ychwaneg o Achos i dybied fôd ganddynt o'i mewn ryw euogrwydd o *ffalſedd*, tros ba ûn y bydd raid i'r *Llŵ* hwnnw fod yn *Orch-gudd*. Chwi a welwch gan hynny cyn lleied a dâl hyn iddynt, jè, i'r pwrpas hwnnw i ba ûn y gallant yn unig gymmeryd arnynt ei fôd yn ſuddiol: ag i ûn bûdd arall nid yw yn gwneuthur yr hawl lleiaf; y mae hwn gan hynny yn bechod heb demptaſiwn, ag felly 'n aneſcuſodol; canys mae eſ yn dangos y *gwradwydd* a'r *anghared:grwydd* mwyaf i Dduw ar â all fôd, pan fôm ſal hyn yn ei annog eſ i ddigoſaint heb ddim i'n llithio i hynny. Er darfod gan hynny i *gyffredinoldeb* y pechod hwn wneuthur iddo ſyned am ûn gwael, etto mae fe'mhell o fôd felly nag yntho 'i hûn, nag yngolwg Duw.

Mae i nhaid eu gochel hwynt.

9. Bydded pawb gan hynny, y rhai ni ſyrthiaſant etto i arferu'r pechod hwn, yn dra-ofalûs na *chyd-ſynniont* a'r dechreuad lleiaf o hono; ag am y rhai ſydd mor druenus a bôd gwedi ei maglu'n barod yntho, ceiſiant yn ebrwydd, ſal y Carant ei Heneidiau, ymadel ag et. Ag na ddadleued nèb, megys yn eſcus o'i barhâad yntho,

Anhawſder

Anhawſder ymadel ag hên arfer, eithr yn hyt- Sul IV.
trach pe hwyaf y bû vntho, pryſſured o hynny cynt i ymadel ag ef, gan dybied yn ormod o lawer ddarfod iddo cyhyd barhau mewn pechod mor ddieſawr. Ag os darfu i barhâad o'r Arfer ymma wneuthur yn anhawſach ymadel a hi, ſe a ddyle 'n hyttrach ymoſod allan o law i'w thaflu hi ymmaith, thag i'r *anhawſder* hwnnw gynnyddu o'r diwedd i *ammhoſſibl rwydd*, a pho anhawſaf y gwêl ef hyn yn y cyſamſer, fe ddylei fôd o hynny yn fwy diwyd a gwiliadwrus i arferu'r holl foddion hynny, y rhai a duedda tu ag at orchfygu 'r Arfer bechadurus honno: ni bydd allan o'r ffordd grybwyll ymma am rai o'r moddion hynny. *Y Moddion o'i gochel hwyns.*

10. Yn *gyntaf*, meddianned ei ſeddwl yn *hollawl a greſynoldeb* y pechod, ag nid ei feſur ef yn ôl brî cyffredinol y bŷd yn unig. A chwedi iddo ei ddwyn ei hûn i iawn ddeall eu *eucgrwydd* ef, yna ymmhellach, yſtyried ei *enbydrwydd*, Sef, i fôd yn ei Yſpeilio ef o ffafr Duw yn y cyſamſer, ag a'i teifl ef, os efe a barhâa yntho, i *Uffern* yn dragywydd. Ag yn ddiammeu, pe iawn Yſtyrid hyn, ſe attaliei hynny 'r pechod hwn. Canys mi a oſynnwn i'r cyfryw ûn ag ſydd yn cymmeryd arno fôd yn *ammhoſſibl* iddo ymadel a'r *arfer* hon, pe byddei 'n fŵr o gael ei *grogi* y *Llŵ* neſſaf ar a dyngai, oni wnai Ofn hynny iddo ymgadw rhag *tyngu*? Prin y Creda 'i fod ûn dyn (yn ei gôſ) cyn lleied *Meiſtr* arno 'i hûn, na wnai hynny. Ag yna 'n ddiammeu y mae *Damnedigaeth* yn waeth na *chrogfa*, yn gymmaint ag y dyle ofn hynny fôd yn fwy *attal* rhag Tyngu. Yr ŵyf yn ammeu, naill ai nad yw Dynion yn *credu* 'n ddifrifol y *Damna* 'r *Pechod* hwynt, neu os ydynt, y maent yn edrych ar hynny megys peth o hir- *Yſtyriaeth o'r Euogrwydd a'r Perigl.*

Sul IV. bell, ag felly nid yw'n cynnhyrfu fawr arnynt; ond y mae pôb ûn o'r ddau hyn yn antheſymol iawn. Am y *Cyntaf*, diammeu yw, fôd pôb dyn, tra 'i bô ſo o'i *wirfôdd* yn parhau mewn ûn pechod, mewn cyflwr *Damnedigaeth* tros y prŷd hynny, a thra'i parheir gan hynny felly yn hwn, rhaid yw i ddyn fod yn y cyflwr hwnnw. Am yr *ail*, Yſgatſŷdd y mae fe'n cam-gymmeryd, gan *dybied* ei fôd ef cymmhelled oddiwrtho, canys pa fôdd y gŵyr ûn dyn na tharewir ef yn farw a *Llŵ* yn ei enau? Neu pe byddei'n ſicer na ddigwydd hynny, etto mae damnedigaeth dragywyddol i'w harſwydo uwchlaw pôb peth, er pelled fytho oddiwrthym.

Bôd yn Eir-wir. 11. Yr *ail modd* yw, bôd yn gwbl *Eir-wir* yn dy holl ymadroddion, fal y Credo pôb Dyn dydi ar dy Air, ag yna ni bŷdd itî fŷth achos i'w gadarnhau a *Llŵ* er mwyn eu wneuthur yn fwy credadwy, yr hyn yw'r unig *rîth* neu refwm a all dyn ei gymmeryd arno ûn amſer am *Dyngu*.

Tmwrthod a'r Achoſion o hono. 12. Yn *drydydd*, Yſtyria pa beth ſydd fwyaf yn dy *fradychu* di i'r pechod hwn, pa ûn a'i *diod*, a'i *digter*, neu *gyfeillach*, ag eſamp ddrŵg rhai eraill, neu pa beth bynnag arall, ag yna os wyti ûn amſer yn bwriadu ymwrthod a'r *pechod*, ymwrthoda hefyd a'r *achoſion* hynny o hono.

Parch i Dduw. 13. Yn *bedwerydd*, ymegnìa feddiannu dy galon a *pharam Anrhydedd* o Dduw, ag os cynnydda hynny unwaith yn *arfer* gyda thi, fe a ddadymchwel yn ebrwydd y llall o *hulogi* ei *Enw* ef. Arfera gan hynny a chynnefina dy hûn i'r *Anrhydedd* ymma o Dduw, ag yn enwedig i'r cyfryw barch o'i *Enw* ef, ag os bydd boſſibl, na bô î ti ûn amſer ei grybwyll ef heb ryw dderchafiad o'th Galon atto ef. Iê, pa

brŷd

brŷd bynnag y cymmeri di yn dy ymadroedd cyffredinol ei Enw ef yn dy enau, bydded hynny yn achos o dderchafu i ſynu dy feddyliau atto ef. Ond er dim, na oddefa i ti dy hûn ei arferu ef yn dy *Siaradach* ofer, neu'r cyffelyb. Os tydi a'th *cynnefini* dy hûn i dalu'r *Anrhydedd* hwn wrth grybwyll yn unig am ei *Enw* ef, ſe ſydd hynny yn amddiffynfa ragorol yn erbyn ei *halogi* ef trwy Lŵon. Sul IV.

14. Y *pummed* modd yw, gwilio yn ddiwyd ag yn waſtadol arnat dy hûn na *chyfeiliornech* fal hyn a'th *dafod*, heb ba ûn ni thâl yr holl ſoddion eraill ddim. A'r môdd diweddaf yw *Gweddi*, yr hon ſy raid ei hadroddi at dy holl ymegnion; *gweddia* gan hynny yn ddifriſol ar fod i Dduw dy gynnorthwyo di i orchfygu'r arfer ddrŵg hon; dywed gyda'r *Pſalmydd*, *Goſod gadwriaeth, o Arglwydd, o flaen fyngenau, a chadw ddrŵs fy ngwefuſau*; Ag os dydi a'th ymeſyd dy hûn yn ddi-ragrith i arferu'r *moddion* er mwyn hynny, di a elli fôd yn ſiccr na bŷdd Duw yn ôl o'i *Gymmorth* iti. Mi a fŷm yn hŵy ar hwn, oblegid ei fôd ef yn bechod mor arferol yn ein mŷſg ni. Duw o'i Drugaredd a ganniadhâo i bawb ſydd yn euog o honaw iawn ganfod ei echryſlonrwydd ef. *Bòd yn Wiliadwrus.* *Gweddi.*

15. Chwi a ellwch ddeall wrth yr amryw ffyrdd hyn o *ddi anrhydeddu Enw Duw*, beth yw 'r Ddled-ſwydd o'i *Anrhydeddu* ef; ſef, ymgadw yn ddiwyd oddiwrth bôb ûn o'r rhai hyn, a ſyllaenu'r *ymattal* hwnnw ar *Anrhydedd* ag *Urdduniant* barchedig i'r Enw cyſſegredig hwnnw, yr hwn ſydd *fawr*, ofnadwy, a *Sanctaidd*, *Pſal.* 99. 3. Mi a dreuddiais bellach trwy'r amryw rannau o'r Ddled ſwydd fawr honuo o *Anrhydeddu* Duw. *Beth yw Anrhydeddu Enw Duw.*

SUL

Sul V.

SUL V.

Am Addoliant dledus i Enw Duw. Am Weddi, a'i hamryw Rannau. Am Weddiau cyhoedd yn yr Eglwys, yn y Teulu, Am Weddi neullduol. Am Edifeirwch, &c. Am Ympryd.

Addoliant. 1. YR Wythfed Ddled-ſwydd ſydd arnom i Dduw yw **Addoliant**; hon yw 'r Ddled-ſwydd fawr honno, trwy ba ûn yn bennaf yr ydym yn cydnabod ei *Dduwdod* ef, gan fôd *Addoliant* yn unig yn *briodol* i Dduw, ag am hynny, rhaid yw edrych ar hon megys *Dled-ſwydd* bwyſawr. Hon a gyflawnir, yn *gyntaf*, gan ein *Heneidiau*, yn *ail*, gan ein *Cŷrph*: Rhan yr *Enaid* yw *Gweddio*. Yn awr, *Gweddi* yw ymddiddan a Duw, ag mae amryw rannau o honi, yn ôl yr amrafael bethau y byddom yn ymddiddan am danynt.

Gweddi, ei hamryw rannau.

Cyffes. 2. Megys yn *gyntaf*, *Cyffes*, hynny yw, cydnabod ein Pechodau ger bron Duw. A hyn a ddichon fôd, naill ai 'n *gyffredinol*, neu yn *neillduol*; y *gyffredinol* yw, pan fôm yn unig yn cyffeſſu yn *gyffredinol* ein bôd ni yn bechadurus; y *neillduol*, pan fom yn adrodd yr *amryw* weithrediadau a rhywogaethau o 'n pechodau. Rhaid yw i 'r *cyntaf* fôd yn waſtad yn rhan o 'n Gweddiau arferedig ni, pa ûn bynnag ai 'n *Gyhoeddus*, ai 'n *neillduol*. Y llall a berthyn i weddi neillduol, ag yno goreu pe mynychaf yr arferir hi; jë, fe weddai i ni yn ein *Gweddi* neillduol feunyddiol gofio yn waſtad rai o 'n Pechodau *mwyaf* a *ffieiddiaf*,

ffieiddiaf, er cymmaint ſydd er pan aethant hei- Sul. V.
bio. Canys y cyfiyw rai ni ddylem byth dybied ddarfod i ni ei cyffeſſu a galaru yn ddigonol o'i plegid. A rhaid yw i'r *Galar* hwn yn waſtad fyned ynghŷd a *Chyffes*; rhaid i ni ymofidio yn ddifrifol am y pechodau y byddom yn ei *cyffeſſu*, a chydnabod o eigion ein Calonnau ein annheilyngdod dirfawr am ei gwneuthur hwynt. Canys nid diben ein *Cyffes* ni yw addyſcu Duw, yr hwh a ŵyr ein pechodau yn well na ni ein hunain, ond i'n daroſtwng ein hunain; am hynny na thybiwn ddarfod i ni gyffeſſu yn jawn, nes y bô hynny gwedi ei wneuthur.

3. Yr *ail* rhan o *Weddi* iw *Archiad*, hynny *Archiad.*
yw, erſynniad ar Dduw am beth bynnag a ſo arnom eiſieu i'n *Heneidiau* neu'n *Cyrph*. I'n *He-* *Tros ein*
neidiau rhaid yw i niſyn *gyntaf*, erſyn Maddeu- *Heneidiau.*
ant o'n pechodau, a hynny er mwyn *Jeſu Griſt*, yr hwn a dywalltodd ei waed er mwyn hynny. Yna rhaid i ni erſyn am Râs a chymmorth *Yſpryd Duw* i'n cynnorthwyo ni i ymadel a'n pechodau, a rhodio mewn *Ufydd dod* iddo ef. Ag ymma angenrhaid fydd erſyn yn neillduol am yr holl amryw *Rinweddau*, megys *Ffŷdd*, *Cariad*, *Zêl*, *Purdeb*, *Edifeirwch*, a'r cyffelyb, ond yn enwedig y rhai hynny ſydd arnat twyaf ei heiſiau: Am hynny Yſtyria beth yw dy angenrheidiau, ag os wyti'n *falch* gweddia'n daer am *Oſtyngeiddrwydd*; os *anllad*, am *Ddiweirdeb*: ag felly am bôb *Graſau* eraill, yn ôl y gweli dy Angenrheidiau. Ag yn yr holl bethau hyn a berthyn i'r *Enaid*, bydd yn daer jawn ac yn haerllug; na chymmer ûn neccâad gan Dduw, ag na ddyro heibio er nad ŵyt yn y mann yn *cael* y peth yr wyti'n ei geiſio, canys er cyhyd y darfu i ti weddio am *Râs* ag etto heb ei gael, na flina'n gweddio, eithr yn hyttrach chwilia beth yw'r

Sul V. yw 'r *achos* ſydd yn gwneuthur dy *Weddiau* mor anghymmeradwy; yſgatfydd, yr wyti 'n gweddio ar i Dduw dy gymmorth di i orchfygu rhyw Bechod, ag etto heb ûn amſer ymroi i ymladd yn ei erbyn, na gwneuthur gwrth-ymdrech yn y bŷd iddo, ond ymroi iddo cyn ſynyched ac y dychwelo, jê, a 'th oſod dy hûn ar ei ffordd ef, ag yn llwybr pob rhyw Broſedigaethau. Os fal hyn y mae, nid rhyfedd os ni rhyccia dy Weddiau di ddim, oblegid ni oddefi di iddynt. Am hynny, diwygia hyn, ag ymrô 'n ddifriſol i wneuthur dy ran di, ag yna nid rhaid i ti ofni na wnâ Duw ei ran ynteu.

Am ein Cyrph.

4. Yn *ail*, rhaid i ni erfyn heſyd tros ein *Cyrph*, hynny yw, rhaid i ni ofyn gan Dduw y cyfryw bethau ag ſydd angenrheidiol i 'n bywyd tra y byddom *byw* ymma. Ond y rhai hyn yn unig yn y cyfryw *rádd* a *meſur* ag y gwelo ei *Ddoethineb* êf fod yn oreu i ni; ni waſanaetha i ni ryfygu torri attom ein hunain, neu weddio am yr holl *olud* neu *fawredd* hynny y bô ein Calonnau ofer ni yſgatfydd yn ei chwennych, ond yn unig am y cyfryw gyflwr oddiallan ag a welo ef fôd fwyaf yn tueddu at y dibennion mawr hynny o 'n bywyd ymma, ſef, ei *Ogoneddu* ef, a *chadw* ein *Heneidiau*.

Adolwyn.

5. Y *drydydd* ran o Weddi yw *Adolwyn*, hynny yw, pan weddiom ar i Dduw droi ymmaith rhyw ddrŵg oddiwrthym. Yr awrhon, fe âll y *drŵg* hwn fod naill ai drŵg *Pechod*, neu ddrŵg *Coſpedigaeth*. Rhaid i ni yn enwedig weddio yn erbyn drŵg *Pechod*, gan erfyn yn daer ar Dduw, fôd iddo êf trwy allu ei *Rás* ein cadw ni rhag *Syrthio* i Bechod. Ag yn enwedig ymbilia 'n ddifriſol ar fôd i Dduw dy gadw rhag y Pechodau hynny y gwyddoſt dy fod fwyaf yn tueddu attynt. Hyn ſydd raid ei wneuthur beunydd,

Drŵg Pechod.

ond

ond yn fwy enwedig y prŷd hynny, pan ſydd- Sul V.
om tan ryw *Brofedigaeth breſennol*, ag mewn perigl o Syrthio i ryw Bechod, ymmha gyflwr y mae i ni achos i waeddi allan gyda St. *Pedr*, pan welodd ef ei hûn ym mron ſuddo, *Achub Arglwydd, neu fe ddarfu am danaf*; gan erfyn yn oſtyngedig arno ef naill ai *tynnu ymmaith* y Demptaſiwn, neu'n *cryfhau* ni i'w gwrthſefyll; ag nid allwn wneuthur na'r naill na'r llall o honom ein hunain.

6. Yn *ail*, Rhad i ni hefyd weddio yn erbyn *Drŵg Coſpedigaeth*, ond yn bennaf yn erbyn *Coſpedigaethau yſprydol*, megys *Digofaint* Duw, *Gwahardd* ei *Râs* ef, a *Damnedigaeth dragywyddol*. Yn erbyn y rhai hyn nid allwni byth weddio yn rhŷ ddifrifol: ni a allwn hefyd weddio yn erbyn *Coſpedigaethau amſerol*, hynny yw, *trallod oddiallan*, ond hyn trwy *ymddaroſtyngiad* i Ewyllys Duw yn ol Eſampl Crîſt, Mat. 26. 39. *Nid fel yr ewyllyſiwyf i, ond fel yr ewyllyſiech di.* *Drŵg coſpedigaeth.*

7. Y *Bedwerydd* ran o Weddi yw *Cyfryngiad*, hynny yw, Gweddio tros eraill. Rhaid i ni wneuthur hyn yn *gyffredinol* tros holl ddynol Ryw, yn gyſtal *dieithriaid* a *chyfneſſeiſiaid*, ond yn fwy *neillduol* tros y rhai ſydd o Berthynas yſpyſol i ni, naill ai 'n gyffredinol, megys ein *llywiawd wyr* yn gyſtal yn yr *Eglwys* a'r *Deyrnas*; neu yn wahanredol, megys *Rhieni*, *Gŵr*, neu *wraig-briod*, *Plant*, *Ceraint*, *&c.* Rhaid yw i ni weddio hefyd tros bawb a'r ſydd mewn trallod, a'r cyfryw rai yn neillduol y byddom yn enwedig yn ei dirnad i fôd felly: jè, rhaid i ni weddio tros y rhai a wnânt *gam* a ni, ag a 'n *drygant*, ag a 'n *berlidiant*; canys hyn yw hynod Orchymyn Crîſt, *Mat.* 5. 44. Ag fe roes ef ei hûn i ni'r Eſampl fwyaf o hyn trwy weddio tros ei groeſhoelwyr, *Luc* 23. 34. *O Dâd mâddeu iddynt.* Tros yr hôll fâth ymma o ddynion y mae *Cyfryngiad*

Sul V. 'n rhaid i ni weddio, a hynny am yr unrhyw bethau daionus ag a erſynniom troſom ein hunain, ar fod i Dduw roddi iddynt yn ei hamryw leoedd a'i galwedigaethau bôb Bendithion Yſprydol ag amſerol a welo ef fôd yn ddiffygiol arnynt, a throi ymmaith oddiwrthynt bôb drŵg, pa ûn bynnag ai o *Bechod* neu o *Goſpedigaeth.*

Diolchgarwch. 8. Y *Bummed* ran o Weddi yw *Diolchgarwch*, hynny yw, *Moliannu* a *Bendithio* Duw, am ei holl Drugareddau; pa ûn bynnag ai i ni ein hunain, ai i'n perthynas neſſaf, neu yntau i'r *Eglwys* a'r *Deyrnas* yr ydym ni yn aelodau o honynt, neu etto yn fwy cyffredinol i holl *Ddynolryw*; a hynny am ei holl Drugareddau yn gyſtal Yſprydol ag amſerol. Yn yr *Yſprydol*, yn gyntaf, am y rhai ſydd yn perthyn i ni i gŷd yn *gyffredinol*, megys rhoddiad ei *Fâb*, danfoniad ei *Yſpryd*, a'r holl foddion hynny a arferodd ef er mwyn tynnu Dynion pechadurus atto 'i hûn. Yna yn *ail*, am y Trugareddau hynny a dderbyniaſom ni yn *neillduol*, megys, ein bôd gwedi ein geni o fewn corlan yr *Eglwys*, a 'n dwyn i fynu yn y *Grefydd Griſtianogawl*, trwy ba ûn y bûom gyfrannogion o'r holl *Ragor freintiau gwerthfawr* hynny o 'r *Gair*, a 'r *Sacramentau*, ag felly a gawſom, heb ein gofal na'n poen ein hunain, foddion ein bywyd tragywyddol gwedi ei dodi yn ein dwylo. Ond heblaw hyn, nid oes yr ûn o honom ni na dderbyniaſom drugareddau yſprydol eraill oddiar law Duw.

Trugareddau yſprydol. 9. Megys yn gyntaf, *Dioddefgarwch* ag amynedd Duw, yn hir-aros am ein Hedifeirwch, heb ein torri ni ymmaith yn ein Pechodau. Yn *ail*, ei Alwad a 'i wahoddiad ef i ni i 'r edifeirwch hwnnw, nid yn unig oddi allan, trwy weinidogaeth y *Gair*, ond hefyd oddi fewn, trwy gynnhyr-

gynnhyrfiadau ei Yſpryd. Ond os darfu i'r Gal- Sul V.
wedigaethau hyn trwy gynnorthwy *Grâs* Duw weithio arnati, a'th ddwyn o fuchedd fydol halogedig i fuchedd *Griſtianogawl*, yna'n ddiammeu 'r wyti yn y râdd uchaf yn rhŵym i fawrhygu a moliannu ei ddaioni ef, gan iti dderbyn gantho ef y Drugaredd fwyaf a all fôd.

10. Rhaid i ni hefyd ddiolch am *Fendithion Amſerol*, pa ûn bynnag ai y cyfryw rai ag a berthyn i bawb yn *gyffredyn*, megys *Llwyddiant* yr *Eglwys*, neu 'r *Deyrnas*, a phob *ymwaredau* hynod i bôb ûn o honynt; neu yntau y cyfryw ag a berthyn i ni ein hunain yn neillduol; y rhai ydyw 'r holl bethau dâ y bŷd hwn yr ydym ni 'n i fwynhau; megys *Iechyd*, *Ceraint*, *Ymborth*, *Dillad*, a'r cyffelyb; ag hefyd am yr amddiffynniadau hynny trwy ba rai i'n cedwir bôb munyd rhag perigl trwy raſuſol ragluniaeth Duw; a'r ymwared *enwedigol* a roddes Duw i ni yn amſer yr Enbydrwydd mwyaf. Ammhoſſibl yw goſod ar lawr yr amryw Drugareddau y mae pob dŷn yn ei derbyn gan Dduw, oblegid ei bôd yn rhagori mewn *rhyw* a *meſur* rhwng y naill ddyn a'r llall. Ond y mae 'n ſiccr fôd i'r hwn a dderbyniodd leiaf ddigon o achos i dreulio' i holl fywyd yn *Moliannu* Duw. Ag fe ſyddei 'n dra-chymwys i bôb dyn yſtyried yr amryw *ddigwyddiadau* o'i fywyd, a'r *Trugareddau* a dderbynniodd ef ymhòb ûn, ag felly cynnull ynghŷd megys *Llyfran*, neu *Gôf-reſtr* o honynt, o 'r lleiaf y rhai pennaf o honynt, y rhai a ddichon ef yn waſtad ei coffhau, a'i hadrodd yn fynych ger bron Duw a chalon ddiolchgar. *Amſerol.*

11. Y rhai hyn yw amryw Rannau *Gweddi*, a'r cwbl i'w harferu yn gyſtal yn gyhoeddus ag yn neillduol. Yr arfer gyhoeddus o honynt ſydd yn *gyntaf*, yn yr *Eglwys*, lle y mae pawb yn ymgyfarfod i gydſylltu yn y *Gweddiau* hynny y *Gweddi gyffredinol yn yr Eglwys.*

Sul V. rhai a berthyn i bawb yn *gyffredinol.* Ag nyni a a dylem (lle y mae y *Gweddiau* yn y môdd y dylent fôd) gyrchu yn waſtadol at y rhai hyn, gan fod Bendith enwedigol gwedi ei haddaw i ddeiſyfiadau *cyſſylltiedig* y ffyddloniaid, ag mae'r neb a arbeda heb achos cyfreithlawn ddyfod i'r cyfryw *Weddiau cyffredin,* yn ei torri ei hunain oddiwrth yr *Eglwys,* yr hyn yn waſtad a edrychwyd arno yn beth mor annedwydd, a'i fôd yn *Goſpedigaeth* drymmaf a all *Llywodraeth wŷy* yr *Eglwys* ei ofod ar y Troſſeddwr gwaethaf; ynſydrwydd rhyfeddol gan hynny yw i Ddynion ei gofod hi arnynt ei hunain.

Yn y Teulu. 12. *Ail* mâth ar *Weddi Gyffredin* yw honno yn y *Tenlu,* lle y mae'r holl Dylwyth yn cydſylltu yn eu deiſyfiadau cyffredin; a hon heſyd a ddylid yn ofalus ei harferu a'i dyfal yſtyried, yn gyntaf, gan y *Pen-teulu,* yr hwn ſydd i edrych ar fod y cyfryw *Weddian* yn ei dŷ, oblegid fôd yn perthyn iddo ef yn gyſtal baratoi tros *Eneidiau* ei Blant a'i Waſanaethyddion, a pharatòi ymborth i'w *Cyrph* hwynt. Nid oes neb gan hynny, hyd yn oed y *Pen-teulu* gwaelaf, na ddyle ofalu am hyn. Os medr naill ai ef ei hûn, neu neb rhyw ûn o'i *Dylwyth* ddarllen, ſe a all arferu rhai *Gweddiau* allan o ryw Lyfr dâ, os allan o *Lyfr-gwaſanaeth* yr *Eglwys,* y mae ef yn dewis yn ddâ; os ni fedrant ddarllen, yna ſe fydd yn angenrheidiol iddynt ddyfcu allan o'r Llyfr ryw ffurf o weddi o allont ei harferu yn y *Tenlu,* i ba ddiben trachefn ſe fydd rhai o weddiau 'r Eglwys yn dra-chymwys gan ei bod hwynt yn hawdd iawn i'w coffadwraeth nhw oblegid eu *byrdra,* ag etto yn cynnwys llawer o Ddefnydd. Ond pâ ddewiſiad bynnag o weddiau a wnelont, byddant yn ſicr o fôd ganddynt rai, ag na chadwed neb a'r fydd yn ei broffeſſu ei hun yn *Griſtion, Deulu* mor

ddigrêdd,

ddi-grêd, ag na ofalo fôd addoli Duw yntho beunydd. Ond gwedi i'r *Pen-teulu* wneuthur ei Ddlêd ei hûn yn paratòi hyn, Dledſwydd pob ûn o'r Tylwyth yw gwneuthur Defnydd o'r Paratóad hwnnw trwy fod yn waſtadol ag yn ddiwyd yn y *Gweddiau Tenluaidd* hynny. Sul V.

13. *Gweddi wubanredol* neu ddirgel yw 'r hon a arfera dyn yn unig ar wahan oddiwrth bawb eraill, ymmha ûn y bydd raid i ni fôd yn fwy neillduol yn ól ein hamryw neillduol angenrheidiau, nag y gweddai i ni fod yn gyhoeddus. A'r *Weddi wahanredol* hon ſydd yn Ddled-ſwydd nad ellir mo'i heſcuſodi trwy gwplhau 'r llall o Weddi *gyhoeddus*. Fe ddiſgwylir pob ûn o'r ddwy, ag nid ellir cymmeryd y naill yn *gyfnewid* am y llall. A phwy bynnag ſydd yn *ddiwyd* mewn Gweddiau cyffredin, ag etto yn *eſgeulus* yn y neillduol, y mae i'w ofni 'n ddirfawr ei fôd ef yn ceiſio ei wneuthur ei hun yn gymmeradwy i ddynion yn hyttrach nag i Dduw; yngwrthwyneb i Orchymyn ein Jachawdr, *Mat.* 6. yr hwn ſydd yn gorchymyn i ni 'r *Weddi neillduol* hon, ſef *gweddio ar ein Tâd yn y dirgel*, oddiwrth bwy ûn yn unig y mae i ni ddiſgwyl ein *gwobr*, ag nid oddiwrth ofer Glôd Dynion. *Gweddi wahanredol.*

14. Yn awr, rhaid yw cwplhau 'r Ddled-ſwydd hon o *weddi* yn fynych, o'r lleiaf gan bawb y *Boreu* a *Phrŷdnhawn*, gan fod yn draangenrheidiol i ni fal hyn *ddechreu* a diweddu 'n holl orchwylion gydá Duw, ag hynny nid yn unig o herwydd y Ddled-ſwydd ddledus arnom iddo ef, ond heſyd o'n plegid ein hunain, y rhai ni allwn bŷth fôd nag yn *ddiogel* nag yn *llwyddiannus*, ond trwy 'n gorchymyn ein hunain iddo ef; ag am hynny a ddylem arſwydo rhyfygu ar Beryglon y *Dŷdd* na 'r *nôs* heb ei nodded ef Rhaid yw barnu mor fynych y bydd raid cwplhau 'r Ddled- *Amlder Gweddiau.*

Sul V. Ddled-ſwdd hon yn ol y gorchwyl a'r amſer a fydd gan ddynion; lle nid wyſi 'n meddwl, wrth *Orchwyl*, y cyfryw ag a fydd Dynion yn anſuddiol yn ei torri allan iddynt ei hunain, ond y gorchwyl angenrheidiol i *Alwedigaeth* dŷn, yr hwn ni ddyry i rai mor llawer o amſer i weddi gyhoeddus oſodedig. Ond ſe all y rhai hyn yn fynych yn y dŷdd dderchafu eî Calonnau at Dduw mewn rhyw rai Gweddiâu byrrion, ieî tra i byddont ynghylch ei gorchwyl. Am y rhai ſydd ganddynt fwy o ennyd, nhw a ddylent mewn pôb rheſwn oſod heibio fwy o amſer i'r Ddledſwydd hon. Ag na ddyweded nêb yr hwn ſydd gantho ddigon o amſer i'w dreulio ar eu wagedd, ag yſgatfydd ar eu Bechodau, ſod arno ef eiſiau amſer i weddio, ond ymegnied yn awr i ad-brynnu 'r hyn a dreuliodd ef ar gam, trwy roi heibio o hyn allan fwy o amſer i'r Ddledſwydd hon: A diammeu pe iawn yſtyriem pa leſhâad ddirfawr ſydd i ni ein hunain o gwplhau 'r Ddledſwydd hon, ni a dybien yn fynhwyrol fôd cyn fynyched arni hi, ag yr ydym gan mwyaf yn anfynych ynthi hi.

Lleſhâd Gweddi.

Anrhydedd. 15. Canys yn *gyntaf*, y mae 'n *Anrhydedd* fawr i ni *bryfed* gwael o'r Ddaiar gael ein cynnwys i draethu mor hŷf a *Mawrhydi* 'r Nêf. Os gweleu *Brenin* yn ddâ adael i ûn o'i Ddeiliaid gwaelaf fiarad yn drâ-hyf ag yn hyderus ag ef, fe a edrychid ar hynny megys Anrhydedd ddirfawr; fe fydde 'r Dŷn hwnnw, er mor ddirmygus oedd ef o'r blaen, yn genfigen i'w hôll gymydogion; a diammeu efe a fydde bodlon i gymmeryd pôb achlyſur i dderbyn cymmaint o *bareh*. Ond och! nid ydyw hyn ddim i'r *Anrhydedd* a gynnygir i ni, y Rhai ſydd gennim gennad, ieî, a wahoddir i fiarad, ag ymreſymmu a *Brenin* y *Brenhinoedd*, mor barod gan hynny a dylem ni fod i hyn?

36. Yn

16. Yn *ail*, y mae 'n leſhâad mawr, iê 'r mwyaf a ellir i feddwl; oblegid *Gweddi* yw 'r offer i ddwyn i lawr i ni bôb pethau dâ, yn gyſtal Yſprydol ag *amſerol*; nid oes ûn *Weddi*, yr hon a wneir fal y dylyd' nad yw yn dwyn i lawr ſcndith, fal y dywed y *gŵr Doeth*, Ecclus. 35. 17. *Gweddi y Goſtyngedig a eiff trwy y cymmylau, ag nid ymedy hi nes i'r Goruchaf edrych arni.* Chwi a dybiech hwnnw yn ŵr dedwydd, yr hwn a ſydde gantho ûn môdd diogel i'w helpu i beth bynnag a fô arno ei *eiſieu*, er ſefyll o hynny iddo mewn llawer o boen a llafur; y cyſrwyw ddŷn dedwydd a elli di fôd, os mynni. *Gweddi* yw 'r môdd ſiccr o ddwyn iti cymmaint oll ag ſydd arnat ei eiſieu, hynny yw, cymmaint ag a wêl Duw fôd yn gymmwys itti er yſgatſydd nid cymmaint ag a debygi di fôd arnat ei eiſieu. Ag am hynny, er maint o flinder i'r Cnawd a fô yn y Ddled ſwydd, etto wrth yſtyried fod arnati yn waſtad *eiſieu* rhyw beth neu 'i gilydd gan Dduw, ynfydrwydd ydyw gadael i'r *anhawſder* hynny dy ddigalonni, a'th gadw oddiwrth y moddion ſiccr hyn o borthi dy angenrheidiau. Sul V. *Lleſhâad.*

17. Ond yn *drydydd*, y mae 'r Ddled-ſwydd hon ynthi ei hûn cymmhelled oddiwrth fôd yn ſîn a'i bôd hi yn *dra-hyfryd*. *Duw yw ffynnon pob Dedwyddwch, ag ar ei ddeheu-law ef y mae digrifwch yn dragywydd*, *Pſ.* 16. 11. Am hynny pe *neſſaf* y deuwn ni atto eſ, *dedwyddach* a ſyddwn ni, gan fôd Llawenydd teyrnas Nêf yn tarddu allan o'n neſder ni at Dduw. Yn awr nid oes i ni yn y bŷd hwn ûn modd o ddyfod cyn *neſſed* atto ef a thrwy *Weddi*; ag am hynny yn ddiammeu y mae hi ynthi ei hûn yn beth a ddichon beri *digrifwch* ag *hyfrydwch* dirfawr; os digwydd iddi fôd yn amgenach i ni, y mae hynny *Hyfrydwch.*

Sul V. hynny oddiwrth ryw *annhwyl* yn ein Calonnau ein hunain, yr hwn ſal genau *clwyſus* ni ddichon archwaethu y Bŵyd blaſuſſaf. Y mae *Gweddi* yn Ddled-ſwydd hyfryd, ond y mae hi heſyd yn ûn *Yſprydol*; ag am hynny os yw dy galon di yn *gnawdol*, a chwedi ei goſod i'r gwrthwyneb ar Bleſſerau 'r cnawd, neu ſothach y bŷd, yna nid rhyſedd os ni archwaethi ddim hyfrydwch ynthi, neu os ſal yr *Iſraeliaid* y *dirmygi di 'r Manna*, *ag* hiraethu am *grochanau* eig *yr Aipht*. Am hynny os wyti yn gweled blinder yn y Ddled-ſwydd hon, ammheua dy hûn, pûra a glanhâ dy Galon oddiwrth Gariad pôbrhyw Bechod, ag ymegnia i'w goſod hi mewn trefn nefol ag Yſprydol, ag yna ti a ganſyddi nad yw hon yn Ddled-ſwydd annifir, ond yn llawn o Hyfrydwch a Bodlonrhwydd. Yn y cyfamſer na achŵyna ar anhawſder y Ddled-ſwydd, ond ar wrthnyſſigrwydd dy Galon dy hûn.

Bôd yn gnawdol yn ûn rheſwm o'i ympiriad yn amgen.

Eiſieu ymarfer yn rheſwm arall.

18. Ond ſe all ſod heſyd *reſwm* arall iddi hi i fôd megys yn annifir i ni, ſef, eiſieu ymarfer. Chwi a wŷddoch ſod llawer o bethau y rhai ſydd yn edrych megys yn anhawdd ar y profiad cyntaf, y rhai gwedi i ni ymarfer a hwynt a fydd yn *dra-hyfryd*, ag os hyn yw dy gyflwr di, yna ti a wŷddoſt *feddiginiaeth* barod, ſef, ei harferu hi yn ſynychach, ag felly y mae'r yſtyriaeth ymma yn naturiol yn annog ag yn *cynghori* ymarferu'r Ddled-ſwydd hon yn ſynych.

I oſyn dim angbyfreithlon.

19. Ond nid digon yw i ni yn unig yſtyried mor ſynych, ond mor ddâ y cwplhâom ni hon. I'r perwyl hwn, rhaid yw i ni yn *gyntaf*, edrych ar *ddeunydd* ein *Gweddiau*, ſef, edrych na bô i ni oſyn dim *angbyfreithlon*; megys diâl ar eiu Gelynion, neu'r cyſſelyb; yn *ail*, y *môdd*; a

I oſyn mewn Ffŷdd.

hynny ſydd raid bôd yn *gyntaf*, mewn ffŷdd; rhaid

rhaid i ni gredu, os gofynnwn ni fal y dylem, Sul V.
y rhŷdd Duw i ni naill ai 'r peth y byddom yn
ei ofyn, neu ynteu ryw beth a welo ef fôd yn
well i ni. Ag yna yn *ail*, mewn *Goſtyngeidd-rwydd*, rhaid i ni ein cynabod ein hunain yn hollawl yn annheylwng o'r ûn o'r pethau daionus hynny yr ydym yn ei gofyn, ag am hynny ei herfyn nhw yn unig er mwyn Crîſt. Yn *drydydd*, gyda *dyfal-yſtyriad*, rhaid yw i ni feddwl beth y byddom arno, ag nid cynnwys i'n meddyliau wibio at bethau eraill. Mi a ddywedais i chwi ar y cyntaf, mai Dled-ſwydd yr *Enaid* yw *Gweddi*, ond os bydd ein Meddyliau ni yn myned ar ddiſperod, gweithted Tafod a'r gwefuſau yn unig ydyw, yr hyn ſydd yn ei gwneuthur hi yngolwg Duw ddim gwell nag ofer-ddadwrdd, ag felly ni ddwg bŷth fendith arnom. Iê, fal y dywedodd *Jacob* wrth ei Fam, *Gen.* 27. 12. fe a fŷdd cyffelyppach i ddwyn *melldith* arnom na *bendith*; canys y mae hyn yn halogi ûn o'r rhannau mwyaf *cyhoeddus* o waſanaeth Duw, y mae 'n ddarn o *Ragrith, neſſau atto ef a'n gwefuſau, pan fo ein Calonnau ymbell oddiwrtho*; ag yn *ddirmyg a di-yſtyrwch* mawr o'r *Mawrhydi* olnadwy hwnnw yr ydym yn dyfod o'i flaen: ag hefyd o'n rhan ein hunain, y mae 'n ffolineb dirfawr fôd i ni y rhai ſydd yn dyfod at Dduw ar y fâth achoſion *pwyſfawr* ag yw 'r holl bethau ſy'n perthyn i'n *Heneidiau* a'n *Cyrph*, ynghanol y cwbl i ni ollwng ein Neges yn angof, a dilyn pôb peth gwael y bô uaill ai 'n *ffanſi ofer* ein hunain, neu *Ddiafol* (gwaith pa ûn yw ein rhwyſtro ni ymma) yn ei gynnig i ni. Y mae hyn fal pe digwyddeu i *Lofrudd*, yr hwn a ddeuai at y *Brenin* i eiriol am eî fywyd, ynghanol ei *ddeiſyfiad*, ganfod *Gwybedyn*, ag ar hynny ymadel a'i erfynniad, a

Mewn Goſtyngeiddrwydd.

Dyfal-yſtyriad.

Sul V. rheged ar ôl y *gwybedyn* hwnnw: oni thybiech chwi 'n anghymwys iawn daflu ymmaith Bardwn ar y fâth greadur ynfyd-ffol? Ag yn ddiammeu, fe a fydd mor anrefymmol ddiſgwyl i Dduw yſtried a channiadhau ein *Gweddiau* hynny, y rhai nid ydym ein hunain yn ei yſtyried.

Cymmorth rhag Cyfeiliorni.

20. Y mae'n ſefyll arnom yn fawr ein harfogi ein hunain rhag *cyfeiliorni* fal hyn mewn *gweddi*, gan ein bôd ni ôll trwy natur yn tueddu yn ddirfawr at hynny. I'r diben hwn fe ſŷdd angenrheidiol i ni yn gyntaf, ar ein dyfodiad i *Weddi*, ddwys yſtyried y Mawrhydi tragoneddus yr ydym yn Neſſau atto, môdd y gallom atſwydo fôd yn *ofer* ag yn *wagſaw* yn ei *wŷdd* ef. Yn *ail*, rhaid i ni yſtyried mor bwyſfawr yw'r pethau yr ydym yn ei goſyn, rhai o honynt ſydd yn gyfryw ag os ni channhiadheid hwynt i ni, truanaf o'r holl greaduriaid fyddem, ag etto 'r gwagſawrwydd hwn yw 'r môdd i rwyſtro i ni gael ein gwrando ynddynt. Yn *drydydd*, Rhaid i ni erſyn *nawdd* a chymmorth Duw yn hyn: Ag am hynny, pan ddechreuoch dy Weddi, bydded dy Erſynniad cyntaf am y grâs hwn o Ddyfal-yſtyriad.

Tſtyriaeth o Fawrhydi Duw.

Ein Hiſiau.

Erſynniad am Gymmorth Duw.

Bôd yn wiliadwrus:

21. Yn *ddiweddaf*, bŷdd mor *wiliadwrus* ag y gellych ar gadw allan o'th galon ar amſer *gweddi* bôb meddyliau *cyfeiliornus*, neu os daeth yr ûn i mewn yn barod, na chroeſawa hwynt, ond cyn gynted ag y gelli ei dirnad hwynt, na âd iddynt aros yno ûn munydyn, eithr tafl nhw allan mewn digllondeb, ag erſynia faddeuant gan Dduw am danynt. Ag os dydi fal hyn a ymdrechi yn ddiwyd yn ei herbyn hwynt, naill ai fe rŷdd Duw i ti nerth i'w gorchfygu mewn rhyw fefur, neu o'i Drugaredd fe a faddeua i ti y peth ni elli mo'i ochelyd: Ond

os

os bydd hynny trwy dy eſgeuluſdra dy hûn, nid Sul V.
elli di ddiſgwyl yr ûn o 'r ddau, tra 'i parhao 'r
eſgeuluſdra hwnnw.

22. Yn *bedwerydd*, rhaid i ni edrych ar fôd ein *Zêl.*
Gweddiau mewn *Zêl* a *difrifwch*; nid digon i
ni ei hyſtyried hwynt yn unig cymmhelled ag i
wybod pa beth y bôm yn ei ddywedyd, ond
rhaid i ni doddi holl egni a defoſiwn ein *Hene-*
diau ar waith, a hynny (fal y rhag-ddywedais)
yn ôl amryw Rannau *Gweddi*. Ni chaiff y ddei-
ſyfiad lêſg ddifraw ddim gan Dduw; ni a
welwn nad yw hi 'n cael dim gennim ein hu-
nain; canys os gofyn cardottyn wellhâad gen-
nym ni, a hynny mewn rhyw fôdd ddicra, fal
pe byddei 'n ddiſtatter pa ûn a wnâe ai cael ai
peidio, ni a dybiem fôd arno ef naill ai ond
ychydig *eiſteu*, neu falchder mawr, ag felly ni
a fyddem yn ddifraw am roddi iddo ef. Yr awr-
hon, yn ddiammeu y mae 'r pethau 'r ydym ni
yn ei ofyn gan Dduw cymmaint uwchlaw prîs
Eluſenau cyffredinol, nad allwn ni byth ddiſgwyl y
rhoddir hwynt i ddeiſyfiadau yſgoewan diofal.
Felly yn yr ûn môdd, ni bydd ein haberth ni o
Foliant a *Diolchgarwch* yn gymmeradwy gantho
ef, oni offrymmir hi o galon wîr *deimladwy* o 'i
Drugareddau ef; onid ê, nid yw ond mâth ar
wâg-rodres yr hyn ni bŷdd byth yn gymmeradwy
gantho ef, yr hwn ſydd yn gofyn y Galon ag nid
y gwefuſau yn unig. A 'r cyffelyb a ellir ei dra-
ethu am yr holl rannau eraill o *Weddi*. Bydd ofâ-
lus gan hynny pan neſſâoch di at Dduw mewn
Gweddi, ar dderchafu dy *Enaid* i 't pwngc uchaf
y gellych o *Zèl* a *difrifwch*. Ag oblegid nad
wyti o honot dy hun yn unig yn abl i wneuthur
dim, erfynia ar Dduw wreſogi dy *galon* a 'r *Tân*
nefol ymma o *Ddefoſiwn*, a chwedi iti gaffael
hynny, gwilia rhag naill ai ei ddiffodd ef trwy

Sul V. ryw Bechod rhyfygus, neu adael iddo fyned allan o eiſieu ei gynnhyrfu a gwneuthur defnydd o honaw.

Pûrdeb. 23. Yn *hummed*, rhaid i ni *Weddio* gydá *Phurdeb*, hynny yw, rhaid i ni bûro ein Calonnau oddiwrth bôb Cariad i Bechod. Hyn yn ddiammeu y mae 'r Apoſtol yn el ſeddwl, 1 *Tim.* 2. 8. pan yw yn gorchymyn i ddynion *dderchafu dwylo purion mewn gweddi*, ag yno y mae ſo 'n rhoi ar lawr ûn mâth *arbennig* ar bechod, ſef, *Digter* ag *Ammheuaeth*; llê trwy ammheuaeth y mae yn meddwl yr *ymryſonau* a 'r *cynnhennau* anfwyn hynny ſydd mor gyffredinol ymyſg dynion. Ag yn wîr, nid all y ſawl a groeſawo hynny, neu unrhyw bechod arall yn ei galon, fyth dderchafu 'r dwylo Sanctaidd hynny a oſynnir yn y *Ddled ſwydd* hon; Ag yna yn ddiammeu ni thâl ei *Weddiau* iddo ef ddim, er mor ddifrifol ag er amled ſyddont. Fe ddywed y *Pſalmydd* iddo na chaiff ef mo 'i wrando, *Pſal.* 66. 18. *Os edrychaf ar Anwiredd yn fyngbalon ni wrendy 'r Arglwydd arnaf.* Jë, fe ddywed *Solomon* etto yn waeth, nad yw *Gweddi* y cyfryw ûn yn unig yn *ofer*, ond yn *ffiaidd*, *Dihar.* 15. 8. *Aberth yr annuwiol ſydd ffiaidd gan yr Arglwydd.* Ag i gael fal hyn droi 'n *Gweddiau* i *Bechod* yw ûn o 'r pethau toſtaf a all ddigwydd i ûn dyn: ni a welwn fôd hyn gwedi ei oſod ar lawr yn y rhôl honno o *felldithion Pſal.* 109. 7. Na fyddwn gan hynny mor greulon i ni ein hunain a'i dynnu ar ein pennau, yr hyn yr ydym yn ddiammeu yn ei wneuthur, os nyni a offrymmwn i fynu ein *Gweddiau* allan o *galon ammbûr.*

I Ddilennion uniawn. 24. Yn *ddiweddaf*, rhaid i ni gyſarwyddo ein *Gweddiau* i *Ddibennion* uniawn; a hynny naill ai o herwydd y *Weddi* ei hun, neu ynteu 'r pethau

thau y byddom yn gweddio am danynt; yn gyntaf, rhaid i ni *Weddio*, nid i ennill *clôd* o *Ddewyswolder* ymŷſg dynion, fal y *Ragrithwyr* hynny, Math. 6. 5. Nag ychwaith yn unig er mwyn *cymdeithas*, neu arfer o wneuthur fal y gwnâ eraill: ond y mae 'n ſefyll arnom ei chyflawni hi, yn *gyntaf*, megys gweithred o *Addoliant* i Dduw; yn *ail*, megys cydnabyddiaeth mai efe yw 'r ffynnon fawr honno o ba ûn yn unig y mae i ni ddiſgwyl *pôb daioni*; ag yn *drydydd*, er ennill cyflawniad o 'n holl angenrheidiau ein hunain ag eraill. Yna, o herwydd y *Pethau* y byddom yn *gweddio* am danynt; rhaid i ni edrych yn otalus na bô gennim ddim amcanion drŵg arnynt; gwiliwn ofyn pethau fal y *treuliom hwynt ar ein Trachwantau*, *Jaco* 4. 3. Megys y gwnâ y rhai ſydd yn gweddio am *Olud*, modd y gallont fyw mewn *glwthineb* a *gormodedd*; ag am *Awdurdod*, fal y gallont *ddrŷgu* ei *Gelynion*, neu 'r cyffelyb. Ond rhaid yw i 'n diben ni yn y cwbl ſôd, yn gyntaf, *gogoniant* Duw, ag ar ôl hynny, ein *Hiechydwriaeth* ein hunain ag eraill, a phôb peth arall ſydd raid i gymmeryd i mewn yn unig fal y byddant yn *tueddu* at y pethau hynny, yr hyn nis gwnânt byth, os nyni a 'i cam-arferwn hwynt i bechod. Fe ddarfu i mi bellach am y rhan *gyntaf* honno o *Addoliant*, ſef, honno o 'r *Enaid*. Sul V.

25. Y llall yw *Addoliant* y *Corph*, ag nid yw hynny ddim ond y cyfi yw *ymddygiad goſtyngedig* ag *anrhydeddus* yn ein neſſâad at Dduw, ag a ddengys barch yr Enaid oddifewn, ag a dâl heſyd iddo ef beth teyrnged oddiwrth ein *Cyrph*, a pha rai y mae 'r Apoſtol yn gorchymyn i ni Ogoneddu Duw, yn gyſtal ag a 'n *Heneidiau*; a rheſwm dâ, am ddarfod iddo ef gr ëu â phrynu y naill yn gyſtal a 'r llall: pa pryd bynnag *Addoliant y Corph.*

yr

Sul V. yr offrymmi dy *weddiau* i Dduw, gwnâ hynny mewn cwbl oſtyngeiddrwyd yn gyſtal o'r Corph a'r meddwl, yn ól cyngor y *Pſalmydd*, Pſal. 95. 6. *O deuwch addolwn, ſyrthiwn i lawr a goſtyngwn ger bron yr Arglwydd ein gwneuthurwr.*

Edifeirwch. 26. Y *Nawfed* **Ddled-ſwydd** i Dduw ydyw **Edifeirwch**: ſe a'n dyſcir gan yr Apoſtol fôd hon yn *Ddled-ſwydd* i Dduw, *Act.* 20. 21. llê wrth draethu am *Edifeirwch*, y mae ef yn ei galw hi yn *Edifeirwch* tu ag at Dduw. Ag mae rheſwm dâ ar fôd hon yn Ddled-ſwydd iddo ef, gan nad oes ûn pechod yr ydym yn ei wneuthur nad yw ryw fôdd neu ïi gilydd yn ei erbyn ef. Canys er bôd pechodau yn ein herbyn ein *hunain* a'n *cymydygion*, etto gan ei bôd hwynt gwedi eu gwahardd gan Dduw y maent heſyd yn *Droſſeddiadau* o'i Orchymynion ef, ag felly yn *bechodau* yn ei erbyn ef. Mewn gair, nid yw'r *Edifeirwch* hwn ddim ond troi oddiwrth Bechod at Dduw, a thaflu ymmaith ein holl Bechodau o'r blaen, ag yn ei llê hwynt arferu yn ddibaid yr holl *Ddled-ſwyddau Criſtianogawl* hynny y mae Duw yn ei gofyn at ein dwylo ni. Ag mae hon yn Ddled-ſwydd mor angenrheidiol, ag y derſydd am danom yn ddiammeu hebddi, y mae gennym *Air* Criſt am hyn, Luc. 13. 5. *Onid edifarhewch, derſydd am danoch oll yn yr ûn môdd.*

Trôad oddiwrth bechod at Dduw.

27. Y cyſarwyddiad i gwplhau'r amryw rannau o'r Ddled-ſwydd hon, a oſodwyd ar lawr yn barod yn y Paratôad i ſwper yr Arglwydd, ag yno yr ŵyf yn cyfeirio 'r Darllenydd. Yn unig mi a'i coffhâf ef ymma nad yw hi yn *Ddled-ſwydd* i'w *harferu* yn unig wrth dderbyn y *Cymmun.* Canys gan fôd hyn yn unig feddiginiaeth yn erbyn gwenwyn pechod, rhaid yw i ni ei hadnewyddu hi cyn fynyched ag yr ail-gyrchom ein pechodau, hynny yw, Beunydd. Sef, rhaid

Amſerau i'r Ddled-ſwydd hon.

i

i ni *bôb dydd* Edifarhau am bechodau y Dŷdd hwnnw, canys y peth y mae Criſt yn ei ddywedyd am ddrygau eraill, ſydd yn wîr hefyd am hyn, *digon i'r Diwrnod ci ddrŵg ei hûn*; y mae gennim bechodau ddigon hôb dydd i arferu edifeirwch beunyddiol, ag am hynny rhaid yw i bôb dŷn fal hyn ei alw ei hûn beunydd i gyfrif. Sul V. *Bôb dydd.*

28. Ond megys ag y mae mewn *cyfrifon*, fe ſydd gan y neb o oſodo yn ddyfal ar lawr ei *draul feunyddiol* ryw amſer goſodedig i fwrw'r cwbl i ſynu ynghŷd, megys ar ddiweddyr *wythnos*, neu 'r *mîs*; felly hefyd y dyle fôd ymma; ni a ddylem oſod heibio ryw amſer i'n hymddaroſtwng ein hunain yn gyhoedd ger bron Duw am ein Pechodau, nid o'r *dŷdd* hwnnw yn unig, ond o'n holl fywyd. A phe *mynychaf* y bo'r amſerau hynny, *goreu* ſŷdd. Canys pe mynychaf fal hyn y bwriom ni i ſynu ein *cyfrifon* gyda Duw, ag edrych pa ddyledion mawr y rhedaſom ynddynt iddo ef, mwy *ifel* a *gwael* y tybiwn ni o honom ein hunain, ag ni a hiraethwn yn ſwy am ei *Drugaredd* ef; a'r ddau hyn yw 'r prîf bethau ſydd i'n cymmhwyſo ni i'w *bardwn* ef. Y mae ef gan hynny yn cymmeryd cwrs *ragorol* ar lês ei Enaid, yr hwn a eſyd iddo 'i hûn ún dŷdd yn yr wythnos yn bennodol i'r pwrpas hwn. Neu os bydd cyflwr bywyd rhyw ddŷn mor drafferthus, fal nad allo wneuthur hyn cyn fynyched, deued cyn neſſed at y mynychdra hwnnw ag y bô poſſibl iddo, gan gofio yn waſtad, na ddichon yr ûn o'i negeſeuau bydol ef ddwyn i mewn iddo y filed ran o'r *Bûdd* ag a ddŵg yr ûn Yſprydol ymma, ag am hynny y mae 'n hwſmonaeth ddrŵg iawn gynllwyn y rhai hynnu trwy eſgeuluſo hwn. *Ar amſerau goſodedig.*

29. Heblaw 'r amſerau pennodol hyn, y mae hefyd amſerau damweiniol i gwplhau'r *Ddleſwydd* *Yn amſer cyſtydd a Thrallod.*

Sul V. *ſwydd* hon, y cyſtryw rai yn enwedig yw, Amſerau *cyſtydd* a *Thrallod*; canys pan ddigwyddo'r cyſtyw ei ni, ni a ddylem edrych arno megys cennad gwedi ei anſon o'r n-ſ i'n galw ni i'r *Ddled ſwydd* hon, ag am hynny gwiliwn ûn amſer ei heſceuluſo hi pan i'n rhybuddir fal hyn i'w chwplhau, rbag i ni fôd o niter y rhai a *ddirmygu Goſpedigaethau'r Arglwydd*, Heb. 12. 5.

Ar amſer marwolaeth.

30. Y mae etto amſer arall o *Edifeirwch*, yr hwn yn ymarfer dynion a aeth a'r fuddugoliaeth ar y lleill i gŷd, a hwnnw yw, amſer marwolaeth; yr hwn, gwîr yw, ſydd yn amſer trachymwys i *adnewyddu* ein *Hedifeirwch*, nid iw *ddechreu* eſ; canys ynfydrwydd tra-greſynol yw ei oedi eſ tan hynny. Oblegid, i ddywedyd y goreu am hynny, mae ûn trwy hyn yn *peryglu* ei *Enaid* ar y fâth *betrnſder reſynol* ar na feiddie gŵr ſynhwyrol ymmddiried y pêth *gwaeloſ* arno. Canys yn *gyntaf*, mi a chwennychwn oſyn i ryw ûn ſydd yn bwriadu edifarhau ar *amſer Marwolaeth*, pa fódd y gŵyr y ceiff eſ awr o amſer i hynny? Onid ydym ni beunydd yn gweled cippiô ymmaith rhai dynion mewn munudyn? A phwy a all ddywedyd nad hynny a fydd ei gyflwr ei hun? Ond yn *ail*, bwriwch iddo gael marwolaeth mwy *arafaidd*, ſef, i ryw ddolur ei rybuddio fód Angeu yn neſſau, etto yſgatfŷdd ni ddealla eſ mor rhybudd hwnnw, eithr parhau i'w wenheithio ei hûn trwy obaith o ſywyd hyd y diwedd, fal y gwnâ rhai cleifion yn dra-mynych: ag felly fe all ei farwolaeth eſ fôd yn ddiſymmwth iddo, er iddo ddyfod trwy raddau araf iawn. Ond trachefn, yn *drydydd*, os eſe a ddirnad ei *Berigl*, etto pa fôdd y mae eſ yn ſicer y gall eſ y prŷd hynny edifarhau? *Rhôdd raſol* Duw yw *Edifeirwch*, nid wrth ein harchiad ni; ag y mae 'n gyfiawn ag yn arferol gyda

Y perigl o'i oedi tan hynny.

gyda Duw, gwedi i Ddynion yn hîr o amſer wrthod a dirmygu y Grâs hwnnw, wrthwynebu ei holl alwad a'i wahoddiadau ef i Edifeirwch a Gwellhâad buchedd, ei rhoddi nhw i fynu o'r diwedd i galedwch ei Calonnau ei hunain, heb ganiadhau iddynt ddim ychwaneg o'r *Grâs* hwnnw a ddirmygaſont cyhyd. Etto bwrwch, yn *bedwerydd*, i Dduw o'i anfeidrol ammynedd barhau etto i gynnyg i ti y *Grâs* hwnnw, etto ſe ddarfu i ti ei wrthwynebu ef yſgatfydd *ddêg ar hugain*, *deugain*, neu *ddengmhlynedd a deugain* o'r ûn-tû, pa fôdd y gwyddoſt y gelli fwrw heibio yn *ddiſymmwth* y *ddull arferol* honno o wrthwynebiad, a gwneuthur Defnydd o'r *Grâs* a gynnygir itti? Y mae'n ſiccr fôd gennit lawer mwy o achlyſur tu ag at wneuthur hynny yr awrhon nag a fydd gennit y prŷd hynny. Sul V.

31. Canys yn gyntaf, pe hwyaf y cadwodd pechod feddiant yn dy galon, annhawſach y fydd ei fwrw ef allan. Gwîr yw, pe bydde *Edifeirwch* ddim ond *gorphywys* preſennol oddiwrth weithredu pechod, y Clâf-wely y fydde gymmhwyſaf i hynny, canys yr amſer hwnnw nid ydym yn abl i weithredu y rhan fwyaf o Bechodau; ond mi a ddangoſais i chwi o'r blaen fôd *Edifeirwch* yn cynnwys llawer mwy na hynny, thaid yw bód ynthi *gaſſineb di-ragrithiol* o bechod, a gwîr *gariad* o Dduw. Yn awr, pa gyffelybrwydd fydd iddo ef (yr hwn yn ei holl fywyd oedd yn *caru* pechod, yn ei gyfleidio ef yn ei fynwes, ag i'r gwrthwyneb, oedd yn llwyr-gaſhau Duw a ddaioni,) newid yn ddiſymmwth ei *anwydau*, a caſhau'r pechod hwnnw yr oedd ef yn ei *garu*, a charu Duw a *daioni* y thai yr oedd ef o'r blaen yn hollawl yn ei caſhau? *Tr Tmarfer o Bechod.*

Sul VI. 32. Ag yn *ail*, ſe ſydde y penydau Corpho-
Penydau Corpherol. rawl ar dy glâf-wely yn dy rwyſtro di, ag yn dy
wneuthur yn anghymmwys jawn i'r weithred o
Edifeirwch, yr hon ſydd yn béth mor bwys-fawr
ag anhawdd, ag y gelyd hi dy holl nerth a'th egni
ar waith, jë, pan lôch di gryfaf ac jachaf.

Y Perigl o Edefeirwch ragrithiol. 33. Yſtyria y *rhwyſtrau* hynny a pha rai y
bydd raid i ti ymdrechu yr amſer hwnnw, ag
yna dywed i mi pa obaith ſydd y gwnêi di y pryd
hynny y peth ni wnêi yr awrhon pan yw haw-
ſach o lawer iti. Ond yn *drydydd*, y mae *perigl*
etto yn ôl tu hwynt i'r rhain i gŷd, ſef, na
bydd yr *Edifeirwch* hwnnw i ba ûn y llithia
Angeu di yn wir *Edifeirwch*; canys y mae 'n
eglur yn y cyflwr hwnnw mai ofn *Uffern* yn u-
nig ſydd yn dy oſod ti ar waith, yr hyn er ei fod
yn ddechreuad dâ, llê y byddo amſer ar ôl hynny
i 'w *berffeithio*, etto llê ni byddo ond hynny yn
unig, ni thyccia byth er *Jechydwriaeth*. Yn
awr, y mae 'n rhŷ debyg mai o'r cyfryw fâth yn
unig, gan mynychaf, ydyw yr Edifeirwch di-
weddar ymma ar y clâf-wely, os yſtyrir, fôd
llawer o ddynion a gymmeraſant arnynt *Edifar-
hau* pan oeddynt yn tybied ei bód yn agos at
angeu, y rhai, gwedi i Dduw weled yn ddâ ei
hadferu nhw drachefn i 'w *Hiechyd*, a fuant cyn-
ddrwg, yſgatſydd yn waeth nag erioed o'r blaen,
yr hyn ſydd yn dangos yn eglur nad oedd yn
ddynt ddim gwir gyfnewidiad, ag yna yn ddi-
ammeu pe buaſeu 'r cyfryw ûn farw yn yr *Edi-
feirwch rhagrithiol* hwnnw, ni buaſei Duw *yr hwn
ſydd yn chwilio y galon*, yn derbyn y cyfryw *Edi-
feirwch* amherffaith. Pan oſodir y peryglon hyn
i gyd yn yr ûn-lle, ſe ymddengys yn eglur mai
Rhyfyg tra greſynol yw i un dyn ymddiried i *Edi-
feirwch Clâf-wely*. Ag nid yw hi ychwaith ddim
llai er ſiampl y *lleidr Edifeiriol* ar y Groes, *Luc* 23.

43.

23. 43. yr hyn y mae llâwer yn hyderu cymmaint arno. Oblegid diammeu yw fôd ei gyflwr ef a'n heiddo ni yn annhebig jawn; ni chlywſei ef erioed ſôn am Grift o'r blaen, ag felly nid ellid diſgwyl dim ychwaneg ganthoef na'i gyfleidio ef cyn gynted ag y cynnygwyd ef iddo: ond fe'i cynnygwyd ef i ni, jë ag fe fûed yn *daer* arnom ni o'n *mebyd* am ei dderbyn ef, ag etto nyni a'i *gwrthodaſom* ef. Ond pe bae y Rhagoriaeth ymma heb fôd, nid yw hi ond gobaith *egwan* yr hon a adeiledir ar ûn eſampl, yn unig, ag ni welwn ni yr ûn arall yn yr hôll *Scrythr-lân*. Yr ydym yn darllen fôd yr *Iſraeliaid* yn cael ei porthi a *Manna* o'r *nêf*, etto oni welech chwi ſo'n ynfyd jawn, yr hwn trwy ddiſgwyl y cyffelyb beth, a eſgeuluſei baratoi ymborth iddo'i hûn? Etto y mae'n gwbl mor rheſymmol hyderu ar y naill *Eſampl* ag ar y llall. Mi a ddibennaf y cwbl a geiriau'r gŵr Doeth, *Preg.* 12. 1, Cofia dy Greawdr yn nyddiau dy Ieſengtid cyn dyfod y dyddiau drŵg arnat. Sul V.

34. A'r Ddledſwydd ymma o *Ediſeirwch* ſe *fydd yn* gymmwys jawn gyſſylltu *Ympryd*. Y mae'r Scrythur yn ſynych yn ei cwplhyſu nhw ynghŷd; Ymŷlg yr *Iddewon* yr oedd rhaid cadw'r dydd mawr y *Cymmod* gyda'g *Ympryd*, fal y mae iw weled wrth gyſſelybu, *Levit.* 16. 31. ag *Iſai.* 58. 5. a hyn trwy gyhoeddus Orchymyn Duw ei hûn. Ag yn y Prophwydi, pan elwir ar y Bobl i *Ediſarhau*, ag i'w *hymddaroſtwng* ei hunain, fe elwir hefyd arnynt i *Ymprydio*. Fal hyn y mae, *Joel.* 2. 12. *Am hynny yr awr-hon medd yr Arglwydd, dychwelwch attaſi a' ch holl galon, mewn Ympryd, ag mewn wylofain*, &c. Hê, mor berthynaſol y cyfrifid *Ympryd* i *Ddaroſtyngeiddrwydd*, a bôd *Ahab ddrŵg* yn ei harferu hi yn ei *Ymddaroſtyngiad*, 2 Bren. 21. 27. A'r *Ninfeaid* *Ympryd.*

Sul V. *Di-grêd* yn ei Hediſeirwch hwythau. *Jonah.* 3. 5. Nag yw hi lai cymmwys na llai cymmeradwy er amſer Criſt, nag o'r blaen. Oblegid ni a welwn ei fôd ef yn ei bwriadu hi yn *Ddled-ſwydd* weithiau i'w chwplhau, pan yw ef yn rhoddi cyſarwyddiad i ochelyd *gwâg Orfoledd* ynthi, *Matth.* 6. 6. Ag y mae eſe hefyd yn ein ſiccrhau ni os cwplheir hi fal y dylid, nid i foddhau *Dynion* ond *Duw*, y caiff hi yn ddi-ammeu ei gobrwyo ganthó ef. Ag felly y gwelwn fôd y *Seinctiau* yn ei harſeru hi. Yr oedd *Anna* Luc. 2. 37. yn gwaſanaethu Duw mewn *Ympryd* a Gweddi: lle y mae i'w nôdi, ei bôd hi yn cael ei chyfrif megys gwaſaneth i Dduw yn gymmwys i'w chyſſylltu gydâ *Gweddi.* Ag yr oedd y *Prif Griſtianogion* gynt yn gyffredinol yn *arferu Ympryd* yn fynych. Yr awrhon, er bôd Ympryd yn bendiſaddeu yn berthynaſol i amſer o *ymddaroſtwngeiddrwydd*, etto nid yw hi gwedi ei hattal felly, na ddichon hi fôd yn *gyfaddas* hefyd pa brŷd bynnag y bô gennim ryw beth *rhagorol* i'w erfyn gan Dduw. Fal hyn, pan oedd *Eſther* yn chwennych ymwared i'w phobl rhag diniſtr, hi a'r holl *Iddewon a gadwaſant ympryd cyhoeddus*, Eſt. 4. 16. Fal hyn hefyd pan oedd *Paul* a *Bareabas* i'w *Hurddo* yn *Apoſtolion*, yr oedd *Ympryd* gwedi i gyſſyltu at *Weddi*, Act. 13. 3. Ag felly y bydd yn dra-chymmwys i ninnau, pa brŷd bynnag y byddo arnom eiſieu rhyw gyfarwyddiad *ragorol* neu gymmorth gan Dduw, naill ai ynghylch ein perthynaſau *amſerol* neu *Yſprydol*, fal hyn gynnhyrfu ein Gweddiau trwy *Ympryd*. Ond uwchlaw pôb *Achoſion*, ſe ofyn amſer *ymddaroſtyngeiddrwydd* hynny ar ein dwylo ni; canys heb law 'r achlyfur o *gynneu* ein Zêl ni, yr hyn nid ydyw ûn amſer mor angenrheidiol a phan ſyddom yn gweddio

am

am *Faddeuant pechodau*; y mae Ympryd yn cynnwys ynddi beth dial, yr hyn a gyfrifir megys yn rhan *enwedigol* o Edifeirwch, 2 *Cor.* 7. 11. Canys trwy naccau i'n cyrph ein hymborth arferedig, yr ydym yn gosod *Cospedigaeth* arnom ein hunain am ein *gormodedd* o'r blaen, neu am ba Bechodau bynnag eraill yr ydym y prŷd hynny yn ein cyhuddo ein hunain o'i plegid; yr hyn yw ffrwyth briodol y digllonrwydd hwnnw a ddyle fôd gan bob pechadur yn ei erbyn ei hûn. Ag yn wir, y mae 'r neb sydd mor dyner o hono' i hûn ag na chlyw un amser ar ei galon omeddu *prŷd* o *fwyd* mewn môdd o *Gospedigaeth* am ei *feiau*, yn dangos nad ydyw ef gwedy fyrthio allan fawr ag ef ei hûn am ei gwneuthur hwynt; ag felly mae fo 'n ddiffygiol o'r digllonrhwydd hwnnw yr hwn y mae yr Apostol yn y Testyn rhag-ddywededig yn i wneuthur yn rhan o wir-*Edifeirwch*. Sul V.

Ympryd yn ddial arnom ein hunain.

35. Nid oes ammeu nad ydyw 'r cyfryw *ddial Sanctaidd* arnom ein hunain am ein pechodau yn *gymmeradwy* iawn gan Dduw; Er hynny, gwiliwn dybied y dichon hyn, na dim arall ar a wnelom, wneuthur iawn am ein camweddau, canys nid oes dim ond *Gwaêd Grist* a ddichon hynny. Ag am hynny, ar hwnnw yn unig, ag nid ar yr ûn o'n gweithredoedd ein hunain y mae i ni hyderu am faddeuant. Etto gan na chaiff nêb y bûdd o'r *gwaed* hwnnw ond pechaduriaid edifeiriol, y mae 'n gymmaint yn sefyll arnom ddwyn allan holl ffrwythau o Edifeirwch, a phe byddai 'n Gobaith ni yn sefyll arnynt hwy yn unig.

Y cyfriw Ddial yn gymeradwy gan Dduw.

Etto nid yw iawn am bechodau.

36. Nid ydyw 'r *Scrythur* yn ûn-lle yn ein cyfarwyddo ni *fynyched* y bydd rhaid i ni gwplhau 'r *Dled-swydd* hon o *Ympryd*. Rhaid ydyw trefnu hynny gan *Ddoethineb* dynion, yn ôl fal y bô ei

Amseroedd o Ymprydio.

Sul V. ei *Iechyd* neu *Achoſion* eraill yn rhoddi cennad. Ond megys ag y mae mewn *ymddaroſtyngeiddrwydd*, pe mynychaſ y goſodom amſer neillduol iddi, goreu yw; ſelly hefyd y mae mewn *Ympryd*, pe mynychaſ, *goreu*; trwy na bo hynny yn niweidiol i'n *Hiechyd* ni, neu i ryw *Ddled-ſwydd* arall a ofynnir gennim. Ie, yſgatfydd, ſe all *Ympryd* helpu rhai dynion i ychwaneg o'r amſerau hynny i *Ddaroſtyngeiddrwydd*, nag a ennillen nhw heb hynny: oblegid fôd rhai yſgatfydd, nad allant, heb *rwyſtr* ddirfawr i'w *Galwedigaeth* oſod heibio *Ddŷdd* cyfan i'r gorchwyl hwnnw, etto ſe all y cyfryw ûn o'r lleiaſ olod heibio yr *amſer* hwnnw a dreulia ſe yn *Bwyta:* Ag ſelly ſe fydd *Ympryd* ddwy ffordd yn fuddiol tu ag at *Ymddaroſtyngiad* y cyfryw ûn, yn gyſtal trwy ei gynnorthwyo ef yn y *Ddled-ſwydd*, a thrwy ennill iddo *Amſer* i'w chwplhau hi.

Tr ail gainge o'n Dlêd-ſwydd i Dduw.

37. Mi a dreiddias bellach y rhan *gyntaf* o'n *Ddled ſwydd* i *Dduw*, ſef, ei gydnabod ef i fôd yn Dduw. yr *ail* yw, *na bô i ni gymmeryd yr ûn arall.* Am ba ûn nid rhaid i mi ddywedyd fawr, megys ag y mae 'n waharddiad o'r fâth waethaf o *Eulyn-addoliaeth Baganaidd*, ſef, addoli *delwau*, yr hyn er ei fôd unwaith yn gyffredinol yn y bŷd, etto ſydd yr awrhon mor an-aml, nad ydyw gyffelyb y bydd nêb a ddarllenno 'r *Llyfr* hwn yn euog o hono. Yn unig rhaid i ni ddywedyd, fôd talu *Addoliant* perthynaſol i *Dduw* i ûn *Creadur*, bydded yn *Saînct* neu *Angel*, iê, neu *Ddelw Criſt* ei hûn, yn *droſſeddiad* o'r ail rhan ymma o'n *Dled ſwydd* i *Dduw*, gan fôd hynny yn rhoddi *cyfran* i'r *Creadur* o'r peth ſydd yn unig yn ddledus i *Dduw*, ag am hynny ſe ddylid yn llwyr-ddwys ymwrthod ag ef.

38.

38. Ond mae mâth arall o *Eulyn-Addoliaeth*, o ba ûn yr ydym ôll yn gyffredinol yn euog, ſef, pan ſyddom yn talu yr anwydau hynny o *Gariad*, *Ofn*, *Hyder*, a'r cyffelyb i un Creadur mewn Grâdd uwch nag i *Dduw*: canys nid yw hynny ddim llai na goſod i fynu hwnnw, pa beth bynnag a fytho, yn Dduw i ni. Âg y mae 'r lath ymma o *Eulyn-addoliaeth oddi-fewn* yn annog Duw i eiddigedd yn gyſtal ag Addoli *Delw oddiallan*; Mi allwn ehangi llawer ar hyn, ond oblegid i mi grybwyll am amryw rai o honynt yn y *Traethawd* o'r blaen, yr wyfi 'n meddwl nad yw hynny angenrheidiol; mi a âf ymlaen gan hynny yr awrhon at yr *ail Pwnc* o Ddled-ſwydd, ſef, ein *Dlêd* tu ag attom ein Hunain.

Sul V. *Eulynaddoliaeth oddifewn.*



SUL

Sul VI.

SUL VI.

Dledſwydd i ni ein Hunain; am Sobrwydd; Goſtyngeiddrwydd; y Pechod mawr o Falchder; am wâg-Ogoniant, a'i Berigl, a'i Ffoledd; y moddion i'w ochelyd ef: am Addfwynder, &c.

Dledſwydd tu ag attom ein Hunain.

1. Y Dledſwydd hon tu ag attom ein Hunain a grynhoir gan St. *Paul*, Tit. 2. 12. Yn yr *ûn* Gair hwn [yn ſobr] trwy ba *Air* y deallir, ein cadw ein *Hunain* o fewn y Terfynau dledus hynny y rhai a oſododd Duw i ni. Fy mwriad i gan hynny a fydd, traethu i chwi beth yw'r rhannau neillduol o'r *Sobrwydd* hwn; a hynny yn *gyntaf*, Oblegid yr *Enaid*, yn *ail*, oblegid y Corph: Y mae *ſobrwydd* yr *Enaid* yn ſefyll mewn iawn *lywodraethiad* o'i *Anwydau* a'i *Affeithiau*; ag i'r diben hwn y mae amryw *Rinweddau* yn angenrheidiol. Mi a'i dangoſaf nhw ymma i chwi yn neillduol.

Goſtyngeiddrwydd

2. Y cyntaf o honynt yw *Goſtyngeiddrwydd*, yr hon a haedda yn dda y lle cyntaf, nid yn unig oblegid godidowgrwydd y *Rhinwedd*, ond hefyd oblegid mor ddefnyddiol ydyw hi tu ag at *ddyfod o bŷd* i'r *lleill* i gŷd: gan fôd yn ſylfaen ar ba ûn y bydd raid adeiladu yr holl rai eraill. A'r neb a obeithia ei hennill hwynt heb hon a fydd tebyg i'r Adeiladwr ffôl ynfyd hwnnw y mae Criſt yn fôn am dano, *Luc.* 6. 49. *Yr hwn a adeiladodd ei dŷ ar y tywod.* Am *Oſtyngeiddrwydd* tu ag at Dduw mi a draethais yn barod, ag a ddangoſais mor angenrheidiol ydoedd, Rhaid i mi 'r awrhon

awrhon draethu am *Oſtyngeiddrwydd* megys ag y mae 'n perthyn i ni ein hunain, yr hon a geir ei gweled ei bôd mor angenrheidiol a'r llall. Sul VI.

3. Y mae 'r *Oſtyngeiddrwydd* ymma o ddau fâth, y *cyntaf*, yw bôd gennim dŷb iſel a gwael o hononi ein hunain; yr *ail*, yw bydloni i eraill heſyd ſeddwl felly am danom ni. Y cyntaf ſydd wrthwyneb i *Falchder*, a'r llall i *wâg-orfoledd*. Y mae yn fy mrŷd ddangos i chwi yr awrhon ſôd pôb ûn o'r rhain yn gwbl angenrheidiol i Griſtianogion; yr hyn, yr ŵyf yn meddwl, a wneir yn oreu trwy oſod o'ch blaen chwi yn *gyntaf*, y *pechod*, yn *ail*, y Perigl, yn *drydydd*, y beiau gwrthwyneb iddynt.

4. Ag yn *gyntaf*, am **Falchder**; y mae hwn yn Bechod cymmaint ag y raſlodd ef yr *Angylion* allan o'r *nef*; ag am hynny os gallwn ni farnu o Bechod wrth y *goſpedigaeth*, nid oedd ef yn unig y *cyntaf* ond y pechod *mwyaf* y bû *Diafol* ei hûn erioed yn enog o honaw. Ond nid rhaid i ni wrth well profiad o'i echryſlonrhwydd ef na dirfawr gaſſineb Duw tu ag atto, yr hyn (heb law'r Eſampl o goſpi 'r Cythrel) a welwn yn fynych yn y *Scrythyrau*, Dihar. 16. 5. *ffiaidd gan yr Arglwydd bôb dyn uchel ei galon.* A tracheſn, *Pen.* 6. 16. lle y crybwyllir am amryw bethau ſydd ffiaidd gan yr Arglwydd, a *llygaid beilchion* a oſodir yn gyntaf o honynt: felly Jac. 4. 6. *Duw ſydd yn gwrthwynebu 'r Beilchion*; ag amryw fannau eraill ſydd i'r unrhyw bwrpas, y rhai ſydd yn dangos yr atgaſrwydd mawr ſydd gan Dduw i'r pechod hwn o Falchder. Yn awr, gan mai ſiecr yw, nad yw Duw, yr hwn ſydd gwbl ddaioni, yn caſhau dim ond fal y mae yn ddrŵg, eglur yw, mai lle y mae Duw yn caſhau mewn meſur cymmaint, ſôd yno feſur mawr iawn o Ddrygioni. *Y pechod mawr o Falchder.*

Sul VI. *T Perigl.*

5. Ond yn *ail*, nid yw Balchder yn unig yn dra-phechadurus, ond yn Beryglus iawn hefyd, a hynny yn *gyntaf*, oblegid ein denu ni i *Bechodau* eraill; yn *ail*, ein bradychu ni i *boenau*.

Yn denu i bechodau eraill.

Yn *gyntaf*, y mae *Balchder* yn ein denu ni i bechodau eraill, ymmbâ beth y mae yn ei ddangos i hûn yn uniawn yngwrthwyneb i *Ostyngeiddrwydd*; canys megys ag y mae hwnnw yn Wreiddin pôb *Rhinwedd*, felly y mae hwn o bôb Drŵg. Oblegid y mae 'r Balch yn ei osod ei hûn i fynu megys yn Dduw iddo ei hûn, ag felly ni fedr fyth ymddarostwng i neb rhyw Reolau na Chyfreithiau namyn y cyfryw a wnelo iddo 'i hûn. Y mae 'r annuwiol medd y Psalmydd, *mor falch nad yw ef yn meddwl am Dduw*, Psal. 10. 4. lle y gwelwch mai ei *Falchder* ef sydd yn gwneuthur iddo ddirmygu Duw. A chwedi i ddyn ddyfod unwaith i hyn, y mae fo'n barod i wneuthur pôb rhyw *Bechod* arall. Mi a allwn adrodd i chwi liaws o bechodau neillduol sydd yn naturiol yn tarddu allan o'r Pechod hwn o Falchder; megys yn *gyntaf*, *Elld*, yr hwn y mae'r Gŵr Doeth yn ei osod ar lawr megys ffrwyth *Balchder*, Dihar. 21. 24. gan ei alw ef *Digllondeb balch*; yn *ail*, *cynwen* ag *ymryson*, yr hyn y mae ese hefyd yn ei nôdi i fod yn heppil *Balchder*, Dihar. 13. 10. *Trwy Falchder yn unig y cyffrô cynnen.* Ag yn wîr, y mae'r ddau hyn yn ffrwythau *Naturiol* o *Falchder*: canys y mae'r neb sydd yn tybied yn dra-uchel o hono 'i hûn, yn diſgwyl llawer o Ostyngeiddrwydd ag Anrhydedd gan eraill, ag am hynny ni fedr ond ymgynddeiriogi a chwerylu pa bryd bynnag y tybia nad yw 'n cael digon o barch. Fe fydde annherfynol i mi draethu am holl ffrwythau 'r gwreiddyn chwerw hwn: mi henwa'i ond ûn ychwaneg,

ychwaneg, ſêf, nad yw *Balchder* yn unig yn ein bradychu ni i lawer o bechodau, ond hefyd yn ei gwneuthur hwynt yn anfeddiginiaethol ynom, canys y mae 'n rhwyſtro gweithrediad pôb cymmorth a diwygiad. Sul VI.

6. Rhaid yw i'r *meddiginiaethau* hynny ddyfod naill ai oddiwrth Dduw, neu Ddŷn; os oddiwrth Dduw, rhaid iddynt fod naill ai mewn môdd o Laryeidd-dra ag addfwynder, neu ynteu o yſcymmundra a choſpedigaeth. Yn awr, os bwriada Duw trwy Ddaioni ddenu dŷn balch i Ediſeirwch, y mae ef yn hollawl yn cam gymmeryd meddwl Duw, ag yn tybied nad yw 'r holl Drugareddau y mae ef yn ei derbyn ond gwobr ei haeddedigaeth ei hûn, â thra 'i parháo ef felly ſicer yw na thybia bŷth fôd arno eiſieu Ediſeirwch. Ond os Duw o'r tu arall a'i harfera ef yn arwach, ag a eſyd drallodau a choſpedigaethau arno, ni weithia' rhai hynny mewn Calon falch ond grwgnach a chaſſineb o Dduw, megys pe bae yn gwneuthur ag ef gam yn y Coſpedigaethau hynny. Am y *meddiginiaethau* a ellir ei harferu gan ddynion, rhaid iddynt hwythau hefyd fôd naill ai mewn modd o *Gerydd*, neu o *Gynger*; ag yn ddiammeu, ni weithia ceryddon oddiwrth ddynion ddim mwy ar galon falch nag y gwnâ ceryddon gan Dduw, canys y neb a ddichon dybied fôd *Duw* yn anghyſiawn ynddynt, a greda hynny yn fwy o lawer am *Ddŷn*. Ag fe a wnâ cynghorion hefyd yr ûn môdd. Canys er mor llaryaidd a chariadus yr argyoeddir gwr balch, efe a edrych ar hynny megys yn ddirmyg: ag am hynny yn lle *cyffeſſu* neu ddiwygio ei fai, efe a ſyrth ar enllibio ei argyoeddwr megys dŷn rhodreſgar, neu farnus; ag am y weithred werthfawr ragorol honno o addfwyndwr, ef a edrych arno megys

Yn gwneuthur Meddiginiaethau yn ofer.

Sul VI. gelyn. Ag y mae 'n rhaid i'r neb a ſô ſal hyn mor gyndyn yn gwrthwynebu pôb moddion o Feddyginiaeth, ſôd mewn cyflwr tra-pheryglus.

Yn traddodi i Goſpedigaeth. 7. Ond heb law'r perigl hwn o *beebod*, mi a ddywedais i chwi ſod ûn arall heſyd o *goſpodigaeth*; ag nid rhaid fawr boen i brofi hyn pan Yſtyrir ſôd Duw yn elyn cyhoedd i'r dŷn balch, a'i ſôd ef yn ei gaſhau ag yn ei wrthwynebu ef, megys ag y mae 'n eglur yn y mannau rhag-ddywededig: Ag yna yn ddiammeu rhaid yw i'r neb ſydd gantho elyn mor alluog ſod yn ſiŵr o ofidio yn ddirfawr am hynny. Etto heb law'r rheſwm cyffredinol hwn, ſe ſydd yn gymwys ddodi ar lawr rai o'r lleoedd hynny yn neilldnol y rhai ſydd yn bygwth y pechod hwn, megys Dihar. 16. 18. *Balchder ſydd yn myned o flaen diniſtr, ag uchelder yſpryd o flaen cwymp.* Trachefn, Dihar. 16. 5. *ffiaidd gan yr Arglwydd bôb dŷn uchelgalon: er máint ſydd ei gymmorth, ni bydd efe di-euog.* Y mae 'r ordinhâad gan hynny yn anghyſnewidiol, mai ofer yw'r holl ſoddion a arferir i gadw'r balch, canys *ni bŷdd efe di-euog.* Ag y mae hyn yn hynod iawn yn hiſtori *Nebuchadonoſor, Dan.* 4. Yr hwn er ei ſôd yn Frenin mwyaf yn y bŷd, etto a *yrrwyd* am ei Falchder *oddiwrth ddynion*, i gyſanneddu ag i ymborthi gydâ bwyſtfilod. Ag ſe a welir yn fynych, ſôd y pechod hwn yn goddef barnedigaethau trachryflon, iê, yn y bŷd hwn. Ond os hynny ni ddigwyddei, na thybied y *dŷn balch* iddo ddiangc oddiwrth *ddiâl Duw*, canys diammeu yw, y bydd cyfrif greſynol yn y bŷd a ddaw; oblegid os ni arbedodd Duw yr Angylion am y pechod hwn, eithr ei taflu nhw i Uffern, na edy-ched neb arall am ddiangc yn well.

Y Fſoledd. 8. Yn *drydydd*, mi a ddangoſaf i chwi ddirfawr *ffoledd* y pechod hwn; ag er mwyn hyn,

ſe

fe fydd angenrheidiol yſtyried yr amryw bethau y bydd dynion arferol o fôd yn falch o honynt; y rhai ydynt drî mâth, naill ai 'r rhai yr ydym yn ei galw yn *Ddâ natur*, neu *Ddâ ffortun*, neu *Ddâ Grâs*. Sul VI.

9. Trwy *Ddâ natur* yr ŵyf yn meddwl *Prydferthwch*, *Nerth*, Synwyr, a'r cyffelyb; ag *ynfydrwydd* dirfawr yw bôd yn falch o'r ûn o'r rhain: canys yn *gyntaf*, yr ydym yn barod jawn i gamgymmeryd, ag i'n tybied ein hunain yn hawddgar neu yn Synhwyrol pan na bôm, ag yna nid all bôd mwy *ffoledd* na bôd yn falch o'r pêth nid oes gennim; ag fal hyn y tybia pôb dŷn mewn ûn arall, er nad yw ef yn meddwl felly yn ei eyſlwr ei hûn, ag felly nid yw ef ûn amſer yn dirnad hynny yntho 'i hûn. Ag am hynny nid oes dim yn fwy dirmygus ymŷſg dynion na *ffŵl Balch*; etto nid oes neb y fydd gantho dŷb uchel o'i Synwyr ei hun nad yw yn debyg i gael fal hyn ei Siommi, gan y dyle ddŷn hyderu leiaf i'w farn ei hûn am dano' i hûn. Ond yn *ail*, bwriwch i ni farnu yn uniawn, etto pa beth fydd yn yr ûn o'r holl gynneddfau *naturiol* hyn a dal bôd yn falch o'i plegid, gan nad oes nemmawr o honynt nad ydynt mewn rhyw greadur neu 'i gilydd mewn grâdd fwy na mewn dŷn? Pa faint y mae gwynder y *Lili*, a chochder y *Rhoſyn* yn rhagori ar wyn a chôch y wynebpryd glanaf? Pa nifer o Greaduriaid ſydd yn myned tu hwynti ddŷn mewn *nerth* a *chyflymder*? Ag mae amryw eraill y rhai, cymmhelled ag y perthyn i ddiben defnydiol iddynt ei hunain, fydd yn gweithredu yn llawer ſynhwyrolach na 'r rhan fwyaf o honom ni; ag am hynny a ofodir i lawr yn fynych yn y Scrythur megys yn *Eſampl* i ni. Y mae gan hynny yn anrhetymmol jawn i ni dybied yn uchel o honom *Dâ natur.*

Sul. VI. nom ein hunain am y cyfryw bethau ag ſydd yn gyffredinol i ni ag i ſwyſtfillod a phlannhigion. Ond yn *drydydd*, pe byddent hwy mor rhagorol ag yr ŷm ni yn ei ſtansio hwynt, etto nid ydynt yn barhaus, eithr yn ddarfodedig ag yn golledig trwy amryw foddion; *Cynddartdd* a ddiniſtria 'r Synwyr godidoccaf; *Cleſyd* a lygra 'r wynebpryd glânaf, a 'r cryfder mwyaf; neu pa un bynnag, ſe wnâ *henaint* am y cwbl. Ag am hynny, o herwydd hyn hefyd ynſydrwydd ydyw ymſalchiô o honynt. Ond yn *ddiweddaf*, pa beth bynnag ydynt, ni roeſoni monynt hwy i ni ein hunain. Nid all nèb dybied ddarfod iddo wneuthur dim tu ag at gael ei wynebpryd, neu'i Synwyr naturiol ei hûn, ag felly nid all ef mewn Rheſwm roi brî yn y bŷd arno ef ei hûn am danynt.

Dâ Ffortun

10. Yn *ail*, y mae 'n gymmaint ynſydrwydd ymſalchio o ran *Dâ Ffortun*, megys *Golud*, *Anrhydedd*, a'r cyffelyb; canys diammeu yw, nad ydyw y rhai hyn yn adroddi dim at wîr Odidowgrwydd dŷn; nhw a allan ei helpu, yn wîr, i beth rhŵyſg ag ardderchowgrwydd oddiallan, ond nid yw hynny yn gwneuthur cyfnewidiad yn y byd yn y dŷn. Chwi a ellwch lwytho *Aſſyn* ag arian, neu 'i harddu ag *Addurnau* gwerthfawr, etto ni wnewch ef yn fâth anrhydedduſach o anifail trwy yr ûn o 'r rhain. Tracheſn, yn *ail*, y mae y rhain yn bethau nad oes gennim ddim ficcrwydd o honynt, y maent yn diflannu yn ddiſymmwth; ſe all ûn a fô yn gyfoethog heddyw fôd yn dlawd y foru, ag yna pe balchaf yr oedd ef pan ydoedd yn oludog, lleiaf o doſturi a fydd gan bawb iddo yn ei dlôdi. Yn *drydydd*, nid ydyw 'r cwbl gennim ond megys gan *Oruchwil-wyr* i 'w goſod allan i elw ein *Meiſtr*; ni a ddylem gan hynny

yn

yn hyttrach ſeddwl, pa ſôdd i wneuthur ein cyfrifon i fyny nag ymffroſtio o'r pethau yr ydym yn ei derbyn. Yn *ddiweddaf*, pa beth bynnag o'r rhain ſydd gennim, nid ydynt hwy yn ddledus, mwy na'r lleill, i ni ein hunain: oblegid os caſwyd hwynt yn gyfreithlon, yr ydym ni yn rhwymedig am danynt i Dduw yn unig, Bendith pwy ûn ſydd yn cyſoethogi, *Diar.* 10. 22. Os yn anghyfreithlon, yr ydym yn ei perchennogi nhw ar y cyfryw ammodau nad oes i ni ond achos ſechan i ymffroſtio o honynt. Ag fal hyn y gwelwch yn yr amryw ffyrdd hyn *Ffoledd* yr *ail* mâth ymma o Falchder. Sul VI.

11. Y *drydydd* fath yw, *Dâ Grâs*, hynny yw, pôb rhyw Rinwedd a fô gan ddyn. Ag ymma nid alla'i ddywedyd nad yw'r pethau yn werthfawr iawn, gan ei bôd yn odidoccah o aneirif na'r holl fŷd, er hynny i gŷd y mae hwn yn fwy ynfydrwydd na'r lleill i gid: a hynny nid yn unig o herwydd y Rhelymmau o'r blaen, nad ydynt hwy yn dyfod trŵom ein hunain (oblegid y mae Duw ei hûn uwchlaw pôb pêth yn gweithtedu grâs ynom ni;) ond yn enwedig yn hyn, mai bôd yn falch o Râs yw'r ffordd ficcr i'w cholli. Duw, yr hwn ſydd yn rhoddi Grâs i'r Goſtyngedig, a'i dwg ymmaith oddiar y balch. Canys os *dygwyd y dalent oddiarno ef*, fal y gwelwn ni yn y ddammeg, *Math.* 25. 28. yr hwn yu unig ni toddes moni allan yn llôg, pa ſôdd y diſgwyl ef ei mwynhau hi rhag llaw yr hwn a'i harferodd cyn-ddrŵg, ag, yn llê marchnatta a hi tros *Ddnw*, a farſiandiodd a hi tros *Satan*? Ag megys ag y cyll ef y *Grâs* rhag llaw, felly y cyll ef yr holl *wobr* o honi am yr amſer a aeth heibio. Canys er mainc o weithredoedd dâ a wnaeth dŷn, etto os ele a fydd Balch o honynt, ſe gyfrifir y balchder Dâ Grâs

hwnnw

Sul VI. hwnnw iddo ef i'w ddiniſtr, ond ni chofir byth mor daioni er gwobr iddo. Ag y mae hyn yn dangos mai ffoledd tra-echryſlon yw ymſalchio o Râs. Y mae 'n debyg i *blant* y rhai a dynnant yn dippiau y pethau o fô mwyaſ hôff ganddynt, iê, ag yn waeth o lawer na hynny, canys nid ydym ni yn unig yn colli 'r peth (a hynny yn beth gwerthfawroccaf yn y bŷd) ond rhaid i ni heſyd gael ein Coſpi 'n dragywydd am wneuthur felly, gan nad oes dim y bydd cyſrif roſtach am dano yn y bŷd a ddaw nag am gam-arferu *Grâs*; ag yn ddiammeu, nid all bôd mwy cam-arfer o honi na'i gwneuthur i waſanaethu i ddiben mor hollawl yn wrthwynebus i hwnnw er mwyn pa ûn y rhoddwyd hi, canys hi a roddwyd i'n gwneuthur ni yn oſtyngedig, nid yn falch; i ſawrygu Duw, nid ni ein hunain.

Moddion o Oſtyngeiddrwydd.

12. Yr awrhon, gan ddarſod i mi ddangos i chwi gymmaint ain y Pechod hwn, yr wyf yn meddwl yr ymddengys fôd yn dra-angenrheidiol ei ochelyd ef; ag er mwyn hynny, ſe fydd yn ſuddiol, yn *gyntaf*, yſtyried pa bêth a draethwyd yn barod am dano, a hynny mor ddiſrifol ag i weithredu ynom nid yn unig rhyw anfodlonrhywydd yſgoewan iddo, eithr caſineb dirfawr anghymmodol o'r pechod: yn *ail*, bôd yn wiliadwrus iawn ar dy galon rhag iddi achleſu ûn dechreuad o hono; a gochelyd ûn amſer gynnwys i'th ffanſi fyfyrio ar dy haeddedigaeth dy hûn; ond pa brŷd bynnag y cyfyd y cyfryw feddwl ynot, cûra ef i lawr yn ebrwydd, trwy gôffhau rhai o'th ffoledd, a'th Bechodau o'r blaen, ag felly gwnâ 'r cynnhyrfiad ymma i *Falchder* yn achlyſur o *Oſtyngeiddrwydd*. Yn *drydydd*, na chyſtadla mo honot dy hûn ûn amſer a'r rhai y tybioch di ei bod yn ffolach neu

yn annuwiolach na thi dy hûn, modd y gellych di fâl y *Phariſead*, Luc. 18. 11. dy fawrygu dy hûn am fôd yn well; eithr os chwennychi ymgyſtadlu, gwnâ hynny a'r Doeth ag a'r Duwiol, ag yna y cèi weled dy fôd cymmhelled o'r ôl, ag i bydd iti achos i'th ymddaroſtwng dy hûn, ag i dynnu i lawr y Debygoliaeth uchel honno ó honot dy hûn. Yn *ddiweddaf*, Bydd ddifrifol iawn mewn Gweddi, ar fôd i Dduw ddi-wreiddio allan o honot bôb grâdd o'r Pechod hwn, a'th wneuthur di yn ûn o'r rhai *Tlodion* hynny *yn yr Yſpryd*. Math. 5. 3. i ba-rai yr addewir y ſendith hyd yn oed o Deyrnas nêf ei hûn. Sul VI.

13. Yr ail pêth gwrthwynebus i *Oſtyngeiddorwydd*, mi a ddywedais i chwi, oedd *Gwâg-orfoledd*; hynny yw, ſyched dirſawr am Glôd gan ddynion. Ag yn *gyntaf*, nid rhaid i mi ddim mwy i brofi fôd hwn yn Bechod na geiriau ein Hiachawdr ei hûn, *Fo.* 5. 44. *Pa fôdd y gellwch chwi credu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eî gilydd?* llê y mae'n eglur nad ydyw ef yn unig yn bechod, eithr yn gyſryw ag ſydd yn rhwyſtro derbyn Criſt i'r galon, canys ſelly y mae *credu* yno yn arwyddoccáu. Y mae hyn gan hynny, yn yr *ail* man, yn dangos i chwi hefyd Enbydrwydd y Pechod hwn; oblegid os yw yn gyſryw ag ſydd yn cadw Criſt allan o'r galon, diammeu yw ei fôd yn dwyn aneiriſ o *Beryglon*, gan fôd ein holl ddiogelwch, a'n holl Obaith o ochelyd y digoſaint a ddaw yn ſeſyll ar ei dderbyn ef, ſef, Criſt. Ond heb law awdurdod y Teſtyn hwn, y mae cyſarwyddyd cyffredinol yn dangos, mai pa lê bynnag y bô gan y Pechod hwn ſeddiant, ei fôd ef yn peryglu dynion i ſyrthio i amryw bechodau eraill. Canys y ſawl ſydd ſelly yn perchi clôd gan ddynion, môdd na chyll moni mewn môdd yn y bŷd, pa brŷd bynnag y

Gwag orfoledd.

Y Pechod.

Y Peryg.

Sul VI. daw 'r Pechodau mwyaf i barch ag arfer (megys y gwyr Duw ſód llawer yn y dyddiau hyn) efe a ſydd yn ſicer o'i gwneuthur hwynt yn hyttrach na chymmeryd arno 'r anghlód o ſód yn unig ag yn bendant; yr wyſ' yn meddwl ſód llawer o gydwybodau a ddichon dyſtiolaethu 'r gwirioneddau hyn, fal nad rhaid i mi ddywedyd dim ychwaneg i brofi *perigl* y pechod hwn.

Y Ffoledd. 14. Y *Trydydd* peth i mi i'w ddangos yw, ei *ffoledd* ef; a hynny a'ymddengys yn *gyntaf*, trwy yſtyried beth ydyw'r hyn yr ydynt fal hyn yn ei chwennych mor ddirfawr, dim ond ychydig *awel*, *chwŷth*, ag *Anadl* dynion; nid yw yn dwyn i ni ddim gwir ſúdd: Canys nid ŵyſ na doethach na gwell er i ddynion ddywedyd fy mód yn ddoeth nen yn ddâ. Heb law hynny, os canmolir fi, rhaid i hynny ſód naill ai o flaen ſy wyneb, neu yn ôl ſy nghefn; os y cyntaf, y mae hynny gan mwyaf yn weniaith ag felly yn ſwyaf Cam a ellir ei gynnig i mi, ag yna nid wyf ond ffôl iawn ymfodloni iddo. Ond os y tû ôl i'm cefn, nid oes gennif gymmaint a'r pleſer o wybod hynny; ag am hynny, ynfydrwydd rhyfeddol yw fal hyn gynllwyn pêth mor anfuddiol. Ond yn *ail*, nid yw hynny yn unig yn anfuddiol, ond yn boenus ag yn anhywedd hêfyd. Nid yw'r néb ſydd yn chwennych clód yn ddirfawn yn feiſir atno 'i hun, Ond rhaid iddo gymmhwyſo 'i holl weithredoedd i'r diben hwnnw, ag yn lle gwneuthur y pêth y bô 'i reſwm a'i gydwybod (iê, ag yſgatfydd ei gyfleuſdra bydol) yn ei gyfarwyddo ef, rhaid iddo ofalu am wneuthur y pêth a ddŵg iddo *ganmoliaeth*, ag felly ei wneuthur ei hûn yn gaethwâs i bôb dŷn a ſo gantho dafod i'w ganmol ef. Iê, y mae yn hyn ymmhellach etto gythrwblaeth mwy, a hynny yw pan ballo'r cyfryw ddŷn o'i amcanion, a methu cael

cael *Clòd*, iê, ag yſgatfydd yn lle hynny, cael Sul VI.
dirmyg a gogan, (yr hyn nid yw yn dîgwydd
i nèb yn ſynychach nag i 'r gwâg-orfoleddus;
gan nad oes dim yn gwneuthur dŷn yn ſwy dir-
mygus) yna pa aflonyddwch a chythryſwl me-
ddwl y mae efe tanynt! Y mae i ni Eſampl ra-
gorawl am hyn yn *Achitophel*, 2 Sam. 17. 23. Yr
hwn pan *welodd Abſalom yn dirmygu ei gyngor ef*,
a ddewiſodd ymwrthod a 'r gwradwydd hwnnw
trwy ei *grogi* ei hûn. A diammeu fôd y penyd
hwn ſydd yn dilyn y Pechod ymma yn brawf
ddigonol o'i *ffoledd* ef. Ag nid hyn yw 'r cwbl
chwaith, y mae ef etto ymmhellach yn niweidiol
iawn. Canys os bydd y Gwâg-ogoniant ymma
ynghylch rhyw Weithred ddaionus neu Gri-
ſtianogawl, y mae 'n diddymmu 'r holl ffrwyth
o honi, rhaid yw i 'r néb a fô 'n *Gweddio*, neu
'n *rhoddi Eluſen* er mwyn cael ei weled gan ddy-
nion, gymmeryd hynny megis yn wobr iddo,
Math. 6. 2. *Yn wîr meddaf i chwi, y maent yn der-
byn ei gwobr*; na ddiſgwyliant ddim gan Dduw
ond cyfrán y Rhagrith-ŵyr hynny y rhai ſydd
yn *caru Clôd gan ddynion yn fwy na Chlôd gan Dduw*,
Ag nid yw ond *ffoledd* greſynol wneuthur y cyf-
ryw gyfnewid. Y mae 'n debyg i 'r *Cî yn y Chwedl*,
yr hwn pan ganfu yn y dŵfr gyſcod y bwyd a
oedd gantho yn ei ſafn, a geiſiodd gipio 'r cyſ-
cod, ag felly a ollyngodd ei fwydd i golli. Y
cyfryw *Gŵn*, y cyfryw greaduriaid anrheſymmol ydym ni, pan fôni fal hyn yn gillwng
ymmaith wobr tragywyddol yn y nêf i ymgais ychydig eiriau têg gan ddynion. Ag
etto, nid ydym yn unig yn colli 'r llawenydd
tragwyddol hwnnw, eithr o 'r tu arall yn
dwyn arnom ein hunain drueni tragywyddol,
yr hyn yn ddiammeu yw 'r râdd uchaf o *ffoledd*
ag ynſydrwydd. Ond y mae 'r Gwâg Orfoledd

Sul VI. ymma yn niweidiol iawn, er na bŷdd hi ynghylch Gweithred ninweddol, eithr rhyw beth diduedd yn unig; canys y mae gwag-ogoniant yn bechod yr hwn pa le bynnag y gofodir ef, a berygla ein cyflwr trag'wyddol ni, yr hyn yw'dr'ŵg mwyaf a âll fôd. Iê, ag yn y cyfamſer, fe ellir Yſtyried fod hwn yn anad pechod yn y bŷd, yn ſeſyll ſwyaf yn ei oleuni ei hûn, ag yn ei rwyſtro 'i hûn o 'r peth y mae 'n i gynllwyn. Canys nid oes nemmawr o rai ar ſydd fal hyn yn dyfal geiſio *Clôd*, nad ydys yn dirnad ei bôd nhw felly, ag yna ſe leihâ hynny dawer ar bêth bynnag a wnelont yn ganmoladwy, ag a ddŵg wradwydd arnynt yn llê Clôd ag Urddas. Ag yna mor gyfiawn y gallwni euog-farnu 'r pechod hwn o *ffoledd* yr hwn ſydd cyn-ddrŵg yn treſnu ei fwrîad ei hûn.

Cymmorth yn erbyn Gwag orfoledd.

15. Chwi a welweh mor echryſlon yw 'r Pechod hwn o *Wâg-orfoledd* yn yr amnyw ffŷrdd hyn; dyfal Yſtyriad pa ûn a ddichon fôd yn ûn môdd rhagorawl i'w orchfygu, ag at hynny ſe ſydd yn angenrheidiol adchwanegu, yn *gyntaf*, wiliadwriaeth ddieſceulus trôſom ein hunain; Yſtyria 'n fanwl a wyti mewn ûn *Ddled-ſwydd Griſtianogawl* yn edrych âm Glôd gan ddynion, ag Yſtyria hefyd a wyti mewn ûn weithred ddiduedd yn ei chwennych hi yn ddirfawr, ag os canſyddi dy fôd yn tueddu at y ffordd honno, bydd wiliadwrus iawn arnat dy hûn, a phan gynnhyrfo ynot, gwrthlâdd ag attal hi yn ebrywdd, ag na oddefa iddi fôd yn ddiben o 'th weithredoedd: Ond mewn pôb pêth a berthyn i Greſydd bydded dy Ddled-ſwydd yn unig Annogaeth i ti: mewn pôb pêth annhueddol a berthyn i'th ſywyd, gâd i 'th Reſwm dy gyfarwyddo; ag er y gelli yn y pethau hynny Yſtyried tŷb dynion cymmhelled ag i ddal

ſulw

Sulw ar y rheolau o *weddeidd-dra gyffredinol*, ecto na thybia ûn amſer y tâl ûn glôd a ddigwydd i ti yn y môdd hynny ymdrech am dani: yn *nil*, goſod i fynu *amcan a diben arall* i ti dy hûn, ſef, bwriad o *foddhau* Duw; pan fyddech yn myned ynghylch rhyw bêth, Yſtyria a ydyw 'r pêth yn gymmeradwy gantho ef, ag yna ni bydd gennit mor ennyd i feddwl pa Glôd a gei gan *ddynion* oddiwrth hynny. Ag yn ddiammeu pwy bynnag a ddyfai Yſtyria o ba faint gwell yw bodloni Duw, yr hwn a ddichon roddi i ni wobr tragywyddol, na dynion, geir-da pa rai ni all bŷth wneuthur i ni leſhâad, yn ddiammeu ſe a dybia 'n rheſymmol lawn ofalu yn unig am y cyntaf. Yn *drydydd*, os canmolir di ûn amſer, na lawenhâ ormod oblegid hynny, ag na thybia ddim gwell o honot dy hûn; ond cofia, os am *Rinwedd* i 'th clodforir, mai Duw a 'i gweithredodd hi ynot, a dyro iddo ef y Gogoniant, heb dybied ûn amſer fôd ûn rhan o honi yn perthyn iti: os am ryw *Weithred annhueddol*, yna cofia na haedda hi mor Glôd, gan nad oes dim daioni ynthi: Ond os am ryw *Weithred ddrŵg* (megis ag y mae 'n gyffelypaf i 'r cyfryw rai gael ei canmol ymŷſg dynion) ſe ddyle hynny wneuthr i ti arſwydo 'n ddirfawr yn llê llawenychu, canys yna y mae 'r Gwae hwnnw a ddatcan ein Hiachawdr yn perthyn iti, *Luc* 6. 26. *Gwâe chwi pan ddywedo pôb dyn yn ddâ am danoch, canys felly y gwnaeth ei Tadau hwynt i'r gau-brophwydi*; *ag nid oes ûn* arwydd mwy o galon galed, na phan allo dynion wneuthur ei Pechodau yn achos o 'i Gorfoledd. Yn *ddiweddaf*, bydded dy *Weddi* yn gymmorth iti yn yr ymdrech ymma a 'th Lygredigaeth.

Sul VI.

16. Yr ail **Rhinwedd** yw **Llarpeidd-dra**, hyny yw, tawelwch a llonyddwch Yſpryd, yng- *Llarpeidd-dra.*

wrth-

Sul VI. wrthwyneb i gynddeiriogrwydd ag aflonyddwch Digoſaint. Fe a ellir arferu 'r *Rhinwedd* ymma naill ai tu ag at *Ddduw* neu 'n *Cymydog*. Mi a draethais yn barod am yr hwn a berthyn i *Ddduw* tan y pwngc o *Oſtyngeiddrwydd*; ag am yr hyn a berthyn i 'n Cymydog mi a draethaf rhag llaw. Cymmaint ag ſydd gennif ymma i 'w draethu am dani yw, pa fôdd y mae hi yn Ddled-ſwydd i ni ein hunain; ag y mae hi felly oblegid y *Bûdd* mawr yr ydym yn ei gael oddiwrthi; yr hyn, o wîr garedigrwydd i ni ein hunain, ſydd raid i ni edrych am dano: Ag er mwyn profi fôd hyn yn dwyn i ni *Fûdd* mawr, nid rhaid i mi ddywedyd dim ychwaneg na darfod i Griſt addaw Bendith i 'r Addfwynder ymma, *Mat.* 5. 5. *Gwyn eu bŷd y rhai addfwyn*, nid yn unig yn y bŷd a ddaw, ond yn hwn hefyd, canys *hwy a feddiannant y Ddaiar.* Yn wîr, nid oes nêb ond y rhai *addfwyn* yn gwîr feddiannu dim yn y bŷd, oblegid fôd y rhai ffromm digllon yn debyg i bobl gleifion, y rhai nid ydynt yn mwynhau 'r hawddfyd mwyaf: canys er tecced a fô pôb pêth oddiallan nhw a godant gythryfwl o fewn ei mynwes ei hunain. Ag yn ddiammeu, pwy bynnag a ddalio Sulw ar aflonyddwch y wŷn ymma o Ddigllonrhwydd naill ai yntho ei hun, ai mewn rhai eraill, nid all ef lai na chydnabod mai pêth hyfryd iawn yw *Llaryeidd-dra.*

Y Neſhâd o honi.

17. Heb law hynny, y mae hi yn bêth traanrhydeddus, oblegid wrth hynny 'r ydym yn Tebygu i Griſt, *Dyſcwch gennifi*, medd ef, *am fy môd i yn fwyn ag yn oſtyngedig o galon*, Mat. 11. 29. Trwy hon hefyd yr ydym yn cael yr oruchafiaeth arnom ein hunain, ag yn cefni ein gwŷniau afreolus, yr hyn yw 'r Oruchafiaeth fwyaf ag anrhydedduſaf. Yn *ddiwedd*

af,

af, hon ſydd yn gwneuthur i ni ein hymddwyn Sul VI.
ein hunain fal dynion, ond mae digofaint yn ein gwneuthur ni yn nawſ-wyllt ag yn greulon fal Bwyſtfilod Gwylltion. Ag yn ol hynny y mae 'r naill yn cael parch a Chariad, a'r llall Gaſineb ag atgaſrwydd, gan fôd pawb yn gochelyd dŷn gwyllt fal anifail cynddeiriog.

18. Tracheſn, *Addfwynder*, yw Sobrwydd y meddwl, ond digllonrhwydd yw llŵyr-gynddeiriogrwydd; y mae 'n hollawl yn gofod Dyn allan o'i allu i hûn, ag i wneuthur y cyfryw bethau ag y bô arno i hûn, yn ſobr, gywilydd o'i plegid; pa. ſawl ûn a wnaeth y cyfryw bethau yn ei gynddeiriogrwydd, am ba rai y bû edifar ganddynt tros ei holl fywyd ar ôl hynny? Ag am hynny yn ddiammeu y mae'r Rhinwedd ymma o *Addfwynder* yn myned tu hwynt mewn *Anrhydedd* i Ddigllonrhwydd, cymmaint ag y mae dŷn yn anrhydeddufach nag anifail, neu ŵr ſobr pwyllog na meddwyn cynddeiriog.

19. Heb law hyn, mae *Addfwynder* yn gwneuthur pôb cyflwr yn hawdd ei oddef. Y mae 'r nêb ſydd yn cyd-ddwyn a thrueni yn llaryaidd, yn ei ddi finio ef fal na allo mo'i archolli; ond y mae 'r nêb a fô yn brawychu ag yn ymgynddeiriogi am hynny, yn ei hogi, ag yn ei wneuthur yn llymmach nag y bydde; jê, mewn rhai pethau y mae 'n gwneuthur *hynny* felly, yr hyn oni bae hynny ni bydde felly ddim; megys mewn *Geiriau gwradwyddus*, y rhai ni ddichon wneuthur i ni ddim niwed ynddynt ei hunain, nid ydynt nag yn briwo'n Cyrph, nag yn lleihau ein Golud; yr unig ddrŵg a allant ei wneuthur i ni yw, ein gwneuthur ni yn ddigllon, ag yna fe ddichon ein Digllonrhwydd wneuthur i ni lawer o ddrŵg ychwaneg. Ond nid yw'r ſawl a êlo heibio iddynt yn *addfwyn*

ddim

Sul VI. ddim gwaeth erddynt, jê, yn hyttrach yn well; canys ſe a gaiff y cyfryw wobr gan Dduw am yr *Ammyneddau* hwnnw. Llawer ychwaneg a ellid ei draethu er mwyn canmol y Rhinwedd hon i ni oblegid ein *Bûdd preſennol ein hunain*, ond yr wyſi'n meddwl fôd hyn yn ddigon i annog dynion i dybied yn barchus o honi. Anhawſâch o lawer yw dwyn i'w harferu hi y ſawl ſydd yn lled-rithio rhyw Rwyſtrau yn ardymmyr natûriol y Corph, a'r cyffelyb; etto yn ddiammeu nid oes nêb o dymher mor *Nawſwyllt*, na welei, os ſe a oſodai yn ddiwyd ynghylch hynny, nad yw ammhoſſibl mewn rhyw feſur eu gorchſſygu hi: ond rhaid iddo fôd yn ddi-eſceuius yn arferu'r moddion i'r diben hwnnw. Y mae amryw o'r moddion hynny, ni thraetha'i ond am ychydig o honynt.

Y moddion o'i chael. 20. Megys, yn *gyntaf*, argraffu 'n ddwys yn ein Calonnau a'n meddyliau brŷdferthwch a Bûdd Llaryeidd dra, ynghyd ag anharddwch a di-leſhâad Digoſaint. Yn *ail*, goſod Siampl Criſt o'n blaen, yr hwn a oddefodd bôb dirmyg, iê, ag arteithiau yn ammyneddgar iawn, yr hwn a *arweinwyd fal Dafad i'r lladdfa*, Eſai 53. 7. *Yr hwn pan ddirmygwyd, ni ddirmygodd eilwaith, pan ddioddefodd, ni fygythiodd*, 1 Pet. 2. 23. Ag os dioddefodd *Arglwydd y Gogoniant* fal hyn yn Addfwyn ag yn ddi-achos gan ei greaduriaid ei hûn, a pha wyneb y gallwn ni bŷth gwyno am ûn cam a wnelir i ni? Yn *drydydd*, bôd yn wiliadwrus iawn i rag-flaenu dechreuad Digoſaint, ag i'r diben hwnnw marwhâu pôb *cyndynrhwydd* ag *anynadrwydd* y meddwl; yr hwn ſydd yn bechod yntho'i hûn er nad êlo ddim pellach, eithr a ſydd ſŵr, os achleſir ef, o dorri allan i effeithiau hynod o Ddigoſaint. Pan ganſyddoch di gan hynny ei gynnhyrfiad lleiaf

ef

ef ynot, bŷdd mor bryſſur i'w yſdwrdio ag i'w attal ag a fyddit i ddiffodd Tân yn dy *dŷ*; ond edrych yn ddyfal rhag dwyn o honot danwydd atto, trwy groeſawu dim meddyliau a ddichon ei adchwanegu. Ag yn enwedig ar y cyfryw amſer cadw wiliadwraeth gaeth ar dy dafod, rhag iddo dorri allan i eiriau digllón, canys ſe chwytha'r Awel hwnnw'r Tân, nid yn unig yn dy wrthwynebwr, ond ynot dy hún hefyd; am hynny er bôd dy galon yn boeth oddi-fewn, taga'r fflamm, ag na ad iddi dorri allan; a phe mwyaf a fo'r Broſedigaeth, derchafa yn fwy difrifol dy galon at Dduw ar fôd iddo ef dy gynmorth di i'w gorchfygu. Yn *bedwerydd*, Coſia yn fynych pa goſpedigaethau tymmion a haeddodd dy Bechodau di, ag yna, byddant oddiwrth Dduw neu ddŷn, ti a gydnabyddi ei bód yn fyr iawn o'th Haeddedigaeth, ag am hynny a gywilyddi fôd yn anfoddog o'i plegid. Sul VI.

21. Y *drydedd Rinwedd* yw **Yſtyriaeth**, a hon mewn môdd enwedigol ſydd yn ddledus arnom i'n Heneidiau. Canys heb hyn ni a'i rhuthrwn hwynt (fal y bydd pobl chwidr byrbwyll yn arfer o wneuthur) i beryglon aneirif. Y mae'r *Yſtyriaeth* ymma naill ai o'n *Hyſtâd* neu o'n *Gweithredoedd*. Trwy'r gair hwn (*Yſtâd*) yr wyf yn meddwl béth yw ein cyflwr ni tu ag at Dduw, pa ûn ydyw ai bôd yn gyfryw ag y gallwn ddywedyd mewn Rheſwm ein bód ni yn ei ffafor ef. Y mae'n ſefyll arnom yn ddirfawr Yſtyried a phroſi hyn, a hynny nid trwy'r rheolau hawdd hynny y bŷdd Dynion yn barod i'w cymmhwyſo iddynt ei hunain, megys, pa ûn ai a ydynt hwy'n Credu ddarfod i Griſt farw tros ei pechodau hwynt, neu a ydynt hwy o nifer yr Etholedigión, ag a fyddant yn ddiammeu yn gadwedig; os y rhai hyn neu 'r cyffclyb fydde 'r *Yſtyriaeth.*

Or Cyflwr.

Sul VI. cwbl a ddiſgwylid i'n goſod ni mewn ffafor Duw, ni bydde néb allan o honi oddigaeth rhyw ùn athriſt meddylgar; Canys yr ydym yn gyffredinol yn barod iawn i gredu yn gyffurus am danom ein hunain. Ond y rheolau a roddodd Duw i ni yn ei Air yw, y rheini trwy ba rai y bŷdd raid ein profi ni y dŷdd diweddaf, ag am hynny yn ddiammeu yw'r unig rai ſicer i ni i'n profi ein hunain wrthynt yr awrhon. A Sylwedd y rhai hynny yw, mai pwy bynnag a barháo mewn *néb-rhyw Bechod o'i wirfodd*, nid yw hwnnw yn ei ffafor ef, ag os bydd efe *marw* felly nid gwiw iddo ef ddiſgwyl am drugaredd ar ei law ef.

Y rheol i brofi'n Cyflwr wrthi.

22. Yn awr, y mae 'n dra-angenrheidiol i ni yſtyried beth yw ein cyflwr ni yn hyn o beth; canys gan nad yw 'n bywyd ni ddim ond Awel o wynt yn ein ffroenau, yr hwn, am a wyddom, a ddygir oddiarnom y munudyn neſſaf, ſe a berthyn i ni yn ddirfawr wybod pa ſôdd yr ydym gwedi ein paratòi tú ag at fŷd arall, fal os oes arnom eiſiaú yr awrhon yr Olew hwnnw yn ein Lluſernau a pha ùn y dylem gyfarfod y Priod-fab, *Math.* 25. 8. y bô i ni ei geiſio ef mewn prŷd, ag nid o'i ddiffyg ef cael, fel y morwynion angall, ein Càn allan am bŷth o'i breſennoldeb ef. Eſgeuluſo'r *Yſtyriaeth* ymma a ddiſtrywiodd lawer o Eneidiau; rhai trwy gredu yn rhŷ hygoel ei bôd mewn cyflwr da, heb yſtyried na 'i Profi ei hunain wrth y Rheol o'r blaen; eithr rhyfygu naill ai ar ryw weithred wael oddiallan, neu ar y cyfnyw gaù ffŷdd ag a draethais i am dani yr awrhon; eraill trwy fyned ymlaen yn ddi-ofal, heb gymmaint ag ymorol beth yw ei cyflwr, ond yn gobeithio y digwydd iddynt hwy yn gaſtal ag i'w Cymydogion, ag felly heb edrych bŷth ymmhellach; yr hwn ddi-ofalwch ech-

Y perigl o Anyſtyriaeth.

ryſlon

ryſlon a ddeſtrywia'r cyflwr Yſprydol, cyn ſiccred ag y gwnâ 'r cyffelyb i'r Amſerol; etto yn y cyflwr amſerol ymma y mae pôb dŷn yn ddigon doeth i rag-weled, fód y nêb nid yw ûn amſer yn cymmeryd cyfrifon o'i gyflwr i weled a ydyw ef yn talu dim ai peidio, yn ſiccr o fód yn gardottyn yn y diwedd: Ond yn y pêth ymma yr hwn ſydd ſwy pwyſawr o lawer, ni a fedrwn yn gyffredinol fód yn ddi-ofal ag yn eſgeulus. Sul VI.

23. Yr *ail* pêth i ni i'w *Yſtyried* yw, ein *Gweithredoedd*, a hynny naill ai *cyn* neu *Gwedi* eu gwneuthur hwynt. Yn *gyntaf*, rhaid i ni yſtyried ymlaen llaw, na wnelom ddim yn ehud nag yn fyrbwyll; ond yn *gyntaf*, ymgynghori a'n Cydwybodau a'r dyw'r peth yn gyfreithlawn i'w wneuthur, canys, y nêb a ddilyno ei ffanſi a'i ogwyddiad ei hûn, ag a wnelo bôb bêth y bò 'rheini yn ei gynnhyrfu ef iddo, a fydd ſiccr o fyrthio i liaws o Bechodau. Am hynny yſtyriwch yn ddifrifol, a byddwch ſiccr o fód y pêth yn gyfreithlon cyn i chwi feiddio ei wneuthur. Fe a gyfrifir yr ymgynghoriad hwn mewn pôb pethau bydol yn rhan o Ddoethineb mor angenrheidiol nad ydys yn cyfrif neb yn ddoeth hebddi; yr ydym yn edrych ar ddŷn byrbwyll megys y rádd neſſaf at ûn gwallgofus: Ag etto yn ddiammeu, nid oes gymmaint o achos i edrych o'n hamgylch mewn dim ag yn y peth a berthyn i'n Heneidiau, a hynny nid yn unig o herwydd ei pris mawr hwynt uwchlau pôb pethau eraill, ond hefyd oblegid y Perigl mawr y maent yntho, fal y dangoſwyd yn helaeth yn nechreu'r Traethawd ymma. *Ein Gweithredoedd.* *cyn ei gwneuthur.*

24. Yn *ail*, rhaid i ni hefyd *Yſtyried* ein Gweithredoedd gwedi iddynt *fyned heibio*, hynny yw, rhaid i ni holi ag ymofyn a oeddynt hwy, yn gyfryw ag ſydd yn gymmeradwy trwy Gyfrei- *Gwedi ei gwneuthur hwynt.*

Sul VI. thiau Criſt. Y mae hyn yn dra angenrheidiol pa un bynnag fyddont ai dà ai drŵg; os dà fyddant, y mae ei hail-goffháad hwynt yn ein helpu ni i gyſſur *Cydwybod ddâ*, ag y mae'r cyſſur hwnnw dracheſn yn rhòi calon ynom i wneuthur felly rhag-llaw; ag heb law hyn, y mae hynny yn ein cyffròi ni i roddi diolch i Dduw, trwy râs pa ûn yn unig i'n nerthwyd i'w cwplhau hwynt. Ond os drŵg ydynt, yna yn enwedig y mae'n angenrheidiol i ni fal hyn ei profi hwynt, oblegid heb hynny ammhoſſibl yw i ni byth wellhau; canys oddigaeth i ni yſtyried i bôd hwynt ar fai, ni thybiwn ni byth yn angenrheidiol i ni wellhau, ond ni a redwn ymlaen yn waſtad o'r *naill ddrygioni i'r llall*, yr hyn yw'r ſelldith fwyaf a ddichon ddigwydd i ddŷn.

Mynych Yſtyried. 25. Pe mynychaf gan hynny yr arferom yr *Yſtyriaeth* ymma goreu a fŷdd; oblegid anghyffelyppaf a fydd i'r ûn o'n Pechodau ni ochelyd ein gwybodaeth. Peth dymunol iawn yw fód i bôb dŷn fal hyn *brofi bôb nôs weithredoedd y Dŷdd*, môdd y gallo ef, os gwnaeth ddim ar fai, yn ebrwydd ei geryddu ei hûn am hynnu, a llawn-fwriadu yn ei erbyn, héb gynnwys iddo gynyddu i gynnefindra ag arfer: ag er mwyn iddo heſyd erſyn maddcuant gan Dduw mewn prŷd, yr hwn pe cyntaf y gofynnir hawſaf y ceir, gan fôd pôb oediad o hynny yn adchwanegu'r pechod yn ddirſawr. Ag yn ddiammeu, pwy bynnag ſydd yn amcanu cymmeryd cyſrif o hono ei hûn, a genfydd mai hon yw'r ffordd eſmwythaf, gan fód yn hawſach gwneuthur hynny o feſur ychydig, a thra y bô pethau'n ddà yn ei gôf, nag i wneuthr i ſynu gyfrifon hîr o amſer ar ûnwaith. Yn awr os yſtyrir fôd yn rhaid edifarhau yn neillduol am bôb pechod rhyſygus cyn y maddeuir ef, mi debygwn y dyle dynion artwydo

yn

yn fawr gyſcu heb yr edifeirwch hwnnw; canys pa ſiccrwydd ſydd gan ûn dŷn ar ſydd yn gorwedd yn ei wely y cyſyd ef hyth drachefn? ag yna mor beryglus yw cyflwr y dŷn hwnnw yr hwn ſydd yn cyſgu mewn pechod heb edifarhau am dano? Dwys-yſtyried yr amryw Annogaethau hyn a ddichon fód, trwy fendith Duw, yn foddion o'n dwyn ni i ymarfer y Ddled-ſwydd hon o *Yſtyriaeth* yn ei holl Rannau. Sul VI.



SUL

Sul VII

SUL VII.

Am Fodlonrhwydd, a'r pethau Gwrthwyneb i hynny; Grwgnach, Traha, Cybydd-dod, Cenſigen: Cymmorth i Fodlonrhwydd; am Ddledſwyddau a berthyn i 'n Cyrph; am Ddiweirdeb, &c. *Cymmorth i hynny; am Gymmedrolder.*

Bodlonrhwydd.

1. Y Bedwerydd *Rinwedd* yw *Bodlonrhwydd*, ag y mae hon yn Ddledſwydd arnom tu ag attom ein hunain, gan nad yw boſſibl i ni fôd yn ddedwydd hebddi. Y *Rhinwedd* ymma yw cwbl-fodlonrhwydd i'r cyflwr hwnnw, bêth bynnag fytho, y gwelodd Duw yn ddâ ein ſyſydlu ni yntho, heb rwgnach am ein cyflwr, eithr croeſawu 'n ewyllyſgar pa beth bynnag a ddanfono Duw. Fe ellir gweled mor *fawr* ag mor *byſyd* yw 'r Rhinwedd ymma, wrth yſtyried cynnifer o feiau dirfawr a phoenus y mae hi yn ei gwrthwynebu; yn gymmaint a llè y bô hon gwedi ei gwreiddio yn y Galon, nid yw hi yn unig yn gorchfygu rhyw un pechod neillduol, eithr lliaws o honynt ar unwaith.

Yn wrthwynebus i Rwgnach.

2. Ag yn gyntaf, y mae hi 'n wrthwynebus i bôb *Grwgnach* yn gyffredinol, yr hwn ſydd yn bechod câs iawn gan Dduw, fel y mae 'n eglur trwy ei gospedigaethau *tôſt* êf ar yr *Iſraeliaid* yn yr anialwch am dano, megys y mae i chwi iw ddarllen mewn amryw fannau o Lyfr *Exodus* a *Numeri*. Ag yn ddiammeu y mae heſyd yn flin iawn ag yn ofidus i ddŷn ei hûn; oblegid

os,

os, fal y dywed y *Pſalmydd, pèth hyfryd a llawen i'w talu dioleh*, y mae 'n hynod iawn o 'r tu arall mai pêth trîſt ag anhyfryd yw *grwgnaeh*; ag nid wyfi 'n ammeu na chadarnhâ pôb dyn trwy ei wybodaeth ei hûn y Gwirionedd o hyn. Sul VII

3. Yn *ail*, mae 'r *Rhinmedd* ymma yn wrthwynebus i *Draha*; mae 'r dŷn trahaus yn waſtad yn *anfodlon* i 'w gyflwr preſennol, a hynny a wnâ iddo mor awyddus geiſio yn uwch; ond mae 'r ſawl ſydd yn fodlon i 'w gyflwr ei hûn yn gorwedd yn llonydd ag yn heddychol allan o lwybr y broſedigaeth hon. Yn awr, nid yw *Traha* yn unig yn bechod mawr ynthoʼ i hûn, eithr y mae'n goſod dynion ar lawer o rai eraill; nid oes dim mor echryſlon na ſeiddia 'r neb a fo 'n dra-chwannog yn ceiſio Mawredd ei wneuthur; dywedyd Celwydd, tyngu anudon, llofruddio, neu ûn drŵg arall a wnâ fo 'n hyllaw, os bydd hynny tebyg i dueddu tu ag at ei Dderchafiad ef: ag y mae ei ffinder ef yn gyfattebol i'r Pechod; hyn ni ammheua nêb os yſtyria pa liaws o arſwydau ag eiddigeddau, gofalon a chythryddau ſydd yn dilyn *Traha* 'n waſtad, heb law 'r adwyth a 'r tramgwyddiadau dirfawr a chyhoeddus ſydd gan mwyaf yn digwydd iddo yn y diwedd. Yn ddiammeu gan hynny, mae Bodlonrhwydd oblegid hyn yn gyſtal yn Ddedwyddwch ag y mae yn Rhinwedd. *I Draha.*

4. Yn *drydydd*, y mae Bodlonrhwydd yn wrthwynebus i *Gybydd dod*; hyn y mae 'r Apoſtol yn ei dyſtiolaethu, *Heb.* 13. 5. *Bydded eich ymarweddiad yn ddi-ſerch i arian, gan fôd yn fodlon i'r hyn ſydd gennych*; lle y gwelwch ei fôd ef yn goſod Bodlonrhwydd yn union yngwrthwyneb i Gybydd-dod. Ond o hyn nid rhaid wrth ûn profiad ymmhellach na chyfarwyddyd gyffredinol; canys ni a welwn nad yw 'r Cybydd *I Gybydd-dod.*

ûn

Sul VII ûn amſer yn gweled fôd gantho ddigon, ag am hynny ni ddichon fyth fôd yn fodlon; oblegid nid ellir dywedyd fôd nêb felly a'r ſydd yn hiraethu am ryw beth nid oes gantho. Yr awrhon, er mwyn i chwi weled mor rhagorol ag angenrheidiol yw'r *Rhinwedd* ymma yr hon ſydd yn ein diogelu ni yn erbyn Cybydd-dod, ſe dydd yn gymmwys yſtyried ychydig natur y Pechod hwnnw.

Cybydd-dod yn wrthwynebus i'th Dyledſwydd i Ddûw.

5. Yn ddiammeu mae hwn yn ſai dirfawr, oblegid ei fôd yngwrthwyneb i ſylfaen pôb buchedd ddâ; ſef, y *tair Dled ſwydd ddirfawr* hynny, i *Ddûw*, i ni ein *Hunain*, a'n *Cymydogion*. Yn *gyntaf*, y mae mor wrthwynebus i'n Dledſwydd i *Ddûw*, a bôd Criſt ei hûn yn dywedyd i ni *Luc.* 16. 13. *nad allwn waſanaethu Duw a Mammon*: rhaid yw i'r ſawl a ofod ei Galon ar olud, ei thynnu hi ymmaith oddiwrth Dduw. A hyn a welwn beunydd yn ymarfer y *Cybydd*, y mae ef mor dra chwannog ag awyddus i ennill Cyfoeth nad oes gantho ddim amſer na gofal am gwplhau ei Ddled ſwydd i Dduw; os daw ond marchnad ddâ yn ei ffordd ef, neu ryw odfa ô elw, rhaid yw eſgeuluſo *Gweddi* a phôb Dled ſwyddau Creſyddol er mwyn cynlliwyn hynny. Iê, os bydd ef tebyg i ennill neu i faſio dim iddo ei hûn trwy wneuthur y pechod mwyaf yn erbyn Duw, y mae ei ſerch ef ar olud yn ebrwydd yn ei annog i hynny.

I ni'n hunain.

6. Yn *ail*, y mae 'r pechod hwn yn wrthwynebus i'r Ddlêd-ſwydd arnom i ni ein *Hunain*; a hynny yn gyſtal i'n Heneidiau ag i'n Cyrph. Y mae 'r Cybydd yn diyſtyru ei Enaid ag yn ei gwerthu hi am ychydig Elw i ddiniſtr tragywyddol: canys felly y mae pawb yn gwneuthur ar ſydd yn ceiſio trwy ryw foddion anghyfreithlon ei gyfoethogi ei hunain; iê, er na wnelo

wnelo hynny trwy foddion anghyfreithlon, etto os ese unwaith a oſododd ei galon ar olud, ese yw'r Cybydd hwnnw am ba ûn y traethodd yr Apoſtol, *na chaiff ef feddiannu Teyrnas Dduw*, 1 Cor. 6. 10. Ag nid ydyw ef yn unig yn troſſeddu yn erbyn ei Enaid, ond ei Gorph heſyd; oblegid y mae ef yn fynych yn neccau iddo ef ei gynhaliaeth angenrheidiol, or mwyn pa ûn (yn gymmaint ag y perthyn iddo ef) y rhoddwyd iddo 'i olud. Y mae hyn mor ddibaid yn arfer y crib-ddeiliaid cyſoethogion nad rhaid i mi broſi hyn i chwi. Sul VII

7. Yn *drydydd*, y mae *Cybydd-dod*, yn wrthwynebus i'r Ddlêd arnom i'n *Cymydogion*. A hynny yn y ddwy Ran o honi, ſef, Cyfiawnder, a Chariad: y néb ſydd yn Caru arian yn anghymmedrol, ni waeth gantho ef pwy a dwylla ag a ſiomma, am y dycco Elw iddo ei hun: ag o hyn y mae 'n tarddu 'r amryw ddichellion hynny o dwyll a hocced ar ſydd mor gyffredinol yn y bŷd. Ag am *Gariad*, nid yw béth i'w ddiſgwyl gan Gybydd, yr hwn ſydd yn arſwydo yn fwy leihau ei bentwrr ei hun na newynu ei frawd anghenus. Chwi a welwch pa bechod dirfawr yw hwn, ſal y gallwn ddywedyd yn ddâ gyda 'r Apoſtol, 1 Tim. 6. 10. *Mai gwreiddin pób drûg yw arian garwch.* Ag nid yw fawr lai *aneſmwyth* na *drûg*; oblegid rhwng y gofal yn ceiſio a'r ofn o golli, nid yw'r Cybydd yn mwynhau ún awr o Eſmwythdra. Y mae 'n ſeſyll yn fawr gan hynny ar bob dŷn, megys ag y mae yn chwennych dedwyddwch naill ai yn y bŷd hwn ai'r neſſaf, ei amddiffyn ei hun rhag y pechod hwn, yr hyn ni ddichon ef mewn módd yn y bŷd ei wneuthur onid trwy ſeddiannu ei galon a'r Rhinwedd ymma o Fodlonrhwydd. *I'n Cymydogion.*

Sul VII *Bodlonrhwydd yn wrthwynebus i Genfigen.*

8. Yn *bedwerydd*, y mae'r Rhinwedd ymma yn wrthwynebus i *Genfigen*, canys nid oes gan y nêb ſydd yn fodlon i'w gyflwr ei hûn ûn demtaſiwn i *genfigennu* eraill: Mi a ddangoſaf rhag llaw mor *anghriſtiannogaidd* yw'r pechod hwn o *Genſigen*: yn y cyfamſer, nid rhaid i mi ddywedyd dim ychwaneg na'i fôd ef hefyd yn ûn *tra-aneſmwyth*, y mae yn cnôi ag yn cythruddo calon y nêb a'i llocheſo. Ond pe gwaethaf yw'r pechod hwn, mwy rhagorol fyth yw'r grâs ymma o Fodlonrhwydd, yr hwn ſydd yn ein rhyddhau ni oddiwrtho. Yr wyfi'n meddwl ddarfod i mi ddywedyd digon i wneuthur i chwi dybied hon yn Rhinwedd hawddgar a dymunol. Ag yn ddiammeu ni bydde ammhoſſibl i neb ei hennill hi a Yſtyria ond yr ychydig reolau hyn.

Cymmorth i Fodlonrhwydd.

9. Yn *gyntaf*, Yſtyried, beth bynnag yw'n ſtâd a'n cyflwr, mai hynny a ordeinwyd i ni gan Dduw, ag am hynny ſydd yn ddiau yn oreu i ni, gan y dichon ef yn well farnu troſom ni, na nyni troſom ein hunain; ag am hynny, anfodloni i'r peth yw cyſtal a dywedyd ein bôd ni yn ddoethach nag ef. Yn *ail*, Yſtyriwch yn ddyfal wagedd pôb pethau bydol, leied ſydd ynddynt tra y byddont gennim, ag mor an-niogel ydym o'i cadw hwynt; eithr uwchlaw'r cwbl, leied a dalan 'hw i ni yn nydd Angeu neu'r farn, ag yna nid elli di dybied y tâl yr ûn o honynt ei dymûno, ag felly ni byddi anfodlon o ran bôd arnat ei heihau hwynt. Yn *drydydd*, na oddefa i'th feddwl redeg ar y pethau nid oes gennit: y mae llawer gwedi ei gofod ei hunain allan o gariad a'r peth ſydd ganddynt, yn unig wrth feddwl am y peth nid oes ganddynt. Y mae'r nêb a welo ryw bêth ym meddiant ei gymydog nad oes gantho ef ei hûn,

yn

yn barod i ſeddwl mor ddedwydd a ſydde ef, pe byddei ynghyflwr y dŷn hwnnw, ag yn y cyfamſer heb ſeddwl am ſwynhau ei eiddo i hûn, yr hwn yſgatſŷdd mewn amryw ffyrdd ſydd yn ddedwyddach na'r cyflwr hwnnw o eiddo'i Gymydog, yr hwn y mae ſo cymmaint yn ei chwennych. O herwydd, nid ydym yn edrych ond ar y *tû allan* o gyflwr rhai eraill, ag y mae gan lawer dŷn, yr hwn a genfigennir gan ei gymydogion megys ûn dedwydd anſeidrol, ryw *gythryfwl dirgel* yr hwn a wnâ iddo dybied yn amgen o lawer am dano ei hûn. Am hynny na chyſtadla ûn amſer mo'th gyflwr mewn dim a'r rhai a dybioch di ei bôd yn fwy llwyddiannus na thi dy hûn, eithr yn hytrach gwnâ hynny a'r rhai a wyddoſt ei bôd yn fwy annedwydd, ag yna ti a ganfyddi achos i ymorfoleddu oblegid dy gyfran dy hûn. Yn *bedwerydd*, Yſtyria belled yr wyti oddiwrth haeddu dim dâ gan Dduw, ag yna nid elli lai na chydnabod gydâ *Jacob*, Gen. 32. 10. *Nad wyti deilwng o'r lleiaf o'r Trugareddau hynny yr wyti'n ei mwynhau*; ag yna yn llê grwgnach nad ydynt hwy yn ychwaneg, ti a ganfyddi achos i ryfeddu ag i foliannu haelioni Duw, am ei bôd fal y mâent. Yn *bummed*, Myſyria yn fynych ar y llawenydd a oſodwyd i fynu i ti yn nefoedd; edrych ar y Nêf megys dy gartref, ag a bŷd hwn ond yn unig megys *Llettŷ*, llê y mae 'n rhaid i ti gymeryd i fynu yn dy ymdaith; ag yna, megys na ddiſgwylia Ymdeithudd yr unrhyw gyfleuſdra mewn Lettŷ ag yn ei gartref, felly y mae i tithau achos i ymfodloni i ba letteugarwch bynnag a geffych di ymma, gan wybod dy fôd ar dy daith i lê o *happuſrwydd annherfynol*, yr hwn a dâl hyd adref am yr holl aneſmwythdra a'r helbul a elli di ei ddioddef ar y ffordd. Yn *ddiwedd*

Sul VII.

Sul VII. *af*, Gweddiâ ar Dduw, oddiwrth ba ûn y mae pôb peth dâ yn dyfod, ar fôd iddo ef adchwanegu at ei holl Fendithion eraill hon o feddwl bodlongar, heb ba ûn nid elli byth archwaethu yr ûn arall fal y dylech.

Diwydrwydd. 10. Y *Bummed* Ddled fwydd yw, **Diwydrwydd**, yr hon a wneir i fynu o ddwy ran, ſef, *Gwiliadwriaeth*, a *dyfalwch*, ag y mae pôb ûn o'r rhain yn ddledus arnom i'n Heneidiau.

Gwiliadwriaeth yn erbyn Pechod. 11. Yn gyntaf, *Gwiliadwriaeth*, yn Yſtyried pôb peryglon a'i Bygythia hwynt. Yr awrhon, yn gymmaint nad oes dim a ddichon beryglu ein Heneidiau ni ond Pechod, rhaid yw arferu'r *Wiliadwriaeth* hon yn bennaf yn erbyn hwnnw: Ag megys mewn *Dinas warchaedig*, yno y mae'n angenrheidiol cadw'r Wiliadwriaeth gadarnaf llê y bo'r rhan wannaf; felly y mae ymma, pa le bynnag y gweli fôd dy dueddiadau gyffelypaf i'th fradychu i bechod, yno yn enwedig y mae'n ſefyll arnat fôd yn *Wiliadwrus*: Yſtyria gan hynny yn ddiwyd i bâ *bechodau* y mae naill a'th dymmer naturiol, dy gyfeillach, neu dy ddull o fuchedd yn enwedigol yn dy ddenu di, a *gwilia* arnat dy hûn yn fanwl iawn yn y rhai hynny. Etto na oſod mo'th holl ofal ar y rheini felly ag i th adael dy hûn yn agored i rai eraill, canys ſe a rŷdd hynny gymmaint mantes i *Satan* o'r tu arall; eithr bydded dy *Wiliadwriaeth* yn gyffredinol, yn erbyn pôb rhyw bechod, ond yn fwy enwedigol yn erbyn y cyfryw rai ag a fô tebyg i'th gynllwyn fynychaf.

Dyfalwch yn adchwanegu Doniau. 12. Yr ail rhan o *Ddiwydrwydd* yw, *Dyfalwch* neu *Lafur*, a hyn hefyd ſydd yn ddledus arnom i'n Heneidiau, oblegid heb hyn nhw a ffynnant cyn lleied a gwinllan y dŷn diôg, am ba ûn y traetha *Solomon*, *Dihar.* 24. 30. Canys y mae hwſmonaeth o'r Enaid, yn gyſtal ag o'r Eſtâd,

a

a diben y naill, megys ag o'r llall, yw adchwanegu ei golud. Yr awrhon, y mae golud yr Enaid naill ai yn Naturiol, ai yn Ddifynyddiol. Y Naturiol, yw Grym a gallu Rheſwm, megys Synwyr, côf, a'r cyffelyb, y Difynyddiol yw, Gràſau Duw, y rhai ni pherthynant i'r Enaid trwy Natur, eithr a roddir yn ddi-gyfwng gan Dduw ei hún; ag mae'n rhaid i ni ofalu am wneuthur y defnydd goreu o bób ún o'r rhain, gan ei bód hwynt yn Dalentau a ymddiriedwyd i ni i'r diben hwnnw. Sul VII.

13. Y ffordd i wellhau y rhai *Naturiol* yw, trwy ei harferu hwynt yn y modd a ddygo fwyaf ò ogoniant i Dduw: ni waſanaetha i ni adael iddynt orwedd yn Segur yn ein hymyl trwy Syrthni, nag ychwaith ei gorchfygu hwynt trwy Anghymmedrolder, a phleſerau aniſeiliaidd, fal y gwnâ gormod; ond rhaid i ni ei harferu hwynt a'i goſod ar waith. Ond gwiliwn rhag bôd hynny yngwaſánaeth y Cythrael; ſal llaweroedd, y rhai fydd yn unig yn arferu ei ſynwyr i halogi Enw Duw, neu i dwyllo ei Cymydogion, neu i lenwi ei coffadwriaeth a'r cyfryw afiendid na ddyle fôd unwaith yn ei meddyliau; ſe ddyle ein harfer ni o honynt ſód yn gyfryw ag a fó tebyccaf i ddwyn mwyaf o ogoniant i Dduw, mwyaf o Fûdd i'n Cymydôgion, ag a'n cymhwyſa ni oreu i wneuthur ein cyfriſon, pan ddelo Duw i gyfriſ a ni am danynt. *Natûr.*

14. Ond mae y rhan arall o gyfoeth yr *Enaid* yn werthfawroccach etto, ſef, *Gràs*, am ba ûn y mae'n rhaid i ni ſôd yn bendifaddeu yn ofalus ar ei hwſmonaethu a'i adchwanegu: Dled-fwydd yw hon a orchymynnir i ni yn bendant gan yr Apoſtol, 2 *Pet.* 3. 18. *Cynnyddwch mewn Gràs*, a thracheſn, *Pen* 1. 5. *Rhoddwch bôb Diwydrwydd i gyſſylltu ar ffydd Rinwedd, ar rinwedd* *Gràs.*

Sul VII. *wedd Wybodaeth*, &c. Yn awr, y mòdd goreu i *gynnyddu* Grâs yw, ei *arferu* hi; hynnu iw, gwneuthur y pethau hynny, er mwyn ein ablhau ni i wneuthur pa rai y rhoddwyd Grâs ini. Mae hwn yn ſòdd ſicr, nid yn unig oblegid yr eſmwythdra, y mae arfer o ryw bêth yn ei dwyn tú ag at ei wneuthur, ond yn enwedig, megys y mae iddo addewid Duw, yr hwn a addawodd, *Math.* 25. 29. *i bôb ûn y byddo ganddo* (hynny yw, a wnelo ddeunydd o'r péth ſydd ganddo) *y rhoddir, ag efe a gaiff helaethrwydd*; Y neb a arfero yn ddiwyd ag yn ffyddlon y dechreuad cyntaf o *Râs*, a gaiff etto ychwaneg; ag felly, yr hwn hefyd a hwſmonaetho'r ychwaneg hynny, a gaiff râdd mwy dracheſn; yn gymmaint a bôd y péth a ddywed *Solomon* am olud amſerol, yn wir hefyd am yr Yſprydol, *llaw y diwyd a gyfoetboga.*

I wneuthur y goreu o Gynhyrfiadau dâ.

15. Pa brŷd bynnag gan hynny y canſyddi ûn gynhyrfiad dâ yn dy galon, cofia mai dena 'r odfa ïr hwſmonaeth Yſprydol ymma: Os bŷdd dy gydwybod ond yn dy gyhuddo am ryw bechod y bòch di yn byw yntho, gyrr hynny ymlaen nes iddo ddyfod i gaffineb; ag yna y caffineb hwnnw, nes iddo ddyfod i lawn fwriad; ag yna o'r llawn fwriad hwnnw dôs ymlaen i ryw ymegnîad yn ei erbyn ef. Gwnâ hyn yn ffyddlon ag yn ddi-ragrith, ag yna yn ddiammeu ti a gei weled y cynnorthwya Grâs Duw dydi, nid yn unig ymmhôb ûn o'r graddau hyn, ond i'th dderchafu di etto yn uwch, nes i ti ddyfod i gael y ſuddugoliaeth arno. Er hyn i gŷd, edrych yn ofalus am adroddi at y Diwydrwydd hwn dy *Weddiau* hefyd, gan ſòd addewid y *rhŷdd Duw'r Yſpryd glan i'n ſawl a'i gofynant ef*, *Math.* 7. 11. Am hynny nid oes reſwm ïr ſawl nid ydynt yn ei ofyn mo'i

ddiſgwyl

ddiſgwyl. Ond rhaid yw ei ofyn ef a'r cyfryw ddiſrifwch ag a fô mewn rhyw fôdd yn gyſattebol i odidowgrwydd y pêth, yr hwn gan ei fôd ô aneirif yn werthfawroccach na'r holl fŷd, yn gyſtal o herwydd ei brîs ei hûn, a'i lês i ninnau, rhaid yw i ni eiriol am dano a llawer mwy o zêl a difriſwch nag am bôb Bendithion amſerol, neu ni a ymddangoſwn yn ddirmygwyr o hono. Sul VII.

16. Gan ddarfod i mi eich cyfarwyddo chwi i'r moddion o *adchwanegu Grâs*, mi a adroddaf, er mwyn eich annog i hynny, y *Perigl* mawr o'r gwrthwyneb. Ag nid yw hynny, megys mewn pethau eraill, yn unig yn golled o'r graddau úwch hynny, y rhai a gawſom trwy ein Diwydrwydd, ond y maê hefyd yn golled o'r pethau ſydd gennim yn barod; *Canys oddiar yr hwn nid oes ganddo* (hynny yw, na wnaeth Ddefnydd o'r peth ſydd ganddo) *y dygir oddiarno yr hyn ſydd ganddo*, *Matth.* 25. 29. Fe ddŵg Duw ymmaith y Grâs, yr hwn a wêl fal hyn yn cael ei eſgeuluſo, megys y gwelwn yn y ddammeg honno, llé y *cymmerwyd y Dalent oddiwrtho ef, yr hwn yn unig a'i cuddiaſe hi mewn cadach*, ag ni ddygodd i mewn ddim elw i'w *Arglwydd*. Ag y mae hyn yn goſpedigaeth traetynol, ié, 'r fwyaf a all ddigwydd i ûn dŷn cyn myned o hono i Uffern; jé, yn wîr, y mae hyn yn rhyw fâth o rag archwaethiad o Uffern, nid yw ddim llai na rhoddi ûn i fynu i allu 'r Cythraul, a'i yrru ef ymmaith o olwg Duw, yr hyn nid yw y rhan leiaf o drueni y Damnedig. Ag mae hyn hefyd yn rhwymo dŷn i fynu i gyflwr mwy echryſlon yn y bŷd a ddaw; canys dyna eithaf barn y *gwâs anfuddiol*, *Matth.* 25. 30. *Bwriwch y gwâs anfuddiol i'r tywyllwch eithaf, yno y bydd wylofain a Rhingcian dannedd.* *Y perigl o'r gwrthwyneb.*

Chwi

Sul VII. Chwi a welwch nad *perygl*on gwael ſydd yn dilyn yr eſgeuluſtra ymma o Râs, ag am hynny, os oes gennim ddim cariad, jê, na thoſturi cyffredinol i'n Heneidiau, rhaid i 'ni ymoſod ein hunain i 'r Diwydrwydd ymma. Fe ddarfu i mi bellach a'r *Rhinweddau* hynny, y rhai a berthynant i 'n **Henеidiau**, yr wyſi 'n dyfod yr awrhon at y rhai a berthynant i 'n **Cyrph**.

Diweirdeb. 17. Y *cyntaf* o ba rai yw **Diweirdeb**, neu **Burdeb**, yr hon a ellir yn ddâ ei goſod yn Nhâl-wyneb y Dledſwyddau hynny ſydd yn ddledus arnom i'n Cyrph, gan fôd yr Apoſtol, 1 *Cor.* 6. 18. yn goſod y gwrthwyneb megys yn bechod dirfawr yn ei herbyn hwynt, *yr hwn a wnâ odineb ſydd yn pechu yn erbyn ei Gorph ei hun.*

18. Yn awr, y mae 'r Rhinwedd ymma o *Ddiweirdeb* yn ſefyll mewn perffaith ymattal rhag pôb mâth a'r aflendid; nid yn unig rhag godineb a phutteindra, ond pôb rhyw fâth annaturiolach o hono a wneir naill ai a ni ein hunain, neu gyda rhyw ûn arall. Mewn gair, mae pôb rhyw Weithred o 'r cyfryw fâth yn hollawl yn erbyn *Diweirdeb*, oddieithr yn unig mewn *Priodas gyfreithlon.* Ag yno hefyd ni wafanaetha i ddynion dybied ei bôd yn rhŷdd î foddhau ei gwyniau aniſeiliaidd, ond mae 'n rhaid iddynt ei cadw ei hunain o fewn y cyfryw Reolau o Gymmedrolder ag a gyttûna a dibennion Priodas, ſef, ennill *Plant*, ag ymgadw rhag *Putteindra*; ni ddylid gwneuthr dim ar a rwyſtra y cyntaf o 'r dibennion hyn; a chan fôd yr ail yn unig yn tueddu at orchfygu trachwant, a chadw dynion oddiwrth y ffrwythau pechadurus o honi, y mae 'n wrthwynebus jawn i 'r diben hwnnw wneuthr Priodas yn achlyſur o 'i adchwanegu, a 'i enynnu.

19. Ond

19. Ond nid yw'r Rhinwedd ymma o *Ddiweirdeb* yn cyrraedd i wahardd y weithred yn unig, ond hefyd i bôb rhyw raddau îs; y mae 'n gosod gwiliadwraeth ar ein *Llygaid*, *Mat.* 5. 28. *Pwy bynnag a edrych ar Wraig i'w chwennychu hi, y mae fo gwedi gwneuthur eusus â hi odineb yn ei galon*; ag ar ein *Llaw*, megys y mae 'n eglur wrth y pêth a ddywed Crist ymmhellach yn y llê hwnnw, *Os dy law ddebau a'th rwystra, torr hi ymmaith*; felly hefyd ar ein *Tafodau*, na thraethont hwy ddim geiriau an-foesol neu ffiaidd, *Na ddeued ûn ymadroedd llygredig allan o'ch genau chwi*, Eph. 4. 29. Iê, ymmhellach, ar ein *meddyliau* a'n *ffansi*, rhaid i ni wilied croesawu un deisyfiad brwnt a ffiaidd, nag ychwaith cymmaint a meddwl am y cyfryw bêth. Yr hwn sydd gan hymny yn ymgadw oddiwrth y weithred, ag yn cynnwys yntho'i hûn yr ûn o'r rhain, se ellir ammau mai rhyw rwystr oddiallan sydd yn ei gadw ef rhagddo yn hytrach na chydwybod o'r pechod. Onid é, se a gadwai hon ef rhag y rhain hefyd, gan ei bôd hwythau hefyd yn bechodau, iê, ag yn rai dirfawr iawn yngolwg Duw. Heb law hyn y mae'r sawl a'i cynnhwysa ei hûn yn y rhai hyn, yn ei osod ei hûn mewn enbydrwydd tra mawr o'r llall, gan fod yn hawsach o lawer ymgadw oddiwrth y cwbl, nag oddiwrth y naill, pan gynnhwysir y llall. Ond uwchlaw 'r cwbl y mae i'w ystyried, fôd hyd yn oed y graddau lleiaf hyn yn gyfryw ag a wnâ ddynion yn ffiaidd iawn yngolwg Duw, yr hwn sydd yn canfod y Galon, ag heb garu nêb ond y rhai sŷdd bûr yno. Sul VII. *Fe waherddir Aflendid yn y radd isaf.*

20. Nid rhaid gosod allan Brydferthwch y Rhinwedd ymma o *Ddiweirdeb* yn well na thrwy ystyried ffiaidd-dra a drygioni y Pechod *Drygioni Aflendid.*

Sul VII. ſydd yngwrth-wyneb iddi; yr hwn ſydd yn *gyntaf*, yn anifeiliaidd iawn; nid yw 'r deiſyfiadau hynny ond yr unrhyw ag ſydd gan Anifeiliaid; a pha cyn belled gan hynny y mae 'rheini gwedi ſuddo îſlaw Natur dynion, y rhai a ymffroſtiant o'r cyfryw bechodau a hyn megis o'i godidowgrwydd pennaf, Pan yw *Bŵch* (os dena 'r meſur) yn odidoccach creadur? Ond yn wîr, nid yw 'r nêb a ſô 'n dilyn yn ddyfal y rhan ymma o Anifeiliaidd dra yn gadael iddynt ei hunain gan mwyaf ond ychydig, heblaw ei gwêdd ddynol, i'w rhagori oddiwrth anifeiliaid. Y mae 'r pechod hwn felly yn cymylu 'r dealltwriaeth, ag yn gwrthuno 'r Enaid Rheſymol. Y mae *Solomon* gan hynny yn goſod ar lawr yn rhagorol ddull y gŵr ietangc yn myned i dŷ 'r buttain, *Dihar* 7. 22. *Y mae fo' yn ei chanlyn hi fel yr ych yn myned i'r lladdfa.*

I'r Enaid.

I'r Corph.

21. Ag yn *ail*, nid yw 'r ffrwythau o hyn yn well i'r Corph nag i'r Enaid. Y mae 'r amryw ddoluriau brwnt a ffiaidd (heb law *poenus*) y rhai ſydd yn ſynych yn dilyn y pechod hwn, yn tyſtiolaethu yn hynod mor ddrŵg ydyw i'r *Corph*. Ag ôch, faint ſydd o'r rhai fal hyn a'i gwnaethant hunain yn *ferthyron* i'r *Cythraul*? A ddioddefaſant y cyfryw benydiau wrth ddilyn y pechod hwn, na fedre 'r gorthrymmwr creulonaf ddychymygu mo'r cyffelyb? Yn ddiau, y rhai a dâl mor drûdd am ddamnedigaeth, nhw a haeddant yn ddâ ſeddiannu 'r pwrcas.

Barnedigaethau Duw i'w erbyn.

22. Ond yn *drydydd*, heb law 'r ffrwythau naturiol o'r pechod hwn, mae Barnedigaethau mawr echryſlon oddiwrth Dduw yn ei ddilyn; y farnedigaeth greulonaf a rhyfeddaf a ddigwyddodd erioed i ûn-llê, ſêſ, *Tân a Brwmſtan o'r Nêf ar Sodoma a Gomorra* oedd am y pechod hwn o Aflendid. Ag fe ellir gweled amryw

amryw ſiamplau o ddial Duw ar Ddynion neillduol am y pechod hwn. Fe goſtiodd trais *Amnon* iddo ei fywyd; 2 *Sam.* 13. *Zimri* a *Choſbi* a laddwyd ar y weithred, *Num.* 25. 8. ag nid oes gan nêb ar a ſo'n gwneuthur y cyffelyb beth ſiccrwydd yn y bŷd na ddigwydd felly iddo ynteu. Canys er mor ddirgel y gwnelir hynny, nid ellir mo'i guddio oddiwrth Dduw, yr hwn ſydd yn ddialwr dilys pôb cyfryw anwiredd. Iê, fe ſygythiodd Duw yn dra-neillduol y pechod hwn 1 *Cor.* 3. 17. *Os llygra nêb Deml Dduw, Duw a lygra hwnnw.* Y mae'r pechod hwn o Aflendid yn fath ar gyffegr-Yſpeiliad, llygriad y Cyrph hynny y rhai a etholodd Duw yn Demlau iddo ei hûn, ag am hynny, nid rhyfedd os Coſpir ef fal hyn yn drwm. Sul VII

23. Yn *ddiweddaf*, y mae'r pechod hwn yn ein cae ni allan o Deyrnas Nêf, llu nid all dim aflan fyned i mewn. Ag ni welwn ni ûn amſer ûn Rhôl o'r pechodau hynny, y rhai ſydd yn lleſtr dynion yno nad oes gan y pechod hwn o Aflendid lê hynod yn ei mŷſg hwynt. Fal hyn y mae *Gal.* 5. 19. ag felly drachefn, 1 *Cor.* 6. 9. Os nyni fal hyn a'n halogwn ein hunain, nid ydym yn gymdeithas gymwys ond i'r Yſprydion aflan hynny yn unig, ſêl, y Cythrel a'i Angylion; ag am hynny rhaid i ni ddiſgwyl ein cyfran gyda hwynt, llê y dibenna ein fflammau o *drachwant* mewn fflammau o *Dân.* *Y mae'n cau allan o'r Nêf.*

24. Y mae hyn i gŷd wedi ei goſod yn yr ûn lle yn canmol y Rhinwedd *o Ddiweirdeb*; er mwyn cynnal pa ûn, rhaid i ni fod yn ofalus iawn, yn *gyntaf*, i attal *dechreuad* y Brofedigaeth, ag i fwrw ymmaith mewn llidiogrwydd y *ffanſi gyntaf* o Drachwant; canys os chwychwi unwaith a ymrŷ i ymſiſial ag i ymddiddan ag ef, efe a ennill yn waſtad arnoch, ag yna ef *Cymmorth i Ddiweirdeb.*

Sul VII. fe fydd yn anhawſach ei wrthwynebu? Am hynny, y ffordd i chwi yn y Broſedigaeth ymma yw ffó yn yn hyttrach nag ymladd a hi. Y mae hyn yn angenrheidiol iawn, nid yn unig er mwyn i ni ochelyd y Perigl o fyned ymlaen i weithredu y pechod, eithr hefyd oblegid y bai preſennol o groeſawu y cyſryw feddyliau, yr hwn o hono 'i hunan er nad eiff ddim pellach, ſydd, fal y dangoſwyd o'r blaen, yn ffieidd-dra mawr o flaen Duw. Yn *ail*, byddwch ofalus iawn rhag *ſeguryd*, yr hwn yw 'r tîr priodol i'r cyſryw ſothach i dyfu yntho; a chadw dy hûn yn waſtad yn ofalus mewn rhyw negeſeuau diniwed a rhinweddol, canys yna ni bŷdd y meddyliau hyn mor barod i'w cynnyg ei hunain. Yn *drydydd*, na oddefa iti dy hûn ail-gyrchu i'th feddwl gyd âg hyfrydwch ûn weithred aflan o'th fuchedd ò'r blaen, oblegid y mae hynny yn gweithredu 'r pechod trachefn, ag fe a gyfrifir felly ger bron Duw; iê, yſgatfŷdd, fe all meddwl am dano fal hyn trwy bwyll a chyngor fôd yn fwy euogrwydd na gweithredu y pechod yn fyrbwyll: Canys y mae hyn yn dangos fód dy galon gwedi ei goſod ar ffieidd-dra, ag mae hynny hefyd yn baratóad i wneuthur ychwaneg o'r cyffelyb. Yn *bedwerydd*, gochela gymdeithas y cyfryw rai nŵyſus ag anllad ag a ddichon fód naill ai trwy ffieidd-dra ei hymadroddion, neu ryw foddion eraill, yn fagl i ti. Yn *bummed*, gweddiâ 'n ddifrifol ar i Dduw roddi iti Yſpryd *Purdeb*, yn enwedig ar amſer rhyw broſedigaeth breſennol. Dŵg y *Cythrel aflan* at Grift i'w *fwrw allan* fal y gwnaeth y Dŷn yn yr Eſengyl. Ag oni fwrir ef allan trwy *Weddi* yn unig, adrodda *Ymprydd* hefyd; ond gwilia er dim gynnal i fynu 'r flamm trwy ryw ymborth uchel anghyn medol. Y Cymmoith *diweddaf*, os y lleill a brifia 'n ofer,

'n ofer, yw *Priodas*, yr hon a ſŷdd yn Ddled- Sul VII
ſwydd i'r neb ni ddichon fyw yn ddi-feius heb-
ddi. Ond rhaid yw cymmeryd gofal ymma
hefyd, rhag i'r pêth a ddyle fôd er daioni, fôd
iddo yn achos o dramgwydd, o eiſieu ſobrwydd
yn arfer Priodas. Ond mi a draethais am hyn
o'r blaen, ag am hynny nid rhaid i mi adrodd
ychwaneg ond deilyfiad ddifrifol, a'r fôd i ddy-
nion yſtyried yn ddi-gellwair fryntni a pherigl
y pechod hwn o Aflendid, ag na bô iddynt ei
gaſhau ef ddim llai oblegid ei gyffredinoldeb,
eithr yn hytrach oblegid hynny ffieiddio di-
gywilydd dra tra-hy 'r bŷd, yn gwneuthur cyn
lleied cyfrif o'r pechod hwn, yn erbyn pa ûn y
cyhoeddodd Duw y cyfryw felldithion trymion;
y Putreinwŷr a'r rhai godinebus a ſarna Duw. Heb.
13. 4. ag felly yn ddiammen y gwnâ ef a phôb
rhyw fâth o ddynion aflan.

25. Yr *ail Rhinwedd* a berthyn i'n Cyrph yw, *Cymmed-*
Cymmedrolder: Ag mae amryw ffyrdd o'i *rolder.*
ymarferu; megys yn gyntaf, *Cymmedrolder* yn
Bwyta; yn ail, yn *Yfed*; yn drydydd, yn *Cyſgu*;
yn bedwerydd, yn *Eſmwythâd*; yn bummed,
mewn *Ymwiſciad.* Mi a draethaf am danynt ôll
yn neullduol; ag yn *gyntaf*, am *Gymmedrolder*
yn *Bwyta.* Y *Cymmedrolder* hwn a gedwir pan *Yn Bwyta.*
fô ein *Bwyta* ni yn gyfattebol i'r dibennion
hynny er mwyn pa rai yr Ordeinwyd Bwyta
gan Dduw a Natur, y rhai yw, er mwyn i'n *Dibennion*
Cyrph, yn gyntaf, *fôd*; yn ail. fôd yn *ddâ.* *Bwyta.*

26. Y mae Dŷn o'r cyfryw Ddûll a bod *Bwyta* yn angenrheidiol iddo er mwyn cynnal *Er cynnal*
ei Fywyd, gan fôd Newyn yn glŵyf naturiol, *Bywyd.*
yr hwn, onis rhagflaenir, a brifia 'n farwol; a'r
unig feddiginiaeth iddo yw *Bwyta*, yr hwn
gan hynny a ddaeth i fôd yn fôdd angenrheidiol
i'n cadw ni yn fwy. A dyna 'r diben cyntaf o
Fwyta;

Sul VII Fwyta; Ag megys ni bydd dynion arferol o gymmeryd Pyſygwriaeth er Pleſer, ond lleſhâad, felly hefyd ni ddylent *fwyta*.

Er Iechyd. 27. Ond yn *ail*, mae Duw mor haelionus a pharatôi nid yn unig i Fywyd, ond hefyd i Hawddfyd ein Cyrph, ag am hynny, nid ydym gwedi ein rhwymo mor gaeth, nad allwn fwyta dim ond yn union a'n cadwo rhag llewygu, ond ni a allwn hefyd fwyta naill ai mewn rhyw, neu faintioli, pa bêth bynnag a fô goreu i'n Hiechyd a'n hawddfyd: yn awr, y mae 'r Ymborth yr hwn ſydd gydſynniol a'r dibennion hyn, o fewn terſynau *Cymmedrolder*; megys o'r tu arall y mae bêth bynnag ſydd yngwrthwyneb iddynt yn droſſeddiad yn ei erbyn; y ſawl gan hynny a oſodo iddo ei hûn ddibennion eraill o Fwyta, megys naill a'i boddhau 'r archwaeth, neu (yr hyn ſydd etto yn waeth) Porthi mwythau i 'w Gorph er mwyn iddo waſanaethu ei drachwant yn well, y mae ef yn union yn gwrthwynebu ag yn croeſu 'r dibennion hyn o eiddo Duw; oblegid y mae'r nêb ſydd gantho 'r amcanion hynny, yn gwneuthur yr hyn ſydd yn dra-gwrthwynebus i Iechyd, ie, i Fywyd hefyd, fal y mae'n eglur trwy'r amryw gleſydau, a'r Marwolaethau diſymmwth hynny y rhai y mae glothineb ag aflendid yn ei dwyn beunydd ar ddynion.

Rheolau Cymmedrolder yn Bwyta. 28. Rhaid yw gan hynny i'r nêb a arfero 'r Rhinwedd ymma o *Gymmedrolder*, na bwyta cymmaint, nag o'r cyfryw rywogaethau o Fwyd (os efe a ddichon gael pêth arall) ar a wnelo niwed i'w Iechyd: ammhoſſibl yw goſod ar lawr beth yw 'r rhywogaethau neu 'r maentioli, canys y maent hwy yn rhagori yn ôl amryw gyflwr dynion; fe a ddichon rhai dynion trwy *Gymmedrolder* fwyta llawer iawn, oblegid fôd ei

Cylla

Cylla yn gofyn hynny, pan fô ûn arall yn enog o *Anghymmedrolder* yn bwyta ond yr hanner cymmaint, oblegid ei fôd yn fwy nag fydd yn arferol iddo. Ag felly hefyd am y Rhywogaeth o fwyd, fe ddichon fôd yn fwythufder ag yn drythyllwch i rai fôd yn rhodrefgar yn y pethau y rhai mewn rhyw fefur fydd *angenrheidiol* i wendid Cylla glwyfus, yr hon nid o fôd yn fwythuf ond o ran clefyd ni ddichon fwyta bwydydd garwach. Ond yr wyfi 'n tybied y gellir dywedyd yn gyffredinol, mai 'r bwyd mwyaf cyffredin fydd iachúfaf gan mwyaf i Gyrph iachus, ond rhaid yw gadael i bôb dyn farnu o hono 'i hûn yn hyn, ag er mwyn iddo wneuthur hyn yn iawn, bydded yn ofalus na oddefo iddo 'i hûn fôd yn gaeth-was i 'w Enau, canys fe fydd hwnnw 'n ficcr o 'i fodloni ei hûn, bêth bynnag a ddigwyddo i 'r Iechyd, neu i'r hoedl. Sul VII.

29. Er mwyn ei ficcrhau 'n well, yftyried yn *gyntaf*, mor anrhefymol yw i 'r hôll gorph fôd yn ddaroftyngedig i 'r ûn fynnwyr ymma o *Archwaethiad*, a mentrio pôb pêth yn unig i fôddhau hwnnw. Ond mae 'n fwy o lawer etto, fôd i 'r rhan oreu, yr *Enaid*, gael fal hyn ei chaethiwo; etto fal hyn y mae mewn dyn annhymmerus; rhaid iddo aberthu hyd yn oed ei Enaid i 'r trachwant anifeiliaidd hwn: oblegid y Pechod hwn o *Anghymmedrolder*, er bôd y Corph yn unig yn ei weithredu, rhaid i'r Enaid hefyd fôd yn gyfrannog o 'i gofpedigaeth tragywyddol ef. Yn *ail*, yftyria mor fyrr iawn a darfodedig yw 'r plefer hwn, y mae 'n dibennu mewn munudyn, ond y mae 'r penydiau a ddigwydd am dano yn fwy parhaus o lawer, ag yna nid yw 'n cyttuno a 'n rhefwm ni megys yr ym ni yn ddynion, i ofod ein Calonnau arno. Ond etto yn *drydydd*, y mae 'n cyttuno 'n waeth a thymmer *Y moddion o hyn.*

Sul VII. thymmer *Criſtion*, yr hwn a ddyle fôd a'i galon gwedi ei phûra a'i glanhau felly trwy ddiſgwyliad o'r gorſoleddau mwy yſprydol hynny yn y bŷd a ddaw, fal y dylei ddirmygu 'n ddirfawr y Pleſerau gwael *anifeiliaidd* hyn, y rhai y mae bwyſtfilod mor gyſaddas o honynt a ninnau, ag iddynt hwy y dylem fôd yn fodlon i'w gadael, gan na ddichon ei naturiaetth hwynt gyrrhaeddyd ddim ûwch; ond am danom ni y rhai ſydd gennim *obaith* mwy *rhagorol* o lawer, cywilydd anſeidrol yw i ni ei cyfrif hwynt megys rhan o 'n dedwyddwch. Yn *ddiweddaf*, y mae 'r pechod o *Lwthineb* yn gymmaint ag mor *beryglus* a darfod i Griſt dybied yn gymmwys roddi ſiars arbennig yn ei erbyn, *Edrychwch arnoch eich hunain, rhag gorchfygu eich Calonnau a glwthineb*, &c. *Luc* 21. 34. Ag chwi a wyddoch béth oedd diben y *glŵth* goludog, *Luc* 16, Yr hwn oedd yn cymmeryd ei fwyd yn *ddainteithiol beunydd*, yr oedd arno eiſieu o'r diwedd *ddroppyn o ddŵfr i veri ei dafod*. A hyn am y fâth gyntaf o *Gymmedroldeb*, ſef, am Fwyta.

SUL.

Sul VIII.

SUL VIII.

Am Gymmedrolder yn Yfed, Gau Ddibennion o Yfed, ſef, Cymdeithas ddâ, bwrw ymmaith Ofalon, &c.

1. YR *Ail* yw, *Cymmedrolder* yn *Yfed*, a chan mai 'r unrhyw gan mwyaf yw 'r Dibennion o *Fwyta* ag o *Yfed*, nid alla i roi ûn Rheol arbennig yn hwn mwy nag a rois i yn y llall, ſef, na bô i ni Yfed nag o 'r cyſnyw rywogaethau o ddiodydd, nag i 'r cyſnyw feſur ag na chyttûna a 'r *iawn ddibennion o Yfed*, ſef, cynnal ein bywyd a 'n hiechyd: Yn unig fe ſŷdd angenrheidiol ymma oſod ar lawr ûn *Gochbeliad*; oblegid gan fôd ein Dealltwriaeth ni mewn mwy o berigl o gael ei ddrygu trwy Yfed na thrwy Fwyta, rhaid i ni yn hyttrach fôd yn ofalus am gadw hwnnw yn ddiogel, a dewis yn hyttrach beidio ag *Yfed* yr hyn a allom yn ddiogel o herwydd ein Hiechyd, os bydd hynnu yn debyg i annhymmeru ein theſwm. Hyn yr ŵyf yn ei ddywedyd, oblegid fe allei fôd mennyddiau rhai mor egwan na ddichon ei pennau ddwyn mo 'r meſur cyffredinol o ddiod, yr hyn ni wnaê ddim niwed i 'w Cyrph. A phwy bynnag ſydd o 'r tymmer hwn, rhaid iddo ef ymgadw 'n fanwl oddiwrth y meſur, neu 'r rhywogaeth hwnnw o *Ddiod*, yr hyn a wél ef a wnâ niwed iddo; iè, er i hynny ymddangos i fôd, oblegid rhyw bethau eraill, nid yn unig yn ddiogel, ond heſyd yn fûddiol i 'w iechyd. Canys er bôd yn rhaid i ni gynnal ein Hiechyd, *Cymmedrolder yn Yfed.*

Sul VIII. etto ni ddylem ni wneuthur hynny trwy bechod, megys y mae *meddwdod* yn ddiammeu.

Gau Ddibennion o Yſed.

2. Ond och! o 'r holl liaws o *Feddwon* y ſydd yn y bŷd, nid yw hyn ond cyflwr ychydig iawn, gan ſôd y rhan fwyaf o honynt yn myned tû hwynt i'r pêth y bó ei hiechyd yn ei ofyn, nag a ddichon ychwaith ei ddwyn, iè, hyd yn oed ei lŵy-ddiniſtr ef. Ag am hynny y mae 'n eglur fôd dynion wedi goſod i fynu iddynt ei hunain rhyw *Ddibennion* amgenach o *Yfed*, na 'r rhai cyfreithlon hynny o 'r blaen; ni fydde anghymmwys eglurhau ar fyrr bêth ydynt hwy, a dangos hefyd mor anreſymmol ydynt.

Cymdeithas ddâ.

3. Y *cyntaf* a 'r mwyaf yw, *Cymdeithas ddâ*; y naill ddŷn a ŷf i gadw cyfeillach i ûn arall. Ond mi a ofynnwn i 'r cyfryw ûn, pe bydde 'r dŷn hwnnw yn Yfed y pûr-wenwyn a barchai ſe ef o wîr gymdeithas? Os dywed ef na wnâi, rhaid i mi ddywedyd iddo, mai trwy 'r *unrhyw* neu *well rheſwm*, y dylei ochelyd gwneuthur hyn hefyd. Oblegid Yfed yn *anghymmedrol* yw 'r gwenwyn hwnnw; Yſgatfydd ni weithia yn waſtad i farwolaeth yn ebrwydd (etto y mae i ni lawer o ſiamplau o hynny, gan ddarfod i lawer odd farw ynghanol ei *meddwdod*) ond y mae 'n hynod iawn fod yr ymarfer o 'r pechod hwn gan mwyaf yn dwyn dynion i 'w diwedd, ag am hynny, er bôd y gwenwyn yn gweithio 'n araf, etto y mae fo fyth yn wenwyn. Ond pa ûn bynnag, y mae yn y cyfamſer yn gweithio 'r pêth a gaſhâ gŵr Synhwyrol yn fwy nag Angeu; ſef, Cynddaredd; ag y mae gwall-gof yn troi dŷn yn anifail, trwy foddi 'r Rheſwm hwnnw yr hwn a ddyle ei ragori ef oddiwrth anifail. Yn ddiammeu mae y ffrwythau o yfed yn gyfryw, a phe buaſid ar y cyntaf yn ordeinio meddwdod megys yn goſpedigaeth, ni a 'i tebygaſem ef yn

Orth-

Orthrymmwr creulon yr hwn a ddychymmygaſei hynny. Sul VIII.

4. Yr *ail* diben o *Yſed*, meddant, yw cynnal Caredigrwydd, a chymwynaſgarwch ymŷſg dynion. Ond mae hyn yn anreſymmol ryfeddol, i ddynion wneuthur y péth hynny er mwyn cynnal Caredigrwydd, yr hyn yn wir yw 'r drŵg mwyaf a ellir ei wneuthur i ûn dŷn. A dybiodd ûn erioed ddangos Caredigrwydd i ddŷn trwy ei helpu fo i ddeſtrywio 'i olud, ei Enwdâ, a 'i ſywyd? Etto mae 'r nêb a yfo fal hyn, gydâ dŷn yn gwneuthur hynny, ag ychwaneg o lawer; mae fo 'n diniſtrio 'r rheſwm, iê, ei Enaid, ag etto rhaid yw galw hyn yn fódd i gynnal Caredigrwydd; mae hyn yn bêth mor ynfyd-ffôl ag y tybiei ûn, nad oes nèb ond gŵr yn ei feddwdod a 'i addefeu. Ond o 'r tû arall, ni a welwn yn gyffredinol fôd hyn yn gymmhwyſach i wneuthur cwerylon nag i gynnal cymmwynaſgarwch, megys y tyſtiolaetha 'r amryw *gynnhennau* a welwn ni beunydd ymŷſg meddwon, ynghyd a 'r archollion, ag weithiau 'r *llofruddiau* a ſydd yn ei dilyn hwynt. *Cynnal Caredigrwydd.*

5. Y *Trydydd* diben, meddant, yw llonni 'r *Galon*, ei gwneuthur hi yn llawen ag yn hyfryd. Ond diammeu na thâl y llawenydd hwnnw fawr, yr hwn y bydd raid troi Rheſwm tros y drŵs cyn iddo ddechreu; fe all ûn ddywedyd gydâ *Solomon*, *Preg.* 2. 2, *Chwerthin y cyfryw ffyliaid ſydd ynfydrwydd*, ag yn ddiammeu, y rhai a fyddant feddw er mwyn ei goſod ei hunain yn y tymmer hwn, fe fydd yn hyfryd ganddynt hefyd *Wall-gôf*, os byddent ſicer mai ûn *lawen* y fydde. Ond ychydig y mae 'r cyfryw rai llawen yn ei feddwl pa driſtwch y maent yn y cyfamſer yn ei dryſſori iddynt ei hunain, yn fynych yn y bŷd *hwn*, pan fo'nt trwy chwareu *Llonni 'r Galon.*

Sul VIII. rhyw *gampau* ynſyd-ffôl yn dwyn niwed arnynt ei hunain; ond pa ûn bynnag, yn ddiammeu yn y bŷd a *ddaw*, lle y bŷdd yn rhaid rhoddi cyfrif greſynol am y Llawenydd ymma.

Bwrw ymmaith Ofalôn. 6. Y *pedwerydd* diben, meddant, yw *bwrw heibio Gofalon*; ond mi a ofynnaf beth yw'r *Gofalon* hynny? A ydynt yn gyfryw rai ag y dylid ei bwrw hwynt heibio? ſe allai mai rhyw gerydd a chyhuddiad *Cydwybod* ydynt y rhai ſydd raid fal hyn ei tynghedu. Ag yr wyſi'n ofni ddarfod i hyn weithio cymmhelled gydâ llawer ag iw gofod hwynt i gyfeu. Ond dyna'r ynſydrwydd annuwiolaf yn y bŷd; oblegid onid wyti 'n tybied fód rhyw béth diſawr yn y cyhuddiadau, hyn pa ham y maent yn dy gythrwblio di? Ond os ydwyt, ammhoſſibl i ti ddiſgwyl y dichon hyn dy ddiogelu yn hîr rhagddynt. Ti a elli fal hyn ei diſtawu nhw dros drô, ond nhw a gróch-lefant yn uwch rhyw ddŷdd am hynny. Bwriwch y gwyddei *Lleidr* neu *Leſtudd* fód rhai yn ei gynilwyn eſ i'w ddwyn i dderbyn Cyfiawnder, a fyrthiei fó, debygech chwi, i yfed, er mwyn bwrw ymmaith yr ofn o gael ei grógi, ag yn y cyfamſer eſgeuluſo 'r moddion i ddiange? neu, oni thybiech chwi fo'n ynſyd reſynol os gwnae hynny? Etto dyna 'r uniawn gyfiwr ymma, y mae dy gydwybod yn traethu i ti dy berigl, y bydd rhaid dy ddwyn ar fyrder ger bron *gorſeddfainge* Duw; ag onid ynſydrwydd yw i ti yn llè ymegnio i geiſio dy bardwn, yfed allan bôb coffa o'th Berigl? Ond yn *ail*, bwriwch fód y *Gofalon* hyn yn rhai *bydol*, ag yn gyfryw ag y bydde'n gymwys iawn ei bwrw hwynt ymmaith; yna rhag cywilydd na ammharcha cymmaint dy Reſwm, a'th Griſtianogrwydd, nad allant hwy fód mor abl i'r diben hwnnw ag ychydig ddîod.

Fe

Fe ddywed dy Reſwm iti mai ofer yw Gofalu lle ni bô gofal yn ſuddiol: ag ſe a gyfarwydda dy Griſtianogrwydd di at Un, ar ba ûn y gelli yn *ddiogel ſwrw dy bôll Ofalon, canys y mae efe yn gofalu troſot*, 1 *Pet.* 5. 5. 7. Ag am hynny, oddigaeth dy fód ti yn amcanu gwadu dy fód nag yn Ddŷn nag yn Griſtion, na arſera bŷth mor fáth ddichell Yſtryw-gar wael i'th waredu o'th Ofalon. Ond heb law hynny, ni wná hyn mor gwaith ychwaith; canys er y dichon hyn yn y cyfamſer, tra byddech yngha-nol dy feddwdod mwyaf, dy gadw rhag bôd yn deimladwy o'th Ofalon, etto gwedi yr êl hynny heibio, nhw a ddychwelant drachefn a mwy o nerth; ag nhw a ddygant, os oes gennit ddim Cydwybod, *ofal newydd* gyda hwynt, ſêf, yr hwn a dardda allan o euogrwydd pechod mor ſhaidd. Sul VIII.

7. *Y pummed* diben, meddant hwy, yw i *ſwrw heibio'r Amſer*. Er bôd hyn mor anrefymmol a'r mwyaf o'r lleill, etto ſe a wafanaetha i argyoeddi feguryd, yr hwn fydd, chwi a welwch, yn bêth mor helbulus, ag y dewiſir yr *Arfer ffieiddiaf* hon o'i blaen hi. Ond nid yw hyn mewn llawer ond eſgus celwyddog. Canys y maent yn fynych yn treulio Amſer yn y dafarn nid yn unig pan na bó ganddynt ddim arall i'w wneuthur, eithr hefyd i eſgeuluſo ei negeſeuau mwyaf anghenrheidiol. Pa ûn bynnag, nid yw hyn ond eſcus anrhefymmol ymmhôb dŷn, canys nid oes néb na ddichon gael rhyw bêth neu 'i gilydd i'w ymdrafferthu i hún yntho. Os nid oes gantho ond ychydig negeſeuau bydol o'i eiddo 'i hûn, efe a all wneuthur rhyw béth er lleſháad i eraill; ond pa ún bynnag, nid oes néb nad oes gantho Enaid, ag os efe a edrych yn ddiwyd at hono, nid rhaid *Bwrw'r Amſer heibio.*

Sul VIII. rhaid iddo mor achwyn o *eiſieu* peth iw wneuthur, lle y mae cynniter o *lygredigaethau* i'w *marweiddio*, cynnifer o dueddiadau i'w *gwilio*, cynnifer o Brofedigaethau (o ba rai nid yw hwn o feddwdod yn lleiaf) i'w *gwrthwynebu*; *Gràſau* Duw i'w cynnhyrfu a'i adchwanegu ynom, a'r eſgeuluſdra o hyn o'r blaen i'w *alaru* am dano, yn ddiammeu nid all fôd ar nêb eiſieu peth iw wneuthur ûn amſer; oblegid fôd pôb ûn o'r rhain yn goſyn amſer, fal y caiff pôb dŷn ddeall ar awr Angeu; canys y rhai a fû tros ei holl fywyd yn edrych pa fôdd i dreulio ei hamſer, a roddent yr holl fŷd y prŷd hynny i brynnu'r unrhyw. Ag mae Duw yn ddiamneu yn diſgwil i'r rhai a ſydd yn cael mwyaf o ennyd gan ei negeſau bydol, dreulio mwy o Amſer mewn Dledſwyddau Yſprydol. Ond nid yw gyffelybus y bydd y rhâdd waelaf o ddynion (i ba rai yr amcenir y Llyfran hwn) o'r niſer hynny, y rhai ni wŷddant pa fôdd i dreulio ei hamſer, ag am hynny ni ſâſa 'i ddim pellach ar hyn, ond yn unig adrodd hyn yma, ſêf, fôd yn ſeſyll arnynt hwŷ a phawb dreulio hynny o Ennyd a gânt er *lleſhâad* i'w Heneidiau, ag nid i'w *diniſtr* hwynt, megys y gwnâ y rhai hynny y ſawl ſydd yn ei dreulio ar Yſed.

Gochelyd wraddydd. 8. Y *chweched* Diben, meddant, yw i ochelyd y gwradwydd a'r dirmyg, yr hwn a deflir gan y bŷd ar y rhai a fô yn fwy twyſ-bwyllog yn hyn o bêth na'i Cymydogion. Ond i atteb hyn, mi a oſynnaf yn gyntaf, pa niwed a wna'r cyfryw wradwydd? Ni ddichon ef gyſtadlu a'r lleiaf o'r drygau hynny y mae meddwdod yn ei dwyn arnom. Iê, os coeliwn eiriau ein Hiachawdſ, y mae hynny yn ddedwyddwch i ni, *Gwyn eich bŷd*, medd ef, *pan i'ch cablo dynion, a dywedyd pôb rhyw ddryg-air am danoch er fy mŷn*

i9

i, *Matth.* 5. 11. Ag mae St. *Petr* yn dywedyd i ni, 1 *Pet.* 4. 14. *Os dirmygir chwi er mwyn Enw Crist, dedwydd ydych*; a diammeu, cael ein gwradwyddo er mwyn *Ufydd-dod* i'w Orchymyn ef, yw cael ein gwradwyddo er mwyn ei *Enw* ef. Yn *ail*, cofiwn ddarfod i ni yn ein Bedydd ymwrthod a gwâg-orfoledd y bŷd; ag ydyw mor hôff gennym y bŷd, a rhag ofn ychydig watwor, y rhedwn yn fyrbwyll ar yr holl ddrygau amſerol hynny y treuthais am danynt; a'r hyn ſydd waeth o lawer, ar ddigofaint Duw a diniſtr tragywyddol? Ond yn *Drydydd*, os ydych yn ofni Gwradwydd, pa ham yr ydych yn gwneuthur y pêth a ddwg wradwydd arnoch oddiwrth bôb dŷn dâ Synhwyrol, barn pa ûn yn unig a haeddai ei Hyſtyried? Yr hyn yn ddiammeu a wnâ meddwdod. A'th gyſſuro dy hûn erbyn hyn, trwy dybied dy fôd yn cael Clôd gan ynfydion a'r ſâth waethaf o ddynion, nid yw ddim amgen na phe bae'r hôll *ddynion gwallgofus* yn y bŷd yn cydſynio i'w cyfrif ei hunain yr unig rai Sobr yn y bŷd, a phawb eraill yn ynfydion; ag etto ni wnâ hyn monynt hwy ſyth yn llai gwallgofus, na'r lleill yn llai Sobr. Yn *ddiweddaf*, Yſtyria pa farn echryſlon a adroddodd Criſt ar y rhai a fô cywilydd ganddynt ef, ag felly y gwnâ pawb a wrthodant ufyddhau iddo ef rhag ofn gwradwydd, *Marc.* 8. 38. *Pwy bynnag a fô cywilydd ganddo fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, bydd cywilydd gan fâb y dyn yntef hefyd, pan ddêl yngogoniant ei Dâd gyda'r Angelion Sanctaidd.* Fe chwennych pawb y dydd hwnnw fôd mewn ffafor gyda Chriſt: ond pwy bynnag ni chyffeſſant ef ymma, hynny yw, ni lwyr-ufyddhâant i'w Orchymynion ef, er maint gwatwargerdd, iê, erlinedigaeth y bŷd, nhw a ſwrir ymmaith

Sul VIII.

yn

Sul VIII. yn ddiammeu y prŷd hynny ganddo yntef. Ag ni haedda'r fawl a ddewiſa fal hyn ſaintumio ei Enw dâ ymŷſg rhai ynfyd a gwallgofus ddim gwell damwain iddo ei hŷn: Ond gwedi'r cwbl, nid ydyw ficcr y diyſtyra 'rhain dydi am dy Sobrwydd, ſe allai mai cymmeryd arnynt wneuthur felly y byddant er mwyn dy ſrawychu di allan o honi: ond pe chwilid ei Calonnau, ſe welid ei bôd nhw yn rhoddi parch ddirgel i ddynion Sobr megys o'i hanfodd, ag nad ydynt yn gwradwyddo nag yn dirmygu nêb ſwy na'r rhai ſy'n *rhedeg gyda bwynt i'r unrhyw ormodedd a ſbrythyllwch*; oblegid y nêb ni arbeda ei hûn ſeddwi' etto eſe a chwardda am ben ûn arall a welo yn ſeddw.

Pleſer y Ddiod. 9. Y *Seithfed* diben, yw'r *Pleſer* y maent yn ei gymmeryd yn y *ddiod*, yr hyn ſydd rŷ hynod mewn llaweroedd, er bôd yn gywilydd ganddynt gydnabod hynny; ond yr ŵyf yn cyfaddef nad ydyw gymwys draethu llawer wrth y cyfryw: oblegid y rhai ſydd gwedi dyfod i'r râdd reſynol hon o drythyllwch, nid ydynt hwy debyg i dderbyn llês oddiwrth ddim ar a ddywedir wrthynt: etto hyn a ddywedaf wrth y cyfryw ddŷn, fôd iddo ef fwy o foddion i ddirnad ei fai nag i eraill; oblegid gan fôd hyn yn gyfryw ddiben o Yſed na fyn nêb mo'i gydnabod, y mae eſe gwedi ei euog-farnu gantho'i hunan; iê, a chan ei hôll *gyd-feddwon* heſyd; oblegid gan ei bôd nhw yn gwâdu hyn, arwydd hynod yw, ei bod yn cydnabod hynny yn bêth tra-ffiaidd. Ag os gelwid *Eſau* yn ddŷn halogedig, *Heb.* 12. 6. am *werthu* ond ei *anedigaerh-fraint am ſaig o gawl*, a hynny heſyd pan oedd newyn arno; pa henw digon gwradwyddus a gêir i'r nêb a wertho ei Iechyd, ei Synwyr, ei Dduw, a'i Enaid am *gwppaned o ddiod*, a hynny

pan

pan fô cymmhelled oddiwrth fod arno ei heiſiau hi, ag yſgatſydd fôd gantho yn barod ſwy nag a allo ei gynnwys o'i ſewn? Ni ddywedaf ddim ychwaneg wrth y cyſryw ddynion ond gadewch í mi rybuddio y rhai ôll ſydd yn myned ymlaen yn y pechod hwn ar yr ûn o'r dibennion eraill, mai ychydig amſer a i dŵg nhw i hyn ymma y maent yn proffeſſu cymmaint ei ffieiddio, gan ein bôd ni beunydd yn gweled fod y rhai a ddenwyd i'r pechod hwn ar y cyntaf o Gariad i *gymdeithas*, yn parhau yntho o'r diwedd o gariad i'r *Ddiod*. Sul VIII.

10. Ni fedraf feddwl am Ddiben ychwaneg ond ûn, ſef, *Bargenio*. Rhai a ddywed mai angenrheidiol iddynt Yfed wrth farchnatta a'i Cymydogion, gan fôd yn gymwys iawn ddibennu *Bargennion* ar y cyfryw ymgyſtarfodiadau. Ond mae hyn etto yn waeth Diben na'r lleill i gŷd, oblegid amcan hyn ymma yw bwriadu *Siommi* a *thwyllo* eraill; yr ydym yn tybied y gallwn yn hawſach ſyned troſtynt pan fyddont mewn Diod; ag mae hyn yn adchwanegu'r pechod o *dwyll* a *bocced* at Feddwdod. Yr awrhon, mae 'n eglur mai hyn yn unig yw ei bwriad nhw; oblegid pe byddent yn unig yn amcanu pryſſuro ei *marchnad*, nhw a ddewiſent yn hyttrach gymmeryd dynion a'i Synwyr o'i cwmpas; am hynny ei cymmeryd nhw pan fô Diod gwedi ei annhymmeru, nid yw ddim ond i graffu ar fantes arnynt. Etto ſe ddigwydd hyn yn fynych i fôd yn ynſydrwydd mawr yn gyſtal ag yn bechod; canys y mae'r ſawl a ŷto ag ûn arall ar fedr ei ſiommi ef, yn prifio yn fynych yn fwy pen-chwiban ei hûn; ag felly yn meddwi yn gyntaf, ag yna mae ſe 'n rhoi yr ûn odſa i'w dwyllo'i hûn ag a fwriadodd ef i ſiommi 'r llall: Yr awrhon, y mae'r Diben hwn o Yfed cym- *Bargenio.*

Sul VIII. mhelled oddiwrth *eſcuſodi* a'i fôd yn gwneuthur y pechod yn *fwy* o lawer; oblegid os ni ddylem Yfed yn anghymedrol ar achos yn y bŷd, llai o lawer ar y cyfryw ûn drŵg ag yw *twyllo* a ſiommi ein brodyr.

Graddau o'r pechod hwn.

11. Yr awrhon yr wyſi'n meddwl ddarfod i mi ddangos mor anreſymmol yw 'r Annogaethau hynny y rhai a ddygir i mewn gan mwyaf i eſcuſodi 'r pechod hwn. Rhaid i mi ddywedyd i chwi ymmhellach, mai nid y meſur *eithaf* hwnnw o *Feddwdod* yn unig, yr hwn ſy'n gwneuthur i ddynion fethu rhodio a ſiarad, ſydd i'w gyfryf yn bechod, eithr pôb rhyw Râdd îs, yr hon a weithia ar y ſynwyr, naill ai i'w bylu a'i wneuthur yn anghymwys i unrhyw orchwyl, neu i'w wneuthur yn rhŷ yſgafn, yn hyblyg i ddiſyrrwch gwâg ynfyd, neu, yr hyn ſydd waeth, yr hwn a ennynna ddynion i gynddeiriogrwydd a gwylltineb. Y rhai hyn neu ba ral hynnag eraill a wnâ gyfnewid yn y bŷd mewn dŷn a gyfrifir yn y pechod hwn o *Feddwdod*: Iê, ymmhellach, Yfed tu hwynt i'r dibennion naturiol o ŷfed, hynny yw, tu hwynt i Gymmedroldêr gweddus, ſydd yn bechod, er trwy nerth pen dŷn nid yw hynny yn newid mo'i dymmer yn y meſur lleiaf; ag am hynny, mae y rhai ſydd hêb fôd yn gwbl feddw, etto a ddichon dreulio Dyddiau cyfan, neu ryw ran fawr o honynt yn Yfed, maent cymmhelled oddiwrth fôd yn ddi-euog, a bôd y wâe fwyaf honno yn perthyn iddynt, yr hon a adroddir, (*Eſa.* 5. 22.) yn erbyn y rhai ſydd *nerthol i Yfed.* Oblegid er y dichon y cyfryw ûn, ond odid, gadw ei Synwyr, etto ni wâſanaetha 'r cyfryw Synwyr ond ychydig, gan ei fôd ef yn treulio'i Amſer yn yr ûn môdd a'r meddwyn aniſeiliaidd, hynny yw, i dywallt dîod i wared.

12.

12. Iê, y mae 'r dŷn hwnnw yn euog o ſwy o afradlonrhwydd; yn *gyntaf*, o greaduriaid dâ Duw: y *ddiod* yr hon a amcenir trwy Ragluniaeth Duw er iechyd a chymmorth i ni, a gam-arferir ag a afradlonir pan yr yfir hi tu hwynt i 'r meſur y mae 'r dibennion hynny yn ei goſyn; ag yn ddiammeu, nid yw 'r gwaelaf o 'r Creaduriaid hyn yr ydym yn ei mwynhau, na bŷdd yn rhaid i ni roddi cyfrif ryw ddydd am ei camarferu hwynt, a 'r hwn a ŷfo hwyaf ſydd arno fwyaf o 'r eûogrwydd ymma. Ond yn *ail*, mae hyn yn afradlonthwydd o bêth ſydd werthfawroccach o lawer, ſêf, *ein hamſer*, yr hwn a roddir i ni gan Dduw i *weithio allan ein Hiechydwriaeth* yntho, ag ſydd raid roi cyfrif twys am dano, ag am hynny y dylid hwſmonaethu pôb munudyn o hono mor gymnil ag y bò poſſibl i 'r diben hwnnw yngweithredoedd buchedd ddâ; ond pan dreulir ef fal hyn, y mae 'n union yn y gwrthwyneb, ſef, yn gweithio allan ein Damnedigaeth. Heb-law hyn, mae 'r nêb a ŷfo fal hyn, er iddo ddiangc rhag meddwi ei hûn, yn euog o holl feddwdod ei Gymdeithion; o ran ei fôd ef trwy ei Eſampl ei hûn yn rhoi Calon yn y lleill i yfed rhag llaw, yn enwedig os bŷdd ef ŵr o awdurdod; ond os bŷdd yn ún yr hwn y bydd y lleill yn hôff ganddynt ei gymdeithas, yna mae ei gyfeillach ef yn ddiammeu yn rhwyd iddynt; oblegid nhw ôll a ŷſant hefyd yn hytrach na cholli ei gymdeithas ef. Y mae etto fai mwy yr hwn y mae llawer o 'r rhai nerthol ymma i Yfed yn euog o hono, ſef, ei goſod ei hunain yn *bwrpaſol* i feddwi eraill, gan chwareu megys camp ar hynny, a chyfrif hynny yn achos o Orfoledd a buddugoliaeth weled eraill yn Syrthio o 'i blaen hwynt: mae hyn yn bechod traechryſlon, nid amgen na 'n gwneuthur ein hu-

Sul VIII.

Euogrwydd anfeidrol yr Tfwyr nerthol.

Sul VIII. nain yn *Blaid* i'r *Cythrel*, gan ymegnïo hyd yr eithaf o'n gallu i ddenu ein cyd-frodyr i drueni tragywyddol, trwy ei bradychu nhw i'r cyfryw bechod echryſlon; ag am hynny, ſe ellir yn ddâ gyſtal hyn yn ràdd uchaf o'r pechod hwn o Yſed, gan fôd yntho, heb law ein gormodedd ein hunain, y pechod o ddrygu eraill yn ddirfawr. Ag er bôd y byd yn edrych ar hyn ond megys achos o *gellwair* a *digrifwch*, ïe, meddwi eraill mòdd y gallont ni chwerthin am ben ei hymddygiad ynſyd ffôl hwynt, erro ſe ddibenna'r cyfryw *ddigrifwch* mewn *Triſtwch*, gan fôd Duw gwedi bygwth *gwàe* yn arbennig i'r pechod hwn, *Hab.* 2. 15. *Gwàe a roddo ddiod i'w gymydog, gan gyd-oſod dy goſtrel, a'i feddwi hefyd er cael gweled ei noethni*: Ag yn ddiammeu, mae efe yn prynu ei goeg-ddiyrnwch yn ddrûd iawn, yr hwn a'i cymmer ef a'r cyfryw *wàe* i'w ganlyn.

Y Drygau anfeidrol ſy'n dilyn y pechod hwn.

13. Mi a draethais bellach am yr amryw *Anwybyddiaethau* a *Gradduau* o'r pechod hwn o *Feddwdod*, lle y bum yn ſwy neilltuol, oblegid mi fôd yn bechod yn Rheoli mor rhyfeddol yn ein myſg, gan nad oes na *chyfflwr*, nag *Oedran*, na *gràdd* yn y byd o ddynion, yn rhydd oddiwrtho, i fawr ddïanrhydedd Duw, dirmyg Criſtianogrwydd, a dinyſtr nid yn unig ein Heneidiau ein hunain ar *ei ôl hyn*, ond hefyd ein hôll ſudd a'n dedwyddwch *preſennol* yn y *byd hwn*; gan nad oes ûn pechod yn bradychu pôb rhyw ddyn neilltuol ar a'i gwnelo i ſwy o *ddrygau* yn ei *Synwyr*, ei lechyd, ei *ſrê*, a'i *Ddâ bydol*, nag y mae hwn ei hûn. Ag mae i ni achos i gredu fôd y pechod hwn yn ûn o'r pechodau dirfawr cyffredinol hynny y rhai tros hîr amſer a bwyſaſant yn drwm ar y *Genhedlaeth* hon, ag a dynnaſant i lawr yr amryw farnedigaethau

nedigaerhau echryſlon hynny y gruddfanaſom ni tanynt. Sul VIII.

14. Am hynny, O Ddarllennydd *Criſtianogawl*, gad i mi yr awrhon ddeiſyf arnat, neu yn hyttrach dy dynghedu di trwy'r holl dymherwch a'r cariad ſydd ddlèdus arnat i anrhydedd Duw, Brî dy broffes Griſtianogawl, dedwyddwch tragywyddol dy enaid dy hûn, Llwyddiant yr Eglwys a'r Genhedl o ba ûn yr wyti 'n aelod; iê, trwy 'r Cariad hwnnw ſydd yn ddiammeu gennit i'th happuſtrwydd amſerol dy hùn, i feddwl yn ddwys ag yn ddiwyd am y péth a draethwyd; Ag yna barna dy hùn, a oes pleſer yn y bŷd yn y pechod hwn a ddichon wneuthur iawn cymwys am yr holl ddrygau hynny y mae yn ei ddwyn gyda'g ef; mae'n ſiŵr gennit nad oes ûn dŷn yn ei iawn bwyll a dybia fód; ag os nid oes, yna bydded cywilydd gennit ti fód rhag llaw yn gyſtryw ûn ynſyd a gwneuthur bargen mor reſynol, eithr dechreu y munudyn hwn lawn-ſwriadu yn gadarn na bô i ti byth rhag llaw fód yn euog o'r pechod anifeiliaidd hwn, er mynyched hyd yn hyn y ſyrthiaiſt iddo; ag ymoſod dy hûn yu ofn Duw i *Gymmedrolder* cyflawn; yr hyn pan wnelych, ti a ganfyddi i ti wneuthur nid yn unig gyſnewidiad *buddiol* ond ûn *hyfryd* hefyd; oblegid nid oes nêb a archwaethodd o bôb ûn o'r ddau na ddywed ei galon ei hün iddo fôd anfeidrol mwy o gyſſur ag hyfrydwch mewn *Sobrwydd* a *Chymedrolder*, nag a gafodd ef erioed yn ei hóll *Feddwdod* a'i *Drythyllwch*.

Annogiad i ymadel ag ef.

15. Torri ymmaith yr *Arfer* ar y *cyntaf* ydyw'r anhawſder mwyaf, a hynny ſy'n digwydd naill ai o'n plegid ein hunain, ai oblegid eraill. Yr anhawſder o'n plegid ein hunain a ddichon fód o ddau fáth; yn *gyntaf*, pan fôm trwy hîr ymarfer o ŷfed gwedi dŵyn y fáth gau-fyched arnom ein

Tr anhawſder o hyn.

Tymmerrhai yn gofyn y Ddied

Sul VIII. ein hunain, a bód ein Cyrph megys yn gofyn y Ddiod; ag nid oes eiſieu ond ychydig *ammyn-nedd* i orchſygu byn ymma. Ymarbed ond tros ychydig Ddyddiau, ag ar ól hynny fe fydd yn ddigon eſmwyth i ti; oblegid gan mai *arfer* a wnaeth yr *anhawſder* ymma, torr *hwnnw* ymmaith, a thi a wnaethoſt y gwaith. Os dywedi, y mae'n anhawdd iawn gwneuthur felly; yſtyria, pe byddei arnat ryw gleſyd a'th laddeu yn ddiammeu oddigaeth i ti tros ychydig amſer ymgadw rhag yſed yn anghymmedrol, oni fydde well gennit ymgadw na marw. Os ni bydde, yr wyti 'n fárth hurtyn amfeiliaidd nad yw ond ofer dy gynghori; ond os bydde, ynayſtyria mor anreſymmol yw, na wnèi di felly ymma hefyd; fe ddichon *ymarfer* o *yfed* yn ddà iawn baſſio am *Gleſyd marwol*, y mae yn digwydd felly yn fynych iawn i'r Corph, ond yn ddiammeu fe a fydd felly i'r Enaid; ag am hynny, cynddaredd gwallgofus yw ſefyll ar yr anhawſder ymma yn meddiginiaethu 'r Enaid, yr hwn a ymroit yn ewyllyſgar iddo mewn llai perigl o'r Corph. Goſod gan hynny ond dy lawn-fwriad i ddioddef yr ychydig helbul hwnnw tros amſer byrr, a thi a gei 'r oruchafiaeth ar yr anhawſder cyntaf ymma, canys gwedi iti ymarbed tros dró, fe fydd yn hawdd iawn i ti wneuthur felly rhag llaw.

Eiſieu peth arall i'w wneuthur.

16. Yr *ail* anhawſder yw, *treulio 'r Amſer*, yr hwn ni ŵyr y nèb a fû arferol o wneuthur yſed yn Neges ag yn orchwyl ond prin pa fodd i'w fwrw heibio. Ond mae hyd yn oed henwi'r anhawſder ymma yn ein cyfarwyddo ni at feddiginiaeth; cais iti ryw *orchwyl*, rhyw béth i'th ymoſod dy hûn yn ei gŷlch, yr hyn (fal y dangofais o'r blaen) a fydd yn hawdd iawn i bób máth ar ddŷn ei gael; ond ſiŵr, ni all ſód ar y rádd

waelaf

waelaf o ddynion, at ba rai yr wyſi 'r awrhon yn ſcrifennu, eiſieu gorchwyl yn barod ger llaw, gan i bód nhw gan mwyaf i ennill ei bywoliaeth trwy ei llafur, ag am hynny nid rhaid i mi ond yn unig roi 'r cyngor hwn iddynt hwy, ſef, bôd yn ddiwyd yn y gorchwyl hwnnw ſydd ganddynt, a dilyn hwnnw yn fanwl fal y dylent; ag ni bydd iddynt ond ychydig achos i chwilio allan am y ffordd hon i dreulio 'i hamſer. Sul VIII.

17. Y mae mâth arall ar anhawſder, yr hwn a ddywedais ſydd yn digwydd oddiwrth eraill, a hynny yw naill a'i oddiwrth ei *hannogaethau*, neu 'i *gwradwyddau* hwynt. Y mae yn debyg iawn, os dy *hên gymdeithion* a'th wêl di yn dechreu ſyrthio ymmaith, y goſodan nhw yn galed arnat i'th ddwyn di yn ól i th hên arfer, nhw a haeran mor *angharedig* yw iti ymwrthod a *Chymdeithas* dy *gyfeillion*, mor driſt yw i ti ymadel a'r holl Lawenydd a'r Digriſwch hwnnw, yr hwn y mae *Cymdeithion-dâ* (fal y galwant hwynt) yn ei mwynhau: ag onid ellir dy ennill fal hyn, nhw a'th frawychant a gwradwydd y bŷd, ag felly profi a allant dy wawdio allan o'th ſobrwydd. *Hudoliaeth a Gwradwydd dynion.*

18. Y módd i orchſygu 'r *anhawſder* ymma yw, ei ganſod ef ymlaen llaw; am hynny pan amcenych di gyntaf oſod ar dy gwrs o *Gymmedrolder*, bwriada y cyfarfyddi a'r rhain, ag yſgatfŷdd a llawer eraill o Broſedigaethau; ag môdd y gellych iawn-farnu a ydynt hwy deilwng i ti wneuthur cyfrif o honynt, yſtyria a haedda 'r *gau-garedigrwydd* a gynnyddir ymŷſg dynion trwy Yſtrad, ei gyſtadlu a'r gwîr dragywyddol garedigrwydd Duw yr hwn a gollir trwy hynny; neu a oes gymmeſurwydd yn y bŷd rhwng y *gwâg-ddiſyrrwch ffôl* hwnnw, a llawenydd preſennol Cydwybod ddâ ymma, neu 'r llawenydd *Rhai moddion o'i gwrthwynebu.* *Cyſtadla'r ſantes a'r golledig.*

mwy

Sul VIII. mwy liwnnw yn y Nêf ar ôl hyn. Yn ddiweddaf, a yw gwradwydd annheilwng dynion drŵg, neu gywilydd y bŷd mor echryſlon ag yw cyſiawn argyoeddiad dy Gydwybod dy hun yn y cyſamſer, a'r tragywyddol warthrudd wyneb yr hwn a ddigwydd i bawb ar y dŷdd diweddaf ar a êlo ymlaen yn y pechod hwn; dyſalbwyſa hyn ôll, meddaf, nid rhaid i mi ddywedyd, ynghlorian y Cyſſegr, ond ynghlorian Rheſwm cyffredinol, a diammeu, nid elli lai na chydnabod, fôd yr Annogaethau i Gymmêdrolder yn llŵyr bwyſo i lawr y lleill. Gwedi i ti fal hyn farnu yn bwyllog, yna ſeſydla dy lawn-fwriad yn gyf-attebol; a pha brŷd bynnag y daw rhai o'r Profedigaethau hyn i'th ſiglo, coſia i ti o'r blaen ei pwyſo hwynt, a'th fôd yn gwybod ei prîs, a'i bôd nhw yn bethau annheilwng iawn o'r Rhagor-freintiau gwerthfawr hynny ſydd raid i ti roddi yn gyfnewid am danynt. Am hynny parha yn ddyfal yn dy lawn fwriad, a bwrw ymmaith trwy Lidiawgrwydd bob rhyw gynhyrfiadau i'r gwrthwyneb.

Gwrthod y Profedigaeth yn ei dechreuad.

19. Ond bydd ſicr o'i bwrw hwynt ymmaith fal hyn ar y cynnyg cyntaf, na ddód y goreu iddynt yn y meſur lleiaf; oblegid os tydi unwaith a roddi lê iddò, mae perigl mawr y mynn y pechod bôb ychydig ag ychydig y llaw uchaf arnat. Dymma fal y gwelwn laweroedd y rhai a addefafant yn hyderus fwriadu *Cymmedrolder* dirfawr, etto o eiſieu 'r gofal ymma, a anturiaſant ar gyfeillach ofer-wŷr; pan ddaethant yno, trwy daer ymbil ar y cyntaf nhw a gymmeraſant gwppaned, gwedi hynny ûn arall, nes o'r diwedd iddynt ei chymmeryd o amgylch cyn rhwydded a'r lleill; ag yn y *Llifeiriant* hwnnw o *ddiod*, nhw a foddaſant ei hôll amcanion

ſobr

ſobr. Pwg bynnag gan hynny wyti a'r ſydd yn chwennych yn ddifriſol ymwrthod a'r pechod, edrych am ochelyd yr Achoſion a'r Dechreuad o honaw; i'r diben hwn ſe ſŷdd yn gymwys i ti draethu allan ar gyhoedd dy amcanion o ſobrwydd, ag felly ti a ddi-galonni ddynion rhag ſyrthio arnat. Ond os bydd naill ai yn gywilidd gennit gyfaddef hynny, neu, os tybir dy fôd di felly, nhw a wnânt ddefnydd o'r Cywilydd hwnnw i'th ddwyn di i dorri dy fwriad. Sul VIII.

20. Os byddi di fal hyn yn wiliadwrus i'th gadw dy hûn rhag y *cynnhyrfiadau cyntaf*, yna 'r wyt yn ſicer na oddiwedda 'r pechod hwn bŷth monot. Canys mae hyn yn debyg i gadw 'r muriau oddiallan i *Ddinas warchaedig*, y rhai tra 'r amddeffynnir nhw yn nerthol, nid oes dim perigl; ond os goreſcynnir hwynt, neu os rhoddir hwynt i fynu, ni ddichon y Ddinas ddal allan yn hîr: Y mae gan hynny Gyngor y gŵr doeth yn dra-chymmeſurol i'r pwrpas hwn; *Eccleſ.* 19. 1. *Yr hwn ſydd yn diyſtyru ychydig, a ſyrth o feſur ychydig.* Ond oblegid fal y dywed y *Pſalmydd*, Pſal. 127. 1. *Os yr Arglwydd ni cheidw 'r Ddinas, ofer y gwilia 'r Ceidwad.* am hynny adchwanega at dy wiliadwraeth dy hûn *Weddi* ddifriſol ar fôd i Dduw heſyd wilio troſot, a thrwy rym ei Râs ef dy wneuthur di yn abl i wrth-ſeſyll yr hôl Brofedigaethau i'r pechod hwn. *T diogelwch o wneuthur felly.*

21. Os tydi mewn *ſymlrwydd* dy Galon a arferi 'r *moddion* hyn, nid oes ammeu nad elli gael yr oruchafiaeth ar y pechod hwn, er cyhyd yr ymarferaiſt ef; am hynny, os wyti etto tan ei Lywodraeth ef, na eſcuſoda monot dy hûn gan ddywedyd fôd y gwaith yn ammhoſſibl, eithr yn hyttrach cyhudda ffûg dy Galon yr hon ſydd etto mor hôff ganthi 'r pechod hwn, *T moddion hyn yn effeithiol os na rwyſtrir monynt trwy hoffder ô'r Pechod.*

Sul VIII. ag na fedri ymoſod yn ddiſrifol i arferu 'r moddion i'w orchfygu.

Mae'r hoffder o bechod yn gwneuthr i ddŷn feddwl nad yw'n beyglu.

22. Fe ddarfu yſgatfydd i *gyffredinoldeb* y *pechod* hwn, a'th ymarfer neillduol di o hono, ei wneuthur ef mor hôff a chartrefol iti, a bôd yn anhawdd gennit feddwl yn galed o hono, neu dybied i fôd ef yn amcanu niwed i ti, ag am hynny, mae'n hawdd gennit draethu heddwch i ti dy hûn, gan obeithio naill ai nad ydyw ef *Bechod*, neu o'r eithaf ond *Gwendid*, yr hwn ni 'th rwyſtra di rhag dyſod i'r Nêf: Ond na thwylla monot dy hûn, oblegid ti a elli yn gyſtal ddywedyd nad oes Nêf, ag na cheidw *Meddwdod* di allan o honi; mae 'n ddiogel gennif mai 'r ûn Gair Duw yr hwn ſy 'n dywedyd i ni fôd y cyfryw lê o *ddedwyddwch*, ſydd hefyd yn dywedyd i ni nad yw *Meddwon* o nifer y rhai a 'i *ettifeddant*. 1 Cor. 6. 10. a thrachefn, *Gal.* 5. 21. Fe gyfrifir *Meddwdod* ymŷſg *gweithredoedd y Cnawd*, y rhai pwy bynnag a'i gwnêl, *ni chânt etifeddu Teyrnas Dduw*. Ag yn wîr, ped fae 'r ſcrythur heb ſôn, fe ddywedai Rheſwm naturiol i ni yr ûn pêth, ſef, bôd y Nêf yn fangre o anfeidrol bûrdeb, yn gyfryw ag na ddichon *cîg* a *gwaed*, nes ei *buro* a 'i *addnewyddu*, fyned i memn iddi, fal y dywed yr Apoſtol, 1 *Cor.* 15 53. Ag os ydym megys yn ddynion yn rhŷ ammhur ag amroſgo iddi, yr ydym yn diammeu yn fwy o lawer felly, gwedi i ni ein newid ein hunain i fôch, y budraf o Anifeiliaid; yna yr ydym yn barod i'r *Cythreuliaid* i fyned i mewn i ni, megys ag yr aethant i'r *genfuint*, *Marc.* 5. 13. A hynny nid yn unig ûn neu ddau, ond *Llêng*; byddin a lliaws o honynt. Ag yr ydym beunydd yn gweled *Siamplau* o hyn, oblegid llê y mae 'r pechod hwn o *Feddwdod* gwedi cymmeryd meddiant, y mae gan mwyaf yn dwyn aneirif o rai eraill gydâg

dâ'g ef; mae pôb gweithred o bechod yn paratoi dŷn, nid yn unig i ûn arall o'r unrhyw, ond i lawer eraill hefyd; mae trachwant a chynddaredd a phôb gwyniau anifeiliaidd y Prŷd hynny yn ymddangos, ag felly y mae dyn yn ei ddwyn ei hûn tan y felldith hono yr hon oedd yr echryflonaf ar a wyddei Dafydd pa fôdd i'w rhagddywedyd i ûn dŷn, *Pfal.* 69. 28. *Syrthio o'r naill Anwiredd* i'r *llâll.* Os ni thyccia hyn i gyd i'th ddychynnu di allan o'th Feddwdod, dôs ymlaen i ymdrybaeddu yn dy chŵydiad, parhâ yn y cyflwr budr anifeiliaidd hwn, nes i fflammau Uffern dy ddeffrô, ag yna ti a ganfyddi, i'th ddi-dranc drueni, mai *Diben y pethau hynny*, fal y dywed yr Apoftol *Rhuf.* 6. 21. *yw Marwolaeth.* Duw o'i anneirif drugaredd a ddadebro galonnau y rhai ôll fydd yn eûog o'r pechod ymma, môdd y gallont mewn prŷd ymadel ag ef, ag felly *Gochelyd y Llîd fydd i ddyfod.* Fe ddarfu i mi bellach draethu am yr *ail* Rhan o *Gymmedrolder*, fef, ynghylch *Yfed.* Sul VIII.

Sul IX.

SUL IX.

Cymmedrolder yn Cyſcu: y Rheol o hynny, &c. *Drŵg Syrthni; am Atgyweiriadau neu Ddiſyrwch; Gocheliadau iw hyſtyried yn hynny; am Wiſg,* &c.

Cŵlg. 1. Y *Trydydd* Rhan o **Gymmedrolder** ſydd yn perthyn i **Gyſgu**; Ag mae'n rhaid meſur y *Cymmedrolder* yn hynny hefyd trwy'r diben er mwyn pa ûn yr ordeinwyd *Cŵſg* gan Dduw, yr hyn oedd yn unig i ddiſyrru ag i gynnal i ſynu ein Cyrph gwael, y rhai gan ei bôd o'r cyſtryw dymmer a bôd llaſur a lludded waſtadol yn peri iddynt ſlino a bôd yn ddiffygiol, y mae *Cŵſg* yn dyſod megys meddiginiaeth i'r Blinder hwnnw, ag argyweiriad i'r diffygiad hwnnw, fal y byddom yn gymwys i'r cyſtryw laſur ag y bô Dledſwyddau Crefydd, neu weithredoedd ein Galwedigaeth yn ei gofyn gennim. *Cŵſg* a fwriadwyd i'u gwneuthur ni yn fwy buddiol, nid yn fwy Segur; megys yr ydym yn rhoddi etmwythdra i'n Hanifeiliaid, nid oblegid ein bôd ni yn bodloni iddynt ſôd heb wneuthur dim, ond fal y gallont wneuthur ein Gwaſanaeth ni yn well.

Y Rheol o Gymmedrolder ynho. 2. Trwy hyn gan hynny chwi a ellwch farnu pa bêth yw *Cŵſg Cymmedrol*; ſef, yr hwn a'n hatgyweiria ni, ag a'n gwna ni yn fwy cymwys i Laſur, ag i'r diben hwnnw grâdd gymmhedrol o hono ſydd oreu. Ammhoſſibl fydd goſod ar lawr yn union pa ſawl Awr yw'r râdd gymmhedrol honno, oblegid megys yn *bwyta*, ſelly

felly hefyd yn *Cyſgu*, mae tymmer rhai Cyrph yn goſyn ychwaneg na 'r lleill: Rhaid i bôb dŷn farnu hyn wrth ei Gyfarwyddyd ei hûn, ond edrych ed am farnu yn union, heb ymoſyn a 'i Syrthni yn hyn o beth, oblegid hwnnw a waedda allan yn waſtad gyda *diogyn Solomin*, *Ychydig ychwaneg o Gyſgu, ychydig heppian, ychydig waſgu 'r dwylo i gyſcu*; Dihar. 24. 33. Ond cymmeryd yn unig cymmaint ag a wêl ef a duedda yn ddiau i 'r diben rhag-ddywededig. Sul IX.

3. Y mae 'r neb nid yw ſal hyn yn ei gadw ei hûn i mewn, tan yr ún pechod Cyffredinol hwn o Syrthni, yn Syrthio i amryw Bechodau eraill: megys yn *gyntaf*, mae ef yn treulio ei amſer, ſef, y Dalent werthfawr honno a roddes Duw iddo i w adchwanegu; ond mae 'r neb a'i *cŵſg* hi allan yn gwneuthur yn debyg i 'r Dŷn yn yr Eſengyl, (*Matth.* 25. 18.) yr hwn a 'i *cuddiodd hi yn y Ddaiar*, pan ddylaſei farchnatta a hi; a chwi a wyddoch bêth a ddigwyddodd i 'r *gwâs anfuddiol* hwnnw, *wer.* 30. *Bwriwch ef i 'r tywyllwch eithaf*: y néb ſydd yn ei ymroi ei hûn i dywyllwch *Cŵſg* ymma, a gaiff yno dywyllwch héb *Gŵſg*, ond gyda 'g *Wylofain a rhincian dannedd*. Yn *ail*, mae ef yn gwneuthur cam a'i Gorph, mae *Cŵſg* anghymmedrol yn llenwi hwnnw o ddoluriau, ag yn ei wneuthur ef yn ryferthwy pôb ffieidd-glwyf, megys y mae Cyfarwyddyd feunyddiol yn dangos i ni. Yn *drydydd*, mae efe yn gwneuthur niwed i 'w *Enaid* hefyd, a hynny nid yn unig trwy rwyſtro iddi waſanaeth y Corph, ond trwy bylu ei doniau priodol hi, a'i gwneuthur hwynt yn annefnyddiol ag yn anghymwys i 'r Gorchwylion hynny i ba rai yr ordeiniodd Duw hwynt; ag fe fydd rhaid i 'r Enaid druan ryw ddŷdd rhoddi cyfrif am yr holl ddrwg-oruchwyliaeth hyn. Iê, yn *ddiowe-* *Drŵg Syrthni.*

Sul IX. *ddiweddaf*, mae ef yn dirmygu Duw ei hún yn hyn, trwy groeſi diben ei greadigaeth, yr hyn oedd i waſanaethu Duw trwy Uſydd-dod weithredol, ond mae 'r hwn ſydd yn Cyſgu allan ei ſywyd, yn croeſi yn hollawl ag yn gwrthwynebu hynny; a phan fô Duw yn dywedyd, *Dŷn a aned i Lafur*, mae ei ymarweddiad ef yn dywedyd yn union yn y gwrthwyneb, mai *Dŷn a aned i Seguryd*. Gochel gan hynny dy roddi dy hûn i ſynu i *gŵſg* anghymmedrol, yr hwn ſydd yn cynnwys llawer o Bechodau yn ûn.

Drygau eraill o Syrthni.

4. Ond heb law ei ſôd ef yn Bechod, y mae mewn moddion eraill hefyd yn niweidiol iawn, y mae yn ddiammeu yn llwgr i 'th olud bydol, yr hwn ni chynnydda bŷth i 'r diogyn, fal y dywed y gŵr Doeth, *gormod Cyſgu a bâr fyned mewn gwîſg ddrylliog*, *Dihar.* 23. 21. hynnu yw, ni chaiff y *Swrth* wŷſg gyfleus; Ié, yn wîr prin y gellir dywedyd fod dŷn cyſgadur yn ſyw: chwi a wyddoch mai mâth ar Farwolaeth i 'w *Cŵſg*, a pha bêth a wnâ 'r hwn a 'i rhoddo ei hûn i ſynu i *Gŵſg* ond marw cyn ei hamſer? Am hynny os edrychir ar Farwolaeth an-amſerol megys melldith, ynfydrwydd rhyfeddol yw i ddŷn ddewis hynny oddiwrth ei Syrthni ei hûn, yr hyn y mae ef yn ei arſwydo cymmaint oddiar law Duw.

Cymmedrolder mewn Atgyweiriadau.

5. Y *pedwerydd* Ran o *Gymmedrolder* a berthyn i *Atgyweiriadau*, y rhai ſydd weithiau yn angenrheidiol i Gorph ag i Feddwl Dŷn, gan na ddichon yr ûn o honynt oddef lludded ddibaid, hêb beth cyfwng o lonniad ag eſmwythdra; ag am hynny y mae arfer tra-chyfreithlon o honynt; ond er mwyn ei hiawn-arferu hwynt, fe ſydd angenrheidiol Yſtyried y *Gocheliadau* hyn.

6. Yn

Sul IX.

6. Yn *gyntaf*, Cymmerwn ofal ar ei bód nhw yn rai cyfreithlon, ſef, rhai na bò dim pechod ynddynt; ni waſanaetha i ni i'n *diluddedu* eim hunain wneuthur dim a fô yn dianrhydeddu Duw, neu yn niweidiol i'n Cymydog, megys y gwnâ y rhai ſydd yn gwneuthur ymadroddion ffiaidd halogedig enllibaidd yn atgyweiriad. Yn *ail*, cymmerwn ofal ar i ni ei arferu hwynt mewn *cymmedrolder*: ag er mwyn hyn, gochelwn dreulio *gormod* o *Amſer* arnynt, eithr cofiwn mai diben Argyweiriad yw, i'n cymmhwyſo ni i ryw orchwyl, ag nid i fôd ei hún yn orchwyl i ni: yn ail, na arferwn monynt yn rhŷ *gerth* a *difrifol*, ag na oſodwn ein Calonnau ormod arnynt, oblegid ſe rwyda hynny ni i'w arferu ormod, ag a drŷ heſyd ein Meddyliau ymmaith oddiwrth ein negeſau mwy angenrheidiol; Fal Plant Yſgol, y rhai, gwedi hîr chwareu, ni wyddant pa ſódd i'w ymoſod ei hunain at ei Llyfrau drachefn. Yn *ddiweddaf*, na oſodwn i ni ein hunain ún diben arall o Atgyweiriadau, ond yr ûn cyfreithlon hwnnw, ſef, o roddi i ni ddi-luddediad cymmheſurol.

Gochelia-dau i'w by-ſtyried yn-ddynt.

7. Megys yn *gyntaf*, ni waſanaetha i ni arferu diſyrrwch yn unig i ſwrw heibio'r amſer, yr hwn a ddylem trwy bób módd ei waredu ag nid ei daflu ymmaith; ag os cofiwn ni pa waith mawr ſydd i ni i'w wneuthur ymma, ſef, *gwneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn ſicr*, ſiccrhau ein braint i'r Neſoedd ar ôl hyn, ag heſyd mor anilys ydym pa amſer a gawn ni i'r pwrpas hwnnw; ſe ymddengys mai ein hamſer yn anad dim a ddylem ni ei hwſmonaethu oreu. Ag am hynny, nid oes i ni fawr achos i ſwriadu ffŷrdd ei dreulio hwnnw yr hwn ſydd yn myned ymmaith cyn gynted o hono'i hûn, ag y mae'n amhoſſibl ei ail-gaffael. Yſtyried y rhai a fedr dreulio *Dy-*

Dibennion annyladwy o honynt.

ddiau

Sul IX. *ddiau a noſweithiau cyfan ar Gardiau a Diſtau*, a chwaryddiaeth ofer, a ddarfu iddynt erioed hepcor y bedwerydd Ran o'r *Amſer* hwnnw yngh̃ylch y gorchwyl mawr hwnnw o'i bywyd er mwyn pa ûn y rhoddwydd iddynt ei holl *Amſer*, ag yna yſtyriant pa gyfrif gre͂ſynol y maent yn dẽbyg i'w wneuthur, pan ddelont o'r diwedd i roddi cyfrif am y tryſſor gwerthfawr hwnnw, o'i *Hamſer*. Yn *ail*, gwliwn rhag bôd i'n Cybydd-dod ddim a wnelo yn ein chwareuon; os chwarâwn ni ryw *Chwaryddiaeth*, bydded ein diben yn unig i'n di-luddedu ein hunain, ag nid i ennill arian; ag i'r pwrpas hwnnw edrych na bó iti ûn amſer chwareu am lawer, canys os gwnéi, ti a'th ddygi dy hún i ddau berigl, ûn o Gybydd dod a chwant dirfawr o ennill, a'r llall o Gynddaredd a digoſaint wrth dy ddamwain ddrwg, os digwydd iti golli; pôb ûn o'r rhain a fŷdd tebyg i'th dd̃enu di i Bechodau eraill heblaw nhw 'i hunain: *Cybydd-dod* a'th tywys di i ẽwyllo ag i hoccedu wrth chwareu; a *digoſaint*, i dyngu a rhegu, fal y gwelwn yn rhŷ fynych yn gyffredinol. Os gweli dy hûn yn dueddol i' rûn o'r rhain yn dy chwareu, rhaid iti naill ai ceiſio rhyw ſoddion i'th arfogi dy hûn yn ei herbyn hwynt, neu adael heibio chwareu yn hollawl: oblegid, er nad yw chwaryddiaeth gymmedrol ynthi ei hûn yn anghyfreithlon, etto os bydd hi yn achos o bechod, y mae hi felly iti, ag am hynny na anturia arni. Canys os ydyw Criſt yn gorchymyn i ni mor gaeth ochelyd Profedigaethau, ag os bydd ein llygaid neu 'n dwylo yn ein rhwyſtro ni (hynny yw, yn rhwydau i ni) rhaid i ni yn hyttrach ymadel a hwynt, na goddef ein denu i bechod ganddynt: pa faint mwy y dylem ymadel a'r gwâg ddifyrrwch hyn yn hyttrach na rhedeg

rhedeg i'r enbydrwydd o ddigio Duw trwyddynt? Y mae'r hwn ſydd felly yn chwareu yn rhoddi ei Enaid yn wyſtl ar lawr, yr hon ſydd beth rhŷ werthfawr i'w chwareu ymmaith. Heblaw hynny, mae efe'n colli'r holl ddiſyrrwch a'r di-luddediad y mae yn ei fwriadu ei gael wrth chwareu, ag yn llè hynny yn gofod mwy o Ludded arno'i hûn nag yw'r llafur y mae yn chwennych ei yſgafnhau ei hùn o hono: obiegid yn ddiammeu fód deiſyfiadau ag ofn y Cybydd, an-oddefgarwch a chynddaredd dŷn digllon yn fwy lludded nag y gall y gorchwyl mwyaf poenus fód. Sul IX.

8. Y rhan *ddiweddaf* o *Gymmedrolder* yw, ynghylch *Gwiſgoedd*, yr hwn ſydd raid i ni drachefn ei feſur wrth y cymmeſurwydd a ſydd yn-ddynti'r dibennion er mwyn pa raiſy dylid arferu dillad: y rhai hynny yn enwedig yw'r trî hyn; yn *gyntaf*, cuddio noethni. Hyn oedd yr achos cyntaf o *ddillad*, fal y darllennir, *Gen.* 3. 21. ag oedd ffrwyth y pechod cyntaf, ag am hynny pan gofiom ddechreuad *Dillad*, mae i ni cyn lleied o achos i ymfalchío o'i plegid, a bôd i ni o'r tu arall achos i gwilyddio a bôd yn ddaroſtyngedig, megys rhai a gollod y Diniweidrwydd hwnnw, yr hwn oedd yn Addurn mwy o lawer nag y dichon y *Gwiſcoedd* gwychaf fód. Oddiwrth y diben hwn o wiſgiad yr ydym heſyd yn rhwymedig ar fód ein *Dillad* yn foddus a chymmedrol, yn gyfryw ag a fô yn gyfattebol i'r diben hwn o Guddio ein cywilydd: Ag am hynny, rhaid yw gochelyd pób mâth o *Ddillad* anweddus, y rhai naill ai a ddengys drythyllwch y gwiſgwr, neu a demtia'r edrychydd. *Cymmedrolder mewn Gwiſgoedd. Cuddio noethni.*

9. Yr *ail* diben o Wiſgiad yw, cadw'r Corph rhag Anwyd, ag felly i gynnal ei Iechyd ef; a'r diben hwn heſyd ſydd rhaid i ni yſtyried yn *Cadw 'r Corph rhag Anwyd.*

Sul IX. ein Dillad; rhaid i ni wiſgo y cyfryw fáth o *Ddillad* ag a'n cadwo ni yn y cynnheſrwydd cymheſurol hwnnw yr hwn ſydd anghenrheidiol i'n hiechyd. Ag yn hyn y cyfeiliornir pan fôm o wag-falchder i fód mewn pób rhyw drwſiad rhodreſgar, yn ein hamwiſgo ein hunain a'r cyfryw ddillad ag naill ai ni'n ceidw ni rhag Anwyd, neu a fô ryw ffordd neu'i gilidd mor aneſmwyth a bôd yn rhwyſtr yn hyttrach na lleſhâad yn y bŷd i'n Cyrph. Y mae hyn yn yn-fydrwydd dirfawr, ag etto yn gyfryw ag y bydd y rhai a fò yn ymfalchiò yn ei *Dillad* yn fynych yn euog o hono.

Rhagoriaeth rhwng y naill ar llall.

10. Y *Trydydd* diben o ddillad yw, er mwyn gwneuthur Rhagoriaeth rhwng y naill a'r llall; a hynny yn gyntaf, oblegid *Rhîth*; yn ail, oblegid *Breintiau* a chynneddfau. Yn *gyntaf*, Dillad ſydd i wneuthur Rhagoriaeth rhwng Rhith; hyn a arferwyd gan bôb Cenhedl, yr oedd yn waſtad gan wŷr a gwragedd amryw drwſiad. Ag fe ddarfu i Dduw ei hún ordeinio hyn yn hynnod ymŷſg yr *Iddewon*, trwy orchymmyn na byddai i'r gŵr wiſgo Dillad y wraig, na 'r wraig Ddillad y gŵr. Ond yn *ail*, mae yn rhaid cadw Rhagoriaeth Breintiau a chynneddfau mewn *Dillad*, fe oſododd Duw rai mewn cyflwr uwch na 'r lleill, ag fe weddai iddynt ei dilladu ei hunain yn gyf-attebol i'w cyflwr; *Dillad anrhydeddus a maſſwedd*, mêdd ein Iachawdr, a weddai i *balâſau Brenhinoedd*, Luc. 7. 25. Y mae yn rhaid heſyd gadw 'r dîben hwn o *Wiſgiad*. Fe ddyle wŷr a gwragedd ymfodloni ei hunain a'r cyfryw fáth o Wiſgoedd ag a fò yn gyf-attebol i w cyflwr a'i cynneddfau, nid ymdrech i fyned tu hwynt neu i gyſtadlu a rhai o uwch râdd, nag ychwaith cenſigennu rhai o'i cyflwr ei hunain, gan ymryſon pwy a fydd wychaf, eithr gwiſ-

ged

ged pôb dŷn ef ei hûn yn y cyfryw ddillad gweddaidd ag a fô cymmwys i'w *Lê* a'i alwedigaeth, ag nid meddwl ei fôd yn cael ei ddirmygu os bydd Cymydog arall yn wychaf nag ef. Sul IX.

11. A chofied pawb, nad ydyw Dillad yn adchwanegu gwîr fraint i nêb, am hynny gwagedd anfeidrol yw treulio nemmawr o'n Meddyliau, o'n Hamſer, neu o'n Golud arnynt hwy, neu i rai dybied yn well o honynt ei hunain o'i plegid hwynt, neu ddiyſtyru ei Brodyr tlodion a fô hebddynt. Eithr os chwennychant ei addurno ei hunain, bydded fal y mae St. *Petr* yn cynghori y gwragedd o'i amſer ef, 1 *Pet.* 3. 4. *Yn nirgel ddŷn y Galon, ſef, Addnrn Yſpryd addfwyn a llonydd.* Ymwiſgant ei hunain mor drefnus ag y bô poſſibl a Rhinweddau Criſtianogawl, a dyna 'r Gwiſgiad a'i gwnâ hwynt yn hawddgar yngolwg Duw, iê, a dynion hefyd, y rhai, oddigaeth ei bôd yn ynſydion neu huttanod, a'th barcha di yn fwy am dy ddaioni nag am dy wychder; ag yn ddiammeu, mae ûn Bais glŷd a roddech di ar gefn dŷn tlawd yn fwy gweddus i ti nag ugain o rai gwychion am dy gefn dy hûn.

12. Mi a draethais bellach am yr amryw Rannau o Gymmedrolder; yr awrhon i ddibennu, mi a addroddaf hyn yn gyffredinol, er na ddarfu i mi yn yr holl Rannau neillduol hŷn ddal ſulw ond ar yr ûn bai hwnnw yn unig o Ormodedd, etto fe ddichon fôd ûn ar y llaw arall: fe ddichon Dyuion neccáu i'w Cyrph yr hyn ſydd angenrheidiol i'w cynnhaliaeth. Nid ydyw hyn, yr ŵyf yn credu, yn fai mor gyffredinol a 'r llall, etto ni a welwn rai *tra-chrwydrus* weithiau yn euog o hono, y rhai ni âd ei Calonnau iddynt ſenthyccio cymmaint gan ei coffrau ag a bortha ei Boliau, neu a ddillada ei cefnau, a 'r rhai ſydd a'i meddyliau mer ddwys ar y bŷd, *Crintachrwydd mor feius a Gormodedd*

Sul IX. yn poeni ag yn ymdrafferthu cymmaint yntho nad allant gymmeryd iddynt ei hunain yr amſer cymmheſurol hwnnw o *Gwſg*, ag o ddi-luddediad ar ſydd angenrheidiol. Os oes ûn dŷn, a ddarllenniodd y rhan gyntaf o'r Traethawd hwn o'r tymmer yma, na chyffured mono'i hûn nad yw ef yn euog o'r beiau hynny o Ormodedd a achwynir arnynt ynŏ, ag am hynny ei dybied ei hûn yn Griſtion dâ, oblegid nad yw ef yn anghymmedrol; canys pwy bynnag yw 'r *Creadur cybyddaidd* hwn, ni chyfrifir iddo mo i' ddirweſt yma megis yn Rhinwedd o Gymmedrolder, oblegid nid o gariad i Gymmedroldèr, ond i *gyfoeth* y mae efe yn ymattal; ag mae hynny cymmhelled oddiwrth haeddu Clod, ag mai 'r pechod mawr hwnnw ydyw yr hwn, medd yr *Apoſtl*, (1 *Tim.* 6. 10.) *Yw Gwreiddyn pôb drwg*; ſe gyſyd Corph y cyfryw ddŷn ryw ddydd yn y farn yn ei erbyn, am ei ſiommi ef o'i gyfran ddyledus, ſef, y llonniad a'r diddanwch Cymmedrol hwnnw yr oedd Duw yn ei ganhiadu iddo. Y mae hyn yn *Eulyn-addoliaeth* tu hwyntŵ i offrwm y *plant* i *Moloch*, Lev. 20. 3. Ni offrymmaſant hwy ond ei *Plant*, ond mae 'r cybydd greſynol hwn yn ei aberthu ei *hunan* i'w *Ddduw Mammon*, pan fô ef yn fynych yn diniſtrio ei iechyd, ei hoedl, ie, a'i Enaid hefyd i ſafio ei Bwrs. Fe ddarfu i mi bellach am yr *ail* rhan o'n Dled ſwydd, ſef, ein Dyled tu ag attom ein hunain, yr hon a gynnhwyſir gan yr Apoſtol tan y Gair hwn, yn **Sobr.**

SUL

Sul X.

SUL X.

Am ein Dled-ſwydd tu ag at ein Cymydogion. Am Gyfiawnder, o Ommedd, ag o weithrediad. Am y pechod o Lofruddiaeth, ei Faint ef, y Goſpedigaethau am dano, a'r rhyfeddol Ddadcuddiadau o hono. Am Archolli, &c.

1. YR ŵyf yr awrhon yn dyfod at y *dryddydd* Ran o *Ddledſwyddau*, ſef, tu ag at ein Cymydog; y rhai ar fyrr a gryn-hôir gan yr Apoſtol yn y Gair hwn [Cyfiawnder] yr hyn ſydd yn Arwyddoccau nid yn unig *Uniondeb*, ond hefyd pôb mâth ar *Gariad*; oblegid y mae *Cariad* hefyd trwy gyfraith Crîſt gwedi dyfôd yn *ddyled* arnom i'n *Cymydog*, ag *angbyfiawnder* yw i ni ei dwyllo ef o hono: Mi a adeiladaf gan hynny yr holl Ddledſwyddau neillduol hynny ſydd yn ddlêdus arnom i'n *Cymydog*, ar y ddŵy gyffredinol hynny, *Cyfiawnder*, a *Chariad*. *Dledſwyddau tu ag at ein Cymydog.*

2. Mi a ddechreuaf gyda Chyfiawnder, o ba ûn y mae dwy Ran, y naill o *Ommeddiad*, a'r llall o *Weithrediad*: Cyfiawnder o *ommeddiad* yw, gochelyd gwneuthur cam, na thrais yn y bŷd i nêb: Cyfiawnder o *weithrediad* yw, gwneuthur Uniondeb a phawb; hynny yw, rhoddi iddynt bêth bynnag a berthyn, neu ſydd yn ddlêdus iddynt. Mi a draethaf yn *gyntaf*, am y Cyfiawnder o Ommedd, ſef, peidio gwneuthur cam neu niwed i nêb. Gan y dichon dŷn yn awr dderbyn cam amryw ffyrdd, y mae y rhan *gyntaf* ymma *Cyfiawnder.* *o Ommedd.*

o

Sul X. o *Gyfiawnder* yn ei hymyſtyn ei hûn i amryw geingciau, cyfattebol i 'r amryw ffŷrdd o wneuthur cam. Fe a ddichon dŷn dderbyn cam naill a 'i yn ei Enaid, a 'i ei Gorph, a 'i feddiannau, neu 'i Enw dâ; ag am hynny y mae 'r Ddledſwydd ymma o Gyfiawnder o Ommedd yn ein gwarchau ni ymmhôb ûn o 'r rhain; na bô i ni wneuthur cam a neb yn ei Enaid, na 'i Gorph, na 'i feddiannau, na 'i Enw dâ.

I'r Enaid. 3. Yn *gyntaf*, y mae 'r Cyfiawnder ymma yn ein rhwymo ni na wnelom ddim niwed i 'w Enaid ef; ag ymma ſy ngwaith cyntaf fydd raid bôd, i holi pa niwed a ddichon yr Enaid i dderbyn. Y mae 'r Enaid, ni a wyddom, yn Sylwedd anweledig, yr hon nid allwn mo 'i chyrhaeddud a 'n *llygaid*, llai o lawer a 'n *Cleddyfau* a 'n *harfau*, etto er hyn i gŷd, hi a ddichon gael ei briwo a 'i archolli; a hynny hyd farwolaeth.

Yn naturiol. 4. Yr awrhon, ſe ellir yſtyried yr *Enaid*, megys y mae yn *naturiol*, neu yn *Yſprydol*; megys y mae 'n naturiol, y mae hi 'n arwyddoccâu, yr hyn a alwn ni yn arferol, meddwl dŷn; ag ſe ŵyr pawb y dichon hon gael ei *archolli* gan ofid a thriſtwch, fal y dywed *Solomon*, *Dihar.* 15. 13. *Trwy driſtwch calon y dryllir yr Yſpryd.* Am hynny pwy bynnag yn ddi-achos a gythrwblia neu a ſlina ei Gymydog, mae ef yn cyfeiliorni yn erbyn y rhan ymma o Gyfiawnder, ag yn drygu ei Enaid. Y mae Dynion farhaus a maleiſus yn fynych iawn yn euog o 'r fâth ymma o gamwedd; nhw a wnânt y pethau hynny y rhai ni wnâ ddaioni yn y bŷd eithr yn hyttrach niwed iddynt ei hunain, yn unig er mwyn cythryblu a gorthrymmu eraill; y mae natur tra-chreulon a nawſwyllt fal hyn yn ymddigrifo mewn triſtwch a thrallodau rhai eraill; a phwy bynnag

bynnag ſydd yn meddwl hyn yn ei galon, ſe ellir dywedyd yn ŵir ei fôd ef yn ddrŵg ei hwyl gan Gythrael; oblegid natur yr yſprydion melldigedig hynny yn unig yw ymhyfrydu yn nhrueni dynion; ag nes taflu hwnnw allan, nid ydynhw gymwys i gyfanneddu ond (fal y dŷn cythreulig hwnnw, *Mar.* 5. 2.) *Ymŷſg beddau*, llê nid oes neb a ddichon dderbyn aflonyddwch a thrallod oddiwrthynt. Sul X.

5. Ond fe ellir yſtyried yr Enaid trachefn mewn môdd *yſprydol*, ag felly y mae yn arwyddoccau y rhan anfarwol honno o honom, yr hon a fydd byw yn dragywydd, naill ai mewn gwynfyd neu drueni yn yn bŷd a ddaw. Ag fe ddichon yr Enaid, wrth ei Yſtyried fal hyn, dderbyn dau fâth ar Niwed: Yn *gyntaf*, Pechod; yn *ail*, Coſpedigaeth; y mae'r diwaethaf yn waſtad yn dilyn y cyntaf; ag er mai Duw ſydd yn anfon Coſpedigaeth, etto gan mai ſtrwyth pechod yw, fe ellir yn gyfiawn gyfrif fôd yr hwn a ddêno ddyn i bechod yn ei fradychu ef heſyd i goſpedigaeth, megys y mae yr hwn a rŷdd i ddŷn archoll marwol yn achos o'i farwolaeth ef; am hynny y mae pôb ûn o'r ddau yn gynnhwyſedig tan ddrŵg pechod, fal nad rhaid i mi draethu ond am hwnnw yn unîg. *Yn Yſprydol.*

6. Ag yn ddiammeu nid ellir gwneuthur mwy o gam na dwyn y drŵg mawr hwn ar yr *Enaid*: Pechod yw cleſyd ag Archoll yr Enaid, gan ei fôd yn union yngwrthwyneb i Râs, yr hwn yw iechyd yr *Enaid*: yr awrhon, yr archoll hwn yr ydym ni yn ei roddi i bòb Enaid ar a ddenom trwy foddion yn y bŷd i Bechod. *Denu i bechod iw'r Cammwyaf a all fôd.*

7. Y mae amryw ffyrdd i wneuthur hynny, ni chrybwylla 'i ond am rai o honynt; ag er bod *Y Moddion o ddenu i Bechod.*

Sul X. bod rhai yn fwy cyfeiriol na'r lleill, etto mae 'r ewbl yn tywys i'r unrhyw ddiben. O'r rhai mwyaf cyfeiriol y *cyntaf* yw, *Gorchymyn* pechod, hynny yw, pan fô dyn fydd gantho awdurdod ar ûn arall yn gorchymyn iddo wneuthur rhyw bèth anghyfreithlon; mae i ni flampl o hyn yn *Nabuchodonoſor* yn gorchymyn addoli 'r *Ddelw aur*, *Dan.* 3. 4. ag y mae pob rhieni neu feiſtred, y rhai a orchymyn i 'w plant neu i 'w gwenidogion wneuthur rhyw weithred anghyfreithlon, yn dilyn ei lwybr ef. Yn *ail*, y mae *Cynghori* i bechu, pan fô dynion yn annog ag yn eiriol eraill i ryw ddrwg: fall hyn y cynghorodd gwraig *Jôb* ei gwr i felldigo Duw, *Job* 2. 7. Ag *Achitophel* a gynghorodd *Abſalom* i fyned i mewn att *ordderchwragedd* ei Dâd, 2 *Sam.* 16. 21. Yn *drydydd*, y mae *litbio* a hudo i bechod, trwy ofod o flaen dynion y pleſerau a'r bûdd a gânt oddiwrtho. O'r fâth ymma o hudoliaeth mae *Solomon* yn rhoi i ni rybudd, *Diba.* 1. 10. *fy mâb, os pechaduriaid a'th ddenant, na chydtuna â hwynt: os dywedant, tyret gyda ni, cynllwynwn am waed, nyni a ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddiachos* &c. a gwer. 13. Chwi a ellwch weled a pha hûd y maent yn ceiſio ei denu hwynt, *Nyni a gawn bôb cyfoeth gwerthfawr, nyni a lanwn ein teiau ag yſpail: Bwrw dy goelbren yn ein mŷſg, bydded ûn pŵrs i ni ôll.* Yn *Bedwerydd*, mae Cymmorth i bechu; hynny yw, pan fô dynion yn helpu ag yn cynnorthwyo eraill naill ai i fwriadu, neu i weithredu Pechod. Fal hyn y cynnorthwyodd *Jonadab Amnon* i fwriadu treiſio ei chwaer, 2 *Sam.* 13. Y rhai hyn ôll yw 'r moddion cyfeiriol i ddwyn y drŵg mawr hwn o Bechod ar ein brodyr.

8. Y

8. Y mae etto ſoddion eraill, y rhai er iddynt ymddangos i fod yn fwy anghywair, etto nhw a ddichon fôd mor effeithiol i'r unthyw ddiben drŵg: megys yn *gyntaf*, *ſiampl* mewn Pechod; y mae 'r hwn ſydd yn goſod ſiampl ddrŵg i eraill, yn gwneuthur ei Ran ef ar fôd i eraill ei ganlyn ef, ag y mae hynny yn rhŷ fynych yn digwydd: gan nad oes yn gyffredinol ddim mwy effeithiol i ddwyn dynion i ryw ymarfer bechadurus, na gweled eraill yn arferu 'r unrhyw, fal y gellir profi mewn llawer o bechodau, i ba rai nid oes ûn hudoliaeth arall ond ei bôd nhw yn arferol. Yn *ail*, mae annos i bechod, pan fôm yn achleſu eraill i fyned ymlaen yn ei drygioni, naill ai trwy gyd-fynnio a hwynt, neu o'r lleiaf trwy fôd heb ddangos anfodlonrhwydd yn y bŷd iddynt. Y *trydydd* môdd yw, trwy *gyfiawnhau* ag *amddiffyn* rhyw weithred bechadurus mewn un arall, oblegid felly nid ydym yn unig yn ei gadarnhau ef yn ei ddrŵg, eithr yn enbydu denu eraill i'r cyffelyb, y rhai a fydd ond odid yn fwy tueddol iddo pan glywant fal hyn ddadleu troſto. Yn *ddiweddaf*, dwyn rhyw ddirmyg ar fuchedd ddâ Griſtianogawl, fal y gwnâ y rhai ſydd yn gwatwor ffyrdd Duw; dymma fôdd i ddychrynnu dynion allan o ymarfer Duwioldeb, pan welont y dŵg hynny nhw i gael ei gwawdio a'i dirmygu; mae hyn yn waeth na'r lleill i gŷd, nid yn unig oblegid y dŷn ſydd yn euog o hono (megys y mae hyn yn nôd o halogedigrwydd dirfawr ei galon ef) eithr hefyd oblegid eraill, gan fôd yn gyffredinol fwy o ddrŵg yn digwydd o hyn nag oddiwrth yr ûn o'r lleill; oblegid y mae hyn yn bradychu dŷn nid yn unig i rai gweithredoedd neilldnol o anufydd-dod i Griſt, eithr i wrthod yn hollawl

Sul X.

Sul X. fôd yn ddeiliad iddo ef; trwy 'r holl foddion hyn ni a allwn dynny arnom ein hunain yr euogrwydd mawr hwn o niweidio ag archolli *eneidiau* ein brodyr.

Ystyriwna pbwy y gwnaethom y cyfrîw Gamwri.

3. Fe fydde yn rhy hîr i mi ofod ar lawr yr holl bechodau ymmhlith rai y mae dynion yn arferol o rwydo eraill; megys *Meddwdod*, *afiandid*, *gwrthryfelgarwch*, ag aneirif ychwaneg. Ond fe a berthyn i bôb dŷn yn neilldnol ystyried yn ddiwyd pa ddrŵg o'r fath hyn a wnaeth ef i ûn dŷn trwy 'r cwbl neu rai o'r moddion hyn, ag i bwyso yn fanwl faint y cam y wnaeth ef. Y mae dynion yn barod iawn i ymffroftio o'i diniweidrwydd tu ag at ei Cymydogion, na wnaethon nhw gam a nêb; ond fe wyr Duw fôd llawer o'r rhai fydd fal hyn yn ymffroftio yn anad nêb yn drachamweddol: ni ddarfu iddynt yfgatfydd archolli ei gorph ef, na lledratta ei ddâ: ond och! nid yw 'r Corph ond blifgyn neu gaead y dŷn, a'r Dâ bydol ond rhyw berthynafau iddo ef; yr Enaid yw 'r dŷn, ag nhw fedran archolli a thrywanu hono yn ddi-arfwydus, ag etto dywedyd gyda 'r odineb wraig, (*Diar.* 30. 20.) *Ni wnaethum i anwiredd*; eithr gorfoleddu o'i hymddygiad caredigol tu ag at y rhai a fradychafant fal hyn i ddinifftr tragywyddol; oblegid pwy bynnag a hudaift i nebrhyw bechod, ti a wnaethoft dy oreu i'w hebrwng ef i'r tân tragywyddol: ag yna meddwl wrthit dy hûn, pa ryw fradwraeth grenlon yw hon; ti a'i gelwit ef yn ddihiryn fradychus yr hwn pan fô yn cymmeryd arno gofleidio gŵr, a'i rhêd ef trwyddo; ond y mae 'r pechod hwn o'r eiddoti cymmhelled tu hwynt i hynny, ag y mae 'r Enaid yn werthfawroccach na 'r Corph; ag Uffern yn waeth nag Angeu. A cho-

fia

ſia etto ymmhellach, mai hèb law 'r creulondeb o hynny tu ag dy *frawd* truan, i ſód ef hefyd yn dra-phergyllus iti dy hûn, gan ddarſod i Grift ddatcan *gwae* yn erbyn hynny, *Mat.* 18. 7. a gwer. 6. y mae ef yn dywedyd i ni mai pwy bynnag a rwyſtro (hynny yw, a ddeno i bechod) *un o'r rhai bychain hyn, gwell oedd iddo pe cregid maen melin am ei wddf, a'i ſuddi yngwaelod y môr.* Ti a elli ſuddo dy frawd truan mewn diniſtr, ond megys ag y mae gydá rhai yn ymaflyd cwymp, y mae'r hwn a roddo i'r llall y codwm gan ſynycha' yn cwympo gydâg ef, felly yr wyt titheu yn debyg o ſyned gyd ag ef i'r llè hwnnw o boen ag artaith. Sul X.

10. Gwnaed gan hynny dy enbydrwydd dy hûn ag yntau *i* ti ſód yn deimladwy o faintioli'r pechod hwn, ſef, yr anghyfiawnder echryſlon hwn tu ag at Enaid gwerthfawr dy Gymydog. Meddwl wrthit dy hûn yn ddifrifol a phwy y buoſt mor greulon; pwy a hudaiſt i *feddwi*, pwy a gyngoraiſt i *wrthbryfelgarwch*, a lithiaiſt i *drachwânt*, a gyffróaiſt i *gynddaredd*, pwy a gynnorthwyaiſt neu a gyd-ddygaiſt ag ef mewn nèb rhyw weithred ddrŵg, neu a anghyſſuraiſt ag a ddigalonnaiſt trwy wawdio yn halogedig am ben *Dynioldeb* yn gyffredinol, neu ei *ſuchedd* ddâ Griſtiannogol ei yn neillduol; yna bwrw 'r cwbl i ſynu; cybudda a barna dy hûn yn enog megys *Cain*, yn llofrudd dy frawd; ag ymoſdia yn ddirfawr am bôb enogrwydd o'r fâth ymma, a llawn-fwriada na ſyddi di byth rhag llaw yn achos *tramgwydd* neu *rwyſtr* i'th frawd. *Rhuf.* 14. *Bydded ddrŵg gan ein calonnau wneuthr hynny.*

11. Ond nid hyn yw 'r cwbl, rhaid i rai *ffrwythau* o'r *Edifeirwch* hwn darddu allan; yn awr, mewn pôb pechod o anghyfiawnder, y mae *adferiad* yn ffrwyth angenrheidiol o edifeirwch, *Gwnâ dy orau er gwneuthur adferiad.*

Sul X. ag felly y mae ymma, ti a wnaethoft weithred (ysgatfydd llaweroedd) o anghyfiawnder dirfawr i Enaid dy frawd; ti a'i dinoethaiſt hi o'i diniweidrwydd, o'i hawl i'r Nef, rhaid i ti ymegnio i adferu hyn oll iddo drachefn, trwy fod yn fwy dyfal ag aſtud i'w enniſl ef i edifeirwch, nag y buoſt erioed i'w ddenu ef i bechod; arfera yn awr gymmaint o gelfyddyd i'w argyoeddi ef yn eglur o'i berigl, ag a wnaethoſt erioed i'w wenheithio ef ag hyfrydwch o'i bechod; mewn gair, arfera'r holl hyfforddrwydd a'r moddion i'w *atgyweirio* ef, ag a wnaethoſt i'w *ddiniſtrio*; a bydd yn hyn yn fwy dyfal a diwyd, canys y mae hynny yn angenrheidiol yn gyſtal o'th plegid dy hun agynteu: yn *gyntaf*, o'i blegid ef, gan fod natur dyn yn llawer hwyluſach a pharottach i ddrwg nag i dda, ag mae eiſieu mwy o boen a diwydrwydd i fwrw'r naill iddo ef na'r llall: heb law hyn, fe ellir meddwl fod y dyn yn barod trwy hir ymarfer yn hyfforddi'r ffordd waethaf, ag fe wna hynny y gwaith yn anhawſach o llawer. Yna o'th blegyd dy hun, os wyti yn wir edifeiriol, ti a'th dybi dy hun yn *rhwymedig* (fal St. *Paul*) *i lafurio yn helaethach o lawer*, ag fe fydd cywilydd gennit, pan foch di yn *marchnatta* tros Dduw i ddwyn yn ol Enaid atto ef, oni chynllwyni hynny a mwy o ddiwydrwydd na phan oeddit yn ddeiliad i *Satan*; ymmhellach, fe fydd y coffadwraeth mai tydi oedd yr achos o ddwyn yr Enaid truan ymma i'th Rwyd, yn cynnhyrfu dy aſtudrwydd dri'w geliſio ef allan drachefn. A hyn am y rhan gyntaf o gyfiawnder o Ommeddiad, yr hwn a berthyn i *Eneidiau* ein brodyr.

Cyfiawnder o Ommeddiad i'r Corph.

12. Yr *ail* a berthyn i'r Cyrph, ag mae'r Cyfiawnder hwn yn dy rwymo di na wnelych gam

gam yn y byd na thrais i rheini chwaith. Yr awrhon, y mae amryw raddau o gamweddau tu ag at y corph, y mwyaf o honynt yw *Llofruddiaeth*, dwyn ymmaith hoedl dŷn; hyn a waherddir yn llythyren y chweched Gorchymyn, *Na ladd*. Sul X.

I hoedl dyn.

13. Fe ellir fod yn euog a *Lofruddiaeth* naill ai trwy drais *bynod*, pan fo dŷn yn dwyn hoedl ûn arall, naill ai a Chleddyf, neu ryw offeryn arall; neu ynteu yn ddirgel ag yn fradychus, megys ag y lladdod *Dafydd Uriah*, nid a'i gleddyf ei hûn, ond a *chleddyf meibion Ammon*, 2 *Sam.* 11. 17. Ag y lladdodd *Iezabel Naboth* trwy gam-achwyn, 1 *Bren.* 21. 13. Ag felly llaweroedd a fu yn euog o'r pechod hwn o Lofruddiaeth trwy *Wenwyn*, *cam-dyſtiolaeth*, neu ryw gyffelyb foddion *Dirgel*. Y mae'r cyntaf yn tarddu allan gan mwyaf o *Gynddaredd* ffrychwyllt, ond i'r llall y mae amryw ddechreuadau; weithiau y mae yn tarddu oddiwrth ryw *ên falu* gwedi ei ſefydlu yn y galon tu ag at ddŷn; weithiau oddiwrth ryw *ddeiſyfiadau cybyddaidd trahaus*; y mae'r cyfryw ûn yn ſefyll ar ffordd ûn arall i'w fûdd neu i oruchafiaeth, ag am hynny rhaid yw ei ſymmud ef ymaith; ag weithiau trachefn i guddio Cywilydd, fal *Putteiniaid*, y rhai ſy'n lladd ei Plant rhag i'w bryntni hwynt ymddangos. Ond heb law'r ffyrdd hwylus hyn o Ladd, y mae ûn arall, ſef, pan fom trwy annogaethau a hudoliaeth yn denu dŷn i wneuthur y peth a fo yn achos diddadl o ſyrthau ei ſywyd; os bydd i ddŷn trwy feddwdod gael rhyw anaf marwol, yr hwn a fuaſei yn ei ochelyd pe buaſei yn ſobr, nid yw'r hwn a'i meddwodd ef yn ddi euog o'i Farwolaeth; ag os efe ni bydd marw trwy'r cyfryw ddamwain ddiſymmwth, etto os dŵg ffed ryw

Amryw Ffyrdd o Lofruddiaeth.

gleſyd

Sul X. gleſyd arno, a'r Cleſyd hwnnw ei lâdd ef, ni ŵn i pa fodd y gall yr hwn a'i denodd ef i'r Gormôdedd hwnnw, ei wneuthur ei hûn yn ddi-euog o Lofruddiaeth yngolwg Duw, er nad yw Cyſreithiau dŷn yn ei gyrrhaeddyd ef. Mi a fynnwn pe bydde i'r rai ſydd arferol o ddenu eraill i'r cyflwr ſhaidd cywilyddus hwn, yſtyried hyn ymma. Y mae etto ffordd arall o ddwyn yr euogrwydd hwn arnom ein hunain, a hynny yw trwy annog a chyffrôi eraill i'w wneuthur, neu i'r rádd honno o Lidiawgrwydd a Dîal ag a bâr hynny; megys yr hwn a oſodo *ddau ddŷn ynghyd*, neu yn gweled rhai ſelly yn barod, a chwytha'r tân i ennynnu ymmhellach, os digwydd *Llofruddiaeth*, y mae efe yn ddiammeu yn gyſrannog o'r Euogrwydd; yr hon ſydd yn yſtyriaeth a ddyle ddyehrynu pawb rhag bôd iddynt a wnelont yn cynneu, neu yn adchwanegu Cynnen.

Echryſlonrhwydd y pechod hwn.

14. Yr awrhon, am *echryſlonrwydd* y pechod hwn o *Lofruddiaeth*, yr wyſi n meddwl nad yw ddieithr i nêb ei fôd ef o'r fâth *greulonaf*, yn *bechod ſydd yn gwaeddi allan yn uchel*; hyn ſydd i ni i'w weled yn y weithred gyntaf a fu erioed o'r fâth ymma, yr oedd *gwaed Abel yn gwaeddi ar Ddaiar*, fal y dywed Duw wrth *Gain*, *Gen.* 4. 10. Iê, y mae euogrwydd y pechod hwn yn gyfryw a'i fod yn gadael adwyth ar y tîr lle 'i gwneir, y cyfryw ag nad ellir ei olchi allan ond a gwaed a *Llofrudd*, fal y mae 'n eglur, *Deut.* 19. 12. 13. Nid ellir puro 'r ddaiar o waed, ond a gwaed yr hwn a'i cywallrodd; ag am hynny, er bôd mewn pethau eraill rhedeg i'r *Allor* yn ficchrau dŷn, etto ni chaniedyd ûn cyfryw noddfa i *Lofruddiaeth* gwirfodd, ond yr oedd yn rhaid cymmeryd y cyfryw ün oddi-yno, a'i draddodi i gyhawnder,

Exod.

Exod. 21. 14. *Cymmer ef i farwolaeth oddiwrth fy Allor.* Ag y mae ymmhellach i 'w Yſtyried mai 'r unig ddau orchymyn y mae'r Scrythur yn ſôn am danynt, megys y rhoddwyd hwynt i *Noah* a'r ôl y Dilyw, oeddynt i'll dau ynghylch y pechod hwn; yr oedd gwahardd *bwyta gwaed* (*Gen.* 9. 4.) yn ddefod i beri i ddynion arſwydo yn fwy y pechod hwn o *Lofruddiaeth*, ag felly a amcanwyd er mwyn ei luddias ef. Y lall oedd ynghylch ei goſpedigaeth ef, *Gen.* 9. 6. *A dywallo waed dyn, trwy ddyn y tywellir ei waed ynteſ*, a'r rheſwm am hyn a adroddir yn y geiriau neſſaf, *o herwydd ar Ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn*; lle y gwelwch nad yw 'r pechod hwn yn unig yn gamwedd yn erbyn ein brawd, ond y dirmyg a'r diyſtyrwch mwyaf o Dduw ei hun, ſef, anrheithio ei Ddelw ef yr hon a argraffodd ef ar ddyn. Ie ymmhellach, nid yw hyn ddim llai na thraiſ-feddiannau awdurdod a braint briodol Duw ei hun; oblegid gan Dduw yn unig y mae awdurdod i drefnu hoedl dyn: efe yn unig a 'i rhoddodd, a chantho ef yn unig y mae gallu i 'w chymmeryd ymmaith; ond y mae 'r hwn a *laddo* ŵr megys yn dwyn ymmaith yr awdurdod hon allan o law Duw, yr hyn yw'r pwyth eithaf o Ryfyg gwrthryfelgar a all fod. Sul X.

15. Ag fal y mae 'r pechod yn fawr, felly hefyd y mae 'r *Goſpedigaeth* am dano; ni a 'i gwelwn ef yn fynych yn fawr iawn, ag yn drahynod, ie, yn y *byd* hwn, (heb law 'r ffrwythau tra-echryſlon hynny o hono yn y neſſaf) y mae *gwaed* nid yn unig yn *gwaeddi*, eithr yn gwaeddi am *ddial*, ag ni ommedda *Duw 'r dial*, fal y mae yn ei alw ei hun, ei wrando ef: llawer iawn o ſiamplau y mae 'r Scrythur yn ei roddi i ni o hyn: *Ahab* a *Jezabel*, y rhai a *laddaſant* [r *Goſpedigaethau am byn.*]

Sul X. *laddaſant Naboth* wirion o chwant i 'w winllan, a labyddwyd ei hunain, a 'r *Cŵn* a *lyfaſant* ei *waed* hwynt yn y llé y tywalltaſant hwy ei *waed* ef, fal y mae i chwi i 'w ddarllen yn yr hiſtori honno; felly *Abſalom* gwedi iddo *lâdd* ei frawd *Amnon*, a Syrthiodd i bechod arall o *wrthbryfelgarwch* yn erbyn ei *Frenin* a 'i *Dâd*, ag yn hynny a ddiniſtrwyd yn reſynol. *Rachab* a *Baanab*, y rhai a laddaſant *Iſhboſheth*, a roddwyd ei hunain i farwolaeth, a hynny gan yr hwn y tybiaſant wneuthur o honynt gymwynas iddo; llawer ychwaneg o ſiamplau a ellid ei rhoddi o hyn allan o 'r hiſtori gyſſegr-lân a dynol, gan nad oes ûn Oes na, roddodd aneiriif o ſiamplau o 'r fâth hyn, fal y dichon pób dŷn ei fodloni ei hûn yn hyn allan o yſtyriaethau ei amſer ei hûn.

Ei ryfeddol Ddadcuddiadau.

16. Ag ſe haeddai ein hyſtyriaeth ni pa ſoddion *rhyfeddol* a welodd Duw yn ddâ ei harferu yn fynych i *dadcuddio'r* pechod hwn; ſe ſu 'r *bwyſtfilod mudion* yn fynych yn offerau o hyn; ié, ſe wnaeth *arutbrol ddychryn cydwybod* dŷn iddo yn fynych ei fradychu ei hûn, yn gymmaint ag na ddichon dirgelwch yn y bŷd a arfera dŷn i weithredu 'r pechod hwn ei ficrhau ef rhag derbyn dîal; oblegid ni ddichon dŷn bŷth gau allan eu cydwybod ei hûn, yr hon heb yn waethaf iddo a ŵyr oddiwrth y weithred, ag y mae honno yn fynych yn digwydd i fôd yn fôdd o 'i ddadcuddio ef i 'r bŷd; ag os ni wnâ hynny, etto hi a fydd fŵr o ymddîal arno ef, ag a fydd yn gyfryw Uffern o 'i fewn ef ag a fydd yn llawer gwaeth na marwolaeth; hyn a welſom mewn llaweroedd, y rhai ni fedrent gwedi gwneuthur y pechod hwn fwynhau ûn munudyn o eſmwythdra, ond a gawſant y fâth *angerddol ingder meddwl* ag y dewi-

dewiſafant yn hytrarch ei *llâdd* ei hunain na byw yntho. Dymma 'r ffrwythau arferol o'r pechod ymma yn y bŷd *hwn*, ond mae y rhai yn y bŷd a *ddaw* etto yn fwy echryſlon o lawer, llê yn diammeu y bydd y râdd fwyaf o benyd yn perthyn i'r drŵg mawr hwn, oblegid os, fal y dywed ein Hiachawdr, (*Mat.* 5. 22.) Tân Uffern yw cyfran y rhai a *alwant ei brawd yn ynfyd*, pa ryw râdd o'r llofcfêydd hynny a dybiwn ni yn gyf-attebol i'r pechod tramawr hwn? Sul X.

17. Yr Yſtyriaeth o hyn i gŷd a ddyle ein llenwi ni o ddychryn anfeidrol a chaſſineb o'r pechod hwn, a'n gwneuthur ni yn wiliadwrus iawn arnom ein hunain rhag i ni ûn amſer ſyrthio iddo, ag i'r diben hwnnw ochelyd yr holl achoſion hynny a'n dena ni yn ŵyſg ein pennau i'r pydew hwn. Mi a draethais ar y cyntaf am amryw bethau ſydd arferol o fôd yn *ddechreuad* o hono, ag a'r rheini y mae ini ddechreu, os mynnwn ein cadw ein hunain yn ddiogel. Os mynni gan hynny fôd yn ſiccr na laddech ddŷn yn dy gynddaredd, bŷdd ſiŵr na bôch ſŷth yn y Cynddaredd hwnnw; canys os llocheſa hwnnw o'th fewn, nid all fôd gennit ſiccrwydd yn y bŷd yn erbyn y llall; gan fod digoſaint pan feddianno ni unwaith, yn gyfryw ynfydrwydd, na rŷdd ef mor amſer i ni i yſtyried na gwybod pa bêth y bôm yn ei wneuthut. Am hynny pan welych dy hûn yn dechreu ennynnu, meddwl mewn prŷd i ba lê y dichon hyn dy ddenu os goddefi iddo, ag yn ebrwydd ffrwyna 'r wŷn Yſtyfnig hon; ſelly trachefn os chwennychi dy ſiccrhau dy hûn na bò i falis dy dywys iddo, gwilia arnat rhag croeſawu ûn meddwl maleiſus yn dy ga-

Rhaid bôd yn wiliadwrus iawn yn erbyn pob tueddiad i'r pechod hwn.

Sul X. lon, canys os eſe unwaith a'i ſefydla ei hûn yno, eſe a gaſcla 'r cyſtryw nerth ag y byddi di ar fyrder yn hollawl tan ei allu ef, fal y gallo dy dywys di i'r pechod echryſlon hwn pan fynno; bydd ofalus gan hynny, ar neſſâad cyntaf yr ymdeithud bradychus hwn, ar gau'r dryſau yn ei erbyn, heb adael iddo ûn amſer fyned i mewn i'th feddwl; felly yn gyffelyb, os mynni dy ficcrhau dy hûn na bô i'th gybydd-dod, i'th drachwant, nag ûn wŷn bechadurus arall dy fradychu i'r pechod hwn, bŷdd ſiŵr na bó i'r ûn o honynt reoli o'th fewn, oblegid os cânt hwy unwaith yr oruchafiaeth, fal y cânt yn ebrwydd os cynhwyſir nhw unwaith yn y galon, nhw a ânt tu hwynt i'th Reolaeth di, ag a'th daflant i hwn neu i ryw bechod arall a waſanaetha ei trô hwynt. Yn gyffelyb, os mynnit ochelyd bôd yn euog o'r ûn o'r effeithiau marwol o *feddwdod* dy Gymydog, bydd ficcr na *lithioch* di mono ef iddo, nag *ymgymdeithaſoch* ag ef yntho; ag i'r pwrpas hwnnw na ymhyfryda yn y cyſtryw ymarfer, canys os gwnei, ti a fyddi yn ymegnîo i geiſio cyfeillion atto. Yn *ddiwedduf*, os ni fynni fôd yn euog o *Lofruddiaeth* a wnelo arall, gwilia ûn amſer annog nêb i hynny, neu i gymmorthi ef yn ei ddigter a'i gynnen, y rhai a all fôd yn achos o hynny. Canys gwedi iti unwaith *gynneu*, neu chwythu'r *tân*, bêth a wyddoſti pwy y all ef *ddifa*? Dŵg yn waſtad gymmaint ag a ellych o *ddwfr* i ddiffodd, ond na ddŵg ûn defnyn o *Olew* i adchwanegu'r fflamm. Y cyffelyb a ellir ei ddywedyd am bôb achoſion eraill o'r pechod hwn ar na chrybwyllir am danynt ymma; a'n hymgadw ein hunain yn ddiwyd rhag y rhain yw'r unig fôdd ficcr i'n cadw ni rhag y pechod hwn: megys

gan

gan hynny ag y mynnit dy ymgadw dy hûn yn ddi-euog oddiwrth y troſſeddiad mawr hwn, gochela yn ddyſal y cyfryw raddau, hûd, a thueddiad tu ag ettо. Sul X.

18. Ond er mai Llofruddiaeth yw'r mwyaf, ettо nid yw ef yr unig Gam a ellir ei wneuthur i Gorph ein Cymydog; y mae eraill heſyd y rhai ſydd yn dra-mawr; y neſſaf ûn mewn grâdd at hwn yw, ei *Anafu* ef, ei ddi-ſeddu ef o ryw aelod, neu o'r lleiaſ o allu ei arfer ef.; ag y mae hyn yn ddrŵg ag yn gam mawr iddo ef, megys ag y gallwn ddirnad wrth farnedigaeth Duw ei hun ynghyfiwr y Caeth-wâs yr hwn o achos ei feiſtr a gollei aelod, *Exod.* 21. 26. ni thybid ei rydd-dyd ef tros ei holl ſywyd ond iawn rheſymol iddo am hynny, *Gollyngedd efyn rhŷdd*, medd y Teſtyn, *am ei Lygad*; ie, er iddo fôd ond Dant, yr hwn yn anad dim o'i Gorph a all dŷn yn hawſaſ ei hepcor, ettо yr oedd yn rhaid iddo gael yr ûn iawn, gwer. 27. *Anafu yn Gam mawr.*

19. Ond nid rhaid i ni ddim arall i ſefur y Cam hwn wrtho, ond barn pôb dŷ nyn ei gyfiwr hûn; pa faint y mae pôb dŷn yn ofni Colli aelod? Fal os bydd iddo trwy ryw ddamwain, neu ddolur fôd mewn perigl am dano, ni thybia boen na chôſt yn y bŷd yn ormod i'w achub. Ag yna pa anghyfiawnder ddirfawr, ag mor wrthwynebus i'r Rheol ragorawl honno, *o wneuthur fal y chwennychom i eraill wneuthur a ninnau*, ydyw i ddŷn wneuthur hynny i arall, yr hyn y mae ef mor anfodlon i ddioddef ei hûn? Ond y mae'r Cam ettо yn fwy o lawer, os y dŷn a fydd *tlawd*, ag yn gorfod iddo Lafurio am ei ſywyd; mae hynny yn fâth o *Lofruddiaeth* heſyd; canys fal y dywed y gŵr Doeth, *Eccluſ.* 34. 21. *Bywyd y tlodion* *Mae pôb dyn yn arſwydo y cyfriw gam iddo'i hun.* *Yn wâeth ettо os y gŵr fydd tlawd.*

Sul X. *yw ei bara, a dyn gwaedlyd yw'r hwn trwy dwyll a'i dygo ef.* Ag am hynny nid yw ef yn ddiammeu ddim llai di-euog yr hwn a gymmero ymmaith oddiwrtho y moddion o ennill ei fara, gan ei wneuthur ef trwy *hynny* yn anghymwys i lafurio. Yn y Gyfraith fe gannhiedid o bob dŷn a dderbynniaſe'r cyfryw niwed gan Gymydog, fyned i erſyn gan y Swyddog am roddi yr unrhyw gôſp arno ynteu, *Llygad am lygad, dant am ddant, Exod.* 21. 24.

Rhaid gwneuthur Bodlonrwydd am hynnu hyd eithaf ein gallu.

20. Ag er na chynnhwyſir yr awrhon i ni ſydd Griſtianogion ddîal anfuddiol, etto yn ddiammeu rhan pób dyn ar a wnaeth y Cam hwn yw gwneuthur *iawn* am dano hyd yr eithaf o'i allu; gwîr yw, nid all ef atgyweirio aelod trachefn, (yr hyn a ddyle wneuthur rhai yn ofalus iawn pa ſódd y gwnáut y drŵg hwn yr hwn ſydd mor amhoſſibl ei ddiwygio) ond etto, fe all wneuthur bodlonrhwydd am rai o ddrŵg-effeithiau'r golled honno: os dygodd hynny'r dŷn i brinder ag eiſieu, rhaid iddo os bydd gantho'r gallu lleiaf, ei gynnal a'i gynnorthwyo ef, ié, er i hynny ſód trwy ei chwŷs a'i Lafur dirſawr ei hûn: oblegid os Dlêd yw hi ar bawb o honom ſód yn llygaid i'r deillion, ag yn draed i'r cloffion, fal y dywed *Jób*, mwy o lawer y dylem ſôd felly i'r rhai a wnaethom ni ein hunain yn ddall ag yn glóff. Pwy bynnag gan hynny a wnaeth y cam hwn i'r ûn o'i frodyr tlodion, gwybydded ei ſód ef yn rhwymedig i'w ddiwygio hyd yr eithaf o'i allu; yr hyn os eſe nis gwná, fe gyfyd pób rhyw neilduol adfyd a ddigwydd i'r dŷn truan o herwydd ei angen, yn achwyn ag yn gyhuddiad newydd yn ei erbyn ger bron gorſedd-faingc y *Barnwr cyfiawn.*

Sul X.

21. Y mae etto raddau eraill ó gam i Gorph ein Cymydog; ni thraetha 'i ond yn unig am ddau ychwaneg, ſef, *Archollion* a *Chernodiau*; ſe a all dŷn *archolli* ûn arall, yr hyn er na bô yn achos o golli na bywyd nag aelod, etto a berygla bòb ûn; a 'r ûn pèth a ellir ei ddywedyd am *Gernodiau*; mae pôb ûn o 'r rhain yn boenus yn y cyſamſer, iê, ag yſgatfŷdd tros hîr o amſer; a phoen ſydd i 'w gyfrif yn fwyaf o 'r holl ddrygau amſerol, oblegid nid yw yn unig yn ddrŵg yntho 'i hûn, eithr yn gyſryw ag a 'n rhwyſtra ni, tra y byddo arnom, i fwynhau unrhyw ddaioni arall; gan na ddichon dŷn mewn poen archwaethu 'r ûn o'r pleſerau mwyaf: Os bydd i néb ddirmygu y rhain megys camŵri gwael, gofynned trachefn iddo ei hûn pa fôdd y bodlonei ef gael archolli neu yſſigo ei Gorph ei hún, a 'i roddi tan y moddion poenus hynny o feddiginiaeth y rhai gan-mwyaf ſydd angenrheidiol yn y cyſlwr hwnnw? Yr wyſi 'n meddwl nad oes ûn dŷn a ddioddefai hyn o 'i wirfodd gan arall, a pha ham gan hynny y cynnygi di hyuny iddo ef?

Archollion a chernodiau yn Gam hefyd

22. Y gwirionedd yw, y mae 'r creulondeb ryfeddol hwn tu ag at eraill yn tarddu allan o *Falchder* tra-mawr, ag *Uchder* calon; yr ydym yn edrych a 'r fâth ddiyſtyrwch ar eraill, a 'n bod yn tybied na waeth pa bêth a wneir iddynt; yr ydym yn meddwl fôd yn rhaid iddynt hwy ddioddef *vernodiau* gennim ni, pan fôm yn y cyſamſer mor dyner o honom ein hunain nad allwn wrando ar y gair lleiaf o ammarch, heb ennynnu o Ddigofaint. Y mae 'r Annogaethau i'r trawſni ymma gan-mwyaf mor wael, ag oni bae fôd y *Balchder* ymma o 'n mewn yn trefnu y cyfryw wŷn lidiog ynom a bód pôb pêth yn ein creuloni, ammhoſſibl fydde iddynt

Balchder iw 'r achos o'r Creulondeb hwn tu agat eraill.

Sul X. iddynt ein cyffrói ni. Iê, y mae rhai gwedi dyfod i ſynu i 'r fâth *drythyllwch* o *greulondeb* ag y medrant heb ymherriad yn y bŷd, mewn gwaed oer (fal y dywedant) wneuthur Cam a 'i brodyr tlodion, a gwneuthur penydio eraill yn rhan o 'i di-luddediad a 'i difyrrwch. Fal hyn y bŷdd rhai Gorthrymmwŷr trahaus yn ymhyfrydu yn penydio eraill a fô tan ei llywodraeth nhw, yn gymmaint a bod yn llawen ganddynt gael rhyw eſcus i boeni eraill, ag yna nhw a wnânt hynny yn annhrugarog iawn; ag eraill, a pfodant ddynion i ymraſaelio, yn unig er mwyn Cael digrifwch yn gweled yr ymryſon; fal yr hên *Rufeiniaid*, ûn o *ehwaryddion* cyhoeddus pa rai oedd, edrych ar y *naill* ddŷn yn llâdd y *llall*; ag yn wîr, mae gennim ni cyn lleied o Griſtianogrwydd a nhwythau, os medrwn edrych yn ddiſyr ar y cyfryw bethau.

23. Y mae 'r *gwylltineb* a 'r *creulondeb* meddwl ymma mor anghymwys i natur dŷn, ag na chynnhwyſir iddo ei arferu hyd yn oed tu ag at ei *anifail*; mor echryſlon gan hynny yw iddo ei arferu tu ag at rai o 'r ûn natur ag ef ei hûn, a phêth ſydd fwy, a 'r rhai ſydd erſeddion o 'r ûn gobaith tragywyddol gydâ ni? Y mae y rhai a droſſeddant fal hyn yn erbyn ei Cymydogion mewn ûn o 'r ffyrdd neillduol hyn, neu mewn dim arall ar a fô yn niweidiol i 'r Corph, yn ddynion anghyfiawn, heb ganddynt y fâth iſſaf ymma o Gyfiawnder tu ag at ei Cymydogion, ſef, yr hyn a berthyn i 'w *Cyrph* hwynt.

24. Ag ni all nêb ei eſcuſodi ei hûn, gan ddywedyd, nad yw 'r pêth a wnaeth ef ond talu 'n ól rhyw *Gam* a gynnygwyd iddo ef gan ûn arall; oblegid bwriwch iddo dderbyn rhyw niwed mawr, ettp ni ddichon efe fôd yn

ddialwr

ddialwr iddo ei hûn heb wneurhur cam a'r dyn hwnnw, yr hwn nid yw yn gaeth-wâs iddo i wneuthur a ſynno ag ef, er ei fód yn elyn iddo; nid oes iti ddim ychwaneg o achos i *arglwyddiaethu* arno ef, oblegid iddo ef wneuthur Cam a thydi; ag am hynnu os nad oedd gennit awdurdod ar ei Gorph ef o'r blaen, dlammeu nad oes gennit yr awrhon; ag am hynnu nid wyti yn unig yn anghariadus (yr hyn ſydd o hono'i hûn yn ddigon o Bechod i'th ddamnio di) eithr hefyd yn *anghyfiawn* ymmhób rhyw weithred o *Sarhâad* a wnelych di iddo ef. Iè, y mae'r anghyfiawnder hwn yn eſcyn yn uwch, ſêf, at *Dduw* ei hûn, yr hwn a gadwodd *ddîal*, megys péth a berthyn yn briodol iddo 'i hûn, *i mi y mae Dîal yn perthyn, mi a'i talaf médd yr Arglwydd, Rhuf.* 12. 19. Ag yna, pa béth a wná 'r hwn a *ymddiàla* troſto'i hûn ond dyneſſu yn rhŷ agos at *briodoldeb* neillduol Duw ei hûn, a chippio'r cleddyf megys o'i law ef, fal pe gwydde ef pa fódd i'w reoli yn well? yr hyn ſydd o'r unwaith yn *Yſpeiliad* ag yn *ddirmyg* o'r Duwiol Fawrhydi. Sul X.

SUL

Sul XI.

SUL XI.

Am Gyfiawnder ynghylch Meddiannau ein Cymydog, yn erbyn gwneuthur Cam ag ef yn ei wraig, ei olud. Am Orthrymder, Lledrad. Am dalu Dyledion, &c.

Ei Feddiannau.

1. *Drydydd Ran o'r Cyfiawnder ymma o Ommeddiad* yw, yngŷlch *Meddiannau* ein cymydogion; nid allaf eglurhau yn well pa béth yr ŵyf yn ei feddwl wrth *Feddiannau*, na'ch gyrru chwi at y *degfed Gorchymyn*, diben pa un yw, ffrwyno pób chwantau a deiſyfiadau cybyddaidd tu ag at *Feddiannau* ein Cymydog. Ni a welwn yno bennodi nid yn unig ei Dŷ ef a'i waſanaethwŷr, a'i anifeiliaid, y rhai a all fyned i gŷd tan yr ûn Enw cyffredinol hwnnw o'i Ddâ neu'i olud, ond yn bendanr ei *Wraig* ef, megys rhan enwedigol o'i *Feddiannau* ef, ag am hynny pan Yſtyriom ni'r Ddled-ſwydd hon o Gyfiawnder a berthyn i *Feddiannau* ein Cymydog, rhaid i ni gyfaddaſu hynny yn gyſtal at ei *Wraig* ef, ag at ei *Ddâ* bydol eraill.

Ei wraig.

2. Y mae'r briodoraeth enwedigol ſydd gan bób gŵr yn ei *Wraig* mor hyſpus, na ſydde ond ofer i mî ddywedyd dim i brofi hynny; y mae'n eglur fód pawb yn y bŷd yn deall hyn yn ddâ, wrth yr annoddefgarwch mawr o'r anfodlonrhwydd ſydd gan bób gŵr priod wrth weled néb yn goſod ar ei briodoraeth hon, ag am hynny ni dichon néb ar ſydd yn gwneuthur y Cam hwn i ûn arall fód heb wybod mor fawr yw

yw; ſe gydnabyddir gan bawb fôd halogi gwraig gŵr trwy ei hudo hi i wêly dieithr, yn fath waethaf o Ledrad, yn anſeidrol tu hwynt i hwnnw o'r Dâ. Sul XI.

Hûde gwraig gior iw 'r Cam mwyaf a all fôd.

3. Yn wîr y mae yn yr ûn hwn bentwrr o *gamweddau* dirfawr ynghŷd; rhai tu ag at y *Wraig*, a rhai tu ag at y *gŵr*: tu ag at y *Wraig* y mae y rhai mwyaf a all fôd, ſef, Cam yn erbyn ei *Henaid*, yr hyn, fal y dywedais i o'r blaen, ſydd tû hwynt i bôb Cam arall, y mae hynny yn ei hyſpeilio o'i diniweidrwydd, ag yn ei goſod hi ar gwrs o ddrygioni traechryſlon (nid dim llai na *thrachwant* ag *anudonedd*) oddiwrth bâ rai mae yn debyg na ddychwel hi bŷth, ag yna y maent yn ei damnio hi yn dragywydd. Yn neſſaf, mae hyn o herwydd y bŷd hwn yn dwyn ymmaith ei *henw dâ* hi, gan ei gwneuthur hi yn ffiaidd ag yn ddirmygedig, a'i henw yn wradwydd ymyſg pôb rhyw ddynion; ag heb law hynny, mae hyn yn ei hyſpeilio hi o holl hyfrydwch ei bywyd, yr hyn ſydd yn tarddu allan o'r addfwynder a'r Caredigrwydd yr hwn ſydd rhwng *gŵr* a *gwraig*, ag yn llé hynny yn peri i'r naill ffieiddio a chaſau 'r llall, yr hyn a wnâ lawer iawn o ddrŵg, rhŷ ormod i 'w adrodd ymma, ymmhôb ûn o ba rai y mae i 'r gŵr ei gyfran heſyd. *I'r Wraig.*

4. Ond heb law y rhai hynny, y mae hyn yn gam mawr iddo ynteu; oblegid yn gyntaf, y mae hyn yn tynnu oddiwrtho yr hyn y mae ef yn ei gyfrif yn werthfawroccaf pêth yn y bŷd, ſef, Cariad a ffyddlondeb ei wraig; ar pêth heſyd yw yr hwn y mae iddo ef y cyfryw anghyfrannol hawl, ag nas gall ef ei hun, os mynnei, ei rhoddi i fynu i nêb arall; ag am hynny yn ddiammeu, nid ellir heb yr anghy- *I'r Gŵr.*

Sul XI. fiawnder eithaf ei dwyn oddiarno. Ag nid hynny yw 'r cwbl chwaith, ond mae hyn ymmhellach yn ei lenwi ef (os daw efe ſŷth i ddirnad hynny) a'r wŷn dra-phoenus honno ô *êiddigedd*, yr hon o'r hôll wŷniau ſydd anhawſaf ei goddef, a'r hon ſydd yn ſynych yn goſod dynion ar bethau tanbaid a ffrom-wyllt, oblegid fal y dywed *Solomon*, *Cynddaredd gŵr ydyw*, Dihar. 6. 34. Y mae hyn ymmhellach yn dwyn arno ef yr holl *ddirmig* a 'r *gwradwydd* hwnnw yr hwn trwy anghyſiawn ſefurau 'r bŷd ſydd arferol o ſyrthio ar y rhai a gam-arferir fal hyn, yr hyn y mae llawer yn ei gyſrif yn rhan fwyaf o'r Cam, ag er mai gwir yw, mai anghyſiawn iawn yw iddo ef ddioddef gwradwydd yn unig am iddo dderbyn Cam, etto oddigaeth ail-gyweirio 'r bŷd, ſe ddigwyddiff hynny iddo, ag am hynny y mae hyn yn adchwanegu 'r Cam yn ddirfawr. Trachefn, ſe ddichon hyn ſôd yn yſpeiliad, oblegid yſcatfŷdd ſe all hynny ddigwydd i ſôd yn gwthio i mewn *Blentyn* y *Godineb* i 'w deulu ef. i gyfrannu ag ymborth a chyfran ei blant ei hûn, ag mae hyn yn Lledrad gyhoeddus: yn gyntaf, os edrychwn ni ar y gŵr, yr hwn nid yw yn ddiammeu yn bwriadu llafurio am gynhaliaeth i blentyn gŵr arall; a thrachefn y mae hynny yn lledrad os edrychwn ar ei *blant* ef, y rhai ſydd yn cael ei twyllo o gymmaint ag y mae hwnnw yn ei gael oddiarnynt. Ag am hynny, pwy bynnag a wir edifarhâo am y pechod hwn, os gwnâ ef hynny yn effeithiol, rhaid iddo dalu yn ól i 'r teulu cymmaint, ag a ddarfu iddo trwy 'r moddion hyn ei hyſpeilio hwynt o hono.

5. Y

5. Y mae 'rhain i gŷd gwedi ei goſod yn yr ûn-lle yn gwneuthur hyn yn ſwyaſ cam a ellir ei wneuthur i ddyn; a 'r pêth ſydd etto yn ei wneuthur yn ſwy o lawer yw, ei ſôd ef yn gyſryw ag nad ellir mo 'i *ddiwygio*; oblegid, oddieithr mewn ûn pêth y traethais i am dano euſus, nid oes ûn rhan o'r pechod hwn y gellir ei ddiwygio; i'r pwrpas hwn y mae i ni i 'w yſtyried yn y *Gyfraith Iddewaidd* y gorchymynnir i'r Lleidr *dalu yn ôl ar ei bedwaryd*, a bòd hynny yn ei ryddhâu ef; ond rhaid oedd i'r Godineb-ŵr, gan nad oedd boſſibl iddo ef wneuthur at-gyweiriad ag iawn, *roddi ei Enioes ar lawr* am ei Gamwedd, *Levit.* 20. 10. Ag er bòd Godineb-wŷr yn llwyddo yn well yn y dyddiau ymma, ag yn byw llawer o ddyddiau i adneŵyddu ei heuogrwydd, ag yſgatſydd i chwerthin am ben y rhai y maent yn wneuthur cam ſal hyn yn ei herbyn, etto gwybyddant yn ſicer, y bydd rhaid iddynt roddi cyſrif tòſt am hyn ryw ddŷdd, a hynny pa ûn bynnag a wnânt a i edifarhau a'i peidio; os denan nhw trwy Râs Duw i edifeirwch, nhw a ganfyddant nad yw hwn bechod rhâd; rhaid yw iddo goſtio iddynt lawer o gythrwblaeth enaid, llawer o gyſyngder ag ing Cydwybod, llawer o ryddfan a dagrau; ag yn wir, pe bae ddŷn yn treulio hòll ddyddiau ei fywyd yn y cyſryw weithredoedd o edifeirwch, ſe fydde 'r cwbl yn ddigon bychan i ddilêu euogrwydd ûn weithred neilldual o'r ſath ymma; pa ryw ofidiau llifeiriol gan hynny ſydd angenrheidiol i'r rhai ſydd yn gwneuthur y fâth farſiandiaeth o'r pechod hŵn ag y mae rhŷ ormod o ddynion yn ei wneuthur? Yn ddiammeu y mae yn orchwyl cymmaint, a bòd yn dra-angenrheidiol i'r nêb y mae yn perthyn ymoſod atto allan o law, rhag bòd

Sul XI.

Nid ellir diwygio 'r Cam hwn.

Sul XI. arnynt eiſieu amſer i ſyned trwyddo, oblegid na thwylled néb mono 'i hûn gan dybied y gellir golchi ymmaith ymarfer a chynnefindra o 'r pechod hwn ag ûn weithred neilldnol o edifeirwch; nag ellir ddim, ond rhaid i 'r edifeirwch fôd yn gyfattebol i 'r bai; ag fal y bû 'r naill mewn hir-ymarfer a chynnefindra, felly 'bydd rhaid i 'r llall fôd. Ag yna, pa ryw wall-gôf ryfeddol yw i ddynion redeg i 'r pechod hwn (a 'i gynllwyn ef mor boenus ag y mae llawer yn gwneuthur) yr hwn a ŵyr y bŷdd rhaid iddo dalu mor ddrûd am dano, er dyfod o 'r pêth i 'r goreu, hynny yw, er bwriadu iddo edifarhau; ond os ni edifarheiff, yn ddruttach o aneirif; y mae yn colli iddo ei holl hawl i 'r Nêf, y llé hwnnw o burdeb, ag yn rhoddi iddo 'i gyfran yn y pydew tanllydd, llê y dibenua poethni ei drachwant ef yn y llôſcleydd tragywyddol hynny: Canys er darfod iddo ef wneuthur y pechod hwn mor ddirgel ag y dichon ef ddywedyd gyda 'r Godineb-ŵr *Jôb* 24. 15. *Nid oes ûn llygad yn fy ngweled i*, etto yn ſiccr nid alle yn ei ddirgelwch mwyaf ei gyſcodi ei hûn rhag golwg Duw, gyda pha ûn nid yw *tywyllwch* yn *dywyllwch*, Pſal. 139. 12. Ag ete yw 'r hwn a fygythiodd yn bennodol farnu 'r fâth ymma ar droſſedd wŷr, *Heb.* 13. 4. *Godineb-wyr Duw a farna.* Duw a ganniadhâo i bawb a 'r fydd yn byw yn y pechod ffiaidd hwn, ei barnu ei hunain yn hollawl mewn prŷd, fal y gallont ochelyd y Farnedigaeth erwin echryſlon honno gan Dduw.

Ei Ddâ. 6. Yr *ail* pêth at ba ûn y mae 'r Cyfiawnder hwn tu ag at *Feddiannau* ein Cymydog yn cyrrhaeddyd yw, ei *Ddâ* ef; tan ba air cyffredinol y cynnhwyſir ei Dŷ ef, a 'i Dîr,

a 'i

a ïi Anifeiliaid, a'i Arian, a'r cyffelyb, ymmha rai y mae gantho iawn a phriodoldeb; rhaid i ni trwy Reol y Cyfiawnder ymma oddef iddo fwynhau y rhain heb geifio na'i *golledu* ef yn yr un o honynt, na'i *ceifio* nhw ychwaith *i ni ein hunain*: Yr wyfi'n gwneuthur rhagoriaeth rhwng y ddau hyn, oblegid fe a ddichon fôd dau achos neu annogaeth o'r pechod hwn; ûn, malis; a'r lall, Cybydd-dod Sul XI.

7. Y mae'r dŷn maleifus yn chwennych gwneuthur drŵg i'w Gymydog, er na ennill ef ei hûn ddim wrth hynny; fe a welir yn gyffredinol fôd dynion yn arteithio ag yn difrodi Dâ ûn y bô ganddynt genfigen iddo, er nad ydynt yn bwriadu ennill dim iddynt ei hunain wrth hynny, ond y pleſer o wneuthur drŵg i'r llall: y mae hyn yn feddylfryd cythreulig, yn union yn gyfattebol i'r eiddo diafol, yr hwn fydd yn rhoddi ei hôll boen a'i ddiwydrwydd, nid i ddwyn dim daioni i mewn iddo'i hún, ond yn unig i ddinifirio ag i ddifetha eraill: a chwi a ellwch weled mor wrthwynebus yw hyn i bôb rheol Cyfiawnder, wrth y Gorchymyn a roddes Duw i'r *Iddewon* ynghylch dâ gelyn: llê yr oeddynt cymmhelled oddiwrth gael rhydd-dyd i'w anrheithio a'i dinifirio hwynt, a'i hôd nhw yn enwedigol yn rhwymedig i rag-flaenu hynny, *Exod.* 23. 4. 5. *Os cyfarfyddi ag Eidiou dy elyn, neu a'i Aſſyn yn myned ar gyfr-goll, dychwel ef adref iddo: Os gweli Aſſyn yr hwn a'th gaſhâa di yn gorwedd dan ei phwnn, paid a gadel iddi, gan gynnorthwyo cynnorthwya gydag ef.* Llé y gwelwch ei bôd hi yn ddyléd arnom, jê, i'n gelynion, i rag-attal y niwed a'r golled honno, yr hon trwy unrhyw dam-

Anghyfiawnder maleifus.

wain

Sul XI. wain y mae eſe mewn perigl o honi: a hynny hefyd trwy bêth llafur a phoen arnom ein hunain. Pa anghyfiawnder echryſlon gan hynny yw i ni ddwyn yn bwrpaſol y golled a 'r niwed hwnnw arno ef? Pwy bynnag ſydd yn euog o hyn, na eſcuſoded mono 'i hûn gan ddywedyd na ddarfu iddo mo ïi gyfoethogi ei hún wrth anrhaith ei Gymydog, na lynodd dim o'i eiddo wrth ei ſyſedd ef; oblegid yn ddiammeu nid yw 'r *anghyfiawnder maleiſus* hwn yn ddim llai bai na 'r ûn *Cybyddaidd*; iè, yr wyſi 'n meddwl ei ſôd ef yn *fwy* os edrychwn ar yr achos a 'r gwreiddyn o ba ûn y mae eſe yn tarddu, gan fôd y Caſineb hwn i ûn arall, yn waeth na 'n gormod Cariad i ni ein hunain; y mae 'r hwn a ddrygodd ei Gymydog fal hyn mor rhwymedig i ddîwygio 'r Cam, ag i wneuthur jawn am y golled, a phe buaſei gwedi ei gyſoethogi ei hûn wrth hynny.

Anghyfiawnder Cybyddaidd

8. Ond o 'r tu arall, na farned y *twyllwr Cybyddaidd* oblegid hyny ei bechod ef yn fychan, o herwydd bôd ûn arall mewn rhyw ſôdd yn fwy na'i ún ef; oblegid yſgatfydd mewn rhyw foddion eraill ſe ddichon yntau droi 'r clorian; y mae yn ddiammeu yn yr ûn hwn, o ran bòd yr hwn ſydd anghyfiawn o chwant elw, yn debyccah i wneuthur 'r unrhyw Bechod troſto drachefn na 'r hwn ſydd felly o Falis; oblegid ammhoſſibl yw i ùn-dŷn gael cynnifer o wrthrychiadau o 'i Falis, ag a ddichon ef gael o 'i Gybydd-dod; nid oes nêb mor llŵyr-atgas gantho hóll ddynol ryw a chaſau pôb dŷn; ond mae gan y Cybydd gynnifer o wrthrychiadau o 'i bechod, ag ſydd o bethau yn y bŷd y mae eſe yn ei cyfrif a dal ddim. Ond ni ſafa 'i yn hwy ar y gyffelybiaeth hon, y mae

mae pôb ûn o'r ddau yn ddiammeu yn bechod dirfawr, ag mae hynny yn ddigon o achos i gaſhau pôb ûn o honynt: Ni a ddeſcynnwn yn awr at yr amryw rannau o *Anghyfiawnder Cyhyddaidd*; gwîr yw y gallanhw i gŷd ſyned tan yr enw o Ledrad neu Yſpeiliad, oblegid felly y maent i gŷd mewn effaith, etto er mwyn hyfforddrwydd ni a'i rhannw nhw i'r trî hyn; ſêſ, *Gorthrech*, *Lledrad*, a *Thwyll*. Sul XI.

9. Trwy *Orthrech* yr ŵyf yn meddwl y *Lledrad cyhoeddus* hwnnw o ſyrthio ar Feddiannau rhai eraill, a pherchennogi ag amddiffyn hynny. Ag i wneuthur hyn y mae amryw ſoddion ag offerau; megys, yn gyntaf, *Galla*, trwy ba ûn y trôwyd amryw Genhedloedd a Brenhinoedd allan o'i Cyfiawnder, a llawer o ddynion eraill allan o'i meddiannau: weithiau drachefn, fe a wnêir Defnydd o'r *Gyfraith* i'r diben hwn; y mae 'r hwn a chwennych dîr neu Ddâ ei gymydog yn haeru hawl ynddynt, ag yna naill ai trwy lygru Cyfiawnder a *Gwobrau* a *Rhoddion*, neu trwy ei gorchfygu hi a'i fawredd a'i Awdurdod, y mae efe yn cael y farn o'i dû; y mae hyn yn Orthrymder mawr, ag o'r fâth waethaf; yn gwneuthur ŷ Gyfraith, yr hon a amcanwyd yn noddfa ag yn amddiffynfa i ddynion am ei hawl, i fôd yn foddion o orchfygu Cyfiawnder: ag mae hyn yn euogrwydd trae-chryſlon, yn gyſtal ar yr hwn a *geiſio*, a'r hwn a *draetho* y cyfraw farn, iê, ag ar y Cyfreith-ŵr yr hwn a *ddadleuo* tros y Cyfryw achos; oblegid trwy wneuthur hynny, y mae ef yn cynnorthwyo 'r gorthrymder: weithiau trachefn, mae angen y Gorthrymmedig yn foddion ag yn achos o'i Orthrymder; felly y mae mewn Uſuriaeth a Thrais: y mae dŷn mewn caledi dirfawr am arian, ag mae hynny Gorthrech.

yn

Sul XI. yn rhôi achlyſur i'r Gorthrymmwr i waſgu yn anghydwybodus arno, yr hyn ſydd rhaid i'r dŷn tlawd gyd-ddwyn ag ef er mwyn cyflawni ei angen preſennol. Ag fal hyn hefyd y mae yn ſynych gydâ meiſtred-tir crib-ddeiliaidd, y rhai, pan na ŵyr ei tenantiaid tlodion pa fôdd i gael llê mewn mann arall, a'i gwaſga nhw ag a fynant ganddynt fwy nag a dâl y pêth. Nid yw y rhain ôll, ag amryw ſoddion eraill o'r cyffelyb, ond amryw ffyrdd o weithredu 'r ûn pechod hwn o *Orthrech*, yr hwn ſydd etto yn fwy o lawer pe lleiaf cynnorthwy y Gorthrymmedig, am hynny y mae 'r ſcrythur yn rhôi ar lawr Orthrymder y weddw a'r ymddifaid megys y râdd eithaf o'r pechod hwn.

Dial Duw yn erbyn hyn.

10. Y mae hwn yn wîr yn bechod greſynol iawn, yn erbyn pa ûn y bygythiodd Duw *Ddial* tôſt mewn amryw fannau o'r Scrythur: megys, *Ezec.* 18. 12, 13. Yr hwn a orthrymma 'r anghenus a'r tlawd, ag a dreiſia drais, gan farw efe a fydd farw, ei waed a fydd arno 'i hûn; ag mae efe 'n adrodd yr ûn pêth trachefn, gwer 18. Yn wîr y mae Duw gwedi cymmeryd arno mor bennodol amddiffyn y tlawd a'r anghenus, a'i fôd yn rhwym megys mewn Anrhydedd i ddîal ei Cam hwynt; ag yn gyfattebol i hyn, ni a welwn Dduw, *Pſa.* 12. yn dadcan yn gyhoeddus ei feddwl a'i fwriad i ymddangos troſtynt, gwer. 5. *O herwydd anrhaith y Cyſtuddiedig ag o herwydd uchenaid y tlodion y cyfodaf yn awr, mêdd yr Arglwydd, ag a'i rhoddaf ef mewn Iechydwriaeth.* Y mae cyngor *Solomon* gan hynny yn rhagorol, *Dihar.* 22. 22, 23. *Nag yſpeilia mo'r tlawd o herwydd ei fôd yn dlawd: ag na ſathr yr anghenus mewn barn: canys yr Arglwydd a ddadleûa droſtynt ag a orthrymma enaid y nêb a'i gorthrymmo hwynt*; nid ydynhw debyg

debyg o'r diwedd i gael ond ychydig lawenydd oddiwrth yr elw a gânt trwy Orthrech, gan fôd hynny yn trôi Duw i fòd yn elyn iddynt. Sul XI, *Lledrad.*

11. Yr *ail* fâth o'r anghyfiawnder hwn yw, *Lledrad*, ag y mae o hwnnw dracheſn ddau fâth; ûn yw, Attal y pèth a ddylem ei dalu, a'r llall yw, Dŵyn oddiar ein Cymydog y pèth ſydd yn barod yn ei Feddiant ef.

12. O'r fâth *gyntaf*, yw bôd heb dalu *dyledion*, pa ûn bynnag ai 'r cyfryw bêthau ag a fenthycciaſom, ai 'r pethau ſydd yn ddledus arnom trwy ein haddewid ewyllyſgar, oblegid y mae pôb ûn honynt yn ddledus i'r hwn a allo roddi yr ûn o'r holion hyn iddynt; ag am hynny Lledrad yw attal yr ûn o honynt oddiwrthynt, ſèf, Cadw oddiwrth fy Nghymydog ei eiddo 'i hûn; etto 'r cyntaf yw 'r mwyaf camweddus o'r ddau, oblegid yr wyfi felly yn cymmeryd oddiarno ef yr hyn oedd unwaith ganddo yn ei feddiant (bydded Arian neu ryw bêth arall) ag felly yn ei wneuthur yn waeth nag y cefais ef. Y mae hwn yn anghyfiawnder tra-mawr, a chyffredinol iawn; mae dynion yn y dyddiau ymma mor hŷf yn neccau rhai a ofynno ei *heiddo 'i hûn, ag ûn a ofynno eluſen*; lê, y mae yn achos o *gweryl* yn ſynych i ddŷn ofyn ei eiddo 'i hûn: heb law 'r amryw waſanaethgarwch y bydd raid i'r coeliwr ei wneuthr yn cynllwŷn am danynt, ag y mae hynny yn adchwanegu at y camwèdd, trwy ei fôd ef yn treulio 'i amſer, ag yn cael ei gymmeryd ymmaith oddiwrth ei negeſau eraill, ag felly mae efe yn golledwr y ffordd honno hefyd. Y mae hyn yn anghyfiawnder cymmaint, ag na wela 'i pa fôdd y dichon dŷn edrych ar ddim ar ſydd yn ei feddiant megys ei eiddo 'i hûn, tra y byddo fal hyn yn neccau i ûn arall ei iddo yntau. Dled- *Tatûn Dyledion.*

Sul XI. ſwydd pôb dŷn mewn *dlêd* yw, yn hyſtrach ei ddi-feddiannu ei hûn o'r cwbl, a'i daflu ei hûn eil-wairh yn noethlwm ar Ragluniaeth Duw, na llenwi ei nŷth fal hyn ag yſpail ei gymydogion. Ag yn diammeu, ſe brifia hynny yn ffordd ddedwyddaeh, nid yn unig o herwydd y fendith honno ſŷdd yn dilyn Cyfiawnder, wrth ei chyffelybu i'r felldith ſydd yn dilyn y gwrthwyneb, eithr hefyd mewn ſynwyr bydol; oblegid, pwy bynnag ſydd yn rhôi heibio talu Dyledion a gymmhellir i hynny o'r diwedd trwy Gyfraith, a hynny ar ammodau gwaeth o lawer nag y gallaſei wneuthr hynny yn ewyllyſgar, ſêf, trwy fwy o gôſt, a thrwy golli ei enw dâ hefyd cymmhelled ag nas gŵyr ef ar ôl hynny pa lê i fenthycca pan ſo arno fwyaf angen. Ond y ffordd ddiogelaf i ddŷn i'w ſiccrhau ei hun oddiwrth euogrwydd yr anghyfiawnder hwn, ydyw gochelyd benthycca ûn amſer ddim mwy nag a ŵyr pa fôdd i dalu yn ôl, oddigaeth gan ûn a ŵyr ei brinder ef, ag a ſydd bodlon i fód yn y perygl. Onid-è, y mae fe 'n euog o'r pechod hwn y prŷd y byddo yn benthycca; oblegid y mae fo 'n cymmeryd y pêth hynny gan ei Gymydog ar ei addewid o'i dalu 'n ôl, pan ŵyr nad ydyw debyg bŷth i'w dalu, yr hyn ſydd Ledrad gyhoedd.

Talu'n Mechnîaeth. 13. Yr unrhyw Gyfiawnder ag ſydd yn rhwymo dynion i dalu ei *Dyledion* ei hunain, ſydd hefyd yn rhwymo pôb *Meichiau* i dalu Dyledion rhai eraill, am ba rai y mae efe 'n *rhwym*, os y pen dyledwr ni bŷdd nag yn abl, nag yn fodlon: oblegid trwy ymfeichnio fe a'i gwnaeth yn ddyled arno 'i hûn, ag mae 'n rhaid iddo mewn pôb cyfiawnder atteb am dani i'r coeliwr, yr hwn, fe ellir tybied, a ddenwyd i roddi benthyg

thyg ar hyder ei ſiccrwydd eſ, ag am hynny a dwŷllir yn hollawl ag a fradychir gantho eſ, oddigaeth iddo weled ei fodioni eſ. Os tybir fôd hynny yn galed, i ddŷn dalu am y pêth ni dderbynniodd ddim bûdd oddiwrtho, mi a ganhiâdaf hynny cymmhelled ag i roddi achos cyſiawn i bôb dŷn i wilied pa fôdd yr ymrwyma tros arall; ond ni dichon hynny byth fôd yn eſgus i dorri y rhwymedigaethau hynny gwedi ei gwneuthur. Sul XI.

14. Am y fâth arall o *Ddylêd*, yr hon a ddŵg dyn arno ei hûn trwy *addewid ewyllyſgar*, nid ellir attal mo hynny chwaith heb drawſder mawr: oblegid y mae hynny bellach yn eiddo 'r dŷn hwnnw i'r hwn y gwnaethpwyd yr addewid, ag yna nid oes fatter pa fôdd y daeth eſ felly. Am hynny ni a welwn *Ddafydd* yn gwneuthur hyn yn rhan o Borteriad gŵr cyſiawn, *Pſal.* 15. 4. *Ei fod eſ yn cadw ei Addewidion er iddynt fôd i'w niwed ei hûn*; ag yn ddiammeu, mae eſe yn anghymwys iawn i eſcyn i *fynydd Duw* y crybwyllir yno am dano, (naill ai fal y mae yn arwyddoccau yr *Eglwys* ymma, neu'r Nêf ar ôl hyn) yr hwn nid yw yn cadw yn gydwybodus y rhan ymma o Gyſiawnder. Gyda 'r fâth yma o Ddylêd y gellir cynnhwyſo cyflogau y Gwaſanaeth-ŵr, a'r Llafur-ŵr, camattal pa rai ſydd bechod dirfawr; ag y mae cwynfan y rhai a Orthrymmir felly yn derchafu i fynu at Dduw. *Wele* (medd St *Jaco*) *y mae cyflog y gweith-wyr y rhai a fedâſant eich meuſydd* (*yr hwn a attaliaſoch trwy dwyll*) *yn llefain: a llef y rhai a fedâſant a ddaeth i gluſtiau Arglwydd y lluoedd*, Jac. 5. 4. Ag y mae Gorchymyn caeth am hyn, *Deut.* 24. 14, 15. *Na orthrymma wenidog tlawd ag anghenus; yn ei ddŷdd y rhoddi iddo ei gyflog, ag na fachluded yr haul* *Talu'r hyn a addawom.*

Sul XI. *arno : canys tlawd yw, ag a hyn y mae yn cynnal ei enioes, fel na lefo ar yr Arglwydd yn dy erbyn a bôd pechod ynot.* Dymma ûn o'r pechodau uchel hynny, y rhai ni pheidiant a chrôch-lefain nes iddynt ddwyn i lawr dîal Duw; ag am hynny er nad oes gennit ddim Cyfiawnder tû ag at dy frawd tlawd, etto bydded o'r lleiaf gennit gymmaint o Drugaredd i ti dy hûn, ag na thynnech i lawr farnedigaethau ar dy wartha trwy wneuthur y cyfryw gam a'r anghenus.



Sul XII.

SUL XII.

Am Ledrad; am Dwyll mewn ymddiried, mewn marſiandiaeth; am Atgyweiriad, &c.

1. YR *Ail* Rhan o *Ledrad* yw dwyn oddi ar ein Cymydog y pèth ſydd yn barod yn ei feddiant ef; a hyn a ellir ei wneuthur naill a'i yn fwy angerddol ag yn gyhoeddus, neu ynteu yn ddirgel ag yn gyfrwys; y môdd cyntaf yw, arfer y rhai a ſô yn *lledratta* ar y ffordd fawr, neu yn *Yſpeilio* tai, llê y maent yn dwyn ymmaith Ddâ dŷn trwy drais; y lall yw arfer y *lleidryn yſgafn-llaw*, yr hwn a ddŵg ymmaith Ddâ dŷn hêb wybod iddo; ni ymddaddleua'i ddim pa ûn o'r rhain ſydd waethaf, digon yw ſôd pôb ûn o honynt yn gyfryw weithredoedd o anghyfiawnder ag a wnâ ddynion yn atgâs gan Dduw, yn anghymwys i gymdeithas ddynol, ag yn bradychu ei gwneuthur-wŷr i'r drŵg mwyaf yn y bŷd hwn, gan ſôd y Gyfraith gwedi ordeinio marwolaeth yn wobr am y pechod hwn; ag nid oes nemmawr ar ſydd yn dilyn y cwrs ymma yn hîr, nad ydynt o'r diwedd yn cyfarfod a'r gwobr hwn. Yn ddiammeu, Ynfydrwydd yw i ddŷn gredu y gall eſe Ledratta yn waſtad yn ddiogel, oblegid y mae ef i ymdrech a diwydrwydd y rhai óll a dderbyniant y Cam hwn gantho, colled pa rai a'i hannoga nhw yn gyflym i'w chwilio ef allan; a'r pêth ſydd

Lledratta Dâ ein Cymydog.

Sul XII. ſydd ſwy o anfeidrol, rhaid iddo ymorcheſtu a Chyfiawnder Duw, yr hwn ſydd arſerol o gynllwyn y cyfryw rai i ddiniſtr, byd yn oed yn y bŷd hwn; fal y mae 'n eglur wrth yr amryw ddadcuddiadau rhyſeddol a wnaethpwyd o'r Lladron cyfrwyſaf. Ond pa ûn bynnag, os diangc ef rhag Dial ymma, yn ddiammeu nid oes dim ond ediſeirwch ag adnewyddiad buchedd a ddichon ei ſiccrhau ef rhag dial am dano ar ól hyn. Ag yr awrhon, gwedi Yſtyried y peryglon hyn, y mae 'n eglur fôd y lleidr yn gwneuthur marchnad wael tros ben; y mae efe yn lledratta arian ei gymydog, neu ei aniſeiliaid, ag yn gyſnewid am danynt y mae yn talu ei hoedl, neu ei Enaid, yſgatfydd pób ûn o'r ddau; ag os yw 'r *höll fŷd yn brîs rhy wael am enaid*, fal y dywed ef i ni (*Marc* 8. 36.) yr hwn a wydde orau ei gwerth hwynt, oblegid efe a 'i prŷnnodd hwynt; pa ryw wall-gof ryfeddol yw i ddŷn ei cyſnewyd nhw am bôb ceriach wael, fal y gwnâ llaweroedd, y rhai a gawſant y cyfryw arfer o *Ledratta*, na ddichon y pêth gwaelaf ddiangc ei byſedd? Tan y pechod hwn o *Ledrad* y cyfrifir *derbyn-wyr Lledrad*, pa ûn bynnag a 'i y rhai ſy 'n ei cymmeryd nhw megys cyfrannogion yn y *Lledrad*, neu y rhai a 'i prynna hwynt pan fônt yn gwybod neu yn credu mai Lledrad ydynt. Y mae llaweroedd (y rhai a gymmerant arnynt ffeiddio Lledrad) yn euog o hyn, pan allont trwy hyn bryn-hu 'r pêth ychydig rhattach na 'r prîs cyffredinol. Ag ymma hefyd y crynhôir y pechod o gëu rhyw Ddá a ddelo dŷn o hŷd iddo o eiddo ei Gymydog, yr hwn pwy bynnag na 'i rhydd yn ôl, os gŵyr ef, neu os dichon ef ddyſgu pwy yw ei berchennog, nid yw efe wèll na lleidr; oblegid y mae yn attal oddiwrth ei Gymydog yr

hyn

hyn yn briodol a berthyn iddo: ag yn ddiam- Sul
meu, ni throſſeddir cariad os dywedir, y gwnae XII.
'r cyfryw ddŷn y fâth waethaf o Ledrad, pe bydde wrth hynny mor ddi-ofal oddiwrth ddial y Gyfraith ag y mae fo yn hyn o beth.

2. Y *Trydydd* Rhan a Anghyfiawnder yw *Twyll*. *Twyll.*
Twyll; ag y mae cynnifer o ffyrdd î fôd yn euog o hwn ag ſydd o achoſion i'r naill ddŷn i negeſeua a'r llall. Ammhoſſibl yw ei henwi hwynt i gŷd, ond yr ŵyſi'n meddwl y gellir ei cynnwys hwynt tan y ddau fâth gyffredinol hyn, ſef, Twyll mewn *Ymddiried*, a *Marſiandiaeth*; oddigaeth y *Twyll* hwnnw mewn Chwaryddiaeth, yr hwn (rhaid i mi ddywedyd i chwi) ſydd gymmaint dichell a Thwyll a'r lleill.

3. Y mae'r hwn a ddwylla ddŷn mewn rhyw *Mewn Ymddiried*. *Ymddiried* a orchymynnir iddo, yn euog o Anghyfiawnder dirfawr a thra-bradychus, ſef, cyſſylltu dau bechod mawr yn ûn, ſêf, *bocced*, a *thor-addewid*; oblegid ymmhob ymddiried y mae Addewid yn gynnhwyſedig er na threuthir mono yſcatfûdd; canys wrth dderbyn yr ymddiried y mae dŷn yn addo ffyddlondeb; fe dorrir yr ymddiried hwn weithiau a'r *Byw*, weithiau a'r *marw*; a'r byw y mae amryw ffyrdd o ï dorri ef, yn ôl yr amryw rywogaethau o *Ymddiried*; y mae'r Ymddiried weithiau yn ſwy cyffredinol, fal eiddo *Potiphar* i *Ioſeph*, *Gen.* 39. 4. pan ſo dyn yn ymddiried i ûn arall am yr hyn ôll a fêdd, ag fal hyn yr ymddiriedir i Ymgeledd-ŵyr plant, ag weithiau i Oruchwyl-ŵyr; weithiau trachefn y mae ynghylch rhyw ûn pêth neillduol: y mae'r naill ddyn yn Ymddiried i'r llall i farchnatta rhyw bêth troſto, neu mae ſo'n rhoddi rhyw ûn pêth yn ei ddwlo ef i 'w oruchwylio a ï drefnu:

fal

Sul XII. fal hyn ymyſg Gweinidigion y mae'n arferol o ymddiried i'r naill ûn rhan o Ddâ ei feiſtr, ag i arall ran arall honynt. Yr awrhon, pwy bynnag yu y rhai 'n, neu 'r cyffelyb, ni wnâ mor ffyddlon tros y ſawl a ymddiriedo iddo ag y gwnae troſto 'i hûn, ond naill a'i cyll nhw trwy ddiofalwch, neu a'i difroda hwynt yn afradlon, neu a'i perchennoga hwynt ei hûn, y mae hwnnw yn euog o 'r pechod mawr hwn o dorri addewid á 'r Byw. Yn gyffelyb, yr hwn a ymddiriedir iddo am *gwplhau Llythyr-Cymmun gŵr marw*, os efe ni wnâ hyd yr eithaf o'i wybodaeth yn ôl meddwl y gŵr *marw*, eithr a 'i cyſoethoga 'i hûn a'r pêth a adawyd i arall, y mae efe yn euog o 'r pechod hwn tu ag at y marw; yr hyn ſydd yn fwy na 'r llall, o gymmaint ag nad oes gan y marw foddion o ymwared a diwygiad, fal y dichon fôd gan y byw. Y mae hyn yn fâth o *Yſpeilio beddau* yr hyn ſydd yn gyfryw Ledrad, ag y mae dynion trwy natur yn ei ffieiddio a 'i arſwydo, yn gymmaint a 'i fôd ef yn Lleidr calon galed yr hwn a feiddia arno. Ond mae pôb ûn o 'r rhain etto yn fwy echryſlon, pan fônt yn ddi-gyfwng yn erbyn Duw, neu 'r tlawd, hynny yw, pan roddir rhyw bêth mewn ymddiried i ddŷn i ddefnyddiau o Dduwioldeb neu eluſe ni; y mae hyn yn adchwanegu Cyſſegr-yſpeiliad at y twyll a 'r brâd, ag felly yn ei gymmhwyſo fo i 'r holl felldithion a fygythir i 'r amryw bechodau hynny, y rhai ſydd mor drwm, a bôd yr hwn a anturia ei gwneuthur hwynt er mwyn bûdd preſennol yn gwneuthur cyn-ddrwg, ie, gwaeth Marchnad na *Gehazi*, 2 *Bren.* 5. 27. yr hwn *gydâ dillad Naaman a gafodd ei wahan-glwyf ef befyd.*

4. Yr

4. Yr *ail* ſâth o Dwyll ſydd mewn *marchnad* a bargen, llé y dichon fôd Twyll yn gyſtal yn y Pryn-ŵr, a'r Gwerth-ŵr; twyll y gwerth-ŵr gan mwyaf yw célu beiau ei falnach, neu roi gormod o brîs arnynt. Sul XII. *Mewn Marchnad.*

5. Y ffyrdd o gelu ei beiau hwynt yw yn gyffredinol y rhai hyn, naill a'i yn *gyntaf*, trwy wadu fôd y cyfryw fai ynthynt, a'i canmol yſgatſydd am y gwrthwyneb; ag mae hyn yn gelwydd hylithr, ag felly yn adchwanegu'r pechod hwnnw at y llall, ag os cadarnhêir y celwydd hwnnw trwy lŵ, fal y mae yn rhy arferol, yna mae'r euogrwydd mawr hwnnw o *Anudonedd* yn dyſod i mewn heſyd; ag yna, pa ryw bentwr o bechodau a geſclir ymma yng-hŷd? llawn ddigon i ſuddo Enaid truan i diniſtr, a'r cwbl yn unig i geiſio trwy daerni ychydig ychwaneg o Arian o bwrs ei gymydog, a hynny lawer gwaith cyn lleied, a bôd yn rhyfeddol jawn y dichon ûn-dŷn ar ſydd yn tybied fôd gantho Enaid, ei goſod hi ar brîs mor wael a dirmygus. Yr *ail* môdd o gelu ei beiau hwynt yw, arferu rhyw *gelfyddyd* i wneuthur iddo edrych yn dêg ag i guddio ei feiau ef; er nad traethu celwydd yw hyn, etto y mae yn gelwydd yn y weithred, yr hyn ſydd cyn-ddrŵg; ag y mae yn ddiammeu cymmaint bwriad o dwyllo a ſiommi yn hyn o beth ag a all fôd yn yr anudonedd mwyaf. Y *Trydydd* môdd yw, pigo allan farchnat-wŷr gwirion; yr wyſi'n credu fôd hyn yn gelfyddyd rhŷ hynod ymŷſg Marſiand-wŷr, y rhai ni ddangoſant mo'i marſiandiaeth waethaf i ddynion cyfarwydd, eithr a'i cadwant i rai anghelfyddgar: a'r unrhyw fâth o hocced yw hyn a'r llall; oblegid y mae pôb ûn o'r ddau yn tueddu i'r un-rhyw ddiben, ſef, twyllo'r Marchnat-ŵr, ag *Yn y gwerthwr yn cuddio beiau.*

Sul XII. yna ni waeth pa ûn a wnelwyſ a'i gwneuthur deunydd o'm Celfyddyd ſy hûn ai ynteu o'i wendid ef i ddwyn hynny i ben. Y mae hyn yn ddiammeu, y dyle'r nêb a wnelo unrhyw, wneuthur ei farchnat-wr yn gydnabyddus a'r pêth y bô yn ei brynnu; ag os ni bydd efe mor gelfyddgar a gallu barnu (iê, os efe ni chenfydd y bai o hono'i hûn) yr wyti'n rhwym i'w ddadcuddio ef, onid ê, yr wyti'n gwneuthur iddo ef dalu am ryw béth nid yw yno, gan ei fôd ef yn meddwl fôd y gynneddf ddâ honno yntho, yr hyn a wyddoſti nad ydyw; ag am hynny, ti a elli mor gydwybodus gymmeryd ei arian ef am Ddâ o eiddo gwr arall, yr hyn a wyddoſt nad elli di byth roddi yn ei feddiant ef, yr hyn fe gydnebydd pawb ei fôd yn hocced ddirfawr. Ymma hefyd y gellir cyfrif y dwyll honno o *bwyſau* a *meſurau* ffeilſion, canys y mae hyn yn cadw'n ddirgel rhag y pryn-wr ddiffygiad ym maentioli, fal y mae'r llall ynghynneddf y péth a farchnettir; ag y mae hefyd yn gwneuthur iddo dalu am y péth nid yw yn ei gael. Y fâth ymma o hocced a grybwyllir am dano yn neilldnol gan *Solomon*, *Dihar.* 11. 1. ſéf, bôd hyn *yn ffiaidd gan yr Arglwydd.*

Rhoi gormod Prîs. 6. Yr *ail* fâth o hocced yn y gwerth-wr yw, rhoi *gormod prîs* ar ei farchnad; er na ddarfu iddo na chelu na chuddio ei feiau, etto os efe a eſyd brîs anrhefymmol arno y mae efe yn twyllo'r pryn-wr: yr wyſi'n galw hynny yn brîs anrhefymmol, yr hyn ſydd tu hwynt i wir werth y péth, gan Yſtyried y bûdd gweddol hwnuw a fodlonir i'w ganniadhau i Greffwyr yn y gwerthiad: Pa béth bynnag ſydd tu hwynt i hyn a ddygir i mewn, ond odid, trwy rai o'r ffyrdd hyn; megys yn *gyntaf*, trwy gymmeryd

meryd mantes o Anwybodaeth y pryn-ŵr ym mhrîs y peth, yr hyn ſydd gymmaint Twyll a cham-ganmol ei ddaioni ef: Neu yn *ail*, trwy gymmeryd mantes o'i angen ef; ti a weli ddyn ag arno yn breſennol eiſieu rhyw béth yn ddirfawr, ag am hynny wyt' yn cymmeryd achlyſur i'w ſiommi ef; ond dyma 'r pechod hwnnw yn uniawn o Drais a gorthrech a grybwyllwyd am dano o'r blaen; canys yn ddiammeu nid oes dim a ddichon godi prîs rhyw béth yn gyſiawn, ond naill a'i fód efe yn anwylach iti, neu yn well yntho'i hûn; ond nid yw angen dy frawd yn achos o'r ûn o'r rhain; nid yw ei noethni ef nag yn gwneuthur i'r dillad yr wyti 'n ei gwerthu iddo ſeſyll iti mewn ychwaneg, nag yn ei gwneuthur nhw chwaith yn well; ag am hynny os codi di ei prîs nhw oblegid hynny, yr wyti'n newid y ffordd o Farſiandiaeth, ag yn gwerthu *angen* ag *eiſieu* dy Gymydog, yr hyn ſydd yn ddi-ammeu yn alwedigaeth anghyfreithlon iawn. Neu yn *Drydydd*, yſgatfydd trwy gymmeryd mantes o ddiddarbodaeth y marchnat-ŵr: Y mae rhyw ddŷn yſgatfydd yn ffanſio y cyfryw béth yn ddirfawr, ag ſelly yn goddef i'w ffanſi orchfygu ei Reſwm cymmhelled, a'i fód éf yn llawn fwriadu ei gael béth bynnag a goſtia. Os canſyddi di hyn yntho ef, ag ar hynny wyt yn codi ei bris, y mae hyn yn gwneuthur iddo brynu ei ynfydrwydd, yr hyn yw'r pwrcas druttaf o'r cwbl: yn ddiammeu, nid yw ei ffanſi ef yn adchwanegu dim at wîr brîs y peth, mwy nag yr oedd ei angen ef yn y cyſlwr o'r blaen; am hynny ni ddylid ti briſio'r péth yn uwch oblegid hynny. Y néb gan hynny a chwennycho werthu mewn módd goneſt a chyſiawn, gwilied gymmeryd gafael ar Sul XII.

Sul XII. bôb mantes y bò tymmer ei Farchnat-wr yn ei roddi iddo; eithr yſtyried yn ddiſrifol beth a dâl y pêth, ag am ba faint y gwerthei ef i ûn arall, yr hwn ni chae mo'r cyfryw fantes arno, ag felly ei ganhiadu yn yr ûn brîs iddo yntef.

Tyll yn y Pryn-wr. 7. Nid oes yn gyffredinol gynniſer o odfau i'r *Pryn-wr* i *dwyllo*; etto ſe all ddigwydd i ddŷn weithiau werthu rhyw bêth na ŵyr efe mo'i brîs, ag yna ſe ſydd mor anghyfiawn i'r pryn-ŵr wneuthur bûdd trwy ei anwybodaeth ef, ag oedd i'r gwerth-ŵr, yn y cyfiwr o'r blaen. Ond y péth ſydd yn digwydd ſynychaf yw oblegid *angen*, yr hyn a ddichon ddigwydd yn gyſtal i'r gwerth-ŵr a'r pryn-ŵr: y mae angen dŷn yn gwneuthur iddo werthu, ag heb oddef iddo aros i wneuthur gwell marchnad; ond yn ei gymmell ef i gymmeryd y cynnyg cyntaf; ag ymma i'r pryn-ŵr bwylo arno, oblegid iddo ei wcled ef yn y cyfyngder ymma, mae hyn yn unrhyw bechod ag a ddangoſais i o'r blaen yn y gwerth-wr.

Temtaſiwnau lawer i Dwyll mewn Marchnad. 8. Y mae mewn *Marſiandiaeth* gynniſer o Brofedigaethau i dwyllo, ag y dylei ddŷn ei arfogi ei hún a llawn-fwriad gadarn i'r gwrthwyneb, ié, a chariad dirfawr o Gyfiawnder, onid-e, ſe ſydd mewn perigl o Syrthio tan brofedigaeth; oblegid fal y dywed y gŵr Doeth, *Eccluſ.* 27. 2. *Fal y gyrrŷr gwanas rhwng cyſſwllt carreg, felly rhwng prynu a gwerthu yr ymwthia pechod*: y mae hocced gwedi ei gyd-gyſſylltu felly a phób marſiandiaeth, a chwedi ei gymmyſcu felly a'r gwreiddyn a'r ſylfaen cyntaf o honynt, ag y byddys arferol o ddyſcu'r naill gyda'r llall; ag felly y mae Twyll yn dyfod i fód yn rhan o'r gelfyddyd, yn gymmaint ag na thybir yn y dyddiau yma fód neb

yn gymwys i arferu Celfyddud yn y byd ond y nêb a fedr dwyllo, ag y mae'r nêb fydd gantho fwyaf o'r gelfyddud refynol yma o fiommi yn ei ymolêithio ag yn ei gammòl ei hûn, iê, ag ylgatfydd yn ymffroftio wrth eraill, pa fôdd yr aeth ef tros ei gymydog mewn rhyw farchnad. Sul XII.

9. Pa gywilydd anrhaethadwy yw hyn, fôd i ni Griftianogion, y rhai trwy Orchymynion ein Meiftr a rybuddir i gwplhau'r Dledfwyddau uchaf hynny o Gariad, yn llê ymarferu hynny, yn llwyr dad-ddyfcu'r rheolau cyffredinol hyndy o Gyfiawnder, y rhai y mae Natut ei hun yn ei dyfcu i ni? Oblegid yr wyfi 'n meddwl nad oes yr ûn o'r amryw ddofparthiadau hynny o anghyfiawnder tu ag at Feddiannau ein Cymydog, na farnei pôb Pagan fobr ei bôd felly; fal y dywed St. *Paul* gan hynny wrth y rhai o'r Enwaediad *fod Enw Duw yn cael ei gablu ymŷfg y Cenhedloedd*, trwy 'r anghyffondeb oedd rhwng ei hymarfer hwynt a 'i Cyfraith, *Rhuf.* 2. 24. felly y gellir yr awrhon ddywedyd am danom ninnau, y *ceblir Enw Crift ymyfg y Tyrciaid a 'r Cenhedloedd*, oblegid ein bucheddau ffiaidd a Sarhâaus ni y rhai fydd yn ein galw ein hunain yn Griftianogion, ag yn enwedig yn y pechod hwn o anghyfiawnder; gadewch i ni rhag Cywilydd o'r diwedd ymegnio i fwrw ymmaith y gwradwydd hwn oddiar ein Proffes, trwy ymadel a 'r cyfryw ymarfer, yr hyn mi a debygwn, a ddyle 'r Yftyriaeth hon yn unig ein hannog ni i wneuthur.

Cyffredinoldeb Anghyfiawnder yn Wradwydd i Griftianogrwydd.

10. Etto heb law hyn y mae ychwaneg o annogaethau i'n cynhyrfu ni; ymyfg pa rai y mae ûn o'r cyfryw Natur ag a ddichon gyffrhoi 'r Cybydd mwyaf, fef, na wîr- gyfoethoga 'r helynt yma monynt bŷth; ty. mae melldith ddirgel yn ei gynllwyn, yr hon fal

Ni chyfoethogir dyn trwy dwyll.

Sul XII. fal rhŵd a yſſa 'r hòll ſûdd a ddiſgwylwyd oddiwrtho. Ni ammheua nêb hyn a 'r ſydd yn credu 'r Scrythur, llê y mae llaweroedd o byngciau i'r pwrpas hwn: megis *Dihar.* 22. 16. *Y nêb a waſgo ar y tlawd er chwanegu ei gyfoeth, a ddaw i dlôdi.* Felly *Habac.* 2. 6, 7. *Gwâe a belaetho y pêth nid yw eiddo ef: pa hyd? ag a lwytho arno y Glai tew: oni chyſyd yn ddiſymmwth y rhai a 'th frâthant? ag oni ddeffru y rhai a 'th chwalant? ag oni byddi yn waſarn iddynt?* Hyn ſydd yn ddamwain yn gyffredinol i 'r rhai ſydd yn gorthrechu ag yn Twyllo eraill, y maent o'n diwedd yn cyfarfod a 'r rhai a wnânt y cyffelyb iddynt hwythau. Ond y mae llê yn *Zacharias* yn gyflawn i 'r pwrpas hwn, *Pen.* 5. llê tan arwydd Llyfr hedegog yr arwyddocceir y felldith ſydd yn myned allan yn erbyn y pechod hwn, *gwer.* 4. *Dygaf hi allan, medd Arglwydd y lluoedd, a hi a ddaw i Dŷ y lleidr, ag i dŷ y neb a dyngo yn gelwyddog i'm henw, a hi a erys yng-hanol ei dŷ, ag a 'i difa ef, a 'i goed, a 'i gerric.* Llê y gwelwch mai *lledrad* ag *anudoneddd* yw 'r ddau bechod, yn erbyn pa rai y bwriedir y felldith hon (ag y maent hwy yn rhŷ fynych yn ymgyfarfod ynghŷd mewn Twyll) a Natur y felldith hon yw difa 'r Tŷ, a llwyr ddiniſtrio 'r cwbl ôll a berthyno i 'r nêb a fo euog o'r ſûn o'r pechodau hyn. Am hynny tra 'i bôch di fal hyn yn rheibus ar ôl dâ nen dŷ dy Gymydog, nid wyti ond caſglu tân wŷdd i loſci yr eiddo dy hûn. Ag ni a welwn bennydd y ffrwyth o 'r bygythion ymma o eiddo Duw, yn yr aflwyddiant rhyfeddol o gyfoeth a geſclir ar gam, yr hyn y mae pôb dŷn yn ddigon parod i ddal ſulw arno mewn cyflwr rhai-eraill: yr hwn a welo ïi gymydog yn myned yn ol llaw, fe fedr yn ebrwydd ddwyn ar gôf, Fe

a

a gaſclwyd hyn trwy orthrymder a thwyll; etto yr ydym ni mor orphwyllus, a chwedi ein llygattynu cymmaint a chariad elw, ag na ddichon yr hwn ſydd yn yſtyried hyn mewn arall, wneuthur deunydd yn y bŷd o hono iddo 'i hûn ond yn anſynych; nid yw efe ddim llai rheibus nag anghyſiawn ei hûn, er yr hôll ddial y mae efe yn ei ddirnad a ddigwydd i eraill. Sul XII.

11. Ond och! pe byddit ſicer na rwygid odiwrthit dy Feddiannau anghyſiawn, etto pan goſiech mor ddrûd y bydd rhaid iti dalu am danynt mewn bŷd arall, nid oes iti ond achos ſechan i ymffroſtio o'th ſargen. Yr wyti'n meddwl y buoſt yn gŷwraint iawn pan dwyllaiſt dy gymydog; ond ſe ŵyr Duw yn y cyfamſer tôd ûn arall yn dy ſiommi dithau, ag yn dy Dwyllo di o bêth ſydd yn aneiriſ gwerthſawroccach, ſef, dy Enaid: y mae 'r Cythrel yn gwneuthur a thydi yn hyn fal y mae arfer Pyſgodwŷr; y mae y rhai a chwennychant ddal pyſgodyn mawr yn abwydo ei bâch ag ûn llai, ag felly 'r mawr yn dyfod yn rheibus i lyngcu r' llall a ddelir ei hunan: yr ûn môdd tydi, yr hwn wyt yn ſafn-rythu i lyngcu dy ſrawd llawd, a wneir yn yſglyfaeth i'r Diniſtiydd mawr hwnnw. Ond och! bêth a eſmwythâ hynny arnati yn Uffern, ddarfod i ti adael cyfoeth o'th ôl ar y ddaiar, pan fo arnat eiſieu yno y pêth y mae 'r cardottyn gwaelaf ymma yn ei fwynhau, ſef, deſnyn o ddwfr i oeri dy dafod? Yſtyria hyn, ag ymrôa o hyn allan i roi 'r hôll boen a'r diwydrwydd hynny a arferaiſt i dwyllo eraill, i'th achub dy hûn rhag hocced y twyllwr mawr. *Twyll yn llwŷr ddiniſtrio'r Enaid.*

12. I'r diben hwn y mae 'n gwbl angenrheidiol i ti wneuthur *Adferiad* i bawb ar y gwnaethoſt gam iddynt; oblegid tra y cedwi di yn dy *Yr angenrheidioldeb o Adferiad.*

Sul XII. dy feddiant ddim o'r elw anghyfiawn, y mae hynny megys ceiniog ernes oddiwrth y Cythrel, yr hon ſydd yn rhoddi iddo ef gwbl hawl i'th Enaid. Ond yſgatfydd, ſe ddywedir nad yw boſſibl mewn pôb rhyw gyfiwr wneuthur *Atgyweiriad* i'r ſawl y gwnaethpwyd Cam ag ef, ſe allei i fôd ef gwedi marw; os felly gwnâ ef a'i Etiſeddion, i ba rai y mae ei hawl ef yn deſcyn. Ond ſe ellir heuru trachefn ddarfod ond odid i'r nêb a arferodd Dwyllo yn hîr, wneuthur cam a llaweroedd nad yw ef yr awrhon yn medru ei cofio, a llaweroedd trachefn nid oes iddo fôdd yn y bŷd i gael gafael arnynt: yn y cyfiwr yma, y cwbl a alla'i gynghori yw hyn: Yn *gyntaf*, bôd mor ddiwyd ag y bô poſſibl i atgoffhau pwy oeddynt, ag hefyd i ymegnío ar ddyfod o hŷd iddynt; ag os metha hynny ar ôl dy hôll ddiwydrwydd, gwnâ'r Diwygiad i'r Tlodion, ag fal na bó mewn *rhan* yn unig, bydd mor ofalus ag y gellych i gyfrif hyd yn oed y ffyrling eithaf o elw anghyfiawn; ond llê nid ellir gwneuthur hynny yn hollawl, fal yn ddiammeu ni all y rhai ſydd gwedi amlhau y gweithredoedd hyn o Dwyll, etto gwnânt ryw teſur cyffredinol trwy ba ûn i gymmhwyſo ei hadferiad: megys er Eſampl, *Marſiand-wr* yr hwn ni fedr gofio pa faint a Dwyllodd ef mewn pób rhyw gyfran neillduol, etto a all, ond odid, ddyfalu yn gryno a oedd ef yn arfer o fiommi hyd y drydydd neu'r bedwaredd ran o'r farſiandiaeth, ag yna pa ddogn bynnag a dybio fo ddarfod iddo felly i dwyllo, rhoed yn gyfattebol i hynny allan o'r golud a gaſclodd wrth ei farchnad: ond yn hyn y mae 'n ſefyll ar bób dŷn wneuthur yn uniawn, megys ger bron Duw, ag nid cymmeryd mantes o'i angóf ei hûn i gwttógi 'r *Adferiad*, eithr yn hyttrach

myned

myned ar y llaw arall, a bôd yn ſiccr o roddi yn hyttrach ormod na rhŷ ſychan. Os digwydd iddo rôddi ychydig tros ben, nid oes achos iddo rwgnach am drâul y cyfryw *Aberth* tros *Bechod*; ag yn ddiammeu ni wnâ eſe, os ydyw yn ddiffuant yn deiſyfu *Cymmod*. Llawer eraill o anhawſder a ddichon fôd yn hyn o beth (ſef, *Adferiad*) y rhai ni ellir mo'i rhag-weled, ag ſelly ni ellir traethu am danynt yr awrhon yn neillduol; ond pe mwyaf o'r rheini ſydd, mwyaf a ddyle dynion arſwydo rhedeg i'r pechod o *Anghyfiawnder*, yr hwn ſydd mor anhawdd, os nad yw ammhoſſibl, iddynt ei Ddiwygio, a mwy gofalus a ddylent hwy fôd i farw-hau *Cybydd dod*, yr hwn yw gwreiddyn pôb anghyfiawnder.

Sul XII.



Sul XIII.

SUL XIII.

Am Ddrwg-Abſen, Cam-dyſtiolaeth, Enllib, Huſtyng; gwawdio am Wendid, Trallodau, Pechodau, &c. *Am Gyſiawnder gweithredol, am Wirionedd, Celwydd,* &c. *Am Genſigen ag Anair. Am Ddialchgarwch,* &c.

Ei Frî. 1. Y *Pedwerydd* Caingc o *Gyſiawnder* o *Ommeddiad* a berthyn i *Frî* neu Enw dá ein Cymydogion, yr hwn ni ddylem ni mo'i leihau na'i waethygu mewn módd yn y bŷd, yn enwedig trwy *ddrŵg-Abſen*: o'r hyn y mae dau fâth, *ûn* yw, pan fo dŷn yn dywedyd rhyw bèth am ei gymydog yr hyn a ŵyr efe yn hollawl ei fod yn gelwydd; y *llall* yw, pan fo gantho yſgatfydd ryw debygoliaeth wael, neu eiddigedd o'r pêth, ond hynny ar y cyſryw Sylfaen wan, a bod y pêth mor debyg i fôd yn gelwydd ag yn wîr. Ymmhôb ùn o'r rhain y mae euogrwydd mawr yn ſefyll ar y Traethŵr. Fôd ſelly yn y cyntaf o'r rhain nid oes nêb yn ammeu, gan fôb pawb yn cydnabod mai'r bryntni mwyaf yw dychymmig *celwydd* ar ûn arall, oblegid pwy bynnag a draetha ryw bèth megys gwirionedd, yr hyn nid yw ond ammheus o hono, ſydd yn gelwydd-ŵr hefyd; neu os efe ni thraetha mono megys ſiccrwydd, ond yn unig megys cyffelybrwydd o'i fôd yn ŵir, etto er nad yw efe yn hynny yn euog o *gelwydd*, y mae o *arghyſiawnder*, yn yſpeilio ei gymydog o'i Enw

Enw dâ; oblegid y mae y fâth dueddiad mewn dynion i goelio drŵg am eraill, ag y gwaſanaetha 'r cyffelybrwydd lleiaſ i 'r diben hwnnw os tenir hynny ûnwaith ar lêd; ag yn ddiammeu anghyfiawnder tra-echryſlon yw, ar bôb tebygoliaeth a ffanſi wael, perygl dwyn cymmaint o ddrŵg ar ûn arall; yn enwedig pan yſtyrir, fôd y dychymygion hynny gan mwyaf yn tarddu allan oddiwrth ryw rag-farn, drŵg-nawſrwydd, neu falis yn y drwg-dybiwr, yn hyttrach nag ûn bai cyhoedd ar ſydd yn y dyn a enllibir. Sul XIII.

2. Nid yw 'r mòdd o danu 'r ddau fâth ymma o Ddrŵg-abſen yn unrhyw bob amſer; y mae weithiau yn ſwy *cyhoeddus* ag agored, weithiau yn ſwy *dirgel* a chuddiedig: y módd cyhoeddus yw yn ſynych trwy gam-dyſtiolaeth o ſlaen y Barn-ŵyr yn y Dadleu-dŷ; ag nid yw hyn yn unig yn briwo dŷn yn ei enw dâ, eithr mewn moddion eraill hefyd; y mae hynny yn ei roi ſo i ſynu i goſpedigaeth y Gyfraith, ag yn gwneuthur iddo niwed mwy neu lai, yn ôl maentioli 'r bai y cyhuddir ef am dano; ond os bŷdd o 'r fâth uchaf, ſe all gyrrhaeddyd ei fywyd ef, fal y gwelwn wneuthur o hono ynghyſtiwr *Naboth*, 1 *Bren.* 21. Mor fawr ag echryſlon yw 'r pechod hwn o herwydd hyn, ag oblegid yr anudonedd hefyd, chwi a ellwch ddyſcu wrth y peth a draethwyd am bôb ûn o'r pechodau hynny. Yr wyſi 'r awrhon i 'w Yſtyried yn unig megys ag y mae 'n cyrrhaeddyd yr enw dâ; ag i hwnnw y mae yn archoll retynol, cael fal hyn dyſtiolaethu bai yn gyhoeddus yn erbyn ûn, a 'n cyſryw nad ellir mo 'i ddiwygio ond prin trwy ddim ar a ellir ei wneuthur ar ôl *Cam-dyſtiolaeth.*

Sul XIII. hynny i'w ddi-heuro; ag am hynny y mae pwy bynnag ſydd yn euog o hyn yn gwneuthur anghyſnawnder tra echryſlon a'i gymydog; dymma'r pêth y waherddir yn hynod yn y *Nawfed Gorchimyn*, ag a ordeinwyd gan Ddduw i w gofpi trwy roddi arno ef yr unrhyw gofpedigaeth, ag a amcanodd ei gau-dyſnolaeth ef ei dwyn ar y llall, *Deut.* 19. 16, 17, &c.

Erllib eyhoeddus. 3. Yr *ail* modd cyhoeddus o danu'r drwg-abſen ymma yw, ei ſynegi yn ſafn-rhwth ag yn gyſſredinol; er nad o flaen Swydd-wr, megys o'r blaen, etto mewn pôb cyfeillach, ag o flaen y cyſryw rai ag a ſo debyg i w ddwyn ymmhellach; a hyn a wneir gan mwyaf ynghŷd a ſarhâad a dirmyg chwerw-dôſt, gan mai arferol gelſyddyd Enllib-wŷr yw, rhoi ſenn a dirg air i'r neb y bónt yn ei enllibio, fal trwy doſter yr achwyniad y gallont roddi dyſnach feliad ym meddyliau y gwrandawŷr; Y mae hyn yn gyſtal o herwydd yr Enllib, a'r dryg-ri, yn gam mawr, a phôb ún o honynt yn gyſryw ag a gâu y rhai a i gwnânt allan o'r *Nef*; ſelly *Pſal.* 15. lle y Portreir y gwr cyſlawn, yr hwn a gaiff ei gyfran yno, hyn yw ún pêth arbennig, *gwer.* 3, Nad ydyw ef yn enllibio ei gymydog; ag am ddryg fri a ſarhâad y mae'r Apoſtol mewn amryw ſannau yn ei cyſrif hwynt ymŷſg y gweithredoedd hynny o'r Cnawd y rhâi a gâu ddynion allan yn gyſtal o'r *Eglwys ymma trwy eſcymmundod*, fal y gellwch weled 1 *Cor.* 15. 11. ag allan o Deyrnas Dduw ar ôl hyn, megys y mae, 1 *Cor.* 6. 10.

Huſtyng. 4 Y modd arall mwy dirgel a chuddiedig o danu y cyſryw ddrwg-abſen yw, ffordd yr *Huſtyngwr*, yr hwn ſydd yn myned o amgylch o'r naill i'r llall, ag yn bytheirio allan ei ſarhâad yn ddirgel,

gel, nid o fwriad i'w gwneuthur hwyur yn *llai* cyhoeddus, eithr yn hytrach yn *fwy*; gan fôd yn ffordd gyfrwys-ddrŵg yma o'i traethu hwynt yn ddirgel yn fôdd i wneuthur iddynt gael ei coelio yn hawſach, a bôd mwy o ſôn am danynt hefyd: oblegid yr hwn a dderbynnio 'r cyfryw chwedl megys péth cyfrinachol gan ûn, a feddwl foddhau rhyw ûn arall trwy ei draethu megys péth cyfrinachol iddo ynteu hefyd; ag felly mae ſo 'n myned o'r naill law i'r llall, nes iddo danu o'r diwedd trwy 'r hôll Dreſ: Y fáth ymma o Enllibiwr yw 'r perycclaf o'r cwbl, oblegid ei fód ef yn gweithio yn y tywyll, ag yn rhwymo pawb y traetho wrthynt na bò iddynt gyfaddef mai ef yw 'r Awdwr; felly, lle y dichon dyn a argyoeddir yn gyhoeddus gael rhyw foddion i'w amddiffyn ei hûn, ag o ddadcuddio ei gyhuddŵr, *ymmá* nid yw boſſibl iddo ef gael hynny, gan fod yr Enllib, fal gwenwyn dirgel, yn gweithredu effeithiau anfeddyginiaethol cyn i'r dŷn ei ddirnad ef. Y mae St. *Paul* yn rhoi ar lawr y pechod hwn o huſtyng ymŷſg y pechodau mawr hynny y rhai ſydd yn tarddu allan o feddwl anghymmeradwy, *Rhuf.* 1. 29. mae ef yn wir yn un o'r archollion mwyaf anfeddyginiaethol y cleddyf hwn, ſef, y tafod, yn adwyth a diniſtr cyfeillach ddynol; a'r cyfryw ag ſydd yn Yſpeilio nid yn unig ddynion *neillduol* o'i henwau dá, ond yn fynych *teuluoedd* cyfan, ié, a chyfeillach gyffredinol dynion o'i heddwch; pa ryw ddiniſtr a chythryfwl a wnaeth yr ûn pechod hwn yn y bŷd? Y mae *Solomon* yn nòdi, *Dihar.* 16. 28. fod yr *huſtyngwr yn gwahanu'r cyfeillion anwyla*ſ, ag fe all dŷn yn ddi-ammeu ddywedyd am dafodau a arferir fal hyn, ei bód nhw gwedi ei *goſod ar dân gan Uffern* fal y dywed St. *Jago* Pen. 3. 6.

Sul XIII.

5.

Sul XIII.

Amryw raddau o'r pechod hwn.

5. Y mae hwn yn gyfryw euogrwydd, ag y dylem ochelyd pôb rhyw rádd o hono, y rhai ydynt amryw; y râdd *gyntaf* yw, clûlt-ymwrando, a hoffi y rhai a ddaw i enllibio; oblegid y mae'r neb ſydd yn ei derbyn ag yn ei croeſawu hwynt, yn ei hachlefu nhw yn ei drwg-arfer: oblegid fal y dywed ein Diharеb gyffredinol ni, nî bydde ûn lleidr oni bae bod Garn, felly pe bydde néb yn ymwrando a chwedlau, ni bydde Huſtyngwŷr. Yr *ail* rádd yw, bód yn rhŷ barod i'w coelio hwynt, oblegid y mae hynny yn ei helpu nhw i gael rhan o'i pwrpas, y maent yn chwennychu i bawb yn *gyffredinol* dybied yn ddrŵg o'r cyfryw ddŷn, ond y ffordd i hynny yw, gwneuthur yn gyntaf i ddynion *neilldual* dybied felly: Os goddeſi di iddynt hwy wneuthr hyn ynot, y maent hwy cymmhelled a hynny gwedi llwyddo yn ei bwriad. Ag o'th ran dithau, yr wyti in gwneuthur anghyfiawnder mawr a'th gymydog, wrth grêdu yn ddrŵg am dano heb achos cyfiawn, yr hyn yn ddiammeu nid yw achwyniad y cyfryw ddŷn. Y *Drydydd* râdd yw, cyhoeddi i eraill y péth a ddywedir i ti fal hyn; yr wyti felly yn dy wneuthur dy hûn yn *blaid* yn yr Enllib, a chwedi iti yn anghyfiawn dynnu ymmaith dy debygoliaeth dda dy hûn oddiwrth dy gymydog, wyt yn ceiſio ei yſpeilio ef o dŷb dà eraill hefyd. Nid yw hyn fawr lai pechod na hwnnw o eiddo'r *huſtyng-wr cyntaf*, ag y mae 'n tueddu cymmaint i ddeſtrywio Enw dâ ein Cymydog. Ag y mae'r amryw raddau hyn yn crôgi mor agos y naill ar y llall, fal mai anhawdd iawn a fydd i'r néb a groeſawo'r cyntaf ochelyd y lleill; ag yn wîr, fe ellir tybied am y dŷn hwnnw a ymhyfryda yn clywed enllibio ei gymydog, ei fód ef o'r fâth

fâth feddwl faleiſus na ommedda gyhoeddi yr Enllib. Yr hwn gan hynny a ſynno gadw ei ddiniweidrwydd yn hyn o beth, gwilied fôdd yn y bŷd groeſawu na chynnwys y nêb a ddycco 'r cyfryw ddrŵg-abſen. Ag mae hynny mor angenrheidiol er mwyn ei *heddwch* a 'i *ddiniweidrwydd*; oblegid nid all y nêb a dderbynnio 'r cyfryw huſtyng-wŷr fŷth ddiſgwyl llonyddwch, ond ei gyffrhoi yn waſtadol hyd yn oed yn erbyn ei geraint neſſaf a chareddiccaf; am hynny edryched pawb ar yr huſtyng-ŵr a'r enllibŵr megys gelyn cyffredinol, gan ei fôd felly yn gyſtal i'r ſawl wrth ba rai, ag am ba rai, y bô yn traethu. Sul XIII.

6. Ond heb law'r ffordd gyhoeddus ymma o *enllibio*, y mae ûn arall, trwy 'r hon y gallwn ddrygu enw dâ ein Cymydog, ſef, trwy ddirmyg a gwradwydd; ûn effaith gyffredinol o ba ûn i'w, ei wawdio a'i watwor ef, ag mae hyn yn gam mawr i'w enw dâ êf: oblegid y mae y rhan fwyaf o ddynîon yn cymmeryd i fynu opiniwnau o yſgafn-grêd yn hyttrach nag o farn bwyllog; ag am hynny os gwelant ddŷn yn cael ei ddibriſio a 'i ddirmygu, nhw ſyddan hwythau yn debyg iawn i wneuthur y cyffelyb. Ond heb law hyn, y mae anghyfiawnder preſennol yn y weithred hon o ddirmygu eraill. Nid oes ond trî phêth yn gyffredinol a wnêir yn achos o'r gwradwydd hwn; (oddigaeth gydâ rhai ſydd yn gwneuthur Rhinwedd a Duwioldeb yn beth mwyaf gwradwyddus, ag nid yw'r cyfryw ddirmyg yn erbyn ein cymydog yn unig, eithr hefyd yn erbyn Duw ei hun, er mwyn pa ûn y mae eſe yn cael fal hyn ei ddirmygu) y trî hynny yw, yn *gyntaf*, *gwendid*; yn *ail*, *trueni*; yn *drydydd*, *pechodau* dŷn; ag y mae pôb ûn o 'r rhain ymmhell oddiwrth ſod yn achos o'i ddiyſtyru ef. *Dirmyg a Gwawdio.*

7.

Sul XIII. *Am wendid.*

7. Yn *gyntaf*, am *Wendid*; pa ûn bynnag a'i o'r Corph a'i o'r Meddwl; gwrthûni ag anharddwch y naill, neu wendid a ffoledd y llall, y maent yn bethau tù hwynt i'w allu ef i'w lluddias, nid ei fai ef ydynt, ond doeth-dreſniad y Creadwr mawr, yr hwn ſydd yn rhoddi godidowgrwydd y Corph a'r Meddwl fal y gwêl ef yn ddâ; ag am hynny nid yw gwatwor dŷn oblegid eiſieu 'rhain, ddim llai na dirmygu Dnw yr hwn ni roddes monynt iddo.

Am Drallodau.

8. Felly hefyd am *Drallodau* a thrueni y rhai a ddigwydd i ddŷn; pa ûn bynnag, a'i eiſieu, neu gletyd, neu bêth bynnag arall; mae y rhain hefyd yn digwydd trwy ragluniaeth Duw, yr hwn ſydd yn derchafu i fynu, ag yn tynnu i lawr fal y gwêl ef yn ddâ, ag ni pherthyn i ni farnu bêth ſydd yn ei annog ef i wneuthur felly, fal y gwnâ llawer, y rhai pan welant ryw helbul yn digwydd i ddŷn, a fwriant yn ebrwydd mai rhyw euogrwydd dirfawr yn ddiammeu ſydd yn tynnu hyn ar ei wartha ef, er na fedrant bennodi ar yr ûn neillduol. Y farn ſyrbwyll hon y mae ein Hiachawdr yn ei hargyoeddi yn yr *Iddewon*, *Luc.* 13. llè ar yr achlyſur o drueni dirfawr y *Galilêaid*, y mae ef yn gofyn iddynt, *gwer.* 2. *a ydych chwi yn tybied fôd y Galilêaid hyn yn fwy pechaduriaid na'r hôll Galilêaid eraill am iddynt oddef y cyfryw bethau? Nâg oeddynt meddaf i chwi; ag oni edifarhewch chwithau, chwi a gollir yn yr ûn mòdd ôll.* Pan welom law Dduw yn dromm ar eraill, nid ein rhan ni yw ei barnu hwynt, ond ni ein hunain; a rhag-ſiaenu trwy Editeirwch y peth a haeddodd ein pechodau ni. Ond gwradwyddo a dirmygu rhai mewn trueni yw 'r creulondeb echryſlon hwnnw y mae 'r *Pſalmydd* yn ei bennodi

nodi megys y drygioni eithaf, *Pſal.* 69. 26. *Erlidiaſant yr hwn a darawſit ti, ag am ofid y rhai a archollaiſt ti y crybwyllant*: Mewn pób trueni rhai eraill y mae toſturi yn Ddlêd arnom ni; mor anghyfiawn gan hynny yw y rhai yn llé talu iddynt y ddlêd honno, a'i tralloda hwynt ymmhellach a gwatwor a dirmyg? Sul XIII.

9. Ná, phechodau dynion; er, fal y mae ynddynt fwy o'i hewyllys hwynt, nhw a allant ymddangos i haeddu dirmyg yn fwy, etto yn ddiammeu y maent hwy hefyd yn ein rhwymo ni i'r Dlêd-fwydd rag-ddywededig o doſturi, a hynny yn y râdd uchaf, gan ei bód hwynt, uwchlaw pób péth arall, yn gwneuthur dŷn yn dra-thruenus; Os Yſtyriwn ni yn hyn i gŷd mor dueddol ydym ni ein hunain i'r cyfryw bethau, ag mai trugaredd Dduw yn unig tu ag attom fydd i'n cadw ni rhag y cyflwr gwaethaf y mae ûn dŷn arall tano, fe weddai yn well i ni yn ddiammeu, edrych i fynu atto *ef* trwy ddiolchgarwch, nag i wared arnynt *hwy* trwy ddirmyg a gwradwydd. Fal hyn y gwelwch pa anghyfiawnder dirfawr ydyw gwatwor a diyſtyru ein brodyr, at pa ûn pan adroddir y llall yr hwn yn naturiol a'i dilyna ef, fêf, gwneuthur i eraill hefyd yn yr ûn módd ei ddyrmygu ef, nid oes ammeu nad yw hynny yn anghyfiawnder dirfawr ag echryſlon tu ag at ein Cymydog yn yr hyn a berthyn iw fraint ef a'i Enw dâ. *Am Bechodau.*

10. Yr awrhon, fe ellir meſur maentioli'r Camwedd o ddiniſtrio Enw dâ dŷn trwy'r ddau béth hyn; yn *gyntaf*, gwerth y péth yr Yſpeilir ef o hono; ag yn *ail*, anhawſder gwneuthur diwygiad am dano. Am y *cyntaf*, fe wyddir yn gyffredinol mai enw dâ dŷn yw'r péth y mae ef yn ei gyfrif yn werthfawroccaf, iê, yn fynych yn hoffach na'i fywyd, fal y gwelwn wrth y *Diniſtrio Enw dâ yn Gammawr.*

Sul XIII. perigl y mae dynion weithiau yn rhedeg iddo er mwyn cynnal ei bri *ffugiol*; ond yn ddiammeu y mae yn gyfryw beth ag a gyfrifwyd gan ddynion ſobr yn ûn o ddedwyddwch mwyaf y bywyd hwn: Ag i rai mâth a'r ddynion, yn enwedig y cyfryw ag ſydd yn cael ei bywoliaeth trwy negeſeuau bydol, y mae mor angenrheidiol ag y gellir yn ddâ ei gyfrif megys meddion o'i bywoliaeth, ag yna yn ddiammeu, nid yw beth gwael Yſpeilio dŷn o'r hyn ſydd mor werthfawr iddo.

Ag nis gallir mo'i ddiwygio.

11. Yn *aîl*, y mae'r Anhawſder o wneuthur diwygiad yn adchwanegu'r Camwedd, ag mae hynny yn gyfryw yn y cyflwr hwn o Enllib, ag y gallai yn hytrach ei alw yn ammhoſſibl-rhwydd nag yn anhawſder: oblegid pan gynwys dynion unwaith ddrŵg-dŷb am ryw ddŷn, anhawdd iawn yw gweithio hynny allan o honynt; yn gymmaint a bôd yr Enllibiwr yn hyn ymma yn debyg i *Gonſur-wr ieſangc yr hwn a gyfyd Gythrel na wyr pa fodd i w oſtwng trachefn.* Iê, bwriwch ſôd dynion yn gyffredinol mor barod i feddwl yn dda ag y maent i feddwl yn ddrŵg o'i Cymydogion, erto mor ammhoſſibl yw i ddŷn, er iddo alw yn ól yn gyhoeddus yr Enllib, wneuthur i bôb dŷn a glywodd y naill ddyfod i glywed y llall? Ag os bydd ûn dŷn heb glywed hynny (fal ond odid y bydd llawer) y mae'r diwygiad yn dyfod yn fyrr o'r Cam.

Rhaid gwneud goreu a gellir i ddiwygio'r Cam.

12. Y mae 'r Yſtyriaeth ymma yn ddigon i beri i ddynion arſwydo gwneuthur y Cam hwn i'w Cymydogion; ond na wneler deunydd o hyn ymma i eſcuſodi y rhai a wnaeth y cam yn barod rhag ymegnio i wneuthur *diwygiad* hyd yr eithaf o'i gallu; oblegid er mai ſiawns i'r *diwygiad* fôd mor ehang a'r cam, er hynny gwnant yr

yr hyn a allont tu ag at hynny: Ag mae hyn mor angenrheidiol tu ag at gaffaeliad maddeuant o'r pechod, nad all nêb ddiſgwyl y naill ond a gwplhâo'r llall. Pwy bynnag gan hynny a ymrŷ i ediſarhau o'r cyſr yw feiau, rhaid iddo trwy bôb moddion pwyllog ymegnîo i edfryd i'w gymydog ei frî a'i enw dâ cymmhelled ag y dygaſei nhw oddiarno o'r blaen; ag os efe ni ddichon wneuthur hynny heb ddwyn y cywilydd arno ei hûn, trwy gydnabod yr enllib yn gyhoeddus, rhaid iddo yn hyttrach ymrôi i hynny, na bód yn ddiſſygiol o gwplhau'r rhan angenrheidiol ymma o gyſiawnder ſy'n ddledus arno i'r ſawl y troſeddwyd yn ei erbyn. Sul XIII.

13. Mi a draethais bellach am y pedair rhain o *Gyſiawnder o ommeddiad* tu ag at ein Cymydog; llê y mae yn rhaid i ni etto Yſtyried ymmhellach, nad ydyw'r Cyſiawnder hwn yn ein rhwymo ni yn ein Geiriau yn unig a'n Gweithredoedd, ond yn ein Meddyliau hefyd, a'n Cariad; nid ydys yn unig yn ein gwahardd ni i *niweidio*, ond i *gaſhau*; nid digon i ni ymgadw yn unig rhag dwyn yr ûn o'r rhag-ddywededig ddrygau arno, ond ni ddylem ni cymmaint a'i hewyllyſio hwynt ymlaen llaw, nag ymhyfrydu ynddynt gwedi iddynt ddigwydd iddo: ni ddylem ni ymddigrifo nag ymmhechod ei Enaid, nag yn niwed ei Gorph ef; ni ddylem ni genſigennu iddo ddim dâ y mae'n ei fwynhau, na chymmaint ag ewyllyſio meddiannu dim o'i eiddo ef: ag nid digon i ni ffrwyno ein tafod rhag enllibio a rhoddi dryg-air, os bydd gennym y malis hwnnw yn ein Calonnau i chwennych dryg-air iddo, neu ymhyfrydu yn clywed eraill yn rhoddi dryg-air iddo. Priodoldeb neilldnol Cy- *Cyſiawnder yn y Meddyliau.*

Sul XIII. *freithiau* Duw yw, ei bôd hwynt yn cyrrhaeddyd y *galon*, pan na ddichon yr eiddo dynion gyrrhaeddyd ond y Geiriau a'r gweithredoedd yn unig, ag y mae y rheſwm yn eglur, oblegid eſe yw'r unig Ddeddf-ŵr, yr hwn a ddichon ganſod bèth ſydd yn y galon; am hynny pe bydde'r diniweidrwydd mwyaf a all fôd yn ein tafod a'n dwylo ni, etto os ni bydd purdeb calon, ni ryddhéir ni bŷth gar ei fron ef. Rhagorol gan hynny yw cyngor *Solomon*, *Dihar.* 4. 24. *Cadw dy galon yn dra-ddieſceulus, canys allan o honi y daw bywyd.* Cadwn honno yn ddyfal, na bô'i ûn meddwl maleiſus anghyfiawn ſyned i mewn iddi; a hynny nid yn unig, megis ag y dichon hynny fôd yn fodd o'n bradychu ni i'r weithred o Genfigen, ond hefyd megys ag y mae hynny yntho i hûn yn gyfryw ffieidd-dra yngolwg Duw ag a'n anghymwyſa ni i'r weledigaeth ſendigedig honno o Dduw, yr hon nid oes i neb addewid o'i gweled ond i'r pûr ei galon, *Matth.* 5. 8. *Gwyn eu bŷd y rhai glân o galon, canys hwy a welant Dduw.*

Cyfiawnder Gweithredol.

14. Yr ŵyf yr awrhon yn dyfod i draethu am y rhan *Bendant* o *Gyfiawnder*, yr hon yw, talu i bôb dŷn yr hyn trwy fâth yn y bŷd o Gyfiawnder a all ef ei ofyn gennym. O'r Diedion hyn y mae rhai yn gyffredinol i bôb dynol ryw, eraill a grynhôir tan ryw gyfiwr neillduol a chynneddfau dynion, ag ydynt yn unig yn ddlêdus oblegid y cynneddfau hynny.

Gwirioneddyn Ddlêd i bawb.

15. O'r fâth *gyntaf*, fef, y rhai fy'n ddledus i bôb dyn, ni a allwn gyfrif yn gyntaf, ddywedyd y *Gwirionedd*, yr hyn fydd yn Ddlêd gyffredinol arnom i bôb dŷn; ymadroddiad a roddwyd i ni megys offer o gyfeillach a chyweithafrwydd rhwng y naill a'r llall, y moddion

moddion o ddadcuddio 'r meddwl, yr hwn oni bae hynny a fydde yn ddirgel ag yn guddiedig, yn gymmaint oni bae hwn, ni bydde ein hymarweddiad ni ond fal yr eiddo anifeiliaid: yr awrhon, gan yr amcanwyd hwn er Daioni a mantes dynol ryw, y mae yn ddlêd i'r unrhyw ei arferu ef i'r diben hwnnw; ond y mae'r hwn a ddywedo Gelwydd cymmhelled oddiwrth dalu 'r Ddlêd honno, a 'i fôd ef yn y gwrthyneb yn gwneuthur ei ymadrodd yn fôdd o niweidio a thwyllo 'r nèb y bô yn ymddiddan ag ef. Sul XIII.

16. Llawer a ellid ei draethu i ddangos yr amryw rywogaethau o Rwymedigaeth fydd arnom i ddywedyd y Gwirionedd wrth bôb dŷn; ond gan fy mód i yn ſcrifennu i Griſtianogion, nid rhaid i mi ſefyll ar yr ûn o honynt, namyn y *Gorchymynion* ſydd i ni am hyn yn y Scrythur, *Eph.* 4. 25. Y mae 'r Apoſtol yn gorchymyn *gan fwrw ymmaith gelwydd, fôd i bawb ddywedyd y gwîr wrth ei Gymydog*: a thrachefn, *Col.* 3. 9. *Na ddywedwch gelwydd wrth ei gilydd*: a *Dihar.* 6. 17. ſe a roddir ar lawr yno *dafod celwyddog* megys ûn o'r pethau hynny ſydd *ffiaidd gan yr Arglwydd.* Iè, cymmhelled y mae ef yn chaſhau *Celwydd*, na ddichon y diben mwyaf *duwiol* a *chrefyddol* ei gymmodi ag êf; y dŷn a ddywedo gelwydd, er mewn Zêl i ogoniant Duw, etto a fernir megys pechadur, *Rhuf.* 3. 7. bêth gan hynny a ddigwydd i 'r lliaws hynny o ddynion ſydd yn dywedyd celwydd ar ddibennion gwrthwyneb i hyn? Rhai o falis, i ddrygu eraill; rhai o gybydd dod, i dwyllo 'i Cymydogion; rhai o falchder, i'w goſod ei hunain allan; a rhai o ofn, i ochelyd rhyw enbydrwydd, neu i guddio rhyw fai. Ond mâth mwy *Celwydd a waherddir yn eglur yn y Scrythur.*

Sul XIII. mwy rhyfeddol na 'r rhain ôll yw, y rhai ſydd yn gwneuthur hynny heb denitaſiwn yn y bŷd i 'w hannog, ond a ddywedant gelwyddau yn gyffredinol fal chwedlau, ag a ymhyfrydant yn traethu pethau rhyfeddol, er nad ydynt yn ennill dim wrth hynny, ond yr Enw o fod yn gelwydd-ŵyr gwâg-rodreſgar.

Cyffredinoldeb a ffolineb y pechod hwn.

17. Ymŷſg yr amryw rywogaethau hyn o ffalſder, y mae Gwirionedd yn bêth mor eſtronaidd yn ein mŷſg ni a bôd yn anhawdd iawn cael y cyſtryw ddŷn ag y mae *Dafydd* yn ei bortreio, *Pſal.* 15. 2. *Yr hwn a ddywed wîr o'i galon.* Y mae dynion gwedi cynnefino ei taſodau mor fynych i gelwyddau, a 'i bôd nhw yn ei dywedyd yn arferedig ar bôb rhyw achoſion, heb yſtyried ſôd Duw neu ddŷn yn ei canfod hwynt. Ond maent hwy yn cam-gymmeryd ymmhell ymmhôb ûn; oblegid nid oes nemmawr o bechod (yr hwn a ymegnîir i 'w gadw 'n gyfrinachol) a ddadcuddir yn gynt gan ddynion: anhawdd iawn i 'r rhai ſydd wedi ei harferu ei hunain i gelwydd (er cyſtal ei côf hwynt) na fradychant hwy ei hunain ar ryw amſer neu 'i gilydd, a phan wnelont hynny, nid oes neb-rhyw fâth ar bechod a ddiyſtyrir ag â ddirmygir ſwy na hwn; oblegid y mae pawb yn cyfrif celwyddŵr yn Enw o fwyaf dirmyg a gwradwydd a all fôd. Ond am Dduw, ynſydrwydd yw gobeithio y dichon ei holl gyfrwyſdra ei cuddio hwynt rhagddo ef, yr hwn nid rhaid iddo wrth y moddion damweiniol hynny o ddadcuddiad fal y mae'n rhaid i ddynion; ond mae ef yn canfod y galon, ag felly yn gwybod ffalſder ein geiriau tra 'i bôm yn ei traethu hwynt: ag yma y mae ef yn rhwym trwy

ei

ei Enw o *Ddaw y Gwirionedd*, nid yn unig i gaſhau, ond i 'w coſpi hwynt; ag felly ni a welwn, *Dadc.* 21. 8. fôd y rhai celwyddog yn nifer y rhai hynny y rhai a geûir allan o 'r *Gaerſalem* newydd; ag nid hynny yn unig, ond hefyd fydd a 'i cyfran yn y *pŵll hwnnw yr hwn ſydd yn lloſci o dân a Brwmſtan.* Oddigaeth gan hynny iti fôd o feddwl y Barn-ŵr anghyfiawn hwnnw y mae Criſt yn ſôn am dano, *Luc* 18. 2. *yr hwn nid ofneu Dduw, ag ni pharchau ddyn,* rhaid iti lawn-fwriadu ar y rhan ymma o Gyfiawnder, ſef, rhoi heibio gelwydd, yr hwn a ffieiddir gan bôb ûn o 'r ddau. Sul XIII.

18. Yr *ail* pêth y ſydd yn ddlédus arnom i bawb yw, Mwynder a Moeſgarwch, yngwrthwyneb i 'r tauogrwydd ſarrug hwnnw a ddywedir ei fód yn *Nabal*, yr hwn oedd o 'r cyfryw dymmer *nad allai ddyn ymddiddan ag ef*, 1 Sam. 25. 17. Y mae yn ddi-ammeu gymmaint o barch yn ddlédus i ddynol ryw, na ddichon ûn rhagorfraint ddamweiniol o iechyd neu anrhydedd, ſydd gan y naill uwch-law 'r llall, ei ryddhau ef oddiwrth y Ddléd honno, ié, tu ag at y gwaelaf o ddŷn; ag am hynny y mae 'r ymddygiad anynad ddrwg-nawſus honno tu ag at y ſawl a fó gantho ond gwedd dŷn, yn anghyfiawnder tu ag at y Natur honno y mae ef yn gyfrannog o honi. A phan yſtyriom faint y mae 'r Natur honno gwedi ei hanrhydeddu, trwy i fâb Duw ei chymmeryd hi arno, y mae 'r rhwymedigaeth i 'w pherchi etto yn fwy, ag felly y mae 'r pechod o 'i dirmygu yn fwy. *Mwynder a moeſgarwch yn Ddlêd i bawb.*

19. Hyn yw bai cyffredinol pôb rhai *balch* ag *uchel*, y rhai ſydd mor ddiwyd yn ei mawrygu ei hunain, a 'i bôd yn dirmygu pôb pêth ſydd werthfawr mewn eraill, ag felly maent yn *Y Beilchion yn anfoeſgar.*

Sul XIII. yn meddwl nad oes cymmaint ag hynawſedd cyffredinol yn ddlèdus arnynt i eraill, tra'i bo 'nhw yn ei goſod ei hunain i ſynu, megys y gwnaeth *Nebuchadnezzar* ei ddelw, *i'w haddoli gan bawb.* Y mae hyn yn dra-gwrthwynebus i'r péth y mae'r Apoſtol yn ei gynghori, *Rhuf.* 12. 10. *Byddwch yn blaenòri eu gîlydd yn rhoddi parch*: a thracheſn, *Phil.* 2. 4. *Na edrychwch bôb ûn ar yr eiddoch eich hunain, eithr edrycked pôb ún hefyd ar yr eiddo eraill*; a chofied y cyfryw rai eiriau ein Iachawdr bendigedig, Luc. 14. 11. *Y néb a'i derchafo ei hûn a ddaroſtyngir, a'r néb a'i daroſtyngo ei hún a ddercheſir*, yr hyn a welwn yn ſynych ei wneuthur allan mewn cwympiadau rhyſeddol dynion beilchion. Ag nid rhyfedd, oblegid fód y pechod hwn yn gwneuthur Duw a dynion yn elynion i ni; y mae Duw, megys y tyſtiolaetha'r Scrythur mewn amryw fannau, yn ei ffieiddio ef, a phawb a'r ſydd yn euog o hono; ag nid oes ûn pechod yn annog dynion i'n caſhàu yn fwy na hwn, trwy ymddygiad uchel a dirmygus y ſawl ſydd euog o hono; ag yna, pwy a ddichon ficcrhau a chynnal i ſynu y ſawl y mae Duw a dynion fal hyn yn ei wrthwynebu?

Llaryeidd-dra yn Ddlêd i bawb.

20. Y *Trydydd* péth dylèdus arnom i bawb, yw *Llaryeidd dra*; hynny yw, y cyfryw ammynedd a mwyneidd-dra tu ag at bawb, ag a ffrwyna'r digoſaint a'r Cynddaredd hynny, yr hyn nid yn unig ſydd yn aneſmwyth i ni ein hunain, megys y dangoſwyd o'r blaen, ond ſydd hefyd yn dra-niweidiol i'n Cymydogion; fal y mae'r amryw gwerylon gorphwyllog a wnèir ynddynt yn tyſtiolaethu yn helaeth. Fód y Ddledſwydd ymma o Laryeidd-dra yn ddledus i bawb nid oes ammeu, gan fód yr Apoſtol yn gorchymyn hynny yn hynod, 1 *Theſſ.* 5. 14. *byddwch ymarhous wrth*

wrth bawb a hynny megys heb yn waethaf i bób rhyw annogaeth i'r gwrthwyneb, fel y canlyn yn y geiriau neſſaf, *Gwelwch na thalo néb ddrŵg am ddrŵg i, neb*, neu *ddirmyg* am *ddirmyg*; ag ſe orchymynir i *Timotheus* ymarfer y *Llaryeidd-dra* ymma, iè, tu ag at y rhai a wrthwynebant Athrawiaeth yr Efengyl, 2 *Tim.* 2. 25. Ag ſe debygid y gellid cyd-ddwyn a phéth poethni yn yr achos hwn, os gellid mewn dim. Sul XIII.

21. Y mae'r Rhinwedd ymma o *Laryeidd-dra* mor angenrheidiol i gynnal heddwch y bŷd, nad yw ryſedd ddarfod i Griſt, yr hwn a ddaeth i ſefydlu tangnheddyf ymŷſg dynion, ei gorchymyn i bawb. Y mae yn rhŷ hynod fód yr effeithiau gwrthwynebus iddo, ſêf, llíd a chynddared, yn amlwg ymmhób man; y maent yn gwneuthur cythryblaeth mewn Teyrnaſoedd, Cymydogaeth, Teuluoedd, iè, ag ymŷſg y ceraint neſſaf; y maent yn gyſfryw anwydau, a bôd *Solomon* yn ein cynghori ni i ochelyd gwneuthur cymdeithas a'r néb a fò yn euog o honynt, *Dihar.* 22. 24. *Na fydd gydymmaith i'r digllon, ag na chyd-gerdd a gwr llidiog.* Y maent yn gwneuthur dŷn yn anghymwys i fòd yn gyfaill nag yn gydymmaith; ag y maent yn wîr yn gwneuthur ún yn gâs ag yn annoddefadwy gan bawb, fel i'n dyſcir trachefn gan *Solomon*, *Dihar.* 21. 19. lle y dywed ef, *Mai gwell yw aros yn yr anialwch, na chydá gwraig anynad ddigllon*; ag etto nid oes gan wraig, gan mwyaf, ond ún offeryn yn unig, ſêf, y tafod, i wneuthur niwed. Yn wîr, nid oes nemmawr o béth aneſmwythach gan ûndŷn (ond a fyddo o'r unrhyw ddull ffromllud ei hún) nag ymgymdeithaſu a'r cyfryw rai, er digwydd i'r péth fyned ddim pellach na geiriau. Ni a allwn farnu mor ddirfawr yw'r pechod hwn, wrth y péth a ddywed ein Iachawdr am

Cynddaredd yn annoddefadwy

Sul XIII. dano, *Mat.* 5. lle yr ordeinir amryw raddau o gofpedigaeth i amryw raddau o'r pechod; ond och! yr ydym beunydd yn myned tu hwynt i'r rådd uchaf a oſodir i lawr yno; nid yw galw ûn yn *ynfyd* ond máth ſoeſol ar wradwyddo, wrth y lliaws hynny o ddirmygion chwerwon yr ydym ni yn ei harferu yn ein cynddeiriogrwydd.

Tu denu i'r pechod mawr o Rêgu.

22. Ié, yr ydym yn fynych yn myned etto yn uwch; nid yw gwradwyddiadau yn gwaſanaethu'n tró ni, ond rhaid i ni *regu* heſyd; mor gyffredin yw ciywed dynion yn arferu rhegu amelldithio ar bób rhyw achoſion gwael o anfodlonrhwydd? Ié, Yſgatſydd heb achos yn y bŷd? mor hollawl yr anghoſiaſom reol yr Apoſtol, *Rhuf.* 12. 14. *Bendithiwch ag na felldithiwch*; ié, a gorchymyn ein Iachawdr bendigedig ei hún, *Mat.* 5. 44. *Gweddiwch tros y rhai a wnél niwed i chwi.* Y mae Criſt yn erchi i ni *weddio* tros y rhai a wnánt a ni fwyaf o gam, ag yr ydym ni yn fynych yn *rhegu* y rhai ni wnaethant ddim i ni. Y mae hyn yn fáth ar ddywedyd ein Gweddiáu yn y gwrthwyneb, yr hyn yw rhan, medd rhai, o Ceremoni 'r Cythrel wrth wneuthur Dewines; ag y mae i ninnau heſyd achos i edrych ar hyn megys moddion i'n dwyn ni i gydnabyddiaeth a chyngr-air a'r Yſpryd melldigedig hwnnw yn y bŷd hwn, ag i aros gyda'g ef yn dragywydd ar ôl hyn. Araith Uffern yw hi, yr hon ni ddichon bŷth ein cymhwyſo ni i fôd yn Ddinaſyddion y *Gaerſalem newydd*, eithr ſydd yn ein nodi ni allan am breſſwyl-wŷr y *tîr* hwnnw o *dywyllwch*. Mi a ddibennaf hyn a chyngor yr Apoſtol, *Eph.* 4. 31. *Tynner ymmaith oddiwrthych bôb chwerwedd, a llid, a digter, a llefain, a chabledd ynghyd a phôb drygioni.*

23. Gwedi

23. Gwedi i mi draethu cymhelled am y Dledſwyddau cyffredinol hynny a berthyn i bôb rhyw ddŷn, mi a áf bellach ymlaen at y rhyw-ogaethau eraill hynny o Ddledſwyddau a berthynant i rai neillduol o herwydd rhyw gynneddfau arbennig. Y Cynneddfau hynny a ddichon fôd o *drî mâth*, ſef, o *Odidowgrwydd*, o *Eiſieu*, neu o *Garennydd*. Sul XIII. *Dledſwyddau cyffredinol.*

24. Trwy Odidowgrwydd yr wyf yn meddwl pób mâth o ddoniau rhagorol neu gynnyſcaeddiad Dŷn, megys Doethineb, dyſceidiaeth, a'r cyffelyb; ond yn enwedig, Grâs: y mae i'r rhai hyn ſydd yn ddoniau rhagorol Duw brîs dirfawr a parch yn ddlêdus pa lë bynnag y canfyddir hwynt; a hyn ſydd raid i ni yn ewyllyſgar ei dalu, trwy gydnabod yn llonn ag yn fodlongar ei ddoniau hynny ym mhwy bynnag y darfu iddo ei rhoddi hwynt; a thrwy ei perchi a'i hanrhydeddu hwynt yn gyfattebol i hynny; ag nid, allan o dŷb rhŷ ddâ o'n godidowgrwydd ein hunain, dirmygu a dibriſio yr eiddo eraill; megys y gwnâ y rhai ni chydnabyddant fôd dim yn rheſwm ond y pêth a draethant hwy ei hunain; na bôd dim yn Dduwioldeb, ond a gydſynnia a'i hymarfer ei hunain. *Parch yn ddledus i wŷr o ddoniau rhagorol.*

25. Ni waſanaetha i ni ychwaith *genſigennu* na grwgnach am fôd ganddynt hwy'r doniau hynny; oblegid nid yw hynny yn unig yn gamwedd yn ei herbyn hwynt, ond yn erbyn Duw heſyd yr hwn a'i rhoddodd hwynt, megys y goſodir yn helaeth ar lawr yn *nammeg y llafurwyr*, *Mat.* 20. lle y mae ef yn gofyn iddynt hwy y rhai oedd yn grwgnach am haelioni y Meiſtr i eraill, *Onid yw gyfreithlon i mi wneuthur a fynnwyf" am heiddo fy hûn, a ydyw dy lygad ti yn ddrwg am fy môd i yn ddâ?* Y Cenfigennu ymma am ddaioni Duw i eraill nid yw amgen na grwg- *Ni ddylem genſigennu y cyfryw.*

Sul XIII. nach yn erbyn Duw, yr hwn ſydd yn trefnu pethau ſal hyn; ag nid all bôd mwy ag unionach wrthoſodiad yn ei erbyn ef, nag i mi gaſhau ag ewyllyſio yn ddrŵg i ddŷn, heb ûn achos, ond am ddarſod i Dduw ei garu ef, a gwneuthur yn ddâ erddo. A thracheſn os edrychwn ar y *dyn*, y pêth mwyaf anrheſymol yn y bŷd yw ei garu ef yn llai, yn unig oblegid ſôd gantho ef y cynneddfau dâ hynny, oblegid pa rai y dylem i ei garu ef yn fwy.

Na'i Goganu. 26. Ni waſanaetha i ni ychwaith *oganu* godidowgrwydd rhai eraill, na cheiſio ei lleihau na'i tywyllu hwynt, trwy neccáu naill ai'r rhywogaethau, ai'r graddau o honynt, fal trwy'r moddion hynny i dynnu ymmaith y parch hwnnw ſydd yn ddyledus iddynt. Y mae'r pechod hwn o ddrŵg-abſen yn gyffredinol yn tarddu allan o'r llall, ſef, Cenſigen; ſe ſydd yr hwn a genſigenna odidowgrwydd gŵr, yn barod i wneuthur cymmaint ag a allo i'w leihau ef yn nhebygoliaeth eraill, ag i'r pwrpas hwnnw, naill a'i ſe a draetha yn yſgoewan am danynt; neu os byddant mor gyhoedd na ŵyr ete pa ſôdd i'w gorchguddio, efe a ymegnia, trwy gyhoeddi ryw wîr neu ffugiol wendid yntho ef, i leihau prîs y llall, ag felly trwy daflu i mewn rai *gwybed meirwon*, fal y dywed y gŵr Doeth, *Preg.* 20 1. eſe a gais *ddiſwyno Sawyr yr Enraint.* Y mae hyn yn gamwedd tra-mawr, ag yn union yngwrthwyneb i'r Ddlêd ſydd arnom o gydnabod ag anrhydeddu doniau Duw yn ein brodyr.

Y ffolineb o bôb ûn o'r ddau. 27. Ag mae pôb ûn o'r pechodau hynny, ſef, *cenſigen* a *gogan* gan-mwyaf mor ynfyd ag y maent yn ddrygionus; y mae'r genſigen yn waſtad yn dwyn poen ag artaith ar ddŷn ei hûn, llé pe gallei ond edrych yn Suriol ag yn

llawen

llawen ar y doniau dâ hynny o eiddo eraill, ni fetheu bŷth fôd ei hûn yn well o'i plegid hwynt; ſe fydde'r hyfrydwch o'i gweled hwynt yn beth mantes iddo ef: ond, heb law y dichon y doniau hynny o eiddo 'i frawd fôd amryw ffyrdd yn fuddiol iddo ef, ſe all ei Ddoethineb a'i ddyſceidiaeth roddi iddo athrawiaeth: ei dduwioldeb a 'i Rinwedd roddi iddo Eſampl, &c. Ond hyn ôll y mae 'r gŵr cenſigennus yn ei golli, ag nid oes gantho ddim yn gyſnewid am hyn ond arteithio yn ddibaid a chnôi i galon ei hûn. Sul XIII.

28. A thracheſn, am Enllib, anhawdd iawn yw ei dreſnu ef ſelly fel nas dadcuddir; yr hwn a ſydd yn waſtad yn ymoſod i geiſio cwmylu enw dâ rhai eraill, a ddadcuddia yn ebrwydd ei fôd yn gwneuthur hynny o genſigen, ag yna yn ddiammeu ſe wná hynny i rai feddwl yn waeth o hono ef, ond nid o'r ſawl y bô ſo yn ei genſigennu, gan fôd yr Enllib hwnnw yn dwyn mâth o dyſtiolaeth i'r godidowgrwydd hynny y mae ef yn ei dybied a haedda 'i genſigen ef.

29. Y pêth a ddywedwyd yn awr am y parch a'r brî dyledus i 'r godidowgrwydd hynny o'r meddwl, a ellir mewn grâdd îs ei gyſaddaſu at y Rhagor-freintiau oddiallan, o anrhydedd, mawrhydi, a 'r cyffelyb. Y rhai hyn er nad ydynt mor odidog a'r lleill (ag yn gyſryw na ddyle nêb dybied yn well o hono 'i hûn o 'i plegid) etto o herwydd bôd y graddau hyn a 'r rhagoriaeth o ddynion trwy ddoeth Ragluniaeth Duw gwedi ei treſnu er llywodraethu 'r bŷd yn well, y mae 'r cyſryw barch foesawl yn ddyledns i 'r rhai y rhoddodd Duw hyn iddynt, ag a ddichon yn oreu gynnal y dreſn honno er mwyn pa ûn yr amcanwyd hwynt. *Parch yn ddyledus i wŷr mawr anrhydeddus.*

Am

Sul XIII. Am hynny rhaid i bôb rhai o iſel râdd ei hymddwyn ei hunain yn foeſawl ag yn barchedig tu ag at ei blaenoriaid, ag nid trwy ei hyſdra di-wybod terſyſcu 'r dreſn honno a welodd Duw yn ddâ ei goſod yn y bŷd, ond fel y mae Catecniſm ein Heglwys yn dyſcu, *ei hymddwyn ei hunain yn oſtyngedig, gan berchi pawb o'i gwell.* Ag yma y mae 'r cyfarchwyl rhag-ddywededig yn erbyn *cenſigen* yn dra-chymmedrol; gan fôd dynion yn gyffredinol yn fwy teimladwy o'r rhagor-freintiau ymma oddiallan, nag o'r lleill, ag am hynny nhw fyddânt parottach i genſigennu a grwgnach wrth weled eraill yn myned tu hwynt iddynt yn y pethau hyn; i hyn gan hynny y mae 'r holl rag-ddywededig Yſtyriaethau yn erbyn Cenſigen yn dra-chymwys a phriodol, ag yn fwy angenrheidiol gwneuthur deunydd o honynt yn hyn, o gymmaint ag y mae 'r broſedigaeth yn hyn yma yn fwy i debygoliaeth y rhan fwyaf o ddynion.

Dlêd i'r ſawl ſy mewn neb rhyw Eiſieu.

30. Yr *ail* gynneddf yw, honno o *Angen*; pwy bynnag ſydd arno eiſieu rhyw bêth y gallwyf i ei roddi iddo, y mae ei gyfryw ddiffyg yn ei gwneuthur hi yn Ddled-ſwydd arna 'i iw gymmorth ef, a hynny mewn pôb mâth ar anghenion. Yr achos o hynny yw hyn, Duw a gynnyſgaeddodd ddynion a doniau, nid er ei mwyn ei hunain yn unig, ond hefyd er bûdd a lês i eraill; ag am hynny, pa brŷd bynnag y bò ei hangen nhw yn gofyn, y mae'n ddyled arnynt ei diwallu hwynt a'r pêth a roddwyd iddynt i'r deunydd hwnnw. Rhaid i'r annoeth a'r annyſgedig gael ei addyſcu a 'i gyfarwyddo gan yr hwn fydd gantho wybodaeth; a dyna ûn diben arbennig, er mwyn pa ûn y rhoddwyd y wybodaeth hôn iddo ef; *y rafod dyſceidig a roddwyd i fedru llefaru gair*

mewn

mewn prŷd, Eſa. 50. 4. Rhaid i'r llawen a'r hyſtryd *gyſſuro* 'r athriſt a'r helbulus. Y mae St. *Paul* yn gwneuthur hyn yu ddiben er mwyn pa ûn yr oedd Duw yn ei gyſſuro ef, *fel y gallê ddiddanu y rhai ſydd mewn gorthrymder*, 2 *Cor.* 1. 4. Rhaid i'r néb a ſo ganrho odſa a doniau i hynny, argyoeddi a chyngori 'r hwn a ſô mewn neb-rhyw gwrs o bechod. Y mae 'n eglur fód hyn yn ddyléd arnom i'n cymydogion trwy 'r teſtyn hwnnw, *Levit.* 19. 17. *Na chaſâ dy frawd yn dy galon, gan geryddu cerydda dy gymydog, ag na ddioddef bechod ynddo*; llé yr ydym tan yr un rhwymedigaeth i w argyoeddi a'i geryddu ef, ag yr ydym i beidio a'i gaſhau. Rhaid i'r ſawl a enllibir ar gam gael ei amddiffyn gan yr hwn a wyppo oddiwrth ei ddiniweidrwydd ef, ag onid é, y mae éf yn ei wneuthur ei hûn yn euog o'r Enllib, oblegid iddo eſgeuluſo gwneuthur y péth a ddichon ei dynnu ymmaith; ag mi a ddangoſais i chwi yn barod faint o anghyfiawnder yw enllibio ein cymydog. Sul XIII.

31. Yn *ddiweddaf*, rhaid i'r hwn a ſo mewn amlder a helaethrwydd gynnothwyo 'r tlawd a'r anghenus; ag y mae ef yn rhwym i hynny, nid yn unig o eluſen, ond o gyfiawnder heſyd. Y mae *Solomon* yn galw hyn yn ddyléd, *Dihar.* 3. 27. *Na attal ddaioni oddiwrth y rhai y mae yn ddyledus iddynt pan allech ei wneuthur*: ag y mae ſo yn hyſpyſu yn y wers neſſaf, béth yw 'r daioni hwnnw; *Na ddywed wrth dy gymydog, cerdda ymmaith a thyret amſer arall, y ſoru mi a roddaf iti, a chennit béth yn awr i roddi iddo.* Wrth hyn ni a welwn mai attal dyléd yw oedi rhoddi eluſen i'n cymydog tlawd. Ag yr oedd Duw ymyſg yr *Iddewon* yn didoli rhyw gyfran o gynnydd pób dŷn i'r tlodion, ſef, y ddegfed bôb trydydd flwyddan (yr hyn yw 'r ûn *Yr tlawd*

faint

Sul XIII. ſaint a'r ddegfed rhan a'r hugain bob blwyddyn) *Deut.* 14. 28, 29. Ag yr oedd yn rhaid talu hyn nid megys rhodd neu eluſen, ond megys dyléd; yr oedden nhw yn anghyfiawn os attalien nhw hyn. Ag yn ddiammeu, nid oes i ni reſwm î feddwl fód Cyfiawnder Gtiſtianogaidd cymmaint îſlaw 'r *Iddewaidd*, ag nad oes yr awrhon ddim, neu lai dogn yn ddledus arnom ni nag oedd arnyut hwy. Mi a fynnwn ped fae'n hymarfer ni yn gyfattebol i'n rhwymedigaeth yn hyn o beth, yna yn ddiammeu ni a gàen weled llai o gardotteion yn gorwedd yn ddiymwared wrth ein dryſau, gan fód iddynt well hawl i'n gormodedd ni nag fydd i ni hunain, ag yua béth ydyw ond pûr ledrad dreulio ei cyfran hwynt ar ein hoferedd neu ein pechodau ni?

Duw yn atzal ei Ddoniau os nl arferir hwynt fal hyn.

32. Yn yr holl bethau rhag-ddywededig, rhaid yw i'r néb a fó mewn gallu edrych arno'i hûn megys goruchwyliwr Duw, yr hwn a roddodd béth yn ei ddwylaw ef i'w ddoſparthu i'r anghenus; ag am hynny nid yw ddim llai anghyfiawnder na thwyll eſgeuluſo hyn, nag a fydde i ryw oruchwyliwr gadw iddo ei hún yr arian hynny a ymddiriedwyd iddo er mwyn cynhaliaeth yr holl deulu; a'r néb a wnelo hyn, diſgwylied yn dra-chyfiawn farnedigaeth y goruchwyliwr anghyfiawn, *Luc* 16. *ſef, cael ei fwrw allan o'i oruchwyliaeth*, a chymmeryd ymmaith y doniau hynny oddiarno y rhai a arferodd ef mor anffyddlon. Ag megys am yr holl ddoniau eraill, felly yn enwedig am olud; ſe welir yn gyffredinol y dygir ef oddiar y rhai a dwyllant fal hyn y tlodion o'i cyfran; ag fe fydd y cybydd crib-ddeiliog yn ſyrthio yn fynych i dlòdi trwy foddion rhyfeddol diſymmwth; ag nid rhyfedd, gan nad oes iddo ef fraint yn y byd i fendith Dduw ar ei bentwrr,

yr

yr hwn nid yw yn cyſſegru cyfran iddo eſ yn ei aelodau tlodion. Ag am hynny ni a welwn yr *Iſraeliaid* cyn gallu o honynt olod hawl i'r Addewid ar i Dduw ei bendithio hwynt, *Deut.* 26. 15. *Edrych o drig-le dy ſanctteiddrwydd, a bendithia dy bobl Iſrael*, &c. ſod yn rhaid iddynt yn gyntaf *dalu degymmau'r tlodion*, *gwerſ.* 12. heb yr hyn nid allent gleimio bendith Dduw. Y mae'r *arbed ymma yn fwy nag a weddai*, (ſal y dywed *Solomon*, *Dihar.* 11. 24.) *yn tueddu i dlodi*; ag am hynny, fel y chwennychit ti chwareu yr *hwſmon dâ* troſot dy hún, edrych am gwplhau'r Cyfiawnder hwn yu ôl dy allu i bawb a ſo mewn Eiſieu. Sul XIII.

33. Y *Trydydd* cynneddf yw *Carennyd*; ag o honno y mae amryw fáth, yn tarddu o'r unrhyw achoſion a Dledſwyddau cyfattebol i bôb un o honynt. Yn gyntaf, y mae perthynaſrwydd rhwng Dlédwr a Choeliwr; a phwy bynnag ſydd felly yn rhwym, pa ûn bynnag a'i trwy farchad, a'i benthyg, a'i addewid, ei ddléd eſ ydyw talu yn gywir y péth ſydd arno hyd y gallo; (megys o'r tu arall, os nid all, d'éd y Coeliwr yw ymddwyn yn gariadus ag yn Griſtianogaidd tu ag atto eſ, ag nid taer-gymmell arno tu hwynt i'w allu.) Ond nid rhaid i mi feſyll ar hyn, gan ddarfod i mi yn barod draethu am y Ddledſwydd hon, trwy ddangos y pechod o gam-attal dyledion. *Dledſwyddau o berwydd Carennydd.*

34. Y mae Dléd heſyd ar *ddyn rhwymedig* i'w *Gymmwynaſ-wr*, hynny yw, ún a wnaeth iddo Gymwynas, o ba fáth bynnag, pa ún bynnag a'i *Yſprydol* a'i *Corphorol*; a dléd y cyfryw ún yw yn *gyntaf*, *Diolchgarwch*, hynny yw, cydnabyddiaeth barod ddifriſol o'r gymmwynas a dderbynwyd: yn *ail*, *gweddi* am fendithion Duw a gwobrau arno eſ; ag yn *drydydd*, *ymegniad*, fal y bo odfa a gallu yn gwaſanaethu, i dalu adref gymmwy- *Diolchgarwch i Gymwynaſwyr.*

Sul XIII. naſgarwch, trwy wneuthur daioni iddo ef trachefn. Y mae pawb, hyd yn oed y creulonaf a'r hawſlwyſſaf o ddynion, yn cydnabod mor gyffredinol y Ddledſwydd hon o ddiolchgarwch i gymmwynaſ-wŷr, ag y bydd raid iddo ef a neccu ei chwplhau hi ſwrw heibio llawer o'i natur ddynol. Y mae'r *Publicanod a'r pechaduriaid yn gwneuthur daioni i'r neb a wnaut ddaioni iddynt hwythau.*

Y gwrthnyneb yn rhŷ gyffredin.

35. Etto pa ſawl ûn o honom ni ſydd yn dyfod yn ſyrr o hyn? mor aml y gwelir dynion, nid yn unig yn eſgeuluſo talu adref gymmwynaſau, eithr yn ail-roddi cam a Sathaad yn lle hynny? Y mae hyn yn rhy hynod mewn amryw bethau neillduol, ond nid mewn dim mwy nag mewn *rhybudd* a *chynghor*, yr hyn yn anad ûn yw'r gymmwynas ddiddoccaf, a'r twrn dâ goreu a ddichon y naill ddŷn ei wneuthur i'r llall. Ni a ddylem gan hynny fôd yn ſwyaſ rhwymedig i'r *rhain* i'r ſawl a wnelo hyn i ni megys ein cymmwynaſwŷr goreu. Ond och! mor anaml yw y rhai ſydd ganddynt nid yn unig ddiolchgarwch, ond ammynedd am y cyſtyw gymmwynas? Argyoeddwch ddŷn am ei fai, neu ddywedwch iddo ei gamwedd, yn ebrwydd ſe a edrych arnoch megys ei elyn; yr ydych chwi (fal y dywed St. *Paul* am y *Galatiaid*, *Pen.* 4. 16.) *Yn elyn iddo am ddywedyd iddo'r gwir*; y mae 'r cyſtyw falchder ynghalonnau dynion, na fynnan nhw glywed ſôn am ei beiau, er na bo dyn yn bwriadu wrth hynny ond ei gwellhâad hwynt. Ynfydrwydd rhyfeddol yw hyn, fel pe bydde i ddŷn ciâſ ruthro yngwyneb ei Byſygwr, wrth feddwl ei fôd ef yn ei ddibriſio fo am dybied ei fôd yn glaf; fal y gellwn ni yn ddâ ddywedyd gyda'r gŵr Doeth, *Dihar.* 12. 1.

Y

Y nêb a gaſhâo gerydd, anifeiliaidd yw. Ni ddichon bôd yn y bŷd waeth dymmer na hon, oblegid y mae hi yn eadarnhau dŷn yn ei beshodau; y mae 'n codi 'r cyfryw amddiffynfau o'i cwmpas hwynt, na ddichon nêb ddyfod i oſod arnynt; ag os credwn ni *Solomon Dihar.* 29. 1. *Diniſtr yn ddiammeu a'i goreſcyn. Y gŵr* (medd ef yno) *a gerydder yn fynych ag a gâleda ei wârr, a ddryllir yn ddiſymmwith fel na bydd meddiginiaeth.* Ond trachefn, os edrychir ar y cynghor-wr, y mae hyn yn anghyfiawnder, iê, yn greulondeb tra-echryſlon i'w erbyn ef; y mae ef yn dyfod mewn tynerwch a chariad i'th achub di rhag perigl; ag ir diben hwnnw yn ei oſod ei hun ar neges aneſmwyth; canys felly y mae hi yr awrhon, oblegid annioddefgarwch cyffredinol dynion i gynghorion; a pha ryw Siommedigaeth a gofid yw hyn iddo ef, dy weled ti, yn llê ailddiwygu y bai *cyntaf*, yn rhedeg i ûn arall, ſef, hwnnw o ddigllonrhwydd di-achos yn ei erbyn ef? Dymma'r fâth waethaf, ag etto mae arna'i ofn, y fâth gyffredinolaf o anniolchgarwch i Gymmwynaſ-wŷr, ag felly mae diffyg mawr o gwplhau'r Ddlêd ymma. Ond ſe edrychir ar y rhain yſgatfydd megys rhai o berthynas hirbell, (etto yn ddiammeu y mae 'r hôll Ddledſwyddau rhagddywededig yn gwbl ddyledus iddynt) mi a âf ymlaen yn y mann neſſaf i draethu am y perthynaſau hynny y rhai a gydnabyddir gan bawb i fôd o'r neſdet mwyaf. Sul XIII.

Sul XIV.

SUL XIV.

Am Ddled-ſwydd tu ag at Lywiawd-wyr, Bugeiliaid, Am Ddled-ſwydd Rhièni tu ag at ei Plant, &c. *Plant tu ag at ei Rhièni,* &c.

Ddled-ſwydd tu ag at Riêni.

1. Y Cyntaf o'r ſâth neſſaf hynny o garennydd, yw *Rhièni*; ag ymma ſe fydd yn angenrheidiol Yſtyried yr amryw fâth ar *Rieni*, yn gyfattebol i ba rai y bydd yn rhaid cymmhwyſo 'r amryw Ddled ſwyddau. Y rhai hynny yw 'r trî hyn, Rhiêni *Dinaſaidd, Yſprydol, Naturiol.*

Dled-ſwyddau i'r Pen-Llywiawdr.

2. Y Tâd Dinaſaidd yw 'r hwn a oſododd Duw yn *Ben-llywiawdr*, ſef, yr hwn trwy gyfiawn hawl ſydd yn meddiannu 'r Deyrn-gader mewn Teyrnas. Hwn yw Tâd cyffredinol pawb tan ei Lywodraeth. Y Ddlêd arnom i'r *Tâd* ymma yw, yn *gyntaf*, *Anrhydedd a Pharch*, trwy edrych arno ef, megys ûn, ar ba ûn yr arg-affodd Duw lawer o 'i fraint a 'i awdurdod ei hûn, ag am hynny rhaid talu iddo ef bôb anrhydedd ag Urddas, heb feiddio tan rith ag eſgus yn y bŷd, *ddywedyd yn ddrwg am Lywodraeth wr ein pobl. Act.* 23. 5. *Anrhydedd.*

Teyrnged.

3. Yn *ail*, talu *Teyrnged*; Hyn a orchymynnir yn hynod gan yr Apoſtol. *Rhuf.* 13. 6. *Telwch deyrn-gêd, oblegid gwaſanaeth-wyr Duw ydynt, yn ymrbi ŷr pêth ymma.* Duw a 'i neillduodd hwynt megys Gwenidogion er cyffredinol ddaioni i'r hôll bobl, ag am hynny tra-chyfiawn iddynt gael ei cynnal ganddynt hwy. Ag yn wîr, pan

Yſtyriê

Yſtyrir gofalon a helbul yr alwedigaeth uchel honno, a pha faint o ddrain a blethir ymmhób Coron, nid oes ond achos ſechan i ni i genſigennu iddynt y dyledion hyn; ag ſe ellir dywedyd am wirionedd, nad oes yr ûn o'i Deiliaid poenus hwynt yn ennill ei bywyd mor galed. Sul XIV.

4. Yn *drydydd*, rhaid i ni weddio troſtynt; hyn hefyd a orchymmynnir yn hynod gan yr Apoſtol i'w wneuthur tros *Frenhinoedd a phawb a oſodwyd mewn awdurdod*; 1 Tim. 2. 2. Y mae negeſau 'r alwedigaeth honno mor bwyſfawr, y peryglon a'r enbydrwydd mor ddirfawr, a bód arnynt hwy yn anad nêb arall eiſieu ein gweddiau ni, am gyſarwyddiad, cymmorth, a bendith Dduw; a'r Gweddiâu hyn troſtynt hwy a ddychwel i'n monweſau ein hunain, oblegid y mae'r bendithion a dderbyniant hwy gan Dduw yn tueddu at ddaioni'r bobl, fel y gallont *bwy fyw yn llonydd, ag yn beddychol*, fel y mae yn niwedd y wers rhag ddywededig. *Gweddiau troſtynt.*

5. Yn *Bedwerydd*, rhaid i ni dalu iddynt *Ufydd-dod*. Hyn hefyd a orchymynnir yn gaeth gan yr Apoſtol, 1 *Pet.* 2. 13. *Ymddaroſtyngwch i bôd dynol ordinhâd er mwyn yr Arglwydd, ſef, i'r Brenin fel i'r Goruchaf, Ag i'r Llywiawd-wyr fel i'r rhai trwyddo ef a ddanfonir.* Y mae'r cyfryw Ufydd-dod yn ddledus arnom i'r gallu goruchaf, a bod yn rhaid i ni ymddaroſtwng i bwy bynnag a awdurdodir ganrho ef; Ag y mae St. *Paul* hefyd yn dra-helaeth yn hyn, *Rhuf.* 13. 1. *Ymddaroſtynged pób enaid i'r awdurdodau goruchel*; a thrachefn *gwer.* 2. *Pwy bynnag ſydd yn ymoſod yn erbyn yr awdurdod, ſydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw.* Ag y mae i'w Yſtyried y rhoddwyd y gorchymynion hyn ar amſer pan oedd yr awdurdodau hynny yn Baganaidd, *Ufydd-dod.*

ag

Sul XIV. ag yn erlîd-wŷr creulon Criſtianogion; i ddangos i ni, na ddichon rhîth yn y bŷd o ddrygioni ein Llywodraeth-wŷr ein rhydd-hau ni oddiwrth y Ddledſwydd hon. Rhaid i ni dalu Uſydd-dod naill ai *Gweithredol* neu trwy *ddioddef*: y *weithredol*, mewn pób gorchymynion cyfreithlon, hynny yw, pan orchymynno'r Llywiawdr ryw beth nad yw wrthwyneb i ryw Orchymyn Duw, yna yr ydym yn rhwym i wneuthur yn ól gorchymyn y Swyddwr; ond pan orchymynno ef ryw béth yngwrthwyneb i orchymyn Duw, yna nid rhaid i ni dalu iddo ef yr *Uſydd-dod weithredol* hon, nyni a allwn, iê, rhaid i ni, naccau gwneuthur hynnu; (ond ymma edrychwn yn ddyſal ar i'r péth fód felly yn wrthwyneb, ag nid gwneuthur lliw o gydwybod i orchguddio yſtyfnigrwydd) yn y cyflwr hwnnw, meddaf, *rhaid i ni Uſydd-hau i Dduw yn hytrach nag i ddyn.* Ond ymma rhaid yw dangos yr *Uſydd-dod* honno trwy *ddioddef*; rhaid i ni ddioddef yn amyneddgar y pèth a roddo ef arnom am y cyfryw neccâad, ag nid ein amddiffyn ein hunain trwy godi i fynu yn ei erbyn ef. Canys *pwy a ddichon eſtyn ei law yn erbyn eneiniog yr Arglwydd a bôd yn ddi-enog?* medd *Dafydd* wrth *Abiſhai*, 1 *Sam.* 26. 9. a hynny ar amſer pan oedd *Dafydd* tan erlidigaeth fawr gan *Saul*, iê, a phan oedd gantho hefyd ſiccrwyddo'r Deyrnas ar ei ôl ef: ag y mae *Barn* St. *Paul* yn y cyflwr ymma, yn dra-gref ynol, *Rhuf.* 13. 2. *Yr hwn a wrthwyneba a dderbya ddamnedigaeth iddo ei hun.* Nid oes ymma ond cyffur gwael i nèb i godi i fynu yn erbyn Swyddwr cyfreithlon, canys er iddynt hwyddo cymmhelled ymma a'i ſiccrhau ei hunain oddiwrtho ef trwy'r moddion hyn, eto y mae Brenin y Brenhinoedd oddiwrth ba ûn ni

ddichon

ddichon gallu yn y byd ei cyſgodi nhw, ag fe fydd y ddamnedigaeth hon yn y diwedd yn wobr reſynol ei buddugoliaeth hwynt. Ofer i mi draethu ymma beth o'r tu arall yw Dledſwydd y Llywiawd-wr tu ag at y bobl, gan nad oes y rûn o'r râdd honno yn debyg i ddarllen y Traethawd hwn; ag y mae yn ammherthynaſol jawn i'r bobl ymorol beth yw Dledſwydd ei Pen-llywydd, ym mhâ ûn y mae y rhan ſwyaf etto yn fwy hyddyſg o lawer nag yn ei Dledſwydd ei hunain; digon iddynt hwy wybod (beth bynnag ydyw ei ddled ef, a pha fodd bynnag y cwplheir hi,) nad ydyw ef rwymedig i roddi cyfrif i neb ond i Dduw, ag ni ddichon ûn-rhyw drofleddiad ar ei ran ef, roi iddynt hwy rydd-did i drofleddu ar ei rhan hwythau. Sul XIV.

6. Yr *ail* mâth o *Rieni* yw'r *Ffyrydol*; hynny yw, Gwenidogion y Gair, pa ûn bynnag a'i *Llywodraeth-wyr* yn yr *Eglwys*, neu eraill tanynt hwy, y rhai ſydd i gwplhau'r unrhyw Ddledſwyddau i'n Heneidiau ni, ag y mae ein Rhieni naturiol i'n Cyrph ni. Fal hyn y dywed St. *Paul* wrth y *Corinthiaid*, *ddarfod iddo ef ei cenhedlu hwynt yn Ghriſt Jeſu trwy'r Efengyl*, 1 Cor. 4. 15. ag wrth y *Galatiaid*, Pen. 5. 19. i fôd ef yn ei *hail eſgor hwynt*, *hyd oni ffurfer Griſt ynddynt*: A thracheſn, 1 *Cor.* 3. 2. *Eſe a'i porthodd hwynt a llâeth*; hynny yw, a'r cyfryw Athrawiaethau ag oedd gyfaddas i'r cyflwr mabanaidd hwnnw o Griſtianogrwydd yr oeddynt hwy yntho y pryd hynny; ond yr oedd gantho *fwyd cryfach* i rai o *gyflawn oedran*, *Hebr.* 5. 14. Y mae y rhai hyn ôll yn Ddledſwyddau Rhieni, ag am hynny y neb a'i cwplhâo nhw i ni, fe ellir yn ddâ ei cyfrif nhw yn gyfryw. *Dledſwyddau tu ag at ein Gwenidogion.*

7. Ein

Sul XIV. *Cariad.*

7. Ein dylêd i 'r rhain yw yn *gyntaf*, ei *Caru hwynt*, bód gennym y cyfryw garedigrwydd iddynt ag a weddai i 'r rhai a wnânt y daioni mwyaf i ni. Hyn y mae St. *Paul* yn ei oſyn, 1 Theſſal. 5. 13. *Yr wyſi'n attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai ſy yn llafurio yn eich mŷſg, ag yn eich llywodraethu yn yr Arglwydd, ag yn eich rhybuddio; a rhoddwch eich tra ſerch arnynt er mwyn ei gwaith.* Y mae ei gwaith hwy yn gyfryw, ag a haeddai yn ddâ *gariad*, oblegid ei ſôd et yn lleſol iawn tros ben i ni.

Parch.

8. Yn *ail*, ein dlêd yw ei *perchi* a 'i *hanrhydeddu* hwynt, fal y gwelwn yn y teſtyn a oſodais i yr awrhon ar lawr; ag yn ddiammeu, y mae hyn yn dra-reſymol, os Yſtyriwn ni ond natur ei gwaith hwynt, neu pwy ſydd yn ei goſod hwynt ar waith. Y mae natur ei gwaith hwynt uwchlaw pôb mâth arall yn dra-rhagorol; Yr ydym ni arferol o briſio galwedigaethau eraill yn gyfattebol i odidowgrwydd a phrîs y pethau y bônt hwy yn ei drin. Nid oes yn ddiammeu yr ûn farſiandiaeth mor werthfawr a honno o 'r Enaid; a dymma ei maeleriaeth hwynt, achub Eneidiau gwerthfawr rhag colledigaeth. Ag os yſtyriwn ni ymmhellach pwy ſydd yn ei goſod hwynt ar waith, ſe adchwanega hynny at y barch ddyledus iddynt. *Cennadon* ydynt *tros Griſt*, 2 *Cor.* 5. 20. ag mae Cennadon trwy Gyfreithiau pôb Teyrnaſoedd i 'w perchi yn ôl braint y rhai a'i denſyn hwynt. Am hynny y mae Criſt yn dywedyd wrth ei ddiſcyblion, pan yw eſe yn ei hanfon hwynt allan i bregethu, *yr hwn ſydd yn eich dirmygu chwi, ſydd yn fy nirmygu i, a 'r hwn ſydd yn fy nirmygu i, ſydd yn dirmygu yr hwn am danfonodd i*, *Luc* 10. 16. Y mae gan hynnu fwy yn ſefyll ar ddirmygu Gwenidogion nag

y

y mae dynion yn ei yſtyried yn gyffredinol, y mae hynny yn ddirmygiad o Dduw a Chriſt hefyd. Meddylied y rheini am hyn, y rhai ſydd yn gwneuthur gwawd a difyrrwch o ddrygu a gwradwyddo 'r alwedigaeth hon; A 'rheini hefyd, y rhai a feiddiant ryfygu arferu ei Swyddau hi heb ei galw i hynny yn gyfreithlon, yr hyn ſydd yn rhyfyg dirfawr; y mae hyn fal pe bydde ddŷn mewn gwîb yn myned o hono 'i hûn yn negeſeuwr oddiwrth ei Frenin. Y mae 'r Apoſtol yn dywedyd am Offeiriadau 'r Gyfraith, y rhai ydynt îs na rhai 'r Efengyl, *Nad oes nèb yn cymmeryd yr Anrhydedd hon iddo ei hûn, ond yr hwn a alwyd gan Ddaw, Heb.* 4. 5. Pa fódd gan hynny y meiddia ûn dŷn gymmeryd yr anrhydedd twyaf ymma iddo ei hun, heb ei alw iddi? Ag nid digon yw dywedyd fôd ganddynt *alwad* yr Yſpryd *oddifewn*; o ran, gan ſefydlu o Dduw dreſn yn yr Eglwys er mwyn danſon dynion i 'r ſwydd hon, y mae y ſawl a 'i cymmerant hi arnynt heb yr awdurdod honno yn gwrthwynebu yr ordinhâd honno, ag o niſer y lladron a 'r Yſpeil-wŷr hynny, fel y dywed ein Jachawdr, *Jo.* 10. *Y rhai nid ydynt yn dyfod i mewn trwy 'r drŵs.* Heb law hyn, y mae ymarfer reſynol yr amſeroedd hyn yn dangos fód llawer o 'r rhai ſydd yn cymmeryd arnynt ſwyaf yr alwedigaeth hon o 'r Yſpryd oddi-mewn, gwedi ei galw trwy ryw Yſpryd arall, ag nid gan Yſpryd Duw; gan fôd ei hathrawiaethau nhw gan-mwyaf yn union yngwrthwyneb i air Duw, ar ba ûn y bydd rhaid ſylfaenu pôb gwîr athrawiaethau. Rhaid yw edrych ar y cyfryw rai megys y twyll-wŷr a 'r gau-brophwydi hynny am ba rai y rhybuddir ni cyn fynyched yn Epiſtolau 'r Apoſtolion. Ag mae pwy bynnag a 'i nodda, Sul XIV.

Sul XIV. neu a 'i dilyn hwynt, yn gyſrannog o 'i pechod hwynt. Fe a oſodir ar lawr megys pechod tragreſynol yn *Jeroboam*, *wneuthur gwibilion y bobl yn offeiriadau*; hynny yw, y cyſryw nad oedd iddynt hawl i 'r ſwydd honno trwy Ordinhâd Duw; ag y mae 'r neb a wrandawo ar y cyſryw *Bregeth-wyr* yn rhedeg i 'r unrhyw bechod; oblegid oni bae bòd rhai yn ei hachleſu ag yn ei dilyn hwynt, ni pharhâe nhw bŷth yn hîr yn y ffordd honno; ag am hynny mae i 'r rhai ſydd yn rhoddi iddynt yr achles honno lawer i atteb am dano, ag y maent yn ddiammeu yn euog o 'r pechod o ddirmygu ei gwîr ſugeiliaid, pan ſônt yn goſod i ſynu y gau-Apoſtolion hyn yn ei herbyn hwynt. Pechod yw hwn y mae 'r oes ymma yn rhŷ euog o hono; Duw o 'i drugaredd a 'n gwnelo ni yn deimladwy o hono mewn prŷd, fal yr attalier yr anrheſn a 'r anuwioldeb a all ddyfod yn dra-chyſiawn ar ein gwartha o 'i blegid.

Cynhaliaeth. 9. Yn *drydydd*, y mae 'n ddyledus arnom iddynt hwy *gynhaliaeth*; ond mi a dreuthais yn barod am hyn yn y Rhan gyntaf o 'r Llyſr hwn, ag ni adrodda 'i ymma ddim yn chwaneg. *Ufydd-dod.* Yn *Bedwerydd*, mae *Ufydd-dod* yn ddledus arnom iddynt hwy. *Ufyddhewch* (medd yr Apoſtl) *eich Blaenoriaid, ag ymddaroſtyngwch: oblegid gwilio y maent tros eich Heneidiau chwi*, *Heb.* 13. 17. Rhaid yw talu 'r *Ufydd-dod* hon iddynt mewn pethau Yſprydol; hynny yw, rhaid i ni yn ddiwyd uſyddhau bèth bynag a draethant hwy megys gorchymynion Duw, allan o Air Duw; gan goſſnâu nad hwynt hwy, ond Duw ſydd yn goſyn hynny, yn ôl geiriau Criſt, *yr hwn ſydd yn eich gwrando chwi, ſydd yn fy ngwrando i*, Luc 10. 16. A hynny pa ſodd bynnag y trenthir hwynt, a 'i trwy bregethiad

cyhoedd,

cyhoedd, neu gyngor neillduol, oblegid ymhob ûn o'r ddau, os dilynant hwy y rheol, ſef, Gair Duw, *Cennadon Arglwydd y lluoedd ydynt hwy*, Mal. 2. 7. Y mae'r Apoſtol yn haeru'r Ufydd-dod hwn oddiwrth deu-ryw annogaeth, ûn a gymmerwyd oddiwrth y wenidogaeth, a'r llall oddiwrthynt ei hunain; *y mâent yn gwilio*, medd ef, *tros eich eneidiau chwi, megys rhai ſydd rhaid iddynt roddi cyfrif, fel y gallont wneuthur hynny yn llawen ag nid yn driſt.* Rhaid i'r bobl trwy ei hufydd-dod wneuthur ei Bugeiliaid yn abl i roddi cyfrif cyſſurus o'i heneidiau hwynt; a drŵg iawn y telir y pwyth i'w holl ofalon a'i llafur hwynt, trwy wneuthur iddynt driſthau am ei drŵg-lwyddiant. Ond yn *ail*, ei perthynas ei hûn hefyd ydyw hynny; nhw a allant driſthâu ei Gwenidogion pan welant ei hôll boen yn ofer, ond ni ennillan nhw ei hunain fawr wrth hynny, *Di-ſûdd* (medd yr Apoſtol) *ſydd hynny i chwi*, Heb. 13. 17. chwychwi eich hunain a gŷll wrth hynny o'r diwedd, yr ydych yn colli'r holl wobrau gogoneddus hynny y rhai a addewir megys Coron yr Ufydd-dod hon; nid ydych yn ennill dim ond adchwanegiad at eich pechod a'ch coſpedigaeth, canys fel y dywedodd ein Jachawdr wrth y *Phariſeaid, Oni buaſei i mi ddyfod ag ymddiddan a hwynt, ni buaſei arnynt bechod*, Jo. 15. 22. hynny yw, mewn cyffelybiaeth i'r hyn oedd arnynt y pryd hynny; felly yn ddiammeu, y mae y rhai ni chlywſant erioed bregethu'r Efengyl iddynt yn llawer mwy di-euog na'r rhai a glywſant, ag a'i gwrthwynebaſant. Ag am y goſpedigaeth, ni allwn yn ddiammeu ddiſgwyl y pêth a ddywedodd Criſt wrth y rhai y pregethaſei ef iddynt, *y bydde eſmwythach i Tyrus a Sidon*, y rhai oeddynt yn Ddinaſoedd Paganaidd, *nag idâynt hwy.* Sul XIV.

Sul XIV. *Gweddiau troſtynt.*

10. Yn *ddiweddaf*, Rhaid i ni *weddîo* troſtynt; hyn y mae St. *Paul* yn ei oſyn mewn amryw fannau gan ei blant Yſprydol; fal hyn *Eph.* 6. 18, 19. gwedi iddo ef orchymyn gweddío tros yr holl Seinctiau, y mae ef yn adroddi, *a throſof finneu ar roddi i mi ymadrodd i agoryd fy ngenau yn hŷf, i wneuthur yn eglur ddirgelwch yr Efengyl*; ag felly tracheſn, *Col.* 4. 3. Ag y mae hyn yn parhau fŷth yn ddlêd i'n Tadau Yſprydol, ſef, gweddio am gyfryw gymmorth Yſpryd Duw iddynt ag a wnâ iddynt iawn gyflawni 'r alwedigaeth Sanctaidd honno. Ni oſoda 'i ar lawr ymma Ddlêd y Gwenidogion i'r bobl, oblegid yr unrhyw yſtyriaeth ag y gadewais heibio ſôn am Ddledſwydd ſwyddogion.

Anrhydedd yn ddlêdus i'n Rhiêni Naturiol.

11. Y *Trydydd* mâth o Riêni yw 'r *Naturiol*, ſef, *Tadau ein Cyrph*, fal y mae 'r Apoſtol yn ei galw hwyut, *Heb.* 12. 9. Ag i'r rhainy mae 'n ddlêdus arnom amryw Ddledſwyddau; megys yn *gyntaf*, parch ag *Anrhydedd*; rhaid i ni ein hymddwyn ein hunain tu ag attynt hwy a phób rhyw barch a goſtyngeiddrwydd; a gochelyd, tan rîth gwendid yn y bŷd ynddynt hwy, ei dibriſio a'i diyſtyru hwynt, naill a'i yn ein hymddygiad oddiallan, neu cymmaint ag yn ein Calonnau oddifewn. Os digwydd bôd rhyw wendid ynddynt, rhaid i ni er dim ei cuddio a'i celu hwynt; fal *Sem* a *Japheth*, y rhai a *guddiaſant noethni ei Tâd*, pan ddarſn i *Cham* felldigedig ei *ddadcuddio a'i gyhoeddi*, Gen. 9. 23; ie, ag a'i cuddiaſant yn y cyfryw fodd heſyd, nad allent hwy ei hunain mo 'i ſweled. Rhaid i ni, hyd y gallom, ymgadw ein hunain rhag edrych ar noethni ein Rhiêni, yr hyn a all ein temptio ni i dybied yn ammharchus o honynt. Y mae hyn

hyn yn dra-gwerthwynebus i ymddygiad llawer plant, y rhai nid ydynt yn unig yn cyhoeddi ag yn gwatwor gwendid ei Rhieni, ond yn dywedyd fôd ynddynt y gwendid hynny nad yw; y mae gan-mwyaf y cyfryw falchder aglyſtyſnigrwydd mewn *iefengtid*, nad allan nhw aros ymddaroſtwng i gynghorion a chyfarwyddiad ei Henuriaid; ond ei taflu nhw heibio megys effeithiau gwall-ſynwyr, pan fônt yn wir yn ffrwythau ſobrwydd a Doethineb. I'r cyfryw rai y mae cyngor *Solomon* yn dra-angenrheidiol, *Dihar.* 23. 22. *Gwrando ar dy Dâd a'th genhedlodd, ag na ddiyſtyra dy fam pan heneiddio.* Y mae amryw leoedd eraill yn y Llyfr hwnnw i'r perwyl ymma, yr hyn a ddengys fôd y doethaf o ddynion yn gweled yn angenrheidiol i blant yſtyried cyngor ei Rhieni. Ond mae arſer ein hoes ni yn goſod i fynu ddoethineb yn union yngwrthwyneb i hon; ag yn tybied rhai y prŷd hynny yn ſynhwyrol, pan ddercheſir hwynt i'r râdd honno o ddirmygu cyngor, ie, ag o watwor perſonau ei Rhieni. Os ni wrendy y cyfryw rai ar gynghorion, etto coffânt ſygythiad y gŵr doeth, *Dihar.* 30. 17. *Llygad yr hwn a watwâro ei Dâd, neu a ddiyſtyro lywodraeth ei fam, a dynn cig-frain y dyffryn, a'r Eryrod a'i bwyty.* Sul XIV.

12. Yr *ail* Ddylêd iddynt yw *Cariad*; rhaid yw bôd gennym garedigrwydd perffaith iddynt, y cyfryw ag a wnâ i ni ddeiſyfu yn ddiffrifol bòb mâth a'r ddaioni iddynt, a chaſhâu gwneuthur dim a'i cythrwblia neu a'i digia hwynt. Ni fydd hyn ddim ond *diolchgarwch* cyffredinol, pan gofir bêth a wnaeth ein Rhieni troſtom ni, y môdd y bûon nhw nid yn unig yn foddion o'n dwyn ni ar y cyntaf i'r bŷd, ond hefyd o'n meithrin a'n cynnal ni gwedi hynny; *Cariad.*

Sul XIV. hynny; ag yn wir, pwy bynnag a iawn yſtyrio 'r gofalon a'r ofn ſydd yn dwyn plentyn i fynu, ni farnant gariad plentyn ond tâl rheſymol i 'w Rhieni am y cwbl. Rhaid yw dangos y *Cariad* hwn amryw ffyrdd; yn *gyntaf*, mewn pôb rhyw *ymddygiad* llaryaidd, gan ein hymddwyn ein hunain, nid yn unig yn barchus ag yn oſtyngedig, ond yn llaryaidd hefyd ag yn addſwyn, trwy wneuthur yn llawen ag yn ewyllyſgar bêth bynnag a ddŵg lawenydd a chyſſur iddynt, a gochelyd yn oſalus bôb peth a 'i cythrudda ag a 'i triſtâ hwynt.

13. Yn *ail*, rhaid yw dangos y *Cariad* hwn trwy *weddio troſtynt*; y mae Dlêd plentyn i 'w Riêni mor fawr, na ddichon ef byth mo'i chwplhau ei hûn, rhaid iddo gan hynny alw i mewn gymmorth Duw, ag erfyn arno ef obrwyo 'r holl ddaioni a wnaeth ei Riêni erddo, trwy amlhau ei fendithion arnynt; bêth gan hynny a ddywedwn ni am y Plant hynny, y rhai yn llè galw am *fendithion* o 'r Nêf ar ei Rhieni, ydynt yn chwilotta Uffern am *felldithion* arnynt, ag yn tywallt allan regfâu tra-echryſlon yn ei herbyn hwynt? Y mae hyn yn bèth mor reſynol, ag y tybie ùn na bydde rhaid eiriol yn ei erbyn, oblegid na alle nèb fôd mor atgâs a ſyrthio iddo; ond fe welodd Duw ei hûn, yr hwn a edwyn ein calonnau ni oreu, hyn yn boſſibl, ag am hynny a oſododd y goſpedigaeth doſtaf arno: *Rhodder i farwolaeth yr hwn a felldithio ei Dâd neu 'i fam.* Exod. 21. 17. Ond och! ni a welwn beunydd nad yw hyn boſſibl yn unig, ond yn gyffredin hefyd, ſef, rhegu yn gyhoeddus. Ond fe ellir ofni, fôd ûn arall etto yn fwy cyffredinol, ſef, *ewyllyſio melldithion*, er bôd ofn neu gywilydd yn ei cadw hwynt rhag traethu hynny allan. Pa ſawl

Plen-

Plentyn naill ai o annoddefgarwch llywodraeth, neu o chwant i feddiannau ei Rieni, a chwennychodd ei marwolaeth hwynt? Ond pwy bynnag ſydd felly, meddylied er dirgeled a thecced yr ymddangoſo o flaen dynion, fôd ûn yn canfod y dymuniadau dirgelaf hynny o'i galon, ag yn ei olwg ef ei fôd yn myned am y troſſeddwr greſynol hwn, ſef, meilldithiwr ei Rieni. Ag yna Yſtyrier, y dichon Duw yn gyſtal *goſpi*, a *chanfod*; ag am hynny gan ddarfod iddo ef ddatcan marwolaeth i fôd yn wobr y pechod hwnnw, nid yw aurheſymmol diſgwyl iddo gyflawni hynny; ſef, i'r rhai ſy'n chwennych farwolaeth ei Rhieni, gyfarfod yn ddiſymmwth a'i marwolaeth ei hûn. Y mae'r pummed Gorchymyn yn addaw *hîr hoedl* megys gwobr am *anrhydeddu Rhieni*, at ba ûn y mae yn dra-chyſſon fôd angeu di-ſymmwth yn goſpedigaeth am y gwrthwyneb bechod; ag yn ddiammeu nid oes dim mwy hynod yngwrthwyneb i'r Ddledſwydd honno nag yw *Rhegu* ein *Rhieni*. Sul XIV.

14. Y Trydydd Ddledſwydd arnom ni iddynt, yw *vſydd-dod*; nid yw hyn yn unig yn gynnhwyſedig yn y Pummed Gorchymyn, ond a orchmynnir yn eglur mewn lleoedd eraill o'r Scrythur, *Eph.* 6. 1. *Y Plant ufyddhewch eich Rhieni yn yr Arglwydd, canys hynny ſydd gyfiawn*; a thracheſn, *Col.* 3. 20. *Y Plant ufyddhewch eich Rhieni ymmhôb dim canys hynny ſydd ddâ iawn gan yr Arglwydd.* Y mae'n ddledus arnom Uſydd-dod iddynt ymmhób péth ond lle y mae ei gorchymynion hwynt yn gwrthwynebu gorchymynion Duw, ag yna rhaid i'n Dléd i Dduw gael y rhagor; ag am hynny, os bydde ryw Rieni mor ddiwg a cheiſio gan ei Blentyn ledratta, dywedyd celwydd, neu wneuthur rhyw béth anghyſreithlon, nid yw'r Plen- *Uſydd-dod.*

tyn

Sul XIV. tyn yn troſſeddu yn erbyn ei Ddled-ſwydd, er iddo anuſyddhau 'r cyfryw Orchymyn, iê, rhaid iddo anuſyddhau, neu ſe a droſſedda yn erbyn Dled ſwydd uwch o lawer, ſef, yr hon ſydd yn ddledus arno i Dduw, ei Dâd Nefol. Etto pan fô fal hyn yn angenrheidiol neccâu Uſydd-dod, ſe ddyle ofalu am wneuthur hynny yn y cyfryw fôdd goſtyngedig a pharchus, fal yr ymddangoſo mai Cydwybod yn unig, ag nid *Yſtyſnigrwydd* ſydd yn ei annog i hynny. Ond mewn pob gorchymynion cyfreithlon, hynny yw, pan ſo 'r peth a orchymynnir naill ai yn ddâ, neu heb fôd yn ddrŵg, ſef, pan na bô dim ynthò yngwrthwyneb i 'n Dled-ſwydd i Ddûw, yna mae 'r plentyn yn rhwym i ufyddhau, bydded y gorchymyn yn fawr neu yn fychan. Y mae' n rhŷ hynod ymmhôb man o 'r bŷd leied cyfrif a wnêir o 'r Ddled-ſwydd hon, llê nid yw Rhieni gan mwyaf yn cael gan ei plant fôd dim mwy tan ei llywodraeth nag y byddont tan y wialen; pan gynnyddant mewn oedran, i maent yn eu tybied ei hunain yn rhyddion oddiwrth bôb Uſydd-dod iddynt; ag os parheiff rhai yn ufudd, etto os chwilir am yr achos, ſe gêir gweled mewn gormod mai ſynwyr bydol yn unig ſydd yn ei hannog hwynt; y maent yn ofni anfodloni ei Rhieni rhag iddynt hwy gwtôgu ei llaw tu ag attynt, ag felly iddynt golli rhyw bêth oddiwrthynt trwy hynny; Ond pa ſawl ûn ſy 'n uſyddhau yn unig o ran Cydwybod o'i Ddled-ſwydd? Yr oedd y pechod hwn o *anuſydd-dod* i Rieni trwy Gyfraith *Moſes* i'w goſpi a *marwolaeth*, fal y ddarlleniwn, *Deut.* 21. 18. ond pette Rhieni yr awrhon yn gwneuthur felly a 'i Plant, ſe wnai llawer ei hunain mewn ychydig amſer yn ammhlantadwy.

15.

15. Ond o'r holl rywogaethau o *anufydd-dod*, ûn o'r mwyaf yw, Priodi yn erbyn Ewyllys Rhieni. Dâ a meddiannau Rhieni ydyw Plant, yn gymmaint nad allant hwy, heb fâth a'r *ledrad*, ei rhoddi ei hunain ymmaith heb gydſynniad y nêb a'i pieu hwynt; ag am hynny ni a ddarllenniwn tan y Gyfraith, *na oddefid i ûn fenyw gwplhau unrhyw adduned a wnaethe hi heb gydſynniad ei thâd*, *Num.* 30. 5. Yr oedd hawl y Tâd yn ei ferch cymmaint, ag y galleu fo ddiddymmu ei rhwymedigaeth, ie, o *adduned*; ag yn wîr, ni a ddylem ninnau ei hyſtyried yn gymmaint ag i ymogelyd gwneuthur y cy'lyw bêth ag a'i diddymmo neu a'i lleihâo. Sul XIV. *Yn enwedig yn ei Priodas.*

16. Y *Bedwaredd* Ddledſwydd i Rieni yw, ei cymmorth hwynt a gweini iddynt yn ei hôll anghenrheidiau o ba fâth bynnag, megys gwendid, cleſyd ei cyrph, diffyg deall, neu dlôdi; ymmhób ûn o'r rhain, y mae'r plentyn yn rhwym, yn ôl ei allu, i'w cymmorth a'i cynnorthwyo hwynt; am y ddau gyntaf, ſef, lleſgedd y Corph, a gwendid y meddwl, ni ddichon nêb ammeu'r Ddledſwydd, pan goffhânt môdd y darfu i bôb plentyn yn ei febyd dderbyn yr unrhyw gymwynas gan ei Rieni, pan nad oedd gan y Plentyn ddim nerth i'w gymmorth, na ſynwyr i'w gyfarwyddo ei hûn, yr oedd yn rhaid i ofal ei Rieni gwplhau pôb ûn o'r ddau hyn troſto; ag am hynny mewn môdd o Ddiolchgarwch cyffredinol, pan ddigwyddo'r ûn o'r rhain i'r Rhieni, megys weithiau trwy henaint, neu rhyw ddamwain arall y maent yn digwydd, rhaid i'r Plentyn gwplhau yr unrhyw ſwyddau trachefn iddynt hwy. Am ei cymmorth hwynt yn ei tlodi, y mae'r unrhyw rwymedigaeth arnynt ag i'r lleill, gan nad ydyw ond cyfiawn i ti gynnal dy Rieni, y *Gweini i'w Hangenrheidiau hwynt.*

Sul XIV. rhai o'r blaen a'th gynhaliaſant di: Ond heb law hyn, mae Criſt ei hûn yn ein dyſgu ni ſôd hyn yn gynnhwyſedig tan y gorchymyn o Anrhydeddu Rhieni; oblegid pan yw ef *Mar.* 7. 13. yn argyoeddi'r *Phariſeaid* am *ddirmygu gorchymyn Duw i lynu wrth ei traddodiadau ei hunain*, y mae ſo'n pennodi yn neillduol yng-hylch y Ddledſwydd hon o gynnorthwyo Rhieni, llê y mae'n hynod fôd hyn yn rhan o'r Ddledſwydd honno a oſynnir yn y *pummed* Gorchymyn, ſal y gellwch weled yn ehelaeth yn y Teſtyn; ag mae hi yn gyfryw Ddledſwydd, na ddichon eſgus na rhîth yn y bŷd ein rhyddhau ni oddiwrthi. Pa fôdd gan hynny yr ettyb y rhai hynny iddi y ſydd yn neccau cymmorth i'w Rhieni tlodion, y rhai ni ddichon ymadel a'i gweddill a'i gormodedd (y rhai yn wîr ydynt ei pechodau hwynt) i fodloni angen y rhai (tan Dduw) a roddodd iddynt ei bywyd? Ié, mae rhai etto yn waeth, y rhai o wîr ſalchder nid yw wiw ganddynt gydnabod ei Rhiêni yn ei tlódi: ſal hyn y digwydd yn ſynych pan dderchefir y Plentyn i olud neu fawredd; y maent yn tybied yn ammarch iddynt edrych ar ei Rhiéni o iſel râdd, oblegid fôd hynny, ſal y tybiant hwy, yn eglurhau i'r bŷd waeledd ei hâch hwynt, ag felly y mae'n waeth ar y Rhiêni tlodion oblegid llwyddiant ei Plentyn. Y mae hyn yn gyfryw falchder ag annaturiolwch ynghyd ag a dderbyn yn ddiammeu ddîal chwerwdôſt gan Dduw: oblegid os dywed *Solomon* am *falchder* yn unig ei bód yn *myned o flaen diniſtr*, *Dihar.* 16. 18. ni a allwn yn hŷſach draethu hynny am y ddau ymma ynghŷd.

Rhaid cwplhau'n Dledſwydd ïr gwaeſa i rieni.

17. Yn *ddiweddaf*, nid oes ûn anghyweithaſrwydd na bai yn y Rhieni a ddichon ryddhau 'r

hau 'r Plentyn oddiwrth y Ddledſwydd hon; ond fel y dywed St. *Petr* i waſanaeth-wŷr, (1 *Pet.* 2. 18.) *Y bydd rhaid iddynt ymoſtwng mewn pob ofn i 'w meiſtred, nid yn unig i 'r rhai dá cyweithas, ond i 'r rhai anghyweithas hefyd*; felly yn ddiammeu y dyle Plant gwplhau 'r Ddledſwydd hon nid yn unig i Riêni addſwyn a Rhinweddol, ond i 'r rhai gwaethaf a thoſtaf. Canys er bôd addſwynder Rhieni yn annogaeth ddirfawr i blentyn i dalu ei Ddledſwydd, etto nid hynny yw 'r *unig* achos na 'r *mwyaf* 'chwaith; hynny a oſodir i lawr yngorchymyn Duw, yr hwn ſydd yn peri i ni fal hyn anrhyddeddu ein Rieni; ag am hynny er digwydd i Rieni fôd mor annaturiol, a bôd heb roi erioed ar ei Plentyn unrhyw rwymedigaeth o gariad (yr hyn nid ellir ond prin ei dybied) etto y mae Gorchymyn Duw yn parhau mewn grym, ag o ufuddddod i 'hwnnw, rhaid i ni gwplhau 'r Ddléd honno i Rieni, er na bô dim arall ar ei rhan nhw i 'n hannog ni. Sul XIV.

Ond megys ag y mae hyn yn ddlêdus ar y Plentyn tu ag at ei Rieni, felly o 'r tu arall y mae pethau eraill yn ddlêdus ar y Rhieni tu ag at y Plentyn, a hynny o 'i febyd allan. *Dlêd rhieni tu ag at ei plant.*

18. Y *cyntaf* yw, gofal am ei *feithrin* a 'i gynnal ef; yr hon Ddledſwydd ſydd yn dechreu o 'i enedigaeth, ag yn parhau nes i 'r Plentyn fôd yn abl i wneuthur hynny troſto 'i hûn; dledſwydd yw hon y mae Natur yn ei dyſgu; gan fôd gan y *bwyſtfilod gwylltaf* ofal mawr a thŷnerwch yn meithrin ei rhai jeſaingc, yr hyn a argyoedda ag a euog-farna pôb rhyw Rieni a eſgeulyſa hynn. Nid a 'i ymma i ſôn am y Teſtyn hwnnw, ſef, *A yw Mam yn rhwym i roddi i 'w Phlentyn ei faethiad cyntaf, trwy roddi bron iddo ef ei hûn*, oblegid amm- *Ei Meithrin nhw*

Sul XIV. hoſſibl yw traethu dim yn gyffredinol am hynny, gan fôd amryw bethau a ddichon newid hyn, a'i wneuthur nid yn unig yn gyfreithlon, ond yn oreu peidio a hynny; y cwbl a ddyweda i am hyn yw, mai lleẓni bô ûn rhwyſtr o ran cleſyd, gwendid, neu'r cyffelyb yn lluddias, goreu yn ddiammeu yw i'r Fam ei hûn gwplhau'r ſwydd hon, gan y bydd hynny yn lleſol iawn i'r Plentyn, yr hyn a ddyle Mam ddâ ei Yſtyried cynmhelled na eſceuluſo hi mo hynny er mwyn porthi ei Syrthni, neu'i balchder rodreſgar, neu'r cyffelyb; o ran, lle bô'r rhai hyn yn unig achoſion o beidio rhoi'r fron, nis gallant hwy gyfiawnhau'r eſgeuluſder, gan nad ydynt ei hunain yn gyfreithlon.

Ei dwyn hwynt i Fedydd.

19. Ond heb law'r goſal *cyntaf* hwn a berthyn i gŷrph Plant, y mae ûn arall, a ddyle ddechreu agos cyn gynhared, yr hwn a berthyn i'w Heneidiau hwynt; a hynny yw ei *dwyn hwynt* i'r Sacrament o *Fedydd*, môdd y gallont trwy hynny gael hawl mewn prŷd i'r holl ragorfreintiau gwerthfawr hynny, y mae'r Sacrament hwnnw yn ei roddi iddynt. Dledſwydd yw hon na ddyle Rhieni mo'i hoedi, gan mai tra-rheſymol yw i'r rhai a fû yn offeran o ddwyn aflendid a llygredigaeth pechod ar y dŷn-bâch, fôd yn ddiwyd iawn ag yn ofalus i'w olchi ymmaith cyn gynted ag y bô poſſibl: Heb law hyn, nid yw bywyd y cyfryw grynddŷn ond megis awel, yr hon ſydd yn ſynych yn myned ymmaith mewn munudyn; ag er na ddylem anobeithio o Drugarêdd Ddaw i'r cyfiwy blant truain y rhai ſydd yn marw heb fedydd, yn diammeu y mae y Rhieni hynny yn euog o beehod mawr, y rhai ſydd yn eſgeuluſo ei dwyn hwynt i'w Bedydd mewn prŷd.

20. Yn

20. Yn *ail*, Rhaid i Rieni edrych am ddwyn ei Plentyn i fynu; rhaid iddynt, fel y dywed *Solomon*, *Diar.* 22. 6. *Hyffarddio plentyn ymmhen ei ffordd.* Cyn gynted gan hynny ag y delo *Plant* i ddeall *rhefwm*, rhaid yw ei hathrawiaethu hwynt, a hynny yn gyntaf, yn y pethau a berthyn i'w llwyddiant tragywyddol; rhaid yw ei haddyfcu hwynt bôb ychydig ag ychydig yn yr holl bethau hynny y mae Duw yn ei orchymyn iddynt megys ei Dledfwydd i'w gwplhau; ag hefyd, pa ryw wobrau gogoneddus a barotodd ef iddynt os gwnaent hwynt; a pha gofpedigaerhau echryfion a thragywyddol os nis gwnaent. Fe ddylid tywallt y pethau hyn i feddyliau plant cyn gynted ag y bó poffibl, y rhai (fel *lleftri newyddion*) a fydd gan mwyaf yn cadw blâs y pethau a roddir ynddynt gyntaf; ag am hynny y mae'n fefyll yn fawn ar bôb Rhieni edrych ar iddynt gael fal hyn ei pereiddio ar y cyntaf a Rhinwedd ddâ a Chrefydd. Yn diammeu os efgeuluſir hyn, y mae ûn ger llaw yn barod i'w llenwi hwynt a'r union wrthwyneb, fe fydd y *Cythrael* yn iddigon diwyd i dywallt i mewn iddynt bôb drygioni a pechod, a hynny o'i mebyd; a chan fôd yn ein Naturiaeth ni i gŷd lawer mwy parodrwydd i ddrŵg nag i ddâ, rhaid bód gofal a gwiliadwraeth mawr i rag-flaenu bwriad y gelyn Eneidiau hwnnw; yr hyn ni ddichon fôd mewn môdd yn y bŷd, ond trwy gynnyfgaeddu ei meddyliau hwynt ar y cyntaf a phethau dâ, trwy ei dwyn hwynt i garu Rhinwedd ddâ, ag i gafhâu pôb pechod, fel pan ddelo *profedigaethau*, y bônt gwedi ei harfogi yn ei herbyn hwynt. Hyn yn ddiammeu a ddyle Rhieni uwchlaw pôb pêth edrych ar ei ôl, ag y mae yr efgeuluſdra o hyn yn greulon-

Sul XIV. *Ei dwyn i fynu.*

deb

Sul XIV. deb echryſlon; yr ydym yn edrych ar y Rhieni hynny megys rhai dihir tra-annaturiol, y rhai a lâdd ei plant; ond och! y mae hynny yn drugaredd ag yn dynerwch wrth ei gyffelybu a'r eſgeuluſdra ymma o'i *dygiad i fynu*; oblegid yr ydys trwy hynny yn diniſtrio ei Heneidiau hwynt, ag yn ei gwneuthur hwynt yn druenus yn dragywyddol; ag fe ŵyr Duw, fôd aneirif o'r cyſfryw Rieni creulon yn y bŷd, y rhai ſydd fal hyn yn rhoi ei Plant i ſynu iw *meddiannu gan y Cythrel*, o eiſieu ei gwneuthur yn gydnabyddus mewn prŷd a ffyrdd Duw; iê, yn wir y mae yn rhŷ hynod, trwy y tauogrwydd rhyfeddol a'r anwybodaeth ſydd yn gyffredinol ymyſg iefengtid, leied ſydd yn gwneuthur cydwybod o gwplhau'r Ddlêdſwydd hon: gan fôd Plant y rhai ſydd yn ei galw ei hunain yn Griſtianogion yn fynych heb wybod ddim mwy am Dduw a Chriſt, na'r Paganaidd a'r di-dduw. Ond pwy bynnag ydynt ſydd fal hyn yn eſceuluſo'r Ddledſwydd fawr hon, gwybyddant nad ydynt hwy yn unig yn dwyn trueni greſynol ar ei Plant, ond euogrwydd echryſlon hefyd arnynt ei hunain. Oblegid megys y dywed Duw wrth y gwiliedyddion diofal, *Ezec.* 3. 18. *Os cyfr-gollir ûn Enaid* trwy ei heſgeuluſdra hwynt, *y gofynnir yr Enaid honno o'i dwylaw hwynt*; felly yn ddiammeu y bydd i bôb Rhieni, i'r rhai yr ymddiriedodd Duw y ſwydd hon o wilio tros ei Plant ei hunain. Yr *ail* Rhan o feithrin yw, ei dwyn hwynt i ſynu mewn rhyw alwedigaeth, trwy ei goſod hwynt ar waith mewn rhyw gelfyddyd oneſt, módd y gallont ochelyd y *rhŵyd fawr* honno o eiddo 'r *Cythrael*, ſef, *Diogi*; ag y gallont hefyd gael ei hyfforddi mewn rhyw gywreinrwydd neu gelfyddyd ddefnyddiol, fal

pan

pan ddelont mewn oedran, y bônt yn ſuddiol i 'r *lles gyffredin*, ag yn abl i ennill bywoliaeth oneſt iddynt ei hunain. Sul XIV.

21. Fe oſynnir megys moddion angenrheidiol o'r Ddlêd ſawr hon o *ddwyn Plant i fynu*, ddau bêth; yn *gyntaf*, Rhoddi Cyſſur, yn ail, Cerydd iddynt. Rhaid yw, yn *gyntaf*, *ddywedyd* yn *dêg*, ag ymegnìo i wneuthur Plant mewn Cariad a Dled-ſwydd, trwy gynnyg iddynt wobrau i'w llithio, ag edrych pan wnelont yn ddâ ar roi calon ynddynt i fyned ymlaen. Dûll ddrŵg mewn rhai Rhieni yw meddwl na ddylent ymddangos o flaen ei Plant ond ag wyneb ſûr ſarrug; hyn ond odid y mae St. *Paul* yn rhag-rybyddio Rhieni o 'i blegid, pan yw efe yn peri i *dadau* ochelyd *annog ei Plant i ddigofaint*, *Col.* 3. 21. Bôd mor Sarrug ag anhywaith tu ag attynt pan wnelont yn ddâ, a phan wnelont yn ddrŵg, yw 'r modd i 'w hannog hwynt i ddigofaint; ag yna ſe ddywed yr Apoſtol i ni yn yr unrhyw adnodd bèth a fydd y ffrwyth o hynny, ni bydd ganddynt mor galon i fyned ymlaen mewn ûn ffordd ddâ, pan fô ei Rhieni heb edrych yn dèg arnynt ûn amſer. Yr ail môdd yw, Cerydd, yr hon a ddylid yn unig ei harferu pan na wnâ 'r llall mor daioni, pan fetho annogaethau ag ymbiliau, a phôb moddion tèg, yna angenrheidiol yw arferu rhai garwach; a rhaid yw profi hynny yn gyntaf mewn geiriau, nid ŵyf yn meddwl trwy gynnen a drŵg araith, ond trwy argyoeddiad pwyllog a thŵys; ag os metha hynny hefyd, yna rhaid yw arferu cernodiau; ag yn y cyflwr hwn, fal y dywed *Solomon*; *Yr hwn a arbeda ei wialen ſydd yn caſhau ei fâb*, *Dihar.* 13. 24. Ynfydrwydd creulon yw, i ddyn trwy arbed ychydig wialennodiau yn y cyfamſer, enbydu ei

Moddion o ddwyn Plant i fynu.

blentyn

Sul XIV. blentyn i'r drygau grefynol hynny, y rhai ganmwyaf a ddigwyddant i'r plentyn a adewir iddo ei hûn. Ond rhaid yw rhoi'r Cerydd hwn yn y cyfi yw fôdd ag a fo cyffelyppaf o i wneuthur lleſhâad; ſef, yn *gyntaf*, mewn prŷd; ni waſanaetha gadael blentyn redegymlaen mewn rhyw ddrŵg nes iddo, trwy hîr ymarfer, ddyfod i fôd yn gyndyn ag yn Ystyfnig yntho. Bai mawr yw hyn mewn amryw Rieni; nhw a adawant ei Plant yn llonydd tros amryw flynyddoedd, i wneuthur a fynnont, trwy oddef iddynt ddywedyd celwyddau, a lledratta, heb gymmaint a 'i hargyoeddi ûn amſer, ie, yſgatſydd ei boddhau ei hunain yn gweled dychymygion digrif-gall y Plentyn, a thybied na waeth pa beth a wnelont era bônt yn ſychain; ond och! y mae 'r pechod yr holl amſer hynny yn caſelu gwraidd, a hynny yn fynych mor ddyfn, na ddichon moddion yn y bŷd ar ôl hynny, na geiriau, na gwialennodiau fŷth mo 'i ddadwreiddio. Yn *ail*, rhaid i'r Cerydd fôd yn gymmedrol, heb ragori cynneddf y bai, na thynerwch y Plentyn. Yn *drydydd*, ni waſanaetha ceryddu mewn llidiowgrwydd, os amgen, ſe fydd y Gerydd nid yn unig mewn perigl o fôd yn anghymmedrol, ond yn anfuddiol hefyd i'r Plentyn, yr hwn a dybia ei fôd yn cael ei geryddu nid am ei fai, ond am fôd ei Rieni yn ddigllon, ag felly a fwriw 's bai yn hytrach ar ei Rieni nag arno ei hûn; lle o'r tu arall y dylid bôd mor ofalus i wneuthur y Plentyn yn deimladwy o'r bai, ag o'r boen, heb yr hyn ni wellhâ ſe bŷth yn hollawl.

Y Rhieni i wilio tros ei beneidiau gwedi iddynt gynnyddu mewn oedran.

22. Gwedi i Blant gynnyddu mewn oedran, y mae Dled-ſwyddau eraill etto ar Riéni i'w cwplhau iddynt; ſef, gwilio yn ddibaid tros

ei

ei Heneidiau hwynt, ag yſtyried pa ſôdd y maent yn arſeru 'r rheolau a'r athrawiaethau hynny a roddwyd iddynt yn ei hiefengtyd, ag yn gyfattebol i hynny ei rhybuddio, ei cyſſuro, neu'i hargyeddi hwynt, fal y gwelont achos. Sul XIV.

23. Felly hefyd am ei cyflwr oddiallan, rhaid iddynt ei rhoddi hwynt mewn rhyw ffordd i fyw yn y bŷd; os bendithîodd Duw y Rhieni a golud, rhaid iddynt gyfrannu a'i Plant yn ôl y péth a fò ganddynt, gan gofio, mai fel y buont hwy yn offerau o'i dwyn hwynt i'r bŷd, fôd yn ſefyll arnynt yn ôl ei gallu baratoi bywoliaeth gyſſurus iddynt yn y bŷd; rhieni annaturiol iawn gan hynny yw rheini, y rhai, am y caffont ddigon i'w treulio ar ei trythyllwch, a'i gormodedd ei hunain, ni waeth ganddynt bêth a ddelo o'i Plant, ag ni feddyliant ûn amſer am baratoi dlm iddynt. Bai arall arferol iawn ymŷſg Rhieni yn hyn o bèth, yw, oedi paratòi iddynt, nes iddynt hwy ei hunain farw; caſclu ynghŷd, yſgatfydd, benrwrr mawr iddynr erbyn y prŷd hynny, ond bód yn y cyfamſer heb roddi iddynt cymmaint ag a wafanaetho yn gymwys iddynt i fyw yn y bŷd arno. Y mae amryw ddrygau yn tarddu o hyn: Yn *gyntaf*, y mae yn lleihàu Cariad y Plentyn tu ag at ei Rieni, ie, y mae hyn lawer gwaith yn myned cymmhelled ag i'w annog i ewyllyſio ei marwolaeth hwynt; yr hyn er ei fôd yn gyfryw bechod, na ddichon profedigaeth yn y bŷd ei eſguſodi mewn plentyn, etto y mae'n fai mawr mewn Rhieni roi iddynt y temtafiwn hwnnw. Yn *ail*, y mae hyn yn goſod y Plentyn yn fynych ar ryw ddichellion an-oneſt, i gwplhau ei anghenrheidiau; hyn yn ddiammeu fydd yn digwydd yn fynuch: fe ddarfu i galedwch

Parattòi Cynhaliaeth iddynt.

Sul XIV. Rhieni oſod llawer ar ſoddion anghyfreithlon, y rhai gwedi iddynt unwaith ymgynnefino a hwynt; ſe fydd anhawdd iddynt ymadel a hwynt, er i'r achos cyntaf o honynt beidio; ag am hynny ſe ddylc Rhieni wilied rhag enbydu ei Plant ſal hyn. Heb law hyn, mae'r Rhieni yn colli'r bodlonrhwydd hynny a allei ſo'i gael yn gweled ei Blant yn byw yn gyſſurus ag yn llwyddiannus, yr hyn ni newidieu nêb ond crintachwr budr am y gwâg-bleſer o fwynhau arian yn ei giſt. Ond ymma rhaid yw edrych ymmhellach, ar ſôd i Rieni ennill y *golud* hwnnw, a adawant i'w Plant, yn *oneſt*: onid-é, ſe fydd ymmhell iawn oddiwrth ſôd yn gynnhyſgaeth ddâ iddynt, gan y bydd y cyfryw felldith yn dilyn golud y gafwyd yn anghyfiawn, ſal nad yw'r hwn a adawo'n cyfryw gyfoeth o'i ôl i'w blentyn ond ei ſiommi a'i dwyllo ef, trwy wneuthur iddo goelio darfodd iddo adael golud iddo pan yw yr ûn amſer gwedi goſod y cyfryw rŵd yn ei gymyſg ag a fydd ſicer o'i yſſu allan a'i ddiſetha. Y mae hyn yn béth mor hynod a chyffredinol, nad rhaid i mi ddywedyd dim i gadarnhau y gwirionedd o hono; Mi a fynnwn pe bae pawb mor barod i yſtyried hyn yn ei calonnau, ag y maent yn cymmeryd arnynt yn gyffredinol ddal Sulw arno: yna yn ddiammeu ni thybie Rhieni mor rheſymol arferu moddion anghyfiawn er mwyn caſglu yw Plant ar ei hól, oblegid nid dyna'r ffordd i gaſglu iddynt, eithr yn hytrach i'w hyſpeilio o'r péth a ddarfuaſei iddynt ei gaſclu o'r blaen yn gyfreithlon, gan ſôd y gronyn lleiaf o elw anghyfreithlon o'r ûn natur a *Surdoes*, yr hwn a *ſura'n hòll does*, trwy ddwyn meſidithion i lawr ar y bôb péth a fédd dŷn. Ymſodloned pôb Rhieni gan hynny a'r cyfryw gyfran iw

Plant, ag a welo Duw yn dda iddynt allu ei gaſclu yn oneſt; gan ei ſicrhau ei hunain er lleied a ſo hynny, ei ſôd yn well na'r golud mwyaf a geiſclir yn anghyfiawn, fal y dywed *Solomon*, *Dihar.* 16. 8. *Gwell yw ychydig trwy gyfiawnder, na chnŵd mawr trwy gam.* Sul XIV.

24. Y *Pedwerydd* peth dyledus ar Rieni i'w *Blentyn*, yw *Siampl ddâ*; nid digon iddo yn unig oſod ar lawr iddo Reolau o Rinwedd, a Duwioldeb; ond rhaid iddo hefyd roddi iddo Eſampl yn ei fuchedd ei hûn; ni a welwn fod grym eſampl yn anfeidrol tu hwynt i rym Gorchymyn, yn enwedig pan fo'r hwn fy'n gorchymyn yn ûn y bòm yn ei berchi, neu y bo ein hymarweddiad beunyddiol ni gydâg ef; ag mae pôb ûn o'r ddau gan-mwyaf yn ymgyfarfod mewn Rhieni. Fe ddyle pôb Rhieni gan hynny edrych yn ddiwyd ar ei hymddwyn ei hunain felly o flaen ei Plant, fal y bo ei eſampl nhw yn foddion i'w hennill hwynt i Rinwedd; Ond och! nid oes ond ychydig o'r gofal hwn yn yr oes hon, ond mae hi cymmhelled oddiwrth hynny, nad oes néb yn offerau o lygru Plant yn fynychach na'i Rhieni ei hunain. Ag yn wir pa fodd y dichon fôd yn amgenach? tra bò dynion yn rhoddi iddynt ei hunain rydd-dyd i bòb drygioni, nid ellir diſgwyl, na bydd i Blant, fydd yn yſtyried hyn, ganlyn ei hól hwynt: Y Plentyn a welo ei Dâd yn *feddw*, a dybia yn ddiammeu, y gall yntau fôd felly hefyd yn gyſtal a'i Dâd. Felly yr hwn a glywo ei Dâd yn tyngu, a wna'r cyffelyb; ag felly am bòb troſſedau eraill; ag os digwydd i ryw Rieni a ſo fal hyn yn ddrwg ei hûn, fôd ettò yn fwy gofalus am Enaid ei Blentyn na'i eiddo'i hûn, cymmhelled ag i waraſun iddo ef

Rhoddi iddynt Siampl ddâ.

Sul XIV. y pethau y bò ſo ei hun yn ei gwneuthur, nen iw geryddu ef am ei gwneuthur hwynt, ſe feddwl y Plentyn yn ddiammeu fòd hyn yn anghyfiawnder mawr yn ei Dâd, ei goſpi ſo am y pèth y mae ef ei hun yn ei wneuthur yn hylaw; ag felly nid yw y plentyn debyg i wellhau bŷth wrth hynny. Fe ddyle'r Yſtyriaeth hon roddi rhwym caeth iawn ar bòb Rhieni i fyw yn Griſtiannogawl; canys onid-è, nid ydynt hwy yn unig yn Peryglu ei Heneidiau ei hunain, ond eiddo'i Plant hefyd, ag megys yn pwrcaſu iddynt etiſeddiaeth yn Uffern.

Peidio a rhoddi nebrhyw Orchymynion anrheſymol.

25. Y *pummed* Dled-ſwydd ar Rieni yw, *bendithio* ei *Plant*; a'r mòdd o wneuthur hynny ſydd o ddau fâth, yn gyntaf, trwy ei *Gweddi*; nhw a ddylent beunydd trwy weddi ddifrifol ei Gorchymyn hwynt i nodded Duw a'i fendith, yn gyſtal am ei llywyddiant yſprydol ag amſerol; ag yn ail, trwy ei *Duwioldeb*; rhaid iddynt fòd yn gyfryw rai ei hunain ag y bo i fendith ddeſcyn oddiwrthynt ar ei heppil. Hyn a addewir yn fynych yn y Scrythyrau i'r duwiol, y bydd ei *hâd hwynt yn fendigedig*. Felly yn yr *ail Gorchymyn*, y mae Duw yn addaw *dangos trugaredd i filoedd o'r rhai a'i carant ef, ag a gadwant ei Orchymynnion*. Ag mae 'n addas ddal ſulw ar yr *Iddewon*, er ei bód yn *genhedlaeth war galed*, ag iddynt annog Duw yn ddirfawr i ddigofaint, etto yr oedd Duwioldeb ei *henafiaid* hwynt, *Abraham*, *Iſaac*, a *Iacob*, yn annog Duw yn fynych i 'w gwared hwynt rhag diniſtr; o'r tu arall, ni a welwn ddarfod i ddynion dâ lwyddo yn waeth oblegid anwireddau ei Tadau; felly pan ddeſtrywiaſei *Ioſiah* Ddelw-addoliaeth, yn gymmaint ag yr adferaſei waſanaeth Duw, ag y gwnaethai ddaioni tu hwynt

hwynt i'r holl Frenhinoedd a fuaſe o'i flaen ef, etto yr oedd *hên gyffiſon* o eiddo ei *Dâid Manaſſeh* yr hyn nid allei ei holl dduwioldeb ef mo'i deleu, ond y mae Duw yn ymròi i ſwrw *Juda heſyd o'i olwg*, ſal y darllennir yn ehelaeth yn, 2 *Bren.* 23. Os oes gan hynny ddim ymyſcaroedd gan Rieni, na dim tynerwch tu ag at ei Plant, neu wîr ddymuniad o'i llwyddiant, cymmerant ofal trwy ei buchedd dduwiol ei hunain i adael bendith iddynt o'i hôl. Sul XIV.

26. Yn *chweched*, Rhaid i *Rieni* ofalu ar iddynt arferu ei hawdurdod tros ei Plant trwy bwyll a *Chymmedrolder*, heb ei gorthrymmu a *Gorchymynion anrheſymol* yn unig er mwyn dangos ei hawdurdod; ond mewn pôb pêth pwyſawr yſtyried gwîr ddaioni ei Plant, a gochelyd ei cymmell nhw i ddim a fo gwrthwyneb i hynny. Rhèol yw hon a ddyle Rhieni yn fynych ei harferu, ond yn enwedig wrth *Briôdi ei Plant*, ymmhâ bèth y bû llawer ar fai y rhai oeddynt mewn pethau eraill yn Rhieni dâ; pan fônt o wîr awydd i 'w gwneuthur nhw yn gyfoethog, yn ei cymmell hwynt i briodi yn hollawl yn erbyn ei meddwl; yr hyn ſydd greulondeb mawr, ag ſydd yn fynych yn dwyn arnynt liaws o drygau, y cyfryw ag na ddichon hôll olud y bŷd ei diwygio. Y mae dau bèth a ddyle Rhieni ei yſtyried yn enwedig wrth *Briòdi ei Plant*; yn gyntaf, pa fodd y gallont fyw yn Griſtianogawl; ag i'r diben hwnnw nhw a ddylent ddewis iddynt ûn rinweddol a duwiol; yn ail, pa fodd y gallont fyw yn llawen ag yn gyſſurus yn y bŷd hwn, ag i'r diben hwnnw edrychant am gymmedroldeb ond nid gormodedd o olud, yr hyn ni ddylen nhw yn rhŷ daer mo'i chwennychu; *Peidio a rhoddi neb-rhyw Orchymynion anrheſymol.*

Sul XIV. chwenhychu; y peth a wna'r cyfiwr hwnnw yn ddeddwyddach o lawer yw, i'r ddwyblaid garu a hoffi ei gilydd, heb pa un Priodas yw'r cyfiwr mwyaf anghyffurus yn y byd, ag am hynny ni ddyle Rhieni wthio ei Blentyn ar hymny o'i anfodd. A hynny am y Garennydd o Rieni.



SUL

Sub XV.

SUL XV.

Am Ddled-ſwydd tu ag at ein Brodyr a'n Cyfneſeiſiaid, Gwr, Gwraig, Ceraint, meiſtred, Gwenidogion.

1. YR ail ſath o Garennydd yw, *Brawd*; y mae Brawdgarwch o ddau fath, *naturiol* neu *Yſprydol*; fe ddichon y *naturiol* yn ei yſtyriaeth helaethaf gynnwys tani holl ddynol ryw ar ſydd yn gyfrannog o'r unrhyw natur; ond nid felly y cymmeraf hi ymma, gan ddarfod i mi yn barod oſôd ar lawr y Dledſwyddau cyffredinol hynnu a berthyn i bawb yn yr yſtyriaeth honno. Yr ŵyf yr awrhon yn traethu am y Brawdgarwch naturiol hwnnw ſydd rhwng Plant yr ûn Rhieni; a Dledſwydd y rhain yw bôd ganddynt ûn galon, ag ûn meddwl: hyn y mae natur yn ei ddangos iddynt, gan ei bôd nhw yn gyfrannogion mewn môdd mwy arbennig o ſylweddd ei gilydd, ag am hynny fe ddyle fôd ganddynt yr addfwynder a'r caredigrwydd mwyaf y naill tu ag at y llall; fal hyn y gwelwn *Abraham* yn ymreſymmu, *na ddyle bôd ymryſſon rhyngdo ef a Lot, oblegid brodyr oeddynt*, Gen. 13. 8. Ag er nad ydys yno yn meddwl wrth frodyr ond yn unig ceraint agos, etto y mae hyn yn cadarnhau 'r péth yn well, ſef, y dyle 'r Carennydd nês ymma ſôd yn achos o fwy rhwyſtr i ymryſſon, ag hefyd rôd i'r caredigrwydd hwn gyrrhaeddud mewn rhyw feſur at bôb Carennydd o waed i ni. *Dled tu ag at Frodyr.* *Naturiol.*

2. Fe

Sul XV.

2. Fe ddyle 'r addfwynder a 'r *Cariad* hwn rhwng Brodyr a Chwiorydd fôd gwedi ei ſylfaenu yn ddiſigl yn ei Calonnau hwynt, onid-è, fe ſyddant hwy yn anad nêb mewn perigl o amrafaelio; oblegid fe ſydd yr ymarweddiad waſtadol ſydd rhyngddynt tra 'i bônt gartref yn nhŷ ei Tâd yn debyg i roi rhyw achos o ymryſſon. Heblaw hyn, y mae ei gogyſtadledd nhw wrth anedigaeth yn gwneuthur iddynt yn fynych dueddu i genfigennu ei gilydd, pan ddarchefir y naill mewn môdd yn y bŷd uwch law 'r llall. Fal hyn y gwelwn frodyr *Joſeph* yn ei genfigennu ef, am fôd ei Dâd yn ei *garu* ef yn fwyaf; a *Rachel* oedd yn cenfigennu ei chwaer *Leah* am ei bôd hi yn *ffrwythlon*; am hynny er mwyn gochelyd y cyfryw broſedigaethau, bydded, gan y rhai ſydd ganddynt frodyr a Chwiorydd, wir a difriſol gariad iddynt gwedi ei ſefydlu yn ei meddyliau, gan edrych arnynt megys rhan o honynt ei hunain, ag yna ni thybian nhw byth yn gymwys gwerylu a hwynt, na chenfigennu iddynt ei llwyddiant, mwy nag y cenfigenna ûn rhan o 'r Corph lwyddiant y llall, ond nhw a ymegniant i gynnorthwyo ag i yrru ymlaen ddaioni ei gilydd.

Cariad yn angenrheidiol ymŷſg brodyr.

Brawdgarwch Yſprydol.

3. Yr *ail* fâth o frawd-garwch yw 'r *Yſprydol*; mae hwn yn cynnwys y rhai ôll ſydd yn proffeſſu 'r ûn ffŷdd a ni: Y mae 'r Eglwys yn ein *Bedydd* yn dyfod i fôd yn fam i bôb ûn a fedyddir; ag yna yn ddiammeu y rhai ſydd yn Blant iddi hi ſydd heſyd yn frodyr y naill i 'r llall; ag y mae 'n dyledus arnom i 'r fâth ymma o frodyr heſyd lawer jawn o dynerwch a chariad; fe ddyle Rhwymyn yſprydol Creſydd, yn anad ûn arall, ûno ein Calonnau ni fwyaf. Dymma 'r brawdoliaeth y mae St. *Petr* yn ein cyng-

cynghori ni i 'w garu; 1 *Pet.* 2. 17. Ag i hwn yr ydym yn rhwymedig mewn môdd enwedigol i wneuthur pôb cymwynas ar a allom; *Gwnawn ddâ* medd yr Apoſtol, *i bôb dyn, end yn enwedig i'r rhai ſydd o deulu 'r ffŷdd*; Gal. 6. 10. Rhaid i'n hymyſgaroedd ni fôd yn dynerach tu ag attynt hwy yn ei hôll angenrheidiau na thu ag at rêb arall; y mae Criſt yn dywedyd i ni, *Pwy bynnag a roddo ond phioled o ddŵfr oer i ùn yn enw Diſcybl, ni chyll efe mo'i wobr*, Mat. 10. 42. O ba lè ni a allwn ein ſiccrhau ein hunain fôd y Cariad neillduol hwn i Griſtianogion, megis i Griſtianogion, yn gymmeradwy iawn yn ei olwg ef. Sul XV.

4. Fe ofynnir gennym amryw Ddledſwyddau tu ag at y Brodyr hyn; ûn arbennig yw, cadw *cyſundeb* a hwynt, a hynny yn gyntaf, mewn Athrawiaeth; rhaid i ni barhau 'n ddibaid i gredu a phroffeſſu 'r holl wirionedd angenrheidiol hynny, trwy ba rai y gellir ein nodi ni allan megys dilyn-wŷr a Diſcyblion i Grift; dymma 'r *ffŷdd* y mae St. *Judas* yn ſôn am dani, *yr hon a roddwyd unwaith i'r Saint*, Jud. 3. trwy gadw pa ûn yr ydym ni, oblegid ein proffes, yn parhau 'n waſtad mewn undeb a'r brawdoliaeth yſprydol hwn, yr hyn ſydd raid i ni yn ddibaid ei wneuthur, er maint o demheſtloedd ag o erledigaethau a fo 'n canlyn, yn ôl cyngor yr Apoſtol, *Heb.* 10. 13. *Cadwn gyffes ein gobaith yn ddiſigl.* Yn ail, rhaid i ni heſyd ar bôb odfa gyfrannogi a hwynt mewn pôb ſwyddau ſanctaidd; rhaid i ni ſynych-gyrchu yn ddiwyd gymmanfáu 'r ſeinctiau, yr hyn yw megys arwydd hynod ein Proffes ni; ag am hynny y mae pwy bynnag a ymgeidw oddiwrthynt hwy yn ewyllyſgar, yn rhoi achos i ammeu ei fod ef yn barod

Ein Dled yw cadw cyſundeb a'n Brodyr hyn.

Sul XV. i ymwrthod a'r lleill heſyd. Ond ni a welwn fôd y Criſtianogion cyntaf yn cadw yn fanwl y rhan ymma o gyfundeb, *Act.* 2. 42. *Yr oeddynt yn parhau yn Athrawiaeth yr Apoſtolion, a chymdeithas, ag yn rorri bara, ag mewn Gweddiau*: yr oeddynt yn parhau, a hynny yn ddi-yſcog; ni rwyſtrwyd monynt oddiwrth hynny trwy neb-rhyw erledigaeth, er ei bôd yn yr amſeroedd hynny yn cael ei Profi a'r Penydiau toſtaf; yr hyn a ddichon ein dyſcu ni, nad all yr enbydrwydd ſydd yn dilyn y ddledſwydd hon ein rhyddhau ni oddiwrthi.

Cyd-ddwyn a'i Gwendid. 5. Yn *ail*, Rhaid i ni gyd-ddwyn a *Gwendid* ein Brodyr Criſtianogawl, yn ôl cyngor St. *Paul*, *Nyni y rhai cryfion a ddylem ddwyn gwendid y rhai gweniaid*, *Rhuf.* 15. 1. Os digwydd i ûn ſydd yn addef holl angenrheidiol wirionedd Griſtianogawl, gyfeiliorni mewn rhyw bêth, ni wafanaetha i ni am hynny ymwrthod a'i gyfundeb, na dirmygu ei berſon. Hyn y mae St. *Paul* yn ei ddyſgu i ni ynghyflwr y *brawd gwann hwnnw yr hwn trwy amryfuſedd oedd yn petruſo yn ddi-achos ynghylch bwydydd*, *Rhuf.* 14. llê y mae fo'n gorchymyn i'r Criſtianogion cryfion, hynny yw, y rhai trwy gael ei haddyſcu yn well oeddynt yn dirnad ei fôd ef yn camſynniad, etto i'w dderbyn ef er hynny i gŷd, ag nid ei ddirmygu ef; fal o'r tu arall, y mae fo'n gorchymyu i'r gwann na farno 'r hwn ſydd yn gryfach; rhaid yw cyd-ddwyn o'r ddeu-tu a'r amryfuſeddau lleiaf mewn tŷb, a gochelyd gadael iddynt leihau ein Cariad brawdol y naill tu ag at y llall.

Ei hadferu gwedi iddynt Gwympo. 6. Yn *drydydd*, rhaid i ni ymegnïo i adferu pôb brawd a gwympodd, hynny yw, ei ddwyn ef i edifeirwch, gwedi iddo gwympo i ryw bechod. Fal hyu y mae St. *Paul* yn gorchymyn

i'r

i'r *Galatiaid adferu 'r hwn a ddaliwyd ar ryw fai, gan yſtyried rhag ei temtio hwythau hefyd.* Na edrychwn arno ef megys adyn, neu ûn gwedi ei lwyr fwrw heibio; ag na ymorfoleddwn chwaith troſto ef oblegid ein diniweidrwydd ein hunain, fal y *Phariſæad balch* tros y *Pwblican truan, Luc.* 18. 11. ond ymegnîwn i'w edfrydu ef trwy fwyneidd dra, gan gofio fôd ein breuoldder ninnau yn gyfryw nad ydym diogel oddiwrth y cyfryw feiau. Sul XV.

7. Yn *Bedwerydd*, rhaid ini gyd oddef a'n Brodyr hyn, trwy fôd yn wîr-deimladwy o bêth bynnag a ddigwyddo iddynt, naill a'i fel yr yſtyrir hwynt mewn cyfeillach, neu fal i maent yn neillduol. Mewn cyfeillach yn gyntaf, ag felly y maent yn gwneuthur i fynu Eglwys; a honno naill ai'r gyffredinol, yr hon a wneir i fynu o'r holl ffyddloniad yn y bŷd; neu ynteu ryw Eglwys neillduol, yr hon a wneir i fynu o'r holl ffyddloniaid yn y genhedl neillduol honno; a pha bêth bynnag a ddigwyddo i'rûn o'r rhain, naill ai i'r holl Eglwys yn gyffredinol, neu ûn cyfryw ran neillduol o honi, yn enwedig honno o ba ûn yr ydym ni ein hunain yn aelodau, rhaid i ni fôd yn wir deimladwy o hynnu, llawenychu yn ei holl lwyddiant hi, a galaru ag ymofidio am ei holl ddifrawd a'i rhwygiadau hi, a gweddîo beunydd ag yn ddifrifol gydâ *Dafydd*, Pſal. 51. 18. *Bydd ddâ yn dd ewyllyſgarwch i* Sion *adeilada di furiau* Jeruſalem; a hynny yn enwedig pan welom hi mewn helbul ag erledigaeth. Pwy bynnag nid yw fal hyn yn deimladwy o gyflwr yr Eglwys, nid ellir edrych arno megys aelod bywiol o honi; canys megys yn y Corph anianol y mae pôb aelod yn deimladwy o lwyddiant y cyfan, felly yn ddiammeu *Cyd-oddef a bwynt.*

Sul XV. y mae ymma; Yſtyriaeth y Pſalmydd oedd, ſôd *gweiſion Duw yn hoffi meini Sion, ag yn toſtario wrth ei gweled hi yn y llwch, Pſal.* 102. 14. Ag yn ddiammeu y mae ei hôll weiſion ef etto o'r ûn meddwl, ni fedrant edrych ar ddiniſtr a difrawd yr Eglwys heb y gofid a'r galar mwyaf. Yn *ail*, rhaid ini gyd-oddef gyda'n Brodyr, wrth ei hyſtyried nhw megys dynion heilldnol; Rhaid i ni ein cyfrif ein hunain megys a pherthynas ini ymmhôb rhyw neilldnol Griſtion, yn gymmaint ag i gyfrannu gydâg ef yn ei holl achoſion, pa ûn bynnag ai o lawenydd neu o driſtwch. Fal hyn y mae'r Apoſtol yn cynghori, *Rhuf.* 12. 15. *Byddwch lawen gyda'r llawen, ag wylwch gyda'r rhai ſy'n wylo:* a thracheſn, 1 *Cor.* 12. 26. tan gyffelybrwydd y Cyrph naturiol y mae ſo'n goſod ar lawr y Ddledſwydd hon, *os dioddefa ûn aelod, yr holl aelodau a gyd-ddioddefant, neu os anrhydeddir ûn aelod, yr holl aelodau a gyd-lawenhânt.* Yr holl amryw effeithiau hyn o gariad ſydd yn ddledus arnom i'r brodyr Yſprydol hyn. A dymma'r Cariad hwnnw y mae Criſt yn ei wneuthur yn arwydd hynod o'i Ddiſcyblion ef, *Jo.* 13. 35. *Wrth hyn yr adnebydd pawb eich bôd yn Ddiſcyblion i mi, os bydd Cariad rhwng pawb o honoch a'i gilydd*; felly onid oes yn ein bryd ni fwrw heibio bôd yn Ddiſcyblion i Griſt na eſgeuluſwn y Cariad ymma tu ag at ein Brodyr.

Y mae'r Wraig yn dylu i'r Gwr.

8. Y *Trydydd* Perthynas ydyw hwnnw rhwng *Gwr* a *Gwraig*: y mae hwn yn nês o lawer na'r ûn o'r lleill, fal y mae'n eglur trwy'r Teſtyn hwnnw, *Eph.* 5. 31. *Dyn a ymedu a'i Dâd ag a'i Fam, ag a lyn wrth ei wraig, ag hwynt hwy a fyddant ill dau yn ûn enawd.* Y mae amryw Ddledſwyddau yn ddledus ar bôb ûn o'r ddau hyn i'w gilydd: ag yn gyntaf, am y Wraig

Wraig, y mae 'n ddledus arni hi *Ufydd-dod.* Sul
Hyn a orchymynnir gan yr Apoſtol, *Col.* 3. 18. XV.
Y Gwragedd byddwch oſtyngedig i eh gwŷr priod, megys y mae yn weddaidd yn yr Arglwydd. Rhaid iddynt roddi Ufydd-dod i 'w Gwŷr priod yn yr Arglwydd; hynny yw, mewn pôb Gorchymynion cyfreithlon; oblegid os amgen, rhaid yw ymma (megys y traethwyd o 'r blaen am Swyddogion) ufyddhau Duw yn hytrach na dŷn, ag nid rhaid i 'r Wraig wneuthur ar archiad ei Gŵr ddim ar y mae Duw yn ei wahardd. Ond mewn pôb pêth nad yw yn gwrthwynebu Gorchymyn Duw y mae 'r gorchymyn ymma mewn grym, ag a wasanaetha i euog-farnu yſtyfnigrwydd anhynaws llawer gwragedd, y rhai a wrthwynebant Orchymynion cyfreithlon ei Gwŷr, yn unig oblegid ei bód nhw yn annoddefus o 'r Ddledſwydd hon o ddaroſtyngeiddrwydd, yr hyn y mae Duw ei hûn yn ei ofyn ganddynt. Ond fe ellir gofyn ymma, bêth os gorchymyn y gŵr ryw bêth, yr hyn, er nad yw anghyfreithlon, etto ſydd yn anweddaidd jawn, ag yn ammhwyllog, ai rhaid i 'r Wraig ymddaroſtwng i 'r cyfryw Orchymyn? I hyn mi a attebaf, nad anufydd-dod a fydd ynthi hi, ond Dledſwydd, ddangos iddo ef yn llaryaidd ag yn dawel anghymmwyſdra 'r pêth, a 'i annog ef trwy dég i alw yn ôl y gorchymyn hwnnw; ond os hi ni ddichon ei ennill ef i hynny trwy erfynion tég, ni wasanaetha iddi arferu araith arw, nag etto yn hollawl wrthod Ufyddhau, gan nad oes dim ond anghyfreithlonrwyd y gorchymyn a ddichon fod yn ddigon iddi am hynny. *Ufydd-dod.*

9. Yn *ail*, y mae 'n ddledus ar y *Wraig ffyddlondeb* i 'w *Gŵr*, a hynny o ddau fâth; yn gyntaf, y Ffyddlondeb a berthyn i 'r gwely, *Ffyddlondeb.*

rhaid

Sul XV. rhaid iddi ei chadw ei hûn yn ddi halog ag yn ddiwair oddiwrth bôb coſleidiad dieithr, ag am hynny rhaid iddi wilied cymmaint a gwrando ar nêb a chwennycho ei llithio, ond bwrw heibio a'r dygn-gâs mwyaf bôb cyfryw ddeiſyfiadau, a gochelyd byth roddi i 'r cyfryw ûn yr achlyſur lleiaf o wneuthur yr unrhyw erfyniad trachefn. Yn ail, y mae 'n ddyledus arni hi yr ûn wêdd ffyddlondeb yn trefnu 'r pethau bydol hynny y mae'r gŵr yn ei rhoddi tan ei dwylo hi, rhaid iddi hi felly ei trefnu hwynt, fal y bo mwyaf er lleſhâad i 'w Gŵr; ag nid trwy ei dwyllo a'i ſiommi ef arferu ei ddâ i 'r cyfryw ddefnyddiau nad yw ef fodlon iddynt.

Cariad. 10. Yn *Drydydd*, y mae *Cariad* yn ddyledus arni iddo ef, a chydâ hynny bôb cymwynaſgarwch a llaryeidd-dra o ymarweddiad: rhaid iddi ymegnîo i ddwyn cymmaint o gymmorth iddo ag o gyſſur yn ei fywyd ag y ſó boſſibl, mòdd y gallo hi trwy hynny atteb y diben arbennig hwnnw o greadigaeth Gwraig, ſêf, *i fôd yn gynnorthwy i 'w gŵr*, Gen. 2. 13. A hyn ſydd raid iddi hi ei wneuthur iddo ymmhôb cyflwr, pa ûn bynnag ai mewn iechyd ai cleſyd, mewn cyſoeth neu dlòdi, neu pa gyflwr bynnag arall a ŵel Duw yn ddâ yn ei ragluniaeth ei oſod ef yntho. Llwyr wrthwyneb i hyn yw pôb Sarrugrwydd a Surni, pôb cynnen ag an-niddigrwydd, oblegid y mae hynny yn gwneuthur y Wraig yn faich trŵm ag yn blâ i 'r gŵr yn llê cymmorth a diddanwch iddo: Ag yn ddiammeu, os yw yn fai i ddŷn ei ymddwyn ei hûn tu ag at arall felly, fal y dangoſwyd yn barod, mwy o lawer yw i ûn wneuthur felly tu ag atto ef, i ba ûn y mae'r Cariad a'r addfwynder mwyaf yn ddlèdus.

11. Ac

11. Ag na thybied y cyfryw *Wragedd* y dichon beiau na throſſeddau yn y bŷd yn y gŵr gyfiawnhau ei hyſtyfnigrwydd hwynt; oblegid ni wnânt hynnu, os yſtyrir na Chrefydd, na phwyll. Ni wnânt o ran *Crefydd*, canys llê y gorchymynodd Duw yn bendant ryw Ddled-ſwydd i'w thalu, ni ddichon annheilyngdod dŷn eſguſodi oddiwrth hynny; nag o ran *Pwyll* ychwaith, oblegid pe gwaethaf a ſo 'r gŵr, rheittiaf gwbl i'r wraig ei hymddwyn ei hûn yn addfwyn ag yn llaryaidd, oblegid fe ddichon hynny yſcatfydd ei ennill ef. Dymma'r cyngor a roddes St. *Petr.* i wragedd yn ei amſer ef, 1 *Pet.* 3. r. *Bydded y Gwragedd oſtyngedig i'w gwŷr priod, fel y galler, os bydde rhai yn an-ufydd i'r gair, trwy ymarweddiad ddiwair y gwragedd, ei hennill hwynt heb y gair.* Fe dybiid ſôd ymddygiad da 'r gwragedd yn foddion galluog i ennill dynion o *Baganeiddrwydd* i *Griſtianogrwydd*; ag yn ddiammeu, fe ſydde rai ffrwythau dâ o hyn yn yr oes hon, pe bydde gan y gwragedd gymmaint o ammŷnedd ag i brofi hyn: O'r lleiaf fe ſydde hyn, fe gadwei bèth diddigrwydd mewn teuluoedd, llè o'r tu arall y mae y ffrwythau drŵg o anniddigrwydd y gwragedd mor hynod, nad oes ond ychydig o gymydogaethau na ddichon roddi Eſampl o hyn. Pa ſawl ùn ſydd yr hwn er mwyn gochelyd trŵſt gwraig ffromm a ſyrthiodd i gadw Cwpeini, a rhrwy hynny i feddwdod, tlôdi, a lliaws o ddrygau? Gocheled pôb Gwraig gan hynny, roddi'i temtaſiwn hwn i 'w Gŵr. Ond pa brŷd bynnag y digwyddo rhyw beth yr hyn y ddyle hi, o wîr garedigrwydd i 'w gŵr, ei rybuddio ef o hono, gwnaed hynny a'r cyfryw addfwynder a llaryeidddra, fal y gellir gweled mai Cariad ag nid digofaint ſydd yn gwneuthur iddi Siarad.

Sul XV.

Nid yw beiau y Gŵr yn rhyddhau oddiwrth y Dled-ſwyddau hyn.

12.

Sul XV.

12. Y mae hefyd amryw Ddledſwyddau ar ran y *Gŵr*; megys yn *gyntaf*, Cariad, yr hwn y mae St. *Paul* yn gorchymyn i ſôd yn dyner ag yn doſturiol tu ag at y Wraig, fal y mae'n eglur trwy'r cyffelybiaethau y mae ſo yn ei arferu i'r diben hwn, *Eph.* 5. Un yw, o'r Cariad ſydd gan ddŷn i'w gorph naturiol ei hûn, *Ni chaſhaodd nêb eiriocd*, medd ef (*gwer* 29.) *ei gnawd ei hûn, eithr ei fogu a'i faethn.* Y llall yw o'r Cariad ſydd gan Griſt tu ag at ei Eglwys; yr hwn ſydd yn fwy o lawer, *gwers*, 25, 26. Y mae fo'n goſod pob ûn o'r rhain ar lawr megys Eſampl o'r Cariad a ddyle ſôd gan wŷr tu ag at ei Gwragedd. Y mae hyn yn hollawl yn gwahardd pób creulonder a garwder iddynt, ſe ddyle gwŷr ei harferu hwynt megys rhannau o honynt ei hunain, a'i caru nhw megys ei cyrph ei hunain, ag felly gochelyd gwneuthur dim a fo trallodus na niweidiol iddynt, mwy nag y torren nhw neu y rhwygent ei cnawd ei hunain. Yſtyried y gwŷr hynny ſydd yn meiſtroli ei gwragedd yn greulon, a phrin yn ei harferu nhw fal dynol ryw, ai ei caru hwynt fal ei Cyrph ei hunain yw hynny.

Mae'r Gŵr yn dyln i'r Wraig, Cariad.

Ffyddlondeb.

13. Ail Ddledſwydd y *Gŵr* yw, *ffyddlondeb i'r gwely.* Hyn y mae Duw yn ei oſyn yn gyſtal gan y gŵr, a'r wraig; ag er bôd y bŷd gan-mwyaf yn edrych ar droſſeddiad y Ddledſwydd hon a llai diflaſwch a ffieidd-dra yn y gŵr, etto ger bron y Barnŵr cyfiawn ni ymddengys y troſſeddiad ddim llai ar du'r gŵr na'r wraig. Hyn ſydd ficer, fôd hynny ymmhób ûn o henynt yn droſſeddiad o'r *adduned* a wnaethant hwy i'w gilydd yn ei *Priodas*; ag felly heb law'r Aflendid, yn Anudonedd hynod; ag nid yw y rhagoriaeth ſydd yn ei wneuthur i edrych yn llai yngolwg dynion namyn oble-

gid

gid yſtyriaeth ſydol, yn hyttrach nag o herwydd y pechod ei hun. Sul. XV.

14. Trydydd Ddlêd y *Gŵr* yw, darparu a chaſclu cynnhaliaeth i'r wraig. Rhaid iddo a dael iddi hi gyfrannu gydag ef yn yr holl bethau daionus hynny oddi-allan a pha rai y bendithiodd Duw ef; ag nid trwy grintachrwydd attah oddiwrthi y pêth a ſo cymwys iddi, nag ychwaith trwy afradlonhwydd treulio ſelly ei ddâ, ſal nad allo rhag llaw ei chynnal hi. Y mae hyn yn ddiau yn ddlêd ar y gŵr, yr hwn gan ei ſod, ſal y dywedwyd o'r blaen, i gyfrif ei wraig megys rhan o'i gorph ei hun, rhaid yw bôd gantho yr unrhyw ofal i'w chynnal hi, ag ſydd gantho troſto ei hun. Ond nid ydwyf yn meddwl wrth hyn eſcuſodi 'r wraig oddiwrth ei rhan hithau o lafur a diwydrwydd, pan ſo hynny yn angenrheidiol, gan mai anrheſymmal yw i'r Gŵr lafurio yn galed i gadw 'r Wraig mewn ſeguryd. *Cynnhaliaeth.*

15. Yn bedwerydd, rhaid i'r Gŵr addyſgu'r wraig, yn y pethau a berthyn i'w hawdd-fyd tragywyddol; os bydd hi yn anhyſpys ynddynt. Felly y mae St. *Paul* yn peri i 'r *gwragedd addyſgu gan ei gwŷr gartref*, 1 *Cor.* 14. 36. ag os ſelly, yna rhaid i'r gŵr ei haddyſgu hi. Yn wîr, ſe berthyn i bôb pen-teulu wneuthur ei oreu ar fôd i bawb tan ei ofal ef gael ei haddyſgu mewn pôb pêth angenrheidiol o'r fâth hyn, ag yna yn ddiammeu yn fwy enwedig ei wraig, yr hon ſydd yn nês iddo o lawer na 'r lleill i gŷd. Fe ddyle hyn wneuthur pobl yn ofalus i geiſio gwybodaeth ei hunain, môdd y gallont gwplhau 'r Ddledſwydd hon tu ag at eraill. *Addyſg.*

Sul XV.

Gwŷr a gwragedd i weddio tros, ag i gynnorthwyo y naill y llall ymmhob Daioni.

16. Yn *ddiweddaf*, rhaid i wŷr a gwragedd *Weddio*, ag erfyn am bôb rhyw rendidion, yn gyftal Yſprydol ag Anſerol, y naill tros y llall; ag ymegnio hyd yr eithaf o'i gallu i wneuthur pôb daioni i'w gilydd, yn enwedig i Eneidiau 'i gilydd; trwy annog i gwplhâad Dledſwyddau a lluddias a thynnu yn ôl oddiwrth bôb pechod, a thrwy fôd fel gwir-lau-gymdeithion yn gymmorth i'w gilydd, i wneuthur pôb mâth ar ddaioni yn gyftal i'w roulu ei hûn ag i bawb eraill o fewn ei cyrrhaeddiad. Hyn yn anad dim arall yw 'r Cariad cywiraf a 'r gwerthfawroccaf. Îe, yn wîr, pa fodd y gellir dywedyd fôd ganddynt fâth yn y bŷd ar gariad y rhai a ddichon oddef i'w gilydd *yn ſodlon* redeg ymlaen mewn ffordd a'i dŵg hwynt i druenı tragywyddol? A phe bydde Cariad gwŷr a gwragedd fal hyn gwedi ei ſylfaenu mewn Rhinwedd a Chreſydd; fe wnai hynny ei bywyd nhw yn fâth ar Nêf ar y Ddaiar; fe rag-flaenei'r holl ymryſſonau a 'r amrafaelion hynny ſydd mor gyffredinol yn ei mŷſg hwynt, y rhai yw dirfawr blâau reuluoedd; a 'r Uffern leiaf yn yr ymdaith i'r fwyaf; ag yn wîr, lle nid yw fal hyn gwedi ei ſylfaenu, nid oes ond ychydig gyſſur i'w ddiſgwyl mewn priodas.

Rhinwedd y wraig i'w yſtyried yn anad dim.

17. Fe ddyle pôb dŷn gan hynny, a 'r ſy'n bwriadu myned i'r cyflwr hwn, yſtyried yn ddarbodus ymlaen llaw, a dewis ûn gyda'r hon y gallo gael y cyfryw gymdeithas Yſprydol, hynny yw, y cyfryw ûn ag ſydd yn *gwir ofni Duw*. Y mae amryw gau ddibennion Priodas yn y bŷd: rhai yn priodi o ran Gyfoeth, eraill o ran Glendid, ag yn gyffredinol rhyw gyfleuſdra bydol yn unig yw 'r cwbl a yſtyrir; ond yr hwn a briodo fal y dyle, a ddylei ddychymmig

chymmig pa fôdd i wneuthur ei Briodas yn fuddiol i'r dibennion goreu hynny o waſanaethu Duw, a chadw ei Enaid ei hûn; o'r lleiaf ſe ddyle fôd yn ſicer na bo'r cyfiwr hwn yn rhwyſtr iddynt, ag i'r pwrpas hwnnw y mae Rhinwedd y ſawl a ddewiſir yn fwy buddiol na hôll olud y bŷd; er nad ŵyf yn dywedyd, na ddylid hefyd edrych am gymmedrolder o hwnnw. Sul XV.

18. Ond o flaen dim, bydded i bawb oſalu na wnelont y cyfryw Briodaſau, ag nid yn unig a all ddigwydd i fôd yn ddrŵg rhag llaw, ond ſydd yn bechodau yn y cyſamſer; a'r ſath hyn yw Priodaſau 'r rhai a *addawyd* o'r *blaen* i *ûn arall*, y rhai yn ddi-ammeu ydynt yn perthyn i'r nêb y gwnaethant hwy'r addewid cyntaf iddo; ag yna i ûn arall ei Priodi hwynt tra bo hwnnw byw, nid yw ddim amgenach na chymmeryd gŵr neu wraig y cyfryw ûn, yr hyn yw *godineb*, ſal y dywed St. *Paul*, *Rhuf.* 7. 3. Anghyfreithlon hefyd yw Priodaſau'r cyfryw rai ag ſydd *o fewn* y *graddau* hynny o *garennydd* a waherddir gan Dduw, y rhai a oſodir ar lawr yn neilldnol yn y 18, a'r 20. o *Lewit.* ag y mae pwy bynnag a briodo ûn o fewn y graddau hynny o garennydd, naill a'i iddo ei hûn, neu'i wraig o'r blaen, yr hyn ſydd cyn-ddrwg, yn euog o'r pechod mawr hwnnw o *Dralloſgach*, a thra'i parhâo fo i fyw gydâ 'r cyfryw wraig anghyfreithlon, y mae fo'n parhau yn yr euogrwydd greſynol hwnnw. Yr aſtudrwydd hwn yn dewis cymmar a attaliai lawer o'r ffrwythau greſynol hynny a welwn ni beunydd yn dilyn y cyfryw briodaſau byrbwyll neu anghyfreithlon; dâ ſydde gan hynny pe edrychei pobl ar Briodas, ſal y mae ein Heglwys ni yn cynghori, megys pêth nid *i'w* *Priodaſau anghyfreithlon.*

Sul XV. *gymmeryd mewn byrbwyll, o yſgafnder meddwl, neu nwyfiant, er mwyn digoni deiſyfiad a chwantau cnawdol; eithr yn barchedig, yn bwyllog, yn ſobr, ag mewn ofn Duw*, ag yn gwneuthur felly nid oes ammeu na bŷdd bendith yn canlyn, yr hyn, os amgen, nid oes ond achos fechan i'w ddiſgwyl. Fe ddarfu i mi bellach a'r Carennydd hwnnw rhwng Gŵr a Gwraig.

Cyfeillach. 19. Y neſſaf yw, rhwng *Cyfeillion*; ag y mae'r perthynaſrwydd hwn, os iawn yſtyrir, yn agos iawn ag yn dra-deſnyddiol; ond nid oes yr ûn a gam-gymmerit ſynychach yn y bŷd na hwn; y mae dynion yn arfer o alw' rheini yn gyfeillion iddynt a pha rai y byddant ſynychaf a chynnefinaf yn ymarweddi, er i'r cynnefindra cû hwn fod ddim ond cyttundeb a chydſynnaid mewn pechod. Y mae'r *Meddwyn* yn ei dybied ef yn garedigol yr hwn a gadwo gymdeithas ag ef; y dŷn *twyllodrus*, yr hwn a'i cynnorthwya ef yn ei ddichellion; y dyn *balch*, yr hwn a'i gwenhieithia ef: Ag felly yn gyffredinol ymmhòb rhyw ddrygau, y rhai hynny a edrychir arnynt megys cyfeillion anwylaf y rhai a'n cynorthwya ni ynddynt. Ond ſe ŵyr Duw fôd hyn ymmhell oddiwrth wîr gyfeillach; y cyfryw gyfaill a hyn yw'r Cythrel ei hûn yn y rådd uchaf, yr hwn nid yw ûn amſer yn ddiffygiol yn y cyfryw ſwyddau. Y gwîr gyfeillach yw yn union yn y gwrthwyneb; ſêf, cydſynniad a chyttundeb mewn Rhinwedd, ag nid mewn Pechod: mewn gair, y mae gwîr gyfaill yn caru ei gydymmaith yn gymmaint ag i fod yn dra-chwannog o'i ddaioni ef; ag yn ddiammeu, pwy bynnag ſydd fal hyn, ni bydd ef bŷth yn achos o'i ddwyn ef i'r drygau mwyaf. Dledſwydd cyffredinol cyfaill gan hynny a grynhôir mewn

Dledſwyddau Cyfeillach yw.

diwyd

lwyd gynllwyniad gwîr fûdd a lleſhâad ei gy- Sul
faill, ymmha ûn y cynnhwyſir amryw rannau XV.
neilldduol.

20. Megys yn *gyntaf*, *ffyddlondeb* mewn pòb rhyw *ymddiried* a orchymynnir iddo gan ei gyfaill, a hynny pa ûn bynnag ai o ddâ, neu o ddirgelwch; yr hwn a fradycho ymddiried ei gyfaill yn yr ûn o'r rhain, ſe ſydd pób dyn yn ei galhau ag yn ei ffeiddio ef, gan mai ûn o'r ffalſder a'r anffyddlondeb mwyaf yw hynny, ag oddiwrth y cyfryw archollion twyllodrus y *ffŷ pôb cyfaill ymmaith*, ſel y dywed y Gŵr doeth, *Eccluſ.* 22. 25. *Ffyddlondeb.*

21. Yn *ail*, Dlêd cyfaill yw *cymmorth* ei gydymmaith yn ei holl angenrheidiau oddiallan; ei gynghori ef, pan ſo arno eiſieu cyngor; ei lonni ef, pan ſo arno eiſieu cyſſur; rhoddi iddo, pan ſo arno ddiffyg cynorthwy; ac ymegnîo i'w wared ef allan o bób helbul, neu enbydrwydd. Eſampl ragorol ſydd i ni o hyn yn *Ionathan* tu ag at *Ddafydd*, *yr oedd ef yn ei garu ef fal ei enaid ei hun*, ag ni a'i gwelwn ef nid yn unig yn llunio módd i'w amddiffyn pan oedd mewn enbydrwydd, ond yn ei beryglu ei hûn i achub ag i waredu ei gyfaill, ag yn dwyn digofaint ei Dâd arno ei hûn, er mwyn ei dynnu ef oddiwrth *Ddafydd*, fal y darllennir yn helaeth, 1 *Sam.* 20. *Cymmorth.*

22. Y *Drydydd* Ddledſwydd cyfaill a'r ſwyaf yw, cymmorth a gwneuthur lleihâad i Enaid ei gyfaill, ymegnîo i oſod honno ymlaen mewn Duwioldeb a Rhinwedd, trwy annog a chyffroi i bób rhinwedd, ei droi ef yn daer ag yn ddifrifol oddiwrth bób pechod; ag nid hynny yn unig yn gyffredinol, ond yn ol ei angenrheidiau neilldduol ef, yn enwedig trwy ei argyoeddi ef yn llymm *Rhybudd a Chyngor.*

Sul XV. llymma ag yn gariadus, lle y gwypo ef, neu y tybio ſo mewn rheſwm iddo ef wneuthur ar fai. Hyn yn anad dim yw gwir arbennig Ddled-ſwydd cyfaill, gan nad oes nêb yn wir yn gymwys i hynny ond y cyfryw ûn. Y mae'r cyfryw anewyllyſgarwch yn y rhan fwyaf o ddynion i glywed ſôn am ei beiau, a bôd yn rhaid i'r nêb a gymmero'r gwaith hwn arno fôd gwedi rhag-feddiannu ei calonnau hwynt yn ddirfawr, cyn ei gwneuthur hwynt yn oddefus o hynny: ie, fo gydnabyddir mor gyffredinol mai priodol waith cyfaill yw argyoeddi, yn gymmaint ag os na wneiff ef hynny, y mae yn bradychu y troſſadd-wr i ddiofalwch: fe wnâ ei fôd ef heb argyoeddi, i'r llall feddwl ond odid nad yw efe yn gwneuthur dim a haedda argyoeddiad, ag felly y mae tan dewi yn chwaren'r *gwenbleithi* arw, trwy ei achleſu a'i gynwys ef yn ei beebôd; pan yſtyrir etto ymmhellach faint o eiſieu'i gynghori a'i argyoeddi fydd ar bôb dŷn ar ryw amſer, fe welir mai perh anghariadus, ie, creulon iawn yw olygu-luſo hynny; y mae gennym ni'r cyfryw dueddiad naturiol tu ag attom ein hunain, na fedrwn ni amgyffred mor barod ein camweddau ein hunain a'r eiddo eraill, ag am hynny tra-angenrheidiol yw i ni, gael gan rai eraill ei dangos hwynt i ni, y rhai fydd yn ei canfod yn eglurach; a gwneuthur hyn ar y cyntaf a ddichon leſtr i neb ei amlhau hwynt ymhellach; lle os cynnwyſir i ni fyned ymlaen heb ein hargyoeddi, fe a ddigwydda 'n fynych yn gyfryw gynnefin arfer, na wnâ argyoeddiad i ni mo 'r lleſhâad. Ag yna pa fôdd y dichon y cyfryw ûn atteb am hynny nag i Dduw, nag iddo ei hûn, yr hwn trwy ei ddiſtawrwydd a fradychodd ei gyfaill i'r drŵg

maws

mawr hwn? Gair Duw ei hûn ſydd yn daethu am gyfaill, *Dy gyfaill yr hwn ſydd ſal dy enaid dy hun*, Deut. 13. 16. Ag yn wir ni a ddylem yn hyn gyfrif ein cyfeillion fal ein heneidiau ein hunain, trwy fôd gennym yr unrhyw dynerwch eiddigus a gofal tros ei heneidiau hwynt ag ſydd gennym tros ein heiddo ein hunain. Cymwyſiawn gan hynny a ſydd i bôb rhai a fo gwedi ei rhwymo ei hunain mewn anwyl gymdeithas wneuthur hyn yn ûn pwngc arbennig yn ei cyntundeb, ſef, bod iddynt rybuddio ag argyoeddi y naill y nall; ag felly feiddigwydda hyn i fod yn gyfryw ran addunedus o'i cyfeillach hwynt, na chatn gymmera'r ûn o honynt yr argyoeddiad hwn am farrugrwydd neu angharedigrwydd. Sul XIV.

13. Yn *Bedwerydd*, rhaid yw adchwanegu *Gweddi* at yr amryw rannau hyn o fwyneiddra; nid digon i ni gymmorth ein cyfeillion ein hunain yn ol ein gallu, ond rhaid i ni alw hefyd am gymmorth yr Holl-alluog iddynt, trwy ei taer erchymyn hwynt i Ddaw amei holl fendithion, yn gyſtal amſerol ag Yſprydol. *Gweddi.*

14. Yn *ddiweddaf*, rhaid i ni fôd yn *Ddiyſgog* yn ein Caredigrwydd, ag nid o wîr yſgafndra meddwl blino ar gyfaill yn nnig oblegid ei fôd ef gennym yn hîr. Y mae hyn yn anghyſiawnder mawr tu ag atto ef, yn hwn, os ymddygodd ei hûn yn dda, a ddyle gael gwneuthur mwy cyſnif o hono, pe hwyaf y parhaodd felly: Ag y mae hyn yn ynſyd-rwydd mawr ynom ein hunain, oblegid nid yw hyn ond bwrw ymmaith y tryſſor mwyaf yn y byd hwn, canys y cyfryw yn ddiammeu yw Cyfaill profedig. Y mae n dbeithaf o ddyniou yn rhybuddio am hyn, *Dihar.* 27. 10. *Bod yn Ddi-yſgod*

Nag ymâd a'th gydymaith dy hun, nag chydymaith

Sul XIV. *maith dy Dâd.* Ié ymmhellach, ni ddyle pób cámwedd gwael dy gyfaill wneuthur i ti ymadel a'i gymdeithas, rhaid yw cyd-ddwyn, péth a gwendid dynien, ag os bydd i ti achos i faddeu iddo ryw béth heddyw, fe all ynteu yſgatfydd gael odfa i dalu hynny yn ôl i ti y foreu; am hynny ni ddyle dim ond anffyddlondeb, neu ryw fai tra-echryſlon dorri y rhwymedigaeth hwn.

Y Gweiſion yn dylu i'w meiſtraid, Ufydd-dod.

25. Y Perthynaſrwydd *ddiweddaf* ſydd, rhwng *Meiſtraid* a *Gweiſion*; ag mae ar bôb ûn o'r rhain Ddledſwydd i'w gilydd: Y *Gyntaf* o eiddo'r Gwâs yw, *Ufydd-dod* i bób Gorchymynion cyfreithlon; hyn a oſynnir yn bendant gan yr Apoſtol, *Col.* 3. 22. *Y Gweiſion Ufyddhewch i'ch meiſtred ymmhób dim*, &c. Ag ni waſanaetha i'r *ufydd-dod* hwn ſód yn ún *grwgnachus* anfodlon, ond yn ewyllyſgar ag yn llawen; megys yr â ymlaen i gynghori, gan *wneuthur gwaſanaeth trwy ewyllys dâ*; ag i'w helpu nhw yn hyn, yſtyrian mai i'r Arglwydd y mae hynny ag nid i ddynion; Duw a orchymynnodd i weiſion fal hyn uſyddhau i'w meiſtred; ag am hynny, yr Uſydd-dod y maent yn ei dalu, i Dduw y mae; ag mae hyn yn ddigon i beri iddynt wneuthur hynny yn ſurriol, er mor ſarrug ag annheilwng a fo'r Meiſtr, yn enwedig os yſtyrir ymmhellach béth y mae'r Apoſtol yn ei ddywedyd, *Eph.* 6. 8. *y derbyn ef wobr gan Dduw am hynn.*

Ffyddlondeb.

26. *Ail* Ddledſwydd *gwás* yw, *ffyddlondeb*, a hwnnw ſydd o ddau fâth; ûn yngwrthwyneb i lygad-waſanaeth, a'r llall i dwyll a hocced. Y râdd gyntaf o ffyddlondeb yw, gwneuthur pób gwaſanaeth cywir i'w feiſtr, nid yn unig pan fo ei olwg ef arno, a phan ddiſgwylio gerydd am ei eſgeuluſdra, ond bób amſer, iè,

pan

pan ni bo 'i feiſtr yn debyg i ganfod ei ſai ef; ag y mae 'r gwâs hwnnw ymmhell oddiwrth fôd yn wenidog ffyddlon, yr hwn ni wnâ gydwybod o hyn; Y mae 'r Apoſtol yn gofod y *llygad-waſanaeth* ymma yngwrthwyneb i 'r *ſymlrwydd calon* hwnnw a ddiſgwylir gan weiſion, *Eph.* 6 5. Yr *ail* fath ar *ffydlondeb* yw, trefnu a goruchwylio yn oneſt bôb pêth a ymddiriedir iddo gan ei Feiſtr, peidio a cham-dreulio ei ddâ ef (ſal y dywedir i 'r *goruchwyliwr anghyfiawn* wneuthur, *Luc* 16.) pa un bynnag a 'i trwy ei afradloni nhw yn ddiofal, neu drwy droi dim o honynt i 'w berchennogaeth ei hûn heb gennad ei Feiſtr; yr hyn yw 'r twyll hwnnw y mae 'r Apoſtol yn rhybuddio gweiſion o 'i blegid, *Tit.* 2. 10. yr hyn nid yw yn wîr ddim amgenach na lledrad; o 'r fâth hyn yw 'r hôll ffyrdd hynny fydd gan y gwenidog i ennill iddo ei hun trwy golledu ei feiſtr, megys trwy dderbyn gwobr er gwneuthur drwg-farchnad troſto, a 'r cyffelyb: Iê, yn wîr y mae 'r cyſryw anffyddlondeb a hyn yn waeth na lledrad cyffredinol, o gymmaint ag yr ymddiriedir mwy iddo, ag y mae bradychu 'r ymddiried hwnnw yn adchwanegu 'r bai. Am y fâth arall o anffyddlondeb, ſef, treulio ei ddâ ef o eſgeuluſdra heb ennill dim iddynt ei hunain, nid oes fawr ragor rhwng hwn a 'r llall, gan y dichon meiſtr golli cymmaint y naill ffordd a 'r llall; ag yna, pan waeth iddo gael ei yſpeilio trwy gybydd-dra neu eſgeuluſdra ei wenidog? Ag y mae hyn yn torri ymddiried yn gyſtal a 'r llall; canys y mae pôb meiſtr yn ymddiried ei orchwylion yn gyſtal i *ofal* ag i *oneſtrwydd* ei wâs: oblegid pa lês i 'r meiſtr fôd yn ſicer nad yw ei wâs yn ei dwyllo ef *ei hûn*, pan yw ef yn y cyſam-

Sul XV.

Sul XV. ſer trwy ddioſalwch yn rhoddi odſa i eraill i wneuthur hynny; y mae gan hynny yr hwn nid yw yn edrych yn ofalus am ſûdd ei feiſtr, yn gwneuthur twyll trwy ymddiried, yn gyſtal a'r hwn a gaſcla 'n anghyſiawn iddo ei hûn.

Llaryeiddra tan Argyoeddion.

27. *Trydydd* Ddledſwydd gŵas yw, ammynedd a llaryeidd-dra tan argyoeddion ei feiſtr, heb *ail-ddywedyd*, fal y cynghora 'r Apoſtol, *Tit.* 2. 9. hynny yw, heb roddi 'r cyfryw attebion ſarrug di-wybod ag a adchwanega ddigoſaint y meiſtr. Pêth rhy gennefin yw hyn ymŷſg gweiſion, iê, yn yr argyoeddion cyfiawnaf; llê y mae St. *Petr*, yn ei cynghori nhw i ddioddef yn ammyneddgar y ceryddon ni bônt yn ei haeddu, ſef, pan fônt *yn gwneuchur yn ddâ, ag yn goddef er hynny*, 1 Pet. 2. 20. Ond nid goddef argyoeddion yn ammyneddgar yw 'r cwbl a oſynnir gan weiſion yn hyn o beth, rhaid iddynt hefyd ddiwygio 'r bai yr argyoeddir hwynt o 'i blegid, ag nid tybied iddynt wneuthur digon, gwedi iddynt (er mor oſtyngedig) wrando ar ei meiſtr.

Diwyddwydd.

28. Pedwerydd Ddledſwydd gwâs yw, *Diwyddwydd*: rhaid iddo yn waſtad wiliedd ar hôll Ddledſwyddau ei lê, heb ymrôi i ddlogi a ſyrthni, nag ychwaith i gadw ofer-gyfeillach, na chwaryddiaeth, na neb-rhyw gwrs afreolus arall, yr hyn a ddichon ei dynnu ef ymmaith oddiwrth achoſion ei feiſtr. Y mae hyn ôll yn Ddledſwyddau anghenrheidiol ar wâs, y rhai ſydd raid iddo ei cwplhau yn ofalus ag yn gydwobodus, nid cymmaint er mwyn gochelyd digoſaint ei Feiſtr, a Duw, yr hwn yn ddiammeu a eilw ar bôb ûn o honynt i gyfrif, pa fodd yr ymddygaſant ei hunain tu ag at ei meiſtred daiarol.

Meiſtraid yn dylu i'r Gweiſion, Gyfiawnder.

29. Y mae hefyd o 'r tu arall rai pethau yn ddyledus ar y *Meiſtred* tu ag at ei *Gweiſion*: megys

gys yn *gyntaf*, y mae 'r meiſtr yn rhwym i fôd yn gyfiawn tu ag attynt, i gyflawni 'r ammodau hynny ar ba rai y cyflogwyd hwynt, y cyfryw yn gyffredinol yw, rhoddi iddynt ymborth a chyflog, ag y mae 'r meiſtr hwnnw a attalio y rhai hyn yn Orthrym-wr. Sul XV.

2o. Yn ail, rhaid i'r meiſtr *Gyngbori* ag argyoeddi ei was am ei fai, a hynny, nid yn unig am feiau yn ei erbyn ei hûn, lle nid oes ond ychydig feiſtred yn ddiffygiol, ond heſyd, ag yn fwy enwedig, am feiau yn erbyn Duw; o achos pa rai y dyle bôb meiſtr ei gythrwblio ei hûn yn fwy nag am feiau ſydd yn unig yn tueddu at ei golled neu i anghyfleuſdra ei hûn, gan yr haedda ddi-anrhydedd Duw, ag enbydrwydd Enaid y gwaelaf o ddyn, ein cythryblu ni yn fwy o anfeidrol na dim arall. Ag am hynny, pan fo meiſtred yn ebrwydd ar dân am ryw eſgeuluſdra bychan ei gwás tu ag attynt ei hunain, ag etto a fedrant edrych arnynt yn ddi-gynnwrf yn rhedeg i'r pechodau mwyaf yn erbyn Duw, arwydd yw hynny ei bôd nhw yn yſtyried ei hachoſion ei hunain yn ormod, a gogoniant Duw ag Eneidiau ei Gwenidogion yr rhŷ fychan. Hyn yn rhŷ gyffredinol yw tymmer Meiſtraid, y maent gan-mwyaf yn ddi-fatter pa fôdd yr ymddŵg ei gweiſion ei hunain tu ag at Dduw, ni waeth ganddynt er mor afreolus a halogedig y bô ei teuluoedd, ag am hynny ni rônt ûn rhybudd na chyngor iddynt i'w hannog i Rinwedd, neu i'w denu oddiwrth ddrygioni; y mae 'r cyfryw Feiſtred yn anghofio y bydd raid iddynt ryw ddŷdd roddi cyfrif pa fodd y llywodraethaſant ei teuluoedd. Yn ddiammeu, Dledſwydd pôb Llywiawdwr yw, ymegnío i adchwanegu Duwioldeb a Chreſydd ymŷſg pawb a fo tan ei ofal, a hyn-

Cyngor.

Sul XV. ny yn gyſtal yn y Llywodraeth leiaf hon o deulu, ag yn y ſwyaf honno o Deyrnas neu genhedl. Yr oedd Dafydd mor ofalus am hyn, a'i fôd ef yn proffeſſu, *Pſal.* 101. 7. *Na thrig o fewn ei dŷ ef yr ûn a wnelo dwyll, ne chadarnheuid yn ei olwg ef yr hwn a ddywedai gelwydd*; yr oedd ef yn ei dybied ei hûn cymmhelled yn rhwym i weled fód ei deulu yn fâth ar Eglwys neu Gymmanfa o wŷr duwiol dihalog: a phe bydde pôb Meiſtred teuluoedd o'r ûn feddwl, nhw a gâent, heb law'r gwobr tragywyddol am hynny ar ôl hyn, fûdd preſennol yn hynny, ſé âe ei hachoſion bydol hwynt yn well ymlaen o lawer; canys, os dygid ei gweiſion hwynt i wneuthur cydwybod o'i ffyrdd, yna ni feiddien nhw fôd nag yn eſgeulus nag yn ffals.

31. Ond megys ag mai Dledſwydd Meiſtraid yw, Rhybuddio ag argyoeddi ei Gwenidogion, felly rhaid iddynt edrych hefyd am wneuthur hynny mewn *modd ddyladwy*, hynny yw, fal y bô cyffelyppaf o wneuthur daioni iddynt; nid mewn gwŷn a chynddaredd, yr hyn ni wnâ i'r gwenidog ond ei ddirmygu a'i gaſhau ef; ond a'r cyfryw ymadroddion ſobr a phwyllog ag a'i gwnelo ef yn deimladwy o'i fai, ag a'i ſiccrhâo hefyd mai gwîr ddeiſyfiad o'i wellhâad ef (ag nid ewyllys i ddangos allan ei gynddaredd ei hûn) ſydd yn gwneuthur i'r Meiſtr fal hyn ei argyoeddi ef.

Eſampl ddâ. 32. *Trydydd* Dledſwydd Meiſtr yw, goſod *Eſampl ddâ* o oneſtrwydd a Duwioldeb i'w weiſion, heb ba ûn ni wnâ ei holl gynghorion, na'i argyoeddion ef ddim lleſhâad; oblegid, os amgen, y mae ſo yn tynny i lawr ſwy a'i *Eſampl* nag yw boſſibl iddo ei adeiladu a'r llall; ag ynfydrwydd yw i feiſtr meddwl neu halogedig ddiſgwyl teulu ſobr, a duwiol.

33. Yn

Sûl XV.

33. Yn *Bedwerydd*, rhaid i'r Meiſtr edrych na bo ar ei Wenidogion eiſieu moddion o gael ei haddyſgu yn ei Dledſwyddau, ag hefyd ar fôd iddynt gael amſeraû arbennig i addoli Duw yn gyhoeddus trwy gael Gweddiau yn y teulu; Ond mi a roiſ hyn ar lawr yn barod wrth draethu am *Weddi*, ag am hynny ni adrodda'i ymma ddim ychwaneg. *Moddion o Addyſg.*

34. Yn *bummed*, Rhaid i'r Meiſtr yn ei holl negeſeuau ei hunan roddi *Gorchymynion* rheſymol a *chymmedrol*, heb oſod ar ei Weiſion fwy beichiau nag a allônt ei dwyn; yn enwedig na ofynno gymmaint o waith ganddynt ag na bo iddynt ddim amſer i'w dreulio ar ei Heneidiau; megys o'r tu arall, ni waſanaetha iddo oddef iddynt fyw mor ſegur, ag a'i gwnelo hwynt nag yn anfuddiol iddo ef, nag a'i bradycho hwynt i ddrŵg yn y bŷd. *Crmmedrolder yn ei Orchymyn.*

35. Yn *chechwed*, rhaid i'r Meiſtr gyſſuro, a rhoi calon yn ei Wenidogion i wneuthur yn ddâ, trwy ymddwyn mor hael a chariadus tu ag attynt ag y bo ei ffyddlondeb a'i diwydrwydd a'i Duwioldeb hwynt yn haeddu: ag yn ddiweddaf, yn ei hôll ymddygiad tu ag attynt, rhaid iddo goſio fôd gantho ef ei hûn (ſal y dywed yr Apoſtol, *Eph.* 6. 9.) *Feiſtr yn y Nêf*, i ba ûn y bydd rhaid iddo ef roddi cyfryf o'i ymddygiad tu ag at ei Wenidog gwaelaf ar y ddaiar. Fe ddarfu i mi bellach redeg ar fyrr trwy'r holl amryw berthynaſau hynny i ba rai y mae ûn Ddledſwydd neilldual yn ddyledus, ag felly ſe ddarfu i mi a'r gainge gyntaf o Ddledſwydd tu ag at ein Cymydogion, ſef, *Cyſſawnder.* *Cyſſur i wneuthur yn ddâ.*

SUL

Sul XVI.

SUL XVI.

Doſparthau eraill o'n Dledſwydd tu ag at ein Cymydog. Am Gariad i Eneidiau dynion, i'w Cyrph, i'w Golud, a'i Henwau dd hwynt.

Cariad. 1. YR *Ail* Doſparth o'n Dled tu ag at ein *Cymydogion* yw, *Cariad.* Hon yw'r Ddledſwydd Efengylaidd fawr honno a orchymynnir i ni cyn ſynyched gan Griſt; y *Gorchymyn Newydd,* (fal y mae efe ei hûn yn ei alw ef, *Jo.* 13. 34.) *ar fôd i chwi garu ei gilydd*; a hyn a adroddir drachefn ddwywaith yn yr unrhyw bennod, ſef, *Jo.* 15. 12, 17. Ag Epiſtol cyntaf St. *Joan* a dreulir agos yn hollawl mewn annogaeth i'r ûn Ddledſwydd hon, trwy hyn ôll y gwelwn nad peth gwael yw Cariad, ond yr hyn a orchymynnir yn gaeth iawn ar bawb ſy'n proffeſſu Criſt. Yn wîr, fe roddes Criſt ei hûn hyn allan megys nôd ag arwydd ei Ddiſcyblion ef, *Jo.* 13. 35. *Wrth hyn yr adnebydd pawb eich bôd yn Ddiſcyblion i mi, os bydd Cariad rhwng pawb o honoch a'i gilydd.*

Newn Tuedd meddwl. 2. Fe ellir yſtyried y Cariad hwn ddwy ffordd; yn gyntaf, mewn *tuedd meddwl*; yn ail, mewn *Gweithredoedd.* Cariad mewn Tuedd meddwl, yw mwyneidd-dra diffuant, yr hon a'n cymmhwyſa ni i ewyllyſio pôb rhyw ddaioni i eraill, a hynny yn ei hôll leoedd a'i perthynaſau, yn yr unrhyw fôdd ag y mae Cyfiawnder yn ein rhwymo ni na ewyllyſiom

ddim

ddim niwed i ún dŷn, nag i'w Enaid, nag i'w Gorph, na'i Olud, na'i enw-dâ: ſelly y mae'r rhan gyntaf ymma o Gariad yn ein rhwymo ni i ewyllyſio pób rhyw ddaioni iddynt ymhób ún o'r rhain. Sul XVI.

3. Ag yn *gyntaf*, am yr *Enaid*. Os oes gennym ond y gwreichionyn lleiaf o Gariad, nid aliwn lai nag ewyllyſio yn ddâ i Eneidiau dynion; nid yw ond rheſymol i ni ddangos ein Caredigrwydd mwyaf a'n hewyllys-dâ goreu i'r pethau gwerthfawr hynny y tybiodd Criſt a haeddai ei prynu a'i waed ei hún; ag am hynny, os nyni ni charwn ein gilydd fal hyn, yr ydym ymmhell oddiwrth Uſyddhau'r Gorchymyn hwnnw o garu megys y carodd ef; canys Eneidiau dynion a garodd ef mor dyner, a darfod iddo wneuthur a dioddef cymmaint troſlynt. Y mae dau ffrwyth mawr ag arbennig o'r cariad hwn o'i eiddo ef tu ag at Eneidiau i *y gyntaf*, ei Pùro hwynt ymma trwy ei Râs; yn *ail*, ei gwneuthur hwynt yn ddedwydd yn dragywyddol yn ei Ogoniant; a rhaid i ninnau goppío allan bób ún o'r rhain cymmhelled yn ein Caredigrwydd, a dymuno o eigion ein Calonnau ar i bób dŷn ddyfod i'r purdeb a'r Sancteiddiwydd hynny *ymma*, fal y gallo fód yn gyfrannog o ddedwyddwch tragywyddol ar *ól hyn*. Fe ellid gobeithio nad allei néb y ſydd gantho Enaid o'i eiddo ei hún fòd mor greulon i Enaid ún arall, ag nad ewyllyſieu hyn yn ddifrifol, oni bae ein bód ni yn gweled fód rhai a'i malis mor gythreulig ag i gyrrhaeddud yn union i'r gwrthwyneb, ſéf, i ddeiſyfu nid yn unig *pechod*, ond hefyd *damnedigaeth* rhai eraill. Fal hyn y bydd rhai, pan ddioddefant ryw gam neu orthrech, yn ei cyffuro ei hunain am fód ei gelynnion yn ei *damnio* ei hunain wrth hynny; pan ddyle hynny *I Eneidiau Dynion.*

fód

Sul XVI. ſód yn ſwy greſynol o lawer i Gryſtion na phenyd yn y bŷd neu orthrymder a allant hwy ei ddwyn arno eſ. Y mae'r hwn ſydd o'r meddwl ymma yn Ddiſcybl i *Satan* ag nid i Grift, gan fôd hyn yn union yn y gwrthwyneb i hôll fwriad y Gorchymyn mawr Criſtianogaidd hwunw, *o garu ein Cymydogion fel ni ein hunain.* Oblegid yn ddiammeu, nid oes neb ar ſydd yn credu fód y cyſtryw béth a *damnedigaeth*, yn ei ewyllyſio hi iddó ei hún; er hoffed gantho'r ſtyrdd ſydd yn denu iddi, eto ni ewyllyſia i *ddamnedigaeth* fód yn ben ei ymdaith ei hún; ag am hynny trwy'r rheol honno o Gariad ſe ddyle arſwydo cymmaint rhag ddigwydd o hynny i'w gymydóg.

I'w cyrph, i'w Golud, a'i henwau dá hwynt.

4. Yn *ail*, rhaid ini ewyllyſio pôb daioni i *Gyrph* dynion, ſef, pob rhyw iechyd a dedwyddwch; yr ydym gan-mwyaf yn dyner iawn o'n Cyrph ein hunain, yn ofni'r boen neu'r niwed lleiaf a âll ddigwydd iddynt: yr awrhon, y mae Cariad, trwy rinwedd y Gorchymyn rhagddywedig, yn eſtyn allan y tynerwch ymma at bawb eraill, a pha béth bynnag a dybiom yn ofidus i ni ein hunain, rhaid i ni ſód yn anfodlon iddo ddigwydd i eraill. Yr ûn péth ſydd i'w ddywedyd am y ddau eraill, ſef, ei Golud, a'i henwau dá hwynt; fal megys ag yr ydym ni yn ewyllyſio ein gwellháad a'n brî ein hunain, felly y dylem hefyd eiddo eraill, onid-ë, nid ellir byth ddywedyd ein bód ni yn *caru ein Cymydog fal ni ein hunain.*

Ffrwythau Cariad.

5. Fe ſydd i'r Cariad hwn mewn Tuedd meddwl, os bydd yn diffûant, yr amryw ffrwythau hyn, y rhai ſydd mor ddi-wahan oddiwrtho a'i bód hwynt yn fynych yn y Scrythyr yn cael ei cyfrif megys rhannau o'r Ddleddwydd, ag felly a oſynnir yn dra-chaeth ar ein llaw ni; Yn *gyntaf*,

ſe

ſe a geidw'r meddwl mewn tymmer heddychlon a *llaryaidd* tu ag at eraill, cymmhelled oddiwrth geiſio achoſion o ymryſonau, ag na ddichon annogaeth yn y bŷd ein denu ni i hynny; oblegid anhawdd iawn i ni gwerylu llè y bô gennym Garedigrwydd, gan mai ûn o gynnheddfau arbennig Cariad yw, *na chythruddir moni yn hawdd*, 1 *Cor.* 13. 5. Ag am hynny y mae pwy bynnag ſydd yn *annhangneddyfus* yn dangos nad yw'r *Cariad* hwn yn ei galon ef. Yn *ail*, ſe a gyd-toſturia a holl drueni rhai eraill; y mae pôb anffawdd a ddigwydd llè y byddom yn ewyllyſio yn ddâ, yn fâth ar drychineb ag aflwydd i ni ein hunain; ag am hynny, os ydym yn ewyllyſio yn ddâ i bawb, ni a ddylem fal hyn ein hymddwyn ein hunain am drueni pawb, ſêf, ymofidio yn ddifrifol wrth weled neb mewn helbul, a hynny yn ôl fel y bo'r gofid arnynt. Yn *drydydd*, fe a wnâ Cariad i ni lawenhychu yn llwyddiant rhai eraill; fe ddywed *Solomon*, *Dihar.* 13. 19. *Mai dymuniad wedi ei gyflawni ſydd hyfryd gan yr Enaid*; ag os felly, yna pwy bynnag ſydd gantho'r ewyllys difrifol hwn o ddedwyddweh ei Gymydog, y mae ei ddymuniad gwedi ei gyflawni yn ei lwyddiant ef, ag felly nid all ef ond ymfodloni ag ymhyfrydu yn ddirfawr yn hynny. Y mae St. *Paul* yn yr ûn man yn gorchymyn pôb ûn o'r rhain, *Rhuf.* 12. 15. ſef, *bòd yn llawen gyda'r llawen, ag wŷlo gyda'r rhai ſy'n wŷlo.* Yn *bedwerydd*, fe a'n hannog ni i weddio tros eraill: yr ydym o honom ein hunain yn greaduriaid llèſg egwan, heb allu rhoddi bendithion llè yr ewyllyſiom fwyaf; am hynny, os ydym yn gwirddeiſyfu daioni eraill, rhaid i ni geiſio hynny droſtynt gantho *ef* oddiwrth ba ûn y mae pôb *rhòdd ddâ a pherffaith yn dyfod*, *Jago* 1. 17. Y mae hyn yn rhan mor anghenrheidiol o Ga-

Sul XVI.

Sul XVI. riad, nad yw ein mwynder ni hebddi ond pêth di-ſylwedd, a mâth ar ofer-foes gwâg. Oblegid pa fôdd y gellir credu fôd gantho ef wîr ewyllys da i ûn yr hwnn i chlyw yn ei galon weddio troſtó, heb yr hyn béth nid yw ei ewyllyſion ef ond gwâg a di-ſuddiol? Nid oedd yr Apoſtol yn rybied yn gymwys adael dynion i'w hewyllyſion dâ yn unig, ond y mae eſe yn annog fôd *ymbil, gweddiau, a thalu diolch dros bôb dyn*, 1 *Tim.* 2. 1. Yr hwn orchymyn ſe gyd-ffurfia pôb dŷn ag éf yn barod ar ſydd gantho'r gwîr garedigrwydd calon ymma. Y mae'r amryw bethau hyn mor naturiol yn ffrwythau o'r Cariad hwn, ſal nad yw'r dŷn hwnnw ond ei ſiommi ei hûn ar ſydd yn meddwl fód y Cariad hwn gantho, yr hwn ni ddichon ddangos hynny yn eglur trwy'r ffrwythau hyn.

Mae Cariad yn bwrw allan Genſigen. 6. Ond y mae etto odidowgrwydd ychwaneg o'r grâs hwn; y mae yn cadw'r meddwl yn ddiogel oddiwrth amryw droſſeddiadau dirſawr a pheryglus; megys yn *gyntaf*, oddiwrth *Genſigen*; hyn, medd yr Apoſtol, yw priodoldeb Cariad, 1 *Cor.* 13. 4. *Cariad ni chenſigenna*, ag yn wîr, ſe all rheſwm cyffredin gadarnhau hyn i ni; oblegid gofid yw *Cenſigen* am lwyddiant arall, ag am hynny rhaid iddo fôd yn union yngwrthwyneb i'r deiſyfiad hwnnw yr hwn a ddangoſaſom o'r blaen Sydd yn tarddu o Gariad; yn gymmaint, ag os yw Cariad yn rheoli yn y galon, yn ddiau ſe a ymlid allan *genſigen*. Mor ofer gan hynny y cymmer y rheini arnynt fôd y Rhinwedd hon ganddynt, y rhai ydynt yn waſtad yn grwgnach ag yn ymofidio am bôb damwain ddâ a ddigwydd i eraill?

Falchder. 7. Yn *ail*, y mae Cariad yn cadw i lawr *Falchder* ag *Uchder-meddwl*. Hyn hefyd y mae'r Apoſtol yn ei ddyſgu ini, 1 *Cor.* 13. 4. *Cariad nid yw anhydyn, nid*

nid yw yn ymchwyddo; ag yn gyfattebol i hyn ni a welwn, mai llé y gorchymynnir y Rhinwedd hon o *Gariad*, yna y cyſſylltir hefyd *ddaroſtyngeiddrwydd*: megys *Col.* 3. 12. *Gwiſgwch ymyſgaroedd toſturiaeth, goſtyngeiddrwydd, addfwynder*, a *Rhuf.* 12. 10. *mewn Cariad brawdol byddwch garedig i'w gilydd, gan flaenori ei gilydd, yn rhoddi parch*; llê y gwelwch mor agos y cyd-ſylltir y ddau ymma, ſef, goſtyngeiddrwydd a Chariad. Y mae hwn yn wîr yn tarddu yn naturiol o gariad, canys y mae Cariad yn waſtad yn goſod brî a pharch ar y pêth a gerir; fal hyn y gwelwn yn rhŷ ſynych mewn neillduol-gariad, yr hwn a wnâ i ni feddwl yn uchel o honom ein hunain, ein bôd ni yn ſwy rhagorol na dynion eraill. Yr awrhon, os ymddug Cariad a ſo fal hyn gwedi ei ſefydlu arnom ein hunain falchder, trown ond yn y gwrthwyneb, a throſwn y Cariad hwn ar ein Brodyr, ag ſe yn ſiccr a ymddug oſtyngeiddrwydd; canys yna ni a welen ag a barchem y donniau a'r godidowgrwydd hynny o eiddo eraill, y rhai y mae ein balchder ni yr awrhon, neu ein Caſineb yn gwneuthur i ni ei dirmygu, neu ei heſgeuluſo; ag nid tybied yn rheſymol na 'i dibriſio hwynt na 'n mawrygu ein hunain ar y cyfryw gyffelybiaeth; ni a welen yn ddiammeu achos i arferu cyngor yr Apoſtol, *Phil.* 2. 3. *I dybied eraill yn well na ni ein hunain.* Pwy bynnag gan hynny ſydd cyfuwch ei feddwl ag i ddirmygu a dibriſio eraill, gwybydded yn ddiammeu nad yw 'r Cariad hwn gwedi gwreiddio yn ei galon. Sul XVI.

8. Yn *drydydd*, y mae yn bwrw ymmaith *Gam-dŷb*, a *barn fyrbwyll*; Cariad, medd yr Apoſtol, (1 *Cor.* 13. 5.) *ni feddwl ddrŵg*, ond o'r tu arall, fal y mae 'n canlyn, *gwer.* 7. *y mae 'n credu* *Cam-dŷb.*

Sul XVI. *credu pôb dim, yn gobeithio pôb dim*; hynny yw, y mae yn barod i gredu ag i obeithio 'r goreu am bôd dŷn; ag yn wîr, y mae 'n Gwybodaeth ein hunain yn dywedyd i ni yr ûn peth, canys llê y bôm ni yn caru, nid ydyw mor hawdd gennym ganſod beiau, er maint ſyddont; (ſal y tyſtia 'r dallineb mawr ſydd gennym yn gyffredinol tu ag at yr eiddom ein hunain) ag ſelly yn ddiammeu, ni a fyddwn pell oddiwrth wneuthur beiau llê ni bônt, neu 'i gwneuthur nhw yn fwy nag, yn wîr, y maent: Ag yna, o balê y mae 'r tŷb annrhugarog a 'r barnau byrbwyll o eraill mor gyffredinol ymyſg dynion yn tarddu, ond o eiſieu 'r Cariad hwn?

Led-rith. 9. Yn *Bedwerydd*, y mae 'r Cariad ymma yn bwrw heibio *Led-rith* a mŵynder ffugiol; llé y mae 'r gwîr a 'r diffûant gariad hwn, y mae 'r ûn ffals ffugiol hwnnw yn diflannu; a dymma'r Cariad a orchymynnir i fôd gennym, ſêſ, *Cariad heb ragrith*, *Rhuf.* 12. 9. Yn wîr, llê y bó hwn wedi ei wreiddio yn y galon, ni ddichon bôd defnydd yn y bŷd o Ragrith: oblegid y mae hwn mewn gwirionedd yn gymmaint ôll ag y chwennychei 'r ûn ffals ymddangos i fôd, ag ſelly y mae ef cymmhelled tu hwynt iddi hi, ag y mae Natur tu hwynt i gelfyddyd; neu yn hyttrach cymmhelled ag y mae rhinwedd dduwiol tu hwynt i bechod ffiaidd, canys y cyf yw beth yw 'r Caredigrwydd rhagrithiol hwnnw; ag etto ſe ellir ofni fôd hwnnw yn rhŷ fynych yn trais-feddiannu lle 'r gwîr gariad hwn; y mae 'r ffrwythau o hyn yn rhŷ hynod yn ein mŷſg ni, gan nad oes dim yn fwy cyffredin na gweled dynion yn gwneuthur addewidion helaeth o Gariad i 'r rhai cyn gynted ag y trôant ei ceſnau y bônt hwy naill ai 'n ei gwatwor neu 'i drygu.

10. Yn

10. Yn *bummed, Nid yw Cariad yn ceiſio yr eiddo ei hunan*, 1 *Cor.* 13. 5. Y mae o dymmer mor hynaws a boneddigaidd, a'i bôd yn dirmygu pôb cynllwynion er mwyn ei bûdd, neu 'i helw ei hunan. Ag am hynny, y mae'r fâth wael farſiandiaidd honno o Gariad mor gynneſinol yn y bŷd, yr hon ſy n ei ſeſydlu ei hûn yn unig lle y bo bûdd i'w ddiſgwyl, ymmhell iawn oddiwrth y Cariad ymma. Sul XVI. *Bûdd-gyn-llwyn.*

11. Yn *ddiweddaf*, y mae 'r Cariad yma yn troi allan o'r galon bôb malis a chwennychiad dîal, yr hyn ſydd yn hollawl mor wrthwynebus iddi hi, nad ydyw boſſibl iddynt ill dau breſwylio yn yr un fonwes; Priodoldeb Cariad yw, *goddef pôb dim*, 1 *Cor.* 13. 7. Cyd-ddwyn a 'r cam mwyaf, heb feddwl gwneuthur ad-tâl yn y bŷd am danynt ond gweddiau a Bendithion; ag am hynny y dŷn maleiſus a'r ymddial-wr yw'r dieithraf yn y bŷd i'r Cariad ymma. *Dîali*

12. Gwîr yw, os bydd rhaid arferu'r Rhinwedd hon ond tu ag at rai mâth ar ddynion, hi a alleu gyd-ſefyſſ a malis tu ag at eraill, gan y dichon ûn yr hwn ſydd yn llwyr gaſhau'r ñaill ddŷn, garu'r llall; ond rhaid i ni yſtyried na waſanaetha goſod terſyn ſelly i'r Cariad ymma, ond rhaid iddo ymyſtyn allan, a chyrrhaeddud pôb dŷn yn y bŷd, yn bendiſaddeu *Gelynnion*, os amgen, nid yw et y Cariad duwiol hwnnw a orchymynnir i ni gan Griſt. Y mae caru ein *cyfeillion u'r ſawl a'n caro ninnau* yn râdd mor iſel o gariad ag y gallei'r *Pwblicanod a'r Pechaduriaid*, ſef, y gwaethaf o ddynion, *ei chyrraeddud hi*, *Mat.* 5. 46. Ag am hynny ni chyfrifir moni i haeddu gwobr yn y bŷd mewn Diſcybl i Griſt; na wnêir, ſe ddiſgwylia ſo i ni ehedeg yn uwch, ag am hynny y goſododd ef i ni y Gorchymyn mwy *Cariad yn ddleddu i'n Gelynion.*

Yſprydol

Sul XVI. Yſprydol a rhagorol hwn o garu ein gelynnion, *Mat.* 5. 44. *Yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, cerwch eich Gelynnion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, a gweddiwch tros y rhai a wnèl niwed i chwi ag a'ch erlidiant*; a phwy bynnag ni wnelo fal hyn, ni chymmerir mono fŷch am Ddiſcybl i Griſt. Rhaid i ni gan hynny wybod ſôd y cwbl ar a draethwyd ynghylch y Cariad hwn yn perthŷn yn gyſtal i'n gelyn mwyaf ag i'n cyfaill anwylaf. Ond oblegid mai Dledſwydd yw hon i bâ ûn y mae natur ffromllyd dŷn yn annhueddus iawn iddi, mi a fyfyriaf ychydig ar rai yſtyriaethau i'n hannog ni iddi.

Annogaethau i'r Cariad ymma.

13. Ag yn gyntaf, yſtyriwch bèth a ddywedwyd yn barod, mai *Gorchymyn* Criſt yw hyn yn y Teſtyn a oſodwyd ar lawr uchod, ag mewn amryw eraill; gan nad oes ond prin ûn Gorchymyn a roddir ar lawr mor fynych yn y Teſtament newydd a hwn o garu a maddeu ein gelynnion; megys *Eph.* 4. 32. *Byddwch gymmwynaſgar i'w gilydd, a thrugarogion, gan faddeu i'w gilydd*; a thrachefn. *Col.* 3. 13. *Gan gyddwyn a'i gilydd, a maddeu i'w gilydd, os bydd gan ûn gweryl yn erbyn nêb: megys y maddeuodd Criſt i chwi, felly gwnewch chwithau*; felly hefyd, 1 *Pet.* 3. 9. *Nid yn talu drŵg am ddrŵg neu ddirmyg am ddirmyg; eithr yn wrthwyneb, bendithiwch.* Aneirif o leoedd a ellid ei dwyn i'r pwrpas hwn, ond y mae y rhain yn ddiammeu yn ddigon i brofi yn eglur ſôd Criſt yn gorchymyn i ni hyn yn gaeth; ag yn wir, yr ywfi'n meddwl nad oès nemmawr a glywodd erioed ſon am yr Efengyl, na ŵyr hyn; mwy rhyfedd aruthtol yw ſôd dynion ſy'n ei galw ei hunain yn Griſtianogion heb roddi Uſydd-ded yn y bŷd iddo, ag nid hynny yn

Gorchymyn Criſt.

unig

unig ond adrodd ar gyhoedd ag addeſ y gwr- Sul
thwyneb, ſal y gwelwn rai beunydd yn gwneu- XVI.
thur, yn gymmaint a bôd yn arferol i ddynion lawn-fwriadu a chyhoeddi na faddeuan nhw byth i'r cyſryw a'r cyſryw ddŷn, ag ni ddichon yr yſtyriaeth o Orchymyn Criſt ei troi nhw o'r meddwl hwnnw. Yn ddiammeu, nid yw'r cyſryw ddynion yn deall beth ydys yn ei feddwl wrth y gair *Criſtion*, yr hwn ſy'n arwyddoccau gwâs a Diſcybl i Griſt, a'r Cariad hwn yw arwydd y uaill, a gwers y llall: ag am hynny anghyiſon iawn a di-reſwm yw i rai ei proffeſſu ei hunain yn Griſtianogion, ag etto yn yr ûn amſer gwrthwynebu y Gorchymyn arbennig hwn o eiddo Criſt, yr hwn y maent yn ei gydnabod megys yn *feiſtr* iddynt. *Os ydwyf fi feiſtr*, medd Duw, *pa le y mae fy ofn? Mal.* 1. 6. Y mae Uſydd dod a Pharch yn Ddledſwyddau gweiſion yn gymmaint, na thybiir fôd nêb yn edrych arno ef yn feiſtr i ba ûn nid yw ef yn ei talu hwynt. *Pa ham yr ydych yn fy ngalw i Arglwydd, Arglwydd, gan nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd?* medd Criſt, *Luc.* 6. 46. Yr hôll fŷd a gyfrennir yn ddau deulu mawr, eiddo *Criſt*, ag eiddo *Satan*; ag mae'r Uſydd dod y mae pôb dŷn yn ei dalu yn arwyddoccau i ba ûn o'r meiſtred ymma y mae ef yn perthyn; os ydyw ef yn Uſydd-hau *Criſt*, i *Griſt*; os *Satan*, i Satan. Yr awrhon, nid ellir Uſydd-hau i'r Yſpryd drŵg hwnnw mewn dim yn fwy, na thrwy'r pechod hwn o faiis a dial, y rhwn yw ddim llai na chymmeryd ei wîſg ef am ein cefnau, a chyhoeddi yn hynod gweiſion i bwy ydym. Pa ddigywilydd-dra rhyfeddol gan hynny yw i ddynion y rhai a'i hymroeſant ei hunain ſal hyn i fôd o deulu Satan, gymmeryd arnynt fod yn weiſion

i

Sul XVI. i Grift? Gwybydded y cyſtryw rai yn ddiammeu na chymmer Crift monynt yn eiddo iddo ef, eithr y trŷ efe hwynt, ar y dydd mawr o gyſtrif, at ei Meiſtr ei hûn, i dderbyn ei gwobrau mewn tân a brwmſtan.

Eſampl Dduw am hyn. 14. Yr *ail* yſtyriaeth yw, *Eſampl Duw*: Rheſwm yw hwn y gwelodd Crift ei hûn yn gymmwys ei arferu, er mwyn ymhyrddu'r Ddledſwydd hon arnom, *Luc.* 6. 35, 36. llè, gwedi iddo roddi'r Gorchymyn *o garu gelynion*, y mae yn annog i'r ymarfer o hynny, trwy ddywedyd mai hynny a'n gwnâ ni yn *Blant y Goruchaf*, (hynny yw, a'n gwnâ ni yn debyg iddo ef, fal y mae Plant i'w Rhiêni) *Canys daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drŵg*; ag i'r unrhyw bwrpas y darllennir, *Mat.* 5. 45. *Y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drŵg a'r dâ, ag yn glawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn.* Ag y mae hyn yn ddiau yn yſtyriaeth rymmus iawn i'n hannog ni i'r Ddledſwydd hon. Ni a wyddom mai Duw yw ffynnon perffeithrwydd, a bôd yn debyg iddo ef yw'n cwbl ôll a allwn ni ei ewyllyſio; ag er mai cwymp *Lucifer* oedd ei chwant i fôd yn debyg i'r Goruchaf, etto pe buaſei fo yn chwennych ond yn unig fôd yn debyg iddo mewn Sancteiddrwydd a daioni, fe allaſei etto fôd yn Angel goleuni: Yr ewyllys hwn o ddilyn Eſampl ein Tâd Neſol yw arbennig nôd plentyn iddo ef. Yr awrhon, y mae'r addfwynder a'r daioni hwn i elynion yn dra-hynod a rhagorol yn Nuw, a hynny nid yn unig o herwydd y trugareddau amlerol y rhai y mae efe yn ei rhoddi i bawb yn ddi-wahan, ſef, *ei haul a'i law ar yr anghyfiawn*, fal yn y Teſtyn uchod, ond yn enwedig yn ei drugareddau Yſprydol. Yr ydym ni ôll trwy ein drŵg weithredoedd yn

Elynnion

Elynnion iddo ef, Col. 1. 21. ag ſe ſyrthiaſei echrys y gelyniaeth hwnnw yn hollawl arnom ein hunain; nid oedd gan Dduw annogaeth yn y bŷd heb law ei doſturi tu ag attom ni i chwennych cymmod, etto cymmhelled oedd efe oddiwrth ddial arnom am ein gelyniaeth ni, (ſal y gallaſei 'n hawdd i'n tragwyddol ddiniſtr) a'i fôd ef yn dychymmig ag yn bwriadu pa fôdd i'n dwyn ni i fôd mewn heddwch ag ef. Grâdd anfeidrol o drugaredd a charedigwydd yw hyn, ond y mae'r moddion a arferodd ef i ddwyn hynny i ben tu hwynt etto i hynny; Efe a *anfonodd ei fâb ei hûn* o'r Nefoedd i weithio hyn allan, a hynny nid yn unig trwy addyſg a chynghorion, ond trwy ddioddefiadau hefyd; cymmaint brî a oſododd ef arnom ni greaduriaid truain, ag na thybiodd ef yn rhŷ ddrûd iddo ein prynu ni a gwaed ei Fâb ei hûn. Yr unrhyw Eſampl o drugaredd ag ammynedd a welwn ni yn *Nghriſt*, yn gyſtal *yn goſod ei einioes i lawr troſtom ni ei Elynnion ef*, ag hefyd yn y mòdd llaryaidd hwnnw o wneuthur hynny, yr hyn a oſodir ar lawr yn rhagorol gan yr Apoſtol, 1 *Petr.* 2. 22, 23, 24. ag ſydd er ſiampl î ninnau, *gwer.* 21. Yr awrhon, yn ddiammeu pan yſtyrir hyn ôll, ni a allwn yn ddâ ddywedyd gyda St. *Ioan*, *Anwylyd, os felly y carodd Duw ni, ninnau a ddylem garu ei gilydd*, 1 *Jo.* 4. 11. Mor gywilyddus bêth yw i ni gadw digoſaint yn erbyn ein Brodyr, pan yw Duw ſal hyn yn dodi heibio ei ddigoſaint ef tu ag attom ni, a hynny gwedi i ni ei annog ef mor ddirfawr!

Ein pechodau ni yn erbyn Duw yn aneiriſ mwy na chamweddau ein brodyr i'n herbyn ni.

15. Hyn a'n cyfarwydda ni i'r *drydydd yſtyriaeth*, ſef, cyffelybu ein pechodau ni yn *erbyn Duw*, a chamweddau ein brodyr yn ein herbyn ni, yr hyn cyn gynted ag a gwnelom, ſe

Sul XVI.

Sul XVI. geir gweled rhagoriaeth ddirfawr rhyngddynt, a hynny mewn amryw bethau; canys yn *gyntaf*, y mae *Mawrhydi* yr hwn yr ydym ni yn trofleddu i'w erbyn yn adchwanegu 'r euogrwydd yn ddirfawr, lle ni ddichon bôd cymmaint rhagoriaeth rhwng y naill ddyn a'r llall; canys er bôd rhai dynion gwedi ei derchafu gan Dduw i'r cyfryw uchder breiniol ag a wnâ 'r camwedd a wneir i'w herbyn yn fwy, etto nid ydynt hwy ond dynion o'r ûn Naturiaeth a nhnau, lle y mae fô yn *Dduw bendigedig yn oes oefoedd*; Yn *ail*, y mae ei *oruchafiaeth* a'i allu ef, yr hyn fydd o'r dechreuad yn Nûw, oblegid ei greaduriaid ef ydym ni, ni a dderbyniafom ein cwbl *hanfod* oddiwrtho ef, ag am hynny ydym yn rhwymedig yn y mefur eithaf i berffaith ufydd-dod; lle nid yw'r holl oruchafiaeth a ddichon fôd gan y nafll ddŷn tros y llall ond gwedi ei roddi iddo gan Dduw, a chanmwyaf nid oes dim o hyn ychwaith yn y peth, gan fôd cwerylon yn gynnefinaf rhwng rhai o gyd-râdd. Yn *drydydd*, y mae ei *annherfynol haeiioni* a'i ddaioni ef tu ag attom ni, gan mai ei rôdd ef yn hollawl yw 'r cwbl yr ydym ni yn ei fwynhau, pa ûn bynnag ai yr hyn a berthyn i'r bywyd hwn, neu i ûn gwell, ag felly fe adroddir yr anniolchgarwch mwyaf ar ein camweddau eraill; o herwydd yr hyn beth hefyd ammhoffibl yw i'r naill ddŷn drofleddu yn erbyn y llall yn y cyfryw fefur; oblegid er y dichon ûn fôd (ag mae gormod yfowaith) yn euog o anniolchgarwch tu ag at ddynion, etto o herwydd fôd y doniau mwyaf a ddichon dŷn ei rhoddi, o anfeidrol yn fyrr o'r rhai a rydd Duw, nid all yr anniolchgarwch o lawer fôd cymmaint a hwnnw tu ag at Dduw. Yn *ddiweddaf*, y

mae

mae *mawredd* a *lliaws* ein pechodau ni yn erbyn Duw yn fwy o anfeidrol na 'r hôll rai a ddichon y dŷn mwyaf camweddog ei gwneuthur yn ein herbyn ni; oblegid yr ydym ni oll yn pechu yn fynychach o lawer ag yn echryſlonach yn ei erbyn ef, nag y medr ûn dŷn, er mor fyleiſus fyddo, gael odfâu i ddŷgu ei frodyr. Yr anghyfartalrwydd a 'r anghymmeſurwydd hwn y mae ein Hiachawdr yn cŷbwyll am danynt yn y ddammeg, *Matth.* 18. lle yr arwyddoccêir ein camweddau ni yn erbyn Duw trwy 'r *deng môl o dalentau*, ag y portreir eiddo ein brodyr yn ein herbyn ninnau trwy 'r *can ceiniog*; y mae Talent yn drymmach o anfeidrol na cheiniog, a deng mil yn fwy o rîf o lawer na chant, etto cymmaint a hynny a mwy o lawer y mae pŵys a nifer ein pechodau ni tu hwynt i holl gamweddau rhai eraill i 'n herbyn ni; llawer mwy a ellid ei ddywedyd i ddangos yr anghymmeſurwydd dirfawr rhwng y beiau y mae Duw yn ei maddeu i ni, a 'r rhai a all fôd gennym ni i faddeu i 'n Brodyr: Ond yr ŵyf yn meddwl fôd hyn yn ddigon i oſtegu y cwbl a all dynion creulon ag ymddiaſ-ŵyr ei draethu yn erbyn y Caredigrwydd hwn i *Elynion*. Y maent yn barod i edrych ar hyn megys pêth anghyſſon a *di-reſwm*, ond gan fôd Duw yn gwneuthur hyn mewn meſur uwch o lawer, pwy a ddichon, heb gabledd, ddywedyd fôd hynny yn ddi-reſwm? Os ymddengys hon, neu unrhyw Ddledſwydd yſprydol arall felly i ni, ni a allwn ddyſgu yr achos o hynny gan yr Apoſtol, 1 *Cor.* 2. 14. *Dŷn anianol nid yw yn deall y pethau ſydd o Yſpryd Duw, canys ffolineb ydynt gantho ef*; cnawdoliaeth ein Calonnau ni ſydd yn gwneuthur iddynt ymddangos

Sul XVI.

Sul XVI. felly, ag am hynny gadewch i ni yn llè ymddadleu yn erbyn y Ddledſwydd, bûro ein calonnau oddiwrth hynny, ag yna ni a ganſyddwn hynny yn wîr yr hyn y mae Doethineb yſprydol yn ei draethu am ei hathrawiaethau, *Dihar.* 8. 9. *Y maent hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo, ag yn uniawn i'r rhai a chwenychant wybodaeth.*

Hyfrydwch y Ddledſwydd hon.

16. Ié, y mae caru Gelynion nid yn unig yn Ddledſwydd rheſymol, ond yn ûn *hyfryd* hefyd, a dyna'r bedwerydd Yſtyriaeth; y mae llawer iawn o feluſdra ag o ddiſyrrwch i'w gael ynthi; yr wyf yn cydnabod na ddichon nêb farnu yn gyſtal o hyn a'r rhai a'i harferaſant hi, gan fôd natur pleſerau daiarol hefyd yn gyfryw, ag mai ei mwynháad nhw yn unig a ddichon wneuthur i ddŷn ei gwir-adnabod hwynt; ni ddichon ûn-ddn felly draethu i arall archwaeth rhyw bêth danteithiol fal y gallo wrth hynny wybod ei flâs, rhaid iddo yn gyntaf ei archwaethu ef ei hûn; ag yn ddiammeu y mae yn ſwy o lawer felly mewn pleſerau Yſprydol, ag am hynny pwy bynnag a chwennycho wybod yn gyflawn feluſdra a hyfrydwch y Ddledſwydd hon, ymrôed i'w harferu hi, ag yna ei brofiad ei hûn a ddŵg hynny oreu ar ddeall iddo: Ond yn y cyſamſer, mor dra-anghyfiawn ag ynfyd yw traethu yn ddrŵg am dani cyn profiad? I ddynion ddywedyd, fôd hyn yn flin ag yn annoddefus, y rhai ni chynnygiaſant erioed brofi a yw hynny yn bód mewn gwirionedd a'i nad yw? Etto trwy'r moddion hyn y dygir tŷb ddiŵg o'r *Ddledſwydd dra-hyfryd* hon, ag mae dynion yn hygoel iawn o hyn, llè mewn pôb cyfiawnder, ni ddylid mor cymmeryd tyſtiolaeth o hyn ond gan y rhai a'i profaſant hi, a'r rheini yn ddiammeu a roddei gyf.if amgenach o honi. 17.

17. Ond er nad ellir cael llawn wybodaeth o hyn ond yn unig trwy 'r gydnabyddiaeth agos ymma, etto mi debygwn y gallem y rhai ſy 'n edrych arni ond o hirbell ddirnad pêth *hawddgarwch* ynddi, petre ond trwy ei chyffelybu hi ag aneſmwythdra y gwrthwyneb: malis a dial yw 'r ânwydau aneſmwythaf a blinaf ar a ddichon gythryblu meddwl dŷn, y maent hwy yn cadw dynion mewn aſtudrwydd a gofal ddibaid pa fôdd i ddwyn ei hamcanion drŵg i ben, y maent yn aflonyddu ei cŵſg hwynt, fal y dywed *Solomon*, *Dihar.* 4. 16. *Ni chyſcant nes gwneuthur drŵg, a 'i cŵſg a gollant nes iddynt gwympo dyn*: Iê, maent yn chwerwi 'r holl bethau daionus y maent yn ei mwynhau, fal nad ydynt yn ei harchwaethu nag yn clywed blâs arnynt; eſampl eglur o hyn ſydd i ni yn *Haman*, yr hwn er bôd gantho ddigonedd ag helaethrwydd o ſawredd a dedwyddwch y bŷd, ettô yr oedd y malis oedd gantho i ddŷn truan dirmygus, *Mordecai*, yn rhwyſtro iddo *archwaethu bodlonrhwydd* yn y bŷd yn y cwbl, fal y gellwch weled, *Eſt.* 5. lle gwedi iddo draethu i 'w gyfneſeifiaid ei hôll wynfŷd, *gwer.* 11. y mae ſo yn dibennu fal hyn, *gwer.* 13. *Ond nid yw hyn oll yn lleſhau i mi, tra 'r ydwyf yn gweled Mordecai yr Iddew yn eiſtedd ymmhorth y brenin.* O 'r tu arall y mae 'r Yſpryd heddychlon, yr hwn a ddichon ddioddef pôb camwedd a ſarhâad yn llonydd, yn mwynhau tawelwch dibaid, ag mae ef uwchlaw malis ei elynion, canys gwnânt hwy a allont, ni fedrant ddwyn ei lonyddwch ef oddiarno; y mae efe yn gadarn fal y *graig*, yr hon ni ddichon na thymeſtl na gwynt mo 'i ſymmud; pan yw 'r dŷn nawſwyllt a 'r hwn ſy 'n hoffi dial fal *tonn*, yr hon

Sul XVI.

y mae 'r

Sul XVI. y mae'r awel leiaf yn ei thaflu ag yn ei bwhwmman o'i llê. Ond heb law't aflonyddwch ymma oddi-mewn ſydd i'r ymddialwŷr, y maent hwy yn ſynych yn dwyn llawer o helbul oddi-allan arnynt ei hunain; y maent yn cythruddo ei gelynion, ag yn ei hannog hwynt i wneuthur y drygau mwyaſ iddynt ar a allont, iê, y maent yn ſynych yn ei rhedeg ei hunain ar y trueni mwyaf wrth gynllwyn ei dîal, i ba ûn y mae'n gyffredinol gweled rhai yn aberthu ei *Golud*, ei *Eſmwythra*, ei *Enw-da*, ei *Bywyd*, iê, a'i *Heneidiau* hefyd, heb fôd waeth ganddynt beth a ddioddefont ei hunain am y caffont ddrygu ei gelyn; mor rhyfeddol y mae'r wŷn echryſlon hon yn ynfydu ag yn dallu dynion. O'r tu arall, y mae'r dŷn *llaryaidd* yn ſynych yn tôddi digofaint ei wrthwyneb-wr, *atteb arafaidd a ddettry lid*, medd *Solomon*, *Dihar.* 15. 1. Ag yn wîr nid oes dim well i'r diben hwnnw; ond os digwydd i'w elyn eſ fôd mor greulon fal na thyccia hyn, etto y mae efe yn ennill-wr trwy'r cwbl a all ei ddioddef. Canys yn *gyntaf*, y mae efe'n ennill odſa i arferu'r grâs tra-chriſtianogaidd honno o gariad a maddeuant; ag felly ar unwaith o ufyddhau 'r gorchymun, a dilyn ſiampl ei Iachawdr, yr hyn ſydd fûdd gwerthfawr i'r gwîr Griſtion; a thracheſn yn *ail*, y mae fo'n ennill cynnydd ag adchwannegiad at ei wobr ar ôl hyu. Ag os *dywedir*, na ddylid cyfrif hynny yn bleſer preſennol y Ddledſwydd, mi a *attebaf*, fôd y diſgwyliad o hynny trwy ffŷdd yn bleſer, ag mae hynny yn unig yn fwy gwîr hyfrydwch o lawer nag y dichon mwynhâad preſennol o holl ddiſyrrwch bydol fôd.

18. Y *Pummed* Yſtyriaeth yw'r *Enbydrwydd o eſgulenſo'r Ddledſwydd hon*; y rhai ydynt amryw, ond mi a draethaf yn unig ar yr ûn fawr honno yr hon ſy'n cynnwys y lleill ei gŷd tani, a hono yw, *colli ein holl hardwn ein hunain* gan Dduw. Y mae hon yn yſtyriaeth, debygwn i, a ddyle ein dychrynu ni i natur ddâ, os amgen, mae'n malis ni yn fwy i ni ein hunain nag i'n gelynion. Oblegid och! pa ddrŵg a elli di ei wneuthur i arall cyfattebol i'r hwn yr wyt yn ei wneuthur i ti dy hûn, trwy golli maddeuant o'th bechodau? yr hyn ſydd yn ddrŵg mor annrhaethadwy nâ ddichon y *Cythrel* ei hûn a'i holl falis ewyllyſio i ti ûn mwy; dyna'r cwbl y mae efe yn ei geiſio, yn *gyntaf*, i ni bechu, ag yna nalbo i'r pechodau hynny gael byth mo'i maddeu, oblegid yna fe a wŷr ei fôd yn ddigon ſicor o honom; gan mai Uffern a diniſtr, heb law'r holl ffrwythau eraill o ddigoſaint Duw yn y bŷd hwn, yn ddiammeu yw cyfran pôb pechadur a'r nîs maddeuir iddo; Yſtyria hyn, ag yna dywed i mi béth a ennillaiſt trwy'r dial mwyaf a wnèiſt erioed ar arall. Ymadrodd Cythreulig yn ngenau dynion yw, *melus yw dial*: ond a'i poſſibl y dychon fôd (ië, i'r gêg annhymmeruſaf) y cyfryw *feluſdra* ynthi ag a wná iawn am y *chwerwder* tragwyddol hwnnw ſy'n ei dilyn hi? Yn ddiammeu, ni ddichon néb yn ei gôf ar farn bwyllog feddwl hynny. Ond och! nid ydym ni yn canniadu amſer i ni ein hunain i bwyſo pethau, ond goddef ini ein hunain gael ein chwyl droi gan boethni gwŷn ddigllon, heb yſtyried ûn amſer mor ddrûd y bŷdd rhaid ini dalu am hynny: fal y *Wenynen* ffôl, yr hon mewn digoſaint a âd ar unwaith ei cholyn a'i bywyd o'i hôl; ſe all y colyn yſgatſydd *ofidio*

Sul XVI.

Os na faddeuwn ni ni faddeuiff Duw i ninnau.

péth

Sul XVI. pêth am drô y cnawd y bô yntho, ond etto nid oes nêb na wêl mai'r *Wenynen* ſy'n cael y gwaethaf, yr hon ſy'n talu ei bywyd am ddial mor wael; felly y mae yn ein dial mwyaſ ninnau, ni a allwn yſgatfydd adael ein colyn mewn erail!, ei rhoi nhw i ychydig ofid preſennol, ond nid yw hynny, wrth ei gyſtadlu a'r niwed a ddigwydd i ni ein hunain o'r achos, ddim mwy na'r boen ferr honno i farwolaeth; iê, na chymmaint chwaith; oblegid y mae'r drygau'r ydym ni yn ei dwyn arnom ein hunain yn dragywyddol, i ba rai ni ddichon dim terſynol ddwyn cymmeſurwydd yn y bŷd. *Coſia* gan hynny, pa brŷd bynnag y bôch di yn dychymmig ag yn llunio dial, dy fôd ti yn hollawl yn cam gymmeryd y nôd; yr wyt ti yn meddwl taro dy elyn, ond och! yr wyt yn dy archolli dy hûn i farwolaeth. Ag na thraethed neb heddwch iddo 'i hûn, na ſeddylied chwaith mai dychryniadau ofer yw y rhai hyn, ag y gall ef gael maddeuant gan Dduw er na faddeuiff ef i'w frodyr: Canys yr hwn ſydd wirionned ei hûn a'n ſiccrhaodd ni o'r gwrthwyneb, *Mat* 6. 15. *Oni faddeuwch i ddynion ei camweddau, ni faddeu eich Tâd i chwithau eich camweddau.* A rhag ini anghofio mor angenrheidiol yw'r Ddled-ſwydd hon, ſe a'i cyflêodd hi yn ein Gweddiau beunyddiol, llê yr ydym ni yn gwneuthur hyn yn ammod, ar ba ûn yr ydym yn erſyn maddeuant gan Dduw; *Madden ini ein Dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n Dyledwyr.* Pa rwy felldith reſynol gan hynny y mae pôb ymddialydd yn ei oſod arno i hûn, pan yw yn adrodd y Weddi hon? Y mae megys yn erſyn na bô i Dduw faddeu iddo; ag yn rhy ſicer ſe wrandewir y rhan honno o'i Weddi ef, ſe faddeuir iddo yr ûn môdd ag y maddeu

maddeuiff yntau. Hyn a eglurir i ni etto ymhellach yn Nammeg yr Arglwydd a'r Gwâs, *Mat.* 18. fe a gawſe'r gwâs gan ei Arglwydd faddeuant o Ddlêd ddirfawr, *deng mil o dalentau*, etto yr oedd efe mor greulon wrth ei gydwâs, a mynnu gantho trwy drais ddylêd fechan wael o gan ceiniog; ar hyn fe alwodd ei Arglwydd yn ôl ei *faddeuant*, ag a holodd drachefn oddiarno yr holl Ddlêd: a hyn y mae Criſt yn ei gyſaddaſu i'n pwrpas preſennol ni, *gwer.* 35. *Felly y gwnâ ſy Neſol Dâd i chwithau, oni faddeuwch o'ch calonnau bôb ûn i'w frawd eu camweddau.* Un gyſryw weithred o anghareddigrwydd ſydd abl i golli'r pardwn a ganiadhâodd Duw i ni, ag yna y mae ein holl bechodau ni yn ymchwel arnom trachefn, ag yn ein ſuddo i lwyr ddiniſtr. Yr wyf yn meddwl mai afraid imi bentyrru ychwaneg o fannau o'r Scrythur i dyſtiolaethu 'r gwirionedd o hyn; y mae'r rhai hyn mor eglur ag a wnânaetha yn ddiammeu i beri i ûn-dŷn, a'r ſy'n cydnabod y Scrythur, goelio enbydrwydd mawr greſynol y pechod hwn o anghariad. *Yr Arglwydd a feddianno ein Calonnau ni â'r cyfryw iawn-deimlad o hono ag a wnêl i ni ei ochelyd.* Sul XVI.

19. Yr Yſtyriaeth ddiweddaf yw, *Diolchgarwch* i Dduw. Fe ddangoſodd Duw drugareddau rhyfeddol i ni, fe ddioddefodd Criſt bethau creulon i'n dwyn ni i fôd yn gymwys o'r drugaredd a'r maddeuant hwnnw gan Dduw: oni thybiwn ni ein hunain yn rhwym i fôd yn ddiolchgar am y cwbl? Os cymmerwn ni farn yr *Apoſtol*, y mae fo'n dywedyd i ni, 2 *Cor.* 5. 15. *Gan ddarfod i Griſt farw troſom ni oll, nid yw ond cymmwys na bo i ninnau fyw o hyn allan i ni ein hunain, ond i'r hwn a fu farw troſom ni.* Yn wîr, petre bôb munudyn o'n by- *Diolchgarwch i Dduw.*

Sul XVI. wyd gwedi ei gyſſegru i'w waſanaeth ddi-gyſwng ef, ni fydde hynny ddim mwy nag y mae diolchgarwch cyffredinol yn ei ofyn, ag yn llai nag y mae'r cyfryw ddoniau annrhaethadwy yn ei haeddu; pa ryw anniolchgarwch cywilyddus gan hynny yw i ni neccâu iddo'r cyfryw ſodlondeb gwael a hyn, ſef, maddeu i'n brodyr? Bwriwch fôd i ddŷn a ryddhawyd naill ai oddiwrth *angeu* neu *gaethiwed*, trwy haelioni a dioddefaint ûn arall, gael ar ei ryddhâad archiad gan yr hwn a'i rhyddhaodd i faddeu rhyw ddyled wael oedd ddyledus iddo ef oddiwrth ryw ûn arall, oni rhybiech chwi ſo yn anniolchgaraf dŷn yn y bŷd, yr hwn ni chydnabydde'r cyfryw gymwynas o'r blaen, eithr a neccâu ganhiadu hyn iddo ef? Etto 'r cyfryw ûn, iê, a gwaeth o lawer yw pôb dŷn maleiſus a'r ymddial ŵr. Criſt a'n prynnodd ni allan o gaethiwed tragwyddol, a hynny nid a *phethau llygradwy, megys aur ag arian*, 1 *Petr.* 1. 18, 19. ond a'i *werthfawr waed ei hun*, ag a orchymynnodd i ni yn daer garu ein brodyr, a hynny trwy reſymmau cadarn a gymmerwyd oddiwrth fawredd ei gariad ef tu ag atom ni; ag os nyni yn wrthnyſig a neccawn iddo bêth mor gyſiawn a rheſymol a hynny, pa ryw waeledd a diyſtyrwch annrhaethadwy yw hynny? Ag etto hyn yr ydym ni yn bendant yn ei wneuthr os bydd gennym lîd yn y bŷd na malis i neb. Iê ymmhellach, nid yw hyn yn unig yn anniolchgarwch, ond y mae helyd yn ddirmygiad ag yn ddibriſiad greſynol o hono ef. Yr oedd y *Tangnheddyf* hwn a'r Uneb ymŷſg brodyr yn bêth mor rhagorol a gwerthfawr yn ei olwg ef, a phan oedd efe yn ymadel a'r bŷd yr oedd yn edrych arno megys y pêth gwerthfawroccaf a alleu fo'i adael o'i ôl, ag am hynny fe a'i gadawodd megys trwy

Lythr-

Lythr-Cymmun i'w Ddiſcyblion, *Jo.* 14. 27. *Yr wyf yn gadel i chwi Dangnheddyf*; yr ydym ni arferol o oſod prîs mawr ar y pethau lleiaf a adawo ein cyſneſeifiaid i ni wrth farw, ag i fôd yn oſalus iawn rhag ei colli hwynt; ag am hynny, os nyni yn ſyrbwyll a daſſwn ymmaith y rhôdd mor werthfawr hon o eiddo Criſt, arwydd hynod yw hynny nad oes gennym gymmaint o barch ag o gariad iddo ef ag ſydd gennym i'n cyfeillion daiarol, ond ein bôd yn ei ddirmygu ef yn gyſtal a'i Ródd. Ffynniant anfeidrol y pechod hwn o anghariad a wnaeth i mi ſeſyll ar yr yſtyriaethau hyn cyhyd, er mwyn ei orchfygu. *Duw a ganniadhâo fôd iddynt weithio cymmhelled ar galon y darllennydd, ag i'w gymwhyſſo ef i'r pwrpas hwnnw.* Sul XIV.

20. Ni adroddaf ond úu cyngor ychwaneg, ſéf, bód yn rhaid arferu'r rhain neu ddiwygiadau eraill yn erbyn y pechod hwn, *mewn prŷd*: y mae meddiginiaethau *Corphorol* yn myned yn fynych yn ofer o eiſieu ei harferu mewn prŷd, ag mae hynny yn digwydd yn fyuychach o lawer mewn rhai *Yſprydol*: Am hynny os bydd poſſibl, bydded yr Yſtyriaethu hyn, a'r cyffelyb, gwedi ei ſeſydlu mor waſtadol yn dy galon, fal y bô iddynt ei thymmeru hi i'r cyfryw addfwynder, ag a all luddias pôb dechreuad malis a dial ynot; canys gwell o lawer yw iddynt waſanaethu megys arfogaeth i ragflaenu, nag megys ennaint i iachâu'r, archoll. Ond os bydd y wŷn hon etto heb ei gorchfygu ynot, eithur yn cynnhyrfu peth ynot, etto yna bydd ſiccr o'i chymmeryd ar y codiad cyntaf, ag na âd i'th ſeddwl gnòi r cîl (megys) ar y camwedd, trwy ſyfyrio arno yn fynych; ond coſia mewn prŷd yr Yſtyriaethu o'r blaen, ag hefyd mai amſer a phrŷd profedigaeth iti yw hwn, ym- *Rhaid gofiegu y cynhyrfiadau cyntaf o Anghariad*

Sul XVI. mhâ ûn y gelli ddangos pa ſodd y gwellhéaiſt yn yſgol Criſt, gan ſod iti yr awrhon odfa naill ai i uſyddhau a bodloni Duw trwy ſaddeu'r camwedd hwn i'th frawd, neu ynteu i uſyddhau a bodloni *Satan*, carwr ymryſon, trwy feithrin caſineb i'w erbyn. Coña hyn, meddaf, *mewn pryd*, cyn i ti ymennynnu, canys os cynneu'r tân hwn un-waith efe a fwrw allan y cyfryw fwg, ag a ddalla dy reſwm, ag a'th wna di yn anghymmwys i farnu o hyn er mor eglur yw, ſef, pa un oreu a'i pwrcaſu i ti dy hûn *wynfyd* tragywyddol trwy uſyddhau Duw, neu trwy uſyddhau *Satan*, *boenau* tragywyddol. Lle os goſynni hyn iti dy hûn cyn y cynnwrf hwn a chythrwblaeth dy feddwl, yn ddiammeu fo ddadcan dy ſynwyr di o dŷ Dduw; ag yna oddigaeth iti ſod mor anhynaws a dewis marwolaeth yn rhag-ſyſyriol, yn ddiau ti a wnei yn ól barn dy ddeall; Ni adrodda'i ddim ychwaneg ar y rhan gyntaf ymma o Gariad, ſef, hwnnw mewn *Tuedd meddwl*.

Cariad mewn Gweithredoedd.

21. Yr awrhon mi a âf ymlaen at y rhan arall o Gariad, ſef, hwnnw mewn *Gweithredoedd*; ag wrth hwn yn wîr y bydd raid profi'r llall; ni a allwn gynnmeryd arnom ſod gennym gariad mawr o'n mewn, ond os ni thardda allan yn ein Gweithredoedd, ni a allwn ddywedyd am y *Cariad* hwnnw fal y dywed St. *Jago* am y *ffydd* y mae ſo'n ſôn am dani, *ei bôd hi yn farw Jag.* 2. 20. Cariad mewn *Gweithred* a gwirionedd a wna ein Calonnau ni yn gymmeradwy ger bron Duw, 1 *Jo.* 3. 18. ſe ellir doſparthu'r Cariad hwn heſyd mewn Gweithredoedd, ſel y llall, yn ól pedwar cynhwyſiad gwahanredol ein brodyr, ſef, ei *Heneidiau* hwynt, ei *Cyrph*, eu *Golud*, a'i *Henwau da*.

22. Fe

22. Pe ellir yſtyried yr Enaid, ſal y dywedais i o'r blaen, naill ai mewn ſynniad *Naturiol*, neu *Yſprydol*; ag ymmhob un o honynt y mae Cariad yn ein rhwymo ni i wneuthur yr holl ddaioni a allom. Megys ag yr arwyddocca 'r Enaid *feddwl* dyn, felly y bydd raid i ni wneuthr ein goreu er cyſſur a diddanwch ein Brodyr, ewyllyſio rhoddi iddynt bob rhyw wir achos o lawenydd a llonder, yn enwedig pan welom hwynt tan ryw driſtwch neu drymder, yna ymegnio trwy bob rhyw ſoddion Criſtianogaidd a chymmwys i lonni ei Hyſpryd helbulus hwynt; *diddanu y rhai ſydd mewn gorthrymder*, fal y dywed yr Apoſtol, 2 *Cor.* 1. 4. Sul XVI. *Tu ag at Feddwl ein cymydog.*

23. Ond mae 'r Enaid mewn Yſtyriaeth *Yſprydol* etto yn fwy rhagorol, ag mae ſiccrhau honno yn beth mwy *pwyſfawr*, na llonni 'r *meddwl* yn unig, yn gymmaint ag y mae gofidiau tragywyddol Uffern yn myned tu hwynt i ofidiau mwyaf y byd hwn; ag am hynny, er na ddylem ni eſgeuluſo 'r cyntaf, etto yn hyn y dylem ni ddangos ein Cariad eithaf; lle nid digon yw i ni ewyllyſio yn dda i Eneidiau ein Brodyr, nid yw hynny yn unig ond math ſwrth ar garedigrwydd, rhy wael ag annheilwng o'r rhai ſydd raid iddynt ddilyn Eſampl Iachawdr Eneidau, yr hwn a wnaeth ag a ddioddefodd cymmaint er mwyn ei prynu nhw: ond rhaid i ni hefyd ymegnio i 'w gwneuthur hwynt yn gyfryw ag yr ydym ni yn ewyllyſio iddynt fod; i 'r pwrpas hwn tra-chymmwys a rheſymol yw i ni yn ein holl ymddygiad tu ag at eraill ſwriadu gwneuthur rhyw ddaioni i 'w heneidiau hwynt. Pe bydde 'r bwriad hwn gwedi ei ſefydlu yn ein meddyliau, yna ni a ganſyddem yſgafnfydd lawer odfa i wneuthur daioni ar yr ydym ni yr awrhon yn ei eſgeuluſo. Fe ſydde *Tu ag at ei Enaid.*

anwy-

Sul XVI. *anwybodaeth* ddirfawr y naill yn galw arnat ti i geisio ei addyscu ef; *pechod bynod* y llall, i 'w argyoeddi a 'i gynhori ef; *Rhinwedd* lesg egwan un arall, i 'w gadarnhau a 'i lonni ef. Fe a ddichon pôb *angen ysprydol* dy frawd roddi i ti achos i arferu rhyw ran o 'r Cariad hwn; neu os wyt ti yn cybied, gwedi ysfyried yn bwyllog, mai ofer yw i ti dy hûn ymofod at hyn ymma, megys os bydd dy waelder di, neu 'th anghydnabyddiaeth, neu ryw gyffelyb rwyfir yn debyg i wneuthur dy gynghorion yn ddi-rym, etto os byddi ddiwyd yn dy Gariad, ti a elli ond odid ganfod rhyw foddion eraill, trwy ba rai y gelli wneuthur hyn yn fuddiol. Ni all neb ymofod ar Orchwyl anrhydedduſach na bwriadu pa fôdd i leshau Eneidiau dynion, ag am hynny, lle bo 'r naill foddion yn an-addas, ni a ddylem ddyfal-chwilio a myfyrio am rai eraill. Yn wir, cywilydd yw na fyddwn ni mor ddiwyd ynghylch y pethau a berthyn i Eneidiau dynion, ag y byddwn am wael-drafferthion bydol o 'n heiddo ein hunain; etto yr ydym yn y pethau hyn yn ddigon di-flin, ag yn profi 'r naill foddion ar ôl y llall, nes i ni ddwyn ein hamcan i ben. Ond os bydd cyndynrwydd dynion gwedi ein holl ddiwydrwydd, yn rhwyſtro i ni, neu yn hyttrach iddynt hwy, lesshau trwy 'r cwbl, os ni thyccia ein holl ymegniad ni a 'n gofal yn annog ag yn erfyn ar ddynion drugarhau wrth ei Heneidiau ei hunain, etto er dim parhâa di i 'w hannog nhw trwy dy fiampl; bydded i 'th fawr ofal di a 'th dynerwch am dy Enaid dy hûn bregethu iddynt odidowgrwydd a phris ei heneidiau hwythau; ag nag attal dy dofturi oddiwrthynt, eithr gyda 'r Prophwyd *Jerem.* 13. 17. *Wyled dy Enaid yn ddirgel troſtynt*; a chyda 'r *Pſalmydd*, *Bydded i ofonydd o ddyfroedd*

redeg

redeg o th lygaid, am na chadwant Gyfraith Ddûw, Pſal. 119. 136. ie, a chyda Criſt ei hûn, *wyla am na ſynnant wybod y pethau a berthyn i'w heddwch,* Luc 19. 42. A phan na thyecia taerni yn y byd gyda hwynt, etto na phaid ti ag ymbil ar Dduw troſtynt, ar fôd iddo ef ei tynnu nhw atto ei hûn: felly y gwelwn *Samuel*, pan na fedreu ſo gynghori'r bobl i ymadel a'r bwriad pechadurus yr oeddynt arno, etto er hynny ei gyd y mae ſo yn addaw na phaid ef a Gweddio troſtynt; ie, yr oedd ef yn edrych ar hynny yn ddyled arno, yn gymmaint ag mai pechod fydde iddo eſgeuluſo hynny, *Na atto Duw*, medd ef, *i mi bechu yn erbyn yr Arglwydd, a pheidio a gweddio troſſoch*, 1 *Sam.* 12. 23. Ag na oſnwn y bydd ein Gweiddiau ni yn ofer, canys os ni wnânt hwy leſhâad i'r rhai y byddom yn ei tywallt troſtynt, etto pa un bynnag, nhw a ddychwelant i'n *monweſau* ein hunain, *Pſal.* 35. 13. Yn ddiammeu na ddeuwn ni ddim yn iyrr o wobr y Cariad hwnnw. Sul XVI.

Cariad tu ag at y Corph.

24. Yn *ail*, rhaid i ni arferu'r *Cariad Gweithredrol* hwn tu ag at *Gyrph* ein Cymydogion; nid digon i ni yn unig *doſturio* tros ei helbul a'i trueni hwynt, ond hefyd *gwneuthur* yr hyn a allom er ei cymmorth a'i helmwythâad hwynt. Ni buaſid byth yn goſod y *Samaritan* dâ (*Luc* 10.) yn ſampl i ni, oni bai ddarfod iddo *gymmarthwyo* 'r dŷn archolledig yn gyſtal a *theſturio* wrtho. Nid deiſyfiadau dâ, ie, na geiriau da ychwaith ſydd ddigon yn hyn o beth, ſal y dywed St. *Iago*, *Os bydd brawd neu chwaer yn noeth, ag arnynt eiſieu beunyddol ymborth, a dywedyd o un o honoch wrthynt, ewch mewn heddwch, ymdwymnwch, ag ymlenwwch, ag etto heb roddi iddynt angenrheidiau r Corph, pa lês fydd?* (*Iag.* 2. 15, 16.) Dim yn ddiammeu, ni wnâ hynny lês yn y byd i'w Cyrph hwynt, nag

Sul XVI. nag i'th Enaid tithau, ni chyfrifir mo hynny i ti byth megys Cariad. Y mae achleſu ein brodyr yn ei *hangenrheidiau Corphorol* yn beth a olynnir mor gaeth ar ein dwylo ni, ag y gofodir hynny ar lawr, megys y pêth enwe digol trwy ba ûn y *profir* ni ar y Dydd *Diwaethaf*, ar ommeddiad pa ûn yr adroddir y farn echryſlon honno, *Mat.* 25. 41. *Ewch oddiwrthif rai melldigedig i'r tân tragywyddol yr hwn a baratôwyd i Ddiafol ag i'w angelion.* Ag os gofynnir bêth yw'r pethau neillduol hynny fydd raid i ni ei cwphlhau, nis gallwn ddyfod i w hadnabod hwynt yn hyſpyſach nag yn y bennod hon, lle y gofodir ar lawr yr amryw rai hyn, *ſef, rhoddi bwyd i'r newynog*; a *diod i'r ſychedig, lletteua'r dieithr, dilladu'r noeth, ag ymweled ar claf ar carcharedig*; trwy ba *ymweliad* ni ddeallir yn unig dyfod i'w gweled hwynt, ond dyfod felly megis ag i'w cyſſuro a'i cynnorthwyo hwynt; canys os amgen, ni bydde hynny ond fel y gwnaeth y *Leſiad* yn yr efengyl, (*Luc.* 10.) yr hwn a ddaeth ag *a edrychodd ar y dyn archolledig*, ond ni wnaeth ddim ychwaneg; yr hyn ni bydd byth gymmeradwy gan Dduw. Y mae y rhain yn arferion cyffredinol o'r cariad hwn, i ba rai nid all bôd eiſieu aml odlau. Ond heb law'r rhai hyn, ſe ddichon, trwy arbennig ragluniaeth Duw, ddigwydd i ni achlyſur i wneuthur ſwyddau dâ eraill i gyrph ein Cymydogion; ni a allwn weithiau gyda'r *Samariad* weled dŷn archolledig, ag yna ein Dled ni yw gwneuthur fal y gwnaeth ef; ni a allwn weithiau weled dŷn di-euog gwedi ei farnu i farwolaeth, megis y gwnaed a *Suſanna*, ag yna rhaid i ni gyda *Daniel* arferu pôb moddion yn ôl ein gallu er ei waredu ef: Hyn y mae *Solomon*

Cariad tu ag at Corph.

lomon ond odid yn pennodi atto, *Dihar.* 24. 11, 12. *Oſ ni waredi 'r rhai a luſcir i angeu, a'r nêb a dwyſir i'w lâdd, Os dywedi, wele, ni wyddom ni hyn; onid yw meſur wr y Calonnau yn deall? a'r nêb ſydd yn cadw dy Enaid oni wyr efe? ag oni thâl efe i bawb yn ôl ei weithred?* Ni wasanaetha i ni fwrw 'r pêth heibio ag eſcuſion ofer, eithr cofio y bydd i Dduw, yr hwn a wyr ei meddyliau dirgelaf, brofi yn fanwl a eſceuluſaſom ni o'n gwirfodd gwplhau 'r cyfryw weithred o Gariad: weithiau trachefn (iè yn fynych, fe wyr Duw, yn y dyddiau ymma) ni a allwn weled Dŷn trwy anghymmedrolder mewn perigl o ddeſtrywio ei Iechyd, a byrrhau ei ddyddiau, ag yna Cariad ddyledus nid yn unig i'w Enaid, ond i'w Gorph ef hefyd yw ymegnîo i 'w dynnu o hynny. Amhoſſibl yw goſod ar lawr yr *holl* rywogaethau o'r *Cariad Corphorol* hwn ar a all ddigwydd, oblegid fe ddichon ddamwain weithiau y cyfryw odfau na all nêb ei rhag-weled; rhaid i ni gan hynny yn waſtad lawn-fwriadu yn ddiſrifol wneuthur pa ddaioni bynnag o'r fath hyn ar a ganfyddom ni achos am dano; ag yna, pa bryd bynnag y digwydd y cyfryw odfa, edrychwn ar hynny megys galwad arnom o'r Nêf i oſod y llawn-fwriad hwnnw ar waith. Y mae y rhan ymma o Gariad wedi ei gwreiddio cymmhelled yn ein calonnau, megys yr ydym yn *ddynion*, a'n bôd ni yn gyffredinol yn ei cyfrif hwynt nid yn unig yn anghriſtianogaidd, eithr yn annhirion a chreulon y rhai ſydd ddeffygiol o hono; ag am hynny yr wyf fi'n gobeitho na fydd eiſieu llawer o annogaethau i hyn ymma, gan fôd ein Naturiaeth ni yn tueddu at hynny: Ond yn ddiau, fe waſanaetha 'r Yſtyriaeth hono i adchwanegu'n ddirfawr at euogrwydd y rhai ſydd

Sul XVI.

Sul XVI. ddeffygiol o'r Cariad hwn: oblegid gan fôd y Gorchymyn hwn mor gyffon i gîg a gwaed, nir ddichon ein hanufudd-dod ni iddo darddu ónd oddiwrth ein cyndynrwydd a'n gwrthryfelgarwch yn erbyn Duw yr hwn a'i rhoddódd i ni.



SUL

Sul XVII.

SUL XVII.

Am Gariad, Eluſen, &c. Am Gariad a berthyn i Enw-dâ ein Cymydog, &c. Am wneuthur Tangnheddyf: Am fyned i'r Gyfraith: Am Gariad i 'n Gelynion, &c.

1. Y *Trydydd* modd o ddangos y Cariad hwn yw. tu ag at *Ddâ* neu *Gyſtwr* ein Cymydog *oddi-allan*; rhaid i ni ddyfal-geiſio ei well-háad a'i lwyddiant ef yn y pethau dâ ymma oddi-allan; ag i'r diben hwnnw, ymfodloni i'w gynnorthwyo ef iw cynnal ag iw hadchwanegu hwynt ym mhôb ffordd oneſt, trwy wneuthur iddo bôb rhyw ſwydd gymydogaidd a charedig: y mae odfáu i hyn ymma yn digwydd yn fynych iawn. Fe all dŷn weithiau naill ai trwy gryſder neu annogaeth waredu dâ ei gymydog allan o ddwylaw lleidr neu orthrym-wr; weithiau tracheſn ſe a ddichon trwy ei gyngor ei ofod ef mewn ffordd i lwyddo, neu ei droi ſo oddiwrth ryw ffordd dramgwyddus a diniſtriol; ag amryw achoſion eraill a ddichon fôd o wneuthur lleſháad i arall heb ein drygu na'n colledi ein hunain; ag yna rhaid i ni ei gwneuthur hwynt, iê, i'n Cymydogion *goludog*, y rhai ſydd mor gyfoethog, iê, yſgatfydd yn gyfoethoccach o lawer na ni ein hunain; canys er nad yw *Cariad* yn ein rhwymo ni i roddi i'r rhai ſydd a llai angen arnynt na ni ein hunain, etto y mae'n gofyn hyn ar ein dwylo pa brŷd bynnag y gallom ei gwellhau nhw, heb leihau ein golud ein hunain:

Cariad tu ag at Ddâ ein Cymydig.

Tu ag at y Goludog.

Sul XVII. hunain: iê, os bydd y golled ond yſgafn i ni wrth ei chyffelybu a'r budd a ddigwydd iddo ef, ſe weddai i ni yn hytrach enbydu'r golled fechan honno, na cholli iddo ef y budd mawr hwnnw.

Tu ag at y Tlawd. 2. Ond mae Cariad yn ein rhwymo ni i wneuthur mwy o lawer i'n brawd *Tlawd*; rhaid ini yno edrych yn unig am gyflawni ei eiſieu ef, ag nid gwrthod ymadel a'n heiddo ein hunain er mwyn ei gymmorth ef, ond rhoddi yn rhwydd iddo, hyd y gallom, y pêth ſydd arno ei eiſieu. Y maer Ddledſwyd hon o *roddi Elmſen* yn hollawl yn angenrheidiol er egluro ein Cariad nid yn unig i ddynion, eithr heſyd i Dduw ei hun, fal y dywed St. *Joan*, 1 *Joan* 3. 17. *Pwy bynnag ſydd ganddo olud y byd hwn, ag a wêl ei frawd mewn eiſieu, ag a gauo ei doſturi oddiwrtho, pa fôd y mae Cariad Duw yn aros yntho ef?* Ofer yw i'r dŷn hwnnw gymmeryd arno ei fôd yn caru na Duw na Dŷn, yr hwn ſy'n caru ei arian cymmaint, ag yr edrych ef ar ei frawd tlawd (yr hwn ſydd yn ddŷn, ag yn dwyn delw Dduw arno) yn dioddef pôb adfyd a chyni, yn hytrach nag yr ymedy ef a dim i'w gynnorthwyo: O'r tu arall, y mae cwplhâad y Ddledſwydd hon yn gymmeradwy iawn gyda Duw, yn gyſtal a chyda dynion.

3. Fe elwir hyn, (*Hebr.* 13. 16.) *Yn aberth a pha ûn y bodlonir Duw*; a thracheſn, *Phil.* 4. 18. Y mae St. *Paul* yn galw ei *Eluſeni* nhw iddo ef yn *aberth gymmeradwy a bodlon gan Dduw*; ag yr oedd yr Eglwys bôb amſer yn edrych arni felly, ag am hynny a'i cyſſylltodd hi a'r rhan mwyaf cyhoedd o Addoliad, ſef, y Cymmun Sanctaidd. Ond oblegid y gwnêid hyd yn oed yr aberthau ei hunain tan y Gyfraith yn fynych

yn

yn anghymmeradwy trwy ei bod yn glôff neu yn anafus, angenrheidiol a ſydd ymma edrych beth ydyw iawn gynneddfau 'r Aberth hon y rhai a'i gwnâ hi yn gymmeradwy. Sul XVII.

4. O'r rhai hyn y mae dau ſath, rhai o herwydd yr *annogaeth*, a rhai o herwyd y *môdd* o roddi Eluſen; ſe ddichon yr annogaeth fód yn *ddir dyblyg*, a hynny o herwydd Duw, ein Cymydog, a ni ein hunain. Yr annogaeth oblegid Duw, yw Ufydd-dod a Diolchgarwch iddo ef: ſe a orchymynnodd ef i ni roddi Eluſen, ag am hynny dyna un diben arbennig o hyn, ſef, Ufyddhau ei Orchymyn ef. Ag o'i haelioni ef yn unig yr ydym ni yn derbyn ein holl lawndra, a hon yw 'r mòdd gymmhwyſaf o ddangos ein diolchgarwch iddo ef am hynny; Canys fal y dywed y *Pſalmydd*, *nid yw ein Dâ ni ddim i Dduw*, *Pſal.* 16. 2. Nid allwn ni dalu iddo ef y deyrnged a chwennychem ei thalu allan o 'n golud; Y tlodion yw y rhai ſydd yn derbyn troſto ef, ag am hynny ein Heluſeni ni yw 'r modd o dalu beth bynnag a ddylem mewn modd o Ddiolchgarwch ei roi yn ól drachefn i Dduw. Yn *ail*, yr annogaeth oblegid ein Cymydog, yw gwîr gariad a thoſturi troſto ef, cyd-teimlad tyner o'i angen, a dymuniad o'i ddiddanwch ag o roddi cymmorth iddo. Yn *Drydydd*, rhaid i'r gobaith o 'r gwobr tragywyddol hwnnw a addawyd i'r rhai a wnelont hyn ein hannog ni, o 'n plegid ein hunain, i 'r Ddleđſwydd hon. Hyn y mae Criſt yn ei ddywedyd i ni, pan yw yn gorchymyn i ni *oſod ein tryſſor yn y Nef*, *Mat.* 6. 20. A *gwneuthur i ni gyfeillion o 'r golud twyllodrus*, *fel pan fo eiſieu arnom i 'n derbyniont i 'r tragwyddol bebyll*, *Luc* 16. 9. hynny yw, fal y gallom ni trwy roddi yn gariadus o 'n golud amſerol i 'r tlodion

Annogaethau i roddi Eluſen.

Sul XVII. tlodion, oſod i fynu dryſſor yn y neſoedd, ag ennill hawl i'r dedwyddwch tragywyddol hynny a addawodd Duw i'r Eluſengar. Dyna'r cynhayaf ſydd i ni i'w ddiſgwyll o'r pêth a hauom yn y gweithredoedd hyn o drugaredd, yr hwn a ſydd mor berffaith-gwbl ag a dâl yn helaeth i ni hyd adref, pe rhoen, fal y dywed yr Apoſtol, 1 *Cor.* 13. 3. *a phe porthen ni'r tlodion a'n holl Ddâ.* Ond rhaid i ni fôd yn ſicr mai hyn hyw ein hunig ddiben, ag nid yn lle hyn, addaw i ni ein hunain glôd dynion, oblegid hynny a'n hyſpeilia ni o'r llall; Hyn a ddywed Criſt yn eglur, *Mat.* 6. Rhaid i'r rhai ſydd yn goſod ei calonnau ar y *glôd* a ennillant gyda dynion gymmeryd hynny megys ei gwobr, *gwer.* 3. *Yn wîr meddaf i chwi y maent yn derbyn ei gwobr*; nhw a ddewiſaſant yn hytrach gael dynion yn dâl-wŷr iddynt na Duw, ag am hynny y troir nhw attynt hwy; a'r awel wael honno o glôd y maent yn ei derbyn ganddynt hwy yw'r holl wobr ſydd iddynt i'w ddiſgwyl: *Ni chewch dâl gan ſy nhâd yr hwn ſydd yn y Neſoedd, gwer.* 1. Y mae'n ſefyll arnom ni gan hynny wilio ar ein calonnau yn fanwl, na bo i'r chwant ymma o wâg-orfoledd ledratta i'n mewn, a'n twyllo ni i'r gyfnewid reſynol honno o chwythad wael anadl dynion am y gwîr a'r di-drangc lawenydd hynny yn y neſoedd.

Y mòdd o rhoddi Eluſen.

5. Yn *ail*, rhaid i ni edrych yn ofalus ar y *mòdd* o *roddi Eluſen*; ag yn *gyntaf*, rhaid ini roddi'n *llawen*; y mae dynion yn arferol o briſio yn fwy ryw bêth bychan a roddir iddynt yn llawen ag a chalon rwydd, na rhódd fwy o lawer a dynnir, megys o anfodd, oddiar ddŷn grwgnachus anewyllyſgar; ag mae Duw o'r ûn meddwl, y mae ſo *yn caru rhodd-*

Yn llawen.

wr llawen, 2 *Cor.* 9. 7. Yr hyn y mae'n Apoſtol yn ei oſod ar lawr megys rheſwm o'r Cyngor o'r blaen; ſêf, nid *rhoddi yn athriſt, neu megys o gymmell*, *gw.* 6. Ag yn wir, nid yw hyn a ofynnir gennym yn bêth anrheſymol, gan nad oes yr ûn Ddledſwydd yn rhoddi mwy o bleſer ag o ddiſyrrwch i natur ddynol, na hon, eddigaeth llê y darſu i Gybydd-dod a chreulondeb yn liwyr fwrw allan y dŷn, a goſod anifail rheipus yn ei lê ef. Ond hyfrydwch anrhaethadwy yw i'r dŷn yr hwn ſydd ganddo ddim ymyſgaroedd weled y llawenydd y mae Eluſen mewn prŷd yn ei ddwyn i ddŷn truan? Pa fodd y mae hynny yn ei lonni ef, ag yn rhoddi Yſpryd o newydd yn yr hwn oedd ym mron ſudde gan drymder? Yn ddiammeu, ni ŵyr y dŷn mwyaf trachwantus yn y bŷd pa fodd i oſod ei arian allan ar ddim a ddŷg i mewn iddo gymmaint o ddiddanwch, ag am hynny mi a debygwn na bydde anhawdd gennym roddi, nid yn unig heb rwgnach, ond yn ſuriol iawn ag yn llawen, gan fôd hynny yn dwyn i mewn hyfrydwch i ni ein hunain. Sul XVIII.

6. Nid oes ond ûn pêth a ellir ei ddywedyd yn erbyn hyn, ſef, y dichon yr enbydrwydd o'n *tlôdi ein hunain* trwy ein rhoddion, dynnu ymmaith y diddanwch hwnnw, a gwneuthur naill ai na rothom ddim, neu yn llai ewyllyſgar. I hyn mi a attebaf: Yn *gyntaf*, pette 'r enbydrwydd hwn yn hynod, etto gan mai Gorchymmyn Duw yw i ni roddi fal hyn, rhaid i ni ufuddhau yn ewyllyſgar, a bôd mor fodlon i ymadel a'n Da bydol er mwyn dilyn y Ddledſwydd hon, ag y gelwir ni lawer gwaith i wneuthur ar ryw Ddledſwydd arall. Yn yr hyn beth y mae Crift yn dywedyd

Ofn o'n tlodi'n hunain wrth byn yn ofer ag yn annuwiol.

Sul XVII. dywedyd ini; *na ddichon ef fôd yn ddiſcybl iddo ef, yr hwn ni ymedy a chymmaint ôll ag a fedd er ei fwyn ef.*

7. Ond yn *wir*, ofer ini feddwl hyn, gan ddarfod i Dduw addaw yn bendant y gwrthwyneb i'r Eluſengar; y dŵg eluſen ſendithion arnyht, iê, yn y perthau ymma oddiallan. *Y Gŵr hael a gaiff ddigon, a'r neb a ddwfrhâo a ddwfrhêir, Dihar.* 11. 25. A thrachefn, *y ſawl a roddo i'r Tlawd, ni bydd langen arno, Dihar.* 28. 27. Ag amryw leoedd o'r fâth hynny fydd, yn gymmaint ag y dichon dŷn ddywedyd yn hyf, fôd yr ammheuaêth hwn wedi ei ſylfaenu ar angrhediniaeth. Mewn gair, ni feiddiwn ni goelio Duw am hyn: rhoddi i'r tlawd yw gofod ein golud yn union yn ei ddwylaw ef. *Y neb a gymmero drugaredd ar y tlawd ſydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd, Dihar.* 19. 17. a hynny hefyd ar addewid cyhoedd o dâl yn ôl, fal y canlyn yn y wers honno, *a'i rôdd a delir iddo drachefn.* Fe debygir yn ammarch mawr ymyſg dynion, pan neccâom er coelio hwynt, mae hynny yn dangos ein bôd ni yn meddwl ei bôd hwynt naill ai heb fôd yn abl i gyflawni, neu heb fod yn oneſt: Pa ammarch anfeidrol gan hynny i Dduw yw ei ammeu ſo fal hyn? iê yn wîr, pa gabledd echryſlon yw ammeu ſiccrwydd y peth y mae ſo mor hynod gwedi rhoddi ei air am dano, yr hwn ſydd yn Arglwydd pôb peth, ag am hynny yn abl, a'r hwn ſydd Dduw y gwirionedd, ag am hynny yn barod i gwplhau ei addewidion? Na bydded gan hynny i'r *Ofn anghredadwy* hwnnw o eiſieu ar ôl hyn glôi i fynu dy ymyſgaroedd di oddiwrth dy frawd anghenus; oblegid er nad yw ef debyg i dalu i ti byth, etto y mae Duw yn ymrwymo megys meichiau trôſto ef, ag efe

a

a dâl iti yn ddiammeu gydâ llôg. Am hynny y mae rhoddi fal hyn cymmhelled oddiwrth fôd yn *gollêd*, a'i fôd yn *fûdd* dirfawr i ti: fê ddewisei pôb dŷn roddi ei arian mewn rhyw law ddiogel, llê y gallo ei adchwanegu, a bôd yn ſicer o honynt wrth ei raid, yn hytrach na gadael iddynt orwedd yn anfuddiol wrtho, yn enwedig os bydd ef yn ofni lladron, neu ryw ddamweiniau eraill, trwy ba rai y gall ei colli hwynt: Yr awrhon, y mae'r cwbl yr ydym ni yn ei feddiannu mewn enbydrwydd o golli bôb munudyn; mae aneirif o ddamweiniau a ddichon yn ddi-fym-wth ddwyn gŵr goludog i dlôdi; y nêb ſydd yn ammeu hyn, darllenned ond *Hiſtori Jôb* ag fe a gaiff weled yno ſiampl o hyn: am hynny pa gwrs ſynhwyrolach a allwn ni ei gymmeryd am ein golud, na'i goſod hwynt allan o gyrrhaedd y damweiniau hynny, trwy roddi ei benthyg nhw fal hyn i Dduw; llê y gallwn fôd yn ddiogel o'i cael nhw yn barod wrth ein hangen mwyaf, a hynny heſyd gydâ llôg? Oblegid hyn y mae'r Apoſtol yn cyffelybu *Elusen* i *hâd*, 2 *Cor.* 9. 10. Ni a wyddom mai natur *hâd* a heuir yw amlhau ag adchwanegu, ag felly y gwnâ ein hôll weithredoedd ni o drugaredd, nid ydynt yn dychwelyd yn unig ag yn llwmm, eithr yn doreithog, trwy ddwyn cynhayaf helaeth i mewn. Nid yw Duw yn gwneuthur a'n *Heluſenau* ni, fal yr ydym ni yn gwneuthur a'i *raſau* ef yn ſynych, ſef, ei rhwymo nhw i ſynu mewn *cadach* fal na ddyccont fûdd yn y bŷd i ni, eithr y mae ſo yn ei talu nhw yn ôl i ni yn helaeth: ag am hynny mae i ni achos dirfawr i ymoſod yn llawen ag yn guſſurus ar y Ddledſwydd hon, i ba ûn y Sul XVII.

Sul XVII. mae i ni gymmaint i'n cymhell, yn gyftal o herwydd ein bûdd ein hunain, ag angen ein Cymydogion.

Mewn pryd cyfaddas. 8. Yn *ail*, rhaid im roddi mewn *pryd cyfaddas*: gwir yw, fôd rhai mor dlawd a bôd Elufen yn waftad yn gyfaddas iddynt, oblegid fôd arnynt eifieu bôb amfer; etto i'r rhai hyn fe ddichon bôd rhyw bryd yn fwy cyfamferol i'w bûdd hwynt na'r llall; oblegid fe ddichon Elufen weithiau nid yn unig waredu dŷn tlawd o'i angenoctyd preſennol, ond hefyd, wrth ei roddi mewn *pryd*, ei ofod ef mewn rhyw ffordd i fyw yn fwy cyffurus rhag llaw. A chanhwyaf, yr ŵyf yn meddwl mai Rheol ddâ yw *cyffannu i'r fawl y bôm yn amcanu cyn gynted ag y gallom*, o blegid niweidiol yw oedi yn rynych iddynt hwy, ag i ninnau helyd; yn *gynfaf* am danynt hwy, diammeu yw, mai po hwyaf yr oedom, hwyaf y parhân nhw tan ei hangen preſennol, a chwedi ini unwaith amcanu cymmorth iddynt, mâth ar greulonder yw oedi ei roddi, canys tros hynny o amfer yr ydym yn hwyau ei helbulau hwynt; chwi a'i tybiech ef yn Byfyg-ŵr calon-galed yr hwn a chanddo feddiginiaeth a allai ei roddi yn ebrwydd i ddŷn mewn penyd, a oedai ei roddi heb fôd yn rhaid, ag felly a gadwai'r dŷn truan yn llwy mewn gofid: felly y mae ymma; y mae arnom ni eifieu iawn doſturi ag ymyſgaroedd, os medrwn ymfodloni i'n brawd tlawd fôd ûn awr mewn penyd, a chennym yn y cyfamfer fôdd ag odfa i'w gynnorthwyo ef, neu os efe ni bydd yn y cyfryw eifieu dirfawr, etto bêth bynnag yr ydym ni yn ei amcanu iddo ef helaethu ei gyffur, y mae fo yn colli o hynny, cymmaint ag ydyw'r amfer o

oediad.

oediad. Yn *ail*, dŵg yw oedi o'n plegid ein hunain; canys trwy hyn yr ydym yn rhoddi achlysur naill ai i brofedigaethau *Satan*, neu ein Cybydd-dod ein hunain, i droi ein meddyliau oddiwrth hynny. Fal hyn y mae yn rhŷ lynych gydá llawer o Ddledfwyddau Cristianogawl; o eisieu ei cwlphau nhw allan o law y mae ein hamcanion yn oeri, ag heb ddyfod byth i ben; felly y mae llawer yn bwriadu edifarhau, ond oblegid nad ydynt yn ymofod at hynny yn ebrwydd, y maent yn obdi o amser i amser, ag ysgatfydd byth heb wneuthur hynny; ag felly y digwydd yn fynych yn hyn ymma, yn enwedig gydá dynion cybyddaidd, ag am hynny ni ddylent hwy yn anad néb fyfygu oedi fai hyn. Sul XVII.

9. Yn *drydydd*, rhaid i ni gymmeryd gofal am roddi yn *bwyllog*, hynny yw, rhoddi mwyaf llé y mae mwyaf o eisieu, ag yn y cyfryw fódd ag a wnelo fwyaf llès i'r dderbyniwr: Y mae Elusseni yn fynych yn myned ar féth o eisieu'r gofal hwn; oblegid os roddwn ni fal y digwyddo i bawb a dybiom ei bôd mewn eisieu, ni a allwn weithiau roddi mwy i rai fydd mewn angen oblegid ei fyrthni a'i direidi, nag i'r rhai a'i haedda oreu; ag felly cadarnhau 'r naill yn ei ddiògi a'n gwneuthur ein hunain yn anabl i roddi i'r lleill. Etto nid wyf yn ammeu na ddichon bôd rhai anheilwng iawn mewn cymmaint eisieu yn y cyfamser ag y dylem ei cynorthwo hwynt; ond llè ni bo'r cyfryw ddirfawr angen yn gofyn, gwell yw i ni ddewis allan y rhai a haedda ein helusen ni oreu, fef, y rhai naill ai nid ydynt yn abl i lafurio, neu fydd ganddynt fwy teulu nag a all ei llafur hwynt ei gynnal; ag i'r *Rhoddwn yn bwyllog.*

Sul XVII. rheini hefyd rhaid yw rhoddi ein heluſen yn y cyfryw fodd ag a fo tebyccaf i wneuthur iddynt fwyaf lieſhaâd; ag fe ddichon bôd amryw foddion o hynny yn gyfattebol i'w hamryw gyflwr hwynt; i rai yſgatſydd goreu yw rhoddi iddynt o feſur ychydig; i eraill fe ddichon bôd yn fwy buddiol roddi iddynt y cwbl ar unwaith: ag weithiau fe all *benthyg* mewn prŷd fôd yn gyſtal a *rhòdd*, ag fe ddichon hynny weithiau fôd mewn gallu y rhai nid ydynt abl i roi ond ychydig: ond pan fenthyccom fal hyn mewn Cariad, rhaid i ni fenthycca héb lôg, a hefyd bwriadu, os digwydd iddo fôd héb allu talu, maddeu cymmaint o Gorph yr Hawl iddo ag y bò ei angen ef yn gofyn, a'n gallu ninnau yn rhoddi cennad. Y mae arnynt hwy eiſieu llawer o'r cariad hwn, y rhai ſydd yn taflu ei *Dléd-wyr tlodion* i garchar, pan wyppont nad oes ganddynt ddim i atteb y Ddléd, yr hyn ſy'n greulonder mawr, gwneuthur un arall yn helbulus, pan na byddom ein hunain yn enniill dim wrth hynny.

Yn hael. 10. Yn *bedwerydd*, ni a ddylem roddi yn *hael*, ni waſanaetha i ni fôd yn grintach yn ein *Heluſenau*, a rhoi yn y cyfryw feſur prin ag na ddŵg agos ddim cymmorth i'r derbyniwr; canys mâth ar watwor yw hynny: nid yw hynny ond fel pe bae dŷn yn cymmeryd arno borthi ûn ymmron llewygu o newyn trwy roi iddo friwſionyn o fara; fe fydde'r cyfryw Gardodau a hynny yn beth i'w chwerthin am ei ben, etto mae arna'i ofn fôd Eluſenau rhai yn rhŷ debyg i hyn ymma; mae y cyfryw ddynion iſlaw'r Diſcyblion hynny yr ydym yn darllen am danynt, y rhai ni wyddent ond oddiwrth Fedydd *Joan* yn unig, canys fe ellir yſtyried

fod

fôd *Joan Fedyddiwr*, yr hwn nid oedd ond cennad o flaen Criſt, yn gwneuthur yn rhan arbennig o 'i athrawiaeth, ar fôd i 'r *néb ſydd ganddo ddwy bais, rôi i 'r néb ſydd heb yr ûn*, *Luc* 3. 11. Nid yw ef yn dywedyd yr hwn ſydd gantho giſt fawr o ddilladau, ond yr hwn nid oes gantho ond *dwy bais*, rhaid iddo ymadel ag ûn o honynt: wrth hyn y deallwn y dylid fel hyn gyfrannu bêth bynnag ſydd gennym uwchlaw (nid ein gwagedd, ond) ein hangen, pan fo angen ein brodyr yn gofyn hynny. Ond os edrychwn ar amſer cyntaf yr Efengyl, ni a gawn weled Criſtianogrwydd yn rhagori llawer ar ddiſcybliaeth *Joan*; 'r oedd y rhai a drôwyd i 'r ffydd yn rhoddi nid *rhan* yn unig, either yn *rhoi 'r cwbl* yn rhwydd *i 'r Brodyr*, *Act.* 4. Ag er nad yw hynny, oblegid ei fôd ar achoſion anghyffredin, yn feſur o 'n hymarfer beunyddiol ni, etto fe all ddangos i ni pa ryw ran arbennig a ſylfaenus o griſtianogrwydd yw 'r Cariad hwn, gan yr arferwyd ef mewn cymmaint meſur pan ſeiliwyd yr Eglwys gyntaf; ag os yſtyriwn ni ymmhellach pa ryw Orchymynion o gariad a roddir ini yn yr Efengyl, hyd yn oed *rhoi ein heinioes i lawr tros y Brodyr*, 1 *Jo.* 3. 16. Nis gallwn feddwl fôd Duw yn cyfrif ein golud yn werthfawrocach na 'n bywyd, yn gymmaint ag y gorchymynne fo i ni fôd yn afradlon o 'r naill, ag etto bodloni i ni arbed y llall. Sul XVII.

11. Aneirif o Reſymmau a ellid ei dwyn i ganmol yr haelioni hwn wrth bawb ar ſydd yn proffeſſu Criſt; ni oſoda 'i ar lawr ond dau yn unig, y rhai y mae St. *Paul* yn ei arferu at y *Corinthiaid* ar yr unrhyw achos, 2 *Cor.* 8. 9. *Canys chwi a adwaenoch râs ein Harglwydd*

Jeſu

Sub XVII. *Jesu Grist, ag efe yn gyfoethog, ei fyned yr eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef.* Fe waccâodd Crist ei hun o'r holl ogoniant hwnnw a'r mawredd oedd gantho ef gyda'i Dâd yn y Nefoedd, ag a'i hymddarostyngodd er hûn i fuchedd wael a thlawd iawn yn unig i'n cyfoethogi ni. Ag am hynny rhag cywilydd na rufwn ninnau waccâu ein cistiau, a lleihau pêth o'n pentwr, er mwyn cyhnorthwyo ei aelodau tlodion ef. Yr ail Rheswm yw, difgwyliad gwobr, yr hwn a fydd yn fwy, neu yn llai yn ol y mefur o'n Heluſenau, 2 *Cor.* 9. 6. *A hauo yn brin, a fêd hefyd yn brin, ag a hauo yn helaeth a fêd hefyd yn helaeth.* Yr ydym yn edrych arno ef megys llafurwr anfynhwyrol iawn, yr hwn er mwyn arbed ychydig hâd yn y cyfamfer, a haua mor deneu ag i anrheithio ei gnŵd; a'r unrhyw ynfydrwydd a fydd ynom ninnau, os trwy arbed ein heluſeni, y gwnawn i ni ein hunain gynhayaf teneu ar ôl hyn, trwy golli'r cwbl, neu ran fawr o'r gwobrau hynny a baratódd Duw i'r Eluſen-wr hael. Ni chymmera i arnaf ofod ar lawr, bêth yw r hyn a ellir ei alw yn rhódd hael, gan fôd graddau mewn haelder; fe ddichon ún roddi yn hael, ag etto ún arall yn haelach nag yntau; heb law hyn, rhaid yw mefur haelder, nid cymmaint yn ól y pêth a roddir, ag yn ól *gallu* y rhoddwr. Fe ddichon dŷn o Yſtâd waet roddi llai nag ún cyfoethoccach nag ef, ag etto bôd yn haelach na'r llall, oblegid y dichon yr ychydig hynny fôd yn fwy allan o'i eiddo ef, na'r llawer allan o eiddo'r llall. Fal hyn y gwelwn Grist yn datcan ddarfod i'r *wraig weddw dlawd roddi mwy i'r Tryſſor dy, na'r holl wŷr goludog, Luc.* 21.

21. 3. nid fel pe buaſeu ei *duy batling* hi yn fwy na'i rhoddion *goludog* hwynt, ond o ran bôd hynny yn fwy iddi hi gan nad oedd ganthi ddim gwedi ei adael, lle yr oeddynt hwy yn rhoddi o'i llawnder y peth a allen nhw yn hawdd ei hepcor. Rhaid i bôb dŷn yn hyn ymma farnu troſto'i hun; ni a welwn yr Apoſtol, er ei fôd yn annog y *Corinthiaid* yn daer i haelioni, etto heb oſod ar lawr iddynt pa faint y rôent, eithr yn gadael hynny i'w yſtyriaeth ei hunain, 2 *Cor.* 9. 7. *Pôb ûn fel y mae yn amcanu yn ei galon, felly rhodded.* Ond coſiwn yn waſtad mai mwy cymmeradwy a fydd gan Dduw pe mwyaſ a roddom (trwy na wnelom wrth hynny gam a'r fawl yr ydym yn rhwym i'w cynnal) a mwy gwobr a dderbyniwn ni gantho ef. Ag er mwyn ſicrhau cwplhâad y Ddledſwydd o roddi eluſen, dâ fydd i ni ddilyn y cyngor y mae St. *Paul* yn ei roddi i'r *Corinthiaid* yn hyn, 1 *Cor.* 16. 2. *Pôb dydd cyntaf o'r wythnos rhodded pob ún o honoch heibio wrtho ei hun ynghadw yn ôl fel y llwyddodd Duw ef*; Pe gwnae dynion felly, ſef, rhoddi heibio beth bob *wythnos* ynghadw i'r weithred hon o Eluſen, dyna'r môdd ſicraf o fôd pêth yn waſtad yn barod i'w roddi pan ddigwyddo achos; a thrwy roddi felly o feſur ychydig, ni a fyddem yn llai teimladwy o'r draul, ag ni bydde mor fath *rwgnach* a *murmur* dirgel a fydd gan ddynion yn fynych wrth roddi llawer ar unwaith: ag yn wîr, fe fydde hyn yn rheol ddâ iawn mewn pethau eraill hefyd, canys pan ſo *crefft-wr* neu *Farſiand-wr* yn bwrw ei gyfriſon bob wythnos, ag yn gweled ei elw, dyna'r amſer cynnefuraf i offrwm y Deymged hon

Sul XVII.

Sul XVII. hon i Dduw allan o 'r peth a ennillaſeu trwy ei fendith ef; os dywed rhai na allant yn gyſtal gyfrif ei helw bôb wythnos a thrwy gymmeryd hwy o amſer, ni ymryſſona 'i a nhw am yr amſer nodedig hwnnw, ond gwnânt bôb mis neu bôb chwarter, am y gwnelont hynny: Ond yn ddiammeu cymwys iawn yw rhoddi peth heibio i 'r defnyddiau hyn yn hytrach na gadael hyn i 'n Heluſenau diſymmwth; ag nid wyfi 'n ammeu pwy bynnag a wnelo brawf o hyn na chydnabydda ef hynny.

Cariad tu ag at Enw-dâ.

12. Yn *Bedwerydd*, rhaid i ni arferu ein *Cariad* tu ag at *Enw-dâ* ein Cymydog: ag ni a allwn gael amryw achoſion i hyn ymma; weithiau tu ag at y gwirion, ag weithiau tu ag at yr euog heſyd. Os bydd ûn a wyppom ei fôd yn ddi-eûog yn cael ei enllibio a 'i ddifenwi, mae Cariad yn ein rhwymo ni i wneuthur yr hyn a allom er eglurhau ei ddiniweidrwydd ef, a 'i waredu oddiwrth yr enllib hwnnw; a hynny nid yn unig trwy dyſtiolaethu pan elwir arnom i hynny, ond trwy gynnyg ein tyſtiolaeth o 'n gwir-fodd yn ei blaid ef; neu os ni bydd y cyhuddiad o flaen Gorſedd Cyfiawnder, ag felly heb fôd llê i 'n tyſtiolaeth mwy cyhoeddus ni, eithr ei fôd yn unig yn enllib yn trammwy o 'r naill i 'r llall, rhaid i ni yno heſyd wneuthur a allom i eglurhau ei wiriondeb ef, trwy gymmeryd pôb odſa i fynegu yn gyhoeddus y peth a wyppom ni am ei ddiniweidrwydd ef. Ond y mae 'n rhaid i ni gwplhau peth Cariad o 'r fâth ymma tu ag at yr euog heſyd, weithiau trwy gelu ei fai ef, os bydd yn gyfryw, na bydd rhan arall yn y bŷd o Gariad

yn

yn gwneuthur bód yn angenrhèidiol ei ddad- Sul
cuddio, neu os ni bydd y bai mor hynod a XVII.
bód yn ſiccr o'i fradychu ei hun. Y mae'r
archollion a roddir i frî ag Enw-dâ dynion o'r
holl rhai eraill yn anhawſaf ei meddiginiaethu,
ag am hynny ſe weddai yn ddâ i Gariad Criſti-
anogawl ei rhag-flaenu hwynt, iê, llè yr
haeddwydd hwynt; ag ſe ddichon yſgatſydd i'r
cyfryw dynerwch yn cuddio'r bai ddwyn y
Troſſedd ŵr yn gynt i Edifeirwch, os bydd
hynny (fal y dyle fod) ynghyd â phob rhyw
gyngor dirgel a difrifol: Ond os bydd y bai yn
gyfryw, na ellir mo'i gadw yn gyfrinachol,
etto er hynny ſe ddichon bód llè i'r Cariad hwn,
trwy ei leihau ef cymmhelled ag y bo'r achos
yn rhoddi cennad; megys os gwnaethpwyd ef
yn *ddiſymmwth* ag yn fyrbwyll, ſe leihá Cariad
hynny, trwy gyfaddaſu péth atto ef ar à berth-
yn i weithred *bwyllog* a rhag-fyfyriol; ag felly
yn gyfattebol mewn amgylchiadau eraill. Ond
y mae 'n digwydd gan mwyaf i ni arferu 'r
Cariad hwn tu ag at y rhai ni wyppom ddim
oddiwrth na'i diniweidrwydd na'i heuogrwydd,
ond fydd trwy ryw *weithredoedd ammheus* gwedi
ei dwyn i ddrwg-dŷb; Ag ymma cofiwn mai
priodoldeb Cariad yw, bod hèb *feddwl drŵg*, ond
barnu'r goreu; ag am hynny rhaid i ni oche-
lyd meddwl yn anghariadus o honynt ein hu-
nain, ag hyd y gallom cadw eraill herfyd oddi-
wrth hynny; ag felly gwneud ein goreu î gyn-
nal Enw-dâ ein Cymydog, yr hwn ſydd yn
ſynych mewn cymmaint o enbydrwydd trwy
ammheuaeth anghyfiawn, a thrwy'r achwyniad
cywiraf. I hyn yr ŵyf yn meddwl y perthyn
Gorchymyn Criſt, *Mat.* 7. 2. *Na fernweh*; a
phan yſtyriom y geiriau ſydd yn canlyn, *fel*
na'ch barner, ni edrychwn ni ar hynny megys

Sul péth cyn waeled ag y mae'r bŷd yn arferol o'i gyfrif; ſe a delir adref i ni ein barn anrhugarog o eraill trwy ddwys a gerwyn farn Duw.

Gweithredoedd o Gariad yn weithredoedd o Gyfiawnder.

13. Mi a eis bellach trwy'r *Cariad Gweithredol* hwnnw a berthyn i'n brodyr yn ei pedwar amryw leoedd a'i cynwyſiadau; llawer o'r rhai neillduol o honynt y crybyllwydd ar fyrr am danynt o'r blaen, pan draethaſom am *Gyfiawnder*. Os tybia néb yni an-addas gwneuthur yr unrhyw weithredoedd yn rhan o *Gyfiawnder* ag o *Gariad* hefyd, mi a ddymunaſ arnynt yſtyried, gan fôd *Cariad* trwy Orchymyn Criſt yn ddyléd arnom ni i'n brodyr, ſe ddyle'r holl rannau o *Gariad* yn yr yſtyriaeth honno gael ei crynhòi tan y Priſ-bwngc o *Gyfiawnder*, gan fôd talu dléd yn ddiammeu yn rhan o honi: Etto oblegid ein bòd ni yn gyffredinol yn gwneuthur rhagoriaeth rhwng ſwyddau *Cyfiawnder* a *Cariad*, mi a ddewiſais draethu arnynt megys y maent yn perthyn yn neillduol i *Gariad*. Ond yr wyf yn deiſyf fôd cofio yn waſtad béth bynnag iydd tan Orchymyn, ei fôd ef yn gymmaint yn Ddléd arnom, a'n bôd ni yn trofſeddu nid yn unig yn erbyn *Cariad*, ond *Cyfiawnder* hefyd; os nyni a'i heſgeuluſwn; yr hyn a haedda ei yſtyried, er mwyn cynnhyrfu ein gofal ni i gwplhau hynny, ag yn hyttrach, oblegid fôd dynion gan mwyaf yn cyſeiliorni yn hyn o beth, trwy edrych ar weithredoedd o drugaredd megys pethau yn ſeſyll yn hollawl ar ei hewyllyſ-dâ nhw, heb fôd arnynt Rwymedigaeth yn y bŷd i hynny; a'r ffrwyth o hynny yw, fôd dynion yn barod i dybied yn fawr o honynt ei hunain pan ddangoſont y Cariad lleiaf, ond ni fwriant tai arnynt ei hunain, er iddynt eſgeuluſo hynny

yn

yn hollawl; yr hyn iw ffrwyth dra-pheryglus y dŷb honno, ag yn deilliaw yn dra-naturiol oddiwrthi. Os oes unrhyw gariad arall, i'r hon ni perthyn Cyfiawnder, y mae yn gyfryw ag na oſynnir moni oblegid ei graddau megis Dléd gaeth arnom, hynny yw, ni orchymynnir moni yn y cyfryw feſur gan Dduw; ag etto am y cyfryw fe fydd yn rheſymol iawn i ni ymegnio; ond nid allwn ni wneuthur hynny heb gymmeryd y graddau angenrheidiol yn ein ffordd, ag am hynny bydded ein gofal *cyntaf* ni am y cyfryw raddau. Sul XVII.

14. I'n hyfforddio ni yn hyn ni ddichon bôd gwell moddion, na chadw o flaen ein llygaid y rheol ragorol honno o *garu ein Cymydogion fel ni ein hunain*; hyn y mae'r Apoſtol yn ei wneuthur yn grynhóad o'n hóll *Ddledſwydd tu ag at ein Cymydogion*, Rhuf. 13. 9. Bydded hyn gan hynny yn rheol i feſur ein holl weithredoedd tu ag at eraill wrthi; pan ganſyddi angen yn y bŷd o eiddo dy gymydog, gofyn i ti dy hún, Pe byddit ti yn yr ûn gyflwr, oni wnai'r Cariad ſydd gennit i ti dy hûn iti ymegnio am gymmorth, ag yna llawn-fwriada ar fôd dy gariad tithau yn gyfryw tu ag at dy Gymydog. Hon yw'r *Gyfraith Frenhinol* honno, fel y mae St. *Jago* yn ei galw hi, *Jago* 2. 8. wrth ba un y bydd yn rhaid i bawb ar ſydd yn ddeiliaid i Grift gael ei llywodraethu; a phwy bynnag ſydd telly, fe ſydd fiŵr o gwplhau pôb Dledſwydd o Gariad i eraill, oblegid y chwennychei ef i eraill, ar yr unrhyw achoſion, ei cwplhau nhw iddo yntau. Nid oes nèb na ewyllyſiei gael amdiffyn ei Enw-dâ, cymmorth ei dlôdi, a chynnorthwyo ei ddioddefaint corphorol; yn unig fe ellir dywedyd am *angenrheidiau Yſprydol*, fod rhai mor eſgeulus o honynt ei hunain na *Rheol ragorol Cariad.*

Sul XVII. chwennychan nhw ddim cynnorthwy ynddynt; ni ewyllyſiant nag argyoeddiad, nag athrawiaeth iê, nhw a fyddant ddigllon pan roddir hwynt iddynt; ſe ellir gan hynny ddywedyd, nad ydyw'r cyfryw rai yn rhwym trwy y rheol hon i'r rhywogaethau hynny o Gariad. I hyn mi attebaf, y deallir wrth y *Cariad* hwnnw o *honom ein hunain*, yr hwn a oſodir yma ar lawr megis meſur o'n *Cariad* tu ag at ein cymydog, y cariad rheſymol hwnnw a ddyle fôd gennym ni i ni ein hunain; ag am hynny er dyſod o ddŷn yn ſyrr o'r Cariad hwnnw ſydd ddledus arno iddo 'i hun, etto ni chollodd ei Gymydog mono trwy hynny, y mae iddo ef etto hawl i'r cyfryw feſur o'n Cariad ni ag a ddyle fôd gennym ni i ni ein hunain, a'r cyfryw yn ddiau yw'r gofal hwn am ein cyflwr yſprydol; ag am hynny er i ni eſgeuluſo ein Heneidiau ein hunain, ni ryddhâa hynny monom oddiwrth y cariad dledus arnom i eraill; ond ni phoena 'i yn pwyſo llawer ar y cyfryw ddynion am gwplhau 'r Ddledſwydd hon, gan nad ydyw debyg y gellir ei hannog nhw i hynny mwy nag y gwnaent ddaioni trwy hynny pe gellid, gan y gorchſygai ei ſiampl ddrŵg ei holl gynghorion dâ hwynt, ag felly gwneuthur y cwbl yn ofer ag yn anfuddiol.

Gwneuthur Tangnheddyf. 15. Y mae etto ûn weithred o Gariad yn ôl, yr hon ni pherthyn yn briodol i'r ún o'r rhai o'r blaen, ag etto mewn ffordd a ddichon berthyn iddynt ôll; a honno yw, *Gwneuthur Tangnheddyf* a chymdeithas ddâ ymŷſg dynion; trwy ba ûn y gallwn ni wneuthur lles mawr i Eneidiau, Cyrph, i olud, ag i Enw-dà ein Brodyr; oblegid y mae y rhain ôll mewn enbydrwydd trwy gynnen ag ymryſon. Y mae at-

at-gymmodi gelynion yn weithred tra-bendigedig, ag a ddŵg ſendith ar y rhai a'i harferont: Y mae i ni air Criſt am hynny, *Gwyn-fyd y Tangnheddyf-wyr*, *Mat.* 5. 9. ag am hynny y mae i ni annogiad i gymmeryd gafael yn ddiwyd ar bôb odfa o wneuthur y ſwydd hon o Gariad, trwy arferu ein holl gelſyddyd a'n hegni i ddiffodd pôb cwerylon ag ymryſſonau a ganſyddom ymŷſg eraill; ag nid digon i ni yn unig ymegnîo i edfryd heddwch lle'i collwyd, ond i'w gynnal ef hefyd lle y bô: Yn *gyntaf*, yn gyffredinol, trwy geiſio ſefydlu yn nghalon pôb dŷn o'n cydnabyddiaeth wîr brîs y Tlŵs gwerthfawr hwnnw, *Tangnheddyf*; Yn *ail*, yn neillduol, trwy ragflaenu mewn prŷd y cynnhennau a'r amrafaelion hynny a welom yn debyg i ddigwydd. Fe ddichon cyfaill neu Gymydog pwyllog yn fynych ddiwygio'r cam-gymmeriad a'r cam-fyniadau hynny y rhai yw dechreuad ymryſſonau ag amryfuſeddau, ag ſe fydd yn hawſach ag yn fwy buddiol fal hyn rag-flaenu, nag heddychu amrafelion. Y mae yn hawſach yn ddiammeu, oblegid pan fo ymryſon unwaith gwedi tarddu allan, y mae fal fflamm angerddol, yr hon ni ellir ei diffodd cyn gynted ag y galleſid pan oedd hi yn dechreu cynneu. Ag hefyd y mae hynny yn fwy buddiol, oblegid y mae yn rhagflaenu llawer o bechodau, y rhai ni ellir ond yn anhawdd ei gochelyd mewn parhâad o gynnen gyhoeddus. Y mae *Solomon* yn dywedyd, *yn amlder geiriau ni phallu fôd pechod*, *Dihar.* 10. 19. Yr hyn nt ellir yn gymmhwyſach ei draethu am unrhyw fâth ar eiriau, nag am y rhai hynny a adroddir mewn digofaint; ag yna, er ir amrafael fôd ar ôl hyn gwedi ei gwneuthur i fynu, etto ſe erys

Sul XVII.

y

Sul XVII. y pechodau hynny rhag llaw o'i hachos hwynt; ag am hynny Cariad mawr yw ei rhag-flaenu hwynt.

Rhaid i'r Tangbeneddyfwr fôd yn Dangnbeddyfus ei hunan.

16. Ond i gymmhwyſo dŷn i'r ſwydd ragorol hon o *wneuthur Tangnheddyf*, angenrheidiol yw ei fôd ef mewn môdd enwedigol yn *dangnheddyfus* ei *hunan*; canys a pha wyneb y gelli di gynghori ag annog eraill i'r pêth ni chwplhei dy hun? Neu pa fodd y gelli ddiſgwyl i'th gyngor dyccio? Atteb parod yn ngenau pôb dŷn a fydd, *Tydi ragrithiwr, bwrw allan yn gyntaf y trawſt allan o'th lygad dy hun, Mat.* 7. 5. Ag am hynny edrych yn ddyfal am dy gymmhwyſo dy hun i'r gorchwyl ymma. Y mae ûn pwngc o dangnheddyf na wnêir fawr gyfrif o hono ymŷſg dynion, a hynny yw mewn *troſſeddiadau ymgyfreithiol*; nid yw dynion yn meddwl fod niwed yn y bŷd ſyned i'r *Gyfraith* ynghylch pôb ffiloreg wael, a thra'i caffont ond y Gyfraith o'i tû, ni thybian nhw fôd bai yn y bŷd arnynt: ond yn ddiammeu, pe bydde gennym ni y gwîr Yſpryd heddychol hwnnw a ddyle fod gennym, ni fydden ni parod am neb-ryw achoſion gwael i gythrwblio ag aflonyddu ein Cymydogion. Nid fal pe bydde pôb mynediad i'r Gyfraith yn hollawl yn anghriſtianogaidd, ond y cyfryw *Gŵynion* ag a ſylfaenir ar gynnen ag Uchder meddwl, i amddiffyn y cyfryw hawl gwael na bydde i ni fawr golled na niwed er ymadel ag ef; neu 'r hyn ſydd waeth etto, i ddîal y cyfryw gamwedd gwael. Ag yn wir, yr hwn mewn achoſion mawr a ymedy a pheth o'i hawl er mwyn Tangnheddyf, ſydd yn gwneuthur fwyaf Criſtianogaidd, a mwyaf cyfattebol i gyngor yr Apoſtol, 1 *Cor.* 6. 7. Yn hytrach *ddioddef cam, a chymmeryd colled.* Ond os bydd

Am fyned i'r Gyfraith.

y

y niwed cymmaint, a bôd yn angenrheidiol i ni fyned i'r Gyfraith, etto yno rhaid i ni edrych yn ofalus am gynnal Tangnheddyf; yn *gyntaf*, trwy fôd gennym dymmer gymdeithgar a Chriſtianogaidd tu ag at ein gwrthwyneb-wŷr, heb oddef i'n calonnau ymddieithro oddiwrtho ef; yn *ail*, trwy fôd yn fodlon i ymrôi i bôb moddion rheſymol o gyttundeb, pa bryd bynnag y cynnygir hwynt; ag yn wir, oni bŷdd gennym ni'r meddwl addfwyn tymmherus hwn wrth ymgyfreithio, ni wela'i pa fodd y gellir ei cymmodi nhw a'r Yſpryd tangnheddyfus hwnnw a ofynnir mor gaeth gan bôb Criſtion. Yſtyried y rheini hyn y rhai ſydd yn ddigrif ganddynt aflonyddu ei Cymydog, neu Swydd pa rai yw cynnhyrfu eraill i hynnu. Y mae hoffi Tangnheddyf, yn gyſtal ynom ein hunain ag eraill, yn hollawl yn angenrheidiol i bawb ar ſydd yn ei haddef ei hunain i fôd yn waſanaeth-wŷr iddo ef yr hwn a elwir *Tywyſog Tangnheddyf*, *Eſa.* 9. 6. Sul XVII.

17. Cymmaint ag ſydd yn ôl i'w draethu am y *Cariad* hwm mewn *Gweithredoedd*, yw ei gyrrhaeddiad ef, yr hwn ſydd raid fôd mor ehang a'r llall yn yr *anwydau*, ſef, i gynnwyſ tano nid yn unig ddiethriaid, ag eſtroniaid, eithr hefyd ein gelynion mwyaf. Mi a draethais gymmaint yn barod am y Rhwymedigaeth ſydd arnom i faddeu iddynt, na ddyweda'i ddim ychwaneg ymma am hynny; ond os cydnabyddir hynny yn Ddledſwydd, ni ymddengys ond yn rheſymol iawn i ni fyned ymlaen ûn râdd ymmhellach, ſef, i wneuthur cymwynaſau iddynt; oblegid gwedi i ni unwaith faddeu iddynt, ni allwn ni mo'i cyfrif hwynt yn Elynion mwyach, ag felly ni bydd anhawdd, iê, i gîg a gwaed wneuthur pôb rhyw gymwynas iddynt. *Mae'r Cariad hwn yn ddlêdus i Elynion.*

Sul XVII

iddynt. Ag yn wîr, dymma'r môdd i ni i ddangos difrifolder ein maddeuant. Hawdd yw dywedyd, yr ŵyf yn maddeu i'r cyfryw ddŷn, ond os eſgeuluſi wneuthur daioni iddo pan geffych odfa, amlwg yw fôd yr hên falis etto yn llechu yn dy galon; llê y mae maddeuant hollawl, fe fydd cymmaint parodrwydd i wneuthur cymwynas i Elyn ag i gyfaill: iê, yſgatfydd mewn rhai pethau ychwaneg, gan fôd dŷn gwîr-gariadus yn edrych arno megys goruchafiaeth odidog pan gaffo odfa i eglurhau difrifolder ei gymmod, ag i ufyddhau Gorchymyn ei Iachawdr, *trwy wneuthur daioni i'r rhai a'i caſhâant ef*, *Mat.* 5. 44. Gwybyddwn gan hynny fôd yn rhaid i ni gwplhau pôb rhyw weithredoedd o garedigrwydd i'n *gelynion*, am yr hyn bêth y mae ini nid yn unig *Orchymyn*, eithr hefyd *ſiampl* Criſt, yr hwn nid oedd yn unig yn toſturio troſtom ni ei elynion gwrthnyſig a gwrthryfelgar, eithr a ddangoſodd hynny mewn gweithredoedd, a hynny nid rhai gwael ag eſmwyth, ond y cyfryw ag a goſtiodd iddo ei werthfawroccaf waed. Ag yn ddiau, ofer i ni gymmeryd arnom nag ufyddhau ei Orchymyn ef, na dilyn ei ſiampl ef, os bydd yn anhawdd gennym ddangos ein Cariad tu ag at ein gelynion trwy'r ffyrdd eſmwyth nynny o'i *gorthi nhw yn ôi newyn*, neu'r cyffelyb, a oſodir ar lawr i ni gan yr Apoſtol, *Rhuf.* 12. 20. Ond os gallen ni gwplhau'r gweithredoedd hyn o garedigrwydd i'n gelynion yn y cyfryw fôdd ag a'i tynneu nhw oddiwrth ei gelyniaeth, ag a'i hennillen nhw i heddwch, ſe fyddeu'r Cariad yn ddan-ddyblyg; Ag at hyn y dylen ni ymegnîo, oblegid hynny y mae'r Apoſtol yn ei oſod ar lawr megys y diben o'r gweithredoedd rhag-

rhag-ddywededig o borthi, &c. *Fel y bò i ni bentyrru marwor am ei pennau hwynt*, nid marwor i'w lloſgi, ond i 'w tôddi nhw i bòb rhyw Gariad a thynerwch tu ag attom ni; a hyn yn wîr a fyddeu'r môdd berffeithiaf o *ddilyn ſiampl Criſt*, yr hwn, yn y cwbl a wnaeth, ag a ddioddefodd troſom ni, oedd yn rhag-luniaethu ein cymmodi ni ag eſ ei hun. Sul XVII.

18. Mi a ddangoſais i chwi bellach yr amryw rannau o'n *Dlêd tu ag at ein cymydog*, er mwyn cwplhâu pa ûn ni ŵn ni ddim mwy angenrheidiol na diyſpyddu ein Calonnau o'r *Priod-gariad* hwnnw, yr hwn ſydd mor ſynych yn ei meddiannu hwynt, a hynny mor hollawl, nad yw yn gadael llê i Gariad, iè, nag i Gyſiawnder ychwaith tu ag at ein Cymydog. Nid wyſi'n meddwl trwy 'r *Priod gariad* hwn y *gwîr-gariad* hwnnw o honom ein hunain, ſef, y Cariad a'r gofal am ein Heneidiau, oblegid ſe'n *cyfarwyddeu* hwnnw ni yn llê 'n *rhwyſtro* yn y ddled-ſwydd ymma; ond y Cariad anghymedrol nwnnw o'n bûdd a'n elw bydol, yr hyn yn ddîau yw gwreiddyn pôb anghyſiawnder ag angharedigrwydd tu ag at eraill. Y mae'r Apoſtol yn goſod y pechod hwn o *ſerch arnom ein hunain* ym mhen lliaws o bechodau, 2 *Tim.* 3. 2. fel pe bydde yn ryw Swyddwr cyfrifol ym myddin Satan; ag yn wîr nid heb achos; oblegid nid yw ef ûn amſer yn myned heb lû melldigedig o amryw bechodau eraill, y rhai fel *cynffon y Ddraig*, (*Dadc.* 12. 4.) ſydd yn tynnu ymmaith bôb gofal am Ddled-ſwydd tu ag at eraill. Fe'n gwnêir ni trwy hynny mor ddyſal a bwriadus ar ein boddhau ein hunain, na waeth gennym am nêb arall, yngwrthwyneb i gyfarwyddiad St. *Paul*, (*Rhuf.* 15. 2.) yr hyn yw, nid i ni'n boddhau ein hunain, ond *i bawb foddhau ei gymydog*

Priawd-ſerch yn rhwyſtr i'r Cariad hwn.

Sul XVII. *dog yn yr hyn ſydd ddâ i adeilad*; yr hyn y mae yn vei annog o ran ſiampl Criſt, *gwer.* 3. *Canys Criſt nis boddhâdd ei hunain*: Os oes gan hynny gennym ni ewyllys diffuant o gael y Rhinwedd ymma o gariad wedi ei gwreiddio yn ein calonnau, rhaid i ni fôd yn ofalus am chwynnu allan y pechod hwn o ſerch i ni ein hunain, oblegid ammhoſſiblyw iddynt hwy ill dau lwyddo yn yr ûn llê.

Gweddi yn fôdd o gael y Cariad ymma.

19. Ond gwedi i ni ſymmud ymmaith y Rhwyſtr hwn, rhaid i ni gofio nad yw hyn, (mwy na gràſau eraill) yn tarddu o honom ein hunain, *dawn Duw* yw, ag am hynny rhaid i ni *Weddio* yn daer arno of am ei gweithredu ynom ni, trwy danfon ei Yſpryd glân, yr hwn a ymddangoſoddunwaith mewn dull *Clommen*, creadur *llaryaidd* a *di-fuſtl*, i ffurfio ein calonnau ni i'r unrhyw dymmer, ag i'n gwneuthur ni yn abl i gwplhau yn ddyladwy y Ddledſwydd hon.

Dledſwyddau Criſtianogawl yn boſſibl ag yn hyfryd.

20. Mi a eis bellach trwy'r amryw *Ddoſparthiadau* hynny a oſodais i ar lawr ar y cyntaf, ag a ddangoſais i chwi béth yw ein *Dledſwydd* i *Dduw*, i ni *ein Hunain*, ag i'n *Cymydog*: Ag mi a allaſ ddywedyd am hyn megis y mae yn *Luc* 10. 28. *Gwnâ hyn a byw fyddi.* Ag yn ddiammeu, nid gorchwyl ammhoſſibl yw cwplhau hyn yn y cyfryw ſeſur ag y mae Duw yn fodlon i'w dderbyn yn raſuſol, ſef, mewn Purdeb, er nid mewn Perffeithrwydd; oblegid nid yw Duw yn gyſi yw Feiſtr tôſt, *Luc.* 19. 20. *Yn medi'r pèth ni hauodd*; nid yw efe yn gofyn dim gennym ni ond y péth y mae fo yn barod trwy ei Râs i'n cynorthwyo ni iw gwplhau, oddigaeth i ni fôd yn ddiffygiol i ni ein hunain naill ai yn ei ofyn trwy Weddi, neu yn ei arferu trwy Ddiwydrwydd. Ag megys rad y dyw yn anſoſſibl, felly hefyd nid yw yn

orchwyl

orchwyl mor drwm, ag athriſt, ag y mae dynion yn barod i feddwl o honaw. Cyfrwyſder arbennig *Satan* yw gwneuthur fel y gwnaeth y *Spiwŷr*, *Num.* 13. 32. *dwyn anglod i'r Tir dâ hwn*, ſef, *buchedd Griſtianogawl*, i'n dychrynnu a'n digalonni ni rhag myned i mewn iddi, ag i'n brawychu ag nis gwn pa *Gawri* a gawn ei cyfarfod; ond na ſiommer ni fal hyn, eithr ymwrolwn i wneuthr prawf, ag yna ni a gawn ei gweled hi yn *Ganaan*, *yn wlâd yn llifeirio ô laeth a mêl*: Nid yw Duw yn *anialwch i'w bobl, nag yn dîr Tywyllwch*, *Jer.* 2. 31. Nid yw ei wasanaeth ef yn ein di-feddu ni o ddim gwîr lawenydd, ond yn ein cynorthwyo ni i lawer iawn: *y mae ſâu Criſt yn eſmwyth*, iê, ag yn *hyfryd* hefyd; *y mae ei faich ef yn yſgafn*, iê, ag yn *raſuſol* hefyd. Y mae mewn *ymarfer o Dledſwyddau Criſtianogawl* lawer iawn o ddiddanwch preſennol, ag os nid ydym yn deimladwy o hyn; fe ddigwydd hynny o achos y gwrthwynebiad y mae ein hymarweddiad trofaus bechadurus ni yn ei wneuthur, y rhai trwy 'r ymrafael ſydd yn peri aneſmwythdra. Ond ymma yn *gyntaf*, rhaid i ni roddi hyn ar ein bai ein hunain, am i ni gael y drŵg arferion hyn, ag felly gwneuthur hynny yn anhawdd i ni yr hwn o hono 'i hûn ſydd yn dra-hyfryd; ni wasanaetha bwrw bai ar y Dledſwyddau am hynny. Ag yna yn *ail*, y mae'r hyfrydwch o orchfygu 'r arferion drŵg hynny yn gyfryw, ag a lŵyr-bwyſa i lawr yr holl drafferth o'r frwydr. Sul XVII.

21. Ond ſe ddywedir yſgatfydd fôd rhai rhannau o Dduwioldeb yn gyfryw, ag fydd yn debyg iawn i ddwyn arnom *ô ledigaethau a blinderau* yn y bŷd, ag nad yw y rheini *yn hyfryd*, eithr *yn ofidus*. Mi a attebaf, fod yn y rheini *Hyd yn oed pan ddygont arnom flinderau, oddi allan.*

Sul XVII. achos o orfoledd: ni a welwn fôd yr Apoſtolion yn meddwl felly, *yn oeddynt hwy yn llawênychu am ei cyfrif hwynt yn deilwng i ddioddef er mwyn Enw'r Jeſu*, Act. 5. 14. A gan mae St. Petr yn dywedyd i ni, os bydd i neb oddef fel Criſtion, y dyle ef foliannu Duw am hynny, 1 Pet. 4. 16. Y mae'r cyſnyw rym a rhinwedd yn nhyſtiolaeth Cydwybod ddâ; ag ſydd abl i newid y Penydiau toſtaf i'r gorfoledd mwyaf; ag ni allwn ni byth gael y dyſtiolaeth honno yn eglurach ag yn ſywioccach na phan oddefom er mwyn Cyfiawnder; felly, chwi a welwch fôd *Criſtianogrwydd* yn dra-hyſnyd yn ei hymwiſgiad mwyaf greſynol, y mae ei diddanwch hi oddi-mewn yn rhagori llawer ar yr holl flinderau oddi allan ſydd yn ei dilyn, a hynny yn y cyſamſer, tra'i bôm yn y cyflwr o filwriaeth ar y ddaiar. Ond os edrychwn ni *ymlaen* ar y *Goron* o'n *buddugoliaeth*, ſef, y gwobrau tragywyddol hynny yn y Nef, ni thybiwn ni byth fôd y dioddefiadau hynny yn ofidus, na'r Dledſwyddau Criſtianogawl ychwaith, er na bo dim gennym yn y cyfamſer i'w pereiddio, gan fod y cyſnyw dâl am danynt yn y diwedd; bŷdded ein llafur ni mor dôſt ag y mynno, ni all fôd achos i ni ddeffygio tano. Gadewch i ni gan hynny pan gyfarfyddom a rhyw rwyſtrau yn ein hymdaith, ſefydlu ein golwg ar y gyngwyſtl werthfawr hon, ag yna *rhedeg trwy ammynedd yr yrfa a oſodwyd o'n blaen ni*, Hebr. 12. 1. a dilin *Pen-twyſog ein hiechydwriaeth* trwy'r gofidiau trymmaf, ie, trwy'r *unrhyw Fôr côch* o waed yr aeth ef trwyddo, pan ſo ein huſydd-dod ni iddo ef yn gofyn hynny; oblegid er i'n *ffyddlondeb* ni iddo ef ein tywys ni i angeu, yr ydym yn ſicor na byddwn golled-wŷr

wrth

wrth hynny; oblegid i'n cyfrywiai yn addawodd ef *Goron y bywyd*, difgwyliad pa ûn a ddichon wneuthur Criftion yn fwy cyffurus yn ei lyffetheiriau a phydew tomlyd, na cherlyn bydol ynghanol ei lwyddiant mwyaf. Sul XXVI.

22. Cymmaint ag fyddi i mi i'w draethu yn ychwaneg yw, i ddeifyf ag i daer-ymbil ar y Darllenydd, ar iddo yn ddi-attreg ymofod ar y Ddeddfwydd hon fydd mor fuddiol a hyfryd, trwy ymarferu yn ddiffûant yr holl bethau hynny a genfydd ef trwy'r *Llyfr* hwn, neu ryw foddion eraill, i fôd yn ddyledus arno; a phe pellaf yr aeth ef o'r blaen allan o'r ffordd, pryfura gwbl y dyle fo geifio dyfod iddi, a bôd yn fwy diwyd i rodio ynthi drachefn. Yr hwn fydd ganddo fwrne fawr i fyned, ag a wêl iddo golli rhan fawr o'i ddydd mewn *ffordd gyfeiliornus*, nid rhaid mor cymmell llawer arno i droi i'r ffordd union, nag i bryffuro ei fynediad ynthi. A dymma gyflwr y rhai óll a fuont fyw mewn néb rhyw gwrs o bechod; y maent hwy mewn llwybr cyfeiliornus, yr hwn ni ddûg monynt byth i'r llê y maent yn cyfeirio atto, ié, a'i dûg hwynt yn ddiammeu i'r llé y maent yn ei gafhau ag yn ei arfwydo fwyaf; llawer o'i dydd a dreulwyd, ni ŵyr nêb pa faint a adewir iddynt i orphen ei taith yntho, yfgatfydd yr awr neu'r munudyn neffaf y daw noſwaith marwolaeth ar ei gwartha hwynt; pa ynfydrwydd gan hynny yw iddynt oedi ûn munudyn i ymchwelyd allan o'r llwybr hwnnw fydd yn arwain i ddinifter anocheladwy, ag i ymofod yn y ffordd honno a'i dûg hwynt i wyn-fyd a gogoniant? Etto y mae dynion gwedi ei llygattynu a'i hudo gan *Dwyll pechod* cymhelled, na thyccia deisyfiad nag annogaeth yn y bŷd ddim gydâ hwynt, i wneuthur y cyfnewid hwn fydd mor rheſymol

Perigl o oedi'n trô-ad at Dduw

ag

Sul XVII. ag angenrheidiol; nid fal pe byddent heb gyd-nabod ſod hyn yn angenrheidiol, ond ei bôd yn anſodlon i wneuthur hynny etto; nhw a chwennychent fwynhau holl bleſerau pechod tra fi bônt byw, ag yna y maent yn gobeithio gwneuthur y cwbl a berthyn i'w Heneidiau ar ei marwolaeth, neu ychydig amſer cyn hynny. Ond och! Y mae'r Néf yn rhŷ uchel i neidio fal hyn iddi, y mae'r ffordd iddi yn âllt hîr a pharhaus, yn hon a oſyn amſer i'w rhodio. Fe draethwyd yn helaethach am y peryglon o oedi hyn yn y Traethawd am *Edifeirwch:* Nid â'i ymma i'w hail-adrodd hwynt, ond deiſyf yn unig ar y Darllenydd ei goſod nhw yn ddiſriſol at ei galon, ag yna yn ddiammeu ſe dybia mai cyngor mewn prŷd a roddir gan y gŵr doeth, *Eccluſ. 5. 7. Na fydd buyrfrydig i droi at yr Arglwydd, ag na oeda o ddydd i ddydd.*

John Williams
Ior Gwir berchenogyllyfryn
Swn 1716

TERFYN.

13 DE. 67

Dwywolder

NEILLDUOL,

Ar amryw

ACHOSION,

Yn gyftal

CYFFREDINOL

Ag

ANGHYFFREDINOL.



Argraffwyd yn *LLUNDAIN*, gan EDM. POWEL, yn *Black-Fryers*, yn agos i *Ludgate*. 1711.

Yrglwydd nid wiſi abl o honofy
hyn lyfmrrhad a hall pleno ediga em
au yr byd ar grawd ar gyfhrat
nag i rodiaſynnydd ordumynion di nac
ith wasnaethy heb dy yſpuſol ras
o gumorthfiga an hynu ath yſbryd
glan feb y bydd o ymadroddionfy
ngenau a myfyrdodfy ngalon yn
gumeradwy ger dyfrondi oarglw
ydd fyngraig am prynwr amen

Yn gundaf yr wyfi yn diolchim
dhd drwy Jesu grist ein harglwydd
dros chwi oll ableyid bodichffydd
chwi an gyhoeddus unyrholl fyd:
canys dyſtimai iw daw yr hwn yr
ydwifi: yni wasnaethu ynfy yſbryd
yn efengil fab eſ fynodi undi
laid yn gwendhur cofla ohonoch
bob amser ynfyngweddiau

Y Darllenydd Criſtianogawl,

FE *ddarfu i mi er Cymmorth i'th Ddefoſiwnau di oſod ar lawr rai* FFURFAU *o* WEDDIAU NEILLDUOL *ar amryw Achoſion: Os tybiir yn fyrr ynof nad oes yr un i Deuluoedd, rhaid i mi atteb troſſof fy hun, nad oedd hynny o herwydd fy môd i yn meddwl na ddylid addoli Duw yn gyſtal yn y Teulu ag yn y Stafell; ond o herwydd darfod i Ragluniaeth Duw a'r Eglwys baratoi yn barod i'r pwrpas hwnnw tu hwynt o anfeidrol i'r eithaf a allaſei fy niwydrwydd i ei wneuthur, ſef, y* LITYRGI PUBLIC *neu'r* LLYFR GWEDDI GYFFREDIN, *y rhai am hôb dyneſſâad cyhoeddus at Dduw (a'r cyfryw yw* Gweddiau Teuluaidd) *ydynt mor rhagorol a defnyddiol, ag y gallaf i ddywedyd am danynt, fal y dywedodd* Dafydd *am gleddyf* Goliah *gynt*, 1 *Sam.* 21. 9. Nid oes yr ûn tebyg iddo.

CYFARWYDDIAD am y BOREU.

Cyn gynted ag y deffròech y boreu, derchafa dy galon at Dduw Yn y Weddi ferr hon, neu'r cyffelyb.

ARGLWYDD, megis ag y deffrôaiſt fy nghorph o gwſg, felly trwy dy Râs deffro fy Enaid o bechod; a gwnâ i mi felly rodio ger dy fron di'r dydd hwn, a holl ddyddiau fy mywyd rhag llaw, fal pan ddeffry'r udcorn diweddaf fi o'm bêdd, y gallwyf gyfodi i'r ſuchedd anfarwol, trwy Jeſu Griſt.

GWedi iti ddechreu fal hyn; *na dd (hib ryw athos traangeurheidiol) i nêb rhyw feddyliau bydol dy rwyſtro, nes darfod i ti hefyd dalu dy Ddyled mwy arbennig i Dduw hollalluog, ag am hynny tra y byddi yn dy ymwiſco dy hun (yr hyn ni ddyle gymmeryd dim mwy o amſer nag y bo gweddeidd-dra cyffredinol yn gofyn) myſyria ar ryw bethau Yſprydol: megys hyn, yſtyria i ba ryw* brofedigaethau *y mae dy* Orchwylion *neu'th* gyfeillach *y dydd hwnnw debyccaf i th ddenu, ag arfoga dy hun a llawn-fwriadau yn ei herbyn hwynt; neu ymmhellach,*

yſtyria pa achlyſur *yr ŵyt debyccaf i 'w gael y dydd hwnnw i* waſanaethu Duw, *neu i wneuthur daioni i 'th gymydog; ag ymrôa i gymmeryd gafael arno; a bwriada hefyd pa fodd y bydd iti wneuthur y defnydd goreu o 'r cyfiyw odfa. Ond yn enwedig chwilia yn ddyfal a fuoſt ti yn euog o unrhyw bechod er dy ymboliad y nôs o 'r blaen. Os bydd i ti ar òl yr yſtyriaethau hyn ychwaneg o ennyd, yna myſyria am yr* Adgyfodiad *cyffredinol (cyffelybiaeth i ba ûn yw ein Cyfodiad ni o 'n gwelau) ag am y farn echryſlon honno ſydd yn canlyn, ag yna meddwl wrthit dy hun mewn pa fâth barodrwydd yr wyt ti erbyn hynny, a llawn-fwriada bwſmonaethu yn ddiwyd bôb munudyn o 'th amſer i 'th gymhwyſo dy hûn erbyn y cyſtiſ mawr a fydd rhaid i ti roddi y pryd hynny. Cyn gynted ag y byddi yn barod, cyfeiria i ryw lé dirgel, ag yna offrymma i fynu i Ddaw dy aberth Foreuol o Foliant a Gweddi.*

GWEDDIAU BOREUOL.

Wrth ymoſtwng ar dy liniau, dywed.

YGogoned, lân fendigaid Drindod, tri pherſon ag ún Duw, trugarha wrthif wîr bechadur.

OArglwydd, nis gwn i pa bêth i Weddio am dano fal y dylwyf; o bydded i 'th Yſpryd di gynnorthwyo fy ngwendid, a 'm gwneuthur i yn gymwys i offrwm i fynu Aberth yſprydol gymmeradwy gennit ti, trwy Jeſu Griſt.

Diolwch.

OArglwydd Graſuſol, yr hwn y mae ei Drugareddau yn parhau yn dragywydd, yr ŵyf fi dy wâs annheilwng yr hwn a archwaethaîs mor helaeth o honynt, yn chwennych talu i ti deyrnged o foliant goſtyngeiddiaf am danynt: Ynot ti, o Arglwydd, yr wyf' yn byw, yn ſymmud, ag yn bôd; tydi ar y cyntaf a wnaethoſt i mi fôd, ag yna fal na byddwn yn druenus eithr yn ddedwydd, ti a anfonaiſt dy fâb o 'th fonwes i 'm gwaredu oddiwrth allu fy mhechodau trwy ei Râs, ag oddiwrth goſpedigaeth am danynt

danynt trwy ei waed, a thrwy bób ûn i 'm dwyn i i 'w ogoniant. Tydi o'th drugaredd a wnaethoſt i mi gael fy ngèni o fewn dy Gorlan briodol dy hûn, yr Eglwys Griſtianogol, lle i 'm cyſſegrwyd yn gynnar i ti trwy fedydd, ag y bûm gyfrannog o'r holl gymmorthau yſprydol hynny a allei fy nghynnorthwyo i gwplhau'r Adduned a wnaethum i yno i ti; a chwedi i mi o 'm gwirfodd neu trwy eſgeluſdra ei thorri, etto o'th anfeidrol drugareddau ni ddarfu iti mo 'm gwrthod, eithr a 'm gwahoddaiſt yn raſuſol i Edifeirwch, ag a ganniadhêaiſt i mi bób rhyw foddion oddi-mewn ag oddi-allan i hynny, a thrwy ddirfawr ammynedd a arbedaiſt fy nhorri ymmaith yng-weithrediad yr amryw bechodau diniſtriol hynny a wneuthum, megys yr haeddais yn dra-chyfiawn. Dy Râs di, O Arglwydd, yn unig a'm hattaliodd oddiwrth y pechodau mwyaf, ag a'm gwnaeth yn abl i wneuthur y daioni lleiaf; Nid i mi gan hynny, nid i mi, ond i'th Enw dy hûn y bo'r moliant. Am y rhai hyn a phôb rhyw ſendithion yſprydol eraill, fy Enaid a fawryga 'r Arglwydd, a chwbl ſydd ynof a fawl ei Enw Sanctaidd eſ. Yr ŵyf yn dy foliannu hefyd am yr amryw fendithion hynny oddi-allan yr wyf yn ei mwynhau, megys Iechyd, cyſneſeiſiaid, ymborth, a dillad, y Cyſſurau yn gyſtal a'r angenrheidiau o'r bywyd hwn; am amddiffyniad beunyddiol dy law, trwy ba ûn i 'm cedwir i a'm heiddo oddiwrth beryglon, a'r ymwarediadau grafuſol hynny a ganniadhêaiſt yn fynych allan o 'r cyfryw rai a ddigwyddodd i mi, ag am dy drugaredd hefyd yn pereiddio ag yn ardymmheru'r blinderau hynny y rhai ni welaiſt yn ddâ yn hollawl ei ſymmud ymmaith; am fy amddiffyniad neillduol y nôs hon, a phôb rhyw ddaioni arall tu ag attaf; Caniadhâ, O Arglwydd, fôd i mi dalu i ti nid yn unig ffrwyth fy ngwefuſau, ond hefyd ufudd-dod fy muchedd, fal y bo'r bendithion hyn yn wyſtl o 'r bendithion gwerthfawroccaf hynny a baratôaiſt ti i 'r fawl a 'th garant, a hynny er ei fwyn ef yr hwn a wnaethoſt ti yn Awdwr iechydwriaeth dragywyddol i bawb a ufuddhâant iti, ſef, Jeſu Griſt.

Cyffes.

O Arglwydd Cyfiawn yr hwn ŵyt yn caſhau anwiredd, wele fi dy greadur pechadurus yn ymddarofiwng fy hûn wrth dy draed, gan gydnabod i mi haeddu yn dra-chyfiawn i ti yn hollawl fy ffieiddio a'm gwrthod; canys mi a yfais anwiredd fal dwfr, ag a eis ymlaen mewn trefn ddi-baid o bechod a gwrthryfelgarwch i'th erbyn, gan wneuthur yn waſtad y pethau'r ŵyt ti yn ei gwahirdd, a gadael heb wneuthur y pethau'r ŵyt yn ei gorchymyn; Y mae fy nghalon, yr hon a ddyle fôd yn drigfa i'th Yſpryd ti, yn lloches adar aflan, ſef, anwydau ffiaidd ag afreolus; ag allan o ormodedd y galon y mae fy ngenau yn llefaru, a'm dwylo yn gweithio, yn gymmaint a'm bôd i mewn meddwl, gair, a gweithred, yn ddibaid yn troſſeddu i'th erbyn, [*yma adrodda dy bechodau mwyaf.*] Iè, O Arglwydd, mi a ddirmygais dy ddaioni hynny a ddylaſei fy nhywŷs i edifeirwch, gan galedu fy nghalon yn erbyn yr holl foddion hynny a arferaiſt ti er fy ngwellhâd. Ag yn awr, O Arglwydd, beth fydd i mi i'w ddiſgwyl oddiwrthit ti ond barn, a llidiawgrwydd yſſol, yr hyn yn wîr yw dledus wobr fy mhechodau? Ond y mae trugaredd gyda thydi, O Arglwydd, fel i'th ofner, O cymhwyſa fi i'r drugaredd honno trwy roddi i mi ddiffûant a difrifol Edifeirwch; ag yna yn ôl dy ddaioni, ymchweler dy lîd a'th ddigofaint oddiwrthif; Edrych arnaf yn dy Fâb fy Jachawdr bendigedig, ag er teilyngdod ei ddioddefaint et maddeu fy hôll bechodau: Ag yr ŵyf yn attolwg i ti, O Arglwydd, trwy allu dy Râs, felly adnewyddu a glanhau fy nghalon, fal y byddwyf yn greadur newydd, trwy ymwrthod yn hollawl a phôb ffordd ddrŵg, a byw mewn di-ffûant, barhaus, a chyflawn Ufydd-dod i ti y rhan arall o'm dyddiau, môdd y gallwyf trwy fy ymddwyn fy hûn megys gwâs dâ a ffyddlon, gael gan dy drugaredd o'r diwedd fy nerbyn i lawenydd fy Arglwydd: Caniadhâ hyn er mwyn Jeſu Criſt, *Amen.*

Gweddi

Gweddi am Râs.

ODduw tra-graſuſol, oddiwrth pa un y mae pôb rhodd ddà a pherffaith yn dyfod, yr wyt ſi greadur truan, yr hwn nid allaf o honof fy hun gymmaint a meddwl ûn meddwl dâ, yn erfyn arnat ti weithredu ynof i ewyllyſio a gwneuthur yn ôl dy ewyllys di. Goleua fy meddwl fal y gallwyf dy adnabod di, ag na âd i mi fôd yn hyſp ag yn anffrwythlon yn y wybodaeth honno; O Arglwydd, gweithia yn fy nghalon wir ffydd, gobaith puraidd, a di-ffûant gariad tu ag artat ti, dyro i mi gyflawn ymmddiried ynot, zêl tu ag attat, a pharch i bôb pèth a berthyn i ti; gwnâ i mi fôd yn ofnus o wneuthur dim i'th erbyn, yn ddiolchgar am dy Drugareddau, yn oſtyngedig tan dy geryddon, yn ddefoſionawl yn dy waſanaeth, yn ofidus am fy mhechodau; a channiadhâ i mi felly fy ymddwyn fy hûn ym mhôb pêth fal y gweddai i greadur tu ag at ei Greawdwr, i wâs tu ag at ei Arglwydd: Cynnorthwya fi hefyd i gwplhau'r Ddledſwydd honno fydd yn ddledus arnaf i mi fy hûn; Dyro i mi yr Addfwynder, y Goflyngeiddrwydd, a'r bodlonrhwydd hynny trwy ba rai y gallwyf yn waſtad feddiannu fy Enaid mewn ammynedd a ddiolchgarwch; gwnâ fi yn ddiwyd yn fy holl Ddledſwyddau, yn wiliadwrus rhag pôb profedigaethau, yn gwbl ddihalog ag Ardymmherus, ag mor gymmhedrol yn y pethau mwyaf cyffeithlon yr ŵyf yn ei mwynhau, fal na bydd ont byth yn fagl i mi; gwnâ i mi hefyd, O Arglwydd, felly fy ymddwyn fy hun tu ag at fy nghymydog, fal na throſſeddwyf byth dy gyfraith frenhinol honno o'i garu ef fal fi fy hun; Canniadhâ i mi gyflawni yn hollawl bôb rhyw ran o Gyfiawnder, trwy dalu i bawb bêth bynnag trwy fôdd yn y bŷd o Gyfiawnder fydd yn ddyledus iddynt; a dyro i mi y cyfryw ymſgaroedd o drugaredd a thoſturi, fal na deffygwyf byth yn gweithredu pôb mâth a'r Gariad tu ag at bôb dŷn, pa ûn bynnag

ai

ai Cyfeillion ai gelynion, yn ôl dy Orchymyn di a'th Eſampl. Yn ddiweddaf, yr ŵyf yn attolwg i ti, O Arglwydd, fy Sancteiddio i yn hollawl, fal y bô i'm holl Yſpryd, a'm Henaid, a'm Corph, gael ei cadw yn ddiargyoedd hyd ddyfodiad ein Harglwydd Jeſu Grift, i'r hwn gydâ thydi a'r Yſpryd glân y bo'r holl Anrhydedd a'r Gogoniant yn dragywydd, Amen.

Cyfryngiad.

O Arglwydd bendigedig, yr hwn y mae dy Drugaredd tu hwnt i'th holl weithredoedd, yr wyſi'n attolwg i ti drugarhau wrth bôb dŷn, a channiadhâ fôd y prîs gwerthfawr a rodwydd ar lawr gan dy Fâb tros bawb, yn effeithiol i iachau pawb. Dyro dy Râs diſclair i'r rhai ſydd mewn tywyllwch, a'th ymchweledig Râs i'r rhai ſydd mewn pechod; edrych a'th dyneraf doſturi ar yr Eglwys cyffredinol, Gwnâ ddaioni yn dy ewyllyſgarwch i *Sion*, adeilada furiau *Caerſalem*: Una a thi dy hûn bawb ar ſydd yn cyffeſſu dy Enw, trwy burdeb, a Sanctеiddrwydd; ag a nhw ei hunain, trwy gariad brawdol. Trugarhâ wrth yr Eglwys ddifrodedig a'r Deyrnas bechadurus hon; gwnaethoſt i'r ddaiar grynnu, a holltaiſt hi, iachâ eî briwiau, canys y mae yn crynnu; gwnâ i ni wîr edifarhau am y pechodau hynny a annogaſant dy farnedigaethau, môdd y bo i ti hefyd drôi, ag edifarhau, a gweddill bendith o'th ôl. Bendithia y rhai a ordeiniaiſt yn Llywodraeth-wŷr arnom, pa ûn bynnag ai yn yr Eglwys, ai'r Deyrnas; rheola ſelly ei Calonnau hwynt, a chadarnhâ ei dwylo, fal na bo arnynt eiſieu ewyllys na gallu i goſpi drygioni a chamwedd, ag i faentumio gwîr grefydd Dduw a Rhinwedd ddâ. Trugarhà, O Arglwydd, wrth bawb ar ſydd mewn trueni a helbul; bydd yn Dâd i'r ymddifad, a dadleu Ddadl y weddw, cyſſura y rhai o wan galon, cynnal y gweiniaid, iacha'r cleiſion, adfera'r anghenus, amddiffyn y gorthymmedig, a chyſranna i bawb

bawb yn ôl ei hamryw angenrheidiau; gorphywyſed dy fendithion ar bawb ſydd agos o râdd ag yn gû gannifi, a channiadhà iddynt beth bynnag a weli di yn angenrheidiol naill ai i'w Cyrph, neu 'i Heneidiau. [*Yma henwa dy Geraint neſſaf.*] Gobrwya y rhai ôll a wnaethant i mi ddaioni, a maddeu i'r rhai ôll a wnaethant neu a ewyllyſſaſant î mi ddrwg, a gweithrêda ynddynt hwy a minneu yr holl ddaioni hynny a ddichon ein gwneuthur ni yn gymmeradwy yn dy olwg di, trwy Jeſu Griſt, *Amen.*

Am ymwared.

O Dduw trugarog, trwy rôdd pa ûn yn unig yr adchwanegir y dydd hwn at ſy einioes, yr wyf yn attolwg i ti felly ſy hyrfforddio yntho trwy dy Râs, modd na wnaelwyf ddim a'th ddianrhydedda di, neu a archolla fy Enaid fy hûn; ond bôd i mi fy ymroi fy hûn yn ddiwyd i wneuthur yr holl weithredoedd dà hynny a baratöaiſt ti i mi i rodio ynddynt; ag, O Arglwyd, yr wyf yn attolwg i ti roddi i'th Angylion orchymyn am danaf i'm cadw yn fy holl ffyrdd, fal na bo i ddim drwg ddigwydd i mi, nag i unrhyw blà neſſau at fy nhrigfa; ond bôd i mi, a'm heiddo, fôd yn ddiogel tan dy nawdd a'th gymmorth graſuſol di, trwy Jeſu Griſt.

O Arglwydd, maddeu gyſeiliornad ag oerder yr erfynion hyn, a gwna a mi, nid yn ôl fy ngweddiau a'm haeddedigaethau, eithr yn ôl fy angenrheidiau i, a'th ddirfawr drugareddau di yn Ghriſt Jeſu, yn Enw ag yn ngeiriau bendigedig pa ûn y terfynaf fy amherffaith weddiau hyn, gan ddywedyd, *Ein Tâd yr hwn wyt*, &c.

CYFARWYDDIAD am y NOS.

Y Nôs, pan fo amſer gorphwyſſa yn neſſau, myfyria wythit dy hûn, pa fôdd y treuliaiſt y dydd a aeth heibio; hola dy galon pa bechod a wnaethoſt mewn meddwl, gair, neu weithred; pa

odfa

oll'a o wneuthur daioni a eſgeuluſaiſt, a pha beth bynnag a canfyddi dy bun yn eiog o hono, cyffeſſa ef yn oſtyngedig ag yn edifeirwl ger bron Duw, adnewydda dy amcanion, a'th furiau o wellhâad, ag erſyn ei drugaredd ef yn Ghriſt; a bydd yn yſgoewan, neu megis o arfer yn unig, ond a phôb rhyw daerni defoſionawl, megis ag y gwneit pe byddit ſitter fôd dy farwolaeth mor agos allat ag yw dy gwſg, yr hyn am a wyddoſt it a all fôd felly; ag am hynny ni ddylit feiddio cyſgu heb wneuthur dy gymmod a Duw, mwy nag y meiddit farw felly. Yn neſſaf, yſtyria pa Drugareddau arbennig a rhagorol a dderbyniaiſt y Dydd hwnnw, megis os cefaiſt ryw ymwared mawr, naill ai yn dy Ddyn oddi mewn, oddiwrth ryw Brofedigaethau peryglus, neu yn dy ddyn oddiallan, oddiwrth ryw enbydrwydd mawr bynod, ag offrymma i Ddaw ddiffriſol a defoſionawl foliant am dunyn; neu os ni ddigolyddodd dim o'r iſath beth i ti, eithr cael o honot dy gadw oddiwrth bôb dyneſſâad o enbydrwydd, nid vei itt ddim llai, ond mwy achos o lawer i fawrygu Duw, yr hwn trwy ei nodded a'th amddiffynnodd di felly, modd nis ddarfu cymmaint ag i'ſn drwg ſyrthio arnat. Ag am hynny ma eſgeuluſa dalu iddo ef y deyrnged o ddiolchgarwch goſtyngedig, yn gyſtal am ei nodded arferol a beunyddiol, ag am ei ymwaredîadau mwy rhagorol. Ag, unchlaw pôb peth, ymegnia yn waſtad ar fôd ith galon, trwy fyfyrio am ei Drugareddau ef, gael ei chyſſulltu yn nês atto ef, gan boſſhau fôd pôb cymwynas a dderbynnir oddigar ei law ef yn rhwymedigaeth arnat ti o newydd i'w garu ef ag i ufuddhau iddo.

GWEDDIAU am y NOS.

Y Gogoned lân fendigaid Drindod, tri pherſon ag ûn Duw, trugarha wrthif wîr bechadur.

O Arglwydd, nî's gwn i pa beth i weddio am dano fal y dylwyf, bydded i'th Yſpryd di gynnorthwyo fy ngwendid, a'm gwneuthur i yn abl i offrwm i ſynu aberth yſprydol gymeradwy gennit ti trwy Jeſu Griſt.

Cyffes.

Cyffes.

O Arglwydd Dduw Sancteiddiaf; yr hwn wyt o olygon purach nag i edrych ar anwiredd, pa fodd y meiddia 'i greadur gwael truan ymddangos o'th flaen di, yr hwn nid wyf ddim ond ffieidd-dra? yr wyfi 'n halogedig yn fy natur, a chennif annhueddiad at bôb daioni, a pharodrwydd i bôb drwg; ond myfi a'm halogais fy hun etto yn waeth o lawer trwy fy mhechodau gweithredol a'm harferion drygionus fy hûn; Mi a drofseddais fy nled-fwydd tu ag attat ti, fy nghymydog, a mi fy hûn, a hynny mewn meddwl, gair, a gweithred, trwy wneuthur y pethau hynny a waherddaift ti yn eglur, ag efgeuluo gwneuthur y pethau hynny a orchymynnaift ti mi: a hynny nid yn unig trwy anwybobaeth a gwendid, ond trwy wybod; ag yn rhyfygus, yn erbyn cynnhyrfiadau dy yfpryd ti, ag argyoeddion fy nghydwybod fy hun i'r gwrthwyneb. Ag i wneuthur hyn ôll yn dra-phechadurus, mi a eis ymlaen mewn tréfn feunyddiol o ail-gyrchu 'r anwireddau hyn i'th erbyn, er maint dy alwad ti, a'm bwriadau innau a'm addunedau o wellhâad; iê, 'r dydd hwn ni rufais adchwannegu pechodau newyddion ar fy euogrwydd o'r blaen. [*Yma henwa dy bechodau neillduol.*] Ag yn awr, O Arglwydd, beth a ddywedaf, neu pa fodd yr agoraf fy ngenau, gan i mi wneuthur y pethau hyn? Myfi a wn mai cyflog y pchodau hyn yw marwolaeth; Ond tydi yr hwn nid ewyllyfi farwolaeth pechadur, trugarhâ wrthif, gweithia ynof, yr wyf yn attolwg i ti, wîr gyftudd Calon, a chafineb hollawl o'm pechodau; ag na âd i mi beunydd ei cyffefu hwynt a'i hadnewyddu hefyd bôb dydd, eithr camiadhá, O Arglwydd, fod i mi o hyn allan roddi Llythr-yfcar i'm holl drachwantau anwylaf, ag yna bydded gwiw gennit fy mrhiodi a thi dy hûn mewn gwirionedd, cyfiawnder, a Sanctciddrwydd. Ag am fy holl bechodau a aeth heibio, O Arglwydd, derbyn gym-

mod; derbyn y prid-werth hwnnw a dalodd dy Fendigedig Fâb troſſof fi, ag er ei fwyn ef, yr hwn a oſodaiſt ti yn iawn, maddeu fy hôll droſſeddau, a derbyn fi i'th ffafr dracheſn. A chwedi i ti fal hyn draethu heddwch i'm henaid, cynnal fi, Arglwydd, fal na ddychwelwyf mwyach i ynfydrwydd, eithr ſefydla fi ſelly a'th Râs, fal na bo i unrhyw broſedigaeth y bŷd, y Cythraul, na'm cnawd fy hûn byth fy hûdo i droſſeddu i'th erbyn, fal trwy fôd yn rhŷdd oddiwrth bechod, ag yn waſanaethydd i Dduw, y bo i mi gael fy ffrwyth i Sancteiddrwydd, a'r diben yn fywyd tragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

Diolch.

O Dâd y Trugareddau, yr hwn ŵyt yn addfwyn i'r anniolchgar, yr wyſi'n cydnabod i mi archwaethu yn helaeth o'th raſol briodoldeb hynny; oblegid er maint fy mhechodau beunyddiol i'th erbyn, yr wyt ti yn parhau i lwytho trugareddau a chymwynaſgarwch arnaf. Ni ddarfu i'm holl ddirmygiad a'm dibriſiad i o'th drugareddau yſprydol wneuthur i ti etto ei tynny nhw ymmaith, eithr yn amlder dy ddaioni a'th hir-ymaros yr ŵyt ti etto yn parhau i gynnyg i mi Râs a bywyd yn dy Fâb. Ag ni choſpaiſt fy holl gam-arferiad o'th ſendithion amſerol trwy ei dwyn nhw yn hollawl ymmaith, ond y mae'n deilwng gennit etto ganniadhau i mi gyfran helaeth o honynt. Ni cheryddaiſt fi am bechodau'r dydd hwn modd y galleſit yn gyſiawn trwy fy yſcubo ymmaith a deſtryw diſymmwth, eithr a'm harbedaiſt ag a'm cynnheliaiſt yn ol mawredd dy drugaredd. [*Yma adrodda drugareddau neilldduol y dydd hwnnw.*] Bèth a dalaf i'r Arglwydd am yr holl ddaioni hyn a ddangoſodd ef i mi? Bydded i'th Drugareddau hyn, o Arglwydd, fy nhywys i Edifeirwch, a channiadhà na bô i mi yn unig offrwm i ti ddiolch a moliant, ond trefnu hefyd fy ymarweddiad yn union, môdd y gallwyf o'r diwedd weled Iechydwriaeth Duw, trwy Jeſu Griſt.

Yna

Yna arfera'r Weddi am Râs, a Chyfryngiad, gosodedig am y Boreu.

Am Amddiffynniad.

O Arglwydd Bendidedig, Ceidwad *Iſrael*, yr hwn nid ŵyt yn cyſgu nag yn heppian, rhynged ſôdd i ti o'th drugaredd wilio troſſof y nôs hon, cadw fi trwy dy Râs oddiwrth bob rhyw weithredoedd y tywyllwch, ag amdiffyn fi trwy dy Allu oddiwrth bôb peryglon; canniadhâ i mi gŵſg eſmwyth a chymmedrol, y cyfryw ag a'm cymhwyſa i Ddledſwyddau 'r dydd ſy'n canlyn. A gwnâ i mi, O Arglwydd, feddwl yn waſtad am yr amſer hwnnw pan orweddwyf yn y llŵch; ag oblegid nas gwn i na'r dydd na'r awr o ddyſodiad fy Meiſtr, dyro i mi Râs i ſod yn waſtad yn barod, fal na byddwyf byth byw yn y cyfryw gyflwr ag yr ofnwyf farw yntho, eithr pa ûn bynnag a wnelwyf ai byw, bôd i mi fyw i'r Arglwydd, neu farw, i mi farw i'r Arglwydd, fal yn fyw ag yn farw y byddwyf eiddot ti, trwy Jeſu Griſt.

Arfera'r ûn Weddi i ddibennu a'r Boreu.

WRTH ddioſg oddi am danat, meddwl wrthit dy hûn fôd yr amſer yn neſſau y bydd rhaid i ti ddioſg dy gorph hefyd; ag yna y bydd yn rhaid i'th Enaid ymddangos yn noeth o flaen gorſedd-faingc Duw; *ag am hynny y mae'n ſefyll arnat fôd yn ofalus i'w gwneuthr hi mor bûr a glân trwy Edifeirwch a Sanctteiddrwydd, fal y bo iddo ef, yr hwn ni edrych ar anwiredd, edrych yn rafol ag yn gymmeradwy arni.*

Bydded i'th wely wneuthur i ti feddwl am dy Fedd, a phan orweddych i lawr, dywed.

O Jachawdr bendigedig, yr hwn trwy dy werthfawr angeu a'th gladdedigaeth a dynnaiſt ymmaith go-

Iyn angeu, a gallu'r Bêdd, canniadhâ i mi ffrwythau hyffryd dy ſuddugoliaeth honno, a bydd di ym mywyd ag angeu yn elw i mi.

Mi a orweddaf mewn heddwch, ag a hunaf; canys tydi, Arglwydd, yn uniga wnêi i mi drigo mewn diogelwch.

I'th ddwylaw di yr ŵyf yn gorchymyn fy Yſpryd, canys tydi a'm prynaiſt, O Arglwydd, tydi Dduw y gwirionedd.

YN y BRIF EGLWYS *gynt heb law'r boreu a'r nos, yr oedd pedwar o amſerau eraill bôb dydd, a elwid* ORIAU GWEDDI; *ag yr oedd zêl y Criſtianogion cyntaf hynny yn gyfryw, ag a wnâe iddynt ei cadw hwynt yn ddi-baid. Fe debygid yn ormod caethder yn yr oes led-oer hon orchymyn ei cadw hwynt mor fynych; etto nid alla'i lai na goſod ar lawr y ſiampl, a dywedyd am y rhai nid yw achoſion tra-angenrheidiol yn ei lludias, nad yw ond rheſymol iddynt wneuthur yr ûn modd, a chyflawni yn Byblic ag yn Brifat y* PEDWAR AMSERAU *hynny o* WEDDI, *heb law'r Dledſwyddau hynny a oſodwyd eiſoes ar lawr am y* BOREU *a'r* NOS. *Ag fal na bò i nêb fôd heb wybod pa fodd i arferu ei deſoſiwn ar yr amſerau hynny, mi a oſodais ar lawr amryw* GOLECTAU *am amryw Raſau, o ba rai y dichon pôb dyn arferu ar bôb cyfryw amſer Gweddi, cynnifer ag y bò ei zêl a'i ennyd yn roddi iddo gennad, gan adchwanegu, os mynn, ûn o'r Cyffeſau goſodedig am y Boreu, neu'r Nôs, ynghyd a* GWEDDI'r ARGLWYDD *bôb amſer.*

Ond os bydd cyflwr buchedd dyn mor wir drafferthus, na chaiff ef amſer i ddefoſiwnau cybyd ag mor arbennig, etto yn ddiammeu nid oes nêb mor drafferthus, na chaiff ennyd yn fynych yn y dydd i ddywedyd GWEDDI *yr* ARGLWYDD; *ag am hynny arfered honno os nid all ychwaneg. Ond oblegid mai nôd Criſtion yw* (Phil. 3. 20.) *fod a'i* ymarweddiad yn y Nêf, *gweddus iawn fydd iddo, heb law'r amſerau goſodedig hyn o Weddi, ddercbafu ei Enaid yn fynych yn y dydd*

trwy

trwy OCHENEIDIAU *byrrion diſymmwth. Ag i'r fâth ymma ar Ddefoſiwn ni all fôd ar neb ddiffyg ennyd, gan y gellir cwplhau hyn ynghanol gorchwylion; ſe all y* Celfyddwr *wrth ei waith, a'r* Hwſmon *wrth ei aradr ei harfera. Yn awr, megys na all fôd eiſieu* amſer, *felly fel na bo ar néb eiſieu* deſnydd *i hynny; mi a dybiais yn ſuddiol oſod ar lawr rai* Mannau *allan o'r Tryſſor-dy llawn hwnnw,* ſef, LYFR Y PSALMAU, *y rhai a ellir yn dra-chymwys ei harferu i'r diben hwn; y rhai gwedi ei dyſgu* allan o'r *Llyfr a fydd yn waſtad yn barod ger llaw i roddi eiu Dwyrwolder ar waith; a chan fôdy ſylwedd o honynt o amryw ddull, rhai am faddeuant pechodau; rhai am Râs; rhai am lewyrch wyneb pryd Duw, rhai tros yr Eglwys; rhai i dalu diolch,* &c. *ſe ddichon pôb dyn gymmhwyſo iddo'i hûn yn ôl ei angen preſennol a thymmer ei Enaid. Mi a oſodais y rhai hyn ar lawr nid megys caſgliad cyflawn, ond megys archwaeth yn unig i godi blŷs ar y Darllennydd i chwilio am ychwaneg yn y Llyfr hwnnw, a rhannau eraill o'r Scrythur-lân.*

COLECTAU am amryw RASAU.

Am Ffydd.

O Arglwydd Bendigedig, yr hwn heb Ffydd ammhoſſibl yw ei fodloni, bydded i'th Yſpryd, yr hŵyf yn attolwg i ti, weithio ynof y cyfryw ffŷdd ag a fo cymmeradwy yn dy olwg, ſef, y cyfryw ag a weithia trwy Gariad. O na âd i mi orphwyſo mewn Ffydd farwaidd ddi-ffrwyth, ond canniadhâ iddi fôd yn gyfryw ag a'i heglurhâo ei hûn trwy fy ngweithredoedd, fal y bo hi y Ffydd fuddugoliaethus honno a'm gwnelo i yn abl i orchfygu'r bŷd, ag i'm cyd-ffurfio fy hun i Ddelw Criſt i'r hwn yr wyf yn credu, fal y gallwyf o'r diwedd dderbyn diben fy Ffydd, ſef, Iechydwriaeth fy Enaid, trwy'r Unrhyw Jeſu Griſt.

Am

Am Obaith.

O Arglwydd, yr hwn wyt unig Obaith holl derfynau 'r ddaiar, na âd i mi fôd byth yn ddiffygiol o Obaith difigl, na 'm meddiannu fy hun ychwaith a gwagryfyg; na âd i mi feddwl y byddi di fodlon i 'm Pechodau, nag y gwrthodi di fy Edifeirwch; ond dyro i mi, yr ŵyf yn attolwg i ti, y cyfryw Obaith ag a fo cyfatteb'ol i unig fylfaen fy ngobaith, fef, dy Addewidion di, a 'r rheini yn gyfryw ag a 'm cyffura ag a 'm hyfforddia i i 'm glanhau fy hûn oddiwrth bôb aflendid Cnawd ag Yfpryd, fal y bo hi yn Angor wîr ddifigl a diogel yr Enaid, fef, yn cyrhaeddud i fewn y llenn, lle 'r aeth y gennad o 'r blaen trofof fi, fef, Jefu Grift fy Arch-offeiriaid a 'm Prynwr bendigedig.

Am Gariad Duw.

O Arglwydd grafol a Sanctaidd, yr hwn wyt drarhagorol ynot dy hûn, ag yn hael anfeidrol a thofturiol tu ag attaf fi, na ad, yr ŵyf yn attolwg i ti, i 'm calon fôd cymmhelled wedi ei chaledu trwy hudoliaeth pechod ag i wrthwynebu y cyfryw annrhaethol Gariad, ond bydded i 'r unrhyw wneuthur argraffiad dwfn a pharhaus ar fy Enaid. Tydi a deilyngaift, O Arglwydd, ofyn fy nghalon i, ag iti yn unig y mae hi o gyfiawnder yn perthyn: O na âd i mi fôd mor gyffegr-yfpeiliaid ag anghyfiawn a neilldno ûn rhan o honi oddiwrthit ti, ond gwna i mi ei rhoddi i fynu yn hollawl ag yn gyfan i ti; Ond ti a weli, O fy Nuw, ei bod hi yn barod gwedi ei thrais-feddiannu gan y bŷd a 'i wagedd, yr hwn fal gŵr crŷf arfog fy 'n cadw meddiant ynddi, ond tyred ti fydd gryfach, a chymmer megis dy Yfpail dy hûn fy nghalon annheilwng hon oddiarno ei, adgyweiria hi a 'r tán puraidd hwnnw o 'th Gariad ti, fal y bô hi yn drigfa gymwys i 'th Yfpryd ti: Os ŵyt ti, O Arglwydd,

yn

yn gweled yn gymwys, bydded gwiw gennit adael i mi archwaethu o'r llawenydd hwnnw, ſef, eigion dy Gariad ti, yr hwn a ſu mor dra-hyfryd i'th Seinctiau. Ond os yn hyn ni wn beth yr ŵyf yn ei olyn, os ni allaf ddewis fy llè yn dy deyrnas, etto ña neccâ i mi, O Arglwydd, yfed o'th gwppan di, gád i mi gael y cyfryw radd ddi-ffûant o'th gariad ag a wnelo i mi ddioddef pob peth er dy fwyn di, ſef, y cyfryw gariad perffaith ag a fwrw heibio bob rhyw betruſder a Syrthni, ſal na bo i mi edrych ar ddim nag yn rhŷ ofidus i w oddef, nag yn rhŷ anhawdd i'w wneuthur mewn uſydd-dod i ti; módd gan eglurhau fy nghariad trwy gadw dy Orchymynion, y gallwyf o'r diwedd gael gan dy drugaredd y Goron honno o fywyd yr hon a addewaiſt i'r lawl a'th garant di trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

Am Ddi-ragrithrwydd.

O Arglwydd Sanctaidd, yr hwn a *geri* wirionedd oddi mewn, yr wyfi'n oſtyngedig yn attolwg i ti fy mhûro *i* oddiwrth bób ffûg a rhagrith. Y mae'r galon, O Arglwydd, yn dwyllodrus uwchlaw pob peth, a'm calon i yn dwyllodrus uwchlaw pob calonnau; O tydi yr hwn-ŵyt yn chwilio 'r calonnau a'r arennau, prawf fi, a chais allan ddyfnder fy nghalon, ag na âd i ddim ffieidddra nag eſcymmyun-beth locheſu ynof, ond pùra fi iè a'th dân, am y difethech fy forhach. Ni fedrai, O Arglwydd, mo'th dwyllo di, ond mi allaf yn hawdd iawn fy nhwyllo fy hun; O na âd i mi aros yn ddi-fraw yn y cyfryw dwyll, eithr dŵg fi i ganfod ag i gaſhau fy llygredigaethau dirgelaf, fal na bo i mi achleſu neb-rhyw drachwant anwyl o'm mewn, ond llwyr-ddiniſtrio pob *Amaleciad*; O na fydded i mi draethu heddwch wrthif fy hun, pan na bo heddwch; ond caniadhá fôd i mi farnu o honof fy hun megys yr wyt ti yn barnu o honof, fal na bydd-wyf byth mewn heddwch à mi fy hun nes i mi fôd mewn perffaith dangnheddyf gyda thydi, a chael trwy burdeb

calon

calon fy nghymhwyſo i'th weled ti yn dy Deyrnas, trwy Jeſu Griſt.

Am Ddwywolder mewn Gweddi.

O Arglwydd Dduw graſuſol, yr hwn ŵyt nid yn unig yn rhoddi cennad, ond yn gwahodd Creaduriaid truain anghenusi roddi i ſynu ei herſynion attat; bydded i gymmweirſa ſy ngweddi, yr ŵyſ yn attolwg i ti, ſôd mewn rhyw ſeſur yn gyſattebol i'r eiſieu gwaſtadol ſydd arnaſ o'th drugaredd: yr ŵyſ yn cydnabod, O Arglwydd, mai'r budd a'r Anrhydedd mwyaſ yw cael cennad i neſſau attat ti ſal hyn, etto y mae ſy nghalon halogedig i mor ſynn a hurt a diango ymmaith oddiwrth, neu ddiddymmu'r cyſryw odſâu. Y mae ſy Enaid, O Arglwydd, gwedi ei meddiannu ag yſyryd o wendid, a chwedi ei chŕymmu ynghŷd ſal na ddichon mewn modd yn y bŷd ei derchaſu ei hun attat ti. O rhynged ſodd i ti ſeddiginiaethu y clefyd róſt goſidus hwn, trwy yſprydoliaethu a bywoccau'r galon ammhur ddaiarol hon, modd y gallo hi dderchaſu i ſynu yn rhwydd attat ti, ag y bô i mi iawn briſio y Rhagor-fraint ragorol hon ag ymhyſrydu yn neſſau attat, ag ſal y bó heſyd ſy neſſâad attat ti gydâ pharch cyſattebol mewn rhyw ſeſur i'r Mawredd oſnadwy yr ŵyſ yn dyſod gar ei fron; a chydâ thaerni ag haerllugrwydd cyſattebol i'm hangenrheidiau dirſawr i; a chydâ'r cyſryw ddyſalweh heſyd ag aſtudrwydd meddwl, ſal na bo i neb-rhyw ſeddyliau troſâus ſy rhwyſtro; ſal na byddwyſ yn euog rhag llaw o neſſau attat ti a'm gweſuſau a'm calon ymmhell oddiwrthit, neu o droi ſy ngweddiau yn bechod; ond ſal y bô i mi ſelly ofyn ſel y derbynwyf, geiſio ſal y caffwyſ, a churo ſal yr agorer i mi: modd y gallwyſ o weddio attat ti ymma gael ſy nhroſglwyddo i'th ſoliannu di yn dragywydd yn dy ogoniant, trwy haeddedigaethau a chyſryngdod Jeſu Griſt.

Am

Am Oſtyngeiddrwydd.

OTydi uchel a derchaſadwy Un, yr hwn wyt yn preſſwylio Tragywyddoldeb, etto ſydd yn wiw gennit gyſanneddu gydâ'r Yſpryd goſtyngedig, tywallt i mewn i'm calon i, yr wyf yn attolwg i ti, y grâs rhagorol hwnnw o oſtyngeiddrwydd, yr hwn a ddichon yn hollawl ddi-wreiddio 'r holl dŷb uchel ofer hynny ſydd gennif o honof fy hun; gwná fi, Arglwydd, yn llwyr-deimladwy o'm gwaeledd fy hun, ag i ganfod fy mód yn druenus, ag yn dlawd, ag yn ddall, ag yn noeth, ag nid yn unig yn llwch, eithr yn bechod; fal yn dy holl ymddygiad rhagluniaethus tu ag attaf, y gallwyf oſod fy llaw ar fy ngenau, a chydnabod yn ddifrifol fy môd i yn llai na'r lleiaf o'th drugareddau di, ag yn fwy na'r mwyaf o'th farnedigaethau. A channiaddhá i mi, O Arglwydd, nid yn unig rodio yn oſtyngedig gyda'm Duw, ond gyda dynion hefyd, fel na bo i mi yn unig ymddaroſtwng i'th geryddon di, ond hefyd i rai fy nghŷd Griſtiannogion, a thrwy addfwyndra dderbyn ag ufuddhau ei Cynghorion hwynt. A gwnái mi fy ymddwyn fy hun felly tu ag at bawb, fal na wnelwyf ddim byth trwy gynnen neu wâg-orfoledd; ag i'rdiben hwnnw canniadhá fôd i mi mewn goſtyngeiddrwydd meddwl dybied yn well o bob dŷn nag o honof fy hun, a bodloni i eraill feddwl felly hefyd; na bò i mi ûn amſer faethu ûn tŷb uchel o honof fy hun, na chwennychu'r ûn ymyſg eraill, ond gan ddirmygu gwâg-glôd gan ddynion, y gallwyf geiſio'r glôd honno 'ſydd yn dyfod oddiwrthit ti yn unig: fal yn llè'r Celfyddau gwael hynny a arferais i er mwyn cael brî gan ddynion, y gallwyf yr awrhon oſod fy holl ofal a'm diwydrwydd ar waith i'm gwneuthur fy hun yn gymmeradwy yn dy olwg di, yr hwn wyt yn gwrthwynebu'r balch, ag yn rhoddi grâs i'r goſtyngedig: Canhiadhá hyn, O Arglwydd, er ei fwyn ef yr hwn a'i ymddaroſtyngodd ei hun i angeu'r groes, ſef, Jeſu Griſt.

Am Ofn Duw.

O Fawrhydi Gogoneddus, yr hwn yn unig wyt uchel ag ofnadwy, meddianna fy Enaid ag arſwyd Sanctaidd a pharch o honot ti, fal y gallwyf roddi i ti'r anrhydedd ddledus i'th Enw, a dwyn y cyfryw barch i bob peth a berthyn i ti, fal na bò i mi un amſer halogi dim Sanctaidd, neu gymmeryd yn gyſſegr-yſpeiliaidd y peth a ddidolaiſt ti i ti dy hûn. A chan dy fod ti, O Arglwydd, yn Dduw yr hwn ni chyfiawnha'r anwir, bydded i ofn dy Gyfiawnder wneuthur i mi arſwydo dy annog i ddigofaint; O na âd i mi felly gam-ſefydlu fy ofn, fel yr arſwydwyf ddŷn a fydd mawr, a mâb dŷn yr hwn a wneir fel glaſwelltyn, ag anghofio 'r Arglwydd fy ngwneuthur-ŵr; eithr llanw fy Enaid a'r ofn hwnnw o'r Arglwydd yr hwn yw dechreuad doethineb, yr hwn a ddichon fôd yn ffrwyn i attal fy holl anwydau anifeiliaidd, ag i'm cadw mewn Un-ffurfiad parhaus i'th Ewyllus Sanctaidd di. Gwrando fi, O Arglwydd, yr ŵyf yn attolwg i ti, a gofod yr ofn hwn yn fy nghalon, fel na ymadawyf oddiwrthit, eithr gweithio allan fy jechydwriaeth trwy ofn a dychryn, trwy Jeſu Griſt.

Am Hyder yn Nuw.

HOll-alluog Arglwydd, yr hwn ni phelli un amſer y y rhai a ymddiriedant ynot, dyro i mi, yr ŵyf yn attolwg i ti, Râs yn fy holl gyſtuddiau a blinderau i redeg attat ti, i hyderu a gorphywys arnat ti: tydi, O Arglwydd, a'i cedwi ef mewn perffaith-heddwch yr hwn fydd ai feddwl gwedi ei ſefydlu arnat ti, O bydded i mi yn waſtad orphywys ar y Golofn ddi-figl hon, heb ei chyſnewid hi byth am gorſen yſſig o gynnorthwyau bydol; na âd i'm calon fôd gwedi ei llenwi a gofalon y bŷd hwn, gan rag-fwriadu beth a fwytawyf, neu a yfwyf, neu

a

a pha beth i'm dilledir ; ond canniadhá gwedi i mi yn oneſt ag yn ddiwyd wneuthur fy rhan i, y gallwyf yn llawen ſy ngorchymyn ſy hun i'th ragluniaeth di, trwy ſwrw ſy holl ofal arnat ti, ag heb fôd yn ofalus am ddimm, ond i fod o nifer y rhai 'r wytti yn ei perchennogi ag yn gofalu troſtynt, ſef. y cyfryw ag ſydd yn cadw dy Dyſtiolaethau di ag yn meddwl am dy Orchymynion i'w gwneuthur. Fal gan geiſio yn gyntaf dy Deyrnas di a'i gyfiawnder, y gallwyf dderbyn yn yr holl bethau hyn oddi-allan yn ychwaneg y cyfryw ſeſur ag y gwelo dy Ddoethineb di fôd yn oreu i mi ; canniadhâ hyn, O Arglwydd, er mwyn Jeſu Griſt.

Am Ddiolchgarwch.

O Arglwydd graſuſaf, yr hwn ŵyt yn llenwi pôb beth byw a'th ddaioni, ag nid ŵyt yn diſgwyl dim tâl ond Mawl a Diolchgarwch ; na bydded i mi, O Arglwydd, byth dy dwyllo di o'r cyfryw deyrnged eſmwyth, ond bydded ſy nghalon yn waſtad yn deimladwy, a'm genau yn barod i gydnabod dy drugareddau. Peth llawen a hyfryd yw talu diolch ; O na âd i mi, yr ŵyf yn attolwg i ti, golli ſy nghyfran o'r hyfrydwch nefol hwnnw, eithr caniadhâ megis ag yr ŵyf beunydd yn derbyn bendithion gennit ti, felly y bo i mi beunydd o eigion calon ddefoſionawl dalu i ti Ddiolchgarwch am danynt ; a channiadhâ fod, nid yn unig i'm gwefuſau ond i'm buchedd, ddadcan dy foliant, trwy ſy nghyſſegru ſy hun i'th waſanaeth di, a rhodio mewn Sancteiddrwydd a chyfiawnder ger dy fron holl ddyddiau fy mywyd, trwy Jeſu Griſt fy Arglwydd, a'm Jachawdr bendigedig.

Am Gyſtudd Calon.

O Arglwydd Sancteiddiaf, yr hwn wyt yn derbyn yn raſuſol y gwir edifeiriol, etto wyt yn dân, yſſol i bechaduriaid gwrthnyſſig ; pa fodd y neſſâf i âttat, yr

hwn ſydd gennif gynnifer o bechodau echryſlon i ennyn dy lid, a chyn lleied o edifeirwch diffûant i annog dy drugaredd! O bydded gwiw gennit ſeddalhau a thoddi ſy nghalon galed hon, ſal yr ymofidiwyf yn ddifrifol am anwireddau ſy muchedd; taro 'r graig hon, O Arglwydd, ſal y ffrydio 'r dyfroedd allan, ſef, llifeiriant o ddagrau i olchi ſy nghydwybod halogedig; ſe ddarfu i'm Henaid ſwrth i gyſcu yn rhy hîr yn ddifraw mewn pechod, deffro hi, Arglwydd, er trwy daranau, a bydded i mi yn hytrach deimlo dy ddychrynniadau, na bôd heb deimlo ſy mhechodau. Ti a ddanfonaiſt dy fendigedig fâb i iachau y rhai yſſig o galon, ond beth a dâl hynny i mi, Arglwydd, os bydd ſy nghalon i yn gyfan? O torr hi ſal y bo hi yn gymwys i dderbyn y feddiginiaethus rinwedd hon; a channiadhâ, mi attolygaf i ti, gwedi i mi unwaith archwaethu chwerwder pechod, fod i mi ymogelyd rhagddo megis oddiwrth wyneb ſarph, a dwyn allan ffrwythau edifeirwch mewn gwellhâad buchedd, i fawl a gogoniant dy Ras di yn Jeſu Griſt ein Pryniawdr bendigedig.

Am Laryeidd-dra.

O Fendigedig Jeſu yr hwn ar arweiniwyd megys dafad i'r lladdfa, bydded, mi a attolgyaf i ti, i'r ſiampl ryfeddol honno o Laryeidd dra ddiffodd ynof bôb gwreichion digofaint a dîal, a gweithredu ynof y cyfryw Addfwynder a thawelwch Yſpryd ar na ddichon annogaethau yn y bŷd byth mo'i gyffrhoi. Canniadhâ, Arglwydd, i mi fod cymmhelled oddiwrth gynnyg y cam lleiaf, ſal na bo i mi byth dalu am y mwyaf, namyn trwy weddîau a chymwynaſgarwch; ag na bo i mi byth daergeſſio ceiniog gan ſy mrodyr, yr hwn ſydd gennif gynnifer o dalentau i'w maddeu gennit ti; eithr gan arwiſgo ymyſgaroedd Trugaredd, addfwynder, a hir-ymaros, y gallo dy dangnheddyf dy lywodraethu yn ſy nghalon, a'i gwneuthur hi yn breſſwylfa cymmeradwy i ti,

yr

yr hwn ŵyt Dywyſog Tangnheddyf, i ba ûn gyda'r Tâd a'r Yſpryd glân y bo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn dragywydd.

Am Ddiweirdeb.

O Sanctaidd a di-frycheulyd Jeſu, deſcyniad cyntaf pa un oedd i fonwes y Forwyn, ag etto ŵyt yn hoffi preſſwylio yn unig mewn Calonnau pûr a morwynaidd; yr wyf yn attolwg i ti ddanfon dy lân Yſpryd i'm glanhau i oddiwrth bôb aflendid, yn gyſtal Cnawd ag Yſpryd; ſy nghorph, O Arglwydd, yw Teml yr Yſpryd glân, O na fydded i mi byth halogi 'r Deml honno trwy neb-rhyw aflendid. Ag oblegid mai o'r galon y mae'r pethau hynny yn tarddu 'ſydd yn halogi dŷn, Canniadhâ, Arglywydd, fod i mi gadw ſy nghalon a phob diwydrwydd, fel na bo i neb-rhyw feddyliau aflan llygredig locheſu yno, eithr gwnâ fi yn abl, yr wyf yn attolwg i ti, i gadw fy nghorph a'm henaid yn bûr ag yn ddi-halog, modd y gallwyf dy ogoneddu di ymma yn gyſtal mewn Corph ag Yſpryd, a chael ſy ngogoneddu ym mhob ûn o'r ddau gydâ thydi ar ôl hyn.

Am Ardymmer.

O Arglwydd graſuſol, yr hwn o'th haelioni i ddynol ryw, a ganiadheaiſt i ni arferu dy greaduriad daionus er ein cynhaliaeth corphorol, caniadhà fód i mi yn waſtad arferu 'r rhydd-dyd ymma yn ddiolchgar ag yn ardymmherus; O na àd i mi byth fod yn gyfryw gaethwás i'r pleſer annifeiliaidd hwnnw o archwaeth, ag i'm Bwrdd fôd yn fagl i mi; ond dyro i mi, mi a attolygaf i ti, lwyr-ffieiddio pob mâth ar Ormodedd, a bydded i mi ſwyta ag yfed yn unig i'r dibennion hynny, ag yn ôl y meſurau hynny a ordeiniaiſt ti i mi er iechyd, ag nid er trythyllwch. A chaniadhâ, Arglwydd, na bo i mi gynllwyn y bwyd yr hwn a dderſydd eithr yr hwn a beru i fywyd tragywyddol, fal gan newynu a ſychedu

ar

ar ôl cyfiawnder y gallwyf gael fy nigoni a'th Râs di ymma, ag a'th ogoniant ar ôl hyn, trwy Jeſu Griſt.

Am Fodlonrwydd.

O Dduw trugarog, y mae dy ddoethineb di yn anfeidrol i ddewis, a'th gariad yn barod i ddoſparthu, pethau daionus i ni; O bydded i mi yn waſtad ymrôi yn hollawl ag yn gyflawn i'th drefniad di, heb chwennych fy eiddo fy hun, eithr ymfodloni yn hollawl i'th etholiad di drofof, fel ym mha gyflwr bynnag y byddwyf, y gallwyf ymfodloni iddo. Caniadhà, Arglwydd, na edrychwyf byth yn rwgnachus ar fy nghyflwr fy hun, nag yn genfigennus ar eiddo eraill. Ag i'r diben hwn, yr wyf yn attolwg i ti, lanhau fy nghalon oddiwrth bob rhyw anwydau Cybyddaidd; O na àd i mi roddi i fynu un gilfach o'm henaid i Mammon, ond dyro i mi felly ddibrifio 'r golud darfodedig hwn, fal pa un bynnag a wnelont a'i adchwanegu a'i lleihau na ofodwyf byth mo'm calon arnynt, eithr bôd fy holl ofal i fôd yn òludog tu ag at Dduw, a dodi i fynu fy nhryſlor yn y Nêf, trwy ofod felly fy nhueddiadau ar bethau oddiuchod, fal pan ymddangofo Crift fy mywyd, y gallwyf finnau hefyd ymddangos gydag ef mewn gogoniant. Caniadhâ hyn, Arglwydd, er trugareddau 'r unrhyw Jeſu Griſt.

Am Ddiwydrwydd.

O Arglwydd, yr hwn a ordeiniaiſt yn dy Ddoethineb i ddŷn gael ei eni i lafurio, na àd i mi wrthwynebu dy fwriad hwnnw trwy fy rhoddi fy hun i fynu i fyrthni a feguryd, eithr caniadhà i mi felly dreulio fy amſer a'r holl dalentau eraill a roddaiſt ti mewn ymddiried i mi, fel na fyrthiwyf tan farn y gwàs fwrth annuwiol; Arglwydd, os yw dy Ewyllys, gwnâ fi mewn rhyw fôdd yn ddefnyddiol i eraill, fel na byddwyf byw megys

megys rhan anfuddiol o ddynol ryw; ond pa ûn bynnag, O Arglwydd, na âd i mi fôd yn anfuddiol i mi fy hun, ond caniadhà fód i mi roddi pob diwydrwydd i wneuthur fy ngalwedigaeth a'm hetholedigaeth yn ſicr. Y mae fy Enaid gwedi ei hamgylchu a llawer o elynion gwiliadwrus, O na âd i mi blethu fy nwylo i gyſcu ynghanol cymmaint o beryglon, eithr gwilio a gweddio rhag ſyrthio o honof i brofedigaeth, trwy ddioddef caledi megis milŵr da i Griſt Jeſu, nes o'r diwedd i ti fy nhroſglwyddo o'r cyflwr hwn o filwriaeth i'r cyflwr o orfoledd a dedwyddwch yn dy Deyrnas, trwy Jeſu Criſt.

Am Gyfiawnder.

O Frenin Cyfiawnder, yr hwn a orchymynaiſt i ni gâdw barn a gwneuthur Cyfiawnder, rhynged fôdd i ti o'th râs lanhau fy nghalon a'm dwylaw oddiwrth bob twyll ag anghyfiawnder, a rhoddi i mi Uniondeb a pherffeithrwydd yn fy holl ymddygiad. O gwnâ i mi byth gaſhau arferu fy ngallu i orthrymmu, neu 'nghallineb i dwyllo fy mrawd; a chaniadhâ i mi gadw yn ddyfal y rheol Sanctaidd honno o wneuthur megis y chwennychwn wneuthur i minneu; fal na ddianrhydeddwyf fy mhroffes Grîſtianogawl trwy fuchedd anghyſiawn neu drofâus, ond bod am hymarweddiad yn y bŷd mewn ſymlrwydd a duwiol burdeb, heb geiſio byth bentyrru tryſſorau yn y bywyd hwn, eithr cyfrif ychydig trwy Gyfiawnder, yn fwy nag Ardrethion mawr anghyfiawn. Arglwydd, gwnâ fi yn gwbl-ofalus i roddi i bob dyn beth bynnag trwy fâth yn y byd ar rwymedigaeth fydd yn ddyledus iddo, fel na thorrwyf byth y rhwymedigaeth o'r perthynaſau hynnu ynthynt, eithr fy ymddwyn fy hun telly tu ag at bawb, fel na bo i neb ddim drŵg i'w ddywedyd am danaf, fal, os yw boſſibl, y byddwyf dangneddyfus a phôb dŷn; neu, pa un bynnag, y gallwyf trwy gadw diniweidrwydd a chyfiawnder gael Tangnheddyf o'r diwedd, ſef, heddwch gyda thydi, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

Am

Am Gariad.

O Arglwydd Trugarog, yr hwn â wnaethoſt o'r ûn gwaed, ag a brynaiſt a'r ûn prîs, bob rhyw genhedl o ddynion; na fydded i'm hymyſgaroedd i byth galedu yn erbyn nêb ar fydd yn gyfrannog o'r ûn anian a phrynedigaeth a mi, eithr caniadhâ i mi gariad cyffredinol tu ag at bôb dŷn. Dyro i mi, o Dâd y toſturi, y cyfryw dynerwch a meddaldra calon, fal y byddwyf yn gwbl-deimladwy o holl drueni a blinderau fy mrodyr oddi-mewn ag oddi-allan, ag ymoſod yn ddiwyd hyd yr eithaf o'm gallu i'w cymmorth a'i cynnorthwyo hwynt. O na bydded i'r anghriſtianogawl ſerch arnaf fy hûn ſeddiannu fy nghalon, ond bwrw allan yr Yſpryd melldigedig hwnnw, a bydded i'th yſpryd ti o gariad ddyfod a phreſſwylio yno; a gwnâ i mi ymegnío nid i'm boddhau fy hun, ond fy nghymydog er ei ddaioni i adeiladaeth, megys ag na foddhâodd Criſt ef ei hun. Gwná fi, Arglwydd, yn ornchwyliwr ffyddlon o'r holl dalentau hynny a orchymynnaiſt i mi er leſhâad i eraill, fel pan elwi di arnat i roddi cyfrif o'm goruchwyliaeth, y gallwyf wneuthur hynny trwy lawenydd, ag nid trwy driſtwch. Caniadhá hyn, Arglwydd trugarog, yr wyf yn attolwg i ti, er mwyn Jeſu Criſt.

Am Ddiyſtogrwydd.

O Arglwydd Ddûw tragywyddoi ag anghyſnewidiol, yr hwn ŵyt yr ûn ddoe a heddyw ag yn dragywydd; Rhynged bodd i ti gyfrannu ychydig lewyrch o'r godidowgrwydd hwnnw, rhyw râdd o'r ſefydliad hwnnw i mi dy greadur truan yr hwn ŵyf yſgafn ag anwadal, yn cael fy nhrói o amgylch gan bób rhyw awel; y mae fy nealltwraeth yn dra-thwyllodrus, O cadarnhà hi yn dy wirionedd, cadw hi rhag maglau Yſprydion troſâus, fal

fal na'm tywyſer ymmaith gyd a chyfeiliornad yr annuwiol a ſyrthio oddiwrth fy niyſgogrwydd fy hûn: y mae fy ewyllys hefyd, O Arglwydd, yn ſerfyll ag yn anwadal, ag heb lynu yn ddiſigl wrth Dduw, nid yw fy naioni i ond fal y cwmwl y boreu, ag megys y gwlith boreuol yn myned ymmaith. O cryſhâ a chadarnhâ fi, a pha weithred ddâ bynnag a weithredaiſt ti ynof, bydded gwiw gennit ei pherffeithio a'i chwplhau hyd ddydd Criſt. Arglwydd, ti a weli fy ngwendid, ag a wyddoſt nifer a grym y profedigaethau hynny fydd i mi i ymdrech a hwynt; O na âd monof i mi fy hun, eithr gorchguddia di fy mhen yn nydd y frwydr, ag mewn pob ymdrech yſprydol gwnâ fi yn fwy na gorfoleddwr trwy 'r hwn a 'm carodd i. O na bydded i neb-rhyw ddychryniadau na gweniaith y byd neu 'm cnawd byth fy nênu i oddiwrth fy ufudd-dod i ti, eithr caniadhâ i mi barhau yn ddiſigl ag yn ſeſydlog, gan fod yn waſtad yn helaeth yngwaith yr Arglwydd, a thrwy barhau yn ammyneddgar yn gwneuthur dâ, ceiſio o'r diwedd fwynhau gogoniant, ag anfarwoldeb, a bywyd tragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

Eſponiad byrr o weddi'r Arglwydd, i'w harferu megis Gweddi.

[*Ein Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd.*]

O Arglwydd, yr hwn wyt yn preſſwylio yn y nefoedd uchaf tydi wyt Awdwr ein bywyd ni, tydi hefyd a'n cenhedlaiſt drachefn i obaith bywiol, ag y mae gennit tu ag at artom dynerwch ag ymyſgaroedd Tâd toſturiol. O gwnâ i ni dalu i ti gariad ag ufudd-dod plant; ag fal y bom yn debyg i ti ein *Tâd o'r Nef* (y lle hwnnw

o wîr hefrydwch a phurdeb) dyro i ni ddiccrâwch ſanctaidd o'r holl bleſerau twyllodrus, a llygredigaethau ffiaidd y bŷd hwn; ag felly derchafa ein meddyliau fal y bo ein hymarweddiad ni yn y Neſoedd, o ba lê yr ydym yn diſgwyl am Jachawdr yr Arglwydd Jeſu Griſt.

[1. *Sancteiddier dy Enw.*]

TAro 'r cyſryw arſwyd yn ein calonnau, ſel y bo i ni dy berchi di yn ufydd yn dy *Enw*, yr hwn ſydd fawr, rhyfeddol, a Sanctaidd; a dwyn y cyſryw barch i bôb pêth a berthyno i ti a 'th addoliant ag a eglurhâo ein hurddduniant i 'th ddirfawr Fawrhydi di. Molianned y bobl di, O Dduw, molianned yr hóll bobl dydi.

[2. *Deued dy Deyrnas.*]

SEſydla dy Deyrngader, a rheola byth yn ein Heneidiau ni, a thrwy allu dy Râs gorchfyga 'r holl lygredigaethau gwrthryfelgar hynny ſydd yn ei derchafu ei hunain i'th erbyn; y rheini yw dy elynion hynny y rhai ni fynnant i ti lywodraethu arnynt, O dyger nhw allan, a llabyddier hwynt yn dy ŵydd, a gwna ni yn gyfryw ddeiliaid ffyddlon o'th *Deyrnas* ymma o *Râs*, fel i'n cymmhwyſer i 'r *deyrnas o Ogoniant*, ag yna Arglwydd Jeſu tyred ar frŷs.

[3. *Bydded dy Ewyllys ar y Ddaiar*, &c.]

CYnnorthwya ni a'th Râs i gyd-ddwyn yn ewyllyſgar a'th *Ewyllys* di yn dy holl geryddon, ag yn bryſſur i 'w chwplhau yn dy holl orchymynion; dyro i ni o 'r zêl neſol hwnnw i'th waſanaeth di a pha ûn yr yſprydoliaethir yr Angylion bendigedig, fel y gallom ni ufuddhau i ti a'r unrhyw ewyllyſgarwch a pharodrwydd, a chan ei dilyn hwynt yn ei hufudd-dod y gallom gael ein cyffyllu gydâ hwynt i ganu tragywyddol Foliant yn dy Deyrnas i Dduw ag i 'r Oen yn dragywydd.

[4. *Dyro*

[4. *Dyro i ni heddyw*, &c.]

DYRO i ni'r cyfryw barhâus gymmorth o'th râs, ag a ddichon gynnal a meithrin ein heneidiau i fywyd tragywyddol. A rhynged bodd i ti hefyd baratoi i'n Cyrph ni'r holl bethau hynny a weli di'n gymwys er ei cynnal hwynt i fynu trwy'n pererindod daiarol hwn, a gwnâ i ni hyderu yn llawen arnat ti am danynt, gan geiſio yn gyntaf dy Deyrnas di a'i chyfiawnder, ag yna heb ammeu na roddir i ni yr holl bethau hyn yn ychwaneg.

[5. *Maddeu i ni ein Dyledion*, &c.]

IAchâ ein Heneidiau, O Arglwydd, canys pechaſom yn ddirfawr i'th erbyn, bydded dy doſtur-drugareddau yn helaeth tu ag attom mewn *maddeuant o'n holl gamweddau*; a chaniadhâ, Arglwydd, na bo i ni byth golli dy faddeuant ymma, trwy neccâu ein heiddo ni i'n brodyr, eithr dyro i ni yr ymyſgaroedd hynny o doſturi tu ag at eraill, y rhai ſydd arnom ni yn fwy o anfeidrol ei heiſieu oddiwrthit ti, fal y *maddeuom* ni mor hollawl a chyflawn ar Orchymyn Criſt, ag yr ydym yn chwennych cael *maddeuant* er mwyn ei haeddedigaethau a'i Gyfryngdod ef.

[6. *Nag arwain ni i Brofedigaeth eithr*, &c.]

O Arglwydd, nid oes dim grym ynom ni yn erbyn yn lliaws hynny o *brofedigaethau* y rhai ſydd beunydd yn goſod arnom, ond y mae ein golygon yn unig arnat ti; O rhynged fodd i ti naill ai ei hattal nhw neu ein cymmorth ni, ag o'th ffyddlondeb na âd i ni gael ein *temtio* tu hwynt i'n gallu, eithr yn ein holl brofedigaethau gwnâ i ni ffordd i ddiangc, fel na orchfyger ni ganddynt, eithr gallu o honom pan elwi di ni i hynny, wrthwyne-

bu, iê, hyd at waed, gan ymdrechu yn erbyn pechod, fel trwy fod yn ffyddlon hyd angeu y derbyniom gennit ti Goron y bywyd.

[*Canys eiddot ti yn'r Deyrnas*, &c.]

Wrandaw ni, ag yn rafol caniadhâ ein herfynion, canys ti yw Bremin mawr yr holl ddaiar, yr hwn fydd a'i *allu* yn anfeidrol, ag a ddichon wneuthur i ni tu hwynt i'r cwbl a fedrwn ni ei ofyn neu'i feddwl, ag i ba un y perthyn y *Gogoniant* o'r holl ddaioni yr wyt ti yn ei weithio i ni neu trofom ni. Am hynny, bendith, anthydedd, gogoniant, a gallu a fo i'r hwn fydd yn eiftedd ar y Deyrngader, fef, i'n Duw ni, yn oes oeſedd, *Amen.*

Ocheneidiau byrrion Sanctaidd wedi ei cymmeryd allan o Lyfr y PSALMAU.

Am Faddeuant Pechodau.

TRugarhâ wrthif, O Dduw, yn ol dy Drugarogrwydd, yn ôl lliaws dy doſturiaethau delêa fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd: a glanhá fi oddiwrth fy mhechod.

Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau, a delêa fy holl anwireddau.

Fy anwireddau a'm gorchfygaſant, o bydd di drugarog wrth fy mhechodau.

Na ddós i farn a'th wâs, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di.

Er mwyn dy Enw, O Arglwydd, bydd drugarog wrth fy mhechod, canys mawr yw.

Am

Dychwel, Arglwydd, a gwared ſy Enaid, O achub ſi er mwyn dy Drugareddau.

Am Râs.

DYSC i mi wneuthur dy ewyllys di: canys ti yw ſy Nuw.

Dyſc i mi dy ffordd, O Arglwydd, ag mi a rodiaf yn dy wirionedd: Una ſy nghalon i ofni dy Enw.

Crêa galon lân ynoſ, O Dduw, ag adnewydda yſpryd uniawn o'm mewn.

Bydded ſy nghalon yn berffaith yn dy Ddeddfau, fal na'm cywilyddier.

Goſtwng ſy nghalon at dy dyſtiolaethau: ag nid át gybydd dra.

Trô heibio ſy llygaid rhag edrych ar wagedd: a bywhâ ſi yn dy ffyrdd.

Dieithr ydwyf ſi ar y ddaiar: na chudd di rhagoſ dy Orchymynion.

Dyſc i mi, Arglwydd, ſelly gyfrif ſy nyddiau: fal y dygwyf ſy nghalon i Ddoethineb.

Am Lewrch wyneb-pryd Duw.

PA ham, Arglwydd, y gwrthodi ſy Enaid, ag y cuddi dy wyneb oddiwrthif?

Na chuddia dy wyneb oddiwrthiſ, ag na fwrw ſi ymmaith yn dy lidiawgrwydd.

Gwell yw dy Drugaredd di na'r bywyd.

Arglwydd dercha lewyrch dy wyneb arnaf.

Cyſſura Enaid dy wàs, canys attat ti, O Arglwydd, y derchafaf ſy Enaid.

Diolch.

DIOLCHAF i'r Arglwydd bob amſer: ei foliant fydd yn fy ngenau yn waſtad.

Ti

Ti yw ſy Nuw, a mi a ddiolchaf i ti: ti yw ſy Nuw, ag mi a'th ſoliannaf.

Canaf i'r Arglwydd tra y byddwyf byw: Molaf ſy Nuw tra fyddwyf.

Bendigedig fyddo Duw yr hwn ni fwriodd fy ngweddi oddiwrtho, nag a drôdd ei drugaredd oddiwrthif finnau.

Bendigedig a fo'r Arglwydd Dduw, ſef, Duw Iſrael, yr hwn yn unig fydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

Bendigedig hefyd fyddo ei Enw gogoneddus ef yn dragywydd, a'r holl Ddaiar a lanwer o'i ogoniant ef, *Amen*, ag *Amen*.

Am Ymwared oddiwrth Helbul.

TRugarhâ wrthif, O Dduw, trugarhâ wrthif, canys ynot y gobeithia fy Enaid; ie, yn nghyſcod dy adenydd y gobeithiaf, hyd onid êl yr aflwydd hyn heibio.

Gwared fi, O Arglwydd, oddiwrth fy ngelynion, canys gyda thi yr ymguddiaf.

Y Gadw fy Enaid a gwared fi; na'm gwradwydder, canys yr ŵyf yn ymddiried ynot.

Fy llygaid ſydd yn waſtad ar yr Arglwydd: canys efe a ddŵg fy nhraed allan o'r rhwyd.

Tro attaf, a thrugarhâ wrthif: canys unig a thlawd ydwyf.

Gofidiau fy nghalon a helaethwyd: dŵg fi allan o'm cyſyngderau.

Tros yr Eglwys.

GWNA ddaioni yn dy Ewyllyſgarwch i *Sion*: adeilada furiau *Jeruſalem*.

Pa ham, Dduw, y bwri ni heibio yn dragywydd, ag y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

Cofia dy gynnulleidfa yr hon a brynnaiſt gynt; a llwyth dy Etifeddiaeth yr hon a waredaiſt: mynydd *Sion* hwn y preſſwyli yntho.

Amſer yw i ti, O Arglwydd, dderchafu dy Law; canys diddymmaſant dy Gyfraith di.

Cyfod, Arglwydd, ag amddiffyn dy achos dy Hun: Gwared Iſrael, o Dduw, o'i holl gyfyngderau.

Pyngciau byrrion i ni i'n ymholi ein hunain yn ei cŷlch, yn enwedig o flaen y Cymmun, a gaſclwyd allan o'r Traethawd o'r blaen, ynghylch Troſſeddiadau ein Dled-ſwydd.

Tu ag at DDUW.

FFYDD.

BOD heb gredu fod Duw.
Heb gredu i'w Air ef.
Heb ei gredu yn fucheddol, megis i fyw yn ôl ein crediniaeth.

GOBAITH.

ANOBEITHIO o Drugaredd Dduw, cymmhelled ag i eſgeuluſo Dledſwydd.
Rhyfygu arni yn fyrbwyll tra'i bôm yn myned ymlaen mewn pechodau rhyfygus.

CARIAD.

BOD heb garu Duw am ei Odidowgrwydd ei hun.
Heb ei garu ef am ei Ddaioni i ni.
Heb ymegnîo i'w fodloni ef.
Heb chwennychu neſſau atto ef yn ei Ordinhadau.
Heb hiraethu am ei fwynhau ef yn y Nêf.

OFN.

HEB ofni Duw megis ag i ymgadw rhag ei annog ef i ddigofaint.

Ofni

Oſni dyn uwch ei law ef, trwy wneuthur pechod i ochelyd rhyw drueni oddi-allan.

YMDDIRIED.

HEB Ymddiried yn Nuw mewn peryglon a chyſyngderau. Arferu moddion anghyſreithlon i'n tynnu ein hunain allan o honynt.

Heb ymddiried yn Nuw am gyflawniad o'n angenrheidiau.

Gormod gofal am bethau oddi-allan.

Eſgeuluſo llafurio, a diſgwyl i Dduw ein diwallu yn ein Seguryd.

Heb edrych i fynu at Dduw am fendith ar ein llafur oneſt.

GOSTYNGEIDDRWYDD.

HEb fod a thŷb parchedig o Dduw.

Heb ymddaroſtwng yn ufudd i wneuthur ei Ewyllys ef.

Heb ddioddef ei ewyllys ef yn ammyneddgar, ond grwgnach am ei geryddon ef.

Heb wellhau o'i plegid hwynt.

Heb fod yn ddiolchgar iddo ef am danynt.

Heb gyduabod ei Ddoethineb ef yn dewis troſom, ond bod a deiſyfiadau taer haerllug o'n heiddo ein hunain.

ANRHYDEDD.

HEB anrhydeddu Duw trwy arferu yn barchedig y pethau a berthynant iddo ef.

Ein hymddwyn ein hunain yn ammharchus yn ei dŷ ef.

Yſpeilio Duw trwy gymmeryd pethau gwedi ei cyſſegru iddo ef.

Halogi amſeroedd Sanctaidd, Dŷdd yr Arglwydd, Gwyliau ag ymprydiau'r Eglwys.

Eſgeuluſo darllen y Scrythyrau Sanctaidd, ag heb yſtyried pan ddarllennom hwynt.

Bod yn ddiofal am geiſio gwybodaeth o'n Dledſwydd, gan ddewis yn hytrach harhau mewn anwybodaeth, na'n goſod ein hunain i'r boen a'r draul o ddyſcu.

Goſod crefydd mewn gwrando Pregethau heb wneuthur ar ei hôl.

Torri

Torri ein Adduned a wnaethom yn ein Bedydd.
Trwy gyrchu at Ddewineſau, a Chonſur-wyr, hynny yw, at y Cythrel.
Trwy garu rhodres a gorwagedd y Byd, a dilyn ei arferion pechadurus ef.
Trwy gyflawni chwantau'r Cnawd.
Halogi Swpper yr Arglwydd.
Trwy ddyfod iddo yn anwybodus, heb ymholiad, a gwîr Edifeirwch, na bwriadu buchedd newydd.
Trwy ein hymddwyn ein hunain yno yn ammharchus ag yn annefoſionawl.
Trwy eſgeuluſo cadw'r Addewidion a wnaethpwyd yno.
Halogi Enw Duw, trwy feddyliau, neu ymddiddan cablaidd.
Rhoddi i eraill achos i'w gablu ef trwy ein buchedd annuwiol ni.
Cymmeryd Llŵon *anghyfreithlon.*
Anudonedd.
Tyngu mewn ymddiddan cyffredinol.

ADDOLIANT.

HEb Addoli Duw.
Eſgeuluſo Gweddiau, Publîc neu Brifat, a bod yn llawen am gael rhyw eſcus am hynny.
Gofyn pethau anghyfreithlon, neu i dibennion anghyfreithlon.
Heb buro ein calonnau oddiwrth bechod cyn gweddio.
Heb weddio trwy ffydd a Goſtyngeiddrwydd.
Oerni, difràwch, a marweidd-dra *mewn Gweddi.*
Meddyliau gwibiog mewn Gweddi.
Ymddygiad ammharchus y Corph mewn gweddi.

EDIFEIRWCH.

ESgeuluſo y Ddledſwydd o Edifeirwch.
Heb ein galw ein hunain i gyfrif beunyddiol am ein pechodau.

Heb bennodi amſerau goſodedig i Ymddaroſtyngiad a chyffes; neu yn rhŷ anfynych.

Heb yſtyried yn ddifrifol ein pechodau, i beri cyſtudd Calon am danynt.

Heb ymddial arnom ein hunain, trwy Ympryd, a gweithredoedd eraill o farwolaethiad y Cnawd.

DELW-ADDOLIAETH.

GAU-ddduwiaeth oddi-allan trwy addoli Creaduriaid.

Gau-ddduwiaeth oddi-mewn, trwy oſod ein Cariad, a'n hanwyddau eraill yn fwy ar y creaduriaid, nag ar y Creawdr.

Tu ag attom ein HUNAIN.

GOSTYNGEIDDRWYDD.

YMfalchio trwy debygoliaeth uchel o honom ein hunain.

O herwydd ein Cynnedfau Naturiol, megis wyneb-pryd, Doethineb, &c.

O herwydd golud bydol ag Anrhydedd.

O herwydd Grâs.

Chwennych yn awyddus glôd gan ddynion.

Cyfarwyddo gweithredoedd Criſtianogol, megis Gweddiau, Eluſſenau, &c. *i'r diben hwnnw.*

Gwneuthur pechodau er mwyn gochelyd gwradwydd gan ddynion drwg.

LLARYEIDD-DRA:

CYtbrwblio ein meddyliau a digoſaint ag yſtyfnigrwydd.

YSTY-

YSTYRIAETH.

HEB brofi yn ddyfal beth yw ein cyflwr ni tu ag at Dduw.
Heb ein profi ein hunainn wrth y wîr Reol, ſef, ein Hufudd dod i orchymynion Duw.
Heb iawn bwyſo Cyfreithlonrhwydd ein Gweithredoedd, cyn rhyfygu arnynt.
Heb brofi ein Gweithredoedd a baſſiodd, i Edifarhau am y rhai drŵg, ag i roddi i Dduw y Gogoniant am y rhai da.

BODLONRHWYDD.

ANfodlonrhwyd i'n Cyflwr.
Deiſyfiadau awyddus ar ôl Anrhydedd a Golud.
Ceiſio ei hennill hwynt trwy foddion pechadurus.
Cenfigennu cyflwr dynion eraill.

DIWYDRWYDD, GWILIADWRIAETH.

ESgeuluſo ſynnied a gwrthwynebu Profedigaethau.
Heb dreulio i'r goreu ddoniau Duw, oddi-allan neu oddifewn, i'w anrhydedd ef.
Cam-arferu ein Cynneddfau Naturiol, megis Synwyr, Coffa, &c. i bechod.
Eſgeuluſo neu wrthwynebu Cynnhyrfiadau Yſpryd Duw.

DIWEIRDEB.

AFlendid, Godineb, Putteindra, trachwantau annaturiol, &c.
Aflendid y Llygad a'r Llaw.
Siarad trythyll anllad.
Dychymmygion a Deiſyfiadau ffiaidd anniwair.
Adchwanegu Trachwant trwy borthi mwythau i'r Corph.
Heb ymegnio i'w ddwyn ef tanodd trwy Ympryd neu foddion geirwon eraill.

CYMMEDROLDER.

BWyta gormod.
Gwneuthur pleſer, nid Iechyd, yn ddiben Bwyta.
Bod yn rhy fwyt hus neu goſtus mewn Bwydydd.
Meddw-dod.
Ofed mwy nag ſydd gymwys i'n Cyrph, er nid i Feddwdod.
Treulio'r amſer neu'n Dâ bydol mewn Cwmpnhiaeth.
Cam-arferu cryfder ein pennau i wneuthur eraill yn ſeddwon.
Cŵſg anghymmedrol.
Diogi ag Eſgeuluſdra yn ein Galwedigaethau.
Arferu chwareuyddion anghyfreithlon.
Bôd yn rhy ddifri ar rai Cyfreithlon.
Treulio gormod o amſer arnynt.
Cynnwys ein denu ganddynt i Lid neu Gybydd-dra.
Bód yn falch o wiſciad.
Ymegnio i fyned tu hwynt i'n Grâdd.
Treulio gormod o amſer, o ofal a chòſt yn ei cylch.
Ymgadw oddiwrth y cyfryw Ormodedd, nid o gydwybod ond o gybydd-dod.
Nychu'n Cyrph i lenwi ein Pyrſau.

Tu ag at ein CYMYDOG.

CYFIAWNDER O OMMEDDIAD.

GWneuthur ſarháad a'n Cymydog.
Ymhyfrydu yn cythrwblio ei feddwl ef yn ddi-achos.
Maglu ei Enaid ef mewn pechod, trwy Orchymyn, cyngor, Cynnhyrfiad, neu Eſampl.
Ei ddychrynnu ef oddiwrth Dduwioldeb trwy ei watwor ef.
Heb geiſio dwyn y rhai hynny i Edifeirwch a lithiaſom ni i bechod.

LLO-

LLOFRUDDIAU.

LLofruddiaeth cyhoeddus neu ddirgel.
Denu dynion i anhymmerwch neu bechodau eraill, a ddichon dwyn cleſydau neu farwolaeth.
Cynnhyrfu dynion i gwerylu ag ymladd.
Briwo neu anafu Corph ein Cymydog.
Creulonder a Chynddeiriogrwydd i'w erbyn ef.

GODINEB.

CHwennychu Gwraig ein Cymydog.
Ei halogi hi.

CENFIGEN.

ANrheithio Dá rhai eraill o genfigen a malis.

CYBYDD-DOD.

CHwennychu Dá rhai eraill i ni ein hunain.

GORTHRECH.

GOrthrech trwy rym a chryfder neu rîth Cyfraith.

LLEDRAD.

HEB dalu benthyg yn ôl.
Heb dalu 'r peth a addawſom o 'n gwir-fodd.
Cadw yn ôl cyflog y gwâs a'r cyflogedig.

TWYLL.

TWYLL.

ANffyddlondeb mewn ymddiried, pa ûn bynnag ai i'r byw ai i'r marw.
Arferu Celfyddyd o ddichell yn Prynu ag yn gwerthu.
Cymmhelliad treiſiol ar angenrheidiau ein Cymydogion.

CAM-DYSTIOLAETH.

LLygru Enw-dâ ein Cymydog.
Trwy Gam-dyſtiolaeth.
Trwy Sarhâad a drwg abſen.
Trwy huſtyngu.
Trwy achleſu eraill yn ei henllibiau.
Bod yn rhŷ barod i goelio dryg-air am ein Cymydog.
Ammheuon di-achos.
Ei farnu ef yn fyrbwyll.
Ei ddirmygu oblegid ei wendid.
Gwahodd eraill i wneuthur felly trwy ei wawdio a'i watwor ef.
Dwyn malis yn y Galon.
Chwennych yn ddirgel farwolaeth neu niwed ein Cymydog.
Llawenychu pan ddigwyddo ddrŵg iddo.
Eſgeuluſo gwneuthur yr jawn a allom am unrhyw fâth ar gamwedd a wnaethom ni i'n Cymydog.

CYFIAWNDER O WEITHREDIAD.

Goſtyngeiddrwydd.

YMddygiad ſarrug a balch tu ag at eraill.
Ymarweddiad gyndyn ag yſtyfnig.
Ymadrodd chwerw a gwradwyddus.
Rhegu.
Heb dalu'r parch dledus i gynnedfau neu ddoniau rhai eraill.

Edrych

Edrych troſtynt yn falch.
Ceiſio lleihau parch rhai erail iddynt.
Heb wneuthur deunydd o'n gallu, pa un bynnag a'i o'n meddwl, ai o'n dâ-bydol, i gyfrannu i'r rhai ſydd mewn eiſien.

DIOLCHGARWCH.

ANniolchgarwch i'r rhai a wnaethant i ni ddaioni.
Yn enwedig i'r rhai ſydd yn ein rhybuddio ag yn ein Cynghori ni.
Heb wellhau ar ei hargyoeddiad hwynt.
Digio wrthynt am hynny.
Heb berchi ein tâd Dinaſaidd, ſef, y Llywiawdr cyfreithlon.
Ei farnu a'i Enllibio ef.
Gwarafun iddo ei Deyrnged gyfiawn.
Hau terfyſc ymŷſg ei bobl ef.
Gwrthod ufuddhau ei Orchymynion cyfreithlon ef.
Codi i fynu yn ei erbyn ef, neu ymbleidio a'r rhai a wnânt felly.
Dirmygu ein Tadau Yſprydol.
Heb ei caru hwynt er mwyn ei gweithredoedd.
Heb ufuddhau i Orchymynion Duw y maent hwy yn ei haddrodd i ni.
Ceiſio attal oddi-wrthynt ei Cynhaliaeth cyfreithlon.
Ymwrthod a'n Bugeiliaid cyfreithlon i ddilyn dyſcawdwyr ffeilſion a chynnhenus.

RHIENI.

YMddygiad yſtyfnig ag ammharchus tu ag at ein Rhieni naturiol.
Dirmygu a chyhoeddi ei gwendid hwynt.
Heb ei caru hwynt, nag ymegnio i ddwyn cyſſyr iddynt.

Diyſtyru

Diyſtyru ei cynghorion hwynt.
Grwgnach tan ei llywodraeth hwynt.
Chwennych ei Golud hwynt, er trwy ei marwolaeth.
Heb gyfrannu a hwynt yn ei hangenion o bôb math.
Eſgeuluſo gweddio am fendith Dduw arnynt.
Eiſieu Cariad naturiol tu ag at Blant.
Mammau yn gwrthod ei maethu hwynt heb rwyſtr cyſiawn.
Heb ei dwyn hwynt mewn prŷd i'w Bedydd.
Heb ei hathrawiacthu nhw mewn pryd yn ffyrdd Duw.
Goddef iddynt, o eiſieu ei ceryddu mewn pryd, gael arfer o bechod.
Goſod o'i blaen hwynt Eſamplau drŵg.
Ei digalonni hwynt trwy ymddwyn yn greulon a ſarrug tu ag attynt.
Heb baratoi. su ag at ei cynhaliaeth hwynt yn ôl ein gallu.
Treulio ei cyfran hwynt yn ein cam-rwyſg ein hunain.
Cadw yr cwbl hyd ein marwolaeth a gadael eiſieu arnynt yn y cyfamſer.
Heb geiſio gadael bendith iddyne o'n hôl trwy ein buchedd griſtianogol.
Heb weddio troſtynt.
Eiſieu Cariad tu ag at ein brodyr Naturiol.
Cenſigennau ag ymryſonau rhyngddynt.

DLED I FRODYR.

HEb garu ein Brodyr Yſprydol, ſef, ein Cyd-griſtianogion.
Heb fôd yn gyd-teimladwy o'i dioddefiadau hwynt.
Ymwrthod yn ddi-achos a'i cyfundeb hwynt mewn Dledſwyddau ſanctaidd.
Heb ddwys-yſtyried anghyfiawr a difrawd yr Eglwys.

PRIODAS.

PRIODAS.

PRiodi o fewn y graddau gwaharddedig.
Priodi o ran dibennion annyledus, megys Cybydd-dod, Trachwant, &c.
Ymddygiad ſarrug ag anheddychlon tu ag at y Gŵr neu'r wraig.
Anffyddlondeb i'r Gwely.
Heb gyd-ddwyn a gwendid naill y llall.
Heb ymegnîo i geiſio daioni naill y llall, Yſprydol neu amſerol.
Y wraig yn gwrthwynebu Gorchymyn cyfreithlon ei Gŵr Priod.
Ei hymegniad hi am Reolaeth ag arglwyddiaeth arno ef.
Heb weddîo y naill tros y llall.

CYMDEITHAS.

ANffyddlondeb i Gydymmaith.
Dadcuddio ei ddirgelion ef.
Neccâu Cymmorth iddo yn ei angen.
Eſgeuluſo ei gynghori ef yn garedig.
Ei lochi ef yn ei gamweddau.
Ymadael a'i gymdeithas ef ar achos gwael neu yn ddi-achos.
Gwneuthur Cyngr-air mewn pechod yn llê cymdeithas rhinweddol.

GWEISION.

GWeiſion yn annſuddhau gorchymynion cyfreithlon ei meiſtraid.
Gwneuthur twyll i'w Dâ hwynt.
Ei hafradloni nhw yn ddiofal.
Grwgnach wrth ei hargyoeddion hwynt.
Seguryd.
Mygad-waſanaeth.

MEISTRAID.

MEiſtraid yn arſeru ei Gweiſion yn greulon ag yn Orthrymmedig.

Yn rhy Lwfr, ag yn goddef iddynt eſgeuluſo ei Dledſwyddau.
Heb ofalu am ei Heneidiau hwynt.
Heb edrych am foddion iddynt o athrawiaeth mewn Crefydd.
Heb ei cynghori a'i hargyoeddi hwynt pan bechont.
Heb ganniadu iddynt amſer ag odfa i weddi ag Addoliant Duw:

CARIAD.

ELſieu ymyſgaroedd a Chariad tu ag at ein Cymydogion.
Heb ddeiſyf yn ddifrifol ei daioni hwynt Yſprydol ag amſerol.
Heb garn a maddeu i'n gelynion.
Ymddial a'n dwylo ein hunain arnynt.
Ffalſder: yn proffeſſu Cariad, heb ddangos dim.
Heb ymegnio i wneuthur yr holl ddaioni a allom i enaid ein Cymydog.
Heb ei gynnorthwyo ef yn ôl ein gallu yn ei Helbul corphorol.
Heb amddiffyn ei Enw dâ ef pan wyppom ei fôd yn cael ei enllibio.
Neceâu iddo gymwynas gymydogaidd i gynnal neu 'i anghwanegu ei gyflwr oddiallan.
Heb ei amddiffyn ef rhag gorthrymder pan yw yn ein gallu wneuthr hynny.
Heb ei gynnorthwyo ef yn ei dlodi.
Heb roddi yn helaeth, neu yn llawen.

MYNED i'r GYFRAITH.

BOD heb garu Tangnheddyf.
Myned i'r gyfraith ar achoſſion gwael.
Dwyn gelyniaeth o'n mewn tu ag at y rhai y bom ni yn ymgyfreithio a hwynt.
Heb ymegnio i wneuthur Tangnheddyf ymyſg eraill.

Deunydd

Deunydd y Rhôl *yma o* Bechodau *yw hyn; ar Ddyddiau* Ymmdaroſtyngiad, *yn enwedig o flaen y Cymmun, darllen hwynt droſtynt yn yſtyriol, ag ar bôb ûn o honynt gofyn i'th galon dy hùn,* A wyt ſi yn Euog o hwn? *a pha bêth bynnag trwy'r Broſiad a ganfyddi di dy hun yn Euog o hono, eyffeſſa yn neillduol ag yn oſtyngedig ger bron Duw, ynghyd a'r holl amgylchiadau dirfawr hynny a ddichon adchwanegu eu heuogrwydd hwynt, a bwriada yn ddifrifol ymadel a phôb gyfryw Bechod rhag llaw; gwedi hynny arfera'r ffurf ſy'n canlyn.*

O Arglwydd, yr ŵyf yn cywilyddio ag yn gwrido wrth dderchafu fy wyneb tu ag attat ti, obiegid y mae fy anwireddau gwedi amlhau tros fy mhen, a'm troſſeddiad a dyfodd i fynu hyd at y Nêf. Mi a wneuthym yr holl bechodau hyn, a hynny yn dra-angerddol; nid anwireddau neillduol ag unig tuant, eithr rhai gwedi ei mynych ail-gyrchu: Canys o mor cyn lleied, Arglwydd, fydd o'r holl Rôl echryflon hon a oſodais i yr awrhon o'th flaen di, na bùm i yn euog o honynt, iê, nad ydynt gwedi dyfod yn gynnefinol ag yn arferol i mi? Ag at hyn óll, mi a adchwanegais awydd-fryd a gwrthnyſigrwydd yn pechu, gan ymchwelyd i'm harfer ddrygionus, fal y rhythra'r march i'r rhyfel, gan wneuthur drŵg a'm dwy law yn unchwant, iê, gan gaſhau, adnewyddu, a thaflu dy Eiriau o'm hôl, trwy ddiffodd dy yſpryd ti o'm mewn, yr hwn a dyſtiolaethodd i'm herbyn, i'm troi oddiwrth fy ffyrdd ddrygionus, a bwrw yn ofer yr holl ſoddion hynny oddi-allan, pa ûn bynnag ai o farnedigaeth neu o drugaredd, y rhai a arferaiſt ti i'm tynnu i attat dy hun. Iê, O Arglwydd, mi a allaf gyfrif fy Ediſeirwch ym mhlîth fy mhechodau mwyaf; nhw fuant weithiau yn ffugiol a rhagrithiol, yn waſtad mor wael a diffrwyth na ddygaſant ddim ffrwyth allan mewn gwellhâad buchedd, eithr mi a ymchwelais dracheſn gyda'r Cî i'w chwdfa, a'r hwch i ymdrobaeddu yn y domm; ag at hyn oll mi a adchwanegais dorri'r holl ſwriadau a'r add-

unedau a wnaethym o'r blaen o wellhâad. Felly yr ŵyf, O Arglwydd, yn dra-phechadurus, a chan ddarfod i mi fal hyn ddewis marwolaeth, teilwng iawn yw i mi fód yn gyfrannog o honi, ſef, o'r ail farwolaeth, y Pydew o dân a brwmſtan; Hyn, Hyn, O Arglwydd, mewn Cyfiawnder yw rhan fy Phíol i; i mi ni pherthyn dim ond cywilydd a gwarthrudd wyneb yn dragywydd: Ond i ti, O Arglwydd Dduw, y perthyn Trugaredd á maddeuant, er gwrthryfelu o honof i'th erbyn; Na chofia fy mhechodau na'm hanwireddau, eithr yn ôl dy drugaredd, meddwl am danaf, Arglwydd, er dy ddaioni. Tydi a anfonaiſt dy Fáb i geiſio ag i gaâw yr hyn a gollefid; wele, O Arglwydd, mi a eis ar gyfeiliorn fal dafad ar gyfr-goll, o gais dy wâs, a dŵg fi yn ôl at Fugail ag Eſcob fy Enaid; bydded i'th Yſpryd ti roddi i mi wîr deimlad a chaſineb o'm holl ffieidd-dra, ſef, y gwîr gyſtudd calon hwnnw yr hwn a addewaiſt ti ná ddirmygit. Ag yna bydded fodlon gennit edrych arnaf, dileu fy holl anwiredd, a'm derbyn i yn raſol, ag er ei fwyn ef yr hwn ni wnaeth ddim ar fai, cymmoder di a fi, yr hwn ni wnaethum ddim dâ; golch ymmaith euogrwydd fy mhechodau i yn ei waed ef, a thrwy ei Râs ef gorchfyga'i gallu hwynt; a chaniadhà, O Arglwydd, fôd i mi o'r awr hon allan gymmeryd fy nghennad ddiweddaf, a'm holl annuwioldeb a'm trachwantau bydol, fal na bo i mi byth ond hynny edrych yn ôl tu a *Sodoma*, nag hiraethu am groehanau Cîg yr *Aipht*, eithr bod i mi fy nghyſſegru fy hun yn hollawl i ti, i'th waſanaethu di mewn Cyfiawnder a gwîr ſancteiddrwydd, gan fy nghyfrif fy hun yn farw i Bechod, eithr yn fyw i Dduw, trwy Jeſu Grift ein Harglwydd a'n Hiachawdr bendigedig.

Yna

Yna arfer a y PSALM hon o Ediferwch.

Pſalm 51.

TRugarhâ wrthif ô Dduw yn ôl dy drugarogrwydd; yn ôl lliaws dy doſturiaethau delea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau: a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

Yn dy erbyn di, dydi dy hunain, y pechais ag y gwneuthum y drwg hyn yn dy olwg: fel i'th gyfiawnhaer pan leferych, ag y byddit bûr pan farnech.

Wele mewn anwiredd i'm lluniwyd, ag mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn: a pheri i mi wybod doethineb yn y dirgel.

Glanhâ fi ag Yſſop, ag mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach nâ'r eira.

Pâr i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel y llawenycho yr eſcyrn a ddrylliaiſt.

Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau: a delèa fy holl anwireddau.

Crèa galon lân ynof ô Dduw; ag adnewydda yſpryd uniawn o'm mewn.

Na fwrw fi ymmaith oddi ger dy fron: ag na chymmer dy Yſprŷd ſanctaidd oddi wrthif.

Dyro drachefn i mi orfoledd dy iechydwriaeth: ag â'th hael Yſpryd cynnal fi.

Yna y dyſcaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat.

Gwared fi oddiwrth waed ô Dduw, Duw fy iechydwriaeth: am tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

Arglwydd agor fy ngwefuſau, a'm genau a fynega dy foliant.

Canys ni chwennychi aberth, pe amgen mî a'i rhoddwn; poeth offrwm ni fynni.

Aberthau

Aberthau Duw ydynt yſpryd drylliedig: calon ddrylliog gyſtuddiedig, o Duw, ni ddirmygi.

Gwna ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch, i Sion: adeilada furiau Jeruſalem.

Yna y byddi di ſodlon i ebyrth cyfiawnder, i hoeth offrwm, ag aberth lloſg, yna'r offrymmant ſuſtnch ar dy allor.

Gogoniant i'r Tâd, ag i'r Mâb, ag i'r Yſpryd glân.

Megys yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon, ag y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd, *Amen.*

GWEDDIAU

O FLAEN derbyn y

CYMMUN *Bendigedig.*

O DDUW graſuſaf, yr hwn o'th ddirfawr ddaioni a baratòaiſt y wledd Yſprydol hon i Eneidiau llêſg a thrangcedig, gwna i'm deiſyfiadau a'm hiraeth i am dani fôd yn gyfattebol i'm heiſieu o honi. Fe ddarfu i mi, gyda'r afradlon, dreulio'r gyfran honno o Râs a roddaiſt ti i mi, ag am hynny 'mae arna'i eiſieu yn anfeidrol cael cyflawni fy niffyg allan o'r tryſſor-dŷ ynta. Ond, O Arglwydd, pa fodd y meiddia'r cyfryw greadur truan a myfi neſſau at dy fwrdd Sanctaidd di? Câ wyf fi, pa fodd y rhyſygaf gymmeryd Bara'r plant? Neu pa fôdd y rhoddir y Manna Yſprydol hwn, ymborth Angylion, i ûn a ddewiſodd fwyta o'r cibau gyda'r môch, iê, i ûn a fathrodd cyn ſynyched eiſoes y perthau gwerth-

gwerthfawr hyn tan ei draed, naill ai trwy eſgeuluſo'r dirgeledigaethau Sanctaiddiol hyn yn ddiofal, neu 'i derbyn hwynt yn annheilwng? Y mae ſy euogrwydd greſynol, O Arglwydd, yn gwneuthur i mi arſwydo dyſod, ag etto yn gwneuthur i mi na feiddia'i ond dyſod; oblegid pa lê, O Arglwydd, y golchir ſy Enaid lygredig i, ond yn y ffynnon hon a agoraiſt ti i bechod ag Aflendid? Ymma gan hynny yr wyf fi'n dyſod, a thydi a addewaiſt na fwrit heibio neb a ddeuêu attat ti: Hwn, O Arglwydd, yw gwaed y Teſtament newydd, caniadhà i mi feily ei dderbyn ef, fal y bô i mi er maddeuant pechodau. Ag er darſod i mi cyn ſynyched ag mor reſynol dorri ſy rhan o'r Cyſammod hwnnw, o ba ûn y mae'r Cymmun hwn yn ſêl, etto rhynged ſodd i ti o'th Râs wneuthur dy ran di yn ddâ, a thrugarhau wrth ſy anghyfiawnder i, ag na chofiech mwyach ſy mhechodau na 'm hanwireddau; ag nid hynny yn unig, ond goſod dy Gyfraith yn ſy nghalon, a' ſcrifenna hi yn ſy meddwl, a thrwy allu dy Râs trefna ſy Enaid i'r cyfryw ddiffûant a pharhaus ufuddod, fal na ddigiwyf monot ti byth drachefn; caniadhà, O Arglwydd, ſod i mi yn y dirgeledigaethau ſanctaiddiol hyn nid yn unig goffhau, ond gwîr-dderbyn ſy Iachawdr bendigedig, a'r holl Ragor-freintiau o'i ddioddefaint ef: ag i'r pwrpas hwn dyro i mi 'r cyfryw baratôad Enaid ag a'm cymhwyſa 'i i hynny; dôd i mi ddwyſ-deimlad o'm pechodau a'm hanneilyngdod, fal trwy fôd yn ſtinderog ag yn llwythog, y byddwyf yn gymwys i dderbyn ei eſmwythdra ef; a chan ſód gwedi ſy mwydo yn ſy nagrau ſy hûn y gallwyf fod yn gymhwyſach i gael ſy ngolchi yn ei waed ef; derchafa ſy meddwl hurt daiarol o ymdrobaeddu ymma yn iſel, ag yſprydola fi a duwiol zêl, modd y gallwyf a chariad yſprydol neſſau i'r Wledd Yſprydol hon; a bydded, O Arglwydd, i'r Cariad anfeidrol hwnnw o eiddo Criſt yn marw tros y fath Greadur gwael, wreſogi ſy Enaid oer ſarwaidd i, a chynneu ynof y tân Sanctaidd hwnnw

o gariad iddo eſ, a hynny mor wreſog ſal na ddichon neb-rhyw ddwfr ei ddiffodd, na lifeiriant ei foddi; y cyfryw ag a ddichon loſci yn llwyr fy holl ammhuredd i, heb adael ûn trachwant heb ei farweiddio yn fy Enaid; a'r cyfryw ag a allo gyrrhaeddud pawb a orchymmynaiſt ti i mi, neu a roddaiſt ti i mi ſiampl, i'w caru, yn gyſtal gelynion a chyfeillion. Yn ddiweddaf, O Arglwydd, yr attolygaf i ti fy nilladu i a'r wiſg briodas, a'm gwneuthur i, er o honof fy hun yn dra-annheilwng, etto trwy dy drugaredd di, yn weſtai cymmeradwy i'th fwrdd Sanctaidd hwn, fal na fwytâwyf ag na yfwyf fy namnedigaeth fy hûn, ond cael o honof fy mhardwn gwedi ei ſelio, fy ngwendid gwedi ei adgyweirio, fy llygredigaethau gwedi ei daroſtwng, a'm Henaid gwedi ei hûno mor an-wahanol a thydi, fal na allo unrhyw brofedigaeth fyth ddattod yr Undeb hwnnw; ond gan fod wedi dechreu ymma mewn grâs, y gallo gael ei pherffeithio mewn Gogoniant. Caniadhâ hyn, O Arglwydd, er mwyn dy anwyl Fâb Jeſu Griſt. *Amen.*

Gweddi arall.

O Wynfydedig Jeſu, yr hwn a'th offrymmaiſt dy hun troſſof fi unwaith ar y Groes, ag ŵyt yn dy gynnyg dy hûn i mi 'r awrhon yn y Cymmun, na âd, yr wyf yn attollwg iti, i'm di-edifeirwch neu fy anheilyngdod wneuthur y trugareddau anfeidrol hyn yn anfuddiol i mi, eithr cymhwyſa fi trwy dy Râs i dderbyn cyflawn ffrwyth o honynt. Y mae arnaf, O Arglwydd, dy eifieu di 'n ddirfawr, ond yr wyf wedi fy llyffetheirio ag euogrwydd, a chwedi fy nal i mewn a rhaffau fy mhechodau, fal na allaf ſymmud tu ag attat ti; O gollwng fi 'n rhydd o'r rhwym hwn a pha ûn i'm attaliwyd gan Satan a'm gwyniau cnawdol fy hûn, a thywys fi modd y gallwyf redeg ar dy ôl di; Ti a weli, O Arglwydd, mor gyflym yr wyf fi beunydd yn cynllwyn y llwybrau fydd yn arwain i angeu; ond pan fyddoch di yn fy ngwahodd i fywyd a gogoniant, yr wyf yn troi fy

nghefn

nghefn, ag yn gwrthod trugaredd. Mor fynych yr arlwyed y Wledd hon, a myfi a'm habſennais fy hun ag Eſguſion gwael? neu os deuais, fe ſu hynny yn hytrach i'th ddirmygu, nag i'th addoli di; Mi a ddygais y cyfryw luoedd o'th Elynion cyhoeddus di gyda fi, ſef, pechodau heb edifarhau am danynt, fal pe buaſwn yn dyfod nid i goffhau, ond i adnewyddu dy ddioddefaint, gan dy groſhoelio di o newydd, a'th roddi i wradwydd cyhoeddus: Ag yn awr, o ba goſpedigaeth nad wyf fi yn deilwng, yr hwn fal hyn a ſethrais Fâb Duw tan fy nhraed ag a gyfriſais waed y Cyfammod yn beth halogedig! Erto, O Drugarog Jeſu, y gwaed hwn yw fy unig noddfa i, O bydded i hwn wneuthur fy Nghymmod i a thydi, neu fe ddarfu am danaf yn dragywydd: i ba beth y tywelltaiſt ef ond i waredu pechaduriaid? ag ni ddichon ei deilyngdod ef gael ei orchfygu na'i bwyſo i lawr gan fawredd na rhifedi Pechodau. Pechadur dirfawr ydwyf fi, O gâd i mi gael yr iachus ffrwyth o hono. Trugarhâ wrthif, O Dduw, trugarhâ wrthif, canys y mae fy Enaid yn ymddiried ynot, ag yn nghromlechydd dy archollion y bydd fy nodda, nes i lidiawgrwydd dy Dâd fyned heibio. O tydi yr hwn megis fy Arch-offeiriad a *aberthaiſt* troſof, *eiriol* hefyd troſof, a dadleu haeddiant dy ddioddefaint er fy mwyn i; ag na âd, O fy Mhrynwr, i brîs dy waed ri fyned yn gwbl yn ofer: Ond canfadhâ, O Arglwydd, megys y mae fy mhechodau yn aml i'w maddeu, felly y bo i mi garu llawer. Ti a weli, O Arglwydd, pa ryw gariad oer a methiant fydd gennif tu ag attat ti, O twymna a bywoccâ ef: Ag megys y tywelltir allan yn y Cymmun hwn dy anfeidrol gariad ti yn marw troſof, felly yw wyf yn erfyn arnat fod iddo ddwyn y cyfryw Râs i'm mewn ag a'm gwnelo i yn abl i'th garu ditheu hefyd mewn rhyw feſur cyfattebol: O bydded i'r Tân Sanctaidd hwn ddeſcyn o'r Nêf i'm Henaid, a bydded iddo ddifa fy mhechodau megis poeth-offrwm, fal na locheſo neb-rhyw anwydau llygredig, na dim melldigedig yn fy nghalon; modd na

hal gwyf byth drachefn y llê hwnnw a ddewiſaiſt ti yn Deml i ti dy hûn. Tydi, O wynfydedig Jeſu, a fuoſt farw i'm gwaredu i oddiwrth bôb anwiredd, O na âd i mi ſy ngwerthu fy hûn drachefn i weithredu drygioni; ond caniadhâ i mi neſſau attat y prŷd hyn a llawnſwriadau diſigl a difrifol o adnewyddiad hollawl, a gâd i mi ddefbyn y bywyw Râs a gallu oddiwrthit ti, fal y gallwyf yn ffyddlon ei cwplhau hwynt. Yſ mae fy Enaid, O Arglwydd yn gruddfan tan amryw ſbechodau hên cynneſiol. [*Yma traetha allan dy lygredigaethau mwyaf.*] Ag er cyhyd y gorweddwyf wrth *Lyn Bethesda*, er mynych ed y delwyf i'th fwrdd, eto oni bydd yn wiw genit ti eſtyn allan dy feddyginiaethus rinweddi, nhw a barhâant yn waſtad heb ei hiachau. O wyda wynfydedig Byſygwr Eneidiau, iachâ fi, a chaniadhâ fod i mi feſly dy gyffwrdd di yr awrhon, feb yr attalibr pôb ûn o'r diſer-ſiffiaidd hyn yn ebrwydd, ag fal na bo'r cleſydau hyn iſaowoaeth, ond i ogoniant dy drugaredd di yn *madden*, ag i ogoniant dy Râs yn *glanhau* creadur truan mor halogedig. O Chriſt, gwrando fi, a chaniadhâ fod i mi yr awrhon neſſau attat a'r cyfryw oſtyngeiddrwydd, cyſtudd daion, y ciniad a Dwywioldeb, fal y bo'n deſlwng genit ti doŷfod atat fi, a phreſſwylio gyda fi, trwy dy gyſrannog is dy hun i mi, ynghyd a holl haddedigaethau dy ddioddefaint. Ag yna, O Arglwydd, na fydded i'r ûn o achwynion Satan neu nghydwybod fy hûn, fy mrawŷchu na'm cythrwblio, ond ganfod genit ti heddwch gyda mhidi, gad i mi gael heddwch hefyd ynof fy hûn, fal y bo i'o Gwyn hwn lonni; Ag i Fara'r bywyd hwn nerthu fy nghalon, am gwneuthur i yn abl i redeg ffordd dy Orchymynion. Caniadhâ hyn, drugarog Iachawdr, er mwyn dy doſturi a'th ymyſgaroedd dy hûn.

AMEN.

I i 1

OCHENEIDIAU

Byrrion i'w harferu wrth

Fwrdd yr Arglwydd.

O Aglwydd nid wyfi deilwng i ti ddyfod tan fy nghronglwyd.
Pechais : pa beth a wnâf i ti, tydi Geidwad dynion ?

[*Yma adgoffâ rai o'th bechodau mwyaf.*]

O S creffi di ar anwiredd, Arglwydd, pwy a faif?
Ond gyda'r Arglwydd y mae Trugaredd, ag aml ymwared gyd ag ef.

Edrych, O Arglwydd, ar dy anwyl fâb yn yr hwn yn unig i'th fodlonir.

Gwrando ar lêf ei waed ef, yr hwn fy'n traethu pethau gwell na'r eiddo *Abel*.

Trwy ei ddirfawr ing a'i chwŷs gwaedlud ef, trwy ôi grôg a'i ddioddefaint ef, Gwared fi, Arglwydd Daionus.

Oen Duw yr hwn wyt yn dilêu pechodau'r bŷd, caniadhâ i mi dy Dangnheddyf.

Oen Duw yr hwn wyt yn dilêu pechodau'r bŷd, trugarhâ wrthif.

Yn ebrwydd o flaen derbyn, dywed.

TYDI a ddywedaiſt yr hwn ſydd yn bwyta fy nghnhawd, ag yn yfed fy ngwaed a gaiff fywyd tragywyddol. Wele wafanaethydd yr Arglwydd, bydded i mi yn ôl dy Air.

Wrth dderbyn y Bara, Dywed.

TRWY dy Gorph Croeſhoeliedig di gwared fi oddiwrth gorph y farwolaeth hon.

Wrth dderbyn y Cwppan, dywed.

OBydded i'th waed ti buro fy nghydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw.

Arglwydd, os mynni, tydi a elli fy nglanhau.
O Cyffwrdd a mi, a dywed, mynnaf, bydd di lân.

Gwedi derbyn, dywed.

BETH a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?

Phiol iechydwriaeth a gymmeraf, ag ar Enw'r Arglwydd y galwaf.

Teilwng yw'r oen yr hwn a laddwyd i dderbyn gallu, a chyfoeth, a Doethineb, a chadernid, ag anrhydedd, a gogoniant a moliant.

Am hynny Moliant, ag anrhydedd, a gogoniant a gallu fyddo iddo ef yr hwn fydd yn eiſtedd ar yr Orſeddfaingc, ag i'r Oen yn dragywydd, *Amen.*

Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy Gyfiawnder.

Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed.

Diolch ar ôl derbyn y CYMMUN.

ODduw ffynnon pôb daioni, oddiwrth ha ûn y mae pôb rhedd dda a pherffaith yn dyfod, ag i ba ûn y mae pôb anrhydedd a gogoniant yn deilwng, yr wyfi'n chwennych o wir eigion calon ddiolchgar dy fendithio

a 'th foliannu di am y trugareddau anfeidrol hynny a ganiadhèiſt ti i mi: Arglwydd, beth yw dŷn i ti wneuthur cymmaint cyfrif o honaw ag anfon dy anwyl Fâb i ddioddef Penydiau mor echryſlon troſto ef? Ond beth wyf fi, O Arglwydd, y gwaethaf o ddynion i mi dderbyn ûn gyfran o 'r iawn yma, yr hwn a 'i dirmygais ef a 'i ddioddefaint cyn fynyched? O uchder a dyfnder dy drugaredd hon, yn rhoddi cennad i mi i ddyfod i adnewddu 'r Cyfammod hwnnw a thydi; yr hwn a ddarfu i mi cyn fynyched ag mor wrthnyſig ei dorri! i mi, yr hwn nid wyf deilwng o 'r bara beunyddiol ſy 'n cynnal y Corph, gael bôd yn gyfrannog o fara 'r bywyd yma ıy 'n porthi 'r Enaid; a bod yn wiw gan y Duw pûr Sanctaidd ei gyſſylltu ei hun a chreadur mor wael a llygredig! Na âd i mi o hyn allan, O Dduw, yr wyf yn attolwg i ti, droi dy râs di i drythyllwch, a gwneuthur dy drugaredd di yn achos o ddiogi a ſeguryd, ond bydded i 'th gariad annrhaethadwy hwn ſy annog i ufuddod, ſal gan ddarfod i 'm Harglwydd bendigedig farw troſoſi, na bo i mi rhag-llaw fyw i mi fy hûn, ond iddo ef: mi a wn, O Arglwydd, nad oes dim cyfeillach rhwng Criſt a Belial; gan ddarfod iddo ef weled yn dda gan hynny yr awrhon fyned i mewn i 'm Calon i, O na bydded i mi byth gynnwys i unrhyw drachwant ei yrru ef allan oddi-yno, ond bydded iddo gadw meddiant ynof yn waſtad yr hwn a 'm prynnodd i mor ddrûd, ag na fydded i ddim byth fy nghymmeryd i o 'i ddwylaw ef. I 'r pwrpas hwn rhynged todd i ti o'th ddaioni wilio troſſof, a 'm hamddiffyn rhag pob cynllwynion ſy ngelynion Yſprydol, ond yn enwedig gwared fi oddiwrthif fy hun, ſef, rhag twyll fy nghalon fy hun, yr hon ſydd yn rhŷ barod i'w thraddodi ei hun i fynu yn yſglyfaeth. A llé y gweli di fy môd wannaf naill ai trwy natur ai arfer, yno mi attolygaf i ti fawrygu dy allu i 'm hamddiffyn. [*Yma adrodd dy Brofedigaethau Perycclaf.*] Ag na âd, O Arglwydd, i mi byth anghofio dioddefaint fy

Iachawdr

Iachawdr tros fy mhechodau i, a'r Addunedau a wnaethum i yr awrhon yn ei herbyn hwynt, ond bydded i goffadwriaeth o'r naill wneuthur i mi gwplhau'r llall, fal na bo i mi byth wneuthur Cyngr-air a'r trachwantau bynny a hoeliodd ei ddwylaw ef, a wanodd ei ystlys ef, ag a wnaeth ei Enaid ef yn drom hyd angeu. Ond gan ddarfod i mi yn awr fy rhoddi fy hun o newydd tan ei faner ef, bydded i mi ymladd yn ŵrol, a dilyn Tywysog fy Iechydwriaeth, iê, trwy fôr o waed. Cynnal di i fynu, O Arglwydd, fy nwylaw llaesedig, a'm gliniau di-ffrwyth, fel na ddeffygiwyf yn yr ymdrech hon; O bydd di yn gadernid i mi yr hwn nid wyf abl o honof fy hûn i ymdrechu a'r Profedigaethau gwaelaf. Mor fynych y trôais i fy ngheſn yn nydd y frwydr? Pa fawl ûn o'r Addunedau Sacramentaidd hyn a dorrais i? Ag y mae gennifi etto, O Arglwydd, yr ûn galon anwadal dwyllodrus i'm bradychu i dorri hon hefyd: O tydi yr hwn wyt Iê, ag Amen, ym mha ûn nid oes dim cyſgod troedigaeth, dyro i mi, yr wyf yn attolwg i ti, y cyfnyw ddianwadawch meddwl, fal na bo i mi rhag llaw yſgogi fel bŵa twyllodrus, ond gan fod a'm calon yn ſefydlog gydâ thydi y gallwyf barhau yn ddilys yn dy Gyfammod; fal na bo i unrhyw amcan dâ a gynnhyrfodd dy Yſpryd ti o'm i y dydd heddyw ddiflannu, fal y gwnaeth cynnifer o'r blaen, ond bod iddynt ddwyn ffrwyth i fywyd tragywyddol. Caniadhâ hyn, O drugarog Dád, trwy haeddedigaethau a chyfryngdod fy Iachawdr Croeſhoeliedig, *Amen.*

Gweddi

Gweddi o Gyffryngiad i'w harferu cyn neu gwedi derbyn y Cymmun.

O Arglwydd gtaſuſaf, yr hwn a geraiſt ddynol ryw mor dyner a rhoddi dy anwyl Fab o'th fonwes i fôd yn iawn am bechodau'r holl lŷd, caniadha fod rhinwedd y Prynedigaeth hon mor ehang a chyffredinol ag yr amcanwyd hi, fel y bô er lechydwriaeth i bôb dŷn. O na bydded i neb o ddiffyg ediſteirwch *forfeit* ei gyfran ynthi, ond trwy allu dy Râs dwg bawb, ie y pechadutiaid mwyaf gwrthryfelgar i ediſteirwch. Goleua bawb ſy'n eiſtedd mewn tywyllwch, fel, Iddewon, Tyrciaid, Paganiaid, a Hereticciaid; tynn oddiwrthynt bob dallineb, caledwch calon, a dirmyg o'th Air; ag felly dwg hwynt adref, O Arglwydd, i'th gorlan di, fal y bônt gadwedig ymyſg nifer y gwîr Iſraeliaid. Ag am y rhai ſy'n dwyn Enw dy Fâb arnynt, caniadha, O Arglwydd, fôd ei hymarweddiad hwynt yn gyfryw ag a weddai i Efengyl Criſt, fal na chabler ei Enw ef mwyach ymyſg y Cenhedloedd o'i plegid hwynt. O Arglwydd bendigedig, pa hŷd y patheiſt Creu'r fôd yn rhai ſfieiddiaf o'r byd, yn geuffos o'r llygredigaethau argas hynny y rhai y mae hyd yn oed y Paganiaid yn ei ſfieiddio? Och, na fydded yn waſtad gymmaint cyfwng rhwng ein Proffes a'n hymarweddiad; Na fydded diſcyblion yr Jeſu Sanctaidd ddi-frycheulyd yn anad pawb eraill yn fwyaf aflan a halogedig. Na fydded deillaid Tywyſog Tangnheddyf yn anad neb yn fwyaf ymryſongar a gwaedlyd; ond gwnâ ni yn Griſtianogion mewn gwirionedd yn gyſtal ag mewn Enw, fal y gallom rodio yn deilwng o'r alwedigaeth Sanctaidd honno i'n galwyd iddi, ag y gallom oll ag ûn meddwl, ag ag ûn genau dy Ogoneddu di Tâd ein Harglwydd Jeſu Griſt. Trugarhâ wrth yr Eglwys léſg hon, edrych i lawr o'r Neſoedd preſſwylfa dy Sancteiddrwydd a'th Ogoniant:

pa

pa lè y mae dy Zêl, a'th Gadernid, ſain dy drugareddau a'th ymyſgaroedd tu ag attom ni? A attaliwyd hwynt? Na chofia, Arglwydd, ein anwiredd, ag na ddigia wrthym yn dragywydd; ond er bôd ein troſſeddiadau ni yn aml, a gwrthryſelu o honom yn ddirfawr i'th erbyn, etto yn ôl dy ddaioni ymchweler dy ddigofaint a'th lidiawgrwydd oddiwrthym, a thywynned dy wyneb ar dy Gyſſegr, yr hon ſy in anghyfannedd, er mwyn yr Arglwydd; ag felly gwahana rhyngom ni a'n pechodau, fal na wahanont hwy rhyngom ni a'n Duw. Cadw ag amddiffyn holl Griſtiannus Frenhinoedd, Tywyſogion, a Llywiawdwŷr, yn enwedig y rhai yr ydym ni yn ddeirliaid iddynt; dadleu di ei dadl hwynt, O Arglwydd, yn erbyn y rhai a ymddadleuant i'w herbyn, ag ymladd di yn erbyn y rhai a ymladdant a hwynt; ag felly arwain a chymmorth hwynt, i gwplhau'r ſwydd honno i ba ûn yr ordeiniaiſt hwynt, fal tanynt hwy y gallom fwy yn llonydd ag yn heddychol trwy bôb Duwioldeb a goneſtrwydd. Bendithia y rhai ſy'n gweini wrth dy Allor, agor di ei gweſuſau hwynt, fel y mynego ei geneuau dy foliant; O na rodder goleuni 'r bŷd tan leſtr, ond golod hwynt yn ei canhwyll brennau, fal y goleuant i bawb'ſy yn y tŷ. Na haloged offeiriadau *Jeroboam* dy waſanaeth di, ond bydded i hâd *Aaron* weini yn waſtad ger dy fron. Ag O Dâd y Trugareddau, a Duw pob Diddanwch, cymmorth a diddana bawb a ſydd mewn cyſtudd, a gwared y truan a'r anghenus, cynnorthwya di y rhai ſydd yn dioddef cam, deued ochenaid ofidus y Carcharorion ger dy fron, ag yn ôl mawredd dy allu amddiffyn di y rhai a ordeinwyd i farw; dyro elmwythdra i'r cyſtuddiedig, a chynnorthwya 'r anghenus, a chadniadha i bôb pechadur rhyfygus fod yn deimladwy o'i bechodau, ag i bôb ûn gwan-obeithiol ganfod dy drugareddau di; a gwna di, O Arglwydd, i bawb tu hwynt i'r cwbl a allont ei ofyn neu feddwl am dano. Maddeu i'm gelynion, erlyn-wŷr, ag yſclandrwŷr, a thrôa eu calonnau. Tywallt dy Fendithion ar

fy

ſy holl gyſeilliaid a'm cyſneſeiſiaid, ag ar bawb a'i gorchymynnaſant ei hunain i'm Gweddiau i. [*Yma di a elli henwi dynion neilldaol.*] A chaniadhâ, O Dâd trugarog fôd i ni oll trwy'r Gwaed hwn o'r Groes gael ein cyſlwyno yn bûr, yn ddiſai, ag yn ddi-argyoedd yn dy olwg di, modd y gallom gael ein derbyn i mewn i'r llê hwnnw o burdeb llê ni ddichon dim aflan ſyned i mewn iddo, yno i ganu tragywyddol Foliant i'r Tâd, i'r Mâb, a'r Yſpryd glân yn oes oeſoedd.

Gweddi yn amſer Erlidiau Cyffredinol.

O Iachawdr Bendigedig, yr hwn a wnaethôſt y Groes yn nôd o'th Ddiſcyblion di, gwnâ ſi yn abl, yr wyf yn attolwyg i ti, i'w chofleidio hi yn llawen ag yn ewyllyſgar; ti a weli, O Arglwydd, ſy môd i gwedi digwydd ar ddyddiau ymmhâ rai y mae y ſawl a ymadawo a drwg yn ei wneuthur ei hûn yn yſglyfaeth; O gwnâ-i mi fôd mor barod i ddodi i fynu ſy holl berthynaſau oddi-allan pan fo ſy Ufudd dod i ti yn gofyn hynny, fal y gallo 'r peth a ddigwyddo yn yſglyfaeth i ddynion, fod trwot ti megis yn Aberth gymmeradwy i Dduw: cynnal ſi, O Arglwydd, felly trwy dy Râs, fel nà ddioddefwyf byth megis drwg-weithredwr, ag yna, O Arglwydd, os ſy nghyfran a fydd dioddef megis Criſtion, na ſydded i mi gywilyddio, eithr gorfoleddu am ſy nghyfrif yn deilwng i ddioddef er mwyn dy Enw di: O tydi yr hwn er ſy mwyn i a ddioddefaiſt y Groes, ag a ddiyſtyraiſt wradwydd, bydded i ſiamyl y Cariad a'r ammynedd hwnnw orfod yn erbyn holl gynnhyrfiadau brawychus ſy nghalon lygredig, fal na allo dychrynniadau yn y bŷd fyth yſgogi ſy ngwaſtadrwydd i, ond er cyhyd y goddefi di i wialen yr annuwiol orphwys ar ſy nghefn, etto na bo i mi byth eſtyn fy llaw at annuwioldeb. Ti a adwaenoſt, O Arglwydd, ſy neſnydd i, ag wyt yn cofio nad ŵyf ond cnawd, ag y mae Cnawd yn cilio yn ôl pan fo rhyw beth gofidus yn

neſſau. Dy Yſpryd ti yn unig a ddichon ſy nghynnal i fynu, o cymmorth ſi a'th hael yſpryd, ſel na ſlinwyſ ag na lwſrhâwyſ yn ſy meddwl. A phe mwyaf y canſyddi di fy ngwendid, amlyga o hynny yn fwy dy nerth ynof; a gwnâ i mi, O Arglwydd, ym mhôb rhyw Brofedigaethau edrych yn ddiſigl attat ti awdwr a pherffeithudd ſy ffydd, modd y gallwyſ redeg yr yrfa a oſodwyd o'm blaen, a gwrthwynebu, iè, hyd at waed, gan ymdrechu yn erbyn pechod. O Wynſydedig Jeſu, gwrando ſi, ag er bod Satan yn chwennych fy nghael i'm nithio fel gwenith, etto gweddia di, O Gyfryngwr bendigedig troſof na ddiffygio ſy ffydd, eithr er ei phroſi hi trwy dân, caffer hi er mawl, ag anrhydedd, a gogoniant ar dy ymddangoſiad ti. A chaniadhâ, O Arglwydd, yr wyf yn attolwg i ti, fod i mi gynnal nid yn unig ddianwadalwch tu ag at Dduw, eithr Cariad heſyd tu ag at ddynion, iè, tu ag at y rhai hynny a oddeſi di i fôd yn offerau o'm herledigaeth a'm trueni: bydded i mi, O Arglwydd, ddilyn Eſampl dy Laryeidddra ryſeddol di trwy garu gweddio tros ſy Erlid-wŷr mwyaf; a gorchſyga di, O Arglwydd, ei holl ddrwg hwynt a'th anfeidrol ddaioni, ymchwel ei Calonnau, a dŵg hwynt trwy dy aliu attat dy hun; ag o'r diwedd derbyn ſi a'm gelynion heſyd i'r trig-fannau hynny o Dangnheddyf ag Eſmwythdra, lle yr wyt ti yn llywodraethu gyd a'r Tâd, a'r Yſpryd glân, yn ûn Duw yn oes oeſoedd.

Gweddi yn amſer Adfyd.

O Arglwydd cyſiawn a ſanctaidd, yr hwn wyt yn coſpi dyn a cheryddon am anwiredd, yr wyf fi'n ddiffuant yn deiſyf ſy ymddaroſtwng fy hun tan dy law gadarn di, yr hon ſydd yr awrhon yn gorwedd yn drom arnaf; yr wyf ſi yn ddiſrifol yn cydnabod, O Arglwydd, nad yw beth bynnag a wnelwyf neu a ddioddefwyf ond dyledus wobr fy ngweithredoedd, ag am hynny yn dy geryddon

geryddon toſtaf rhaid i mi ddywedyd, Cyfiawn wyt ti, O Arglwydd, ag uniawn yw dy farnedigaethau. Ond yr wyt yn attolwg i ti, O Arglwydd, mewn barn gofio am drugaredd, ag er dartod i'm pechodau i dy annog di i daro, etto yſtyria fy ngwendid, ag na âd i'th wialennodiau fôd yn drymmach neu yn fwy parhâus nag y gweli di fôd yn fuddiol i'm Henaid; Coſpa fi ond a cherydddon Tád, nid ag archollion gelyn, ag er na thynni ymmaith dy wialen, etto tynn ymmaith dy lidiawgrwydd. Arglwydd na ffieiddia fy Enaid, ag na fwrw dy wâs heibio mewn digoſaint, ond maddeu fy mhechodau yr wyf yn attolwg i ti; ag os wyt ti etto yn dy Dadol ddoethineb, yn gweled yn gymwys hwyhau dy goſpedigaethau, dy Ewyllys fendigedig di fytho; yr wyf yn fy nhafly fy hun, O Arglwydd, wrth dy draed ti, gwná a fi fel y gweloch di yn ddà. Prawf fi fel y profir arian, am y dŷccoch fi allan yn bûr. A gwnâ, O Arglwyd, i'm Cnawd hefyd ymfodloni i hyn, fel na bo dim ynof a wrthryfela yn erbyn dy law, ond gwedi darfod i mi oreſgyn yn hollawl bob rhyw feddyliau grwgnachus, y gallwyf yn llawen yfed o'r Cwppan hwn. Ag er chwerwed y gweli di, O Arglwydd, yn dda ei gwneuthur hi, bydded yn feddyginiaeth i iachau holl ddoluriau fy Enaid, fel y bo iddi ddwyn ynof heddychol ffrwyth cyfiawnder: modd y bo i'r cyſtuddiau gwael hyn, y rhai nid ydynt ond tros amſer byrr, weithredu i mi ragorol a thragywyddol bwys gogoniant trwy Jeſu Grift, *Amen.*

Diolch am Ymwared allan o Adfyd.

O Arglwydd bendigedig yr hwn wyt raſlawn a thrugarog, hwyrfrydig i lîd, a mawr o drugarogrwydd, ag yn edifeiriol am ddrwg; yr wyfi'n cydnabod yn ddiolchgar o'th flaen di na wnaethoſt a mi yn ol fy mhechodau, ag na obrwyaiſt fi yn ôl fy anwireddau. Fe haeddodd fy ngwrthryfelgarwch i, O Arglwydd, ei

ſſangellu a Scorpionau, ond tydi a'i ceryddaiſt yn unig a gwialen dadol eſmwyth; ag ni oddefaiſt i mi ychwaith orwedd yn hir tan honno, ond a roddaiſt mewn pryd ymwared grafuſol o'm diweddar gyſtuddiau. Mi a orfoleddaf, Arglwydd, ag a lawenychaf yn dy drugaredd, canys tydi a'm hyſtyriaiſt fy helbul, ag a adnabuoſt fy Enaid mewn cyfyngder. Tydi a'm archollaiſt, a thydi a'm hiachêaiſt; o bydded i'th amryw Raglunïaethau hyn gael ei priodol effeithiau ar fy Enaid, modd y gallwyf fi yr hwn a deimlais chwerwder dy geryddon, ofni ag nid pechu, ag fel y gallwyf fi yr hwn hefyd a deimlais rafflawn argyweiriad dy drugaredd, fôd a'm calon o'i herwydd gwedi ei derchafu yn llon, a'i chyffyllu a thydi yn y rhwymedigaethau cadarnaf o Gariad; ag fel y gallwyf trwy bob tân gael fy nghadw mewn parhaus a chyflawn ufudd-dod i'r tros fy holl ddyddiau, trwy Jeſu Criſt.

Cyfarwyddiad yn amſer CLEFYD.

PAN ganfyddych dy fod yn Glaf, cofia yn ebrwydd mai Duw ſydd yn colpi dŷn a cheryddon am anwiredd. *Am hynny chwilia allan yn gyntaf, beth ſydd yn ei annog ef i'th goſpi, ag i'r Pwrpas hwn Prawf dy galon dy hun, chwilia yn ddyfal pa euogrwydd ſydd yno; cyffeſ dy bechodau yn oſtyngedig ag yn edifeirioll o flaen Duw, ag er mwyn ſicrwydd gwell, adnewydda dy edifeirwch am holl hen bechodau dy fuchedd o'r blaen; erfyn yn daer ag yn ddifrifol ei drugaredd a'i Faddeuant yn Chriſt Jeſu, ag ymrôa yn diffŵant i ymadel a phob rhyw ffordd bechadurus rhag llaw. A rhag i'th galon dy hûn dy dwyllo mewn achos mor bwyſfawr, da fydd i ti ddanfon am ryw* Ddifinydd *duwiol, nid yn unig i'th gynnorthwyo a'i Weddiau, ond a'i gynghorion hefyd. Ag i'r Pwrpas hwnnw agor dy galon mor eglur wrtho ef, modd y gallo farnu a ydyw dy Edifeirwch yn gyfryw ag a rŷdd i ti hyfdra i ymddangos gerbron gorſeddfainge ofnadwy Duw; os amgen, fel y gallo ef (yn ôl ei allu) dy gynnorthwyo di i'w gwneuthur hi felly. A chwedi i ti fal hyn ddarparu tros dy ran oreu, ſef, dy Enaid,*

yna

yna yſtyria dy Gorph hefyd, ag megis y dywed y gŵr Doeth Eccles. 38. 12. Dôd lè i'r meddyg, oblegid yr Arglwydd a'i creawdd ef: *Arfera'r cyffryw foddion ag a ſo tebyccaf i atgyweirio dy iechyd, ond cofia yn waſtad mai ddiwrth Ddiw y bydd raid i'r ffynniant o bonynt ddyfod; a gochel bechod* Aſa *yr hwn ni cheiſiodd yr* Arglwydd yn ei glefyd, ond y meddygon, 2 Cron. 16. 12. *Trefna hefyd dy achoſion bydol mewn pryd, trwy wneuthur dy* Ewyllys, *a goſod pôb peth yn y cyffryw drefn ag y mae yn dy frŷd ei gadael bwynt, ag na oeda hynny nes i'th glefyd drymhau, oblegid yſgatfydd ni bydd dy Reſwm y pryd hynny mor gymwys, neu os bydd, ſe fyddai fwy cyfalldas i ti yr amſer hwnnw ffyſytio am betheu dwych, ſef, am y byd yr wyt yn myned iddo, yn hytrach na'r hwn yr wyt yn ei adael ô'th ôl: nid allwn ni ddwyn petheu'r byd hwn gyda ni pan elom oddi-ymma, ag nid yw weddaidd i ni ddwyn meddyliau o honynt chwaith. Am hynny trefna y petheu hynny mewn pryd, fel na rwyſtro nhw monot yn y diwedd.*

Gweddi tros Ddyn Clâf.

O Arglwydd Trugarog a chyfiawn, Duw'r iechyd a chlefyd, bywyd ag angeu; yr wyf yn cydnabod yn diffuant, mai fy nirfawr gam-arfer i o'r llaweroedd o ddyddiau hynny o iechyd a hawddfyd a ganniadhéaiſt ti i mi, a haeddodd yn dra chyfiawn dy ymweliad preſennol. Yr wyf yn deiſif, O Arglwydd, yn oſtyngedig ymfodloni i'r goſpedigaeth hon am fy nghamwedd, a dwyn cerydd yr Arglwydd yn ammyneddgar, oblegid i mi bechu yn ei erbyn ef. Ag, O Dad Trugarog, yr hwn nid wyt yn amcanu diniſtr ond gwellhâad y rhai yr wyt ti yn ei ffiangellu, yr wyf yn attolwg i ti trwy dy Râs felly Sancteiddio dy gerydd hon i mi, fal y bo y Clefyd ymma o'm Corph yn fôdd o iechyd i'm henaid; gwnâ i mi yn ddiwyd chwilio fy nghalon, a chynnorthwya di fi, O Arglwydd, i ddadcuddio pôb rhyw ddiofrydbeth, er dirgeled y cuddir ef yno, fal trwy ei fymmudiad ymmaith oddi yno, y bo i mi wneuthur llê i fym-

ſymmudîad y goſpedigaeth hon oddiwrthif. Jachá ſy Enaid, O Arglwydd, yr hon a bechodd i'th erbyn, ag yna os dy ewyllys bendigedig di yw hynny, iachá ſy nghorph hefyd; Edfryda lêf gorfoledd ag iechyd i'm preſſwylfa, modd y gallwyf ſyw i'th foliant di, a dwyn ffrwythau addas i Edifeirwch. Ond os trefnaiſt ti yn amgenach yn dy Ddoethineb, ag os rhag-ordeiniaiſt ti i'r Cleſyd hwn i fôd i farwolaeth, yr wyf yn attolwg i ti fy nghymwyſo a'm paratoi i hynny; dôd i mi yr Edifeirwch difrifol a diffuant hwnnw, i ba ûn yr addewaiſt drugaredd a maddeuant; a diddyfna fy nghalon oddiwrth y bŷd a'i holi wagedd darfodedig, a gwnâ i mi hiraethu am y llawenydd mwy godidog a pharhâus hwnnw ſydd ar y ddeheulaw di yn dragywydd. Arglwydd, derchâ di lewyrch dy wyneb arnaf, ag yn holl gyſtuddiau fy nghorph, ag ing fy yſpryd, bydded dy Ddiddanwch di i gyſſuro fy Enaid, a gwnà i mi ddiſgwyl yn ammyneddgar hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad. A chaniadhâ O Arglwydd, pan ddattodir fy naiarol dy o'r Babell hon, fôd i mi gael Adeilad Duw, tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y Nefoedd, a hynny er ei ſwyn ef, yr hwn a bwrcaſodd hynny i mi, ſef, Jeſu Griſt, *Amen.*

Diolch am ail-gaffaeliad Iechyd.

O Arglwydd graſuſol, Duw yſprydion pôb Cnawd, yn llaw pa ûn y mae fy amſer i, yr wyfi yn dy foliannu ag yn dy fawrygu di, am iti o Gariad i'm henaid fy achub o bydew llygredigaeth, a roddi i mi iechyd trachefn; tydi yn unig o O Arglwydd, a gedwaiſt fy mywyd rhag diniſtr, tydi a'm coſpaiſt ag am ceryddaiſt, ond ni'm rhoddaiſt i fynu i farwolaeth; O bydded i'r bywyd hwn yr hwn a waredaiſt ti mor raſuſol fôd yn hollawl wedi ei gyſſegru iti. Wele fi ymma, Arglwydd, trwy dy drugaredd gwedi fy iachâu, O gwnâ i mi edrych yn ofalus na phechwyf mwyach, rhag diwydd i mi beth a fô gwaeth. Na âd, Arglwydd, i'r ymwarediad ymma a gani-

ganiadhêaiſt ti i mi yr awrhon ſy ngwneuthur yn eſgeu-lus, gan feddwl fôd ſy Arglwydd yn oedi ei ddyfodiad; ond caniadhâ i mi, yr wyf yn attolwg i ti, wneuthur iawn ddeunydd o'th hîr-ymaros di, a threulio felly bôb munudyn o'r amſer a roddi di i mi rhag llaw, fal y gallwyſ fod mewn hyſder pan ymddangoſech di, ag na'm gwrad-wydder ger dy fron ar dy ddyſodiad. Mi a welais, O Arglwydd, wrth y neſſâad ymma tu ag at angeu, mor echryſion yw ein cymmeryd yn ammharod; O bydded hynny yn rhybudd gwaſtadol i mi i wilio am ddyfodiad ſy Arglwypd. A phan ymddengys mwynhadau pechod i'm llithio, O gwnâ i mi gofio mor chwerwon fyddant yn y diwedd. Gwrando fi, O Arglwydd, ag megys yn dy anfeidrol drugaredd y caniadheaiſt i mi Amſer, felly caniadhâ i mi hefyd Râs i weithio allan ſy Iechydwriaeth, i baratoi olew yn ſy llufern, fel pan ddelo'r Priod-fâb y gallwyf fyned gydâg ef i'r Briodas. Canhiadha hyn, yr wyf yn attolwg i ti, er mwyn dy anwyl Fâb.

Gweddi ym-mron Angeu.

O Dragywyddol a byth-fywiol Dduw, yr hwn ar y cynraf a anadlaiſt anadl bywyd i ddŷn, a phan gymmeri di ymmaith yr anadl hwnnw y maie fe'n trengu ag yn dychwelyd i'w lŵch trachefn, edrych yn doſturiol arnaf i dy Greadur truan yr hwn wyf yr awrhou yn neſſau at byrth angeu, a pheth ſydd anfeidrol yn fwy gerwin, at Orſedd Barn; Y mae ſy nghalon ſy hun, O Arglwydd, yn ſy euog-farnu, ag yr wyt ti yn anfeidrol yn fwy na'm calon, ag yn gwybod pob peth. Y mae'r pechodau yr wyſi yn ei hadnabod ag yn ei cofio, yn ſy llenwi a dychryn; ond y mae hefyd liaws o rai eraill, y rhai naill ai ni ddeliais ſulw arnynt pan wnaed hwynt, neu a anghofias gwedi hynny yn ddiofal, y rhai ydynt ôll yn breſennol gydâ thydi, Yr wyti yn goſôd ſy anwireddau ger dy fron, ſy nigrel bechodau yn ngoleuni dy wyneb; ag i ba bentwrr m y nyddaidd y cyſyd ſy mhechodau munudol tros gynni-

fer

fer o flynyddoedd? Pa fodd y ſaif ûn mor annuwiol yn dy farn di, neu'r cyfryw bechadur ynghynnulleidfa 'r cyfiawn? Ag i adchwanegu etto at fy nychryn, mae arna'i ofn na oddef fy Edifeirwch mo'r profiad; fy mynych ail-gwympiadau a dyſtiolaethafant yn helaeth ffûg fy Addunedau o'r blaen. Ag yna, O Arglwydd, beth a all fy ſiccrhau i nad yw fy nghaſineb preſennol o'm pechodau yn hytrarch yn tarddu oddiwrth fy enbydrwydd dychrynadwy, nag oddiwrth wir gyfnewidiad calon? Ag mi a wn, O Arglwydd, na fynni di moʻth watwor, ag na dderbyni di ddim ond fydd yn hollawl yn ddiffûant. Pan yſtyriwyf hyn, O Arglwydd, y mae ofn a dychryn yn dyfod arnaf, ag arſwyd echryſion yn fy ngorchguddio, y mae fy ngnhawd yn crynnu rhag dy ofn di, a'm calon yn archolledig ynof. Ond, O Arglwydd, y mae'r naill ddyfnder yn galw ar y llall, dyfnder fy nhrueni i a'r ddyfnder o'th Drugaredd di; Arglwydd, achub yr awrhon neu fe ddarfu am danaf yn dragywydd. O tydi'r hwn ni chwennychi fôd nêb yn golledig, ond dyfod o bawb i Edifeirwch, dŵg fi yr wyf yn attolwg i ti, er mor ddiweddar, i ddifrifol Edifeirwch, y cyfryw ag a fo cymmeradwy genniti, yr hwn wyt yn profi'r galon. Crêa ynof, O Dduw, galon lân, ag adnewydda yſpryd union o'm mewn: O Arglwydd, y mae ûn dydd gyda thydi megis mîl o flynyddoedd, O gweithied dy Yſpryd nerthol ynofi yr awrhon, yn fy nydd diweddaf hwn, beth bynnag a weli di yn ddiffygiol i'm cymhwyſo i'th drugaredd ag i fod yn gymmeradwy gennit. Dyro i mi gaſſineb perffaith hollawl o'm pechodau, a gwnâ fi yn abl i ddarpara i ti yr aberth honno o galon ddrylliog gyſtuddiedig, yr hon a addewaiſt ti na ddirmygit; fal trwy hyn y galliwyf fod yn gymmwys i dderbyn yr iawn hwnnw a wnaeth dy garedig Fâb trwy ei offrymmiad mwy rhagorol ei hunan tros hôb pechaduriaid edifeiriol. Efe yw'r iawn tros ein pechodau ni, efe a archollwyd am ein camweddau ni, ag a ddrylliwyd tros ein hanwireddau

ni

ni, arno ef y rhoddwyd Coſpedigaeth ein heddwch ni; O iachâ fi trwy ei gleiſiau ef, a bydded i lêf ei waed ef foddi bloedd fy mhechodau i. Plentyn digoſaint yn wir ydwyfi, ond efe yw Mâb dy Gariad, er ei fwyn ef arbed fi, Arglwydd, arbed dy Greadur a brynnodd ef a'i werthfawr waed, ag na ddigia wrthif yn dragywydd. Yn ei archollion ef, O Arglwydd, yr wyf yn cymmeryd fy nghyſſegr, O na erlidied dy ddîal di fi i'r ddinas hon o noddfa: Y mae fy Enaid yn glynu wrtho ef, O na ddarfydded am danaf a'r Jeſu, a'm Iachawdr yn fy mreichiau. Ond trwy'r cwbl a wnaeth ag a ddioddefod ef tros bechduriaid, Gwared fi Arglwydd daionus; Gwared fi, yr wyf yn attolwg i ti, oddiwrth gyflog fy mhechodau, dy lîd ti, a damnedigaeth tragywyddol, yn awr yn amſer fy nrhueni, yn awr Angeu ag yn nydd y Farn. Gwrando fi, O Arglwyd, gwrando fi, ag na worthod fi yn yr amſer ymma o'm hangen mwyaf, am i mi efgeuluſo dy alwad ti o'r blaen. Nid oes, O Arglwydd, ond cam rhyngof i ag angeu, O na fachluded fy Haul ar dy ddigofaint di, ond ſelia fy mhardwn cyn i mi fyned oddiyma ag na'm gwelir mwy. Y mae dy garedigrwydd di yn well na'r bywyd, O gâd i mi gael honno yn gyfnewid, ag yna myfi a ofodaf i lawr yn dra-hyfryd y bywyd marwol hwn. Tydi, Arglwydd, a adwaenoſt fy neiſyfiad, a'm gruddfan nid yw guddiedig rhagot; gwnâ a fi, O Arglwydd, yn ôl dy Enw, canys melus yw dy drugaredd; tynn ymmaith golyn Angeu, enogrwydd fy mhechodau, ag yna er i mi rodio trwy ddyſtryn cyſgod angeu nid ofnaf ddim drwg; mi a orweddaf i lawr mewn Tangnheddyf, a phan ddeffrôwyf, Arglwydd, digonoler fi â'th breſennoldeb yn dy Ogoniant. Caniadhâ hyn, Drugarog Dduw, er ei fwyn ef yr hwn yw Pryniawd-wr a Chyfryngwr dros bechaduriaid, ſef, Jeſu Griſt.

PSALM AU.

ARglwydd, na cheryddo fi yn dy lidiawgrwydd, ag na choſpa fi yn dy ddigofaint.

Nid oes iechyd yn fy nghnawd o herwydd dy ddigloneddi:

ag nid oes beddwch i'm hescryn oblegid fy mhechodau.

Canys fy nghamweddau a aeth dros fy mhen; megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.

Fy nghleisteu a bydrasant ag a lygrasant gan fy ynfydrwydd.

O herwydd pa ham y pallodd fy Yspryd ynof; ag y synnodd fy nghalon o'm mewn.

Fy mhechodau a'm daliasant fel na allwn edrych i fyny; am-lach ydynt na gwallt fy mhen, am hynny y pallodd fy nghalon gennif.

Eithr ti, O Arglwydd, wyt Dduw trugarog, a grasiawn; hwyrfrydig i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd.

Dychwel attafi a thrugartha wrthif, canys unig a thlawd ydwyf.

Os cressi di ar anwireddau, Arglwydd: O Arglwydd, pwy a saif?

Na chofia hechodau fy ieuengctid, na'm camweddau; ond yn ôl dy drugaredd medduli di am danaf, yn ôl dy ddaioni, Arglwydd.

Edrych ar fy helbul a'm trueni; a madden fy holl gam-weddau.

Na chuddia dy wyneb rhag dy wâs, canys cyfyng yw arnaf; a bryssia, a gwrando fi.

O'r dyfnder yr wyf yn galw arnat, Arglwydd, gwranda fy llefain.

Dychwel, Arglwydd, a gwared fy Enaid, O achub fi er mwyn dy drugareddau.

Nag ymbellhâ oddiwrthif, canys trueni sydd yn agos, ag nid oes Cynnorthwy-wr.

Yr wyf yn estyn fy nwylaw attat, y mae fy Enaid yn hiraethu am danat megis tîr crâs sychedig.

Nessâ at fy Enaid ag achub hi, O gwared fi oblegid fy ngelynion.

Canys y mae fy Enaid yn llawn blinder; a'm bywyd sydd yn nessau i'r beddrodd.

Achub fi rhag safn y Llew: gwrando arnaf o blith cyrn Unicorniaid.

Gofod fi ar graig sydd uwch na myfi, canys ti yw fy ngobaith, am Tŵr cadarn rhag wyneb y gelyn.

Pa ham i'th ddaroſtyngir o ſy Enaid? A pha ham y terfyſci ynof?

Ymddiried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, ſef, iechydwriaeth fy wyneb.

Yr Arglwydd a gyflawna ei garedigrwydd a mi, iê, dy drugaredd O Arglwydd ſy'n parhau'n dragywydd; na ddirmyga waith dy ddwylo.

O DDUW, ti yw fy Nuw, yn foreu i'th geiſiaf,

Y mae fy Enaid yn ſychedu am danat, fy nghnawd befyd yn hiraethu am danati, O Dduw, mewn tîr crâs ſychedig heb ddwfr.

Fel y brefa'r hŷdd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy Enaid am danati, O Dduw.

Y mae fy Enaid yn ſychedig am Dduw, am y Duw byw, pa brŷd y deuaf ag yr ymddangoſaf ger bron Duw?

Mor hyfryd yw dy drigfa, O Arglwydd y Lluoedd!

Fy Enaid a hiraetha, iê, ag a flyſia am gynteddau'r Arglwydd: fy nghalon a'm cnawd a lawenychant yn y Duw byw.

O na bai i mi adenydd fel Colommen: yna yr ehedwn ymmaith ag y gorphwyſwn.

Anfon dy oleuni a'th wirionedd, tywyſant hwy fi ag arweiniant fi i fynydd dy Sanctteiddrwydd, ag i'th bebyll.

Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil.

Dewiſwn gadw drŵs yn nhŷ fy Nuw, o flaen aros yn mhebyll anghyfiawnder.

Deffygiaſwn pe na chredaſwn weled daioni'r Arglwydd yn nhîr y rhai byw.

Fy nghymmorth a'm gwaredudd ydwyt ti: fyNuw na hîr drig.

Ocheneidiau Byrrion.

O ARGLWYDD, gan bwy y mae i mi geiſio ymwared onid genniti, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyſiawn yn ddigllon? Er hynny Arglwydd Dduw Sanctteiddiaf, Arglwydd Gallluoccaf, O Sanctaidd a thrugaroccaf Iachawdr, na olliwng fi i ddygyn chwerwaf boenau angeu tragywyddol.

Ti Arglwydd a adwaenoſt ddirgelion fy nghalon, na chaèa dy glyſtiau trugarog oddiwrth fy ngweddiau, eithr

arbed fi O Arglwydd Sancteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O Sanctaidd a thrugarog Iachawdr, Tydi deilyngaf Farnwr tragywyddol, na âd fi yn yr awr ddiwaethaf er nebrhyw boenau angeu i ſyrthio oddiwrthit ti.

Fy nhâd, mi a bechais yn erbyn y Nêf, ag o'th flaen ditheu, ag mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn fâb i ti; etto O Arglwydd na ſwrw ymmaith ymyſgaroedd a thoſturi Tâd wrth ei blant, felly trugarhâ wrthif.

Arglwydd, y mae Tywyſog y Bŷd hwn yn dyfod, O na bydded iddo ddim ynofi, ond fel yr achwyno ef deleá ditheu; y mae ef yn rhoi llawer o bethau trymmion yn fy erbyn, y rhai a ddichon eſe yn rhŷ hawdd ei profi, nid oes gennifi ddim i ddywedyd troſof fy hun, atteb di droſot, O Arglwydd fy Nuw.

O Arglwydd, yr wyfi gwedi fy ngwifco a charpiau llygredig, ag y mae Satan yn ſefyll ar fy neheulaw i'm gwrthwynebu i, rhynged fodd i ti ei geryddu ef, ag achub fi fel pentewin o'r tân, gwnâ i'm hanwireddau gilio oddiwrthif a gwiſca fi a chyfiawnder dy Fâb.

Wele, o Dduw, y mae'r Cythrel yn dyfod tu ag attafi, a chantho Lid mawr, oblegid ei fod ef yn gwybod nad oes iddo ond amſer byrr; achub a gwared fi, rhag iddo ddeſtrywio fy Enaid fel Llew, a'i rhwygo pan na bó gwareddudd.

O fy Nuw, mi a wn na ddichon dim aflan fyned i mewn i'th deyrnas di, ag nid wyf fi ddim ond Llygredigaeth, y mae, iè, fy nghyfiawnder fel brattiau budron, Golch fi a glanhâ fi yn ngwaed yr Oen, fel y byddwyf deilwng i ſefyll ger bron dy orſedd-faingc di.

O Arglwydd y mae maglau Angeu gwedi fy amgylchu, o na bydded i boenau Uffern fy 'ngorddiwes, ond er i mi gael trueni a gofid, etto yr wyf yn attolwg i ti gwared fy Enaid.

O Wynfydedig Jeſu, yr hwn a'm prynaiſt i a'th werthfawr waed dy hûn: cleimia yr awrhon dy bwrcas, ag na âd i holl allu Uffern fy nhynnu i o'th law di.

O fendigedig Arch-offeiriad, yr hwn a ddichon waredu i'r eithaf y ſawl a deuant at Dduw trwot ti, achub

fi,

ſi, yr wyf yn attolwg iti, yr hwn nid oes gennif obaith ond yn dy haeddedigaethau a'th gyfryngdod ti.

O Dduw, yr wyf yn cyffeſſu ddarfod i mi lygru dy Ddelw di a argreffaiſt ar fy Enaid i, etto o tydi Greawdwr ffyddlon, trugarhâ wrth dy Greadur.

O Jeſu, myfi a'th groeſhoeliais di o newydd trwy fy amryw bechodau greſynol, etto tydi yr hwn a weddiaiſt tros dy Erlid-wŷr, eiriol troſof finnau heſyd, ag na âd, O fy mhrynwr, i'm henaid (prîs dy waed) golli.

O Yſpryd graſuſol, myfi a'th ddirmygais di trwy fy anwireddau echryſlon, etto er darfod i mi, Ddiddanydd Gwynfydedig, dy driſtau di yn fynych, rhynged fodd i ti fy nghynnorthwyo a'm diddanu i, a dywedyd wrth fy Enaid, myfi yw dy iechydwriaeth.

Mae fy llygaid yn edrych attati, O Arglwydd, ynoti y mae fy ymddiried, na fwrw heibio fy Enaid.

O Arglwydd, ynoti yr ymddiriedais, na 'm gwradwydder yn dragywydd.

O Fendigedig Arglwydd, yr hwn wyt yn ffiangellu pob mâb a dderbynioch, na âd i mi flino ar dy gerydd di, ond dyro i mi y cyfryw ymddaroſtyngiad perffaith i ti Tâd yr Yſprydion, fal y bo'r goſpedigaeth hon i'm bûdd i, ag fel y byddwyf i trwyddi yn gyfrannog o'th Sancteiddrwydd di.

O Tydi Tywyſog fy Jechydwriaeth, yr hwn a berffeithwyd trwy ddioddefaint, Sancteiddia i mi holl benyd fy nghorph, a holl ddychryniadau fy meddwl a oddefi di i ddeſcyn arnaf.

O Arglwydd, fe haeddodd fy mhechodau i boenau tragywyddol, gwnâ i mi ddioddef yn llawen ag yn ddiolchgar fy nghyſtuddiau preſennol; cerydda fi yma fel y gwelycn di yn ddâ, fal na'm heuog-farner gyda'r bŷd.

O Arglwydd, y dyfroedd a ddaethant hyd at fy Enaid, O bydded i'th Yſpryd ti ymſymmud ar wyneb y dyfroedd hyn, a gwnâ hwynt fel y Llynn o *Bethesda*, modd y gallont iachau pob-rhyw glefydau yſprydol a weli di ynoſi.

O Criſt, yr hwn a ddioddefaiſt amryw boenau greſynol cyn myned i'th ogoniant, caniadhâ i mi felly ddioddef gydâ thydi, fel i'm gogoneddir hefyd gydâ thi.

O Wynfydedig Jeſu, yr hwn a'th ddaroſtyngaiſt dy hûn i angeu'r Groes troſofi, bydded i'th ſarwolaeth honno bereiddio chwerwder fy marwolaeth i.

Pan orchfygaiſt holl nerth angeu, ti a agoraiſt deyrnas Nêf i bawb a gredant.

Yr wyfi yn credu mai tydi a ddaw yn farnwr arnaf.

Gan hynny yr wyf yn attolwg i ti gynnorthwyo dy wâs, yr hwn a brynaiſt a'th werthfawr waed.

Pâr i mi gael fy nghyfrif gydâ'th Sainct yn y gogoniant tragywyddol.

Tydi yw'r adgyfodiad a'r bywyd, pwy bynnag a gredo ynot ti, er iddo farw a fydd byw: O Arglwydd, yr wyfi yn credu, cymmorth fy anghrediniaeth.

Pallodd fy ngnhawd a'm calon; ond nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd.

Yr wyf yn deifyf fy nattod, a bod gyda Chriſt, yr hyn ſydd oreu o lawer: Arglwydd, yr wyfi yn ocheneidio gan ddeifyf cael fy ngwiſco a'm tŷ yr hwn ſydd o'r Nêf.

Yr wyfi yn chwennych dioſc fy mhabell hon, o rhynged fodd iti fy nerbyn i drigfa dragywyddol.

Dŵg fy enaid o garchar, fel y clodforwyf dy Enw.

Yr wyfi ymma O Arglwydd, i ymdrechu, nid yn unig a chîg a gwaed, ond yn erbyn tywyſogaethau ag awdurdodau, a drygau Yſprydol; O gwared fi o bebyll *Cedar* yma, a dŵg fi i *Gaerſalem* nefol lle y curir i lawr Satan tan fy nhraed.

Nid wyf fi abl yma i ddal ſulw ar dy waſanaeth di ûn munudyn heb draws-dynniad, O cymmer fi i fynu i ſefyll wrth dy Orſeddfaingc di, lle y bydd i mi dy waſanaethu di ddydd a nos.

Yr wyfi ymma mewn trymder trwy amryw drallodau, O derbyn fi i'r lle hwnnw o orphywyſfa, lle y ſychir ymmaith yr holl ddagrau oddi wrth fy llygaid, a lle ni bydd dim marwoladth mwy, na thriſtwch, na lleſain, na phoen.

Yr

Yr wyfi ymma yn alltyd ag yn abſennol oddiwrth yr Arglwydd, O cymmer fi i'r llé y canlyddwyf dy wyneb yn dragywydd, ag y dilynwyf yr Oén pa lê bynnag yr elo.

Myfi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphennais fy ngyrfa, ag a gedwais y ffydd, o hyn allan y rhoddwyd Coron Cyfiawnder i'w chadw i mi.

O Fendigedig Jeſu, yr hwn a'm ceraiſt i, ag a'm golchaiſt oddiwrth fy mhechodau yn dy waed dy hûn, derbyn fy Enaid.

I'th ddwylaw di yr wyf yn gorchymyn fy Yſpryd, canys tydi a'm prynaiſt i, o Arglwydd Dduw y gwirionedd. Tyred Arglwydd Jeſu, tyred yn fuan.

Gweddi tros Fawrhydi'r Frenhines allan o'r Llyfr a elwir LIBER REGALIS.

O Dduw, Awdr annrhaethol y bŷd, Creawdr dynion, Llywodraethwr Ymmerodraethau, a Sefydliwr pób Teyrnas; yr hwn allan o lwynau ein Tâd *Abraham* a ddewiſaiſt Frenin yr hwn ſydd Jachawdwr i hôll Frenhinoedd a Theyrnaſoedd y ddaiar. Bendithia, nyni attolygwn i ti, dy waſanaethwraig ffyddlon di, a'n Pen-llywodraethwraig ni, y Frenhines *ANN*, a chymwynaſau mwyaf lleſol dy Râd. Sefydla hi yn Nheyrngader ei Brenhiniaeth a'th alluog gynhorthwy a'th Nodded, ymwel a hi fal y darfu i ti a *Moſes* yn y Berth, a *Joſhua* yn y Frwydr, a *Gideon* yn y Maes, ag a *Samuel* yn y Deml. Difered gwlith dy helaeth Drugareddau ar ei phen hi, a dyro iddi fendith Dafydd a *Solomon*. Bŷdd iddi yn Helm Jechydwriaeth yn erbyn ei gelynion, ag yn Dŵr cadarn i'w hamdiffyn yn amſer trallod. Bydded ei Theyrnaſiad yn llwyddianus, a'i dyddiau yn aml. Blodeued heddwch, a chariad, a duwiolder, a chyfiawnder, a gwirionedd, a phôb rhyw rinweddau Criſtia anogol erail yn ei hamſer. Gwaſanaethed ei deiliaid hi a Pharch ag Ufudd-dod; a gwaſanaethed hithau Dydmor ddyladwy ymma ar y ddaiar, fal y gallo hi yn ól hyn deyrnaſu yn dragywydd gyda Thydi yn y Nefoedd, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

GWE-

GWEDDIAV i'w harferu gan y rhai ſydd yn Galaru yn ddirgel am y *Trallodau Cyffredin*, &c.

Pſal. 74. *Paham Dduw i'n hwriaiſt heibio yn dragywydd, ag y mŷga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?*

Pſal. 79. *T Cenhedloedd, O Dduw, a ddaethynt i'th etifeddiaeth, halogaſant dy Deml Sanctaidd: a gwnaethant* Jeruſalem *yn garneddau*, &c.

Pſal. 80. *Gwrando, o fugail* Iſrael, *yr hwn wyt yn arwain* Joſeph *fel praidd: ymddiſcleiria yr hwn wyt yn eiſtedd ar y Cerubiaid*, &c.

Gweddi i'w harfer yn amſer Trallodau.

O Arglwydd Dduw, i'r hwn y perthyn dial, yr wyf fi, yn gyſtal o'm plegid fy hun, ag o ran y Genhedl hon, yn chwennych cyfaddef yn oſtyngedig nad yw'r amryw flynyddoedd hyn o drallodau y bûom ni yn ocheneidio danynt ond tâl cyfiawn, iê, ag eſmwyth am yr amryw flynyddoedd ychwaneg hynny y buom ni yn dy annog di i ddigofaint, ag nad yw dy ddigofaint preſennol ond coſpedigaeth ddyledus am gam-arferu dy drugareddau di. Yr oedd dy fendithion gynt, O Arglwydd, yn dra-helaeth tu ag attom ni uwchlaw holl bobl y ddaiar. Yr oedd dy ganwyll di yn goleuo ar ein pennau ni, ag yr oedden ni yn ymhyfrydu yn dy ddirfawr ddaioni di; yr oedd Heddwch o ſewn ein rhagfuriau, a ffynniant yn ein Palaſſau; nid cedd dim tramgwydd, dim arwain i Gaethiwed, na chwynfan yn ein heolydd: ond nyni a droeſom dy râs di i drythyllwch, ag a gam-arferaſom ein heddwch i ſeguryd, ein ffynniant i loddeſt a gormodded, ag a wnaethom ir pethau daionus hynny y rhai a ddylaſei neſſau ein calonnau attat ti, ſod yn achos o'i dieithro nhw oddiwrthit. Iê, O Arglwydd, ti a roddaiſt i ni etto drugareddau gwerthfawroccach, ti a welaiſt yn ddâ o'od dy Babell gydâ ni, ſefydlu Eglwys bûr a gogoneddus yn ein myſg, a rhoddi i ni dy air i fod yn lluſern i'n traed, ag yn llewyrch i'n llwybrau; ond ni wnaethom ni, O Arglwydd, ddim deunydd arall o'r llewrych hwnnw, namyn i'n cyfarwyddo ein hunain i ſtafelloedd Angeu; nyni

nyni a ymſalchiaſom, heb wrando ar dy Orchymynion di, a thrwy wrthryfela yn erbyn y goleuni, ni a ennillaſom i ni ein hunain gyſtran ſwy yn y tywyllwch eithaf. Ag yr awrhon, O Arglwydd, pe buaſei lifeiriant dy ddial di yn gyſattebol i 'n pechodau ni, ſe a'n yſcubeſid ymmaith er yſtalm a diniſtr diſymmwth, ag ni buaſei'r un o honom byw y dydd heddyw i erſyn dy drugaredd di. Ond yr wyt ti yn Dduw graſlawn, hwyrfrydig i ddigofaint, a thi a ymddygaiſt tu ag attom ni a hir-ymaros ag ammynedd dirfawr; ti a anſonaiſt dy farnedigaethau i'n deffro ni i Ediſeirwch, ag a ganniadheâiſt i ni ennyd i hynny: Ond och! nyni a drawſ-ŵyraſom dy drugaredd hon tu hwynt i'r lleill i gyd, nid ydym ni yn dychwelyd at yr hwn ſy 'n ein taro ni, nag yn ceiſio 'r Arglwydd; yr ŷm ni yn cilio yn ôl trwy ymadawiad gwaſtadol; nid oes neb yn edifarhau o'i anwiredd, nag yn dywedyd beth a wneuthum i? Gwir yw, ein bod ni yn arſwydo'r wialen (yr ŷm ni yn ofni pob rhyw ddioddefaint, yn gymmaint a'n bôd ni yn barod i'w phrynu allan a 'r pechod ffieiddiaf) ond nid ydym yn ofni yr hwn a'i hordeiniodd hi, eithr yr ydym trwy yſtyfnigrwydd greſynol yn caledu ein gwarrau i'th erbyn, ag yn gwrthod dychwelyd. Yn awr, O Dduw, pa driacl ſydd yn Gilead a ddichon ein iachau ni? y rhai pan ſynnit ti ein iachau ni ſynnem mo'n hiachau; ni a wyddom i ti adrodd nad oes heddwch i'r annuwiol, a pha ſodd gan hynny y gweddiwn ni am heddwch y rhai ydym etto yn ymdrobaeddu yn ein pechodau? Hyn, hyn, o Arglwydd, yw ein cleſyd mwyaf ni, O dyro i ni feddiginiaethau i iachau'r cleſyd hwn; iachâ ein heneidiau ag yna nyni a wyddom y gelli di iachau ein Gwlâd yn ebrwydd. Ti a leferaiſt, O Arglwydd, yn hir wrth ein cluſtiau trwy dy Air, wrth ein holl ſynhwyrau trwy dy farnedigaethau, ond oddieithr i ti draethu wrth ein calonnau trwy dy yſpryd, ofer a ſydd yr holl Alwedigaethau eraill. O anſon dy lêf, a honno yn llêf gadarn, yn gyfryw ag a ddichon ein deffro ni o'r hûnglwyf ymma: Tydi yr hwn a elwaiſt *Lazarus* allan o'r

bêdd, rhynged fodd iti ein galw ni y rhai ydym feirw, ie, a gwedi braenu mewn pechodau ag anwiredd, a gwnâ i ni ddeffro i gyfiawnder. Ag er darfod, O Arglwydd, i'n hamryw wrthwynebiad o'r gwahoddiadau dirgel hynny, dy annog di yn gyfiawn i'n rhoddi ni i fynu i drachwantau ein calonnau ein hunain; etto O tydi annherfynol fôr o drugaredd, yr hwn wyt ddâ nid yn unig tu hwynt i'r hyn a ryglyddom ni, ond a allom chwaith ei ddymuno; na thynn ymmaith rinwedd dy râs, ag na chymer dy Yfpryd glân oddiwrthym. Tydi a gafwyd gan y rhai ni'th geifiafant, O dangos y cyfryw weithred o drugaredd tu ag attom ni y rhai ydym mor glâf anobeithiol, ag etto mor annheimladwy o'n cleifyd na fedrwn cymmaint ag ymorol am Byfygwr; a phe perycclaf a fo ein cyflwr ni, dôd ti feddiginiaethau o hynny mwy effeithiol. Arglwydd, cymmorth ni, ag nag edrych gymmaint ar ein anheilyngdod ni o'th gynnorthwy, ag ar ein llwyr adwyth hebddo; achub, Arglwydd, neu fe ddarfu am danom yn dragywydd. I'r pwrpas hwn cyfranna i ni yn ein hachofion amferol yr hyn a fiecrha yn oreu i ni ein pethau yfprydol; os gwefi di fôd yn rhaid wrth fefur mwy o Drueni oddi allan i feddiginiaethu ein annhymmer oddi fewn, Arglwydd nag arbed dy Wialen, eithr taro ni etto yn dofiach. Bwrw'r cythraul hwn allan, er trwy ddryllio a malu ewin. Ond os gweli di mai trugareddau a fydd tebyccaf i weithio gydâ ni, o bydded gwiw gennit cymhelled gyd-ddwyn a'n trueni a rhoddi hynny i ni; a pha ûn bynnag ai trwy dy foddion geirwon neu lednais, dwg ni adref attat dy hun. Ag yna ni a wyddom O Arglwydd, nad yw dy ddwylaw di gwedi llaefu nad elli di achub; gwedi i ti ein gwaredu ni oddiwrth ein pechodau, tydi a ddichon, ie, ag a'n gwaredi ni o'n cyfyngderau: O dangos i ni dy drugaredd, a chaniadhâ i ni dy iechydwriaeth, fal gwedi ein gwaredu yn ein cyrph a'n heneidiau, y gallom ymmhôb ûn o'r ddau dy ogoneddu di, mewn ufudd-dod heinif, a moliannu Enw ein Duw, yr hwn a wnaeth mor rhyfeddol a nyni, trwy Jefu Grift ein Harglwydd.

Gweddi

Gweddi tros yr Eglwys hon.

O Arglwydd Dduw'r dial, yr hwn wyt yn troi tir ffrwythlon yn ddi-gnydiol am anwiredd ei thrigolion; ti a gwpheaiſt y ſarn reſynol honno yn dra-chyſiawn ar yr Eglwys *hon*, yr hon gwedi bod unwaith yn berffeithrwydd Prydferthwch, yn llawenydd yr holl ddaiar, ſydd yr awrhon yn wawd ag yn watwargedd i bawb o'i hamgylch. O Arglwydd, beth a alleſid ei wneuthur i'th winllan na wnaethoſt ti iddi? a chan na ddygodd hi ddim ond grawn gwylltion, y mae yn drachyſiawn i ti gymmeryd ymmaith ei chaeau, a'i gadael hi yn anialwch. Ond er bód ein hanwireddau ni, O Arglwydd, yn tyſtiolaethu i'n herbyn, etto gwná di er mwyn dy Enw, canys y mae ein camweddau ni yn aml, pechaſom yn ddirfawr i'th erbyn. O tydi obaith *Iſrael*, a'i waredwr yn amſer cyſyngder, paham y byddi di megis pereryn ar y ddaiar, ag fel ymdeithudd yn troi i mewn i letteua am noſwaith? Paham y byddi megis gwr ſynn, fel gwr cadarn heb allu achub? Etto yr wyt ti yn ein myſg ni, O Arglwydd, ag nyni a elwir wrth dy Enw di, nag ymâd a ni; dinoetha ni o'n mwyniant bydol fel y gwelych di yn ddâ, cymmer oddiwrthym ſoddion ein gwellháad, oblegid dyna'r arwydd echryſlonaf o th ddigoſaint. Ag er darſod i ni gaſhau'r goleui, o herwydd bod ein gweithredoedd yn ddrwg, etto O Arglwydd, na wnâ i ni rodio mwyach mewn tywyllwch trwy gymmeryd ymmaith y goleuni oddiwrthym, ond bydded iddo barhau i lewyrchu nes iddo gyfarwyddo ein traed ni i ffordd tangnheddyf. O Arglwydd, Cyſot, gwiſc dy nerth, a thyred i'n hachub ni, ag na ddyro enaid dy durtur *(yr Eglwys ymddifad hon)* i lû y gelynion, ond cymmorth hi, O Dduw, a hynny yn dra-buan. Ond os darfu i'n gwrthryſelgarwch ni, O Arglwydd, dy annog cymmhelled i ddigoſaint, ag y bydd rhaid i'r *Arch grwydro yn yr anialwch nes ddifa'r holl genhedlaeth rwgnachus hon*, etto na ddarfydded am dani gydá ni, ond dŵg hi o'r diwedd i *Ganaan*, a gâd i'n heppil di-euog weled

yr hyn yn dy ſarn gyſiawn yr wyt yn ei neccáu i ni. Yn y cyfamſer, na pheidiwn ni ag wylofain am yr anrhaith a wnaeth ein pechodau, a meddwl am furiau *Sion*, a thoſturio ei gweled hi yn y llŵch, ag na bo byth arnom ni na chywilydd nag arſwyd ei chydnabod hi yn ei chyſlwr truanat a mwyaſ erlidus, eithr cyſrif gwradwydd Criſt yn fwy golud na thryſſorau'r *Aipht*, a dangos felly ein di-anwadalwch i'n Mam ofidus hon, fal y bô i'w Harglwydd bendigedig hi a'i Phen ein cydnabod ninnau yn drugarog pan ddelo ef yn dy Ogoniant di ei Dâd gyda'r Angylion Sanctaidd. Caniadhá hyn, drugarog Arglwydd, er mwyn yr unrhyw Jeſu Griſt. *Amen.*

Gweddi am heddwch yr Eglwys.

O Arglwydd Jeſu Griſt, yr ywn o'th holl alluogrwydd a wnaethoſt holl greaduriaid gweledig ag anweledig, yr hwn o'th dduwiol ddoethineb wyt yn llywodraethu ag yn goſod pôb peth mewn trefn ragorol, yr hwn o'th ddaioni annrhaethadwy wyt yn cadw, yn amddiffyn ag yn gwellhau pôb peth, yr hwn o'th anfeidrol drugaredd wyt yn atgyweirio'r llêſg, yn adnewyddu'r lluddedig, ag yn cyfodi'r meirw; rhynged ſodd i ti ó'r diwedd, ni attolygwn i ti, edrych ar dy anwyl Briod, yr *Eglwys*, a'r golygiad graſol a thrugarog hwnnw yr hwn ſy'n tangnheddyſu pôb peth yn y Nêf a'r ddaiar, a pha beth bynnag ſydd uwchlaw'r Nêt, a than y ddaiar: bydded yn wiw gennit edrych arnom ni a'r golygon tyner toſturiol hynny a'r rhai yr edrychaiſt unwaith ar *Petr*, Bugail mawr dy *Eglwys*, ag yn ebrwydd efe a atgofiodd ag a ediſarháodd; a'r golygon hynny yr edrychaiſt ti unwaith ar y lliaws gwaſcaredig, ag y toſturiaiſt wrthynt am ei bód yn crwydro o eiſieu bugail dâ fal defaid ar waſgar ag ar gyfeiliorn. Ti a weli (o fugail dâ) pa amryw rywogaethau o fleiddiaid a dorraſant i'n corlannau ni; yn gymmaint a phe bydde poſſibl y cyfeiliornei y rhai perffaith: Ti a weli a pha ryw wyntoedd, a pha ryw Donnau a thymheſtloedd y mae dy long wael di yn bwhwmman, dy lynges honno ymmha un y mae dy braidd bychan di mewn perigl o

foddi

foddi. A pha beth ſydd yn awr i'w ddiſgwyl ond ſuddo o honi yn hollawl a darfod am danom ni oll? I'n hannuwioldeb a'n buchedd ddrŵg ein hunain y mae i ni ddiolch am y dymmheſtl a'r derfyſg hon, yr ydym ni yn dirnad hynny yn ddà ag yn cydnabod, yr ŷm yn dirnad dy gyfiawnder di, ag yn ymoſtidio am ein anghyfiawnder ein hunain: Ond yr ydym yn appelio at dy Drugaredd di yr hon ſydd yn rhagori ar dy holl weithredoedd; ni a ddioddefaſom yn awr lawer o goſpedigaeth, gwedi ein ffangellu a chymmaint o Ryfeloedd, gwedi ein difetha a'r cyfryw golledion o'n dà, gwedi ein maeddu a chynnifer o lifeiriant, ag etto nid oes yr ùn Porthladd na noddfa yn ymddangos i ni, a ni yn flin ag yn lluddedig ynghanol y cyfryw ddrygau rhyfeddol, ond yr ŷm ni bob dydd etto yn ofni fod coſpedigaethau toſtach yn crogi uwch ein pennau. Nid ŷm ni, O Iachawdr graſuſol, yn cwyno yn erbyn dy greulonder di, ond yr ŷm ni yn hyn hefyd yn dirnad dy Drugaredd, yn gymmaint a darfod i ni haeddu pláau echryſlonach o lawer. Ond yr ŷm yn erfyn arnat ti, O Jeſu drugaroccaf, na yſtyriech ag na phwyſech di beth ſydd ddyledus yn ôl ein haeddiant, ond yn hytrach beth a weddai i'th Drugaredd di, heb ba un ni ddichon yr Angylion o'r Nef ychwaith ſefyll yn dirgl yn dy ŵydd di; llai o lawer y gallwn ni y rhai ydym leſtri gwael o bridd. Trugarhá wrthym, O Achubwr, yr hwn wyt hawdd iw eiriol, nid o ran ein bód ni yn deilwng o'th Dru aredd, ond dód ti y Gogoniant hwn i'th Enw dy huu. Na âd i'r rhai, naill ai nid ydynt yn dy adnabod ti, neu ſydd yn cenſigennu dy ogoniant, ymorfoleddu yn waſtad arnom, a dywedyd, Pa lè mae ei Duw hwynt, pa lè y mae ei Gwaredwr, pa lè y mae ei Hiachawdr, pa lè y mae ei Priod-fâb y maent yn ymffroſtio cymmaint o hono? Y mae'r geiriau gwradwyddus hyn yn cyfeirio attat ti. O Arglwydd, tra bo dynion yn meddwl am, ag yn rhoi braint ar, dy Ddaioni di wrth ein drygau ni, y maent yn tybied ein bod ni wedi ein gwrthod pan na welant monom yn gwellhau. Unwaith pan gyſcaiſt yn y llong, a phan gododd tymmheſtl

ddiſymmwth

ddiſymmwth yn bygwth marwolaeth i bawb yn y llong, ti a ddeffroâiſt ar groch-leſain *ychydig Ddiſcyblion*, ag yn ebrwydd ar dy oll-alluog air ſe dreiodd y dyfroedd, ſe oſtegodd y Gwyntoedd, a'r dymmeſtl yn ddiſymmwth a drowyd yn dawelwch mawr; y dyfroedd mudion a adnabuant lais ei Creawdr. Yn awr yn y dymmheſtl fawr hon, ymmha un nid oes yn unig lawer o Gyrph, ond aneirif o Eneidiau dynion hefyd mewn perigl, yr ŷm ni yn attolwg i ti ar groch-leſain dy Sanctaidd Egliwys, yr hon ſydd mewn perigl o foddi, ddeffro o honot. Llawer miloedd o ddynion ſydd yn gwaeddi, achub, Arglwydd, neu ſe addarſu am danon; y mae'r dymmheſtl tu hwynr i allu dŷn; dy air di yn unig a wneiff y gwaith; Arglwydd Jeſu, dywed yn unig a gair o'th enau, *Diſtawa*, O *Ddemmeſtl*, ag yn ebrwydd ſe ymddengys y *tawelwch* dymunol. Ti a ſuaſit yn gwared lawer o filoedd ddynion tra-phechadurus os cawſid ond deng-wr duwiol yn Ninas Sodoma: yn awr y mae ymma amryw filoedd o ddynion ſy'n caru gogoniant dy Enw, ag ſy'n ocheneidio am, brydferthwch dy dŷ, ag oni roddi di heibio dy ddigllonrhwydd ar weddiau y rhai hyn, a chofio dy hên arferol drugareddau gynt? Oni throi di ein hynſydrwydd ni trwy dy ddoethineb nefol i'th ogoniant dy hun? Oni throi di ddrygioni dynion anwir i ddaioni dy Eglwys? Oblegyd y Pryd hynny y bydd dy Drugaredd di fwyaſ arferol o gynnorthwyo, pan ſo'n peth gyda nyni tu hwynt i bôb Diwygiad, a phan na ddichon na Gallu na Doethineb dynion mo'i luddias. Tydi yn unig wyt yn dwyn pethau a ſo ymmhell iawn allan o dreſn i dreſn drachefn, ag wyt yn unig Awdwr a chynnhaliwr Tangnheddyf. Tydi a ffurfiaiſt yr hên annrheſn honno lle yr oedd anghydſyniol hadau pethau heb ffurf na llûn yn gorwedd yn ddi-dreſn, a thrwy dreſn tyſeddol a gyſſyltaiſt mewn rhwymyn ddi-dorr y pethau trwy natur oeddynt yn ymraſaelio a'i gilydd. Ond pa faint mwy Annhreſn yw hon, lle nid oes dim caredigrwydd, dim ffyddlondeb, dim rhwymau cariad, dim Parch nag o Gyfreithiau nag o Lywodraeth-wŷr ychwaith, dim cyd-ſyniad meddyliau,

yliau, ond pôb dŷn, megis mewn Côr heb dreſn, yn canu amraſael byngciau! Nid oes dim anghyſſondeb ymmyſg y Planedau Neſol, y mae'r Elementau yn cadw ei llê, pôb un yn gwneuthur y ſwydd a ordeinwyd iddo: Ag a oddefi di i'th Briod-ferch, er mwyn pa ûn y gwnaethpwyd pôb peth, ſal hyn ddarfod am dani trwy anghyttundeb gwaſtadol? A oddefi di i'r *Yſprydion drŵg*, y rhai ydynt wneuthur-wŷr ymryſſon, lywodraethu ſal hyn yn dy Deyrnas yn ddi-gerydd? A oddefi di i gadarn Dywyſog drygioni, yr hwn a orchfygaiſt unwaith, etto oreſgyn dy Werſyllau, ag anrheithio dy fil-wŷr? Pan oeddit ti ymma yn ddŷn a'th ymarweddiad ymŷſg dynion, ar dy air di ſe ffôdd y cythreuliaid. Anſon allan, ni attolygwn iti, dy Yſpryd, yr hwn a ddichon ſwrw allan o galonnau y rhai oll fy'n cyffeſſu dy Enw di yr Yſprydion drŵg, meiſtraid trythyllwch, cybydd-dra, gwag-ogoniant, trachwant cnawdol, drygioni, ag amryſuſedd. Creâ ynom ni, O ein Duw a'n Brenin, galon lân, ag adnewydda dy Yſpryd Sanctaidd o'n mewn, ag na chymmer dy Yſpryd glan oddiwrthym. Dôd i ni etto lawenydd dy iechydwriaeth, ag a'th Yſpryd arbennig cadarnhâ dy Briod-ferch a'i Bugeiliaid. Trwy'r Yſpryd ymma y cymmodaiſt ti bethau daiarol a phethau neſol: Trwy hyn y ffurfiaiſt ti ag yr ail-ddychwelaiſt gynniſer o Jeithoedd, o Genhedloedd, a chynniſer o rywogaethau o ddynion i ûn Corph yr *Eglwys*, yr hwn gorph trwy'r unrhyw Yſpryd a gyſſylltir a thydi ei Pen. Os rhynga fodd i ti adnewyddu'r Yſpryd hwn ynghalonnau pawb, yna y derſydd am yr holl drueni dieithrol hyn; ag onid ê, nhw a ddychwelant i fûdd a llês y ſawl a'th garant di. Attal yr annrhefn hon, goſod y dyſyſgi echryſlon hon mewn treſn, (O Arglwydd Jeſu) ymyſtynned dy Yſpryd ti ar y Dyſroedd hyn o feddyliau drwg troſâus. Ag oblegid fod gan dy Yſpryd ti, yr hwn (fal y dywed y Prophwyd) ſydd yn cynnwys pôb peth, gyfarwyddud-ymadrodd hefyd; gwnâ, megys ag y mae i bawb o'th deulu di ûn goleuni, ûn Bedydd, ûn Duw, ûn Gobaith,

ûn

ûn Yſpryd, felly fod ganddynt hefyd ûu Llais, ûn Pwnge, ûn Gân yn cydnabod ûn gwirionedd gyffredinol. Pan ddercheſaiſt yn ſuddugoliaethus i'r Nefoedd, ti a fwriaſt i lawr oddi uchod dy bethau gwerthfawr, ti a roddaiſt roddion i ddynion, ti a ddoſparthaiſt amryw wobrau dy Yſpryd. Adnewydda oddi-uchod dy hên gymmwynaſgarwch, a dyro'r ûn peth i'th *Eglwys*, a hi yn awr yn lleſgan ag yn gogwyddo i lawr, ag a roddaiſt iddi pan oedd hi yn blaen-darddu ar ei dechreuad. Dyro râs i *Dywyſogion* a llywiawdwŷr felly i'th ofni di, fal y bô iddynt hwy lywodraethu y Wladwriaeth, megis rhai ſydd raid iddynt ar fyrder roddi cyfrif i ti yr hwn wyt Frenin y Brenhinoedd. Cynnorthwya hwynt yn waſtad a doethineb, fal y bo iddynt ddirnad yn ei meddwl, a dilyn yn ei gweithredoedd y peth ſydd oreu i'w wneuthur. Dyro i'r Eſgobion y dawn o brophwydoliaeth, fal y bô iddynt yſpyſu a deonglu'r Scrythur lân, nid o'i ſynwyr ei hunain, ond o'th yſprydoliaeth ... Dyro iddynt y Cariad tair-dyblig hwnnw y bueſt ti unwaith yn ei ofyn gan *Pedr*, pan oeddit yn gorchymyn iddo ymgeledd dy braidd. Dyro i'r *Offeiriaid* garu ſobrwydd a Diweirdeb. Dyro i'th *bobl* ewyllys hylaw i ddilyn dy Orchymynion di, a pharodrwydd i ufuddhau'r cyfryw rai ag a ordeiniaiſt ti troſtynt. Felly y digwydd, os bydd i'th *Dywyſogion* trwy dy Râd ti orchymyn yr hyn yr wyt yn ei ofyn, i'th *ſwgeiliaid* ddyſcu'r unrhyw, ag i'th bobl ufuddhau pôb ûn o honynt, y dychweliff draeheſn hên Urddas, a llonyddwch yr Eglwys mewn trefn ragorol i ogoniant dy Enw. Ti a arbedaiſt y *Ninifeaid* a ordeinwyd i ddiniſtr cyn gynted ag y dychwelaſant attat ti trwy Edifeirwch; ag a ddirmygi di dy Dŷ ſydd yn ſyrthio i lawr wrth dy draed, yr hwn yn llê ſach-liain ſydd gantho Ocheneidiau, a dagrau ny lle llydw? Tydi a addewaiſt faddeuant i'r ſawl a ddychwelant attat ti, ond dy Ddawn di yw'r peth hyn, ſef, dychwelyd o ddŷn a'i holl galon attat ti, er mwyn i'n holl ddaioni ni droi i'th ogoniant di. Tydi yw'r *Creawdwr*, atgyweiria'r gwaith a luniaiſt. Tydi yw'r *Gwared-wr*, achub yr hyn a brynaiſt. Tydi yw'r *Iachawdr*, na âd iddynt hwy fod yn golledig y rhai ſy'n ymddiried ynot. Tydi yw'r *Arglwydd* a'r Perchennog-wr, cleimia dy aelodau. Tydi yw'r *Pen*, cynnorthwya dy aelodau. Tydi yw'r *Brenin*, gwna i ni berchi dy Gyfreithiau. Tydi yw'r *Tywyſog Tangnheddyf*, anadla arnom ni gariad brawdol. Tydi yw y *Duw*, trugarhâ wrth dy attolyg-wŷr goſtyngedig; bydd di, yn ôl ymadrodd S. *Paul*, Pôb peth ym mhawb, er mwyn bod i holl Gôr dy *Eglwys* di ag ûn meddwl ac ag ûn lleferydd roddi dioloh am y drugaredd a ddetbyniaſant i'r Tâd, i'r Mâb, ag i'r Yſpryd glân, y rhai yn ôl yr Eſampl berffeithiaf o gyfundeb a wnahanredir ym mhriodoldeb Perſonau ag yn ûn mewn natur, i'r hwn y bo'r Moliant a'r gogoniant yn dragywyddol. *AMEN.*

TERFYN.

